

AWDUR Y BEIBL

R.M. JONES

**i goffáu agor canolfan ymwelwyr yn 2014 yn Llanycil
ar ddeuganmlwyddiant marw Thomas Charles o'r Bala
ac i fawrygu'i waith yn sefydlu Cymdeithas y Beiblau yn rhyngwladol,
drwy ysgogiad hanes Mary Jones o Lanfihangel-y-Pennant.
Hyfforddwyd Mary i ddarllen y Beibl mewn un o ysgolion Thomas Charles,
ac yna cerddodd hi 25 milltir o'i chartref i brynu copi o argraffiad 1799,
o'i chynilion. Cedwir hwnnw bellach yn Archifau'r Gymdeithas ym Mhrifysgol Caergrawnt.**

2014

CYNNWYS Y GYFROL

<i>RHAGAIR</i>	4
<i>DAU RAGOSODIAD LLENYDDOL</i>	
<i>I Paradocs</i>	6
<i>II Troadu</i>	
Nod y Llythrennol	21
Mawrygu	31
Y Cyswllt	33
Genesis	36
Myth yr Osgoi	47
Y Tramgwydd	54
Paradocs mewn Troad	57
Enghraifft yr Oen	59
Iesu'n troadu drwy Ddameg	62
Cynllun yr Astudiaeth	65
RHAGYMADRODD	76
YR YSBRYD GLÂN: sef YR AWDUR SY'N AWDURON	
Dehongli'r Awduraeth	77
I DEUNYDD	101
Hanes	102
Dadnatorioli Deunydd	109
Y Ddameg a Theyrnas Dduw	111
Themateg y Deyrnas yn Ddeunydd	113
Deddf: Cynnwys Mawl	119
Deddf Moses a Duw	122
Deddf a Gras	126
Pechod a Gras	127
Personol yw'r Deunydd	129
Y Gwirionedd yw'r Deunydd	132
Yr Amddiffyniad a geir i'r Naturiol Llythrennol	138
Imago Dei	139
Thema'r Naturiol: Y Gorchymyn Diwylliannol	141
Themateg	145
Thema'r Goruwchnaturiol: Gogoneddu	148
II FFURF	153
Undod Llyfr y Beibl	155
Undod Testamentau	157
Undod yr Awdur	162
Prosiect yr Ysbryd Glân	167
Canon	170
Llenddulliau	184
Hanes	184

Proffwydoliaeth	194
Deddf	200
Llythyr (a Dadleuon)	205 (207)
Cyffes	209
Prydyddiaeth	211
III CYMHELLIAD	221
CYMHELLIAD A. SEF TYSTIOLAETHU	223
BOD: Synnwyr o Dduw	232
Cydwybod	248
Creadigaeth	264
DUW'N GWNEUD (<i>Anffaeledig</i>)	
Beibl	282
Mab	300
Ysbryd Glân	310
Y BOBL YN GWNEUD (<i>Ffaeledig</i>)	
Yr Eglwys	327
(Proselytio)	
Diffinio Eglwys	334
Cenhadu	341
Concwest Newyddiadurol	346
Cyfanrwydd Mewn Cenhadu	350
CYMHELLIAD B. SEF GOGONEDDU	361

Ystyriaf fod yr astudiaeth efengylaidd ddiweddar o'r Beibl wedi codi ar ôl dau fudiad gwrthwynebol. Yn gyntaf, ers y ddeunawfed ganrif teimlid min yr elyniaeth o du Positiffiaeth Resymegol. Yr oedd culni'i Naturiolaeth, er dyfned oedd yn y meddwl rhyddfrydol, wedi methu'n llwyr, fel y cawn weld ymhellach ymlaen. Fe'i gwrthodwyd yn ddiweddar hefyd gan fudiad seciwlar grymus a dreiddiodd yn annelwig drwy'r cyfryngau a'r gymdeithas: sef Ôl-foderniaeth. Dyma mewn gwirionedd ffasiwn Afreswm yn disodli ffasiwn Rheswm. Mae eisiau ateb y ddau bwyslais.

Mae'r gyfrol hon yn rhan o symudiad diweddarach byth a ddaeth ar ôl prif wth Ôl-foderniaeth. Fel yr oedd Ôl-foderniaeth a'i Hafreswm a'i Relatiffwydd a'i Haml-ffydd a'i damweiniau yn ymwrthod â chulni amhersonol Rheswm naturiol a Phositiffiaeth, felly y daeth yn amser i ystyried pam y mae'r Beibl eto wedi gallu codi'r ail waith mewn cyfnod diweddarach. Beth yw'r gwydnwch tragwyddol ynddo sy'n gorchfygu pob ffasiwn?

Yr wyf wedi manteisio ar genhedlaeth o ddiwinyddion efengylaidd diweddar. Dyna'r rhai sydd wedi dangos fel y mae amgylchiadau seicolegol, hanesyddol a chymdeithasol, ynghyd ag archaeoleg a thestunoldeb wedi gallu ailgadarnhau anrhydedd yr ysgrythurau. Eto, nid dyna a wneir gennyf i yn y gyfrol hon. Gwn fod llu o ysgolheigion efengylaidd heddiw wedi gallu gwneud yr adfer diweddar hwnnw eisoes yn ardderchog. Codasant gyda chraffter amgenach, yn genhedlaeth werthfawr ar ôl y methiant gan Bositiffiaeth Resymegol, drwy wynebu rhagdybiau gwrth-oruwchnaturiol. Daethant hwy ar ôl y bodlonrwydd cyflym gan y rhyddfrydwyr i hel gwallau tybiedig. Cafwyd gormod o frys gynt i dderbyn tanseiliadau wedi'u sylfaenu ar waith rhy arwynebol. Oherwydd poblogrwydd rhyddfrydiaeth ddiwinyddol am resymau cnawdol, buwyd yn rhy barod i gefnogi pob dadwalluso blêr. A'r dyddiau hyn buwyd, drwy ras, yn ailsefydlu awdurdod gwefreiddiol y Beibl o'r newydd gan lawer un. Aeddfedodd ysgolheictod efengylaidd cyfoes.

Bu angen cywiro positiffiaid rhesymegol yn o drwyadl. Bu angen herio'u ffiniau. Bu'n rhaid ailymweld â mater y Goruwchnaturiol. Bu angen hefyd ailfeddwl y parch at reswm o fewn cyd-destun mwy gostyngedig. Hynny yw, derbynnir bellach, fel erioed, lawer o ragdybiau rheswm gras cyffredin, a cheisio esbonio'r parch Beiblaidd at hynny. Gobeithio fy mod wedi cynnwys yr agwedd honno yn y gyfrol hon. Ond nid hyn a'm prociodd i lunio'r gyfrol, ac nid dyna sy'n cyfrif amdani. **O fewn y cyd-destun sy'n olynu'r gwrthodiad hwyrffrydig i Bositiffiaeth Resymegol, a olynwyd gan wrthodiad i Ôl-foderniaeth, yr ysgogwyd rhagdybiau a dadleuon cyffredinol cenhedlaeth arall, a chyda hwy y carwn osod yr ymdriniaeth hon, ac yn wir yr ymdriniaeth arall ar Bantycelyn cynt, sef *Y Cynllun sy'n Canu*.** Yr un yw eu cymhelliad a'u cenadwri ill dwy. Y "darlun mawr" pellach ac olynol os mynnir. Lle yr oedd y genhedlaeth a atebai'r Positiffiaid yn

dangos annigonolrwydd yn eu rhesymu, yr wyf innau bellach yn mynnu ateb yr Afresymwyr.

Yn fy mryd i, wynebwn, mewn Ôl-foderniaeth, symudiad seicolegol, llenyddol, ieithyddol a diwinyddol newydd ym marn gyffredinol y gymdeithas, a hynny wedi Positifiaeth. Crynhowyd hynny yn anad unlle mewn Beirniadaeth Lenyddol, o leoedd y byd. Tybiai'r Ôl-fodernwyr rhwng 1975 a 2014 fod ganddynt neges relativ a ffres a oedd yn ymwrthod â hen drefn a sefydliad, gyda phob rheswm ac absoliwt, pob gwerth a chyfanrwydd. Hynny a wnaed, fel pe bai oll ar lefel ddeallol. Ac yr oeddent yn gynnyrch treiddiol. Yr oedd syniadau o du hen gaseg Beirniadaeth Lenyddol, am y tro cyntaf yn ei hanes, wedi lledu eu dylanwad od ar draws disgyblaethau anwyliadwrus eraill, ac wedi dod yn hysbys ac yn fwy dylanwadol yn y byd deallol.

Dan gysgod nos, hefyd, cafwyd ar lefel arall ormes y Poblogaidd, yr Ysgafn, a'r Arwynebol disylwedd. Dyna'r Sefydliad gwleidyddol newydd ledled y byd. Cododd oherwydd diogi deallol a gwanc ariannol. Yr oedd y cyfuniad amheuthun hwn o Ôl-foderniaeth a Bri ysgafn yn unbenaethol i 'sound-bites' gwan. Trwy ymwrthod â nerthoedd traddodiad cyfoethog, llwyddwyd i orseddu ffasiynau'r arwyneb yn Rym ymhobman gan gynnwys yr eglwysi. Wrth gwrs, erioed yn yr eglwysi ceid bygythiad cyson a gormesol gan ragrith a gorbarchusrwydd a marwoldeb diddychymyg a diogi ysbrydol i fod yn atalfa i ffyddlondeb. Ac yr oedd llawer o'r eglwysi a arhosai ar ôl y Dirywiad ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn archolladwy gerbron y fath Chwalfa aruthr. Teneuwyd meddwl.

Dyma'r amgylchfyd i'r gyfrol bresennol, sy'n mynd i gyfeiriad 'llenyddol'. Hyn sy'n cyfrif am swyddogaeth y ddwy bennod gyntaf. Y maent yn ceisio cyflwyno'r gogwydd i'm hateb i hen ragdybiau Positifiaeth ac Ôl-foderniaeth, a alwaf yn ymhongar yn 'Ddarlun Mawr'. Mae'n wir fod y gyfrol yn dymuno gwneud arolwg twt a threfnus sy'n ceisio disgrifio, orau y gallwn, y fframwaith triol, Deunydd, Ffurf, a Chymhelliad, i lenyddwaith yr Ysbryd Glân. Ond y mae'n dymuno gwneud hynny fel cenhadwr i ateb argyfwng cyfoes. Heb fod yn rhy negyddol yr un pryd, ac yn bennaf gobeithio, ceisir rhoi at ei gilydd gyflwyniad cadarnhaol, syml, amlinellol, o deyrnasiad yr Ysbryd Glân ym mywyd y Cristion tlawd. Ceisio egluro y mae'r nodyn hwn pam y rhagflaenwyd y Rhagymadrodd gan ddwy adran ragarweiniol sy'n ymhelaethu ar brif slent fy holl ateb i'r meddwl cymdeithasol sy'n ein hamgylchu y dyddiau hyn, un ar Baradocs a'r llall ar Droadau.

[Dymunaf ddiolch o'r galon y tro hwn i bedwar cefnogydd a chynheiliad a fu'n gymorth amhrisiadwy i mi gyda'r gyfrol hon: sef y tri glew, Philip Henry Jones a ofalodd yn ddiwyd dros ffaeleddau a chyweiriadau ac anghenion cyson y cyfrifiadur, David Gregory a ofalodd mor rhagorol dros y gwaith o dwtio a throsglwyddo hyn oll i'r wefan, a John Emyr a olygodd y gyfrol gydag amynedd a medr a chraffter yn wyneb llu aruthr o gyfeiliornadau (fi yn unig piau'r camgymeriadau oll a erys); ... ac yna'r bedwaredd, na chaf ei henwi.]

DAU RAGOSODIAD LLENYDDOL

1. PARADOCS

Wrth gymharu'r gyfrol ganlynol hon â chyfrolau eraill sy'n dehongli'r Beibl, gwelir mai'r gwahaniaethu mwyaf fydd, yn gyntaf, y pwyslais a rydd ar ei hyd ar Baradocs yn y Beibl, ac yn ail y math o le sydd i'r Ysbryd Glân fel arweinydd arwyddocaol i'r testun – ynghyd â'r awduraeth ddynol, wrth gwrs. Gobeithio y gallaf osgoi bychanu'r gwerthfawredd i'r awduraeth gyfryngol ddynol honno a arweiniwyd gan yr Ysbryd.

Fy mwriad yn y rhagair hwn yw trafod dau o'r dulliau sylfaenol os rhyfedd o ysgrifennu a geir yn y Beibl – sef paradocs a throadu. Maent mor sylfaenol nes eu bod yn cyffwrdd â phob rhan o'r Beibl, er mai ychydig o sylw a gânt gan yr adain efengylaidd ymhlith ein heglwysi. Gan mai'r adain efengylaidd sydd fel arfer yn rhoi'r parch a'r sylw mwyaf i bwysigrwydd y Beibl, y mae'r anniddordeb yn y cyfeiriad hwn yn golled. Ar ryw olwg, credaf y gallaf ddangos bod y ddau fater hyn yn amodi cymaint o'r Beibl ar ei hyd nes bod mawr angen ystyried o'r newydd beth yw eu harwyddocâd i'n diwinyddiaeth yn gyffredinol. O leiaf, maent yn amodi'r dull y cynhelir thema'r ddadl drwy gydol y gyfrol bresennol; a gosodir trafodaeth gryno gyflwyniadol ohonynt hwy yma ar y dechrau. Dangosant mai gormes y Naturiol yw un o'r rhwystrau pennaf i Ddeall.

Ychydig o sylw uniongyrchol a gafodd paradocs erioed gan Ddiwinyddiaeth, ac y mae troadu – er cydnabyddiaeth agored ohono gan efengyleiddwyr – yn cael ei ystyried gyda chryn ddôs o amheuaeth weithiau. Gwiw yw inni wynebu'r ddwy ddullwedd hyn gyda llawer o ofal, a hyd yn oed amheuaeth. Ond mae Awdur y Beibl yn ysgrifennu bron y cwbl o'i waith ar ffurf paradocsau a throadau. Mae amllder y pethau hyn yno yn ein dallu i'w presenoldeb. A chymryd y Beibl at ei gilydd, nid yw'n ymatal byth rhag yr arferiadau hynny. Ceisiaf esbonio pam yr oedd hyn yn angenrheidiol iddo, a pham y mae angen gofal.

Perthyn y ddwy ddullwedd hyn i'r ffordd ganolog y mae'r Ysbryd Glân yn adeiladu meddylfryd y Gair yn y Beibl. Ei waith penodol oedd dweud y Gwir. Os caf ddiffinio: mynegiant o Wirionedd oedd y ffurf lenyddol 'paradocs' iddo sy'n ymddangos fel pe bai'n groes i wirionedd ein synnwyr cyffredin ni, er mor fuddiol yw hwnnw yn ein bywyd. Mae Gair Duw, yn rhyfedd iawn, fel petai'n croes-ddweud yr hyn a ddisgwylir yn 'naturiol' gan bawb arall. Ac mae angen ateb y cwestiynau 'Sut' a 'Pham' yn bur araf. Dweud y Gwir yw bwriad yr Awdur wrth gwrs. Dyma'r rhagosodiad diwinyddol. Ond y mae hyd yn oed Duw ei hun yn ei egluro'i hun yn y Gair hwnnw mewn iaith ar ffurf 'Paradocs'. Dichon fod yr esboniad am y dieithrwech hwn yn tarddu o ffurf Duw: *Un yw'r Ysbryd Glân sy'n un o'r Tri-yn-Un*. Mae hyn yn gwbl groes i bob dealltwriaeth 'synnwyr cyffredin'. Ymddengys yn amhosibl. Efallai fod Frame yn rhy syml pan ddywed: 'There is no more

contradiction here than if someone were to say that Abraham Lincoln had two arms but only one heart.' Yr oedd y cwbl o'r Drindod yn Un sylwedd neu hanfod, ac eto yr oedd ynddi Dri pherson. Tri pherson sydd hefyd, bid siŵr, i ffurf y Rhagenw mewn Gramadeg, a hynny i ddisgrifio un person. Mae'n wir fod a wnelom â Bod goruwchnaturiol yn y Beibl; ond y mae pobl ddigon syml ers tro wedi gallu amgyffred digon am athrawiaeth gymhleth fel hon i'w derbyn yn eu calonnau: y Tad cariadus, y Mab a anfonwyd, a'r Ysbryd Glân sy'n symud yn anweledig i ddwyn bywyd effro i ddyn; a'r Tri hyn yn Un. Mewn gwirionedd, gŵyr y Cristion fod Duw pan fo'n ymddangos drwy'r Ysbryd Glân, drwy drugaredd, yn goleuo anawsterau o'r fath i'r tlotaf a hynny hyd yn oed drwy'r Gwir cyfoethocaf. Nid y Duwdod yn unig, yr unig wir Dduw, yw'r unig Un sy'n ymddangos ar ffurf Amryw, neu'n gallu ymddangos y tu hwnt i un synnwyr unplyg. Mae arwr Hanes y Beibl, sef Iesu Grist, yntau ei hun yn Baradocs mewn llawer o ffyrdd, o ran ei Berson i ddechrau: crybwyllaf rai:

Mae'n Dduw ac yn ddyn;

Mae'n dragwyddol ac yn dymhorol;

Mae'n hollbresennol ac yn gyfyngedig ei bresenoldeb;

Mae'n Dduw Cariad ac yn Dduw Barn;

Mae'n Benarglwydd ar y Greadigaeth, ac yn cael ei eni yn llaca'r beudy;

Mae'n dewis dioddef a marw er mwyn i bechaduriaid fyw'n ddiderfyn;

Mae'n marw ond yn atgyfodi o'r meirw.

Dyna ddechrau yn unig. Fe wêl pob Cristion fod pob un o'r gosodiadau paradocsaidd hyn yn gwbl ganolog yn y Beibl, ac eto y mae pob un ohonynt yn groes i'r synnwyr cyffredin yna sy'n bwysig i bawb ohonom. Collasom i raddau y gallu i ymateb i Baradocs, a cholli'r rheswm pam.

Dyma rai yn unig o'r paradocsau goruwchnaturiol y mae Awdur y Beibl yn eu cyflwyno am berson Iesu. Ond o fewn ei waith o bregethu, ceir amlder o themâu sy'n ymestyn y tu hwnt i'r Naturiol. Mae'r prif bwnc cyffredinol yn Ei bregethau yn ddisgwyliedig efallai, sef y testun a gyhoedda yn ei bregeth gyntaf (yng Ngalilea: Marc 1:14-15; Luc 4:13-19): fod Teyrnas Nef wedi cyrraedd; oherwydd pregethu y mae i gyflwyno'i ymddangosiad ei hun. Ond annisgwyl ddigon yw'r Cynnwys amrywiol hwnnw wedyn. Mae Teyrnas Dduw yn agos, am fod y Meseia, neu'r 'Brenin pell hollalluog' paradocsaidd i honno, bellach ei hun wedi dod yn agos. Mae'n wir nad y math o Feseia a'r math o Deyrnas a ddisgwyliai llawer o'r Iddewon a Herod Fawr drwy Ryfel a Chonwest y canrifoedd oedd ei Deyrnas dangnefeddus a chariadus ef. Mae'n wir ei fod yn y fan hon yn mawrygu'r tlodion yn hytrach nag yn aruchelu cyfoeth a grym. Ond disgwyliant hwy bron i gyd ar y pryd ryw fath o Deyrnas 'y byd hwn', teyrnas go iawn, heb sylweddoli mai paradocs anghysurus oedd yn mynd i fod. Teyrnas yw honno sydd oherwydd y Cwmp yn un gwbl annisgwyl. Dyma ddatguddiad Iesu. Ni ddylai fod yn amhosibl i wyddonydd hyd yn oed amgyffred fframwaith cyson

paradocs o'r fath. Pan fydd gwyddonydd naturiol yn mynd ati i chwilio am ryw wirioneddau materol newydd, gall wneud hynny ar y dechrau drwy anwybodaeth am y diwedd. Cyn ateb ar y dechrau, mae'n disgwyl o raid y gallai gael ateb maes o law ar y diwedd sydd yn annisgwyl neu'n anweledig ar y pryd. Felly'r Cristion mewn dimensiwn arall. Gŵyr nad oes ganddo hunanlywodraeth ar ei wybodaeth, a bod Duw ar yr ochr arall yn hollalluog, hyd yn oed drwy'r anwybodaeth ddynol. Ni all Cristion ddibynnu ar ei reswm cul naturiol; ond nid yw o raid yn amau Duw, ac y mae gan Hwnnw ffordd lawnach i ddatguddio pethau. Eithr pur annisgwyl yw'r Deyrnas a ddadlennir iddo. Pan ddywed Iesu mai '*Hedyn Mwstard*' o *Deyrnas fyddai Teyrnas Dduw* (Luc 13:18), mae ein clustiau'n codi efallai. Ond fel yna y mae'r syniadau a'r hanes a'r pwrpas sydd ganddo benbwygilydd yn y Beibl ar ffurf paradocsau diymatal. Ymddengys llawer o'r mynegiant yn chwithig. Bydd y dyn naturiol arferol heddiw o ran greddf yn ei 'ddiniweidrwydd' fel pe bai am i'r gwir gael ei ddweud yn rhyddieithol gyffredin. Dyna gyfyngiadau tybiedig gwyddonydd cyffredin. Ond nid dyna'r dull a ddewisai'r Ysbryd Glân. Does dim cyfaddawdu yn yr adroddiad a rydd y Llyfr a ddisgrifir yn yr astudiaeth hon. Disgwylia rhywun efallai rywsut y bydd wedi'i fwriadu i fod yn 'wir' yn y dull arferol. Ac ni buasai'r dyn cyffredin ddim yn reddfol yn disgwyl i'w ddull ef o weithredu fod yn wahanol iawn i'r ffordd ddynol normal o ddeall. Wele baradocs y Beibl yn ymddangos ger ein bron o hyd fel pe bai'r byd yn bodoli wyneb i waered o ddieithr. Allwn ni ddim o'i amgyffred yn union fel yna, meddwn. Rhaid i ni fynd i gywair meddwl goruwch y naturiol.

Enghraifft seml o hyn fu paradocs a dameg 'Teyrnas Nefoedd fel Hedyn Mwstard'! Ond y mae holl ddamhegion yr Arglwydd Iesu'n baradocsau nid annhebyg. Un enghraifft yn unig fu honno yn disgwyl am gymheiriaid. Yn y fan hon y mae'r Awdur yn esbonio'n syml beth yn union yw *Teyrnas Nefoedd* wrthym ni yn gyffredinol. Teyrnas od yw, mae'n ymddangos. Rŷm ni'n deall eisoes, meddwn, beth yw Teyrnas go iawn. Dyna yw gwlad annibynnol a Brenin arni. (Datblygodd y gair Cymraeg 'Teyrn' fwyfwy ar un adeg i olygu Teirant.) Mae'r Deyrnas hon, dybiem ni, am fod yn gryf o ran llywodraeth. Y mae ei Brenin yn siŵr o ddymuno iddi fod yn fawreddog, debyg, yn urddasol, o leiaf yn barchus rymus. Ac yn sicr, pe baem ninnau'n sôn am '*Deyrnas Nefoedd*', byddem yn disgwyl i'w Deyrnas Ef, Teyrnas Dduw, ein syfrdanu ni oherwydd ei nerth a'i hyd a'i lled. Ond Hedyn Mwstard! [Dyma fi, yr union eiliad yma, yn derbyn, ar fy nghyfrifiadur, lun lliwgar o breseb seml yn llawn gwellt a neges oddi wrth fy nghyfaill Walter Hirtle: 'Dyma "King Size" Bed, a diolch am y baban a gysgodd ynddo.' Mae'n Nadolig.] Ble mae'r synnwyr? Pam y mae Duw yn dewis bod yn groes i synnwyr? Neu onid yw synnwyr cyffredin dyn bellach yn groes i synnwyr Duw? Y Gwir yw bod cwmp dyn wedi troi gwerthoedd a dealltwriaeth ysbrydol wyneb i waered. Nid oes normaliaeth ddwyfol i'w chael gan ddyn. Digwyddodd rhywbeth newn Hanes. I'r dyn cyffredin mwyach, y mae'r hyn sy'n synnwyr i Dduw, ac yn norm yn Ei fryd ef, wedi mynd

oddi ar ei echel gan ddyn. Hynny yw, y mae mor ddieithr i gyflwr dynolryw, nes ei fod yn ymddangos yn gwbl groes i'r hyn sy'n synnwyr cyffredin. Ond paradocs mwyach fydd pob gwirionedd gan Dduw yn neall cyfyngedig pobl. Hyn yw ei wir Ef. Hynny yw, nid paradocs dyn yw paradocs i Dduw, ond gwirionedd plaen a syth. Dyn sydd wedi'i ddrysu. I Dduw, y mae holl baradocsau croes y Beibl yn ffeithiau nerthol, cywir, syth. Ond nid i ddyn syrthiedig.

Mae'n wir mai 'paradocs' yw 'paradocs' i ddyn; ond dealla Duw felly hefyd. Mae Duw'n dymuno cyfathrebu â ni mewn modd ystyrion. Ond ceisiwn ystyried yn y man fod rhai pethau, sy'n baradocsau i ddynion yn synnwyr syth hefyd i Dduw. Eto, cawn weld sut y trowyd gwastad y dyn iach rywsut beniwaered. Un o'i brif ddatguddiadau i ni yw mai Duw goruwchnaturiol yw.

Hyn gredaf i a fydd yn esbonio hefyd *pam* y mae paradocs yn norm i'r Beibl ac yn angenrheidiol. Fel yna, bob cam, y mae deall byd *syrthiedig* lle y bo'r Duw gwir a chariadus, sy'n rheoli, am siarad â ni yn y fath fyd o fewn *fframwaith dwyfol* hefyd sydd *heb* fod yn syrthiedig. Does dim dewis: os ydym am amgyffred natur y gwir yn y Beibl, rhaid inni dderbyn y ffordd a ddewiswyd yn ddilychwin gan yr Ysbryd Glân i'w ysgrifennu. Paradocs yw'r fframwaith i'r cwbl. Mae Duw yn ein gorfodi ni i feddwl mewn modd annisgwyl, mewn modd mwy na natur gyffredin.

Hanes Teyrnas Ddiderfyn y Greadigaeth oll a'i Brenin Tlawd yw'r Beibl. Hanes Un Crëwr sy'n Dri-yn-Un, ac sy'n adeiladu, er Ei Ogoniant, ddaear a ddô'n drwyadl bechadurus oherwydd balchder gweithred elyniaethus yr arwr arni, sef dyn. A Hanes paratoi un genedl a wneir, – paradocs o wlad, – i fod yn dderbynfa i Fab Duw. Clywn am y Duw yno'n awr yn dewis adeiladu'r genedl fwyaf gwrthun a di-sut ei harweinwyr a fu ar Ei blaned ef erioed – ei genedl etholedig ef – ac yn ei pharatoi i'w anrhydeddu Ef (yr Un sydd gyda llaw o hyd yn Dri-yn-Un) yn Waredwr. Dacw'r arweinwyr yn y genedl honno'n 'disgwyl' – yn bechadurus ond yn normal – am gael Gwaredwr addawedig i'w Deyrnas, yn brif arwr corfforol (cnawdol yn wir). Buwyd yn disgwyl amdano ers miloedd o flynyddoedd. Ac wele hwnnw felly, ymhen hir a hwyr, y Duw-ddyn, yn gorfforol yn wir, yn cael ei eni i Wry o bethau'r byd. Ond os oedd Israel ddewisedig – mor nodweddiadol – yn disgwyl iddi gael ei hachub, a'i rhwygo'n rhydd, oddi wrth yr ymerodraeth fwyaf dylanwadol a welodd y byd erioed, yr hyn y mae Duw ei hun wedi'i gynllunio yw i'r Brenin hwn farw ei hun ar y Groes. Hyn fyddai canol y Beibl, y farwolaeth hon, y fuddugoliaeth. Ac fel y gwelwn, hyn fyddai prif ddigwyddiad Ei fywyd Ef ar y ddaear. Marwolaeth fyddai a roddai fywyd am byth i filiynau a fyddai wedi'u tyngedu i farw am byth.

Mae'r holl drefn hon yn cael ei holrhain yn yr Hen Destament yn broffwydol ac yn cael ei hesbonio ymlaen llaw. Hynny yw, ysgrifennir hanes y drefn cyn iddi ddigwydd. Ac eto, yr un pryd, mae'n gwbl annisgwyl wedyn, yn groes i ewyllys dynion, ac yn baradocsaid. Os caf ddweud, mae'n gwbl ben-i-waered i feidrolion. Mae'n groes i'r orfodaeth gan Natur.

Felly yr awn at yr Hedyn Mwstard hwn, y lleiaf o'r had y gwyddid amdano yn y Dwyrain Canol ar y pryd, llai na milimetr. Fe'i crybwyllid er mwyn ei gyferbynnu â had y prennau arferol. Ond yr oedd bywyd ynddo. Ac allan ohono y ddi cenedlaethau o ffrwytho. Bach oedd wrth gwrs, fel yr oedd angen i ddisgyblion hwythau fod, a dod allan o Grist, drwy blygu a bod yn ddistadl, megis rhywbeth tila. Ond mae ffydd yn tyfu (cf. Gal. 5:22; 2 Pedr 3:18; 2 Cor. 10:15), ac yn aeddfedu (Effes. 4:13 yml.), ac yn dwyn ffrwythau'r Ysbryd (Effes. 5:9; Phil. 1:11). Yr oedd yr hedyn yn ddirmygedig, wrth gwrs, hadau megis Athanasiws a Luther a'u Crist. Ymunai'r Groegwyr a'r Iddewon yn ei erbyn. Ond hwn a ddyrchafwyd yn llythrennol uwch pob dyn.

Cyffelyb yw'r Deyrnas i Surdoes (Luc 13:20, 21; Math. 13:33). Dyma hwn yn cysgu. Ond ychwanegwn ddŵr, a dyna'r surdoes yn deffro ac yn esgor ar fwrlwm. Er ei fod yn sylfaenol yn ddigon tila, mae'n anadlu i mewn ocsigen, fel y bydd Eglwys neu Dad neu berson yn ei wneud. Nis mesurir yn ôl ystadegau. Ond fel hyn hefyd y daw un glôb golau mewn ystafell dywyll i oleuo pobman. A heddiw mae yna fwy o Gristnogion yn y byd nag a fu erioed.

* * *

Yn y gyfrol *The Morning After, Attending the Wake of Postmodernism*, gol. Neil Brooks a Josh Toth, Rodoki, 2007, 285-301, y mae gan John D. Caputo, erthygl ar 'The Weakness of God: A Theology of the Event.' Mae ef yn trafod dyfyniad o Epistol Paul, 1 Cor. 25:27-28. Yn ei frawddeg gyntaf y mae'r beirniad yn cyfaddef, 'I have a weakness for theology, the way one has a weakness for sex or money.' Ac oherwydd y gyffelybiaeth honno, y mae ef yn dangos sut y mae'n mynd ati i chwarae o amgylch paradocs anferth o enau Paul am ffolineb y groes, fel pe bai'n bwnc i'w ddeall o fewn amgylchfyd Ôl-foderniaeth ddarfodedig. Sonia'r Ysgrythur (1 Cor. 1:21) am neges y Cristion fel '*ffolineb yr hyn yr ydym yn ei bregethu.*' Dywed yn fwy penodol, (1 Cor.1:25) '*y mae ffolineb Duw yn ddoethach na doethineb ddynol, a gwendid Duw yn gryfach na chryfder dynol...* (ad. 27-28) *Pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw er mwyn cywilyddio'r doeth, a phethau gwan y byd a ddewisodd Duw i gywilyddio'r pethau cedyrn, a phethau distadl y byd, a phethau dirmygedig, a ddewisodd Duw, y pethau nid ydynt, i ddiddymu'r pethau sydd.*'

Dyma faes chwarae John D. Caputo. Ac yna, ychwanega'r Ysgrythur y sylw esboniol pwysig: (ad. 29) '*Ac felly ni all neb ymffrostio gerbron Duw.*' Mae'r Ysgrythur yn amau'r ymffrostiol. Sylw lletraws yw hyn am ddull lletraws yr ysgolhaig hwn wedyn o drafod materion sydd yn hanfodol syml, ond sydd y tu hwnt i faterion gofod ac amser ('y byd'), fel pe bai ei dipyn galluoedd meidrol ef yn uwch na hwy. Balchder yw.

Canfu Caputo fod yna baradocs yma. Y cam mawr a gollwyd gan y doeth dynol hwn oedd y cam o'r cyd-destun naturiol i'r cyd-destun *goruwch*-naturiol. Un o'r nodweddion sy'n gynhenid yn y cam hwnnw oedd ymostwng, colli ymchwyddo, a thyfu yn ôl gwerthfawredd y syml ei galon.

Rhyfeddod oedd yn ei achos ef heb barchedig ofn. Ôl-foderniaeth sioclyd oedd ganddo heb ddeall.

Nid wyf am fynd ati yn awr i fanylu ar ymdriniaeth Caputo sydd, i'm bryd i, – cyn ei gyffelybiaeth â 'sex' a 'money' – wedi gwneud at ei gilydd y rhagdybiau dyn-ganolog arferol. Yr hyn yr wyf yn sôn amdano yn y fan hon yw bod synnwyr cyffredin dyn i'w gael wedi'i syfrdanu o fewn dimensiwn y bydol syrthiedig, ac, ynddo'i hun, y mae'n amlwg wyrdröedig yng ngolwg Duw. Mae gwerthoedd Crist yn fynych yn wrthun ym mryd y dyn naturiol. Ymhellach, y mae'r ddyfais neu'r cynllun a fabwysiadodd Duw yng Nghrist i ddatod y broblem hefyd yn ymddangos yn gwbl anhygoel a'r tu hwnt i bob synnwyr cyffredin. Eithr oni phlygwn i ddull Duw o feddwl, awn ni ar goll. Mae rhesymau goruwch-natur Duw mewn cywair llawer harddach nag Afreswm gofod/amser.

Yr un pryd, y mae 'synnwyr cyffredin' dyn, sy'n rhy gyffredin, yn gallu tyfu yn y Cristion yn 'sanctified common sense' fel y soniodd Dr M. Lloyd-Jones.

Hynny yw, y mae'r meddylfryd sy'n gwahanu'r dyn naturiol di-Dduw a'r dyn goruwchnaturiol duwiolfrydig oddi wrth ei gilydd mor eithriadol a phoenus o wahanol, nes bod yn rhaid cael chwyldro meddyliol chwyrn – tröedigaeth oruwchnaturiol aruthrol – cyn camu o'r naill gyflwr i'r llall. Gall y dröedigaeth honno ddod yn eiddo i'r person lleiaf galluog er y gall fod y tu hwnt i'r ysgolhaig mwyaf sylweddol.

Gall y broblem ddeallol hon felly gael ei disgrifio â'r term hwylus 'paradocs'. Paradocs ysbrydol, deallol, goruwchnaturiol yw. A gallwn oleddfu'r term i weddnewid natur ryfeddol y paradocs seciwlar. Ym mryd y darlennydd deallus, dichon y caiff – gyda dychymyg – mai 'paradocs' fyddai'r term priodol amdano mewn beirniadaeth lenyddol hefyd, a bod y term hwnnw'n gallu perthyn i ras cyffredin a gras arbennig.

Ym mhedwardegau a phumdegau'r ugeinfed ganrif, ymhlith y gymuned feirniadol lenyddol, cafwyd pwyslais go chwyrn gan feirniaid ar swyddogaeth 'paradocs' mewn barddoniaeth. Yn fuan wedyn, lleihaodd y math o feirniadaeth glòs a borthai'r troad hwnnw ar y pryd a chilio'n weddol gyffredinol erbyn diwedd y chwedegau. Dechreuai Ôl-foderniaeth feddiannu'r maes, a hynny am y deugain mlynedd wedyn, ac eto gan ailbwysleisio 'paradocs' am resymau eraill a gwahanol. Yr oedd rhai o'r elfennau mewn Ôl-foderniaeth, megis dadadeiladu, tanseilio, gwrthebu, a chwalfa ystyr, yn dal i borthi'r ffurf neu'r ddyfais arbennig hon. Eto, er i Ôl-fodernaeth gilio i raddau heddiw, ni fu farw'r paradocs. Y paradocs, yn wir, sy'n egluro beth a ddigwyddodd i 'ystyr' mewn Ôl-foderniaeth.

Heblaw Empson, mae'n debyg mai Cleanth Brooks yng nghanol yr ugeinfed ganrif, a'i gyfrol enwog *The Well Wrought Urn* ym 1947, oedd y cynrychiolydd amlycaf yn rhyngwladol yn y ganrif a drafodai ffurf feddyliol y paradocs yn bwerus eglur. A thalai inni aros gyda'i ddadleuon.

Ar ôl moesyngrymu i unigolyn gogleisiol megis Chesterton, a chydabod y lle i baradocs clyfar mewn llenddulliau ymylog megis y ddihareb a dychan, gan ystyried y ddyfais hon yn

orymenyddol i iaith emosiynol ddifrif, dywed Brooks: '*Yet there is a sense in which paradox is the language appropriate and inevitable to poetry. It is the scientist whose truth requires a language purged of every trace of paradox ... The overstatement which I propose may light up some elements in the nature of poetry which tend to be overlooked.*'

Fe â ati wedyn i ddadansoddi rhyw hanner dwsin o gerddi tan archwilio sut yn hollol y mae paradocs yn cael ei effaith aeddfetaf. Mae ambell gerdd fel 'Composed upon Westminster Bridge' yn peri chwilfrydedd am fod y soned mor afaelgar, eto yn meddu ar iaith mor gyffredin a diddelwedd. Ond dadleua ef fod hyn yn bod ar sail y *sefyllfa* baradocsaidd. Dyma'r bore wrthi, – mewn twll o le ar bwys Pont Westminster gyda'r baw ymhobman, – yn gwau harddwch, bron sancteiddrwydd o'r sbwriel. Ynghanol y farwolaeth esthetig a'r ysgarthion, y mae bywyd goruwchnaturiol glendid a gras a gogoniant yn ffynnu. Dyma amgylchiadau a barddoniaeth 'seciwlar' fel pe baent yn cerdded i mewn i wirionedd peniwaered. Drwy ganfod newydd y mae'r Glendid yn ymladd yn ôl.

Felly hefyd mewn enghraifft arall, y newydd-deb a'r syndod sy'n sobri Coleridge mewn math o arallgofrwydd gogoneddus yn 'The Ancient Mariner'. Yma y ceir rhyfeddod a choegi eto yn nyddu drwyddo draw. Ni ellir alltudio'r cyfuniadau sydyn llachar hyn rhag camu ar draws traed barddoniaeth. Dyma sefyllfa ddiddianc na ellir ond ei chyfeirio a'i rheoli. Felly gyda Donne yn ei gerdd 'Canonization', lle y mae'r bardd yn trin serch cnawdol fel pe bai'n gariad dwyfol: y mae croestynnu emosiynol o'r fath yn rhithio ymdeimlad o iechyd ysbrydol er ein gwaethaf yn y canol.

Cyffelybiaeth yw'r estheteg honno i baradocs llawnach y Beibl. Mor rhywydd y gellir camu – yn y Beibl yn sicr gyda help Duw – o serch cnawdol hunan-ganolog i Gariad pur ac aberthol, megis y gwnâi Solomon. A hynny, ar ryw olwg, yw'r math o baradocs sy'n goleuo'r ysgrythur. Mae'r byd yn cael ei weddnewid heb ei haeddu. Mae'r goruwchnaturiol yn bod lle y tybiai'r naturiol y dylai yntau fod. Llithrodd y byd-olwg oddi tan ein traed. Hyn i raddau yw paradocseg y Beibl, rhyfeddod y greadigaeth a rhyfeddod y waredigaeth. Mewn baw.

Un o'r paradocsau sylfaenol a chanolog yn themateg y Beibl, fel y gwelsom gynnu yn yr Epistol at y Corinthiaid, yw cydnabod yr uchel yn isel, y mawr yn fach, a'r cryf yn wan. Ar ryw olwg, y mae Duw wedi ymostwng er mwyn syfrdanu dyn balch i ymwybod â'i angen i blygu. Ond yn yr adroddiad o'r geni gwyrthiol iselfryd ym Math. 1-2, mae'r ymgnawdoliad 'syml' yn cael ei amgylchu gan eithafion sefyllfa syfrdan nefol: Math. 1:20-23; 2: 2-6.

*

*

*

Cawn gyfle, gobeithio, i ddatblygu ein sylwadau ar y ffenomen baradocsaidd hon. Ond *pam* yn y byd y mae pethau o'r fath yn cael eu dweud yn y Beibl fel hyn? Mae paradocs yn ymddangos yn ffordd mor chwithig i weithredu ac i lefaru. Onid symlach fyddai'n ffordd fach ni, yn blwmp ac yn blaen, yn yr unfed ganrif ar hugain? Onid yw ein synnwyr cyffredin yn dweud wrthym y byddem

ni'n creu'r byd heb ddiodefaint? Yn wir, pan ddown i ystyried ambell fater ymarferol, megis afiechyd a hunanladdiad a llygredd Creadigaeth ddwyfol heddiw, caiff pob anghredadun gwerth ei halen achos eto i dyngu na fyddem ninnau'n rhedeg y ddaear hon fel y gwna Duw.

Pam nad yw'r Beibl yn siarad yn union, yn rhyddieithol braf, heb wyro, ac yn ôl norm ein hamser ni? A hynny yn y gadair freichiau, yn iach am byth.

Mae'r ateb plwmp a phlaen i hwnnw yn syml. Wedi'r cwbl fe grewyd y byd gwreiddiol gan Dduw *heb* ddiodefaint, ac mewn daioni. Mewn dyn ei hun bellach y daeth y chwithdod. Does dim paradocs yn y gwreiddyn o gwbl. Ym meddwl Duw, erys cynllun a nod y ddaear yn berffaith syth. Rhagluniwyd ni ar gyfer delfryd, heb lol, heb ryfel. Bwriadwyd ni i garu gelynyon, ac aeth hynny i'r gwellt. Eto, mae'r hanfod ei hun yn dal yn dragwyddol sicr, yn ddi-fefl. Fe'i bwriadwyd felly, ac fe'i ceir maes o law mewn daear newydd a nefoedd newydd. Oherwydd ei ddewis rhydd a chyfrifol ei hun, â'i ewyllys rydd a chyfrifol ac atebol ei hun, penderfynodd dyn ddisodli ewyllys Duw. Mae'n 'rhydd' mwyach i ryfela. Sarhaodd Dduw, a heb Dduw cafodd y canlyniadau a oedd yn rheidiol, fel pe bai dyn yn medru difa deddf disgyrchiant. Sylfaenwyd dyn modern yn ei holl 'synnwyr cyffredin'. Ond wedi cael rhybudd ynghylch anwybyddu bodolaeth trefn Duw, O! fel yr hiraethai am gael ei ffordd a'i ben yn rhydd yn gyfan gwbl iddo'i hun, fel y bychanai lendid y ddeddf. A throes bopeth ben-i-waered. Aeth y cwbl a oedd yn bur ac yn gytbwys yn groes i norm sylfaenol Duw. Daeth yr hunanoldeb, a gwrthod yr anhunanol. 'Trechwyd' tragwyddoldeb gan gulni'r meidrol.

Pan fyfyriwn gynllun rhyfeddol Duw fel y mae ei feddwl ef yn ei ddarlunio yn y Damhegion, yn y Bregeth ar y Mynydd, yn ei fyfyrdodau am y Groes, ac mewn cynifer o'r Epistolau – gwelwn yma'r Gwirionedd glân eisoes air am air. Dyma synnwyr daearol a nefol. *Dyma yr un pryd baradocs y paradocsau. Ond mae'r hyn a gyfrifwn ni, bechaduriaid, yn baradocs, yn bodoli'n ddi-baradocs, hynny yw, yn synnwyr cyffredin, o safbwynt y Beibl.* O edrych ar yr un geiriau yn y Beibl, y mae'r Cristion yn gweld y gair union a'r union air cyffrous sy'n goleuo. Ein hanneall ni sy'n ei gystwyo'n od i fod yn baradocs tybiedig. Fe aned dyn bellach, drwy'i bechod ei hun, ysywaeth, i gamddeall yn fwriadol ac yn anfwriadol. Mae ei ddeall ef am fynnu meddwl y dylai popeth fod yn 'symlder' o'i fath ef, a'r goruwchnaturiol yn naturiol: dylai fod yn wahanol i'r hyn y mae. Ewyllys Duw, sut bynnag, oedd i bob dim fod yn aruchel ddealladwy sylfaenol yn blwmp a phlaen. Ac felly y mae hi i'r galon newydd, i'r galon lân, ac i'r natur iach. Gwirionedd yw.

Dyma'r *ateb cyntaf* i'r cwestiwn pam y mae Paradocs yn undod i'r Beibl. Mae'r ateb yn yr Achos. Yn yr Achos Cyntaf, Awdur y Beibl, yr oedd Ef ei hun, i ddyn syrthiedig o ran natur yn ei gyflwr 'naturiol', yn ymddangos yn baradocs. Achos cyntaf o Absoliwt oedd Duw o flaen 'Dyn' 'absoliwt' o syrthiedig sydd fel pe bai am wneud ei wybodaeth fach ei hun yn flaenaf.

Mae'r *ail reswm* i'w gael eto yn y darlennydd ei hun. Nid yw dyn wedi'r Cwmp yn medru

gweld dim o'r byd mwyach fel y bwriadwyd iddo fod. Mae'r Beibl yn dysgu bod pawb yn meddwl yn baradocsaidd o'r newydd bellach am ei sefyllfa chwithig ei hun; ac mae'n egluro popeth daearol felly yn groes i'r Gwir iach. Nid oes neb yn deall y Gwir yn iawn ac yn naturiol. Mae'r dyn syrthiedig, Adda, yn amgyffred yn wrthwyneb i burdeb gweld. Mae am ddewis y methiant. Heb ei newid, mae ef am gael ei ffordd ei hun o weld. Os ydym yn mynd i ddweud y Gwir union o syml wrtho, mae'n gofyn i ni ei weld mwyach wyneb i waered. Dyma'r ail eglurhad i baradocs byw; ac ymddengys felly yn y nod hefyd, wrth gyrraedd yr effaith mewn dyn. Y nod gan ddyn druan yn awr yw cael ei ffordd gyfeiliornus ei hun.

Mae'r eglurhad od hwn i fywyd yn unigryw i'r Beibl ar ei hyd. Y norm gwaelodol i'r Beibl yw Gwirionedd Duw â'i draed ar y ddaear. Mae'n synnwyr 'cyffredin', ond wedi'i arfaethu i fod yn Ras Cyffredin i ddyn. Dyw ef ddim ben-i-waered yn y gwir o gwbl. Mae'n sefyll yn stond, yn wirionedd heb ei wyrdroi. Ond oherwydd i ddyn ei hun weithredu'n gwbl groes i ddeddfau glân ac union a chytbwys a chywir, pen-i-waered yw'r gwirionedd yn ymddangosiadol iddo. I'r dyn 'normal' arferol, bellach, y mae bywyd yn abnormal tost. Aeth gwirioneddau iach yn groes, a'r glân yn fudr.

Nyni felly sy'n troi'r cwbl wyneb i waered, yn baradocsaidd. Syllwn drwy'r telesgop y ffordd anghywir. Ni sy'n paradocsa'n 'rhydd'. Onid yw caru gelynyon yn y bôn yn gwbl 'naturiol' i Dduw – hynny yw, o ran Ei 'natur'? Onid yw'n gwbl amlwg hefyd y dylai gŵr a gwraig ymostwng i'w gilydd mewn cariad o ran natur? Caethweision llawen ydynt i'w gilydd, fel Paul i Grist. Dynolryw sy'n gwneud y pethau syml hyn yn gymhleth. Dyn sy'n eu gweld yn baradocsaidd o od. Mewn gwirionedd, does dim mwy croyw naturiol. Iach o naturiol fyddai tangnefedd ym mhob man.

Yr ydym oll, ar ddechrau'n bywyd presennol, yn ymdroi eisoes yn hyn o fyd yn y Cyflwr Bywydol Paradocsaidd. Os yw'r diagnosis hwn yn gywir, hyn yw un esboniad am eiriau ysgytwol Paul yn 1 Corinthiaid 13:9-12. Ni ddiddymir ein hannealltwriaeth anaeddfed nes newid y persbectif yn llwyr chwaith ac oni welir yn union: deil o hyd mewn cyflwr cam ac anghyflawn, ac yn chwithig: *'Anghyflawn yw ein gwybod ni, ac anghyflawn ein proffwydo ni. Ond pan ddaw'r hyn sy'n gyflawn, fe ddiddymir yr hyn sy'n anghyflawn. Pan oeddwn yn blentyn, fel plentyn yr oeddwn yn llefaru, fel plentyn yr oeddwn yn meddwl, fel plentyn yr oeddwn yn rhesymu. Ond wedi dod yn ddyn, yr wyf wedi rhoi heibio bethau'r plentyn. Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb. Yn awr, anghyflawn yw fy ngwybod; ond yna, caf adnabod fel y cefais innau fy adnabod.'*

*

*

*

Dyna'r eglurhad yn grwn. Ceir sawl rheswm pam y mae'r Beibl o ganlyniad wedi'i gyflwyno o'r brig i'r bôn mewn ffordd sy'n ymddangos yn baradocs; ond *ei baradocs pennaf yw nad yw'n baradocs i Dduw.*

Cawn gymorth i amgyffred hyn. Cymorth yw sylweddoli'r anhawster. Yn gyntaf, mae Duw ei hun yn Oruwchnaturiol. Peth amhosibl, i bob golwg, i'r Naturiol. Ac mae'r Beibl yn sôn am rywbeth hanfodol nad yw'n naturiol mwyach i ddyn ei gwmpasu: Nefoedd. Gwir ei fod i *raddau* o fewn cyrraedd ein hamgyffred naturiol am fod dyn o ran ei berson ar ddelw Duw, o ran ei synnwyr cynhenid. Ledled y byd, ni fu'n anodd disgwyl credu'r fath beth â Goruwchnaturiol. Ond y mae yna rwystr yn awr sy'n fwllch ysbrydol y tu hwnt i gyrraedd perthynas ddelweddol ddigonol rhyngom a'r Goruwchnaturiol hwnnw. Ac y mae'r angen hwnnw'n gynhenid mwyach.

Yn ail felly, oherwydd fod dyn wedi cwmpo, mae hynny'n golygu fod ganddo fath o natur *arall* sy'n ei wneud drachefn yn gynhenid yn erbyn Duw. Onid yw hynny'n hurt? Nid yw'n gallu bod yn gyfan gwbl mewn cynghanedd syniadol â Duw tan ddiwedd ei oes. Heblaw colli yn y Cwmp, enillodd gyflwr dinistriol naturiol arall. Mae'r Greadigaeth hithau neu'r amgylchfyd hefyd wedi derbyn amhurdeb. Mae dyn yma yn marw. Mae'r hyn oll a ddylai fod yn adlewyrchiad perffaith i gynllun Duw wedi llithro, i raddau, i lywodraeth nad yw'n union o gwbl. Mae hi fel pe bai wedi colli disgyrchiant. Ac eto, y mae'r gymhariaeth ddeddfol yn arwyddocaol. Ac mae yna rwystr (mewn Gras Cyffredin) sy'n fwllch ysbrydol y tu hwnt i berthynas ddigonol â'r Golwg ar Uffern.

Dyna pam y mae'r anghyflawnder a ddisgrifia Paul yn fwy na cholled, mae'n anghyflawnder ymosodol. Cynigir iechyd, ac awchir afiechyd. Cynigir gwybodaeth, ac awchir anwybodaeth.

Dyn sydd yn awr yn dymuno peidio â derbyn ewyllys Duw, a'i neges o newyddion da. Mae dyn wedi dymuno iddo ef ei hun yn bitw bach (ac yntau wedi'i ddallu) fod yn y canol, a *gwneud* y cwbl. Mae ef yn amodi i'w feddyliau goddrychol ef ei hun lunio'i ddull ei hun o drafod deddfau bywyd, nid yn ôl meddwl perffaith a gwrthrychol Duw. Mae dyn truan yn hytrach am fod megis duw ohono'i hun.

Rhaid golchi deall dyn. Dymuniad Duw yw gweld peniwaered dyn yn unioni'n lân o lawen.

Mae'r paradocs sefyllfaog dwfn hwn mor ganolog heriol mewn Cristnogaeth, oherwydd bod y Cristion yn gorfod camu o ddull dyn o feddwl i botensial derbyn dull Duw o feddwl. Mae dyn yn 'dioddef' er enghraifft am ei fod ar wahân i Dduw. Dull paradocsaidd gywir Duw o leddfu dioddefaint o'r fath yw'r Ymgawdoliad. Cymerodd Duw'r Mab arno'i hun natur newydd. Dioddefodd ei hun a marw yn ôl ei natur ddynol oherwydd ei gariad anhaeddedig er mwyn iacháu ein dioddefaint ni. A allai dim fod mor groes i syniadaeth feidrol? A allai Duw fod wedi gwneud mwy na hyn – drwy ryddid ewyllys, ei gynnig ei hun er mwyn i bechadur gael bywyd tragwyddol? Mae'n bur syfrdan i'r ymennydd dynol. Syfrdandod y Goruwchnaturiol sy'n cynnwys y Naturiol yw.

Dymuniad dyn (hyd yn oed ambell ysgolhaig Beiblaidd) yw newid hyn, nid yn syml am na *all* ei ddeall (fe'i deallir yn ddigonol gan blant) eithr oherwydd ei fod yn casáu plygu i'r gwirionedd am ei anwybodaeth. Cofleidiwn anghred.

Mae paradocsau naturiol yn gallu cynnig sialens i ail-feddwl yn fynych. Ac yn fwy felly, paradocs goruwchnaturiol. Oherwydd mai Duw Goruwchnaturiol sydd gan y Cristion, mae'n rhaid i gredadun fod yn barod i feddylwaith weithredu sydd y tu hwnt i'w ddealltwriaeth naturiol. Byrolwg a hyd yn oed haerllug yw mynnu cystwyo'r Goruwchnaturiol i ffitio dimensiwn meidrol. Pair hyn fod gallu dyn yn pallu'n gynamserol, peth sy'n wrthun i'r dyn balch wrth natur, druan.

Ni raid, wrth gwrs, gynnig 'ffydd ddall' yn lle 'rheswm' a 'synnwyr cyffredin' mewn darlleniad diwylliedig. Yr hyn a sialensir yw'r rheidrwydd yn y meddwl seciwlar y dylai Duw tragwyddol fforffedu'i ryddid a'i hollalluogrwydd er mwyn ymgymhwyso i ddimensiwn y meidrol. Y ffydd weledol Gristnogol, sut bynnag, yw'r un ffordd o ddatrys y dirgelwch, sef y Duw-ddyn yn marw mewn amser a lle, er mwyn i'r pechadur fywhau yn dragwyddol.

Dyna sefyllfa'r Cristion sy'n aros tra bo'n byw mewn byd paradocsaidd.

Ond y fath 'Wir' sy'n trechu yn hyn o sefyllfa! Y Gwir potensial a gynigir, a'r Gwir yw'r hyn a dderbynia'r Cristion. Yr Anwir a dderbynia'r Anghredadun i freichiau agored. Ffydd effro baradocsaidd sydd gan y Cristion sydd felly'n cyffroi ac yn goleuo deallusrwydd. Mae ef felly yn byw o fewn cyd-destun dwbl-baradocsaidd. Gellid synied am hyn o brofiad, os mynnir, fel Paradocs Ysbrydol. Ond o fewn cyd-destun tragwyddol, nid yw olyniaeth gorsafoedd amser na'r ddelwedd o linydd un-dimensiwn yn rhwystr i elfennau o'r gwahanol ddimensiynau eraill gydgordio. Harmoni sydd yn y paradocs ac sy'n para. Mae hyn ychydig bach yn groes i baradocs llythrennol seciwlar, ond ddim llawer o ran ffurf. Yr un effaith sydd i'r naill a'r llall – sef deffro gwelediad a dadlennu syndod bywyd. A dyna rai o nodau llenyddiaeth greadigol fel y cyfryw.

Mae'n anochel, wrth gwrs, fod cyfarfyddiad y Goruwchnaturiol â'r naturiol yn esgor ar baradocsau ymddangosiadol gwirionedd y byd syrthiedig megis: *Dyn yn gwrthod Paradwys am y nesaf peth i ddim; Cyfiawnhad drwy Ffydd ar y blaen i Weithredoedd; Tyndra Deddf a Gras; Duw yn gwybod y diwedd cyn y dechrau, ac eto dyn yn atebol; Cyfiawnder dyn drwy Undod â Duw.*

Y Goruwchnaturiol sy'n esbonio pam y mae'r paradocsaidd hwn yn rhan mor rheidiol o'n meddylfryd. Cafwyd ymyrraeth gan ddaioni a drygioni Goruwchnaturiol.

Yn wir, fe ddadleuwn mai'r ddau droad llenyddol pennaf a ymamlyga ac a ddefnyddiwyd yn helaethaf yn y Grefydd Gristnogol (megis mewn rhethreg Gras Cyffredin) yw *Trosiad* y gwaed yn golchi (neu'r Symbol, Alegori, Cysgod, Analog, Delwedd Gynrychioliadol) a *Pharadocs* y bach yn fawr. Yn rhyfeddod y credu paradocsaidd a'r hanes gweithredol Cristnogol hwn, y mae yna rywbeth hanfodol ynghylch y ddau hyn sy'n chwyldroi'r meddwl diwinyddol oll. Mae'r cwbl oll o'r 'gelfyddyd farddonol' hon yn gorfod bod yn annisgwyl i ymennydd cnawdol, ac yn drech.

Felly y mae'r Drindod ei hun, gwir Awdur gostyngedig i'r greadigaeth, fel pe bai ynddo'i hun yn troi'r cwbl wyneb i waered yn farnedigol i ddyn yn ei falchder anostyngedig – megis paradocsau

bardd. Oherwydd dyn y mae'r rhain oll yn ymddangos mor 'anodd' ac annisgwyl. Mae'r 'anawsterau' bondigrybwyll i gyd yn y bôn yn hawdd. Yn wir, y mae'r Awdur (sydd hefyd yn awduron dwyfol a dynol) wedi darparu cyflwynydd, ac esboniwr yn ogystal, i'w Air anffaeledig, sef Ef ei hun, i'n cario ni. Dyna yw anadl yr Ysbryd Glân. Daw i lawr at bawb sy'n ceisio o ddifrif dderbyn Ei neges. Daw hyn o'r herwydd yn eglur i bawb beth bynnag y bo'i allu cynhenid. Mae'r Awdur yn sicrhau bod pawb yn ddiesgus, ac mae'r holl baradocsau hyn – a all fod yn rhy drwm i ysgolheigion caeedig – yn agored i bawb, cyffredin ac ysgolhaig, sy'n ceisio'r Gwaredwr Iesu Grist gyda difrifoldeb unplyg. Mewn gwirionedd, nid yw'r Gwir Awdur yn troi dim iot wyneb i waered yn Ei olwg ei hun. Ond ymddengys yr union yn anunion i'r dyn sydd wedi colli'i ben. Credu syml credadun yw deall dwfn.

Ceisir yn y gyfrol bresennol sôn am yr Awdur godidog hwnnw, a'r neges ryfedd y mae'n ei rhoi i bawb sy'n ei geisio, a'r dull y mae'n gwneud hynny. Y cystwyo doeth hwn ar Ddeunydd, Ffurf, a Chymhelliad yw rhyfeddod pennaf llenyddiaeth y byd. Fe'i ceir yn Llyfr y llyfrau.

Perthynas y Goruwchnaturiol a'r Naturiol wedi'i hunioni yw'r ffaith bwysicaf ym mywyd *pawb*, nid yn unig y Cristion. Ac nid rhaniad 'Duw a dyn' yw'r cyferbyniad hwn. Mae pob person ar y ddaear yma yn oruwchnaturiol ac yn naturiol ynghyd, boed yn Gristion neu beidio. Nid oes neb yn llwyr amddifad o'r dimensiwn goruwchnaturiol hwn. O safbwynt y person seciwlar cyffredin, yn ôl pob tebyg fe fydd hynny'n isymwybodol. O safbwynt Duw, gwyddom ei fod Ef yn holl-gynhwysfawr, yn holl-bresennol, ac yn cwmpasu'r Naturiol o fewn y Goruwchnaturiol. Dyma eto felly sefyllfa baradocsaidd o safbwynt 'synnwyr cyffredin.'

Ac eto, ynghanol ei 'synnwyr cyffredin' y mae dyn o hyd yn llunio paradocsau cyffredin yn rhan o'i arfer a'i gelfyddyd ieithyddol. Gwasgerir y doethineb hwnnw yn unol â'r doniau rhanedig yr ydym bellach yn ymgynffwrdd â hwy mewn Cristnogaeth. Mae'r credadun yn gweld rhyfeddodau.

Yn y ddealltwriaeth honno cyferbynnwn y 'syth'. 'Syth' yw bod Gwirionedd Duw yn oruwchnaturiol lân a chywir, ac anwiredd dyn yn anochel groes. Diau y ceir mai'r un enghraifft fwyaf eithafol erioed, lle yr oedd y 'paradocs' yn ffurfio patrwm cyfredol trist, oedd adeg y Croeshoeliad fel y'i profwyd yn ôl llygad-dystion. Sylwer ar yr oruwch-lywodraeth gywrain yn yr holl ufudd-dod i 'grefydd' yn yr hanes deublyg hwnnw: sylwer ar baradocs yn y fan yma yn ffurfio sylfaen i'r sgwrs enwog hon:

Tystiolaeth yr Archoffeiriad: Ioan 19:21: *Meddai prif offeiriaid yr Iddewon wrth Pilat, 'Paid ag ysgrifennu, "Brenin yr Iddewon", ond yn hytrach, "Dywedodd ef, Brenin yr Iddewon wyf fi." Atebodd Pilat, "Yr hyn a ysgrifennais a ysgrifennais."*

Dymument drosglwyddo'r dyfarniad i Pilat fel trosedd gwladol, nid fel trosedd crefyddol.

Felly Ioan 18:31, " *Nid yw'n gyfreithlon i ni roi neb i farwolaeth.*"

Ond roedd yr Archoffeiriaid yn celwydda, yn camarwain, yn twyllo'n goeg wrth geisio

cyfiawnhau drwy ddefnyddio cyfraith. Am resymau *crefyddol* yr oeddent hwy o bawb yn ceisio lladd ar sail *wleidyddol*. Iddynt hwy, chwarae'n goeg ar gasineb at lywodraeth Rhufain a wnaent er mwyn cael help y gelyn, a hwnnw am beidio ag actio'n wleidyddol.

Sylwer yn awr ar dystiolaeth Pilat, a'i ddymuniad i ymwared ag Iesu. Diau nad oedd yn credu o gwbl fod Crist yn droseddwr, nac yn haeddu marwolaeth. Ond crefyddolai ef wleidyddiaeth.

Ioan 18:31, 35, *Yna dywedodd Pilat wrthynt, "Cymerwch chwi ef, a barnwch ef yn ôl eich Cyfraith eich hunain".* (h.y. deddfau crefyddol) ... *'Dy genedl dy hun a'i phrif offeiriaid sydd wedi dy drosglwyddo di i mi.'* "

Ond ofni cythrwfl gwleidyddol-grefyddol yr Iddewon yr oedd. Yr oedd Pilat am ddefnyddio cythrwfl er mwyn cael heddwch. Ond yr oedd hefyd yn barod i ddefnyddio esgus yr archoffeiriaid i ladd Crist er mwyn golchi'i ddwylo.

Cymerer wedyn

Dystiolaeth baradocsaidd Iesu gan ei fod yn mynd â'r amwysedd a'r paradocs a'r coegi a'r Gwirionedd un cam pellach.

Ioan 18:4-6. *'Gan fod Iesu'n gwybod pob peth a oedd ar fin digwydd iddo, aeth allan atynt a gofyn, "Pwy yr ydych yn ei geisio?" Atebasant ef, "Iesu o Nasareth."*

"Myfi yw," meddai yntau wrthynt... Pan ddywedodd Iesu wrthynt, "Myfi yw," cillasant yn ôl [hynny yw, y dyrfa] a syrthio i'r llawr. [Ydwyf oedd.] Dyma'r term sancteiddiolaf gan yr Iddewon. Yr Un a oedd yn Fodolaeth heb ei chreu, Bodolaeth ynddi'i hun oedd. Yr hunan-wireddol oedd.

18:8 Atebodd Iesu, *'Dywedais wrthyich mai myfi yw.'* [Ydwyf]

cf. Ioan 8:1, *'Myfi yw goleuni'r byd'...* 8. 42 *'Oddi wrth Dduw y deuthum allan a dod yma. Nid wyf wedi dod ohonof fy hun, ond ef a'm hanfonodd.'* 8.54 *'Fy Nhad sydd yn fy ngogoneddu, yr un ydych chwi'n dweud amdano, ' "Ef yw ein Duw ni."* 8.58 *'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyich, cyn geni Abraham, yr wyf i.'* 10:30 *'Myfi a'r Tad, un ydym.'* 11:25 *'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd.'* 12: 45 *'Ac y mae'r sawl sy'n fy ngweld i yn gweld yr un a'm hanfonodd i.'* 14:9 *'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad.'*

Dyma'r Arglwydd paradocsaidd ei hun yn awr, yn gudd, yn goeg, yn etifeddu ei le, ond yn gwbl annealladwy i bawb arall a oedd yno, ar y pryd, drwy ddefnyddio ymadrodd cysegredig am y Drindod, a hynny mewn traethu amwys. Roedd y deyrnas gan y Brenin hwn yn fwy ac yn wahanol i unrhyw deyrnas gan frenin confensiynol. Wyneb-i-waered oedd. Fel y gwelsom,

Ioan 18:36 *'Nid yw fy nheyrnas i o'r byd hwn. Pe bai fy nheyrnas i o'r byd hwn, byddai fy ngwasanaethwyr i yn ymladd, rhag imi gael fy nhrosglwyddo i'r Iddewon. Ond y gwir yw, nid dyma darddle fy nheyrnas i.'*

Methu ystyfnig â deall yw cyrhaeddiad y dyn bydol. Mae tiriogaeth ac ansawdd y deyrnas yn hollol annisgwyl. Yr oedd bryd yr Iddewon a'r Rhufeiniaid yn cyfarfod i raddau mewn colled – mewn teyrnas amddifad fydol. Bu Iesu ers tro byd yn pregethu 'teyrnas nefoedd.' Luc 22:26-30; a pharadwys Luc 23:43; gyda'r holl ddisgrifiad rhyfedd am Deyrnas Nefoedd yn y damhegion. Daeth y milwyr a dweud wrtho: *'Henffych well, Frenin yr Iddewon'*. Atebodd yr Iddewon Bilat (Ioan 19:7), *'Y mae gennym ni Gyfraith, ac yn ôl y Gyfraith honno fe ddylai farw oherwydd fe'i gwnaeth ei hun yn Fab Duw.'* 19:14, *'Ni fyddai gennyf [sef Pilat] ddim awdurdod arnaf fi oni bai ei fod wedi ei roi iti oddi uchod.'* 19:14 *A dywedodd Pilat wrth yr Iddewon, 'Dyma eich brenin.'* Gwaith paradocsiaidd oedd amlygu teyrnas amwys o'r fath yn ei choegi. Ac wedyn yn 'realiti'r' Datguddiad.

Buasai Iesu ers tro byd yn esbonio'r cwbl, mewn pregethau, mewn damhegion, heb fod fawr neb yn gwrando. Ceid honiadau am y Meseia/ Mab y Dyn/ Myfi yw/ Mab Dafydd – Luc 20:41-44; 21: 8, 25-28; 22:22; 23:35, 39; 24:26-27, 46. Yr oedd heb fyddin, heb lywodraeth, heb arfau, heb drethi, ond roedd ganddo Deyrnas Dduw yn ei law, heb odid neb yn ei deall na'i chredu, heb neb yn gwrando, onid ychydig o ddisgyblion diarffordd. Bu'r holl groes-gyhuddo yn defnyddio coegi 'Gwirionedd' Pilat, er mwyn 'dyrchafu' Iesu Grist a sarhau, ac eto yno yr oedd y *Gwirionedd* ger eu bron oll. Yr holl annealltwriaeth hyn a ddaeth i ganol y byd er mwyn i dlodion ddeall y pethau pwysicaf mewn bywyd.

Dyma adroddiad digon 'syml' a newyddiadurol gan y Beibl felly am y Croeshoeliad sydd ar yr wyneb yn gymharol unionsyth ddealladwy. Ond wrth sylwi'n fanylach ar lawer mwy a oedd yn digwydd dan yr wyneb – nid popeth – sylweddolwn hefyd ddyfnder y sefyllfa dreiddiol baradocsiaidd.

I mi, y mae'r *troad mawr* i'r Croeshoeliad, sef y Swper Olaf, yn union cyn hynny, yn hanesyddol lythrennol wir. Gall ymddangos nid yn unig yn annealladwy ar y pryd yn wreiddiol; nis dadlennir chwaith yn briodol amlwg fel pe bai'n analog neu'n symbol estynedig ddatblygedig tan amser mawr wedyn, fel llawer arall ym mywyd Mab Duw. Gall yr awdur fwriadu'r ddelwedd yn ystyrllon lawnach maes o law. Ac arhosodd hyn oll fel cynhysgaeth gudd yng nghof y disgyblion.

Mae gwir y symbol llythrennol o Atgyfodiad wedyn, ei hun, yn ddigwyddiad a dystir yn hanesyddol lythrennol, ond a fedd ar wirionedd pellgyrhaeddol iawn ar gyfer bywyd a marwolaeth y credadun, sy'n eithriadol o arwyddocaol. Mae hyn yn ddiriaeth sy'n ffigur llythrennol o drosiad paradocsiaidd yr un pryd. Mae'r marw *llythrennol* yn digwydd i ddyn, ond y farwolaeth iawnol yn *ddrych*. Felly y mae hi hefyd i lawer o ddigwyddiadau dwysaf Hanes y Byd fel y'u cyflwynir yn y

Beibl; megis gwaed ar gapan y drws a'r angel dinistriol yn mynd heibio. Dro arall yn achos y Gaethglud i'r Aiff, cymherir y ddihangfa, drwy gerdded rhwng atalfa'r genllif gan y Môr Coch, â'r waredigaeth a geir ynddo ef. Y mae'r Arglwydd Iesu'n defnyddio Hanes Jona ym mol y pysgodyn mawr am dri diwrnod a thair noson, ac yn ei gymharu â'i gladdedigaeth a'i atgyfodiad a'r genadwri yn mynd ar led. Dyna baradocs a throad yn y llythrennol yn ystyru'r Beibl. Megis Llyfr y Datguddiad ei hun oll, a'i Deyrnas. Hyn i gyd yw'r dirgelwch y bu'n rhaid drwy gymorth yr Ysbryd Glân ei ddeall yn union.

II TROADU

Yr ydys yn ceisio rhageirio yn gyntaf yn y gyfrol hon drwy drafod problem anferth y Paradocsau sy'n uno'r Beibl ac yn llenwi'i gorneli i gyd.

Yr wyf yn awr am droi at ail broblem, ond sy'n gymdoges, ac yn fater anodd iawn drachefn yn fy marn i, ond yr un mor bresennol â chawr mawr Paradocs. Sef y Troad. Mae'n fater mwy peryglus. Ymddengys fod y Troad yn broblem boblogaidd i'r llu sy'n awyddus odiaeth i gamddeall ac i danseilio Gwirionedd anghysurus yr Efengyl, gan ei ddefnyddio'n llwybr dianc rhag wynebu braw'r llythrennol. Paradocs yw pob troad. Dywed rywbeth anllythrennol. Ond cynhorthwy ystyr yw yn y bôn, er na phrofodd felly yn nwylo llithrig y rhyddfrydwyr tanseiliol.

Mewn gwirionedd y mae Troad yn ffenomen fwy sylweddol, yn fwy dirgel ac anodd na Pharadocs cyffredin. Dichon mai'r Troad enwocaf yn hanes y byd fu'r Swper Olaf, yn ddarlun llythrennol ac anllythrennol sy'n crynhoi cymaint.

Ond y mae Duw ei hun wedi dewis y dull troadol hwn o lefaru lawer tro. A chredaf fod mawr angen ei wynebu'n onest ac ar ei ben. Mae angen ystyried o'r newydd felly *pam* troadu ac ym mha ffyrdd y mae'n digwydd. Dwi'n sôn am droadau geiriol cyffredin, gan mwyaf, ac am weld delweddau mewn pethau diriaethol, mewn pobl neu ddigwyddiadau lle y gwelir ystyr arall wahanol i'r llythrennol, debyg, a hynny mewn ffurf neu ddeunydd gwahanol. Fe'i gwneir drwy drosiadu, neu drwy ormodiaith, coegi neu symbol. Gallant fod yn fach neu'n fawr, – yn ungair fel yr 'Oen', neu'n Hanes estynedig fel 'Jona', neu'n stori 'ffuglen' mewn dameg. Ond yr hyn sy'n rhyfedd yw bod troadau 'Hanes' yn digwydd ar raddfa mor fawr drwy'r Beibl benbwygilydd. Rhydd ffeithioldeb Hanes egni i'w themâu. Cofiw'n am y gair 'tröedigaeth'. Caiff geiriau hwythau dröedigaeth.

Ceir troadau mawr drwy'r trwch mewn llenyddiaeth yn fyd-eang, bid siŵr. Bu Awdur y Beibl, yntau, a'r gwrth-ddefnydd gan elynion y Beibl yn effro iawn i'r fath egni meddyliol cyffredin.

Ac yn y man, erbyn cyrraedd y blynyddoedd diweddar hyn, agorodd Duw ein deffroad ninnau, sy'n Gristnogion, i'w harchwilio hwy yn feirniadol, yn nannedd pob camddefnydd.

Nod y llythrennol

Mae'r Beibl, mewn ffyrdd gwahanol, yn llythrennol ac yn 'ffigurol' gyda'i gilydd o'r dechrau i'r diwedd. Mae'n digwydd mewn Hanes ac yn digwydd mewn calonnau. Gan mai'r Gwir hefyd yw'r hyn a adroddir o'r dechrau hyd y diwedd yn y llythrennol ac yn y 'ffigurol', y mae'r Beibl yn gorfod gweithio'n ddeuol, ar lefelau felly. Mae'r Gwir yn y byd hwn yn weledig, yn naturiol ac yn oruwchnaturiol gyda'i gilydd. Mae presenoldeb y troad i'r graddau hyn yn dweud wrth y dyn naturiol, 'dowch allan, trowch. Mae'r byd tragwyddol yn wahanol, ac yn datgan wrth eich cyflwr a'ch deall, fod angen symud a mynd yn ddeallol y ffordd arall. Meddyliwch ar ddwy lefel: plygwch.'

Cymeraf o'r newydd y digwyddiad pwysicaf un yn y Beibl. Ceisiaf esbonio sut y mae'n llythrennol. Yna, ceisiaf esbonio fel y mae'r Beibl ei hun yn cyfrif yr adroddiad llythrennol ohono'n annigonol – er ei fod yn wir, – a bod gwerth ac ystyr y digwyddiad yn canoli'n llwyr ar lefel arall hefyd sydd ar ryw olwg yn 'ffigurol', ond yn llawnach hefyd. Y mae'r Beibl yn ei gyflwyno ar ddwy lefel.

Y Croeshoeliad a'r Atgyfodiad sydd mewn golwg. Ceir pedair fersiwn yn yr efengylau sy'n adrodd hanes yr Wythnos Fawr gyda manylder rhyfeddol a llu o dystion. Adroddiadau realistig ydynt o ddigwyddiad cwbl anghyffredin, ac y mae'r Beibl yn mynnu inni gredu'r adroddiad yn ei fanylder, fel yr oedd, gyda'r allanolion materol a naturiol i gyd. Yng Nghorinth, sonia Paul am y Crist ar ôl ei atgyfodiad yn 'ymddangos i Ceffas, ac yna i'r Deuddeg. Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o'i ddilynwyr ar unwaith – ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er bod rhai wedi huno.' Mae'n ddisgrifiad ffeithiol naturiolaid rhyfeddol. Ond mae pob un o'r adroddiadau hyn wedi'i ysgrifennu hefyd o fewn cyd-destun goruwchnaturiol, ysbrydol, ystyrol. Pe bai'r adroddiad hwnnw wedi'i gyfyngu i'r manylion naturiol daearol yn unig, ni byddai'n ffyddlon i'r adroddiad mewn modd yn y byd. Ni ddywedai'r gwir hanesyddol yn ôl pwyslais yr achlysur ei hun. Yr oedd hefyd yn ddigwyddiad 'uwch lythrennol'. *Wedi'r cwbl, nid dyna'r ffeithiau llythrennol fel y'u deallid gan y prif gymeriad yn yr hanes, na chan lawer o'r tystion wedi iddynt gael cyfle i roi'r digwyddiadau hyn yn eu cyd-destun hanesyddol a diwinyddol, na chan y mwyafrif o'r rhai a fu'n astudio'r dystiolaeth lafar gefndirol gyda diwydrwydd ymroddgar yn onest ar y pryd ac yn fuan wedyn. Yn ôl tystiolaeth y Beibl yr oedd a wnelo'r Hanes yn eglur â dwy lefel.* Heblaw'n naturiol, yr oedd yna ddimensiwn goruwchnaturiol. Ac er mawr syndod i rai tystion felly, yr oedd rhaid sylweddoli nid yn unig y llythrennol. 'Gwacter' oedd eu gwybodaeth lythrennol heb y baradocsaeth ychwanegol a gyflwynwyd iddynt yn bendant yma (ac a ddeallwyd yn llawnach ymhellach ymlaen) – *fod Mab Duw, neb llai, wedi dod i'r byd, wedi ymgnawdoli, mewn amser a lle penodol, a marw'n aberthol. Talu iawn dros bechaduriaid marwol oedd ei ddiben ystyrol, gan ddiodeff y gosb a haeddai plant Adda. Yn y fan yma derbynnid y Cynrychiolydd hwn yng nghalonau meidrolion: ac o ganlyniad derbynnid Duw y rhai a roddai'u ffydd yn y Cynrychiolydd hwn. Gellid ystyried bod yr Atgyfodiad llythrennol yn wyrth aruthr; ond derbynnid y weithred hon o farw hefyd yn unioniad yn safle pechaduriaid. Roedd y ddau beth yr un pryd. Roedd yna farwolaeth yno; ac yno cafwyd concwest ar farwolaeth yn ddirfodol hanesyddol. Ond yr un pryd, roedd yn gwbl ddigonol ar y lefel oruwchnaturiol i fodloni holl anghenion Cyfiawnder.* Hynny yw, yr oedd aberth Duw ei hun yn naturiol ac o fewn Goruwchnaturiol yr un pryd. A rhaid oedd i hynny fod. Pe na bai Crist wedi dymuno inni feddwl ond am y Croeshoeliad llythrennol yn unig, ni buasai wedi sefydlu Swper yr Arglwydd. Ond y mae'r holl ystyr yn y Beibl yn llawnach ac yn ddyfnach o'r herwydd. Y mae'n

enghraifft hynod bwysig a chanolog o'r hyn a gyflwynir drwy gydol y Beibl – mewn gwirionedd ym mhob dim yno, mewn ffyrdd amrywiol. Dyma droadu dramatig o ysbrydol. Nid yw'r llythrennol ynddo'i hun yn ddigon i neb heb fod yr ystyr oruwchnaturiol yn cael ei chydabod yn onest, ac yn gwbl ufudd, ac yn ddealedig hefyd. Camodd y llythrennol ymlaen yn fras i'r troadol mewn ystyr drwy'r iawn a thrwy'r swper sagrafenol, heb ymadael â'r llythrennol.

Cymerer wedyn yr adroddiad am Greadigaeth y Bydysawd oll.

Yn fras, y mae gennym ddau adroddiad a ddehonglid yn ôl y rhagdybiau Goruwchnaturiol. Ond y mae'r ddau yn droadol ac yn llythrennol yr un pryd i raddau, yn syml oherwydd bod unrhyw fersiwn ffotograffig hanesyddol llawn yn gwbl amhosibl. *Rhaid yw 'newid' Hanes bob amser drwy grynhoi. Mae hyn yn golygu dethol. Ac y mae dethol yn golygu dewis yr hyn sy'n cael ei gyfrif yn arwyddocaol. Troad yw'r dethol hwnnw oherwydd hynny.*

Yn y strwythur damcaniaethol gwyddonol seciwlar arferol o'r digwyddiad, mae gennym fodel unigryw ar hyn o bryd sy'n rhagdybied dimensiwn naturiol cyfyngedig yn unig. Eto, ni ellid byth gyflwyno hanes gwyddonol go iawn ohono yn unig am fod disgrifiad 'creadigol' ohono yn dechrau y tu hwnt i amser-a-lle. Mae dimensiwn arall. Mae dogma absenoldeb dimensiwn goruwchnaturiol yn orfodol yn y fan yna ym mryd y doeth. Ac o'r herwydd, mae'r model gwyddonol presennol yn ddigychwyn, yn anochel. Ceisir disgrifio proses heb hyder gwyddonol achos-ffaith. I raddau corfforir rhyw allanolion llythrennol yn y cynhwysion. Ond ceidw'r gwyddonwyr y bylchau 'diddechrau' mewn disgrifiad 'llythrennol' gan eu llenwi â thybiau cyfnewidiol annigonol o ganrif i ganrif. Annigonol yw gwyddoniaeth amddifad. Oherwydd y strwythur amddifad ac anffodus hwnnw, **darparwyd strwythur Cristnogol o ansawdd hollol wahanol. Ceir dau ragdyb: sef y dimensiwn naturiol sydd yn y golwg, a'r goruwchnaturiol sydd o'r golwg.** Rhagdybir oherwydd gras cyffredin fod yna achos-ffaith sier a ddatguddiwyd gan y grym creadigol a fu rhyngddynt ill dau. Nid ymdrechir i fod yn ffotograffig gyflawn. **Fel y model cyntaf, detholir yr hyn a gyfrifir yn arwyddocaol. Ond ni hepgorir yn fylchog unrhyw elfennau angenrheidiol.** Nid dethol sy'n cyfrif bod hyn yn droadol, yn gymaint â delweddu neu ddarlunio'r proses yn gryno yn yr hyn a gyfrifwn i yn 'arddull' mawl. Mae'r disgrifiad yn ysbrydol lawn. Dywed hyn y gwir a'r diben mewn geiriad perffaith heb orfod hepgor yr annigonolrwydd gwyddonol. Mae gan y Cristion felly ddealltwriaeth eglur o'r Greadigaeth.

Amhosibl wrth gwrs yw i anghredadun a chredadun nodi'r *holl* fanylion hanesyddol. Mae gwyddonwyr llythrennol-eu-bryd o hyd yn ceisio newid rhyw ddehongliad o'r newydd gyda 'chwyro' (â'u gwallau newydd) bob blwyddyn. Cofier bod gwyddonwyr llythrennol yn ceisio ymgfyngu bob amser i'r materol ar y pryd. Ac y mae maint eu hanwybodaeth a'r bylchu sydd yn yr hanes cyfredol yn chwyddo'n aruthrol po fwyaf y chwiliant. **Yn Genesis yn y Beibl ar y llaw**

arall sonnir am Achos personol goruwchnaturiol sy'n ddigonol i bopeth, am fodoli, am drefnu, bywydu, a phwrpas. Digwyddodd y rhain – a mwy – yn llythrennol yng ngoleuni tragwyddoldeb. Ond fe'u crynhoir yn syml ffigurol mewn darlun yn fanwl gywir *heb* dermau gwyddonol y bumed ganrif ar hugain, gyda math o Sarff yn siarad, a chan grynhoi datblygiad iaith (a ddysgir) yn llym, eithr mewn math o adroddiad sydd o fewn amgyffrediad gennym yn awr ac o hyd. Mae pob iaith eisoes yn gweithio ar ddwy lefel yn ddiidewis. Mae'r seiniau bob un yn arwyddion ffisegol, ond y tu ôl iddynt y mae ystyr lythrennol ac ysbrydol. Felly yn y Beibl y mae geiriau bob amser, yn llythrennau, ond y tu ôl iddynt y mae nid yn unig ystyr faterol ar y pryd ond ystyr oruwchnaturiol ychwanegol hefyd sy'n dragwyddol. Dyma'r cymhlethdod gonest. Defnyddir y **Naturiol i fynegi'r Goruwchnaturiol.** Dyma a gawd yn Eden, pan grewyd Natur gan Y Goruwch.

Yn llythrennol wyddonol, cyn belled ag y geill gwyddoniaeth fynd, ymddengys yr adroddiad anfodddhaol ac anghyflawn 'modern' a 'phosibl' a gafwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn 'gyntefig' eisoes yn yr unfed ganrif ar hugain, sut bynnag y bydd yn y bumed ganrif ar hugain. Llunnir damcaniaethau gan wyddonwyr gwiw, cyfnewidiol, gonest sydd yn amcanu at gasgliadau sydd y tu hwnt i'w prawf. Ond ni chynhwysant lawer o'r camau hanfodol yn yr hanes, megis creu bodolaeth, deddfau, cenedlu, bywyd na'r drwg. Ac i Gristnogion, rhaid cael seiliau sicr a ffeithiol i'r ardd, hyd yn oed os yw'r ffeithiau'n droadol. **O safbwynt y gwir cryf a sefydledig a pharhaol a geir yn narlun y Beibl, dyma grynodedb digonol a symbolaidd o Greadigaeth sydd o fewn deall dyn pob oes, crynodedb sy'n trafod materion cychwynnol enfawr y tu hwnt i gyrraedd meidrol, y pwyntiau pwysicaf a ragluniwyd, cyn bod amser, ac eto'n wir o fewn dimensiwn a esbonnir yn feistraidd yn ôl y datguddiad ysgrythurol am ddigwyddiadau.** Rhoddir y ffeithiau clir yn droadol ddaearol gywir mewn crynodedb digonol perffaith os bras.

Y gwir yw bod modd ymateb i'r disgrifiad Beiblaidd yn undod sicr, os cytunir ar reidrwydd y ddwy lefel, sef y Naturiol a'r Goruwchnaturiol. Nid cystadlu a wnânt.

Sylwer: mae'r ddealltwriaeth gychwynnol Gristnogol am ddimensiwn goruwchnaturiol arall (mae 'dimensiynau' gwahanol i'r bydysawd yn gysyniad gwyddonol sydd bellach yn ddealladwy i ffisegwyr) – yn ei haruthredd digyrraedd – yn gwbl lythrennol i bob golwg. Ond ceir gan synnwyr cyffredin ddelweddu arhosol sy'n ddigonol brin ar gyfer deall a defnydd ymarferol i'n gwyddonwyr 'cyntefig' cyfoes hefyd: hynny yw, 'cyntefig' o safbwynt disgrifiad tragwyddol.

Beth yn union sy'n digwydd pan fydd y Beibl – yn anad yr un llyfr – yn codi troad o natur lythrennol y rhain? Nid addurno a wna, beth bynnag. Ond gweld yw mewn ffordd ddyfnach neu eglurach. Gweld y Gwirionedd. Mae hefyd yn cymhwyso strwythur y meddwl. Ceir haenen arall dan yr wyneb: eir â ninnau o dan yr wyneb felly. Fe ystwythir ein dealltwriaeth farw. Dehonglir bywyd. Dysgir rywsut inni weld yr anweledig. Fe'n gosodir mewn amgylchfyd arall, ac fe'n

hyfforddir i gyfarwyddo â byd arall, oherwydd bod y gwir oll y tu hwnt i iaith syrthiedig y byd hwn.

Yr wyf wedi sôn am ffenomen enfawr mewn gwirionedd. Gall troadu fod yn angenrheidiol i esbonio'n achlysurol. Ond y mae a wnelo hynny'n fwy â'r ffordd gyffredinol o ganfod byd. Pan sonnir am 'iaith farddonol', troadu yw un o'r ffenomenau cyntaf a grybwyllir, fel pe bai gan hyn berthnasedd 'arbennig' i'r fath iaith. Ac yr wyf am fynd i mewn i'r cyfanrwydd wrth drafod y Beibl er mwyn cyfleu gwirionedd ynghylch troad sy'n fwy na dyfais ieithyddol neu brydyddol achlysurol. Ar ryw olwg, **y mae'r Hen Destament ar ei hyd yn droad neu'n gysgod i'r Testament Newydd**, yn baratoad (gw. Philip Yancey, *The Bible Jesus Read*, Zondervan, 1999). Gwêl yr Arglwydd lawer o batrymau digwyddiadol ei Destament Newydd drwy lens yr Hen Destament. Fframwaith meddwl oedd yr Hen Destament iddo ef. Ac fe'i gwelai ei hun yno. Yr oedd yr holl Ddeunydd o'r deddfau drwy'r Cwmp a'r gwaredigaethau yn rhagwelediad llythrennol a throadol, corfforol ac ysbrydol. I'r Cristion, nid yw'r newyddion da yn dechrau ym Mathew. Mae'r Efengyl yn dechrau yn Genesis. Ond dygir Genesis, a'r llyfrau ar ei ôl, drwy ddyfroedd bedydd yr Efengylau Synoptig, ac i mewn i holl lif y Newyddion Da o lawenydd mawr sydd ym mywyd a marwolaeth Crist.

Hynny yw, y mae'r troad a brofir yn yr angen am gyflawnhad deall yn yr Hen Destament yn cael ei wireddu'n realistig ac yn ddiriaethol yng nghofiant Iesu Grist. Mae'n dröedigaeth newydd hen i Israel oll ei hun. Oherwydd bod *paradocs* a *throadu* yn ddwy ffenomen sy'n fath o ragdybiau isymwybodol i'r meddwl ysgrythurol, penderfynais eu hagor hwy'n neilltuedig felly ar y dechrau fel hyn mewn Rhagair estynedig. Maent o ran ysbryd yn cyflyru ac yn amodi grym goruwchnaturiol yr Hanes a fydd ar hyd y Beibl. Maent yn rhagflaenu deall.

Mae Hanes ei hun fel pe bai'n gosod deunydd troad fel delfryd mawr i'r deall. Dyfais ar gyfer deall yw sy'n ei droi'n llythrennol fawr, o'r cynllun i'r weithred. Ymddengys i mi fod yr Ysbryd Glân wedi rhoi'r fath bwyslais ar gydio llythrenoli a dadlythrenoli wrth ei gilydd, yn syml am fod y ddau ynghyd yn wir. Mae'r ddwy ffordd o weithio yn gyd-angenrheidiol. **Mae yna ddwy lefel o feddwl gwir, y naill yn naturiol (amddifad weithiau) a'r llall yn oruwchnaturiol (sy'n cynnwys y naturiol hefyd).** Mae'r llythrennol yn rhyfedd iawn, felly, yn sylfaen angenrheidiol i'r dadlythrennol. **Allan o'r llythrennol hwnnw y tyfodd y dadlythrennol yn hanesyddol, megis y naturiol allan o'r goruwchnaturiol.** Gwnânt un gwirionedd crwn. Ond oherwydd bod y ddwy lefel yn cydfodoli fel hyn i Gristion, y mae'r troadol yn cael ei ddiffinio hefyd gan y dad-droadol. Os yw'r troadol, fel yn yr Hen Destament, yn gwneud rhywbeth hollol unigryw ac yn baradocsaidd groes i bob 'rheswm', yna fe welir bod y cyfuniad o ddwy lefel yn ffurfio ffordd unol o weld bywyd yn rhesymol gywir erbyn y Testament Newydd. **Ffordd yw o amgyffred gwirionedd cyfun. Gweithred oruwchnaturiol a naturiol oedd Creu, – heb ei amddifadu o'r naill na'r llall.**

Disgwyliwn bid siŵr na allai'r Goruwchnaturiol fod yn eglur heb fod Naturiol eisoes ar gael

yno yn ddiffiniol. Ond wrth gwrs, fel y gwyddom, fel arall y mae hi. Cynhelir y Naturiol gan y Goruwchnaturiol dano! Roedd y Sarff yno, wedi dod yn angeuol, yn llythrennol ac yn symbolaidd.

Mae'r troadol hefyd yn cael ei ddefnyddio gan yr Ysbryd Glân er mwyn amgyffred y gwir yn fwy miniog ac yn fwy treiddiol nag a fyddai'n llythrennol. Ond mae'n gwneud rhywbeth pwysicach ei arwyddocâd na chynorthwyo'n deall ni: yn y diriaethu troadol y mae'r Ysbryd (sy'n wynt ac yn ysbryd) wedi creu sefyllfa sy'n amlygu gogoniant Duw'n amgenach. Mae'r dull hwn o ddeall iaith a ffigurau ymhell iawn o ddull rhyddfrydwr megis Bultmann, gan fod Hanes a'r llythrennol yn cael sylw a pharch cyd-berthynol, megis corff ac ysbryd yn yr Ymgnawdoliad. Megis ym mherthynas y llythrennol â'r troadol yng ngwirionedd y goruwchnaturiol, felly'r berthynas rhwng hanes a myth – peth a gollir wrth ymgyfyngu i fyth yn unig.

*

*

*

Nid heb reswm y dyrchafodd beirniaid llenyddol cyffredin ddyfais botensial y troad ar hyd y canrifoedd. Diogela'r llythrennol a oedd yn sail iddo. Oherwydd ymaflyd yn yr iaith, a'i throsi a'i chystwyo, fe gafwyd golwg newydd arni mewn troad. Diau fod modd mynd â'r iaith drwy drysordy meddwl o'r fath lle y gwisgir hi mewn ysblander. Mae hi'n medru ambell waith sefyll ar glogwyn yno'n sydyn ac arolygu gorwel heulog amryliw er syndod tebyg i ddarllenwyd o ganfod panorama real mewn geiriau. Mae rhywbeth godidog yn digwydd iddi.

Yn dawel iawn, mae'r llythrennol syml a syth ei hun, o'i dderbyn, y pryd hynny, fel pe bai'r iaith mewn cyflwr sy'n cael ei olchi'n gliriach, ac yn cynyddu mewn trosiad. Mae'n fath o wir glân. Dinoethwyd ei rhethreg hi ac ymyrraeth â'i phosibiliadau. Fe'i gosodir hi rywfodd yn nes at lendid absoliwt. Gellir dweud, 'fel hyn y mae i fod'. Yn eithafwydd y llythrennol y mae hi'n cael ei hysgytio ambell dro am ei bod yn cyrraedd y deall mewn trosiad tra straeniog. **Felly y bydd troad mawr yr Hen Destament yn cael ei ragosod er mwyn bod yn eglurhad i'r Testament Newydd diriaethol. Nid yw'n ormodiaith honni bod y Beibl bwygilydd yn ymwneud â pherthynas ffrwythlon y llythrennol a'r troadol, y cnawd a'r ysbryd a gyd-ddefnyddiwyd. Nid oes yr un sefyllfa ddiriaethol a llythrennol yn y Beibl heb fod yno yr un pryd ystyr sydd nid yn unig yn anweledig ond yn *droadol* anweledig.** Dyma fframwaith cyson y Beibl. Perthynas o fath yw pob troad. Perthynas yw sy'n fath o dröedigaeth. Ymddengys i mi fod angen cyd-archwilio'r ddwy ffaith hyn wrth gyrraedd y Gwir.

Rywsut cyfaddaswyd enw Duw ei hun drwy gyflawni'i weledigaeth ohono yn iaith y Beibl i ddod gan bwyll yn fwyfwy eglur. Ar ryw olwg, y mae'r iaith ei hun yn ysigo wrth iddi ymestyn o dan y straen a rown arni gan bresenoldeb y gair hwn ynddi. **Ond mae deall y gair 'Duw', yn ei lawnder gogoneddus, a hwnnw'n dad ymwybodol, ymhell y tu hwnt i ni. Yn wir, fe ddefnyddiodd Origen a Chalfin y trosiad 'siarad baban' yn ddyngarol i ddisgrifio gweithred y**

dyn a ddywed 'Duw' wrthym. Mae ef yn cyfaddasu'r gwirionedd i fod o fewn cyrraedd Israel ac o fewn cyrraedd y dystiolaeth anferth yn gyffredinol. Felly hefyd yn ei ddatguddiad gwir ohono'i hun mewn iaith seml. **Clymir lefelau.**

Gellid sôn weithiau am astudio'r cymhwys o iaith ddynol i ymgynraedd at y Duwdod fel 'Theori Cyfaddasu' (*Accommodation Theory*). Defnyddir trosiadau i ymgynraedd atom ni'r plant. Ond ni wydroir dim yn fwriadol annheg. Yn wir, sonnir am yr Ymgynawdoliad ei hun fel math o air cyfaddasol llythrennol wrth i Dduw ei gyflwyno'i hun yn llythrennol i wneud iawn. Ond y person a drowyd yn ddyn ac a anfonwyd, oedd yr Arglwydd, yn oruwchnaturiol i gyfleu Duw oll, ac i'w gynrychioli. Mae llythrenoli yn y fan yna yn gorfod corffori'r ysbrydol real hefyd felly.

Eto, y mae popeth a ddynodir am Dduw ymhlith dynion yn gorfod bod yn fath o gyfaddasiad baban. Cymerer y cais i sôn am ei briodoleddau eithafol – gwirionedd, cyfiawnder, doethineb. Dyma ddisgrifiadau dynol cyfarwydd a ddysgir gan feidrol yn mewn iaith syrthiedig dan ofal yr Ysbryd Glân yn cael eu symud o fewn cyd-destun naturiol cul er eu haruthredd. **Felly yr Arglwydd Iesu pan fydd yn damhegu amdano'i hun.** A'r dasg a wna'r Ysbryd Glân, mae'n ymddangos, pan wrandewir ar y geiriau hyn yw eu cyfaddasu'n ôl yn berffaith i'r galon, i weithio'n gyfatebol ddigonol drwy ryddhau'r doethineb, a'r natur, a'r cariad dwyfol i mewn i realiti fel y bo math o dro a chymhwyso ar gyfer yr amgylchiad yng nghlyw'r credadun prin ei ddeall. Dywedir mai 'gormodiaith' braidd o iaith ddynol (math o drosiad arall) yw'r hyn a ddywedir am Dduw yn y Beibl. **Ond os Duw yw Duw – a beth arall yw? – yna, y mae defnyddio gormodiaith ddigonol amdano yn gwbl amhosibl. Bydd yr Ysbryd Glân yn newid calon pechadur i ganfod y Gwir a ddigwyddodd, ac felly y'i deallir.**

Ac i'r gwrthwyneb, ni ellir chwaith, wrth ddarllen amllder y cyfeiriadau at Uffern oruwchnaturiol a damnedigaeth yn y Beibl, ond synied bod yno Leihad (*Litotes*) cariadus ar y ddealltwriaeth echrydus o Uffern. Mae iaith wedi'i dofi i fyw yn y byd. Ni ellir dweud y cwbl o'r ofnadwyaeth honno. **Mae iaith wedi cwmpo yn cael ei defnyddio am y Di-gwmp.**

Ymddengys i mi, megis gyda'r Nefoedd, a Duw, a Christ, fod y methiant llwyr mewn iaith i eirio Purdeb a Chariad a Glendid y Nef mor eithafol â'r methiant i gyfleu dyfnder ac eithafrwydd Uffern. Cymedroli yn rhyddfrydol yn ein meddyliau yw'r ysgogiad naturiol i ddofî pob gair 'cas' a 'glân' fel ei gilydd yn y cyd-destun ysbrydol. Cymharol ddof yw iaith ohoni ei hun i 'ddweud' o'i chymharu â'r hyn sy'n 'gweithredu'; a'r tebyg yw mai cymedrol a chynnil braidd yw hyd yn oed y disgrifiadau mwyaf enbyd o Uffern a geir yn yr ysgrythurau o gymharu â'r realiti absoliwt. Mae pylni'r deall dynol yn gweithredu fel amddiffyniad Duw i glustiau dyn. Mae'n lleddfu fel y gall dynoliaeth beidio â gweld Duw fel y mae – a marw (Deut. 5:23-24). Eto, y mae'n deg ac yn gyfiawn. Mae iaith yn newid y deall wrth basio o'r Naturiol i'r Goruwchnaturiol.

Mae'r rhai, sy'n credu mai llythrennol yn unig yw'r disgrifiad o Uffern yn y Testament Newydd (sut bynnag y'i gwneir), yn cael anhawster i gydweddu *golau* tanau'r delweddau (Dat. 19:20; 20:10-15; 21:8) â *thywyllwch* eithafol (Math. 8:12; 22:13; 25:30; cf. Jwdas 7:14). Mae'r symbolau sut bynnag yn cydsynied â darlun o ddiodefaint ymwybodol. Felly y dadleuai J.P. Marchand fod fflamau Uffern yn ôl pob tebyg yn droadau ymestynnol o ddiodefaint ymwybodol ar gyfer y Farn ddiriaethol (2 Thes. 1:8; Heb. 12:29). Mae trosiad yma yn baradocs cyfatebol. Beth bynnag, awgrymu'r gwir am y tuhwntrwydd gwir y mae hyd yn oed straen ymestynnol mewn iaith.

Ceir delweddau o boenydio diddiwedd (Salm 37:2, 9-10, 20, 38; 1 Cor. 3:17; Phil. 3:10). Ond dylid gosod y rheini ochr yn ochr â'r sôn am 'ail farwolaeth' (Dat. 20:14; 21:8) ac am ddistryw (2 Thes. 1:8-9; 2 Ped. 2:1-3; 3:6-7) a'r datganiad 'coeg' yn Salm 36:10, '*Ymhen ychydig eto, ni fydd y drygionus.*' (Coegi? Os nihil y mae'n ei olygu; os absenoldeb yw mewn distryw, yna cryned dyn.)

Awgrymir bod yna weddau o gosbi a dioddef (Math. 11:24; Luc 12:47-48; Dat. 20:11-12), a byddai hyn yn unol â'r egwyddor Feiblaidd o gymhwyso'r gosb yn ôl y drosedd (Exod. 21:23-25; Lef. 24:18-22; Dat. 19:21).

Ymddengys nad oes modd mynegi'n fanwl natur lythrennol a'r difrifoldeb a'r ofnadwyaeth sydd mewn pechod. Cymorth oedd paradocs i gyfleu'r amhosibilrwydd i ddyn ddeall fel y mae Duw'n ei ddeall. Bu llaweroedd o Gristnogion yn amharod i fod yn gwbl lythrennol glinigol ynghylch Uffern, er cydnabod yn ddwys y fath le. Tybient ei bod y tu hwnt i ddychymyg. Felly Origen, Calfin, a rhai diweddar megis C.S. Lewis a John Stott. Cafodd yr olaf ei geryddu dipyn am fentro rhag derbyn y llythrennol yn unig. Eithr mentro fu raid i bawb gyda'r hyn sy'n annealladwy. Gwiw cofio ar y llaw arall fod yna draddodiad solet a pharchus i'r llythrenolwyr ceisiedig hwythau ers Tertwlian, Awstin, hyd at Jonathan Edwards.

Rhan o ymagweddu *macho*, 'Americanidd' braidd, ym mryd rhai, mae arnaf ofn, yw mynnu, o fewn cyd-destun diwylliant y Gorllewin Gwyllt gwydn imperialaidd, gorbwysleisio yn obsesiynol y lle sydd i eithafion creulondeb Uffern a'r 'gosb eithaf'. Eto'n ddiweddar, buwyd yn fwy parod i echrydu nag y byddid mewn amgylchfyd mwy tosturiol. Y gwir yn ôl pob tebyg yw bod amgyffred y Nefoedd ac Uffern ymhell y tu hwnt i fanylder helaethu'r meddwl, ac yn cael eu trechu gan Gariad yn estyn cymorth i'r meddwl brau yn eu cyferbyniad yr un pryd. Dirdynnol yw tosturi ei hun i rywrai a'i prawf. Ni allwn gydag ymennydd meidrol ddirnad chwaith beth fydd milran o hanfod y prawf o lendid Duw na chwaith o fod mewn 'byd' heb bresenoldeb pechod. Nid amharchu'r llythrennol a wna'r trosiadol: ffordd Feiblaidd helpfawr o feddwl yw. A gwir yw i gyd.

* * *

Yr hyn sy'n ymddangos yn wir ganolbwynt iddynt yw'r hyn sy'n ein blino ni ynglŷn â'r Llythrenolwyr (a'r un pryd ynglŷn â'r Gwrth-lythrenolwyr). Mae'n amlwg mai'r hyn a fwriedir yn

flaenaf o flaen ein llygaid yn y pen draw yw gogoniant Duw. Rhyfeddod Ei allu a'i odidowgrwydd nerthol a goruwchnaturiol yn Ei waith, dyna'r hyn a ddylai'n cipio ni i'w foli. Gofyn Rheswm am addoliad y tu hwnt i ddehongli gor-sicr. Ond yr hyn sy'n ennill gormod o sylw efengyleiddwyr mor aml yw materion ffwdanus megis 'hyd' y dyddiau yn *Genesis 1* er enghraifft, natur (olyniaeth farddonol neu beidio) eu trefn gronolegol, a dyddiad union pob gweithred. Atynnir ein bryd gan lythrenolwyr yr ymylon weithiau, rhag penlinio a gogoneddu gerbron rhyfeddod ysgubol y Cread hanesyddol annealladwy ei hun.

Nid hyd y dyddiau llythrennol sydd yn y canol yn Genesis 1, os edrychir, ond cynnwys. Ac ni ddylid gadael i feirniaid fel hyn gamarwain wrth ei ddarllen. Onid oes gorbwysleisio ymgyfyngol i ddehongli llythrennol naturiol? Efallai mai Genesis, er gwaethaf cronoleg y Beibl, yw'r llyfr *olaf* i'w ddarllen yn gyntaf. O leiaf, llyfr na ddylid ei astudio bellach nes bod y Bregeth ar y Mynydd, y Damhegion, ac Epistolau Paul wedi'u treulio'n llwyr, a'r Datguddiad yn arbennig, yw Genesis, gan fod yr arfer ymhlith rhai ysgolheigion o 'ffidlan' delwedd Genesis i gyfarfod â rhyw fath o gyfnod 'modern', wedi'n hen ddallu rhag godidowgrwydd gorfoleddus gweithredoedd cynnar Duw. A rhag syfrdandod addolgar tu-hwnt-i-ddeall Ei allu, a'i rym, a ffaith ei greadigrwydd.

Egyr y Beibl â rhediad ysblennydd a mawreddog, nid â phroblem dehongli. Nid problem dehongli i'r Modernwyr yw'r anhawster na'r pwrpas, ond problem plygu. Mae'n amlwg bod angen i ni ymateb i hyn drwy addoliad dwys. Ym mha ffordd bynnag y down ato, **ffeithiau hanes yw a mawl yw.** Gwyddom hynny: ysgogiad unplyg a diamheuol yw – i ffydd. Does dim un 'efallai' yno. Hanes yw hanes. **Nid 'damcaniaeth' sydd flaenaf yn y fan yma, na bwrw amcan. Y gwir golau ydyw, a hynny sydd yn y canol: galwad yw i'n meddyliau ac i'n teimladau ymgrymu'n llwyr mewn symlder ymenyddol ac ymddiriedaeth, ac fe dderbynnir y gwirionedd cychwynnol sydd i fodolaeth heb ffidlan ynglŷn â'r hyn sy'n israddol.** Dyna hefyd y fantais o beidio â bod yn gaeth i fregusrwydd 'gwyddoniaeth' amddifad lythrennol.

Dywed y Beibl y gwir cyn belled ag y gellir ei ddeall byth gan ddyn.

Yn ei esboniad o Lythyr at yr Hebreaid, sylwodd Moffat fod yr awdur 'yn fynych yn troi'r llythrennol yn ffigurol, a'i ddehonglwyr diwinyddol yn ymroi'n aml i droi'r mynegiant ffigurol yn yr Epistol yn llythrennol'. A phriodol yw sylweddoli beth yn union sydd ar waith gan gredinwyr ffyddlon. Bu gormod o frys gan lythrenolwyr gwiw os eithafol efallai i gollu natur a phwrpas y gwir gred sydd mewn trosiadaeth.

Rhaid derbyn bod y proffwydi yn eu hesboniadaeth hwy yn cyflawni gweithredoedd *symbolaidd* weithiau lle y mae Job (yn ei farddoniaeth) yn disgrifio'n realistig ymosodiad ffyrnig Duw arno ef ei hun: Job 16:12-14; cf. Jacob a Duw: Gen. 32:22-30. Maent oll yn ymestyn at yr anghredadwy ieithyddol. Felly yr ymestynnir mewn llawer man.

Mae'r dehongliad troadol symbolaidd gan yr Iddewon a chan Gristnogion o Ganiad Solomon, yn nhermau Crist a'r Eglwys, yn ddigon cywir o bosibl – er y gall fod hefyd yn gyfres o ganeuon serch go iawn rhwng 'gŵr' a 'gwraig' i fawrygu priodas. Dichon nad oes modd bod yn ddogmatig bendant gyda'r naill a'r llall o'r deongliadau hyn, er mwyn ei gydnabod yn destun teilwng o'i ganoneiddio ar y pryd, er bod perthynas glòs gwryw a benyw yn rhan mor ganolog o Fywyd. Mae'n brofiad pwysig i'r bod dynol. Darlun yw o briodas ysbrydol hefyd, bid sicr; ac yn briodol felly wrth feddwl am gyd-destun corfforol y Beibl.

Tebyg efallai yw delweddaeth rywiol Eseciel 16:23 a Hosea. Gwir yw amgyffred y Beibl yn ei grynsyth drwy gydlyniad. Mae cymryd golwg uchel ar y cyfan hwn yn 'dyrchafu' digwyddiadau real. Y mae cariad Iesu ac angen dybryd pechadur (neu Eglwys anghenus) yn brofiad mor dreiddgar a llawn fel na ellid amcanu i'w darlunio'n annigonol onid drwy gyffelybu angerdd gŵr a gwraig yn iaith Solomon. Ac wedyn hyd yn oed, mae dyn yn syrthio'n fyr yn ei berthynas â deall hyn. Mor amhosibl yw ceisio cyflwyno un o briodoleddau dyfnaf ysbrydol taith ddaearol, a hynny fel pe na bai ond o fewn profiad dyn yn unig. Yn y diwedd, y mae eithafrwydd yr awydd i'w debygu ef i unrhyw beth, yn gymharol seithug mewn iaith. Nid yw hyn yn y fan hon – nac mewn unman arall – yn awgrymu wrth gwrs fod Duw'n gorfod ymdrechu'n i'w ddatguddio'i hun mewn iaith, ond bod dyn bob amser yn syrthio'n fyr. I Dduw, digonol yw, ac yn berffaith o ran Ei bwrpas.

Eto, nid wyf yn gwadu'r llythrennol, gan fod a wnelom â'r goruwchnaturiol. Ac yn wir, mae pob ystyr yn dechrau yn y meddwl gyda'r llythrennol. Llythrennol addoliadol yw. Dyna sy'n gofyn am ddifrifoldeb yn syml. Dyna'r drefn gywir feddyliol drwy ddarllen gyda'r Beibl, gyda rhyw fath o argraff neu gof corfforol sy'n aros yn ddelwedd ar y retina i'n cynorthwyo. Dyna'r sail. Fe gysylltir y cof â sŵn drwy ailadrodd y cyswllt. Y drefn a'r symudiad sefydlog rheolaidd hwnnw sy'n caniatáu creu ystyr. Ar ryw olwg, teg yw defnyddio'r term 'absoliwt' ynghylch gwirionedd y llythrennol hyd yn oed oherwydd y cyswllt rhwng pob gwirionedd â'r Duwdod eithafol. Y llythrennol hwn, wrth aros yn ddibynnol, sy'n caniatáu bod y troadol yn bosibl. Rhaw yw rhaw. Heb y llythrennol fel man cychwyn a'r un pryd fel perthynas effeithiol mewn tebygrwydd, nid yw'r strwythur yn ei le i gyflawni ystyr y bwriad.

Yn yr ysgrythur ni ddylid ystyried y troadau fel 'addurniadau', serch hynny. Ni ddefnyddir hwy i gamarwain chwaith eithr i iawnarwain. Yn y cyd-destun ar y pryd yn y Beibl, gellir bod yn sicr fod troadau sydd ar waith yn estyniad ystyrion gwir i'r llythrennol. Anelir at wella ystyr neu ychwanegu ati, drwy'i throï. Gall hynny fod yn wir yn y Salmau, yn Eiseia, neu yn y Datguddiad, mewn llenfathau gwahanol. Ymdrech ydynt i ddweud y gwirionedd yn fwy manwl, o bosibl yn fwy deallol, neu'n fwy effeithiol ym maes profiad teimladol. Gall troadau iaith y llyfrau fod yn eglurach na'r llythrennol, am Hanes, am Dduw, neu am y cyflwr dynol. Cymorth i amgyffred ydynt o ran

bwriad a gyflawnir.

Mae'r Beibl yn ei grynsyth yn Fawl hir unedig o arwrgerdd gyflawn, boed yn Hanes ffeithiol yn allanol, neu'n Fyfyrdod athrawiaethol yn fewnol. Mawl yw o hyd sy'n sôn am Dduw cariadus anfeidrol, am saint a phechaduriaid, ac am bechaduriaid o saint. Fe'u cyflwynir oll drwy nifer o lenddulliau adnabyddus, megis diarhebion, salmau, llythyrau, hanes moel, a breuddwydion. Ond y tebyg yw bod y 'beirdd', – fel beirdd hyd heddiw (lle y ceir synnwyr), – yn ystyried mai Barddoniaeth yw'r ffordd orau a gwir i foli ac i lunio adroddiadau hardd i fawrygu a datguddio'r gwir dychmygus gorau sydd i'w gael. Dyma iaith ar ei cheinaf. Ai creu yw? Nid 'dim-ond barddoniaeth' yw fel y câr llawer o lythrenolwyr cyfeiliornus inni'i dybied am ddehongliad felly. Dull go iawn yw o weld Duw neu'i greadigaeth wyneb yn wyneb, mor dreiddgar, deallus, a bywydol ag y gellid ar y ddaear hon.

Ai anrhydeddu oedd yn ymgais dyn hefyd? Hyd yn oed, pan greodd Duw ddyn 'ar Ei ddelw ef ei hun', creai drwy fath o droad. Hynny yw, yr oedd yn creu tebygrwydd. Nid Ei greu Ef ei hun a wnâi, ond llunio peth arall, ail a oedd yn dwyn ei ddelwedd a'i feddwl ei hun i raddau arni.

Mawrygu drwy'r llythrennol, trosiad, cyffelybiaeth, symbol

Mae dehongli'n ymdrech lydan. Na fychaner y Cristion y trosiadol na'r llythrennol ystyrol.

Ceir ar y naill law y dull 'naturiol' o drafod gosodiadau sy'n ceisio'r union atgynhyrchol ddelweddol tybiedig yn ôl hanfod pob llythyren. Ffordd anrhydeddus ac anochel yw hi o feddwl, ac yr ym yn gyfarwydd â hi wrth ddarllen yn null haneswyr neu wyddonwyr. Mae 'llythrenoli' yn ddull a geir gan rai credinwyr ysgrythurol, yn arbennig y rhai a wawdir â'r sgrechair 'ffwndamentalaid'. Ymddengys yn ddull 'gonest', ufudd, union. Ac ar ryw olwg, dyma'r ffordd gynhenid o drin iaith, yn ymddangosiadol ddiwyro, yn ôl y bwriad amlwg a syml yr arfaethwyd iaith ar ei gyfer. Anghenraid sylfaenol yw'r llythrennol. Ymddengys yn Ras Cyffredin.

Gall ar dro, i rywrai, ymddangos yn ffordd adweithiol o ymddwyn, yn arbennig mewn achosion lle y mae'n amlwg bod rhywbeth wedi'i fwriadu'n drosiadol neu'n farddonol. Gwylier yr agwedd ddiraddiol sy'n ceisio anrhydeddu fel hyn: 'Edrychwch, dwi'n barod i gredu hyn yn blwmp ac yn blaen, yn llythrennol brennaidd. Mi lynca-i'r peth fel y mae, yn ei eithafiaeth ddiddwli. Cristion fel yna ydw-i.'

Agwedd anghywir yw bychanu ymdrech y deall unplyg. Onid dyma'r dull sylfaenol rhesymol, wedi'r cwbl? Onid at hyn y mae'r dull trosiadol yntau a'r dull ysbrydol gyda'i gilydd yn troi yn y pen draw am gymorth. Dyna'u gwreiddiau ffaeledig. Cyfannu a rydd angor i'r ddau ddull. Fe'u ceidw hwynt rhag crwydro'n rhy bell. Yn wir, heb y dull hwn yn graidd, does yr un o'r ddau ddull arall yn gweithio. Mae'n gynwysedig ynddynt. Felly, mae yna fath o ddiogelwch yn y dull

hwn. Mae'n ymddangos yn ddi-dwyll, er y gwyddom mor bell y gall ysgolheigion anhunanfeirniadol drwyddo ddyrchafu rhagdybiau naturiolaid mewn modd bron yn ofergoelus, gan esgus eu bod yn llythrennol ddiuedd.

Er bod rhai beirniaid Beiblaidd 'modernaidd' yn hoffi gwawdio llythrenolwyr, dyna'r union safbwynt a gymerir ganddynt hwythau yn gyntaf o raid, er eu bod yn taeru'u bod yn ffyddlon i'r Beibl ac am synied yn drosiadol amdano. Y llythrennol yw'r sail. Nid yw pob beirniad modernaidd yn defnyddio'r disgrifiad 'barddoniaeth' am y Beibl am reswm unplyg i fawrygu'i awdurdod.

Gwelai Pantycelyn Dduw fel Bardd, a'r Greadigaeth yn llyfr a ysgrifennodd Duw, fel petai. Trosiad yw. Lle bynnag y bydd brawddeg yn cymharu dau wrthrych â'i gilydd drwy ddweud fod un *fel* un arall (awdur fel Awdur, dyweder), awgrymir ein bod yn llunio 'cyffelybiaeth' rhwng y ddau: lle y dywedir bod Duw *yn* awdur, y mae'r ddolen meddir yn dynnach ac yn 'drosiad'. Ond yn drydydd, lle yr hepgorir y *fel* a'r *yn*, ac uniaethu symbol a realiti gan gymryd yn ganiataol mai'r Awdur dwyfol hwn (yn ddi-esboniad fel petasai) a *grwydrai'n greadigol* yn yr Ardd, gellid honni mai 'symbol' a 'ffaith' yw'r termau priodol. Eto, caniatâ'r Beibl y tri: yr oedd Ef yno, yn llythrennol ysbrydol ym mhob un.

Defnydd cywir o iaith yw troad, sy'n dröedigaethol weithiau, beth bynnag yw'r ddyfais unigol, boed yn drosiad, yn gyffelybiaethol, yn symbol, yn ormodiaith, neu'n lleihad. Effeithia ar ystyr. Mae Troad yr 'Awdur' wrth sôn am yr Ysbryd Glân yn dysgu'r athrawiaeth mai Person yw o ran unigolyddiaeth, fel chwi a fi. A yw'r Person yn droad o raid am ei fod fel petai'n tadogi Natur ar Oruwchnatur? Mae seciwlariaid yn synied mai term am bobl feidrol yw 'personau'; eithr nid oes corff gan yr Ysbryd Glân. Seciwlariaid a symleiddiodd 'person'. Cymhwyswyd y defnydd arferol o'r gair 'Person' felly yn wahaniaethus. Dechreua'r Awdur yn y sylwedd llythrennol un dimensiwn, yn y profiad o'r realiti hanesyddol; a chenfydd y darlennydd 'eco', argraff neu ddelw gyffelyb: adleisiau wedi'u cerfio ar y cof. Boddheir y credadun o weld y tebygrwydd rhyngddynt hwy, a synnir ni. Ac yna codwn i gydnabod yr Ysbryd Goruwchnatur. Ni phetrusa Hwnnw rhag troad.

Beth yw'r gwaith daearol a wneir gan yr Ysbryd Glân? Tystiolaethu oedd prif waith y Beibl. Ac y mae gan yr Ysbryd Glân waith beunyddiol, sef tystiolaethu am yr Arglwydd Iesu Grist.

Credu yw'r priod ymateb gan gredadun. Credu syth, syml, gostyngedig, ffyddlon.

Yn ogystal â'r Ysbryd Glân a'r Eglwys, roedd tystiolaethu yn rhan o waith Iesu Grist yntau ei hun hefyd (Ioan 18:37): '*Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd, i dystiolaethu i'r gwirionedd.*' Dyma grynhoi anferthedd pwrpas yr Ymgawdoliad mewn trosiad neu lythrenolrwydd cyfyngedig corfforol, yn 'bersonoliad' (*personification*), yn holl botensial iaith. Ond gyda'r Mab neu gyda'r Ysbryd Glân, ni ellid o hyd lai na themlo bod dweud unrhyw beth amdanynt yn ymestyniad meidrol awgrymus yn unig.

Defnyddir y troad 'gwynt' ar gyfer yr Ysbryd Glân yn Act. 2:2 '*ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sw'n fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd.*' Pan ddaeth yn amser i'r Cenhedloedd dderbyn yr Ysbryd Glân, sonnir am rodd '*yr Ysbryd wedi ei dywallt*' hyd yn oed ar y Cenhedloedd. Ni byddai'r un llyfr yn y Beibl yn sôn am Iesu Grist yn cael ei dywallt, nac am y Tad '*yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd*' (Gen.1:2), nac amdano'n ymddangos fel '*tafodau tân*' chwaith. Dyma nodwedd arbennig gan berson yr Ysbryd, yn droadol. Rhyw fath o droad anthropomorffig iddo ef yw, mewn modd y gallwn ei ddeall.

Dilyn a wneir wrth symud y tu mewn i ddeall dyn o'r Ddelwedd at y Sylwedd. Yn nwylo'r Ysbryd, symudiad awdurdodol yw hyn, lle y galluogir y dieithr i fod yn gyfarwydd. A chlywn y gwynt hwn yn cael ei drawsffurfio'n dân – 'barn' yw yn dod allan o 'enau' Duw (Job 41:19-21; Salm 18:7-8, 13-14; Jer. 5:14; 20:9; 23:29). Dyma'r tân sy'n 'ateb' gan Dduw i anghrediniaeth (1 Brenhin. 18:24). Tân hefyd yw'r ateb sy'n sefyll ar yr aberth yn lle'r pechadur (1 Cron. 21:26). Mae'r gair awdurdodol hwn yn 'gleddyf', Eiseia 49:2. *Cleddyf yr Ysbryd yw'r Gair*, Effes. 6:17. Mae'r 'gair' yn '*forthwyl*', (Hos. 6:5). Cawn gyfle llawnach ymhellach ymlaen i fanylu ar y math o dasg o 'dystiolaethu' a geir gan yr Ysbryd Glân. Ond cofiwn yn yr enghreifftiau hyn eu bod oll yn 'wir'.

Un nodwedd sy'n gyson mewn barddoniaeth yw bod yna newid, goleddfu, neu drawsnewidiad (math o dröedigaeth) yn yr iaith er mwyn ei chynnal. Mae'r iaith yn cael ei thynnu'n dynnach neu'n cael ei llacio. Rhaid bod gan fardd ryw fath o anfodlonrwydd ar unrhyw iaith ddynol sydd heb symud yn fanwl, yn mwyhau neu'n lleihau mewn amrywiol ffyrdd fel yr hoffai. Felly y bywydir. Ond yn ei modd ei hun, ambell waith, drwy Ras Cyffredin, gellir dweud am farddoniaeth achlysurol nad oes dim mor rhyfeddol, ac na all yr un maes arall ddweud y gwir gyda'r fath arddeliad. I bwrpas yr Ysbryd y mae'n berffaith.

Y cyswllt

Yr ydym fel pe baem weithiau yn defnyddio'r iaith ar ymyl y cyswllt rhwng dau fyd.

Ar y tudalen cyntaf o'i gyfrol *The Holy Spirit*, mae Dr Geoff Thomas yn cyfeirio at dröedigaeth Saul o Darsus ar y ffordd i Ddamascus. Dywed y gallai mai clywadwy i eraill oedd y llais a glywodd Saul o Darsus. Ac felly hefyd y llais a glywyd amser bedydd a thrawsffurfiad yr Iesu. Ond meddai, yn achos Saul, fe allai ddigwydd ar y llaw arall mai'r ystyr oedd bod yr Ysbryd wedi agor ffurf argyhoeddiad clir a sydyn yn gwreiddio yn ei feddwl fel gair uniongyrchol gan Dduw. Hynny yw, gallai'r gair 'llais' fod yn droad o fath. Taw p'un, am yr Ysbryd ei hun a lefarodd, nid oes dwywaith, boed yn droad neu'n llythrennol; yr oedd yn mynnu ufudd-dod gan Saul boed yn naill neu'n llall. Duw personol oedd y Duw hollbresennol hwn. Ymddengys y 'llais' i eraill drwy iaith yn droad, ond dyma oedd y ffordd gywir o'i ddweud, ym marn y profiadol. Y Beibl sy'n siarad.

Pan fydd llais naturiol yn cael ei feddiannu am dro gan yr Ysbryd, gwyddom ein bod ar y ffin rhwng dau ddimensiwn.

Mewn cyd-destun mor gyfoethog a phwysig, nid syn bod modd i'r Beibl weithiau ddarparu mwy nag un adroddiad neu ddehongliad o'r un hanes. Gellir dadlau ar ryw olwg fod yna ddwy ffordd o sgrifennu Hanes – yn sgil yr Anfeidrol a'r Meidrol, fel yr agos i'r pell. Yr un Hanes yw, ond nid yr un datguddiad yn gymwys o raid, yn yr Efengylau Synoptig dyweder. Ymegyr hyn i bawb yn ôl eu gallu meddwl naturiol, drwy Ras Cyffredin. Ond i'r Cristion, ceir Gras Arbennig *hefyd*. Yr un geiriau, ond yr hyn sy'n bwysig yw mai'r Ysbryd Glân sy'n cynorthwyo'r galon gywir, yn droadol neu'n llythrennol, â chyd-destun wrth dderbyn y geiriau ar hyd y proses o gyfathrebu.

Beth sy'n digwydd yn y cysylltiad rhwng y llythrennol a'r trosiadol, felly? Mae'r testun ei hun yn safadwy safonol. Ond mae'r *symudiad* meddyliol hwn yn fater mawr wrth ddehongli'r Beibl, nid yn dacteg i beidio â chredu. Fe all fod yn esgus i rai dehonglwyr 'ysgolheigaidd' llithrig beidio ag wynebu ffeithiau hanesyddol, ac aros gyda'r anweledig. Dihangant oherwydd rhagdybiau ffaeledig, rhag y diriaethol real, at ryw fyth dychmygol sy'n eu dwyn oddi wrth wynebu her credu ffaith. Dyma weithred sy'n gwyrddroi ystyr, nid er mwyn bywhau'r ystyr, neu fanylu ar ryw wedd, eithr er mwyn symud o'r hanesyddol i'r chwedlonol. Mae'n enghraifft anffodus o Ras Cyffredin sy'n cael ei gamddefnyddio i orlifo dros Ras Arbennig. Osgoad yw a Dihangfa rhag y gwir gan ddehonglydd gau. Dyma wrth gwrs Satan ar waith.

Yn y Beibl ei hun, defnyddir iaith mewn dwy ffordd, yn llythrennol ac yn ffigurol drosiadol **er mwyn goleuo**. Ac y mae sylweddoli p'un yw p'un yn fater hanfodol.

Yn y geiriau 'Oen Duw', pan symuda'r Ysbryd Glân yn y galon, nid cymysgu a wneir. Cynhwysir yr hanesyddol yn y troadol uwch-hanesyddol. Clywed Duw sy'n bwysig, er y gall y Diafol chwarae yn y fan yna. Y gwir yw bod cynhaliaeth ddiriaethol ar gael, os oes ansicrwydd diogel, pa un sydd flaenaf yn y cyfuniad, y llythrennol neu'r trosiadol; ac nid yw'n amhosibl fod y naill a'r llall yn cyd-rodidi bendith. Dyna pam y mae darllen y Gair yn fater gweddi bob amser.

Dyna pam hefyd y mae hyn yn un o'r dadleuon mawr o'r newydd y dyddiau hyn, ymhlith Efengylwyr ffyddlon sy'n parchu'r Beibl anffaeledig, ac yn fwy felly nag ydyw ymhlith Rhyddfrydwyr: 'I ba raddau y mae'n gywir inni drin y Beibl yn droadol neu'n llythrennol?' Rhwng Genesis a Datguddiad, yr hyn a geisir mae'n amlwg yw nid 'beth yw'r gwir?' ond 'pa fath o wir yw?' Nid dadl ddiweddar ôl-Dawkins yw hyn, felly. Fe'i ceid eisoes ym Mhrifysgol Princeton yn ystod ei hoes aur yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn Seminari Westminster wedyn. Fe'i ceid yng Nghymru, fel y'i dangosodd R. Tudur Jones, a hynny i uniongredwyr dichwarae. Ac i rywrai fe all y ddadl fod yn faes tramgwydd. Nid 'faint a gredir' yw'r cwestiwn. Nid didwylledd a chyflawnder Ffydd bersonol chwaith. Eithr sut y'i darllenir? Ac a ellir cymysgu trosiad â'r llythrennol? Beth yw'r

berthynas o fewn 'Ymateb Darllenydd'? A yw cyfaddef bod y Beibl yn defnyddio dull anghyffredin o ddweud y gwir yn mynd i fod yn rhy anodd i'r 'werin seml' ei dderbyn? Ac wedi'r cwbl, oni allai Duw fod mor oruwchnaturiol fel y gellid cyflwyno pob dim heb dynnu sylw at natur symbolaidd y mynegiant – y sarff yn siarad, a'r seraffiaid yn chwythu utgryn? Ac eto, ai anhawster diorthrech yw hyn? A oes modd i blant fod yn ddigon hyderus i wynebu alegori neu ddameg drosiadol neu symbol, ynghyd â hanes llythrennol, *heb* beidio â'u cymryd hwy ddigon o difri? I blant, fel ni, y credu ei hun sy'n syml; ac nid y theori ynghylch pa gyfryngau a geir ac a all fod yn gamarweiniol.

Drwy ddechrau'n feddyliol bob amser yn y rhagosodiad neu'r ffaith amlwg (wedi'i disgrifio felly'n gyson mewn penodau lawer yn y Beibl) fod yr Ysbryd Glân yn benarglwydd, cawn gymorth i ddirnad sut y deallir y rhyfeddod a gyflwynir yn rymus drosiadol drwy ddadlau am eirwiredd Ei weithredoedd. Gellir sôn am Dduw personol yn galaru, yn 'newid ei feddwl', yn synnu, yn dial mewn iaith feidrol. Iaith dyn, ie, deall dyn. Ond mae trosgynoldeb mawr Duw yn peri i rywrai fel arfer wybod (heb ragoriaeth ysbrydol iddynt hwy eu hun) mai troadol wir yw'r fath fynegiant llythrennol ym mhob rhan o'i Air. Drwy Ffydd, ie, a thrwy gymorth yr Ysbryd Glân.

Sylfaen pob iaith yw'r 'llythrennol'. Drwy'r llythrennol y mae iaith yn bosibl.

Mae'r 'llythrennol', i rywrai efallai, yn 'cogio' bod yn fwy geirwir, yn fwy unplyg, heb dro ynddo fel troad. Gellid tybio hefyd yn gwbl naturiol nad yw '*dehongliad*' unffurf yn bosibl rhwng pobl a'i gilydd. Egyr y galon seml i'r geiriau syml, megis plant. A hiraeth y credadun yw bod yn ufudd iddynt oll. Ond trosiad *detholiadol*, fel y gŵyr yr ysgolhaig, yw *pob* hanes hyd yn oed ar ei orau: ni ellir nodi *pob* manylyn hanesyddol, pob gwedd a meicrob, yn ffotograffig neu'n fanylach na hynny. Mae *pob* gosodiad ymhobman yn detholiad llym ac felly'n ddehongliad o raid. Mae'n tynnu sylw at yr hyn y bernir ei fod yn werth ei ddweud. Ceir y llythrennol ym mhobman cyn belled ag y gall fod. Hiraetha'r Cristion am dderbyn mwy a mwy o Air Duw, ac ymddengys mai'r llwybr unionsyth at feddwl Duw yw cydio yng ngeiriau cryno Duw ei hunan yn llawn ac yn ddigyfaddawd, heb dwyll na chwarae, fesul unigolyn. Does dim dwywaith nad yw'r ffordd llythrennol yn ddull tra dilys a gwerthfawr a gorfodol o ddarllen, ac yn wir yn allwedd i'r ddau ddull arall a grybwyllaf. Ond na adawer i'r dull llythrennol ein harwain fel bwli i ymdrybaeddu mewn dadleuon a all ein llygatynnu un fodfedd oddi wrth ganoli ar ogoneddu'r Crëwr ysbrydol. Yr ydym yn greaduriaid brau, yn dymuno'n anfoddog blygu. Rhaid bod yn wyliadwrus o'r '*dehongliad*' rhag iddo gael ei ddefnyddio i wyro, neu i chwalu neu i ddianc yn anonest rhag y dull llythrennol. **Angor yw'r llythrennol er ein bendith.** Mae pob dehongliad yn ffaeledig, yn arbennig y trosiadol hardd.

Genesis

Y bennod gyntaf o *Genesis* yw'r darn clasurol i lythrenolwyr a gwrthlythrenolwyr eu chwilio'u hunain.

I mi, Mawl yw, fel y gweddill o'r Beibl ar ei hyd. Y bennod hon yw un o'r darnau harddaf yn yr ysgrythur. Clodfora'r Hollalluog Dduw y Cread am mai Ef a greodd y cwbl mor ysblennydd. Mae'r Cread yn glodforus ynddo'i hun. Dyma ddyrchafu Ei ffrwythlondeb, ei gariad at drefn a bywyd. Dyma sefydlu dwyfoldeb sy'n gweithio o ran norm ar y ddaear drwy gydol pob wythnos (fel sefydliad), ac yna'n gorffwys. Yn fyr, yn y weithred hon y mae'n gosod esiampl o glod sy'n arwain at y gorchymyn neu'r cyfarwyddyd cyntaf neu'r ddeddf gyntaf a rydd Duw i ddyn i fod yn ffrwythlon ac yn drefnus. Gosodir patrwm gwaith bywyd y ddaear.

I lythrenolwyr weithiau y mae'n achlysur i chwysu amddiffyn 'hyd' pob dydd rhag pob ymyrraeth gan gosmolegwyr sydd hwythau hefyd am gyflawni eu gweithred heb droad. Mae'n gyfle diangen ar y llaw arall i esblygwyr gor-naturiol golli deall gwirionedd 'ffundamentalwyr' am eu bod yn cymryd olyniaeth y creu deunyddiol ac amseryddol yn fater cronolegol cyfartal o gyfnodau gorffenedig. Ac, er bod y manylion ynghylch y glec fawr yn amrywio braidd yn gyfnewidiol o flwyddyn i flwyddyn, a'r newyddion am y bydysawdau eraill yn chwyddo'n afradlon, ac er bod y manylu ynghylch yr 'esblygu' allan o ddim drwy 'ddamweiniau' amrywiol a thywyll eu cysylltiad yn cambihafio'r un mor uchelgeisiol, myn esblygwyr hyderus droi'r Mawl prydfarth hwn yn gyfrwng i gyntefigrwydd eu deall annigonol eu hunain, ac amau gair a roddwyd drwy fwy o awdurdod nag a feddent hwy. Yn fyr, dyma'r pryd y myn llythrenolwyr a gwrthryfelwyr fel ei gilydd golli'r plot os nad ydynt yn grediniol. Rhaid cydnabod y Goruwchnaturiol.

Ym maes troadu, *Genesis* yw'r bwgan mawr i lawer. A hoffwn pe gallem nesáu at y maes hwn, yn ddi-ofn ynghylch rhagdybiau ymyrrol llythrenoldeb gwrthdroadol neu droadrwydd gwrthlythrenol. Annidwylledd ystyfnig cymhellion a'u negyddiaeth betrusgar sy'n fy mlino weithiau ynglŷn â'r Trosiadwyr rhamantaidd yn yr achos hwn erbyn hyn. Yr awydd gwasaidd am barchusrwydd academiaidd, efallai, drwy lynu wrth dermau gwyddonol negyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Awydd cyfredol yw i wrthod y goruwchnaturiol yn rhy barod ac yn rhy anneallus. Y gwir amlwg mewn Cristnogaeth yw bod y Gwyrthiol a'r Goruwchnaturiol realistig yng nghanol y Ffydd hon. Ac nid credu dall yw hynny. Rhagosodiad ystyrllon yw, megis anghredu. Nid oes dim chwarae i fod ynglŷn â hyn.

O fewn cyd-destun y Goruwchnaturiol anochel adeg y creu, llygad-dyst oedd Awdur y Beibl. Yn wir, un o weithredwyr presennol y Creu ei hun oedd yr Ysbryd Glân. **Ni ddylai Cristion gael anhawster i ddehongli rheidrwydd y Goruwchnaturiol fel rhagdybiaeth ddidrafferth a chwbl dderbyniol i 'Wyddonydd' hyd yn oed. Pam lai?**

Yn y darn o 'ryddiaith' batrymog a mawrhydig sydd yn *Genesis 1*, y mae'n bur amlwg mai'r diben pennaf yw cysylltu Duw yn ddigymrodedd â gweithred oruwchnaturiol hanesyddol y Creu. Ni lwyddwyd erioed er pob ymdrech i wrthbrofi'r Creu gwyrthiol hwn. Ofereidd anghyffredin fu rhagdyb croes pob 'gwyddonydd'. Mae'r methiant ar bob tu i wrthbrofi yn arwyddocaol. Mae'n amlwg hefyd nad yw'r digwyddiad goruwchnaturiol hwn ddim yn mynd i gael ei ddisgrifio'n fanwl dechnegol yn ôl methodoleg gyffredin wyddonol a naturiol yr unfed ganrif ar hugain na (gallwn ddychmygu) ganrifoedd eraill yn y dyfodol. Ac eto, heb ei esbonio, o fewn ein gallu, mae'n rhaid disgwyl ateb achos-ac-effaith beth bynnag fo'r esboniad, a hynny mewn amgylchiadau gwahanol mewn amser a lle. Ni chlywais yr un ateb gonest sy'n gweithio'r holl ffordd ac sy'n dal dŵr yn fwy safadwy na'r un Cristnogol. Ni ellir hepgor Creawdwr-o-Achos: mae'n amhosibl.

Digwyddodd rhywbeth diriaethol hardd yn Eden yn ôl 'pawb', beth bynnag am lythrenolrwydd neu drosiadolrwydd annirnadwy y dull o'i amgyffred yn y cyfnod diweddar a beth bynnag yw lleoliad daearyddol 'Eden'. Ac yn ôl trosiadwyr o Gristnogion (ac y mae un o'r esbonwyr mawr mwyaf ceidwadol, Edward Young, yn addef mai ffigurol yw'r sarff sy'n siarad dyweder), y mae trosi'r ystyr ganolog a'r bwriad ysgogiadol yn golygu ei ddeall hefyd yn sylfaenol cyn belled ag sy'n bosibl yn *ddigwyddiad hanesyddol mewn amser naturiol go iawn*. Nid yw canfod troadol o raid yn datod credu cwbl ymroddedig hanesyddol. Rhan o'r broses droadol yw llythrenoldeb pob gair yn gyntaf. Hynny yw, rhaid sylweddoli mai'r ffordd orau lân i ymdeimlo â dirnad nerth trosiad, os trosiad o fath sydd yma, yw nesu at y Beibl ac amgyffred mor llythrennol ag y gellir – fel gyda phob trosiad arall. Drwy lythrenoldeb y cyrhaeddir pob trosiad. Dyma fethodoleg pob deall doeth. Dibynna dilysrwydd a nerth proses trosiadu ar hynny. O ymddiried yn y trosiad bythol-bresennol yn y modd hwnnw, fe ellir cyrraedd orau y canfyddiad cywir o'r rhyfeddod llythrennol. Hanes yw.

Pwnc absoliwt yw'r Greadigaeth i rywrai wrth farnu dilysrwydd Ffydd Cristion, ac yn gywir felly. Pwnc unigryw yw'r gwir ym mhobman. Ac mae cyflwyno'r gwir, pa ddull bynnag fo'r persbectif, yn peri i gredadun gydnabod mai un ateb sydd. Dichon mai Genesis 1-11 yw'r adran fwyaf enwog ym maes crediniaeth lythrennol/drosiadol y bydd Cristnogion yn cael trafferth ynglŷn â hi. Gwiw cofio bod dau o gewri Calфинаidd diwygiedig y Ffydd Efengylaidd yn nhraddodiad yr Hen Brinceton, sef B.B. Warfield a G.C. Berkouwer (*Inerrancy*, gol. Norman L. Geisler, 1980, 416-420, 426-430), wedi dilyn llwybrau gwahanol heb golli ffydd. Gall y gwyddonydd llythrennol fod yn ddi-glem, heb sylweddoli nad yw'r fethodoleg wyddonol arferol yn cael ei dilyn hyd at holl achosion 'esblygiad'. Mae hyd yn oed y gwyddonydd seciwlar, dogmatig o amheus, yn gorfod cystwyo rhai o egwyddorion clasurol gwyddoniaeth, megis yr angen i ailadrodd arbrofion, neu'r her i ddiffinio'r achos i bob effaith hyd yr eithaf.

Aethpwyd ar gyfeiliorn yn yr Unol Daleithiau wrth gyfyngu ysgolion ystadudol i blant naill ai i Esblygiad neu i Lythrenoldeb Beiblaidd, a cheisio esbonio'n unochrog beth oedd y broblem. Ni raid i'r naill ochr na'r llall ofni dirnadaeth nac ofni gwybod am ei gilydd. Mae angen sylweddoli gallu a chymhlethdod a symlder iaith.

Arhosodd drwy gydol oes Fictoria yr her i esblygwyr wynebu'u hunan dwyll. Ni ellid dadlau mai gwyddoniaeth oedd unig reswm yr ymwadu. Pa mor llythrennol neu drosiadol bynnag y bydd y fethodoleg, ni lwyddir i *osgoi esbonio'n union sut a pham y cafwyd y digwyddiad cyntaf hwnnw – Creadigaeth – na pham y didolir rhagdybiau'r pâr naturiol/goruwchnaturiol; pam ymddangosiad cyntaf deunydd yn y Dim; pam ymddangosiad cyntaf ffurf a chyfundrefn; ymddangosiad cyntaf atom, cell, organau, cenhedlu parhad a datblygiad: a'r rheswm sut y cafwyd presenoldeb llygredd endemig*. Maent i gyd yn dal yn y cwestiynau cynnar a ofynnir, ac ar hyn o bryd – ac efallai am byth – yn anfanwl eu hateb, onid yn y Beibl. Ffolineb yw bodloni ar ragdyb heb amddiffyniad iddo. Nid ymddengys yn ddigwestiwn fod dim o'r hyn a 'ddarganfu' gwyddoniaeth gyda 'gradd' o sicrwydd yn gallu gwrth-ddweud y dull treiddgar llythrennol/trosiadol o ddirnad Creadigaeth oruwchnaturiol. Byddai hynny'n derbyn yn anochel esboniad mewn achos o ffynhonnell negyddol a chadarnhaol i'r creadigaeth yn y Duw (neu'r Fodolaeth a'i strwythur, i'r Seciwlaryr) sydd goruwch y dimensiwn gofod-ac-amser naturiol. Byddai o leiaf yn gorfodi chwilio amdano yn ôl ei delerau'i hun. Ni welir yr un carn na gorfodaeth i greu fel arall. Cydnabyddir mewn Mawl ysgrythurol fod y Duw hwnnw, a greodd y drefn, wedi trefnu Rhagluniaeth ar y dechrau a Dychweliad Crist yn y Farn ar y diwedd. Ni welir bod dim o hyn yn groes i Hanes nac yn gwrthod gronyn o Wyddoniaeth sy'n cydnabod ei ffiniau naturiol o fewn gofod ac amser. Ni welir chwaith fod yna unrhyw garn dros ddyfarnu ffiniau naturiol i'r rhagdybio Goruwchnaturiol. Dyma ni'n croesi drosodd felly o'r Goruwchnaturiol i'r Naturiol. **Croeswn hefyd o absenoldeb Bodolaeth i drefn lawn Bywyd. Erys gwyddonwyr llythrennol wedi'u drysu gan hyn – drysu hyderus bid siŵr. Ac felly yr arhosant nes i'r rhagdybiau eu hunain dderbyn tröedigaeth.**

Ar y llaw arall, y mae angen i lythrenolwyr fod yr un mor ofalus. Nid hwy biau'r monopoli o wirionedd mewn Gras Cyffredin. Ble y ceir gwreiddyn gorfodol dogmatigrwydd llythrenoldeb? **Ni waherddir trosiadaeth gan y Beibl sy'n llawn ohoni.**

Mae'n syndod fel y bydd rhai efengyleiddwyr, sy'n gwybod yn burion fod pawb yn methu â deall popeth, yn gallu dal i ganolbwyntio ar 'hyd' dyddiau'r Creu neu fanylion Diwedd y Byd – yn llythrennol neu'n drosiadol, efallai yn lle brysio at y Groes ymlaen llaw. Mae canolbwyntio ar un dull o greu neu o wadu yn cipio uchafbwynt sylw rhai dadleuon eraill y tu hwnt i ofal, fel y mae rhai carfannau enwadol yn canolbwyntio grym llawnaf eu ffydd ar le'r fenyw yn yr 'offeiriadaeth' neu rywioldeb yr 'offeiriadaeth' honno. Dyma bynciau mawr ambell enwad yn yr oes hon, a phrif

drafferth chwyslyd y genadwri gyfoes i rywrai newyddiadurol eu bryd. Rhwystir tystion mor aml rhag rhoi eu calonnau ar galon y Ffydd gan bwyntiau'r ymylon.

Ymgais ac esgus yw bod rhai anghredinwyr seciwlaraidd weithiau yn gobeithiol herio bodolaeth y Goruwchnaturiol. 'Damcaniaeth' y Goruwchnaturiol yw'r prif fethiant deallol, ym mryd cynifer o wyddonwyr diniwed. A dyna graidd eu chwaraeon. O'r gorau: mae hynny'n bwysig. Fel arfer, lle y bo'r ddadl yn codi rhwng Cristnogion, boed yn llythrenolwyr neu'n droadwyr, gwiw iddynt hwythau ddod, gorau po gyntaf, i'r casgliad addoliadol tragwyddol cytûn. Canol y Ffydd yn y pen draw sy'n setlo'r ymylon, mewn gwirionedd. Cânt wedyn yr un prif gytundeb â'i gilydd ynghylch rhyfeddod y Crëwr a'i Greadigaeth, a'r un awydd i gredu a'r un canlyniad gogoneddus, heblaw'r un gwirionedd yn union am y pechod gwreiddiol. Er gwaetha'r holl ddadleuon, erys Duw yr un mor alluog, a dyn ar ei ddelw yr un mor wan; a Satan yr un mor aruthrol o ffaidd.

Ond dywedaf hyn gyda phob sobrwydd. Bûm yn pwysleisio *presenoldeb diamheuol a diffiniau'r Goruwchnaturiol adeg y Creu*. Mae hynyna'n angenrheidiol. Ond hoffwn bwysleisio hefyd berygl eglur – megis pobman arall yn y Beibl – y condemnio dehongli drwy droadu, nes sarhau rhai Cristnogion diamheuol gyda barn sarrug. Yn y cyfnod diweddar, ysywaeth, aeth credu 'hyd y dyddiau' mewn ffordd benodol yn fathodyn credu 'cryf'. Tyfodd llythrenoli yn ffetis weithiau, bron yn fath o 'gredu gwydn'. Yn wir, gwelais hyn yn brawf gan rywrai o ffydd 'bod yn Gristnogion didwyll unionged'. Y newyddion da i rywrai felly oedd bod y byd wedi'i wneud mewn chwe diwrnod, pedair awr ar hugain y dydd. Dim mwy. Mae'r math hwn o gredu mewn dehongliad ynghylch manylyn ymylog, a'r math hwn o gondemnio prenaidd sy'n digwydd i gredu hollol ddilys Cristnogion eraill, oherwydd **'ystyr' lythrennol neu drosiadol y gair 'dydd'**, yn digwydd yn rhy aml. Anghymwynas yw i ddoethineb y ffydd. Digwydd weithiau gan lythrenolwyr didwyll a thriw. Ond byddai ychydig mwy o ystyried ar natur iaith gyffredinol y Beibl yn arwain at weld credu troadol dwfn, difrif a dilys hefyd yn bosibl, fel rhan o gwmpasu cyfoeth y Beibl. Yr wyf yn barod i gydnabod crediniaeth unplyg credinwyr llythrennol, wrth gwrs. Ond mae angen mawr am gyd-ddealltwriaeth lle bo dyfnderoedd naturiol a goruwchnaturiol hefyd yn gyd-bresennol.

Nid oes dim anhawster i ddod o hyd i anghytundeb arwynebol wrth drafod llythrennol/troadol lle y bo'r ddau'n digwydd. Fe ellir cweryla ymhlith Cristnogion yn rhwydd ynghylch sut yn union oedd y ddelw a gafwyd o'r Duwdod ar ddyn, a'r ddelwedd o Satan, a rhai manylion ynghylch perthynas corff ac ysbryd (ac enaid): ni cheir prinder o ddeongliadau cryf ynghylch rhai o'n credoau fel Cristnogion. Ac eto, po uchaf y dyrchefir Duw ac y dangosir parodrwydd i anrhydeddu Ei Air Ef, a pho fwyaf eithafol y bo'r cywilydd ynghylch budreddi marwolaeth pechod, mwyaf parod a hael y byddwn i dderbyn y bydd dealltwriaeth wedi cyflawni'i phwrpas yn y galon dlawd. Mae'r llythrennol a'r trosiadol yn arwain at yr un Ffydd oruwchnaturiol.

Os derbynnir Genesis 1-3 fel math o grynoded (godidog, ddwedwn i), neu o adroddiad annhechnegol braidd o fewn amgyffrediad dyn, gellir ei ystyried yn ddisgrifiad o rywbeth clir a ddigwyddodd drwy drugaredd yn gwbl hanesyddol o raid. Ni byddai ond gwyddonydd di-glem yn tybied y dylai Genesis fod wedi cael ei gyflwyno o fewn persbectif gwyddoniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn hytrach nag mewn arddull troadol goruwch chwiwiau annigonol anwybodaeth gwyddoniaeth ddiweddarach neu gynharach. Digwyddodd dyfodiad dyn wrth reswm yn oruwchnaturiol: cafwyd ysbryd o fewn corff, cafwyd bywyd wedi gwacter, cafwyd bodolaeth lle nad oedd bodolaeth. Gwyrthiau i gyd. Hynny yw, dyma gyferbyniad doeth yr hanesydd deallol wyneb yn wyneb â'r cyn-hanes. Hanes barddonol oedd, yn ddiau, a mawl yn y Beibl, ond heb ymadael â'r hanesyddol ffeithiol nac â'r goruwchnaturiol. Nid yw Duw yn gwneud llai na gweithredu mewn amser a lle creedig. Adroddiad – nid saga na myth gwneuthuredig – yw. Datguddiad ac adroddiad yw am yr hyn a fodolodd yn ddiriaethol, fel nad addoler gwyddoniaeth un cyfnod. Modd yw i ddeall. Proses di-ben-draw yw. Mor rhyfeddol yw ein Duw, yr Absoliwt, ein pen draw i gyd. Bodolaeth Duw o fath penodol sy'n ffitio'r Drefn.

Trefn Duw a greodd bosibilrwydd yr holl wyddorau, yr holl ddeunyddiau, yr holl ddeddfau allan o ddim. Hynny yw, allan o wacter a diffyg ffurf y daethant. Bu rhywrai'n synied am y *tohw wabohw* er enghraifft (Gen. 1:12; Jer. 4:23) fel 'chwalfa negyddol', ond absenoldeb oedd. Roedd yr ymadrodd *tohw wabohw*, sef 'di-ffurf a gwag' yn cael ei ddehongli yn nyddiau Euros Bowen fel pe bai'r ddaear yn chwalfa bendramwnwgl. Ond yn ddiweddarach, fe'i hystyrir yn 'lle amhoblog a digynnyrch'. A'r hyn a geid, o 'ddydd llythrennol drosiadol' i 'ddydd llythrennol drosiadol', ar y pryd yn annhechnegol, yw dweud fel y trawssffurfiad y ddaear ddifywyd a gwag yn ddaear ffrwythlon wedi'i dyfrio'n gyfoethog, fel y gallai dynoliaeth ac anifeiliaid mwyach ffynnu yno (Gen. 1:11-30). Digwyddodd hyn, yn batrwm tragwyddol. Doedd dim cwbl 'afluniaidd' yn awr. Roedd y dyfroedd yn gyfuniad o elfennau, ac yn symboleiddio mater addawol, nid gelyn. Dyma'r deunydd cynnar na all dim godi ohono drwy'i allu ei hun. Dyma'r potensial ar gyfer creadigaeth a bywyd pan alluogwyd dŵr i fod gan rym dwyfol. Mae *rûah* Duw (ei anadl) – sef yr Ysbryd Glân – yn cynrychioli'r egni cynddelwog sy'n corffori potensial y creadigaeth hon. Camgymeriad yw synied yn negyddol am y defnydd a fodolai cyn y Creu. Ond beth oedd yr ots am 'ddehongli' o'r fath? Credid datguddiad, ac fe'i canfuwyd. Mae'r naill dehongliad a'r llall yn coleddu'r un ffydd.

Ein 'cynrychiolwyr' ni fu Adda ac Efa. Dyna'r dystiolaeth gyson drwy gydol y Beibl. Do, cafwyd ganddynt reswm a dychymyg a gweledigaeth a sylwebaeth. Nid oes gobaith i wyddoniaeth fesuredig ar ei phen ei hun gyrraedd y cyn-hanesyddol cosmig yn llawn o'u blaen. Ymchwyydo yw hawliau dyn meidrol o fedru amgyffred yr hollwybodus am yr hyn sydd y tu hwnt i amser a lle. Comedi o raid yw'r dyn-fawrhau a geir gan y gwyddorau naturiol. Nid ydynt yn ffit eto i ddod i

bresenoldeb y Gwirionedd yn y materion hyn. Er bod dyn syrthiedig yn tueddu i or-ddyrchafu ei alluoedd gwyddonol, priodol yw cofio'r gosodiad: **'Mae dau werslyfr safonol ac awdurdodol i ddyn fyfyrion ynddynt am wybodaeth: llyfr agored y Greadigaeth o'u cwmpas, a'r Beibl. Yr Un yw eu hawdur.'**

Efallai fy mod yn methu felly, ond synied yr wyf i nad disgrifio'n llythrennol ddi-hysbyddol fanwl oedd priod nod awdur Genesis 1, ond mawrygu'r Greadigaeth, heb fanylu'n ôl dulliau prenaidd o raid ar beth oedd hyd na chynnwys y dydd cyntaf dyweder na'r ail nac yn y blaen. Nid dyna oedd pwrpas Genesis 1. Yr hyn sy'n blino neu'n rhwystro ffundamentalwyr a gwyddonwyr, fel ei gilydd yma hefyd, yw nid pwysleisio'r rheidrwydd i gredu rhyw drefn olynol benodol a wneir yng ngwrthrychau'r Cread, ond colli'r cyfle bob amser i ogoneddu Duw – y Duw a greodd le ac amser. Buont yn syllu yn y cyfeiriad anghywir. Dyna'r ystyr graidd. Hynny yw, mae'n bwysig canoli'r meddwl yn gyntaf ar y Moliant cynhenid sydd yno, Moliant i'r pethau mawr a bach a wnaeth Ef yn ddiau amlwg, a'u gwneud yn bendant mewn Hanes creedig. Dyna sy'n gadarnhaol yn Genesis. Credaf mai dyna'r flaenoriaeth feddyliol i'r Hanes arbennig hwn. Dyna'r *math* o Hanes addoliadol yw. Wrth gael ein llygatynnu rhag creadigrwydd gan 'wyddonwyr' neu ffundamentalwyr llythrennol, y mae perygl inni gollu'r pwynt. Hanes Duw godidog oedd, yn llunio amser dyn o fewn Amser Duw.

Mae Gair Duw yn ddigonol i ni gydnabod digonolrwydd y dehongliad troadllythrennol i gydwybod Cristion crediniol.

Tra phwysig yw inni beidio â thybied fod Duw wedi gadael dyn yn amddifad wedi'r Cwmp. Drwy Ras Cyffredin, y mae Ef wedi'n cynnal ni yn gynhyrchiol. A thrwy Ras Arbennig y mae Ef wedi cynnig Achubiaeth i ni ac Iawn sy'n unioni'r berthynas rhyngom ac Ef.

Mae'r Duw a edwyn Gristnogion yn Dduw sy'n dod i lawr atom. Felly Ei Air hefyd. Nid dyn sy'n dringo yn ei nerth ei hun yw: Duw sy'n ymestyn atom i lawr i'n tynnu ato i fyny. Mae angen cydio yn ystyr ysbrydol pob dim heb wyro'n anonest. Mae Ef, ar gyfer hynny, wedi llunio'r disgrifiad mwyaf dealladwy a defnyddiol o fywyd sy'n gweddu, a'i estyn i lawr atom ni, feidrolion.

Mae wedi dod i lawr at bob dyn – yn wyddonydd neu'n ysgubwr heol.

Mae'r trosiadol sydd yno, felly, yn y dimensiwn naturiol, yn dibynnu'n llwyr ar y llythrennol: dyma sail pawb. Drwy argyhoeddiad gostyngedig a derbyn y mae'r gwir mawr yn aros. Yn hanesyddol, y mae iaith ei hun wedi defnyddio'r llythrennol er mwyn cyrraedd y trosiadol erioed; ond wrth wneud hynny, ei nod yn aml fu ychwanegu at y llythrennol *heb ymadael ag ef* oherwydd bod ei angen arnom i dyfu. Dyna, drwy Ras Cyffredin, a wna gwyddonwyr hwythau o hyd, megis ysgubwyr heol. Ond aeth trosiad yn wrthrych casineb i wyddonwyr ac i ysgrythurwyr.

Diau fod yna rywrai sydd am wrthod Duw gwrthrychol a ffeithiol oruwchnaturiol o'r fath

sy'n ceisio defnyddio'r damhegion a'r cysgodion a'r dehongliad trosiadol ac yn eu bryd hwy yn dyfrhau a gwanychu credu difrif. Ond diddorol sylwi mai'r hyn sy'n naturiol ynglŷn ag iaith yw ei defnyddio'n llythrennol yn gyntaf ac yn olaf. Ceisio dod i gasgliad llythrennol y mae'r meddwl dynol. Dyna a ystyrir yn 'wirionedd'. Cynhwysir y trosiadol fwyfwy felly **o fewn y llythrennol**, ac at hynny yr arweinir. Gorsafoedd yw 'llythrennol (un dimensiwn) – trosiadol (dau ddimensiwn) – Goruwchnaturiol (tri dimensiwn; llythrennol + trosiadol, a'r adiad)' ar hyd un ffordd union. Gwirionedd cadarn i gyd yr un pryd. Yn y galon gudd, fel bob amser, y mae Duw yn eu meithrin, er gwaethaf eu hanfanteision lawer. Mae Duw yn caru trosiadau, fel y prawf Datguddiad.

Ond gwiw cofio bod y darlennydd difrif, wrth fynd ati am y tro cyntaf i fynych ddarllen *Genesis*, yn cynnwys yn ei galon anghrediniaeth endemig ac awydd isymwybodol i beidio â derbyn Gair Duw. Carwn gyfeirio at *Iago 4:8*, '*Purwch eich calonau, chwi bobl ddau feddwl*'. Dyma'r adnod y seiliodd Kierkegaard ei gyfrol *Purdeb calon yw ewyllysio un peth* arni. Beth bynnag yw'r ffurf drosiadol neu'r llythrennol, undod amrywiol yw. Fe'i deellir ar ei grymusaf drwy syllu â llygad union. A busnes iaith, busnes y Cristion a'r anghredadun, busnes y sêr a'r mynyddoedd yw dyrchafu enw'r *Arglwydd* uwch popeth. Gorau po fwyaf unplyg y bo'n deall ni, felly, ar gyfer y fath orchwyl hyfryd a diddarfod o wneud ein gorau. Ond yr hyn a wnaeth Duw yn *Genesis* oedd – heblaw'r gwaith o Greu – lluniodd ef adroddiad llenyddol neu ddisgrifiad perffaith o Greadigaeth na allai dyn (a oedd yn absennol ar y pryd) byth fod wedi'i wneud, yn rhy gynnar i'r 'Esblygwyr'.

*

*

*

Cynrychiolydd yw sŵn gair am ystyr gair a hwnnw'n gynrychiolydd yn lle peth. Naid y sŵn tuag at yr ystyr. Ac y mae hyn yn wir ym mhob iaith, ac ym mhob defnydd o iaith. Mae pob gair a ddywedwn fel pe baem yn llunio trosiad o sŵn yn hyn o beth. Os dywedwn fod Duw yn 'creu', beth yw ystyr 'creu' onid yr hyn a ddywedir yn y Beibl? Cynrychiolydd yw'r sain 'creu.' A oes unrhyw un a all byth amgyffred maint y creu gan Dduw, y cywreinrwydd cwbl anfeidrol, aruthredd y manylion anweledig, y weledigaeth, y grymoedd, a'r holl hyd a lled ac ysbryd hyd y tu hwnt i'r bydysawd? A'r bydysawdau cyfredol a all fod. Does gan y gair bach 'creu' ddim cysgod o'r llawnder real, wrth gwrs. Ac os dywedwn fod Duw yn ein caru, pa amgyffrediad sydd gennym eto o'n perthynas ni ac ef? Beth yw ystyr dweud ei fod ef ynom neu ei fod yn un â ni pan soniwn am ein creu? Does gennym ond cysgod bach o'r cwlwm eithafol o rodd deall. Dyna'r ffordd flêr ac annigonol a thlawd sydd gan bechaduriaid o amgyffred cyflwr a bodolaeth a'r byd sy'n disgleirio mewn cwlwm tragwydd, nad oes gennym ond yr amcan leiaf o'i ddisgleirdeb. Yr un yw cyfyngder iaith gwyddonwyr a'u hanferthedd o anwybodaeth gyffredin. Ond nid dyna a'n hatalia ni; na nhw.

Hyd yn oed pan ddwedwn 'fi', ni sylweddolwn eto heddiw ryfeddod y DNA a'i holl gywreinrwydd a'r bydysawdau cysylltiedig, nac am natur wrthun y pechod sy'n gwrthwynebu Duw

ynom. Pa berthynas sydd rhyngof a phopeth daearol ac annaearol, a holl wybodaeth Duw? Mor bitw wyf. Yr ydym bob amser fel pe baem yn ymbalfalu mewn deall. Ond gallwn bob amser ymgysuro nad yw Duw byth yn ymbalfalu: fe all ef ddefnyddio pob iaith annigonol i'n cyrraedd yn ddigonol. Mae Ef hefyd yn defnyddio sianel afrosgo y llythyren er mwyn cyrraedd yn gadarn wendid ein calonnau. Does dim anhawster annatrys iddo Ef.

Mae yna bob amser ambell broblem ieithyddol yn aros ynglŷn â'r gwrthdrawiad rhwng y llythyren a'r Ysbryd. Pan soniwn am 'ysbrydoli', hyd yn oed ym maes llenyddiaeth, gwyddom fod yna'r fath beth ag 'ysbrydoli' seciwlar dilys. Gwyddom ar y llaw arall fod yr Ysbryd Glân yn gweithio drwy'r llythrennau yn y Beibl, ac eto drwy Ras Cyffredin yn ogystal â thrwy Ras Arbennig. Gwyddom yn ogystal y gall yr Ysbryd Glân weithio drwy eiriau a draddodir gan bregethwr digon di-awen, heb ddoniau geiriol o werth mawr, ond yn adnabod Duw.

Un peth a amlygwyd wrth sôn am berthynas Duw â'r llythrennol + troadol oedd bod Duw yn gweithio yn aml iawn ar fwy nag un lefel yr un pryd.

Fel y'i cyflwynir gan Paul, mae'r cyferbyniad hwn yn ymwneud â'r gwrthwynebiad rhwng y Gyfraith a'r Efengyl (Rhuf. 2:27 yml.; 2 Cor. 3:6), neu hyd yn oed rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Mae'r Gair sy'n Llythyren a'r Gair sy'n Ysbryd yn cynrychioli'r hunan dynol mewn dau gyflwr. Nid yw'r llythyren yn rhoi bywyd: mae'n lladd. Ond mae'n gallu bywhau. Mae'r cwestiwn yn codi weithiau pwy yw'r 'fi' mewn ambell adroddiad gan 'Paul', ac yna y mae'n ei ddadansoddi mewn ateb effeithiol. Mae'r ewyllys sy'n dod oddi wrth Dduw yn dod ar ffurf y *gyfraith*: nid 'fi' yn unig biau'r cyd-destun, ond ni. Ceir rhywbeth ynddi yr wyf innau'n cytuno ag ef o brofiad. Onid cyfiawnder? Ond *pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth?* Ac yn fwy perthnasol (Rhuf. 9:30): *fod 'Cenhedloedd, nad oeddent â'u bryd ar gyfiawnder, wedi dod o hyd iddo, sef y cyfiawnder sydd trwy ffydd; ond bod Israel, er iddi fod â'i bryd ar gyfraith a fyddai'n dod â chyfiawnder, heb ei gael.'* Mewn gwirionedd, y mae Paul yn disgrifio hunaniaeth newydd Gristnogol, a drawsffurfiwyd gan yr Ysbryd; ac adleisio a wna gyferbyniad y llythyren a'r Ysbryd yn yr Hen Destament (Esec. 11:19; 36:26; Jer. 31:31, yml.). Gwyddom am yr Hen Destament, fod yna wrthdrawiad rhwng llythyren ac Ysbryd eisoes ar waith. A yw hyn yn awgrymu rhywbeth ynglŷn â gorbarodrydd i fod yn llythrennol wrth ddehongli'r Ysgrythur ac i fod yn ddeddfol ynglŷn â llythrenolrwydd, a hynny'n ddadl ar draul ufudd-dod? Nid canfod dealltwriaeth unffurf o ystyr rhyw ddysgeidiaeth yw gwerth yr ysgrythur i neb ond ei bod yn ein harwain at Iesu'r croeshoeliedig, a'i iachawdwriaeth inni ynddo Ef oddi allan i ni – tuag i mewn.

Daw'r llythyren atom felly fel cyfraith estron o'r tu allan sy'n cynhyrfu brwydr â'n hysbryd (Rhuf. 7:14 yml.). A diolch i Ysbryd arall, yr un Glân, yr ydys yn fuddugoliaethus.

Ac eto, drwy'r cwbl, dawn Gras Cyffredin yw troadau o'r fath. Gras Cyffredin sy'n darddiad

i'n holl ddoniau naturiol, fel glaw yn disgyn ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Gwylier rhag marweiddio dim. Gras Cyffredin yw ffenomen y 'Gair' ei hun, ar ryw ystyr, fel cawn weld yn Rhan III o'r gyfrol hon.

Nid yw'r ddawn ddynol hon o droadu, felly, yn fonopoli i Gristnogion, hyd yn oed pan sonnir am bynciau sy'n ymddangos yn benodol Gristnogol. Ond ffaeledig yw'r ddawn ddynol wrth geisio deall popeth: drwy Ras y codir y ddealltwriaeth lawnach, a hynny o'r Nefoedd yng ngolwg Cristion, eithr nid Gras Cyffredin. Cymerer y thema o adeiladu Teyrnas Nefoedd y tu mewn i ni. Ymddengys i rywrai yn debyg ddigon i ddelwedd 'iwtopia'r' anghredadun. Mae'r math o Deyrnas neu o Ddinas a goledda'r dyn meidrol yn dibynnu ar yr ideoleg yn ei galon. Fe'i hiwtopir gan y defnydd arferol o iaith. Fe'i dychmygir ar gynfas o amser a lle. Mae'r hyd a rithir neu'r amgylchfyd i weithredu yn gallu dilyn thema o Oes Newydd seciwlar sy'n gyfredol neu'n cynnwys Byd Newydd. Ond aethpwyd i'r cyfeiriad gau.

Gras Arbennig yw'r ddawn gyffredinol i ddymuno gwrando ar Dduw ac ymateb iddo, nid Gras Cyffredin. Ac erys deall Cristnogol yn grwn yng nghylch Gras Arbennig.

[Credaf fod y term *Gras Cyffredin* yn mynd i ymddangos ym mhob adran o'r llyfr hwn. Ac er mai ychydig o sylw a roddir iddo ar ddechrau'r gyfrol, man a man yw gosod nodyn esboniadol amdano yn gynnar yn y fan hon, cyn datblygu'r disgrifiad ohono fwyfwy, mewn adrannau ymhellach ymlaen.

Fe roddaf innau lawer mwy o bwyslais ar fawredd Gras Cyffredin nag a wnâi Calfin, na hyd yn oed Cornelius Van Til. Cefais f'argyhoeddi o anferthedd a llawnder cyrhaeddiad Gras Cyffredin wrth astudio'r ddwy arwrgerdd gan Bantycelyn, sef 'Golwg ar Deyrnas Crist' (sydd yn ymwneud yn bennaf â'r Greadigaeth a Gras Cyffredin) a Theomemphus (lle y ceir pwyslais ar Bechod a Gras Arbennig).

Bid siŵr, *Gras Cyffredin* cyn y Creu mewn Rhagluniaeth yw'r ffynhonnell i lenyddiaeth ei hun (gwyddorau a chelfyddydau eraill). Rhodd Duw yw. **Dechreua mewn Bodolaeth, wedyn Deunydd, Trefn a Rheswm, Bywyd, Ffrwytho, Doniau Iechyd, Atal Hunan-ddifodiant, Mwynhad, Teulu a Ffrindiau, Gwaith.** Y cwbl yn 'gyffredin'. Cydnabyddir y gras hwn bellach gan laweroedd o ddiwinyddion. Mae'n bod ac yn gweithredu drwy holl hanes y byd; *ac wedyn*. Bodola o flaen ac ochr yn ochr â Gras Arbennig. Dyma'r berthynas ddeuol gadarnhaol rhwng Duw a dyn. Wedi'r Cwmp, – yn ychwanegol at Ras Cyffredin, a thrwyddo, – ceir hefyd Ras Arbennig sy'n cynnig **aileni a bywyd gan yr Ysbryd, perthynas â Duw, Cyfiawnhad heb Farnedigaeth, Sancteiddhad, a Nefoedd ar ôl Marw.** Drwy Ras Cyffredin, cyhoeddir hyn oll gan y Beibl a phregethu i bechaduriaid yn ddiwahân i bawb. Gras Cyffredin oedd y Creu.

Nid yw'r Seciwlaryr yn derbyn bod mwy na Gras Cyffredin (o fath) yn bod (yn awtomatig, er na ddefnyddiant y term). Deallol wrthodedig yw Gras Arbennig ganddynt hwy. Yn achos Gras Cyffredin nid oes ganddynt ddewis yn fynych.

Mae ambell Gristion yn methu â deall beth sy'n 'Gyffredin', ac a all fod yn Ras, rhyngddo ef a'r Seciwlaryn.

Yn y gwahaniaeth hwn, mawr yw'r angen am barch. Yn wir, yn rhyfedd iawn, *parch* yw'r union reswm dros Ras Cyffredin. Y mae Duw ei hun wedi anrhydeddu dynoliaeth gyfoethog y Seciwlaryn oherwydd parch cariadus. Mae'r Seciwlaryn yn gallu rhagori ar rai Cristnogion mewn rhai doniau penodol, oherwydd bod Duw yn eu gwasgaru'n ddiwahân. Hynny yw, mae'r ddwy ochr yn gallu helpu'i gilydd, hyd yn oed mewn materion sy'n ymddangos yn 'ysbrydol' ym mywyd y Cristion, fel yr ymwybod a'r rhinwedd o 'undod'. Dyma gategori mewn bywyd sy'n ymddangos yn sylfaenol i Gristion ymwybod â phrofiad rhyfeddol. Ac wrth fyfyrion amdano, y mae rhai o'i briodoleddau yn dod fwyfwy i'r golwg. Ond y mae myfyrdod ar y profiad o'r ffaith hon yn gallu cyfoethogi dealltwriaeth ysbrydol a llenyddol a gwyddorol; ond gwahanol yw i'r Cristion a'r Seciwlaryn.

A'r un modd gyda rhinweddau megis 'harddwch': y mae myfyrdod y Seciwlaryn a'r Cristion yn gyd-gyfrannol yn aml. Mewn manau felly, i ni oll, gellid mawrygu hyn. Caniataodd trugaredd Duw inni oll fawrygu'r priodoledd yna; a chyd-barchu a chyd-fwynhau.

Term helpfawr arall ym mherthynas Cristion a Seciwlaryr yw 'ymostwng' hefyd. Iach yw i'r Cristion sylweddoli bod yna 'ymostwng' o fewn tiriogaeth Gras Cyffredin a Gras Arbennig, er bod y naill yn perthyn i'r llall, a'r naill wedi'i batrymu ar y llall. Gŵyr y Cristion fel y bydd o ran addysg a swydd bob dydd yn 'ymostwng' i'r hŷn, neu'r mwy medrus neu fwy priodol o ran statws mewn rhyw faes o Ras Cyffredin. Mae hyn yn amrywiol ond yn dra defnyddiol, ac wrth gwrs yn ymarfer da.

Term helpfawr arall yw caredigrwydd.]

Oherwydd yr amhosibilrwydd i'r ymennydd dynol ymestyn i amgyffred byth onid y peth lleiaf am y Nef newydd a'r Ddaear newydd, mae hi bob amser yn ffôl i geisio mynd ymhellach yn ein dychmygion na datguddiad y Beibl. Hwnnw yw'r dehonglydd i'r cwbl o Ras ei themâu.

Mae a wnelo darllen y Beibl â'r dasg anferth o gasglu gwybodaeth am bob agwedd ar fywyd, a hynny oherwydd Penarglwyddiaeth Duw a dyletswydd dyn yn y gorchymyn diwylliannol.

Mae'r ddau air '**Goleuedigaeth**' (*Christian Enlightenment* – gyda Chreadigwyr fel **Galileo, Kepler, Pascal, Boyle, Newton, Faraday, Babbage, Mendel, Pasteur, Kelvin a Maxwell**) neu 'Ymoleuo' (*Seciwlaryr*) yn dermau sydd wedi dod i olygu dwy wedd ar yr '*European Enlightenment*'. Maent yn ymglyfnewid ac yn cyfathrachu i raddau yn ôl gweledigaeth a

ymddangosai'n newydd ar y pryd. Felly'r Rhamantiaeth neu'r Foderniaeth newydd a'u gwelediad hwythau. Nid dweud yr wyf mai diduedd neu gyd-gymysglyd yw hyn oll: fel arall. Dweud yr wyf na all dychymyg meidrol ddianc rhag y duedd mewn deall i wrthgyferbynnu ac i gyfaddawdu. A gwiw cofio bod deuoliaeth a thrioliaeth mewn rhai meysydd yn ffurfiol arwain at burdeb Undod.

Mae'r ymgais i Adeiladu Cenedl a Gwareiddiad, megis yr Hen Israel, yn realiti sy'n ymrithio yng ngweledigaeth y Proffwydi ac yn nod i galonnau'r bobl. Fe barheir yr un syniadaeth yn Israel Newydd y Cristnogion gyda'r Testament Newydd, ac wedyn hyd at Gymru-a'r-byd oll. Dyma yw'r Eglwys Newydd wedi'r Hen Eglwys. Dyma ddelwedd sy'n cael ei choroni gan *ddelwedd y Deml*. Cymherir y corff â theml yn ôl 2 Cor. 6:16-17. Cymherir yr Eglwys ei hun â chorff, a chanddo lawer o aelodau, gyda Christ yn ben. A dyma Israel newydd ei hun a'r corff yn Deml droadol o hyd. Wele, o leiaf, gychwyn gyda'r cam cyntaf: derbyn Crist. Gorau corff, derbyn Crist.

Mae gan Dduw feddwl uchel o'r bod dynol. Dyna pam yr aberthodd Ef a thalu iawndal er mwyn achub dyn (1 Corinthiaid 6:20). Mae'r Ysbryd yn cynnwys golau o fewn y deml hon, ond cyfeiria'r golau hwnnw inni fel y gallwn edrych allan. Mae cydbwysedd pensaernïol y corff a'r ysbryd eu hunain yn strwythur esthetig hardd, yn cynnwys ffurfiau o organau, system imiwnedd, ac o aelodau sy'n wedd ryfeddol ar urddas y deyrnas greedig, ac eto'n Deml.

Ar wahân i waith gwaredigol o fewn Teml y Corff, ni ddylid byth fychanu Gras Cyffredin Penarglwyddiaeth Duw, a'r ffaith fod creu dyn a chreu gwareiddiad yn ffrwyth i'r Gras hwnnw ym mywyd y ddaear. Dyma ran o harddwch y Deml honno. Tyst o Ras Cyffredin fu Hanes Cymru ei hun ar ei hyd. Hanes gwlad gymysg o Ras Cyffredin a Gras Arbennig fu, er mor anodd heddiw yw ysgrifennu'r fath Hanes yn 'wrthrychol'. Yn ei ddehongliad o wareiddiad Cymru, dros gyfnod o ddwy fil o flynyddoedd, bu delweddiad Saunders Lewis, er enghraifft, yn weledigaeth o fawr werth i bawb sy'n ceisio bod yn 'ddiduedd'. Darluniai ef, mewn cyfnod o ragdybiau anghydfurfiol, fil o flynyddoedd Catholig Rhufeinig rhwng y 6ed a'r 16fed ganrif. Hyd yn oed wedi'r 16fed ganrif, ac yn arbennig yn y 18fed ganrif, a thrwy ddirywiad ail hanner y 19fed a thrwy'r 20fed ganrif, cadwyd llais effro ffaeledig ac anffaeledig. Ac o bryd i'w gilydd ceid Ysbryd y Pentecost mewn ambell Deml. Trigfan yw'r Deml hanesyddol hon (Gal. 2:20) i wareiddiad gwydn. Disgrifiodd Saunders Lewis ran o'r gwareiddiad hwnnw: a gras yw diolch.

Mae hanes adeiladu'r Deml yn gysgod o adeiladu'r genedl: traddodwyd y gras hwnnw o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae llinach pechod gan aelodau'r Eglwys ffaeledig ei hun (Heb. 11) hefyd yn adlewyrchu'r byd llygredig – Abraham, Isaac, Jacob (y twyllwr, a'i holl feibion syrthiedig), Joseph a'i blant, Samson, Samuel, Dafydd a Bathsheba, Solomon a'r proffwydi – oll yn peidio â dibynnu ar Dduw rywsut am gyfnod, ac yn mynnu crwydro, ac epilio yn Nheml Pechod. Bu rhaid gwylio llygru'r Deml Sanctaidd bob amser. Roedd yr hyfrydwch a gafodd Duw mewn dyn mor aml

yn cael ei droi'n falchder gan ddynoliaeth.

Ein dyletswydd yw cadw gwyliadwriaeth ar ein her gyfoes. Dengys Gras Cyffredin y twyll.

Mae hunandybiaeth ego-ganolog weithiau yn ymwithiol gofio ac yn gorfawrygu rhagoriaeth ein cyfnod ein hun. Heddiw, gyda ni, fe dybir, y ceir y darganfyddiadau mawr a champau personol. Dyna yw balchder cnawdol y Modernydd sydd gyda ni bob amser, i geisio disodli diolch i Dduw. Tybiwn fod Descartes, wrth geisio seilio diwinyddiaeth ar hunanymwybod, yn dod â *ni* at thema 'newydd': myn ef fod meddwl drosto'i hun yn profi ei fodolaeth. Ond y mae'r cyfryw hunanganolrwydd yn hen ran bwysig o beryglus i bob pechadurusrwydd Cristnogol. Mae ymwybod o'r Duw byw y tu allan i ni yn ateb digonol ers tro i ffiniolrwydd dyn: nid yw'n codi na chwestiwn nac ateb newydd. Ond nid darganfyddiad newydd yw amheuaeth chwaith. O'r tu allan i ni y ceir helaethrwydd y gwrthrychau a chymhellion tragywydd sy'n rheoli llawer o bynciau gwybod, er mai o'r tu mewn y tardd y drygau sy'n eu cam-drin.

Bu'r pwyslais ar ffasiwn chwit-chwat rheswm yn chwythu dros y tir ers tro. Rhag-dybiaeth fregus fu. Pan ddaeth Kant yntau i orseddu hunanlywodraeth ar gyfer Teyrnas Newydd, nid oedd ganddo ideoleg newydd sbon danlli grai nas gwyddai Adda. Ond bu ei wrthryfel yn enghraifft o themateg bwysig ar y pryd, a ddaeth yn themateg gyfredol ar y ddwy ochr. Y gwir yw bod 'rheswm' a'r 'fi' yn faterion o bwys mawr i'r Cristion o Adda ymlaen. Fel y mynnai 1 Pedr 3:15 yn iach, ac fel y mae hynny'n sylfaen i'r Ddinas Newydd: *'Byddwch yn barod bob amser i roi ateb i bob un fydd yn ceisio gennyh gyfrif am y gobaith sydd ynnoch'*, felly y mae Cristion yn medru adnabod anghrediniaeth yn feirniadol a rhoi cyfrif am yr anobaith sydd ynddi. Tyf y math o gymdeithas ddynol, a ddelweddir ac a ddarlunnir, allan o'r gymdeithas neu ddiffyg cymdeithas sydd eisoes rhwng Duw a dyn... Wedyn, pan ddaeth ein cyfnod ni, gorseddwyd gan rywrai yr Afreswm.

*

*

*

Myth yr Osgoi

Gwaith angenrheidiol yw didoli'r 'Hanes' a dyf yn ddelwedd, neu'n wirionedd, neu'n egwyddor ar y naill ochr; a'r 'Myth' sy'n gyfleustra i ddadhanesoli'r gwrthrychol ar y llall.

Math o fyth tlawd a go beryglus cyfoes yw hunan-bwysigrwydd dyn. Yng nghyd-destun y trosiad, nid amhriodol yw crybwyll y term crefyddol ffasiynol 'myth'. Fel arfer, ystyriwn fod 'Myth' yn fath o ddelwedd o ymddygiad neu o arwriaeth neu o arferiad y gellir ei ddosbarthu i gyfleu symudiad syniadol lletach na dameg. Dyna daith Moses drwy'r anialwch, neu Noa, neu Jona ym mol y pysgodyn mawr. Tyfasant o ddigwyddiad hanes i fod yn fyth i rywrai. Yn fynych, sut bynnag, y mae digwyddiadau'n storïol; ac felly, gallant fod yn ffordd i ddehongli Hanes yn ddifyr ddelwedol, neu hyd yn oed i anghredadun, ysywaeth, drwy osgoi cymryd Hanes yn unionsyth. Fe'i defnyddir hefyd yn drawsgrefyddol o fewn cyd-destun aml-ffydd, a thyfant yn gyd-symbolau.

Math o iaith yw gan fywyd gyda chymeriadau a digwyddiadau sy'n creu ideoleg a myth cyffredinol. Ac i gyfeiriad 'egwyddor', y mae'r mythau seciwlar hwythau ynghylch hunan-ganolrwydd dyn yn sicr wedi llunio ideoleg sy'n codi amheuon iach ynghylch mytholegu seciwlar. Myth seciwlar yw hunan-ddyn-garwch, rhagflaenydd dyngarwch, chwarae parodio a hel straeon er mwyn cogio eu difrifoli. Myth creulon yr oes, credaf i, yw myth yr Ego trosgynnol.

Ai esgus yw 'myth' seciwlar inni, felly, yn ein cyfnod ni, i barchuso'n rhagdybiau hunan-ganolog ein hun drwy lacio'r llythrennol yn ein dealltwriaeth o Hanes neu o Grefydd Wrthrychol? Neu a ddifethwyd y gwerthfawrogiad o du Gras Cyffredin sy'n goleuo ffordd llenyddiaeth o gorffori dimensiwn ysbrydol neu foesol, neu o du Pechod drwy'i ddefnyddio'n rhan o ymgyrch i danseilio dyfnder y gwirionedd hanesyddol sydd mewn Gras hardd? Ai twyll yw myth? Y cwestiwn y mae Cristnogaeth yn ei ofyn ac yn ei ateb yw – a yw'r hyn a elwir yn 'Wir' yn wir Wir? Down yn ôl felly at hanesoldeb y Goruwchnaturiol. Fe'n harweinir gan Ras Arbennig a Chyffredin.

Mae'r dyn modern (hyd yn oed fel ysgolhaig), ac efallai'n fwyfwy oherwydd ffasiwn, yn mynd yn fwyfwy amheus bellach ynghylch 'myth', hyd yn oed pan fo ef yn agored ac yn hydeiml ynghylch gwrthrych myth. Iddo ef, ystum symbolaidd fodernaidd fu yn erbyn difrifoldeb Hanes llythrennol o fewn Cristnogaeth. Myn hybu amheuaeth amddifad, ac felly nid yw'n sylfaen ymarferol ddilys o raid. Cafwyd dau wrthwynebiad tuag at foderniaeth o'r math hwnnw. Yn gyntaf, ceid pobl eisoes a fu'n byw o fewn cyd-destun o fydolwg mythaidd sydd o ddifrif ynghylch yr ideoleg ynddo ond yn naif ynghylch y storïau. Mewn amgylchfyd o'r fath, byddai dehongliad symbolaidd yn dryllio'r *uniaethu* â myth. Yn ail, nid oedd 'myth' namyn ffurf, ac yn gallu bod ar dro yn ddull eithaf cyfeiliornus o fynegiant, yn air technegol ar gyfer math o droadu uchelgeisiol. Math o droadu ac o strwythuro myth yw'r dethol pan orfodir ni i grynhoi sefyllfa egwyddor neu ddigwyddiad hir mewn gofod byr. Dewis y dyn modern seciwlar hefyd, meddwn, oedd meithrin y bydolwg di-fyth, drwy gymryd gweledigaeth myth yn chwedlonol. Ond myth oedd hynny hefyd. Dadleuodd Kerényi yn erbyn y dybiaeth hon. Dadleuodd fod y *cynnwys* yn cael ei ddad-fytholegu, nid y *dull o feddwl* yn unig. (K.Kerényi, *Umgang mit Göttlichem*, 1961)

Yn ôl Nicholas Berdyaev yn *The Meaning of History* (1949), ffordd i ailadeiladu bywyd oedd myth, mewn dimensiwn o wrthrychau meddwl. Am na fedrwn amgyffred Hanes yn wrthrychol, fe'i hadferwn drwy fyth. Felly y ceid cyfarfyddiad dwfn rhwng Hanes a myth. Dyfais yw sy'n newid pwyslais Hanes, yn ymddangosiadol er daioni.

Mae'r 'myth' Cristnogol ei hun yn peidio â gollwng pwysigrwydd y llythrennol mewn Hanes.

At ei gilydd, oherwydd amgylchfyd gorsefydledig o oddrychol ym maes mytholeg, dichon mai cyfeiliornad gwastraffus fu'r astudio myth yn fanwl yn y cyfnod modern. Nodweddir y term 'myth' gan strwythur deinamig, mae'n wir; egwyddor yw wedi'i phersonoli; ceir symudiad syniadol

rhwng y gweithredu sydd yn y golwg a'r delfrydau ystyrol, sef dwyn y trosgynnol i lawr i'r presennol. Ond y mae hyn yn annigonol, fel diffiniad mewn dim Cristnogol, oherwydd erys y trosgynnol yn y presennol heb angen y ffurf honno. Nid ymadewir â'r dimensiwn trosgynnol mewn Cristnogaeth. Newidir ansawdd Hanes go iawn wrth ei ragosod neu'i droi'n Fyth. Eto'n rhyfedd iawn, mae gan y Cristnogol trosgynnol yntau ei hanes. Gwyrth yw ffydd i'r Cristion: gras. Ond ni ellir ei pherfformio ohonom ein hun heb iddi beidio â bod, neu fod yn ffals. Rhaid cael ei rhoi i ni, yn bersonol ac yn wrthrychol o'r tu allan i ni. Daw'r gwirionedd a ddatguddir, nid mewn gair a gweithred, ond mewn Ymgawdoliad ac Atgyfodiad, yn rhagdybiau hanesyddol caled. Er na chyhoeddir ffydd drwy gymorth gweithredoedd yn unig, y mae ei strwythur yn gofyn am weithredoedd ac ufudd-dod sy'n diriaethu'r methodolegol. Mae eu niwlio hwy felly â'r term 'myth' i rywrai yn gam tuag at relativrwydd. At ei gilydd, bu'r damcaniaethau 'mythaidd' yn rhy barod i ddirywio'n ffug. Llwybr cam oedd. Ysbryd gweddi yn unig sy'n didoli Myth ffansiol a Hanes.

Ciliodd gweddi ddilys yn ôl allan o brofiad Moderniaeth gan mai ei hystyr Gristnogol oedd cyfarchiad hyderus y gellid disgwyl ei hateb gan Dduw diriaethol. Dialog ydyw mewn Cristnogaeth. Monolog oedd gan Van Burem, a'i troes felly yn fyth. Uchafbwynt gweddi i'r Cristion sut bynnag yw 'Gwneler Dy ewyllys', ac yno ar waith y ceir diweddbwynt effeithiol i'r dialog: gwybodaeth yw bod Duw yno, a'i fod yn rhan o'r siarad. Mewn gweddi y ceir yr ateb i dwyll y myth.

Am gyfnod bu'r term 'Myth' yn hynod ffasiynol, yn gyntaf mewn Crefydd Gymharol, ac wedyn ymhlith Rhyddfrydwyr a symudai tuag at safle rhagdybiol aml-ffydd. At ei gilydd bu'n darddiad i gryn gamddealltwriaeth ddyrys ymhlith Cristnogion ansicr. Peth o'r fath yw Myth sy'n defnyddio symbolau i lefaru. Tardd ei fydolwg o'r henfyd. Os yw'r mewnfolod a'r trosgynnol yn bodoli o gwbl, gall y ffiniau rhyngddynt fod yn rhy hylifol. Mae'r byd hwn a'r byd sydd i ddod yn gyfnewidiol rhyngddynt a'i gilydd. Tardd yr *eirfa* fytholegol a ddefnyddir yn y Testament Newydd, meddid, o apocalypteg Iddewig ddiweddar ac o fyth gwardedigol y Gnosticiaid. (*Kerygma and Myths 1*, gol. H.W. Bartoch, 1951 yml.). Geirfa oedd honno a geisiai'r goddrych.

Cododd 'dadfytholegu' broblemau oherwydd hanesyddoldeb y croeshoeliad a'r rhagdybiau wrth wynebu'r goruwchnaturiol. Cwmpesir digwyddiadau felly gan galedrwydd y digwydd. Y mae llythrenoldeb y Duw sy'n dod i lawr i mewn i Hanes diriaethol i'r beudy ym Methlehem wedi rhoi anhawster cyffelyb i'r Gnosticiaid, gan ei fod yn gallu cario ail ystyr o gariad Duw sy'n ei uniaethu'i hun â dyn yn ei angen, oherwydd ei drugaredd tragwyddol. Dyma gynnwys sylweddolledig yn ffurf yr Hanes. Ychydig o ddiwinyddion ceidwadol a fydd yn gwadu fod yna rai elfennau 'mytholegol' mewn ysgrythur, medd Helmut Thielicke. Cred fod yna gyfeiriadaeth helpfawr Gnosticaidd yn y gymhariaeth gan Paul o Adda â Christ, a bod y Datguddiad yn benthyca mytholeg apocalyptig

gywir gan yr Escatoleg Iddewig ddiweddar. I'm bryd i, mae'r math hwn o ddamcaniaeth yn dwyn ein sylw at ddealltwriaeth ddiwyll rhai sydd heb fod yn Gristnogion, drwy Ras Cyffredin, o bresenoldeb Duw a gwirionedd ar waith mewn realiti. Ond mae gwybodaeth y dyn naturiol o realiti Duw, a chariad Duw at ddyn, yn anfeidrol bell hyd yn oed oddi wrth adnabyddiaeth Cristion o berthynas Duw a gwaith achubol Duw yng nghalon dyn, a'i grefydd wedi'i gweddnewid gan Ras Arbennig. Yn y byd real, Hanes sicr yw'r gofalwr gorau i arwain myth. Nid yw 'tebygrwydd' o raid yn dangos mwy nag y byddai cyfatebiaeth gymdeithasegol rhwng cyneddfau ac arferion bwyta, geni, priodi, marw, y tymhorau, perthynas pobl â'i gilydd, gwleidyddiaeth a'r elfennau yn eu dangos. **Hanes, y cymeriad sy'n gweithredu er mwyn gwirionedd, yw brawd mawr myth, fel y llythrennol i'r anlythrennol. Hanes sy'n ymaflyd ym mhwrpas gonest myth.**

Felly, yng ngwaredigaeth hanesyddol dyn, drwy'i ufudd-dod ef y mae Duw wedi anfon Ysbryd y Mab i'w galon i alw 'Abba! Dad!' Mae'n cael ei ryddhau rhag y felltith a wybu Abraham ac a etifeddir. Esboniad yw, nid myth. *'Y mae pawb sy'n dibynnu ar gadw gofynion y gyfraith dan felltith. Y sawl sydd trwy ffydd yn gyfiawn a gai ffod.'* Felly y mae dyfodiad Crist wedi dyddio'r hen gyfraith fel y tyfai'r gyfraith newydd yn ysbrydol fyw.

Cam yn ôl i'r hen Adda cyfeiliornus hunan-dybiol fu'r llwybr traws drwy 'fytholeg'. Dyry hyn gyfeiriad gau i lygad y credadun: tuag i lawr. Yn ôl Moderniaeth 'unionged' mae hunanlywodraeth yr anghredadun yn edrych tuag i mewn hefyd. Dengys Dameg y Mab Afradlon fod y Mab yn cefnu ar awdurdod ac yn ceisio ymreolaeth. Yn gyntaf mae'r Tad yn rhannu'r etifeddiaeth. Ac mae'r Mab Afradlon yn ceisio defnyddio'i siâr ar wahân i'r Tad. Mae'r hyn, y dylai'i reoli, yn ei reoli ef. Daw cafn y moch yn symbol o'i gwmp eithaf i rwymedigaeth a chaethiwed. Caeth yw. Nid oes gwaith iddo ar wahân, yn waith 'diduedd', yn waith heb ansawdd sy'n rhan o werthoedd ysbrydol. Ni ellir bod yn rhydd rhag caethiwed, onid drwy deyrngarwch uwch. Cofier na raid synied am bob un o ddamhegion yr Iesu fel storïau dychmygol moeswersol. Gall y Mab Afradlon fod yn hanes am bobl go iawn, a ddedholwyd oherwydd ei foeswers.

Ar y llaw arall, camgymeriad yw ofni moeswersi'r dychymyg. Am fod hanes cosmig heb fod yn gylch ond yn llinell, y mae rhyddid y fabolaeth ddwyfol yn ddi-droi'n ôl. **Y gwir yw'r mesur.** Analog yw'r achubiaeth i'r unigolyn ac i ddynolryw. Galwad i'r hil yw. Ond mae'r alwad i bawb yng Nghrist yn ymwadiad â rhoi'r lle blaenaf i bob teyrngarwch arall.

Mae hunaniaethu'r 'llythrennol' neu'r 'myth', a gwahaniaethu rhwng 'ansawdd' a 'digwydd' yn allweddol o bwysig, er y gellir gwneud hynny heb leihau gwerth nac arwyddocâd y naill na'r llall. **Rhaid ystyried marwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist yn ffaith ddiriaethol yn gyntaf a chanddi esboniad diwinyddol ynddi'r un pryd.** Felly'r Creu. Pe byddid yn mytholegu'r farwolaeth yn unig, byddai hynny'n ei lleihau, wrth gwrs. Hanes yw'r nod amgen Cristnogol. Pe byddid yn gadael i fyth

neu ddarlun trawiadol o'r Creu ddisodli ffaith ddiriaethol, mewn amser byddid yn osgoi'r 'digwyddiad' crai. Esgus i osgoi yw troadu y pryd hynny, fel y gall ymddangos yn gyson, nes gwyrddroi ffeithiau. Gall myth leddfu creulondeb ffeithiol yn anonest. Dyma un ddadl pam y mae rhai pregethwyr efengylaidd cadarn digon deallol yn amheus o'r barddonol. Fe'i cysylltid ag osgoi ffeithiau. Rhoddid hanes felly mewn cyd-destun sy'n llwydo ac yn gor-ddychmygu'r digwyddiadol hanfodol. Tybiaf i, sut bynnag, fod y ddyfais 'troad' yn fwy ffrwythlon nag amwysedd 'myth'.

Er mwyn gwahaniaethu rhwng gwir y myth a'r gwir llythrennol, y mae'r athrawiaethau canolog yn allwedd. Gwrthwynebant gredu gorsymyl a dehongli mytholegol fel ei gilydd. Yr athrawiaethau Beiblaidd sy'n dehongli neu'n cyflwyno ystyr yn groyw: *'Felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol.'* Ffaith! Sylwer fel y mae dehongliadau Bultmann o ddigwyddiadau yn syrthio fan yma am nad ydynt yn unol â gwth athrawiaeth Penarglwyddiaeth Duw, yr Ymgnawdoliad corfforol, y Marw Iawnol llythrennol ac yn y blaen. Dyna'r blaidd yng ngwisg dafad. Cam athrawiaethu sy'n colli'r digwyddiadau mawr. A ydynt yn torri calon galed oedd un o'r profion iddynt. Cymerodd gwendid athrawiaeth ddiniweidrwydd myth tan arwain ei feddwl i lacio min credu. Ystyr methu mewn uniongredded ysgolheigaidd yn aml (oherwydd maes mytholeg) yw bod y mytholegwr yn cloffi'n rhagdybiol ym maes Gras Arbennig. Y mae hefyd yn peri i Ras Cyffredin geisio ymyrryd ac arwain o'r tu allan i'w arbenigrwydd priodol. Cynnal mecaneg bywyd yw swyddogaeth Gras Cyffredin er mwyn rhoi safle i Ras Arbennig. Mae hyd yn oed gwyddonwyr galluog a soffistigedig yn eu maes, yn gallu brolio ynghylch esboniadau amlwg yr oes mewn Gras Cyffredin, fel pe bai'n ddiwedd ar ragdybiaethau. Tybiant rywsut fod hyn yn datod canrifoedd o brofiad syml gan gredinwyr sy'n anhraethol fwy soffistigedig yn y cyfanrwydd na rhagdybwyr naturiol a disglair go gaeedig. At ei gilydd, bu'r holl anturiaeth o fewn y term 'myth' yn siwrnai seithug. I ysgolheigion goruwchnaturioldeb Cristnogol, gellid wrth gwrs sylwi a chwilio yn yr hyn a digwyddodd. Ond wrth ddod allan o'r goedwig, amwyso'r sefyllfa fu'r cyfeiliornad 'rhyddfrydig' oll.

Gwyllyer dysg falch a'i myth. Gall gwyddonwyr llythrennol dueddu i ymdroi'n 'gyffredin' yn theorïau bioleg, ffiseg, cosmoleg a mathemateg gydag arddeliad hollgwmpasog. Gallant ruthro i eilunaddoli cywirdeb ffiniau 'gwyddoniaeth' yn rhy fuan. **Yr hyn sy'n 'derfynol' naif gyda gwyddonwyr llythrennol yw gwadiad rhagdybiol o ddimensiynau eraill ac o ddatguddiad goruwchnaturiol absoliwt.** Peth naturiol iddynt yw, ond goris-wyddonol a diwinyddol anllythrennog. Myth fu cadernid gwyddoniaeth. Mewn meysydd ymhell y tu hwnt i wyddoniaeth ddwyfoledig, trafodant y ffeithiau'n annigonol hyderus, oherwydd bod yr offer yn gwbl amhriodol. Mae hi fel bai coginydd yn ceisio berwi wy ar dân absennol. Ond gellir proffwydo'n hyderus na bydd taclau gwyddonol cyfyngedig ddim mymryn yn well ymhen pum can mlynedd nag ydynt ar

hyn o bryd i esbonio bodolaeth, trefn, na phwrpas y greadigaeth. Ceir dirgelwch sefydledig. Bydd yna anghredinwyr lu o hyd, yn sefydledig, wrth gwrs, a gwahanol fathau o esboniadaeth hyderus. Ond bydd Genesis 1-11 yn aros yn fanwl gywir, gyda'r Ysbryd Glân yn ei oleuo.

Fe ellir ystyried unwaith eto mai paradocseg bur fydd yr esboniad am y gwrthdrawiad ymddangosiadol rhwng y llythrennol a'r troadol. Bydd Gras Arbennig a Gras Cyffredinol yn cael eu camddeall a'u cymysgu â sfferau'i gilydd, y goruwchnaturiol â'r naturiol. Ond y mae'r goruwchnaturiol yn cynnwys y naturiol yn y bôn, ac felly'n berffaith yn yr Absoliwt. Gellid meddwl y dylai ffisegwyr a chosmolegwyr, biolegwyr a mathemategwyr amgyffred y posibilrwydd o ddimensiynau cwbl wahanol i unrhyw fath o ddimensiwn y maent hwy – er yn ffaeledig – ac yn gallu deall tipyn bach ohono eisoes. Ânt ymlaen o nerth i nerth yn y dimensiwn presennol, gan dorri i mewn i ambell ddimensiwn cymharol agos o bryd i'w gilydd. Eithr ni wna'r tro. Mae yna ragor ar ôl. Rhaid derbyn ehangder arweiniad o'r tu allan yn y diwedd. A Gras Arbennig a'r Beibl sy'n cyflwyno ac yn cyfarwyddo ynghylch Gras Arbennig yw'r ateb terfynol yn y fan yna.

Yn fy nadansoddiad o'r prif lënddulliau, yr wyf yn arfer eu rhannu'n ddau ddsbarth yn gyntaf fel hyn, **yn ffurfiol** mewn beirniadaeth lenyddol: (a) *Llenfathau (gofod)* telyneg, drama, naratif; (b) *Llenfoddau (amser)* comedi, trasiedi. Ac yn ail, **yn gynhwysol**; yn ôl y sffêr sylweddol a drafodir.

Ynglŷn â 'myth' yn gyffredinol, yn y cyd-destun hwn, trof i ystyried un 'is-lenddull' nid amherthnasol, ffurf ychydig yn wahanol y gellir ei hystyried yng ngoleuni'r cysyniad o fyth. Ymhlith llenddulliau ymylog llenyddiaeth Gymraeg, ceir ambell un sy'n ymddangos yn ddilys ond yn brin ar yr olwg gyntaf. Ac eto, yn y corff clasurol bychan o chwedlau'r Oesoedd Canol a adweinig fel *Mabinogion*, (a lle y disgwyliwn 'fythau') difyr sylwi mai '**breuddwydion**' yw dwy o'r tair ar ddeg: math o ddrama. Sef *Breuddwyd Macsen Wledig* a *Breuddwyd Rhonabwy*. Bûm innau hefyd yn ceisio llunio Breuddwyd i'r ugeinfed ganrif yn 'Hunllef Arthur' ac yn 'Breuddwydion Maxine'. Ar ôl campweithiau prin ond gwerthfawr yr Oesoedd Canol, prinnach byth yw'r gweithiau breuddwydiol nodedig gwreiddiol mewn rhyddiaith yn y Gymraeg nes cyrraedd y ddeunawfed ganrif. Ond yng nghanol y prinder hwnnw, gwelir clasur *Gweledigaethau y Bardd Cwsg* gan Ellis Wynne, sy'n fath o gyflwyniad breuddwydiol. Gydag ambell un arall, (sy'n drawiadol yng nghyd-destun y Beibl), megis y cyfieithiad *Breuddwyd Pawl Ebstol* yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi (O.C. 1342), gwelir bod yna bresenoldeb llenddull rhyngwladol penodol, yn ffuglen. Gellir cofnodi breuddwydion real; a gellir dyfeisio breuddwydion. Eto, prin drachefn yw'r Freuddwyd fel ffurf yn y Beibl. Ond mae'r llenddull yno'n bendant; ac er prinned y bo drachefn, ni ellid gwadu nad yw'n arwyddocaol iawn. Ac o fwrw golwg dros lënddulliau'r Ysgrythur, enghraifft ddigon pellgyrhaeddol, os di-barch, yng ngolwg rhywrai, yw'r 'freuddwyd'. (Nid *Breuddwyd*, cofier, oedd

Datguddiad Ioan ond *Gweledigaeth* symbolaidd.) Mae llenddull y *freuddwyd* yn fath o droad anfwriadol ac yn gofyn am ystyriaeth yn ôl methodoleg fytholegol. Troad isymwybodol yw. Ar sail realiti, mae'r digwyddiadau a'r cymeriadau yn cael eu troi'n ffrwyth i gwsg, ac mae Gras Cyffredin yn ddi-ddal o ran gwirionedd dynol. Mae'n gyfredol â phrofiad effro ac yn debyg i fyth seciwlwr emosiynol. Gall fod yn ddrych gwyrddig o weithredu hanesyddol yn fynych. Nid yw hyn yn atal Jacob na Joseph rhag dweud Gwirionedd hanfodol. Ond mae gennym ddau beth; ac nid yw'r gwyriad yn gwadu'r drych. Nid yw'r mytholegydd Bultmann – medd ef – wrth sôn am atgyfodiad Iesu Grist fel myth yn ymadael yn llwyr â hanesyddoldeb y digwyddiad. Ond amlwg yw y gall bod yna ddehongliad sy'n ei fychanu. Myn Bultmann fod y weledigaeth fel pe bai mewn drych sy'n tarddu o gyfarfyddiad cyfareddol y disgyblion, ar wahân a chyda'i gilydd, â'r Iesu atgyfodedig ar y ddaear, gyda'r drych yn bwysicach na'r hanes. Yr hyn, serch hynny, sy'n digwydd yw teneuo'r ffaith ddiriaethol hanesyddol lygad-dystiol yn y byd allanol, a mawrygu'r ddelwedd yn seice'r disgyblion. Cyll y realiti ar draul y freuddwyd ar sail rhagdybiau amheus. Ac y mae'r hanes yn dwyn mwy o dystiolaeth na'r drych. At ei gilydd, ni ellir *dibynnu* dim ar freuddwydion fel arfer, oherwydd bod yr achosion yn gemegol seicolegol, a heb ddisgyblaeth un peth pwysig mewn moeseg – sef ewyllys. Rhyw fath o sylwebaeth yw'r gwyriad ar y cyfarfyddiad real. Dehongliad ansicr yw gweledigaeth seciwlwr, felly. Mae'r gwirionedd ffynonellol wedi mynd drwy hidlydd bychanus. Nid dyna sy'n digwydd yn y Beibl: breuddwydion ydynt yno a ddaeth oddi wrth Dduw, gydag ewyllys Duw. Duw biau pob delwedd o'r modd hwnnw o feddwl yn ogystal â phob gwedd ar ein bywyd.

Symuda Bultmann yn rhy gyferbyniol oddi wrth yr Hanes at y Profiad dirfodol. **Ond mae'n rhy barod i ildio Hanes er mwyn ymaflyd yn y Myth.** I mi clyma ef Hanes a 'Digwyddiad a deimlir', y Diriaethol a'r Trosiad, ac Ystyr droadol wrth y Llythrennol yn rhy aneglur. **Mae Bultmann yn canoli ar brofiad dyn yn hytrach nag ar Dduw.** Mae peth o'r hyn a ddywed (yng nghyfrolau 1933 a 1949) am berthynas yr Hen Destament a'r Testament Newydd yn glasurol gadarn: mae'r naill yn cynnwys llawer o ysbryd y llall. Mae'n amodi ac yn cyflyru, ac yn datguddio'r hadau. Ond gellir dallu'r golwg ar Dduw drwy gymryd safbwynt dyn. Mantais yw chwilio yn ôl awdurdod y Beibl, gyda phob parch i ddyn: safbwynt ac ewyllys Duw a flaenora'n anochel, os cymerir y Goruwchnaturiol o ddifri. Yn ôl Bultmann, ni wyddom sut y mae Duw fel y mae: ni wyddom ond beth yw'r arwyddocâd i ddyn. Ond ym mryd y Cristion, gŵyr dyn lawer am Dduw a Christ oherwydd datguddiad gofalus – i awdur unigol, i bobl Dduw, ac i'r byd, gan Dduw ei hun, dan sêl yr Ysbryd Glân. Y pwynt goruchaf, wrth gymharu statws a dimensiwn y Beibl yn oruwchnaturiol â'r dehongliadau naturiol gan ysgolheictod, yw bod a wnelom â bwlech awdurdodol rhyngddynt.

Rhaid cofio'r cyd-destun Beiblaidd. Nid yw'r breuddwydion a gysylltir â dehongliad Joseph,

nac â Jacob, nac â Daniel, nac â Gweledigaeth Datguddiad yn llai pwysig nag unrhyw ddigwyddiad Beiblaidd arall a fu, o'r safbwynt hwn. Mae breuddwydion yn ddigwyddiadau sy'n rhan o fywyd meddyliol a ddarparwyd gan Dduw. Cawn yma unwaith eto, wrth gwrs, y ddadl rhwng y llythrennol a'r troadol. Math o beiriant creu troadau gwir yw breuddwydio yn y Beibl. Ac i mi, mae'n llenddull a ddaw o gyfeiriad deall, lle y mae'n ffaith fod y llythrennol yn y meddwl bob amser yn blaenori, yn cyflyru, ac yn rheoli ystyr. Rhodd yw. O fewn y cyd-destun a bleidiaf i, sy'n an-Bultmanniaidd, rhaid bod breuddwydion y Beibl wedi'u bwriadu i ddweud rhywbeth o bwys am y gwirionedd Cristnogol. Yn y llythrennol y ceir arweiniad y troad. Dymuniad Bultmann oedd cyrraedd y profiad dirfodol i'w hunan-ddeall mewn Dyn sy'n graidd i'r hyn a geisir. Ond rhaid gwylid camddehongli dyn-ganolog. Ceir breuddwydion a roddwyd gan Dduw, a breuddwydion a roddwyd gan gnawd. Llwybr cam yw'r un oddi wrth ddyn at Dduw cyn mynd oddi wrth Dduw at ddyn; ac y mae hynny'n gwneud byd o wahaniaeth. Trefn yr ystyr sy'n diffinio perthynas y ddeuoliaeth. Mae atgyfodiad Crist yn y digwyddiad hanesyddol yn fwy creiddiol na'm bod i'n marw ac yn atgyfodi gyda Christ. Dadhanesoli yw nod Bultmann. I'r Cristion, difrifoldeb yr hanes ei hun a'r dehongliad Beiblaidd i'r hanes yw llywodraethwr ei ddeall. A rhaid mai rhoddion oddi wrth Dduw, ac yn sicr rhan o'i ragluniaeth, yw'r breuddwydion rhyfedd hyn oll.

Yn yr un modd ysgyfala y mae Bultmann yn canslo perthnasoldeb gwyrthiau. Rhagdybia ef nad ydynt yn hanesyddol, a'u dehongli megis damhegion. Ond yn y bôn, ei anghred yn y goruwchnaturiol yw'r rheswm syml crai am yr holl safbwynt. Caewyd ei feddwl. Ond pan fo rhywun yn meddwl fel Cristion, hanesyddol yw ansawdd genedigaeth ei ffydd. **Cyfiawnhad drwy Hanes am Iesu Grist yw ei Gredo**, felly, a Ffydd yn yr Hanes yma a'r dehongliad i'r Hanes yw'r hyn sy'n dwyn Cyfiawnhad i ben yn real iddo ef ei hun mewn Hanes newydd. A hyd yn oed mewn breuddwydion, yr hyn a wna Duw yw eu defnyddio fel math o weledigaethau gwahanol i'r rhai dyn-gynyrchedig. Beth yw pwrpas y breuddwydion hyn felly? Ymddengys i mi mai un o'r themâu pennaf sy'n esgor ar freuddwydion cyffredin yn ein breuddwydion nosweithiol naturiol ni ein hun yw datrys problemau a materion pwysfawr profiad liw dydd. Mynych y bydd rhywun yn ymhél â gwaith neu bryderon lle y mae angen ateb. Yn anfwriadus, mae'r ymennydd yn dal i drafod y penbleth, i oferu i mewn i'r nos, fel petai, i ymestyn yn ei brofiad drwy gwsg. A hynny, debygwn i, oedd yr hyn a âi â bryd Joseph (megis Jacob). Dyna'r peirianwaith a oedd ar waith. Arall, wrth gwrs, ond cymhwysol yw'r modd y defnyddiodd yr Ysbryd Glân y peirianwaith hwnnw fel arfer.

Y Tramgwydd

Wrth geisio ystyried bodolaeth y Llythrennol a'r Troadol drwy gydol y Beibl, gobeithio fy mod wedi dangos **nad dyna yw craidd y tramgwydd sydd yn gallu dadystyru'r Ysgrhythur. Nid**

gelynion mo'r ddau ffurfiad ieithyddol hyn. Dwy ffaith ydynt sy'n meddu ar ddau le yn ein dealltwriaeth. Gellir serch hynny gael ein camarwain yn syml wrth ddefnyddio'r ddau ddull dehonglus yn flêr. Mae angen bod mor gydwbybodol ac mor ofalus onest ag y gallwn gyda dehongliad, os oes anghytundeb a dadl: yn y bôn, gair ac awdurdod Duw yw'r hyn sy'n cael eu hystyried. Diffyg ufudd-dod a chariad yw'r rhwystr ynglŷn â'r Goruwchnaturiol yn fynych. Cydlyniad yw hawl yr Ysbryd Glân o ufudd-dod a chariad.

Felly, wrth ddarllen dehonglwyr y Beibl sy'n ymadael â'r hanesyddol, er mwyn sefydlu 'troad' neu 'fyth' fel modd i osgoi'r 'llythrennol', y mae gennym sawl cwestiwn prawf i'w ofyn iddynt. Beth yw achos ymadael â'r Amlwg? A yw'r dehonglwr yn y bôn am wadu'r Goruwchnaturiol? A oes tricio esboniadol wedi codi yn syml oherwydd ymdeimlad gorfodol amser nad oes y fath beth â dimensiwn goruwchnaturiol awdurdodol? Ai'r cnawd sy'n ymyrryd â'r deall?

Os felly, o leiaf, gallwn ddeall y camddehongli. Gallwn 'gydymdeimlo' ag ef. Ond dyma enghraifft arall o gamu rhagdybiol. A rhaid wynebu'r posibilrwydd neu'r sylweddoliad o'r rheidrwydd arall. Ni fu'r ddadl, rhwng dehonglwyr rhyddfrydol y Beibl a dehonglwyr ffyddlon, erioed yn ddadl ysgolheigaidd mewn gwirionedd am na thrafodwyd digon ar y rhagdybiau gwrth-oruwchnaturiol. Pan geid dadl, dadl oedd rhwng credinwyr ac anghredinwyr caeedig, a hynny o dan fwgan 'rheswm' dyn-ganolog. **Dadl oedd rhwng y rhai a adwaenai'r Naturiol-a'r-Goruwchnaturiol, a'r rhai Naturiol yn unig.** Rhagdybiau diarchwiliad a oedd ar waith.

Mae angen wynebu'r broblem hon yn ôl ei gwreiddyn. Da cofio natur elyniaethus y gwrthwynebiad cynhenid i'r Ffydd Ddiffuant oll. Nid y *dull* o ddehongli'r Beibl yw'r tramgwydd i anghredinwyr, nid y llythrennol, na'r trosiadol na'r ysbrydol. **Bron yn ddieithriad, myn gwyddonwyr parchus synied yn hapus *lythrennol* am yr hyn a drafodant hwy yn eu sfferau.** Bodlonant ar eu cyneddfau naturiol, ac ar ynysrwydd eu disgyblaethau pynciol. **Pwysig yw hoelio sylw felly ar natur y tramgwydd go iawn mewn llythrenoldeb ac mewn troadaeth – sef y *ffêr oruwchnaturiol ei hun.*** A dadl sylfaenol yw pwy sydd yn y canol – Duw ynteu ddyn. **Dogma'r naturiolaid yw ffynhonnell yr anghytundeb o du gwrthwynebwyr i Gristnogaeth.** At ei gilydd, y mae'r ysfa sy gan rai Cristnogion uniongred (sydd wedi profi realiti Duw) i ddyrchafu'r dull llythrennol o ddehongli'r Ysgrythur, yn tarddu o'u hargyhoeddiad, yn wir, o'u profiad amddiffynnol o'r oruwchnatur. Pwysig yw canolbwyntio'r meddwl ar union bwynt anghytundeb, am nad yr hyn a ddywedir yn unig sydd yn dramgwydd. **Nid ffydd Cristion yn y llythrennol, ond ei ffydd yn y goruwchnaturiol, dyna'r hyn sy'n fagl i anghredadun.** A'r un modd, y rhai o'r tu mewn i'r sefydliad eglwysig sydd wedi ceisio gwanychu'r dystiolaeth uniongred oruwchnaturiol ac wedi ceisio tanseilio'r ysgrythur. Cyflawni hynny a wnaethpwyd nid ar seiliau ysgolheigaidd na dehongliadol, ond am eu bod yn mynnu glynu wrth anghrediniaeth naturiol heb wir archwilio'r

goruwchnaturiol o gwbl, ac wrth ddyngarwch yn hytrach nag wrth flaenoriaeth Duw. Rhaid oedd iddynt ffitio'r rhagdyb naturiolaid yn wasaidd cyn bod yn barchus. Hyn oedd y gred a chwynnai neu a sensoriai bob dim arall, hyd yn oed y llythrennol. **Posibl yw profi'r Goruwchnaturiol os yw ef yno: amhosibl yw profi anfodolaeth y Goruwchnaturiol os nad yw yno.** Dyma gyferbyniad tra arwyddocaol yn nadl bodolaeth.

Pwysig sylwi nad ar sail prawf gwyddonol na rhesymegol y gwrthodir y goruwchnaturiol. Digon buddiol yw peidio â chael ein llygatynnu'n ormodol i gweryla ynghylch y *dulliau* o ddehongli ond lle y bo'n fodd i osgoi'r goruwchnaturiol. Yr hyn a ofynnir yn gyntaf gan y sawl sy'n efrynu'r ysgrythur o ddifrif yw nid dehongli mewn modd confensiynol penodol, ond profiad, a rhagosod yn feddyliol a chredu'r Duw goruwchnaturiol hwn. Heb hynny does dim deall na dehongli cywir. Hynny yw, tipyn o faldod yw'r ddadl dreuliedig ynghylch y goruwchnaturiol. **Yr ydych naill ai wedi cael prawf (neu brofiad) o'r goruwchnaturiol, neu fe'i cewch cyn bo hir.**

Mae'r drws yn agored yn awr. Yr ewyllys sy'n ei gau. Yr anhawster yw tarddiad y dehongli.

Dibynna'r dull ysbrydol o ddehongli ar y ffaith fod yna gynneddf gynhenid (y soniwyd amdani ynghynt) gan ddyn i ymwybod â Duw, a bod yr ymwybod hwnnw wedi'i ddeffro, a'i fod wedi'i orfodi i wybod bod yna wybodaeth am realiti sy'n amgen na'r hyn sy'n gorfforol ac ar wyneb y synhwyrau. Mae dyn ei hun yn llawnach ffenomen na'r anifail a wêl yr anghredadun. Mae ganddo botensial i brofiad a gwybodaeth ddyfnach nag a sylweddola ar lefel y plentynnaidd. **Methu â dihuno i'r cam cyntaf y mae, nid yr olaf: methu â dod o hyd i ragdyb sylfaenol, nid methu mewn deallusrwydd normal.** Wedi dihuno, fe all fynd drwy'r ysgrythur yn union at Dduw.

Felly, pan fydd rhyddfrydwr crefyddol yn gwadu nad Duw yw Crist, ac nad trwyddo Ef y crewyd y bydysawd, nad yw dyn yn syrthiedig ac nad yw Duw wedi dyfeisio ffordd anffaeledig i wneud Iawn (hynny yw i dalu dros bechod y byd), ac nad yw Crist chwaith wedi rhoi Ei waed yn bridwerth, nac atgyfodi'n gorfforol ar y trydydd dydd, ac yn y blaen – nid yr ysgolheictod 'diweddaraf' yw'r tramgwydd fan yma, nid gwyddoniaeth, nid y dull o ddehongli yn droadol nac yn llythrennol, nid deallusrwydd. Ond methiant i ymagor i lawnder realiti. Diffyg hunan-feirmiadaeth. A phresenoldeb y Diafol. Hynny sy'n arwain at fethu â thraod y Beibl yn llythrennol nac yn droadol hylaw. Mae'r tramgwydd yn dryloyw, ond y rhagdyb yn gyflyrol. Cred y Cristion ei fod wedi derbyn medr gan yr Ysbryd neu fod yr Ysbryd yn ei helpu i feistrol'r llythrennol â'r troadol. Yn fynych, nid yw barn yn dibynnu ar ffeithiau materol. Medd I.H. Marshall, 'there are elements of symbolism in the way that a narrative is told, and frankly the historicity of the descent of the Spirit is far more important than whether there were literal tongues of fire on the heads of the disciples.'

Paradocs mewn Troad

Mae pob troad yn baradocs. Hynny yw, pan fydd awdur yn defnyddio troad, y mae'n dweud math o baradocs. Defnyddiaf y gair 'troad' ar gyfer dosbarth neu ddefnydd arbennig o eiriau lle y mae'r siaradwr yn symud, neu'n gwyro, ystyr iaith. Dyna yw'r 'trosiad' (metaffor), 'lleihad' (litotes), 'coegi' (eironi), ac eraill. Meddai Paul D. Feinberg yn *Inerrancy*, gol. Norman L. Geisler, 'It is recognised by all that Scripture employs figures of speech. Some examples are meiosis (Gal. 5:14), hyperbole (Math. 2:3), synecdoche (Gal. 1:16), personification (Gal. 3:8), and metonymy (Rom. 3:3b).' Casgliad doeth i'n trafodaeth ynghylch lle'r troad mewn iaith yw sylweddoli mai cyfrwng yw (o ran hanfod) i ddweud y gwir. Nid addurn yw o gwbl, fel y myn rhai. Nid celwydd yw, yn baradocsaid, er ei fod, efallai, yn gallu ymdebygu i gelwydd yn llythrennol. Ceisio mawrygu a manylu'r gwir y mae'r defnyddiwr. Mae 'hyn' yn 'rhywbeth arall.'

Byddaf yn synied bod llawer o'r esgeulustod neu'r sarhad o'r trosiad gan lythrenolwyr egwyddorol neu eithafol 'grefyddol' yn fath o 'fod yn *macho*'. Maent yn ceisio dweud, 'Dwi'n wydn fy Nghristnogaeth.' Disgynyddion y Gorllewin Gwyllt a'r Rodeo ydynt erbyn hyn.

Y mae difrifoldeb ynghylch credu yn beth canmoladwy, wrth gwrs. Ac y mae parodrwydd i dderbyn cred pan fo'n anodd neu'n ymddangos yn groes i farn gyffredin neu'n annisgwyl neu'n annymunol, y mae hynny oll hefyd yn gymeradwy. Ond y mae cymryd y safbwynt 'llythrennol' fel math o slogan ar gyfer cryfder credu fel pe bai'n ddull Beiblaidd o ymddwyn, yn amhriodol. Chwilier y cerrig ar lwybr y llythrennol. Nid rhinweddoldeb dibetrus yw llythrenoldeb, na throadoldeb chwaith. Crybwyllais o'r blaen mai perygl troadu anghyfrifol ac anonest i ysgolheigion rhyddfrydol, sy'n elyniaethus i Gristnogaeth hanesyddol a chlasurol, yw troi llawer o Hanes Cristnogol i fod yn ddihangfa rhag y llythrennol drwy droi'r hyn sy'n amlwg hanesyddol yn gelwydd drwy ddyfais troadau. Troi a oedd yno *cyn* y sylwedd diriaethol. Dyma ddull i danseilio'r llythrennol a'i fychanu'n ofer. Mor rhwydd yw osgoi anghysur y gredo lem a'r gonestrwydd hallt. Ac eto, ceir cerrig ar lwybr bywhau iaith.

Wrth beidio ag archwilio natur a diben y ffenomen o drosiadau, yr ydym yn ceisio anwybyddu un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol a chyffredin sydd gan yr Ysbryd Glân o ddweud y gwirionedd. **Paradocs yw pob trosiad yn ei hanfod**, ond y mae cymhelliad hefyd yn rhan o'r broses. Pan ddywed y Beibl fod Iesu Grist yn 'Oen' neu'n 'Fugail', mae'n amlwg fod yr Ysbryd Glân, yn groes i'r gwir llythrennol, yn dweud y gwir ysbrydol, ond ni wna rhywrai o'i ddarllenwyr yr un ymgais i sylweddoli pam.

Mae amlhau'r enwau a dadogir yn drosiadol (megis dangosyddion: labeli) ar Iesu Grist neu Dduw yn ddull syml o'i ganmol. Ac fe geir amryw emynau yn cael eu gwau o gwmpas sribryn neu restr o enwau felly. Un o'r dathlwyr enwocaf o'r defnydd hwn yw 'Carol Plygain' Eos Iâl:

*Ar gyfer heddiw'r bore 'n Faban bach, 'n Faban bach
Y ganwyd gwreiddyn Jese'n Faban bach;
Y Cadarn ddaeth o Bosra,
Y Deddfwr gynt ar Seina,
Yr Iawn gaed ar Galfaria, 'n Faban bach, 'n Faban bach,
Yn sugno bron Maria 'n Faban bach.*

*Caed bywiol ddwfr Eseciel, ar lin Mair, ar lin Mair;
A gwir Feseia Daniel, ar lin Mair;
Caed bachgen doeth Eseia,
'R addewid roed i Adda,
Yr Alffa a'r Omega, ar lin Mair, ar lin Mair,
Mewn Côr ym Methlem Jwda, ar lin Mair ...*

Mae'r cwbl yn barodsaidd yma mewn llenddull o 'restr'. Y mwyaf paradocsaidd yn yr emyn hwn (fel enw ar faban) mewn un o'r penillion eraill yw yr 'Hen Ddihenydd'. Ond mae'n wir ac yn glod hyfryd.

Dyma ddsbarth o droadau, bob un ohonynt yn ymwneud â thema yng nghymeriad neu ym mywyd Iesu Grist. Ailadroddir y ddyfais droadol fel y gwneir gydag ailadrodd geiriol (neu gyda'r seiniol, boed yn fydryddol neu'n odlog benilliol) er mwyn pwysleisio neu weithio tuag at uchafbwynt dathlu. Felly y rhestrir neu yr ailadroddir yn y gerdd hon megis y gwneir â dyfaliadau troadol gwahanol mewn Cywydd Dyfalu. Nid troadu yn syml a wneir wrth *arallenwi* Iesu Grist. Gellir dweud bod y rhan fwyaf yn Emyn Eos Iâl yn 'ddyfyriadol': cyfeirio yr ydys at Gysgodau'r Hen Destament. Addoli sydd mewn peth felly yn sicr.

Mewn emyn gan Bantycelyn, sydd hefyd yn dathlu'r geni, ceir yr un math o '*enwi baban newydd*', yr emynydd yn cymryd arno'i hun fel petai yn y bedydd, ie, ei fod yn *dod o hyd i enw* i'r baban yn ôl awgrymiadau a roddwyd ymlaen llaw, i'w ddisgrifio yn ôl ei swyddogaethau neu'r addewidion a broffwydwyd:

*Bachgen a anwyd – Mab ro'wd in' –
Ei enw sy'n Rhyfeddol:
Ar ei ysgwydd Ef llywodraeth gaed,
Duw cadarn, Tad tragwyddol ...
Duw mawr, Creawdwr dŵr a thir,
I gael ei wir genhedlu
O forwyn, wnaethpwyd ganddo ei Hun,
Fy enaid sy'n rhyfeddu.*

Dyma ni, felly, yn aros ym maes a chywair y paradocs. Yr ydym yn ymwneud ag iaith felly sy'n ceisio cyfleu rhyfeddod anghyffredin y Gwirionedd. Wrth gwrs, hen beth – yn arbennig mewn barddoniaeth – yw trosi. Yn wir, mae'n bur debyg ei fod yn un o'r ffyrdd o 'greu' iaith, neu o estyn ei

hadnoddau. Yn sicr, mewn iaith bob dydd, pan fo'r person cyffredin yn ceisio rhoi lliw i'w ymadrodd, neu'n chwilio am fodd i'w bwysleisio, neu i dynnu sylw at rywbeth syn, y mae'n troi weithiau am gymorth at y dechneg ieithyddol hon.

Un o'r paradocsau rhyfeddaf ynglŷn â'r dull a ddewisodd yr Ysbryd Glân i gyflwyno'r Beibl oedd y cyfuniad cyfoethog o farddoniaeth ynghyd â thraethu ffeithiau hanesyddol neu ddadleuon 'syth'. Mae barddoniaeth yn ymddangos yn fentr mor archolladwy, mor rhwydd i'w chamddeall, ac yn ddihangfa i rywrai rhag ei derbyn. Ond yr her wrth gwrs ydoedd traethu'r gwir cymhleth mor syml ac uniongyrchol ag y gellid, ac eto ei wneud yn glod i Dduw ac yn gyfarwyddyd i ddyn. Yr oedd eisiau dweud y gwir yn fanwl, ond dweud hwnnw o fewn y rheswm, y dychymyg, a'r serchiadau. Yr oedd eisiau estyn yr iaith feidrol i ganu gogoniant anfeidrol. Doedd dim eisiau ennill dadl. Ac felly gwnaethpwyd y ddwy ffordd, y naill o flaen neu o dan neu o fewn y llall. Mae'r cyfoeth sy'n ganlyniad yn rhyfeddol.

Weithiau, nid arferiad hyfrydol i lawer o'n pregethwyr efengylaidd yw hoffi barddoniaeth fel modd o ddarllen. Mae yna rwystr dwfn rhag hynny. Does dim digon o amser ganddynt fel arfer. Nid dyna'r math o bobl ydynt. Ond paradocsaidd iddynt yw bod Person sy'n ysgrifennu'r Beibl yn dewis dull barddoniaeth i ddweud y gwir. Er mai stori hanesyddol yw asgwrn cefn y Beibl, y brif thema – hanes Iachawdwriaeth o fewn hanes y Greadigaeth, – gymaint ohoni sy'n mynnu cael ei chyflwyno ar ddull cerdd. Mae hyn yn dweud rhywbeth pwysig iawn am farddoniaeth ac am Dduw.

Beth yw 'barddoniaeth' i Gristion ymwneud â hi? Dyna gwestiwn! Ffordd o weld yw pan geir arddeliad. Ffordd o fyw. Ac wrth gwrs, ffordd o ddefnyddio iaith, i ddyrchafu'r iaith ei hun; ac ar ei gorau, ffordd o ddyrchafu bywyd. Ffordd ddieithr yw i gerdded arni, gyda mwynhau'r Ffordd honno, i anrhydeddu Duw. Ond iaith o ffordd yw y mae'n fuddiol ei dysgu.

Enghraifft yr Oen

Beth yw natur cysylltiad yn y symudiad meddyliol, dyweder 'Oen Duw', o'r llythrennol yn yr ymadrodd tuag at y trosiadol? Cyswllt yw trosiad weithiau sy'n syfrdanu pan fydd yn meddiannu'r gwrthrych ac yn ymestyn i gyd-destun ysbrydol sy'n mynd ymhellach na'r tros-dro. Dyma droad sy'n rhedeg drwy'r Beibl, drwy'r Hen Destament a'r Newydd. Ddwywaith bob dydd, fore a hwyr aberthid gan yr Iddewon ŵyn, un yn y bore ac un yr hwyr, rhai perffaith-gwbl. Cymerent fod yr aberth arbennig adeg Pasg yn arwydd o waredigaeth y genedl o'r Aifft. Roedd geiriau Eiseia 53:7 wedi dylanwadu'n bell ar yr Eglwys yn eu syniad o'r Meseia, Gwas yr Arglwydd, fel oen a arweinid i'r lladdfa. Gwnaed ei farwolaeth yn aberth dros bechod. Cyfeiriai Jeremeia 11:19 ato'i hun hyd yn oed: '*Yr oeddwn innau fel oen tyner yn cael ei arwain i'w ladd.*' **Bob amser** oedd hyn.

Yn Ioan 1:29 yr ydym yn sylwi ar achlysur pryd yr oedd Ioan Fedyddiwr amser bedydd

Crist yn gweld yr Arglwydd yn dod tuag ato, a chan gyfeirio at Eseia, dywed '*Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd!*' (cf. Ioan 1:36, Heb. 1:12). Clywn yr ymadrodd hwn o fewn panorama amlochrog. Drachefn ymhellach ymlaen y mae'r Efengyllydd Ioan yn dychwelyd i'r un dehongliad yn niwedd ei epistol. Dyna gydio'r ddau ddigwyddiad megis dwy ddalen amlen drwy Ioan 19:31, '*gan ei bod yn ddydd Paratoad.*' Gwelai'r farwolaeth (19:36) yn gyflawniad eto o Eseia: '*Ni thorrir asgwrn ohono.*' **Cynrychiolydd yn fy lle i** oedd Hwn.

Medd Paul yn drosiadol gyda'r un ddealltwriaeth, (1 Cor. 5:7), '*Glanhewch yr hen lefain allan, ichwi fod yn does newydd, croyw, fel yr ydych mewn gwirionedd. Oherwydd y mae Crist, ein Pasg ni, wedi ei aberthu.*' Felly, 1 Pedr 1:19, '*Gwyddoch nad â phethau llygradwy, arian neu aur, y prynwyd ichwi ryddid... ond â gwaed gwerthfawr Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist.*'

Y Pasg yn wir oedd, fel adeg o'r flwyddyn, yn dathlu Exodus 12:21-23, '*Yna galwodd Moses ynghyd holl henuriaid Israel, a dweud wrthynt, "Dewiswch yr ŵyn ar gyfer eich teuluoedd, a lladdwch oen y Pasg... a thaenwch y gwaed ar gapan a dau bost y drws... Bydd yr Arglwydd yn tramwyo drwy'r Aiff ac yn taro'r wlad, ond pan wêl y gwaed ar gapan a dau bost y drws, bydd yn mynd heibio iddo".*' Nid cyd-ddigwyddiad oedd y Pasg a lladdedigaeth Oen Duw, felly, ond Arfaeth. Oen di-nam yw ef byth wedyn. I'r Cristion, rhaid oedd ei dderbyn yn fwyd i'r enaid. Ni ddeallai neb yr arwyddocâd hirdymor tan wedi'r Aberth ar y Groes. Ufuddhau oedd rhan y credinwyr mewn ffydd ymlaen llaw, heb weithredoedd yn ôl eu tybiau eu hunain i ennill y waredigaeth, ond gan dderbyn dirgelwch Duw a'i ryfeddod. Yr oedd y credinwyr oll yn gyfartal mewn un weithred o gredu hanesyddol. Drwy hynny, cadwyd bywydau'r rhai a ufuddhâi: cyfiawnhawyd hwy. Dyma'u hiachawdwriaeth lawn. Dechreuai'r *Waredigaeth i'r genedl* pan aent allan o'r Aiff, a chroesi'r Môr Coch, a chrwydro'n hir drwy'r anialwch gan gael eu sancteiddio nes cyrraedd Gwlad yr Addewid. Dyma batrwm bywyd y Cristion: Cyfiawnhad/ Sancteiddhad; Credu/ Gweithredu Cred. **Trefn** oedd hyn. Dilyn yr Oen a wnaethpwyd ar y pryd pan daenwyd y gwaed ar y pyst. Dathliad oedd y 'Pasg' wedyn am yr Oen a ddehonglwyd gan Foses, ac nas deallwyd yn llawn nes i Grist weithredu mewn ystyr gyffelyb. Yn llyfr y Datguddiad, defnyddir y term 'Oen' ar Grist 28 o weithiau, fel pe bai'n uchafbwynt ar ei Oenrwydd. Fe'i gwelwn yn ei ddiodefaint yn aberth (5:6, 12; 12:11; 13:8), ac yn ei urddas brenhinol (7:17; 22:1, 3). Tyfasai'r Oen eisoes rhwng yr Hen Destament a'r Newydd felly. Yr oedd wedi datblygu'n symbol canolog i'r Efengyl. Erbyn Datguddiad, clywai Ioan y troad yn baradocsaidd (5:5) fod '*yr Oen yn llew.*' Sonni'r (6:16) am '*ddictor yr Oen*' yn (14:10) yn '*concro gelynion*', ac yn (17:14) '*Arglwydd yr Arglwyddi*'. Dyna'i gyd-destun. Yr oedd yn fach, yn dyner, yn lân, ond uwchlaw popeth yn aberth iawnol tragwyddol. Hynny yw, yr oedd hyn yn drosiad a oedd yn ymestyn drwy Hanes. **Gwrthrych addoliad** oedd Hwn. Cofiwn gyda'r *Datguddiad* mai Iesu oedd yr Awdur am y tro, yn cyflwyno'r nefoedd. Meddai Alister McGrath, '**Y Nefoedd yw'r bennaf**

esiaml o gysyniad Cristnogol a gyfryngir yn uniongyrchol drwy ddelweddau.' (A Brief History of Heaven, Blackwell, t.5). **Cuddiwyd Crist gan droadau. Pan soniaf am y meddwl troadol o fewn cyd-destun cyflwyno person Iesu Grist, yr wyf yn meddwl am ffenomen unigryw yn ymddangos ynddo: Oen, Bugail, Craig, Pysgotwr, Brenin. Hynny yw, mae'n amlwg fod dwy lefel arferol hollol sefydlog dynn iddo – y llythrennol a'r droadol gyfoethog.** Ond gan mai hollbresennol yw, y mae priodoleddau'r troadol yn ymddangos yn ddi-hysbydd. Heblaw hynny, yr ydym yn wynebu digwyddiad a chyflwr a pherson sydd yn ymwybod â'i sefyllfa'i hun yn gwbl wahanol i sefyllfa pobun arall. Mae a wnelo â math o weddnewidiad deall hefyd yn y rhai sy'n ei addoli ac yn ei ddisgrifio. Mae'r lefel droadol iddo Ef yn cynnwys chwyldro deall. Mae yn Oen, ac eto'n fwy nag Oen, hyd yn oed o fewn un troad. Rhyfedd o droad yw Llyfr y Datguddiad, gan yr Iesu Esgynedig.

Mae hyn yn ddefnydd unigryw o beirianwaith ieithyddol y trosiad. Nid y defnydd arferol o drosiadau sydd gennyf mewn golwg, felly, er bod hynny hefyd yn digwydd, mae'n eglur, ac yn digwydd yn lliwgar yn bur fynych yn iaith y Beibl. Nid oes a wnelo chwaith ag analog neu alegori bob amser, er bod hynny'n amlwg yn y Beibl. Gallwn ymdeimlo â ffurf o'r fath ar achlysur amdanom ein hunain, lle y mae yna ddechrau a dyfal barhad i'r ffenomen, drwy'r aberthau yn yr Hen Destament hyd at y Glendid ar y Groes. Ond yr ydym yn trafod yn awr Oen tragwyddol, yr Oen sy'n Gariad, ac yn ymsymud tuag at un ffordd o'i ddeall yn ein heneidiau. Mae a wnelom ag ymddangosiad dwyfol unwaith am byth o fewn amser a lle, ac ag athrawiaeth.

Meddwl yr wyf am broses feddyliol unigryw, ac ymfodloni parhaol dimensiwn-arall ar ganfod y gwir. **Yr oedd Iesu Grist wedi mabwysiadu troad yn wedd ar ei fodolaeth feddyliol ei hun,** ac yntau'n un ymhlith ei greaduriaid ei hun. Yr oedd ef ei hun rywfodd yn 'ogwyddiad' parthed Duw a oedd yn Ysbryd, ac yn 'ogwyddiad' parthed dyn, yn wahaniaethol ac yn uniaethol sefydlog. Gwelwch yr iaith felly yn ymestyn i geisio'i ddisgrifio.

Mae hyn yn sefyllfa gosmig, ac yn gwbl wahanol i berson cyffredin sy'n defnyddio trosiad. Syniwch amdanoch eich hun, ar achlysur, yn ymddwyn yn dyner. Gallech ddefnyddio'r gair 'oen'. Ac am foment, am ychydig o amser, gallech deimlo'n fwy mwynaidd nag arfer. Fel oen, felly, gyda baban bach. Eithr ystyrier: a allech ymdeimlo â'r profiad rhyfedd o fod yn dyner hyd yn oed pan deimlech yn ddig ac yn gondemniol? Efallai y gallech. Ond yr oedd Iesu mor amrywiol hefyd yn *Oen tragwyddol* ar gyfer y byd i gyd. Yr oedd yn awdurdod ac yn farnwr arnoch drwy'r amser. Yn llew o oen. Dyma sefyllfa unigryw unwaith ac am byth. Mae'r Oen yn awr yn cwmpasu bywyd, yn undod amser a lle, ac yn ei gynnig ei hun i bobl. Mae'n rhaid cymryd Oen yng nghyd-destun y darlun cyflawn a gyflwyna. Mae yna straen ar yr iaith. Cwmpasiad o Dduw-ddyn yw.

Wrth feddwl am gefndir Iddewig Paul, gweler Tom Holland, *Romans: The divine Image: A*

Biblical Theological Commentary, 2011. Oherwydd ei fod yn Oen, saif Iesu yn y traddodiad sagrafennol a sefydlwyd o fewn dealltwriaeth yr hil. Y mae'n aberth ddychrynlyd, a gŵyr yr Arglwydd ei fod ef ei hun yn aberth dragwyddol ar y Groes. Gweithred allanol yw sagrafen sy'n corffori neu'n adlewyrchu egwyddor neu ddigwyddiad ysbrydol.

Nid yw'r troad hwn mwyach yn peidio yn ei fryd oherwydd mai achlysur yn unig yw. Nid tebygrwydd gweld yw felly am dalm yn unig. Yno y mae yn cael ei gyflwyno i ni, yn Fod rhyfeddol newydd a pharhaol. **Mae'r Meddwl Troadol yn ffordd o feddiannu iaith sy'n cyfleu'r Naturiol o fewn y Goruwchnaturiol;** ac mae'n haenen feddyliol a gyferfydd â ni ar lefel ysbrydol. Mae'r Meddwl Troadol yn y cyd-destun amlochrog hwn yn cael ei gystwyo'n ddimensiwn tröedigaethol. Mae hi fel pe bai gennym gynneddf yn awr i weld bodolaeth oll drwyddi, a awgryma oherwydd y byd goruwchnaturiol tragwyddol y gellir caniatáu cael gafael ar rywbeth goruwch pob naturioldeb pechadurus. Ac yn Hwn yr ydym yn adnabod Rhywun rhyfeddol.

Ffordd chwyldroadol o ddychmygu yw troi tua sylfaen wahanol i'r dull llythrennol o feddwl am fywyd. Edrychwch drwy ddrych sy'n goleuo'r dychymyg. Ac y mae'r Cristion yn cael ei weddnewid yn feddyliol i fyw mewn dimensiwn arall. Yn wir, y mae hyn yn ffordd o feddwl sy'n adlunio ein golwg ar Iesu Grist, nid 'yn naturiol' yn unig, ond yn ein cadw ni drwy gydol y Beibl i ymdroi mewn dealltwriaeth gyfredol ysbrydol. Wrth gredu a deall tröedigaeth yr iaith fyw, yr ydym yn symud i mewn i ffordd newydd o amgyffred bywyd. Mae'r dychymyg yn gynneddf roddedig ac yn rhan bwysig o oroesiad ein bywyd. Dyfais i gynorthwyo darganfod yn fywiol yw dychymyg. Ceisiwch feddwl am Iesu Grist ar y groes neu'n cerdded ar y môr: bydd y dychymyg yn cefnu ar yr anweledig ac yn gafael mewn delwedd gywir. Mae'n hynod anodd *peidio* â gafael mewn delwedd pan feddyliwn am berson yn gweithredu; ond i galon y Cristion mae'n llawer mwy na delwedd.

Iesu'n Troadu drwy Ddameg

Pan ddefnyddiai Iesu ddyfais y ddameg, yn arbennig y grŵp o ddamhegion lle yr oedd yn esbonio Teyrnas Dduw, yr oedd yn estyn crediniaeth ei ddisgyblion i gyfeiriad annisgwyl. Ar rai amseroedd, seminâr oedd y damhegion i hyfforddi'r disgyblion. Gwyddai ef, gan symled oedd y damhegion, fod y newydd-deb syniadol hwn mewn delweddau yr un pryd yn ddigon i'w wrandawyr eu cymathu. Yn y damhegion mae yn ymestyn o'r dimensiwn goruwchnatur i mewn i ddelweddau naturiol. Yr hyn yr ydym yn ei weld felly drwy'r naturiol yw'r goruwchnaturiol, a gallwn ymateb yn dywyll ein hun o fewn cyd-destun daearol. Mae'r natur syrthiedig yn hyn o beth yn gallu ein tywyllu, ac mae cyfyngder deall yn ein tywyllu hefyd. Y mae newydd-deb y ddysgeidiaeth am Deyrnas Dduw (prif destun y Damhegion) yn anodd hefyd i'r sawl sydd wedi'i feithrin o fewn amgylchfyd o beidio â bod yn fyw i'r goruwchnaturiol, ac a gymer amser i ddringo allan o'r

dryswch drwy sancteiddhad.

Yr oedd hyn yn wir, am rai o'i gynulleidfa, o'r dechrau cyntaf, gan ei fod yn bwriadu damhegion fel modd addysgol i ddyfnhau'i ddilynwyr ynghylch y Deyrnas ac i ddethol y disgyblion yr oedd eu hysbrydoedd yn cael eu hagor ganddynt. Ymddengys felly fod y Damhegion weithiau yn drysu deall cyfoedion Iesu, er na all hynny fod yn wir bob amser. Proses araf oedd. Roedd y disgyblion i gyd efallai yn methu â deall y cwbl o'r ddysgeidiaeth, a bodlona Ef ar eu hesbonio iddynt hwy weithiau am ei fod am hyfforddi tîm, ac am fod yr Ysbryd yn disgwyl i'r tîm ddod o hyd i'r allwedd brofiadol o flaen eraill. Paradocsau oedd y rhan fwyaf, onid pob un. Eto, ymddengys fod yr anhawster a brawf yr anghredadun seciwlar i amgyffred gwirioneddau ysbrydol yn aml yn anochel, megis pan geisir dadlau hyd yn oed heddiw â chyfoedion am faterion ysbrydol. Yr oedd y disgyblion hwythau'n cael anhawster ar y pryd am eu bod yn newydd-eni eu hunain: Math. 13:10-17. (cf. Marc 4:10 yml.; Luc 12:41). Yr un anhawster yn union a geir wrth gymysgu'r Llythyren â'r Ysbryd heddiw, a cheisio dysgu'i deall.

Yn y gyfrol *Dammegion yr Arglwydd Iesu*, Owen Evans, Llanbryn-mair, 1837, t.11, meddai Dr Evans: *'Pam yr oedd efe yn gwneud defnydd mor fynych o'r dull hwn o lefaru?*

*Mewn esboniad i'r cwestiwn yna, gellid crybwyll, megis yn rhagarweiniol, fod y dull hwn o addysgu yn gweddu yn neillduol iddo ef, **am fod ef ei hunan, o ran ei Berson, yn ddammeg anfeidrol ogoneddus.** Mewn dammeg, fel y sylwyd eisoes, y mae yr ysprydol yn cael ei osod allan trwy y naturiol, ac yn gyson â hyn, yr ydym yn yr Arglwydd Iesu yn cael y dwyfol yn ymddangos trwy y dynol, yr anweledig yn cymeryd ffurf weledig, a'r goruwchnaturiol yn datguddio ei hun trwy y naturiol; oblegid "yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Y mae disgleirdeb yr haul yn rhy danbaid i'r llygad noeth allu craffu arno, ond gellir syllu arno gyda hyfrydwch trwy wydr lliwedig. Ac yn gyffelyb i hyn, gyda golwg ar yr Anfeidrol, y mae Duw, fel Yspryd Tragwyddol, "yn trigo yn y goleuni, nis gellir dyfod ato, yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled;" ond yr oedd dynion marwol yn gallu edrych ar Dduw, yn "y dyn Crist Iesu", heb gael eu llethu a'u gorchfygu gan danbeidrwydd ei ogoniant.'*

Dichon mai'r methiant i ganfod gwirionedd Duw yn ymddangos yn y cnawd yw prif dramgwydd anghrediniaeth. Sonia Dr Evans ymhellach (28) am ddeuliaeth Damhegion drwy ddyfynnu Fairbairn: *'Y mae yr amcan deublyg hwn a berthynai i'r ddammeg – sef eglurhau dirgelion y deyrnas i'r naill gymeriad, a'u celu oddiwrth y cymeriad gwrthwyneb, – yn gydweddol ag amcan ymddangosiad, ac â holl waith Iesu Grist ... Yr oedd ymddangosiad Crist yn amlygu ar y naill law doster Duw, ac ar y llaw arall ei ddaioni. Gosodwyd ef i fod yn 'gwymmp' ac yn 'gyfodiad i lawer yn Israel.' 'I farn' meddai, 'y deuthum i'r byd hwn, fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.'*

Dichon felly fod yna bellter bwriadus yn Namhegion Crist weithiau. Ceir argraff nad yw'n dymuno ceisio cymryd arno ddweud yn blwmp ac yn blaen wrth bobl sydd heb wir ddiddordeb yn yr Efengyl. Taflu perlau o flaen moch yw croesi cleddyfau â rhai anghredinwyr. Cred y bydd y rhai sydd wedi ymrwymo ac wedi ymaflyd yn egwyddorion canolog syml y ffydd yn gallu ymateb yn gadarnhaol drwy ymaddasu mewn cywair 'Ymateb Darllenydd' dethol iach. Ar gyfer y rheini ar y pryd y mae'n pregethu yn benodol er mwyn symud ymlaen i'r dyfnderoedd: er mwyn meithrin yn y man ddefaid colledig Israel. Nid yw dynion anysbyrdol mewn gwirionedd yn medru dadlau na thrafod dyfnion bethau Duw ond o fewn cyfyngiadau tila. Gwastraff ar amser yw dadlau heb newid yn gyntaf.

Cyd-deimlo yw'r cyd-ddeall llawn, a hynny sy'n anodd i Gristion newydd.

Erys hynny'n wir o hyd. Felly, anodd yw i feidrolyn o gredadun ymdrin â'r efengyl gyda phobl a anwyd yn wrthwynebus ac sydd wedi magu anneall dyfnach mewn cenhedlaeth dywyll. Ond un o nodweddion troad i'r agored ei galon yw pellhau, dieithrio, straenio'r dychymyg, ac wedi'r straen, gall syndod siglo.

Dyma union bwrpas y damhegion i'w ddisgyblion: goleuo, egluro, cymhwyso rhai o wirioneddau rhyfeddaf y ffydd. Nid cyflwyno ffeithiau newydd, ac nid fel arfer gyflwyno dysgeidiaeth newydd. Hen ffurf oedd: ceir rhai damhegion yn yr Hen Destament (yn y *Barnwyr*) sydd yn arloesi'r ffordd i ddamhegion Iesu. Roedd damhegion Iesu Grist yn baradocsaidd ofalus yn y traddodiad hwn, er eu bod yn eu sefydlu'u hunain yn ffordd bersonol wrth weld yr ysbrydol mewn gweithredoedd pob dydd.

Defnyddir y gair 'Alegori' yn Gal. 4:24 lle y mae Paul yn disgrifio digwyddiad rhyddieithol unsyth llythrennol: Abraham yn cael dau fab: un gan gaethferch yn ôl greddfau'r cnawd, un i wraig rydd drwy addewid Duw. Dywed: '*Alegori yw hyn oll. Y mae'r gwraedd yn cynrychioli dau gyfamod ...*' (cf. 1 Cor. 9:8-10). Felly, yn alegoriâidd y mae Gal. 3:8 yn personoli'r Beibl ei hun: 'Y mae'r *Ysgrythur*, wrth *ragweld* mai trwy ffydd y byddai Duw yn cyfiawnhau'r Cenhedloedd, *wedi pregethu'r Efengyl* ymlaen llaw wrth Abraham fel hyn: "*Bendithir yr holl genhedloedd ynot ti*".' Mae'n personoli'r byd oll drwy un dyn (sef Abraham), sy'n gysgod ynddo'i hun, ond yn groes negyddol i'r Adda cyntaf. Y mawr a'r bach yw'r 'cenhedloedd'. Ond fe'u cyflwynir fel rhan o'r geiriau (a'r Gair), nas dealla Abraham onid yn rhannol ar y pryd. Cyferbynnir yr un a'r llawer. Paradocs yw amryw mewn un, mewn sefyllfa felly. Paradocs hefyd yw cyflwyno rhyfeddod gwir. Roedd Paul cenhadwr cenhedloedd yn anad neb yn gallu edrych yn ôl a gweld drwy gydol y Beibl gadwyn o berthnasoedd dirgel a glymwyd gyda'i gilydd yng Nghrist, yn ddeuoedd lefelog, Israel cnawd ac Israel ysbryd. Mae yn goleddfu un ysgrythur drwy fodolaeth ysgrythur arall. Gellid

troi'n ôl at Lythyr Paul at y Galatiaid, a sylwi yn y tair pennod gyntaf fel y ceir cyd-drawiadau treiddgar o arwyddocaol i'w gilydd dro ar ôl tro, yn ôl sefyllfa gwbl baradocsaid. Mae hyn yn rhan o gymeriad yr Ysgrythur. Nodwedd yw o fewn naws Cristnogaeth ei hun, am fod y byd naturiol hefyd yn fyd goruwchnaturiol, a'r ddaear a fwriadwyd yn lân bellach yn llwgr, ac yn faes brwydr.

Gellid meddwl bod Troadu yn ddull mor sylfaenol baradocsaid ac mor bwerus i'r Ysbryd Glân feddwl, fel y byddai'n ddoeth i Gristnogion nid yn unig ei sylweddoli eu hunain, eithr hefyd ei drafod mewn astudiaeth Feiblaidd er mwyn tyfu i ddeall ei ffyrdd strwythurol. Mae'n ymddangos yn batrwm treiddgar yn y sylweddoliad o fyd arall ac o ddimensiwn llawnach. Dyma'r fframwaith hanfodol i'r Goruwchnaturiol gael ei gyflwyno. Ond, wrth gwrs, ni chredaf fod disgwyl i wrandawyr neilltuo amser i ymdroi gyda'r dirgelion yn rhy dechnegol. Rhan o batrwm o hyfforddi yw. Dylai'r Eglwys er hynny adeiladu'r holl ddarlun yn enghreifftiol, fel y gwneir gan rai sy'n ei gyflwyno, – gan ei dderbyn yn 'naturiol'. Mae hyn eisoes yn wedd gwbl gynhenid wrth ddeall ac wrth esbonio bywyd. ... Araf-fyfyrio ysbrydol yw'r allwedd.

Cynllun yr Astudiaeth

Yn y Beibl, y mae popeth yn oruwchnaturiol ac yn rhagflaenu'r naturiol; popeth yn hanesiol ac yn rhagflaenu'r cymwysedig neu'r allegol; popeth yn llythrennol ac yn rhagflaenu'r troadol.

Mae Methodoleg trafodaeth Gristnogol ar Awduraeth y Beibl felly yn cael ei chyflyru gan yr **egwyddor ragflaenu** hon. Deuir o hyd i natur y rhagflaenu gan strwythur Beiblaidd mewnol y llyfr.

Seilir yr agwedd at Awdur llyfr o'r fath yn yr egwyddor bod y Goruwchnaturiol yn gyntaf yno, yn y canol o hyd, yn llywio pob peth. Felly ym Metanaratif y Greadigaeth cynhyrchir yr hollfyd naturiol gan achos Goruwchnaturiol. Nid yw'r Naturiol (sy'n Effaith) yno yn barod cyn yr Achos. Rhagflaenir yr Ymgawdoliad gan y Greadigaeth syrthiedig. Mae popeth egwyddorol a mawr yn rhan o gynllun y Cosmos aruthr dwyfol.

Gwell imi geisio esbonio Cynllun neu adeiladwaith yr Astudiaeth hon ei hun. Cynllun olynol o fath yw hon hefyd. Mae'n dechrau gyda'r Rhagair estynedig hwn mewn dwy ran lydan. Yn y rhain disgrifir dau o'r *dulliau ysgrifennu* sylfaenol sydd i'r Beibl, dau o'r rhagdybiau ysbrydol i'r wedd weledigaethol yn y cyfanwaith: sef Paradocs a Throadau. Ceisiwn ddilyn yr amodwyr hyn drwy gydol rhediad yr ysgrythurau. Fe edrycha'r ddau delesgop hyn drwy'r Beibl benbwygilydd gyda chyfanrwydd unigryw. Cyflyrwyr rhagdybiol a llenyddol ydynt i'r holl destun sy'n dilyn.

Dilynir y Rhagair hwn yn y man gan Ragymadrodd sy'n cyflwyno'n gryno brif *Awdur y Beibl ei hun*, sef yr *Ysbryd Glân*. A cheisir cysylltu'r fath honiad syn neu ragdyb am awduraeth â natur amrywiol y swyddogaeth honno wedyn. Ceisir archwilio arwyddocâd y ffaith ryfedd fod y

Beibl yn haeru mai'r Ysbryd a roddai undod ac awdurdod i'r Ysgrythur. Awdur troadol o fath unigryw yn arwain awduron oedd. Yna adeileidir corff ymdriniaeth y gyfrol hon ar ei hyd yn dair gwedd lenyddol, sef 1. *Dadnaturioli Deunydd Ystyrol*, 2. *Ffurf amrywiol y Cyfanwaith a'r Llendulliau*, 3. *Cymhelliad a Diben yr Awdur*, – ynghyd â *Thystiolaethu a'i Saith Wedd, a Gogoniant*.

Sôn yr wyf felly am 'strwythur llenyddiaeth gan Dduw'. Ond yn y fan hon, ceisiwn hefyd ei derbyn yn ôl gwyddor ddynol darllen, gan mai dyna a rydd Gras Cyffredin inni. A byddwn yn ystyried tair gwedd ar lenyddiaeth mewn disgrifiad a gais fod yn gytbwys wrth ymdrin â llenyddiaeth gyffredin. Ceisiais dderbyn rhan o fethodoleg 'Beirniadaeth Lenyddol'. Ymateb Darllenydd, sef beirniadaeth gyflawn dairochrog: yr *awdur* (neu'r Awdur arweiniol yn yr achos hwn), y *testun*, a'r *darllenydd*. Ceid y cwlwm meddyliol hwn gan Ysgol Almaenig yn y ganrif ddiwethaf.

Dylwn egluro i mi dros y blynyddoedd wneud ymgais go gyson i amlinellu'r adeiladwaith yng ngwyddor Beirniadaeth Lenyddol mewn cyfundrefnau hanfodol i'r meddwl lenyddol. Deuthum yn fy ngwaith beunyddiol i'r casgliad fod yna dair agwedd orfodol ar waith Awdur: *Deunydd, Ffurf, Cymhelliad*. Cydnabyddir yn llawn y gellid cyfiawn dderbyn bod yna weddau unigol eraill ynddo. Ond mae'r rhaniad triol hwn yn ymddangos yn erfyn hwylus a digonol i ddisgrifio cyfundrefn pob beirniadaeth. Hynny yw, diffiniad disgrifiol yw mewn triawd strwythurol o egwyddorion, sef y tair rhan a glymir mewn Cymhelliad ac a nodir uchod i ddal at ei gilydd gorff yr ymdriniaeth hon.

Ers canrifoedd hefyd, bu'r hen gyfuniad 'Deunydd a Ffurf' mewn llenyddiaeth yn gyflawn a diogel ac angenrheidiol adnabyddus yn nannedd pob ymosodiad i'r gwrthwyneb. Mae'n strwythur ysbrydol bron: corff ac enaid. Beth bynnag yw eu barn am y pâr hwn, gŵyr pob beirniad fod y ddwy elfen hyn yn cael eu cyplysu mewn syniadaeth lenyddol hysbys. Ond syniaf i fod y 'Cymhelliad' deinamig yn ychwanegol atynt ill dwy mewn disgrifiad cytbwys. Fe'u cysyllta hwy fel na ellid llai nag ystyried mai nodwedd yn y Greadigaeth gyfundrefnig ei hun yw hyn. **Ymdeimlaf fod Deunydd a Ffurf yn dermau statig braidd, a bod Cymhelliad yn darparu'r elfen ddeinamig gydlynol. Ymddengys Cymhelliad i mi yn ffactor angenrheidiol yn y triawd. Dyna sy'n gwneud llenyddiaeth.**

Mae'r cyfan yn cyflenwi strwythur triol beirniadol mewn gofod ac amser fel na ellir hepgor yr un rhan. Ar hyd y blynyddoedd, fe fûm i, felly, mewn cyfres o lyfrau yn ceisio cyflwyno'r cynllun beirniadol hwn yn ôl fframwaith sydd fel petai'n greedig barod, a hynny heb fawr o wrthwynebiad. Ymsefydlwyd hefyd ar lun triol arall, triawd cyfredol, a pherthynol – '*Tafod/Cymhelliad/Mynegiant*'. Trowyd o *Tafod y Llenor* ac ymlaen wedyn i ymhelaethu ar hyn yn

Seiliau Beirniadaeth I-IV. Fe'u dilynid gyda Beirniadaeth Gyfansawdd, Meddwl y Gynganedd, Y Cynllun sy'n Canu, a Hanes Beirniadaeth Lenyddol Gymraeg Ddiweddar. Gwreiddiwyd y rhain oll i raddau mewn un hen wyddor ddynol weddol gyson a ddatblygwyd dros ugeiniau o ganrifoedd. Yna dechreuais drwy fyfyrddod uwchben y strwythurau hyn fabwysiadu'r term 'cyfundrefn' fwyfwy. Yn ddiweddar mewn gwledydd tramor, yn fwyaf arbennig yn nhraddodiad Ffurfiolaeth Rwsieg a Siec ac yn Adeileddeg Ffrangeg hefyd, yn ogystal ag yn Ieitheg Gustave Guillaume, cafwyd pwyslais ieithyddol strwythurol yn ôl *strwythurau'r meddwl*. Disgrifient yr adeiladwaith (a'i gyfeiriad) a oedd yn orfodol ar gyfer meddwl. Drwy gyfuniad o wahanol gasgliadau ar sail pori drwy'r rhain y lluniais yr hyn a alwn yn Feirniadaeth Gyfansawdd.

Sôn yr wyf hefyd am fframwaith disgrifiol i lenyddiaeth yn gyffredinol. Megis i'r Beibl. Eto, ar ryw olwg, ceisiwyd awgrymu eisoes (yn ôl traddodiad ysgrythurol) mai Awduraeth Ddwbl, yn rhyfedd iawn, sydd gan y Beibl ei hun. *Ar y naill law, ceid Awduraeth yr Ysbryd Glân; ac ar y llall, y rhes o awduron unigol drwy'r canrifoedd a ddefnyddiwyd i fod yn gyfrwng i'r 'llyfrau' unigol.* Yr oedd yna gydweithrediad ffrwythlon rhwng y ddwy ochr hyn. Ond yn y berthynas unigryw honno rhwng y Goruwchnaturiol a'r Naturiol, y Goruwchnaturiol oedd y prif awdur angenrheidiol, ac yn wir yr unig brif awdur yn y bôn, gan mai'r Ysbryd Glân ei hun a oedd yn *gyfrifol* am bob iot a sillaf fel y cyfryw, ac eithrio'r unig lyfr a luniodd Iesu Grist – *Datguddiad: ...Efengyl Iesu Grist.*

Mae hyn o gydweithrediad yn Awduraeth y Beibl yn llawer mwy nag 'Ysbrydoliaeth' Gras Cyffredin mewn llenyddiaeth gyffredin. Yr oedd y cyfryngau dynol unigol yn gymdeithasiad aruthr o bwysig, ac yn rhan anrhydeddus ac allweddol o'r pontio rhwng Duw a dyn. Roeddent yn ddoniau cyffredin ac arbennig dynol (ac yn bechaduriaid) a oedd yn meddu ar arddulliau a phersonoliaethau naturiol, ac ar ysbrydoedd duwiol. Yn y berthynas ddwyfol hon, yr awduron oedd ein cynrychiolwyr ymarferol ni, ddynoliaeth. Ond beth bynnag a ddedholai ac a ddatguddiai Dduw, hynny drwy ddynion a ysgrifennwyd yn anffaeledig yn y Beibl ei hun. Yr Ysbryd Glân oedd achos arolygiaeth undod cywir y Beibl. Roedd yn datguddio hanes cwbl gudd cyn bod dyn, cyn bod hanes ar ôl distryw'r byd a diwedd hanes ei hun. Yr un Awdur a arweiniai awduron, ac eithrio *Datguddiad.*

Cymerwn mai swyddogaeth yr Ysbryd Glân oedd darparu'r Beibl inni yn ei grynsyth drwy ddethol ac ysbryd-arwain awduron o fewn ffiniau digonol. Mae'r darlun llawnach o'r Ysbryd Glân hwn, sydd ar gael yn y Beibl ei hun, yn disgrifio ei waith arall hefyd heblaw'r awduraeth, ac yn gymorth inni amgyffred amrediad y pwyslais yn ei ddelwedd. Priodol er mwyn canfod yr Ysbryd Glân yn ei swyddogaeth o Awdur arbennig fyddai synied amdano hefyd yn gysylltiedig â'i gyddestun lletach gan nodi **rhai o'i swyddogaethau daearol eraill. Nodir yn y Beibl fod gan Ei gymeriad, yn un o'r 'Tri yn Un', ran gyfartal yn yr Arfaethu rhagluniaethol cyn y Greadigaeth. Cafodd ef ran yn y Creu ei hun.** Mae'n ymddangos hwnt ac yma fod ganddo waith

o lawer math arall yn yr Hen Destament. Yr oedd Ef yn fwy nag ymyrraeth yng ngwaith yr awdur dynol. Roedd ynddo ran gweithredydd gerbron y darllenydd. **Argyhoeddai ddyn o bechod, ac Ef sy'n atgenneddu bywyd mewn anghredinwyr ac yn eu puro, gan gyflwyno a selio gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu Grist, gan wasgar hefyd ddoniau ysbrydol, a chan sancteiddhau a goleuo'r Ysgrythur a gyd-olygai. Ef sy'n creu ac yn arwain yr eglwys. Ef yn anad neb sy'n tystio i Iesu.** O fewn y pwysleisiau hyn y canfyddwn Ei Gymeriad unol â'r Tad a'r Mab. Ond y mae amlochredd y pwyslais a roddir yn dangos natur ei waith cynlluniol. I raddau, y mae Ef wrthi'n gyson yn llunio ac yn gweithredu Hunan-gofiant ar galonnau ei bobl; ac fe ddatguddia ei waith o fewn rhagluniaeth amser. Felly, er cydnabod gan lawer yr hen syniad am y ddeuoliaeth yn Awduraeth y Beibl, y ddwyfol a'r ddynol, tybed a roddwyd digon o sylw i arwyddocâd y fath sylweddoli llawn gyfun?

Testun y Rhagymadrodd sy'n dilyn y Rhagair hwn fydd person yr *Awduraeth* yn benodol. Beth yw ystyr hynny? Er mwyn cael ateb trown at dair agwedd ar ei waith – Deunydd, Ffurf a Chymhelliad y Beibl. Eto'n briodol oedir i ystyried arwyddocâd strwythurol y berthynas uniongyrchol a geid rhwng yr Awdur a'i gynnyrch. Fel arfer, mae gennyf beth rhagfarn yn erbyn y gorbwyslais mewn Beirniadaeth Lenyddol Gymraeg Ddiweddar ar 'hanes yr Awdur'. Oherwydd anniddordeb y ddawn esthetig gan amryw feirniaid Cymraeg i werthuso llenyddiaeth, a'u hanallu, yn wir, i ddeall arwyddocâd gwerthuso, bydd beirniaid yn ymgyfyngu'n rhy aml i allanolion Hanes Llenyddiaeth, sef **hanes yr awdur yn lle hanes mewnolion y gwaith**. Nid dyna nod yr Ysbryd Glân. Yn achos y Beibl, y mae cyfrifoldeb ac arwyddocâd awduraeth y gyfrol ynghylch gweithred mor unigryw, yn wir mor gwbl wahanol i bob llyfr (neu Lyfr y llyfrau) arall, ac yn gymaint rhan o'r cynnyrch fel y mae'n briodol onid yn rheidiol yma i geisio rhoi Rhagymadrodd am ddeinameg yr Awdur a'i gwnaeth. Mae hyn yn cyffwrdd drwyddi draw â'r tair adran sy'n adeiladu corff y Beibl wedyn.

Yn y bôn, ceir un gwahaniaeth unigryw rhwng y llyfr seciwlar a'r Beibl, er gwaetha'r ffaith fod holl Ddeunydd, Ffurf a Chymhelliad naturiol Gras Cyffredin yn y ddau. Yn ychwanegol yn y Beibl ceir Gras Arbennig. Mae'r Beibl yn fwy cynhwysfawr felly o ran ffactorau dynol beirniadol, ac yn fwy byth o broblem i ddarllenydd seciwlar cyffredin.

Yn Adran 1, sef '***Deunydd*** neu Themateg Ystyrol y Beibl', canolir yn yr ymdriniaeth hon ar ansawdd ac achos y *rhyfeddod cynhwysol*, canol yr ystyr, ym mhob rhan. Mae'r byd oll yn y bôn mewn Teyrnas Beniwaered gyfan-gwbl oherwydd pechod. Dyn, yn ei fryd ei hun, sydd ar y brig. Mae'r ymostwng sy'n gwbl anochel i'r sawl sy'n ymestyn at Deyrnas Nef yn wrthnaturiol. Ac mae Duw ei hun sydd oruwch-deall wedi ymostwng yn ddyn, a'r Duw-ddyn hwnnw wedi ymgawdoli

mewn beudy er mwyn marw ar y groes i dalu'r Iawn ar ran pechaduriaid colledig. Rhyfeddod yw a ysgogir gan ddull a chynnwys *paradocsaidd* yr Awdur. Pair hyn anesmwythyd efallai i'r dyn naturiol wrth sylweddoli anghyffredinedd y gwirionedd am berthynas Duw a dyn. Yn wir, drwy'r farwolaeth honno'n unig y ceir bywyd tragwyddol gogoneddus. Eithr, i ddatrys sefyllfa beniwaered, ceisiwyd mewn diwinyddiaeth ryddfrydol ateb(ion) sy'n ddynol beniwaered. Ond penderfynodd Duw drwy drugaredd gael dyn arall (Duw-ddyn) i dalu'r ddyled dros ddyn ac i ddweud y gwir. Doedd dim mwy addas iddo Ef ei hun na dod â diwinyddiaeth baradocsaidd felly i weithio. Felly, y mae'r Awdur hwn i lawr yn yr Arena, nid yn unig yn gwylid y gwaith, eithr hefyd yn gwneud y gwaith, yn rhyfedd.

Cyflwynir hanes llwgr o ryfedd Israel (plant yr Arglwydd) drwy gydol yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Cyflwynir a thrafodir Athrawiaethau ymddangosiadol 'amhosibl' megis '*Etholedigaeth a Rhyddid dyn*'. Ceir nid yn unig baradocsau'r gwir, ond defnydd cyson o droadau geiriol megis sydd yn golygu bod un peth yn beth arall. Felly yr estynnir yr iaith yn deimladol feddyliol yn undod i wneud y gwaith goruwchnaturiol y llwyddodd yr Ysbryd i'w wneud hefyd yn ein llenyddiaeth Gristnogol. Mawrygir y bach, a dyrchefir y tlawd. A hyn, yn ateb i'r sialens, yw ateb perffaith diwinyddiaeth unionged, yr ateb sy'n dyrchafu Gwaed y Groes.

Yn *Adran 2*, sef '*Ffurf* ddatblygol adeiladwaith y Beibl', ceisir arddangos yr undod a ddefnyddid gan yr Awdur yn y cyfanwaith ac mewn themâu. O ran themateg, ceid dwy thema fframweithiol. Undod thematig oedd hyn. Ond ceid undod i amrywiaeth y llenyddulliau hefyd.

Dangosai Pantycelyn yn ei ddwy arwrgerdd, *Golwg ar Deyrnas Crist a Theomemphus*, yr un **ddeuoliaeth thematig** ag a geid yn y Beibl: **y Greadigaeth a'r Waredigaeth**. Felly yr adeiladwyd y Greadigaeth oll i'w darlunio yn ei arwrgerdd gyntaf, **yn dilyn o Ragluniaeth cyn y Creu hyd y Farn ar ddiwedd y byd ei hun**, ac wedyn. Ac yna, adeiladwyd yr ail gerdd, sy'n **disgrifio dyfodiad y Dyn cyffredinol i dyfu o'i Ragluniaeth, drwy'r Cwmp, hyd iachawdwriaeth a diwedd ei fywyd ar y ddaear hon**, yn ail brif thema. Y Duw-ddyn. **Roedd y naill Hanes o ran ffurf yn facrocsm i'r llall**.

Un 'thema' a geid yn y fan yma ar ei hyd mewn gwirionedd oedd yr un o *O'r Creu drwy'r Cwmp i'r Codi*. Ceir dwy Israel ar gyfer dyn, un o ran Cnawd a'r llall o ran Ysbryd. Ceid daear ac Adda cyntaf, ac yna byddai daear newydd drwy'r ail Adda, sef Crist.

Symudir ymlaen, sut bynnag, yn ein trafodaeth i drafod **egwyddor a ffurfioldeb Undod cosmig**. Mae'r Crëwr Dduw drwy'i holl waith wedi gweithio mewn modd cynlluniedig trefnus fel y dengys y bydysawd a threfn y cadw. **Mae pob deddf yn gyfundrefn. Mae'r cwbl o fywyd, o'r atom drwy'r gell a'r deall a'r iaith a llenyddiaeth a'r holl wyddorau, masnach a'r celfyddydau,**

a thrwy natur i gyd, wedi'i gyfundrefnu'n grwn; ynghyd â threfn y chwalfa. Cymerwn hyn yn ganiataol, yn gefndir i'r Hanes.

Yn y rhan nesaf o'r drafodaeth ar Ffurf, symudwn ymlaen o ffenomen ryfeddol **Undod i ffenomen y llenddulliau**, yr Amryw sydd **yn yr Un**. Heblaw Undod o weddau a rhannau ym mherthynas y Drindod ar y naill law, ceir perthynas Mawl unol a llenddulliau (*genres*) ffurfiol y gwahanol lyfrau ac arddulleg y Beibl ar y llaw arall. **Unoliaeth arbennig oedd yr un ym mherthynas ysbrydol Duw a dyn**. Cyfriniaeth yw term (ofnedig) rhywrai ar gyfer hyn. Felly cawn fwrw golwg dros undod ffurfiant allanol y Greadigaeth o'r Creu i'r Diwedd yn yr ysbryd. Yna, dilynwn brofiad mewnol y Waredigaeth o'r Cwmp i'r Gogoniant. Ac yno archwiliwn y ffurfiau llenddulliol amrywiol a fabwysia'r Awdur drwy'r awduron i gyflwyno ei ddeunyddiau i ni.

Yn **Adran 3**, yn anochel, ceir undod ac amrywiaeth *diben* yn awr yng **Nghymhelliad** yr Ysbryd Glân. Hyn sy'n cyfeirio Deunydd a Ffurf drwy'i ysbrydoliaeth a chyfeiriad dibenedig. Cymer ddull *tystiolaethu*. Mawrygir gan yr Ysbryd un Arglwydd, un Crëwr, un Gwaredwr, un Duw a Thad yr Arglwydd Iesu Grist. Ac 'roedd yr Ysbryd Glân ddoe, heddiw, ac yn oes oesoedd, yn *gogoneddu* Crist yn unswydd drwy'r Ysgrythur ac ym mhob dull a modd a oedd yn bosibl. Cymhwysir hyn oll i galonnau pechaduriaid. *Tystiolaethu yr oeddid i ogoniant y Mab, dyna swyddogaeth yr Ysbryd*. Er bod amryw swyddogaethau lle clywir am waith penodol arall yr Ysbryd Glân – megis yn y Creu ei hun, – yr Awdur drwy'r Beibl oedd yr Un a oedd yn arbennig gyfrifol am raglunio a thystio i fywyd a gwaith ein Harglwydd annwyl yn bennaf drwy Air yr Ysgrythur a thrwy'r gwaith uniongyrchol mewn calonnau. Awchai am lefaru Mawl yn eneidiau'r bobl. Fe'i gwna drwy'r Synnwyr o Dduw, Cydwybod, y Greadigaeth, y Beibl, y Mab, yr Ysbryd Glân, a'r Eglwys.

Yr Ysbryd sy'n cyfeirio'r Themateg Feseianaidd, yn gyntaf i'w ddisgwyl; yn ail i'w dderbyn; ac yn drydydd, i gyd-lawenhau wedi iddo ddod, a hynny drwy'r cysgodau a'r proffwydoliaethau, hyd yr **Undod mewn Gogoniant**. Felly hefyd, fel y bydd yna Gymhelliad (o amryfal fathau) yn gyrru llenyddiaeth seciwlar, y mae yna Gymhelliad (o fath gwahanol – yn ôl pob golwg o leiaf) yn gyrru'r awdur Beiblaidd tuag at y Pen.

*

*

*

Nid oes yr un llyfr yn Hanes Llenyddiaeth Gymraeg a werthodd gymaint o gopiâu â'r Beibl. Nid oes yr un llyfr a ddylanwadodd gymaint ar lenorion eraill nac ar fywyd y wlad yn gyffredinol â llyfr yr Awdur hwn. Nid oes yr un cymeriad yn llenyddiaeth y byd y siaradwyd cymaint amdano yng Nghymru, yn wir ledled y ddaear, â phrif gymeriad y gyfrol a luniodd Yr Ysbryd Glân. Cyfeirio at Iesu oedd swyddogaeth lawen yr Ysbryd yng Nghymru am ganrifoedd.

Ond wrth gwrs, daeth bugeiliaid newydd ar yr hen fynyddoedd hyn. Daeth haneswyr

newydd i Gymru a dehongli'i bywyd heb ddeall arwyddocâd Iesu Grist, cyn belled ag yr oedd hynny'n bosibl. Cribwyd Crist allan o hanes ein gwlad. Bu haneswyr yn wyllt amharod i sôn amdano nac am ei ddylanwad personol. Na chwaith am holl ymresymwaith y gwrthodiad dwfn. Chwiliwch Fynegeion ein llyfrau Hanes gorau.

Mewn anwybodaeth, ac oherwydd diffyg diddordeb a chamarweiniad dybryd yn y Sefydliad eglwysig, dechreuwyd troi cefn ar y defnyddiau rhyfeddol hyn, a'u sarhau. Machludodd y meddwl Cristnogol mewn llawer man. **Cododd rhagfarnau cryf a chynddeiriog Dyn yn erbyn y Beibl.** Dyfeisiwyd athrawiaethau all-Feiblaidd a dyn-ganolog, a rheoliadau amherthnasol. Ni chwiliwyd gan haneswyr anghyfarwydd ei arwyddocâd ysbrydol ac ymarferol, er cydnabod o bell ei gamp lenyddol. Ychydig o sylw a roddodd beirniaid diwylliannol ymosodol a seciwlar Cymraeg i'r cyswllt a'r math o gyswllt cywrain a gafwyd rhwng cyflawniadau'r Awdur hwn (yn ôl yr ysgrythur) a'i waith ar y naill law, â hanes a meddwl Cymru drwy'r oesoedd ar y llall, beth yn union oedd natur y cyswllt hwnnw, ac arwyddocâd y ddealltwriaeth honno. Er mwyn ymuno ychydig bach yn yr ymgyrch i adfer anrhydedd i'r gyfrol fawr honno, ynghyd ag unigrywiaeth i'r ddealltwriaeth o'i Hawduraeth, yr ysgrifennwyd y llyfr hwn.

Diddorol yw ymddygiad haneswyr diweddar yn ein gwlad i wynebu grym meddyliol a moesol a llenyddol gadarnhaol y Beibl yn ein gwlad. Mewn cyfres fer ar *Hanes Cymru* y bûm yn ei darllen yn ddiweddar gan haneswyr proffesiynol, soniwyd am bynciau megis 'Dylanwad Thatcher ar Gymru', a llawer o faterion esoterig felly. Ond o'r braidd y crybwyllwyd, am un waith fentrus, enw 'Iesu Grist', na phwy oedd ef, na pham y daeth, na'i athrawiaeth am fywyd. Gallai darllenydd Hanes Cymru bellach gyfiawn holi, 'A fu Cristnogaeth yn bod o gwbl i Gymru?' Ymledodd yr un rhagfarn ar draws y Byd Gorllewinol. Darllenis yn y papur heddiw am ysgol yn derbyn caniatâd ar ddiwedd Tachwedd iddynt fynd â'r plant i wasanaeth gŵyl Nadolig yn yr eglwys gerllaw, ar yr amod fod crybwyll enw Iesu Grist yn waharddedig. Gelwir hyn yn gywirdeb gwleidyddol. Mae'r Beibl ei hun yn ddogfen sensoredig mewn llawer man bellach. Ac mae ystyried ystyr a natur enw Crist yn *bête noire*. Dyma **addysg** lydan ddiweddar, ac mae'n symudiad tywyll.

Unigrywiaeth y Drindod/Undod yw'r bwgan anhrafodadwy i'r amlffydd.

Bid siŵr, gellir honni'n deg mai anodd gwahaniaethu rhwng union gyfraniad Awdur y Beibl oll ac union gyfraniadau awduron rhannau o'r Beibl. Ond nid esgus digonol yw peidio â sôn am y fath beth gyda deallusrwydd; a gobeithir dangos bod yna rai gweddau ar Hanes y Beibl – megis dechrau a diwedd y byd – na allai neb ond yr Awdur hwn, a'i wybodaeth dragwyddol arbenigol, fod yn gyfrifol amdanynt. A'r un pryd, nid yw'r awduron unigol meidrol yn medru gwneud dim oll yn ddigonol heb fod yr Awdur penarglwyddiaethol hwnnw ei hun yn bresennol ynddynt, ac yn eu cysoni. Mae hynny'n codi problem hollol unigryw; ond mae'n esbonio llawer o undod rhyfedd y

cyfansoddiad. Problem yw ynglŷn â natur awdurdodol yr Awduraeth honno, a thrwy gydol datblygiad y gwareiddiad Cymraeg, nes cyrraedd y Sefydliad sydd ohoni'n ddiweddar. (Ceir sylwadau perthnasol am 'inspiration of its authors' yn Michael Green, *2 Peter and Jude*, IVP, 1968, 91-91.)

Llwyddodd yr Awdur i godi uwchlaw amlder gwallau technolegol y gwyddonwyr sy'n darfod o ganrif i ganrif gan fabwysiadu cyfrwng troadol a pharadocsiaidd byw. Heria'r neges a hawlir gan y Beibl ymateb darlennydd. Ymddengys y sefyllfa o safbwynt ein hastudiaeth ni, felly, yn gymhleth, yn ôl yr esboniad Beiblaidd o'r hyn sy'n digwydd. Mae'r esboniad Cristnogol o fywyd yn rhywbeth na ellir ei wrthbrofi. Ond nid yw hynny'n annog dihangfa i feirniaid llenyddol seciwlar. Wynebant yr esboniad clasurol od hwn fod yr un Awdur goruwchnaturiol wrthi'n dysgu, ynghyd ag awduron unigol, gan gydlunio un cywaith perthnasol. Uned lenyddol gyflawn ac organaidd yw felly i herio addysg. A derbyniwyd y term 'ysbrydol' ers canrifoedd lawer, er mawr anesmwythyd neu anwybyddiad i feirniaid 'rhyddfrydol' diweddar confensiynol. Ond mentrir deall y posibilrwydd rhyfedd gan ysgolheigion diwinyddol o hyd y gall mai dyna'r Gwir o raid; a haedda'r esboniad hwn hefyd ei archwilio'n deg o fewn y cyd-destun cyfoes heddiw, gyda mwy o bwyll a meddwl agored nag sy'n arferol. Addysg fythol ffres wedi'r cwbl yw ystyried y gall fod yna ddimensiwn goruwchnaturiol ystyrlon i fywyd.

Mae yna amryw resymau yn fras pam y mae hanes a thraddodiad Cristnogol yn cael eu gwrthwynebu gan ôl-fodernwyr relatif y dyddiau hyn. Pechod, yn syml, yw'r hen reswm cyfarwydd. Cynrychiolant sgeptigrwydd dogmatig yr hyn sy'n farw ysbrydol ac yn geidwadol ddyn-ganolog yn y meddwl cyfoes. Tybir o hyd wrth gwrs gan rywrai fod Ôl-foderniaeth yn fentrus a radicalaidd newydd oherwydd ei negyddiaeth newyddiadurol tuag at drefn. Ar ochr rhyw fath o 'newydd', meddir, y saif yr Ôl-fodernaidd, tyb sy'n dechrau dyddio. Ceisir o'r herwydd osod Ôl-foderniaeth lenyddol a diwinyddol mewn math o fframwaith cronolegol diffiniol.

Ond y mae yna rai Ôl-fodernwyr a gododd gwestiwn Hanes a Methodoleg Hanes heddiw, o safbwynt sydd i bob pwrpas yn ddiwinyddol, a hynny ar dro heb wybodaeth am theori'r maes. Y maent yn anlythrennog yn ddiwinyddol, a hynny oherwydd eu bod yn hanner-pob ynghylch rhagdybiaetholdeb. Y maent yn ymddwyn fel Haneswyr 'di-theori' yn ddiniwed ynghylch 'ffeithioldeb' yr hyn a ddywedant. Daethant i ymgaledu mewn relatifrwydd, tra oedd rhai mwy meddylgar yn gallu tanseilio'n bur ddiraferth yr haneswyr hynny sy'n anwybyddu rhagdybiau. Dangoswyd yn solet gan graffach meddylwyr nad oedd y fath beth â hanes 'pur', hynny yw hanes sydd heb ei dethol a heb ei wyro yn ôl ideoleg, metanaratif, a chefnidir. Aeth 'Hanes' drwy ogr anghysurus gwerthuso a dethol, ac felly y

dangoswyd na cheir hanes seciwlar ond mewn fframwaith rhagfarnlyd. Mae'r sylweddoliad meddyliol a chymdeithasol hwn yn ddylanwad treiddgar mwyach ar Feirniadaeth Lenyddol ac ar Ddiwinyddiaeth. A gellid gobeithio am ailfeddwl treiddgarach.

Yn y Beibl, sut bynnag, mater o bwysigrwydd anferth yw gofalus ystyried athrawiaeth Hanes. Hanes, fel y gwelir, yw asgwrn cefn yr Ysgrythurau, yn ymwybodol ragdybiol o Genesis ymlaen i Ddatguddiad. Dyma ddogfen hollol eithriadol yn hanes y Dwyrain Canol. Mewn fframwaith diriaethol sonia'n weddol gyson am ddigwyddiadau caled hanesyddol – fel y Creu, y Temtiad, yr Addewidion dwyfol, y Dilyw, y Cyfamod gan Dduw ag Abraham, ac ymlaen i'r holl gyfoeth o ddigwyddiadau breintiedig yn y Testament Newydd – y cyfan yn dangos cyd-destun sy'n cynnal yr holl ddatguddiad goruwchnaturiol unol. Sonia hyn oll am brofiad unigolion. Y mae perthynas yr Hanes a'r Ddiwinyddiaeth yn gwbl dyngedfennol, fe honnir, i fywyd tragwyddol. Mae'r olwg Oruwchnaturiol ar athrawiaeth Hanes yn golygu Chwyldro. Hanes diriaethol a Hanes y meddwl yw sy'n arddangos natur yr Ymgawdoliad, y berthynas â Duw, a natur y Ffydd Gristnogol yn strwythurol ar waith. Hawlia mai Cynllun Duw yw'r Deunydd a'r Ffurf. **Mae yna gyfundrefn driphlyg o Ffydd yn cael ei dadlennu ar hyd adeiladwaith cynyddol Hanes: 'Creu, Cwmp, Codi'.** Rhaid wynebu hyn oll yn wrthrychol ystyrion o'r newydd, yn arbennig wyneb yn wyneb â'r Metanaratif cyfun o Bositifiaeth (a'i rheswm) ac Ôl-foderniaeth (a'i hafreswm).

Mae yna seiliau hefyd i iachawdwriaeth ddynol mewn hanes. Mae a wnelo'r Beibl â Hanes yn gymaint ag a wna â Chrefydd foesol. Nid arweiniad yn unig sydd yma ynghylch bywyd ysbrydol ar y ddaear. Hanes Duw sydd yma; yn Dad, yn Fab, ac yn Ysbryd Glân. Ceir cyfathrebu, ac addysg, ac adeiladaeth o'n hadnabyddiaeth o weithredoedd nerthol Duw, gyda'r cwbl yn arwain at Ogoneddu. Newyddion hefyd a geir weithiau mewn amser a lle, tystiolaeth fwy neu lai ar y pryd mewn geiriau: dyma'r darlun a rydd Duw ohono'i hun droeon. Ac yn y Beibl, nid yw'r un o'r Tri, ai drwy weithredu ynteu drwy lefaru, yn bwysicach na'i gilydd. Nid yw'r un yn fwy blaenllaw chwaith na'r dehongliad ohonynt ill tri. Y mae'r cwbl o'r ffactorau hyn mor 'wir' â'i gilydd. Hanes cynlluniedig ydynt i gyd gyda Chymhelliad cwbl alldröedig. Ac ni ddylid ceisio dianc yn anonest negyddol. Eto, drwy'r cwbl yn y Beibl, Carwr dyn yw Duw hefyd.

*

*

*

Yn y bennod arbennig hon, bûm yn gyntaf yn ceisio cyflwyno Cynllun i'r gyfrol sy'n dilyn. **Ond 'Cynllunydd' hefyd yw rhan fawr o bwnc neu destun y gyfrol hon ei hun.** Ac yn hynny o beth y ceir dadl y gyfrol, oherwydd dadl yw hi. **Mae'r Ysbryd Glân yn gweithio drwy Ragluniaeth.** A'r ddadl briodol a ddisgwylir gennyf i yn ddiâu yw'r un gyfoes iawn yn erbyn Seciwlariaeth ddigynllun. Yn y ddadl neu'r frwydr honno y diffinnir un arall o'r themâu sy'n rhoi unoliaeth i'r gyfrol: rhagdyb. Yn ôl at hynny y trown dro a thrachefn, yn ôl at wahanol ragdybiau i

Ddeunydd, Ffurf, a Chymhelliad; yn ôl at y Bont.

Os oes rhagfarn ddiwinyddol anesmwythol yn y gyfrol hon, y gwyriad gonest yw o blaid *cyfundrefn* a ganfyddir yn Nuw, gan Dduw, mewn Creadigaeth a Gwaredigaeth. **Ond yr wyf yn gweld *Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn rhan anochel o Ddiwinyddiaeth Feiblaidd.***

Mae'n ymddangos fod rhan gyntaf y *ddadl* Gristnogol yn erbyn seciwlariaeth yn troi o gylch gwendid y safbwynt naturiolaidd ynghylch caeedigrwydd naturiolaeth, a'r rhagdybiaeth fod y byd yn amddifad derfynedig mewn gofod ac amser. Honnwn mai undeb mewn rhagdyb yw gwreiddyn y *ddadl* seciwlaridd.

Hynny yw, rhan *unedig* o'i gilydd yw'r gwrthryfel seciwlar i'w rhagosodiadau diwinyddol. Cibddall, sut bynnag, yw'r gwrthddywediadau sy'n osgoi'r holl ffeithiau. Ond cais diwinyddion a gwyddonwyr seciwlar gau llygaid ar y cwestiynau angenrheidiol anodd hyn. Mae angen cymharu trefn gyffredin y naill gyda'r llall. Mae yna greadigrwydd meddyliol o fewn mewnddrychedd ganddynt, ond amharodrwydd i wynebu'r cwestiynau ynghylch achos ac effaith a tharddiad deddfau.

Mae'r ail ran o'r *ddadl* (o du Cristnogion) yn fwy cadarnhaol. Wedi ateb y seciwlarwyr bellach ynghylch eu gwrthodiad annigonol o'r metaffisegol, dangosai fod y goruwchnaturiol yn cynrychioli'r *ysbrydol* a chyfanrwydd cysylltiedig gwybodaeth. Gwacawyd gan seciwlarwyr yr ystyr drosgynnol yn rhy fryslog yn syml ar sail rhagdybiau annigonol. Ceisiwyd ynysu ymdeimlad â phrofiad 'ysbrydol' oddi wrth gynnwys. Mae'r Testament Newydd, sut bynnag, yn rhoi esboniad ysbrydol a materol digonol i'r byd a'r bywyd cyfoes. Wrth drafod 'Crefydd Gymharol', nid ystyriodd seciwlarwyr bosibilrwydd gwirionedd Absoliwt un grefydd lawn-sfferog ddigonol – Cristnogaeth. O leiaf, ni ddadleuwyd ei hystyr i'r pen. **Cipiwyd bodolaeth amlffydd gan Seciwlariaeth fel pe bai hynny'n agor y fflodiartau i'r dybiaeth nad oedd cymaint â hawl gan un ffydd i feddu ar wirionedd cyflawn. Esgus fu amlffydd i osgoi anocheledd cydlyniad unigryw a phosibilrwydd credu absoliwt. Ceisiwyd heb seiliau beidio ag wynebu Gwirionedd bythol Un. Esgus hollol galed oedd hyn yng Nghymru i guddio diffyg argyhoeddiad. Esgus oedd i beidio â holi Absoliwtrwydd dychrynus.** Ond dangoswyd bod angen cydnabod yn y cyd-destun hwnnw y gall fod o hyd — (i) Gras Cyffredin [sy'n gallu amgyffred bodolaeth ymwybod â duw (neu dduwiau) gau], (ii) A'r rheidrwydd Arbennig i dderbyn o'r galon y posibilrwydd o unigrywiaeth y Grefydd wir. Dônt ynghyd mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, seiliedig ar Ragluniaeth, ynghyd â diffiniad llawnach nag arfer o 'Gyfundrefn'.

Mae a wnelo'r cyfuniad hwn, o rannau, â *chyflawnder perffaith* hawliedig y Datguddiad Cristnogol digonol, er nad yw'n honni ei fod yn dweud popeth y gallai Duw ei ddweud. Ond mae'r hyn a ddatguddiwyd yn ddigonol i achub pob un sy'n credu. **Ni ellir yn ysgolheigaidd dynnu, allan o'r byd, hafaliad am Dduw sy'n hollgynhwysfawr wrth reidrwydd, ac sydd a wnelo â**

gwleidyddiaeth (o'r mawr i'r bach), â bioleg a seryddiaeth, masnach a barddoniaeth, heb alltudio dim. Byddai gwrthod esboniad sy'n gweld 'dihysbyddu' unol o'r fath yn gofyn am Naturiolaeth fythwyrdd ddifrycheulyd. **Fy marn i yw mai'r Goruwchnaturiol byw dilys yw'r tramgwydd pennaf i ddyn ym mhob oes, y datguddiad neu'r peidio, a'r profiad neu beidio.** Dyna'r esboniad pennaf ac anochel hefyd i bob gwrthwynebiad gwrth-Gristnogol. Os oes 'ymchwil' sy'n gwrthod Cristnogaeth, dibynna gant y cant ar ragdybied yn syml yr anallu i ymdopi â'r Goruwchnaturiol. Pa fath o ddigonolrwydd meddyliol yw peth felly? Awduraeth a chynllun y Beibl yw'r ateb y ceisir ei olrhain i'r cwestiwn priodol hwnnw yn y gyfrol hon.

[Pan soniwn am *Awdur y Beibl* a hawlio mai'r Ysbryd Glân oedd yr Awdur, sôn yr ym am y norm. Cofiwn **am eithriad hanfodol a thra phwysig Llyfr y Datguddiad,** gydag awduraeth Iesu Grist, ac Ioan yn ei gopïo'n ffyddlon, a luniwyd yn y diwedd, o bosib yn y cyd-destun cyfoes, er mwyn adeiladu hyder a sicrwydd ymhlith yr ŵyn bychain, yn yr eglwysi egin ar adeg o fygythiad ymerodrol.]

RHAGYMADRODD

RHAGYMADRODD

YR YSBRYD GLÂN: sef YR AWDUR SY'N AWDURON

Dehongli'r Awduraeth

Pe bawn wedi rhoi'r teitl *Awduraeth y Beibl* ar hyn o gyfrol, buasai'n awgrymu fy mod am gynnwys yr awduraeth naturiol yn ogystal â'r awduraeth oruwchnaturiol. Buasai rhaid i mi ysgrifennu penodau cytbwys ar amryw unigolion megis Moses, Dafydd, a Paul. Ond gan fod yna un awdur mor bwerus a rhyfedd, prif Awdur ddywedwn i, yn *rhan* o'r awduraeth honno, sef yr Ysbryd Glân, a chan ei fod wedi sicrhau cyd-awduraeth gydag eraill, y mae lle i ystyried beth oedd natur y rhan honno a gymerodd Ef yn y swydd a fabwysiadodd. A chyda'i ran ganolog ef yn y cyfuniad yr arhoswn. (Dylwn nodi'n bendant yn y fan hon yr eithriad: sef Iesu Grist, awdur y *Datguddiad*.)

Mae sôn am Dduw'r Ysbryd Glân fel Awdur yn fath o drosiad. Mae'n fath o bersonoli paradocsiaidd am Greawdwr nef a daear. Daeth Hwnnw'n Awdur i Greadigaeth a hefyd i ddynion. Yn y Rhagymadrodd hwn yr wyf am geisio ateb pedwar cwestiwn. Yn gyntaf, ym mha ffordd y mae'n ystyrlon inni ddisgrifio'r Ysbryd Glân fel Awdur y Beibl? Y mae'n amlwg eisoes fod gan y Beibl lawer o awduron dynol gan ddechrau gyda Moses. Gwyddom enwau llawer ohonynt. Sut, felly, y gellir sôn am yr Ysbryd Glân fel math o Arch-awdur, yn eu trefnu hwy oll ac yn eu harwain, a hyd yn oed yn eu rheoli? Beth yr oedd ef yn ei wneud? Ei arallrwydd dirgel gweithredol ef yw paradocs cyntaf yr Awdur hwn. **Mae'n ymddwyn tuag at bob awdur unigol fel y mae Duw yn ymddwyn yn ei berthynas â phob Cristion ar y ddaear; sef drwy'r 'rhyddid' sy'n bosibl rhwng yr Hollalluog a'i blentyn. Pan fydd Duw yn gweithredu drwy'i blentyn, dyna ryddid heb bechod.**

Yn ail, gan fod yr Ysbryd Glân yn un o dri pherson y Duw Trindodaidd, beth yw'r priodoleddau sy'n disgrifio'i gymeriad ffurfiol ef yn unigolyddol fel Awdur unigryw? Beth a wyddom amdano o fewn y Duwdod? Pa swyddogaeth neu swyddogaethau yn arbennig sydd yn anad neb yn eiddo iddo Ef, yn effeithio ar ei berthynas fel Awdur arweiniol, ond yn wahanol i bob awdur dynol?

Yn drydydd, a oes yna ryw gyswllt crwn rhwng amryfal briodoleddau neu ddyletswyddau'r Ysbryd Glân, y gwyddom amdanynt drwy'r datguddiad Beiblaidd, sy'n dangos undod yn ei waith, ac o bosibl yn lliwio'i gymeriad (o'r tu allan i'w waith llenyddol), yn y fath fodd goruwchnaturiol fel y mae'n dweud rhywbeth am natur ei swydd o Awdur unol drwy'i ysgrifeniadau?

Yn bedwerydd, wrth efrydu'r Beibl, a ddangosir pwyslais arbennig i'r 'Trydydd Person' hwn nid yn unig yn y Drindod, eithr yn y cwlwm llenyddol fel y gellir dweud bod y *testun* ei hun yn dweud wrth y *darllenydd* rywbeth am yr *awdur*? Hynny yw, o safbwynt 'Theori Ymateb

Darllenydd', sut y mae'r fethodoleg driol honno'n gweithredu yn achos y Beibl?

Yn ôl cred Feiblaidd yr Eglwys Gristnogol, nid llyfr naturiol yw'r Beibl. **Cynnyrch cydlynol y goruwchnaturiol a'r naturiol yw Gair cyfansawdd Duw.** Mae'n gyfansoddiad gan yr Ysbryd Glân (sy'n Ben-Awdur), a chan awduron unigol llai, drwyddo draw, **fel y mae llu o oleuadau bach yn ymgolli ac yn ymuno'n llwyr anochel yn y Goleuni mawr.** Mae'n cychwyn mewn Anffaeledig dwyfol, yn symud i Anffaeledig dwyfol-ddynol, drwy'i Gariad tuag at y Ffaeledig dynol. (2 Tim. 3:16): *'Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw.'* A'r ystyr yn y fan honno yw iddi gael ei hanadlu gan Dduw i mewn i'r awduron bach. Felly, yr oedd yr awduron unigol yn cael eu golygu, eu harwain, a'u llywodraethu'n rhydd ac yn ddiogel gan yr Ysbryd Glân. (2 Pedr 1:19-21): *'Y mae gennym hefyd genadwri gwbl ddibynadwy y proffwydi; a pheth da fydd i chwi roi sylw iddi, gan ei bod fel kannwyll yn disgleirio mewn lle tywyll, hyd nes y bydd y Dydd yn gwawrio a seren y bore yn codi i lewyrchu yn eich calonau. Ond sylwch ar hyn yn gyntaf: nid yw'r un broffwydoliaeth o'r Ysgrythur yn fater o ddehongliad personol, oherwydd ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed drwy ewyllys ddynol: pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân.'*

Pwnc unigryw o'r mwyaf cywrain ym myd diwinyddiaeth yw perthynas yr awduron a'r Awdur hwn. Eithr hefyd dyma'r brif thema o safbwynt y Feirniadaeth Lenyddol honno sy'n chwilio canolbwynt gwerthuso neu sy'n ymddiddori yn yr ysgol 'Theori Ymateb Darllenydd' (Reader Response Theory). Mae'r rhai mwyaf unionged a'r mwyaf Beiblaidd o'r beirniaid, megis awduron y gyfrol glasurol *Inerrancy*, gol. Norman L. Geisler, Grand Rapids, 1980, yn **cymharu'r berthynas ddeublyg awdurol hon â'r berthynas (ym Mherson Mab Duw) rhwng ei wir ddwyfoldeb a'i wir ddynoliaeth, ac eto heb bechod.** Ni chyfrifai awduron dynol y Beibl byth eu bod yn 'annibynnol'. Y ffordd orau o ddisgrifio eu sefyllfa oedd cyfrif eu bod yn derbyn yn ufudd, oherwydd eu swyddogaeth unigryw, wirioneddau digyfnawid drwy ddatguddiad dwyfol. Y farn ddiwygiedig nodweddiadol yw bod yna awduraeth ddynol i'r Beibl wedi'i llywio, **i fod heb wall gan yr Ysbryd, megis yr oedd dynoldeb Crist heb fai.**

Fel y bydd awduron yn mynegi o fewn ffiniau a ffurfiau iaith, felly y bydd awduron y Beibl yn mynegi, o fewn ffiniau a ffurfiau meddwl yr Ysbryd Glân, waith a oedd yn Wirionedd i gyd. Felly y cyfeirir at awduraeth yr Ysbryd Glân drwy awduraeth dynion sy'n cadw'u hunigrywiaeth yr un pryd ag yr ymgollant yn y Duwdod: megis Marc 12:36, *'Dywedodd Dafydd ei hun, trwy'r Ysbryd Glân ...'* Ac yn Actau 1:16; meddai Pedr, *'rhaid oedd cyflawni'r Ysgrythur a ragddywedodd yr Ysbryd Glân trwy enau Dafydd ...'* Sylwodd Paul (Actau 23:25), *'Da y llefarodd yr Ysbryd Glân trwy'r proffwyd Eiseia...'* Ymwybyddai Paul ei fod yn ysgrifennu o dan arolygiaeth o'r tu allan, (1 Cor. 7:25): *'yr wyf yn rhoi fy marn fel un y gellir, trwy drugaredd yr Arglwydd, ddibynnu arno ...'*

Dolennau oeddent mewn cadwyn. Nid ewyllys ddynol a oedd yn ffynhonnell i hyder a phendrantrwydd ysgrifeniadau Moses, Samuel, Dafydd nac Elias na'r proffwydi bach yn eu barn eu hun. Sianeli o fath oeddent oll i neges o'r nef. Meddai Green, 'The Holy Spirit did not use instruments; He used *men*.' Ond er nad yw'r trosiad yn cynnwys pob gwirionedd am y berthynas, nid trosiad cwbl annheg mo 'offer cerdd'. Eto, meddai Green drachefn, 'There is nothing here remotely analogous to the Montanist claim that they were like a lyre struck by the Spirit.'

Dyma sefyllfa gwbl chwyldroadol, felly, o safbwynt seciwlar. Ond yr oedd yna wedd amlwg ddwyfol ar arddull y Beibl, a phob un dynol a'i cyfansoddai yr un pryd yn meddu ar ei feddwl ei hun. Yr oedd yr Ysbryd Glân yn weithredol drwyddynt a hwythau drwy'r Ysbryd Glân. Nid sôn *am* yr Ysbryd Glân yn unig a wnaent eithr ysgrifennent dan ddylanwad yr Ysbryd Glân mewn modd breintiedig. Felly (Amos 1:1), '*Geiriau Amos, un o fugeiliaid Tecoa, a gafodd weledigaeth ...*' [Dim ond Amos a Duw a'i gwyddai'n ffynonellol.] Nid arddywedyd yn yr ystyr arferol a wneid, felly, gan nad oedd yr Ysbryd fel pe bai'n ysgrifennu ar wahân i bersonoliaethau unigryw **Samuel** nac **Eseia**, a'u harddulliau a'u profiadau amlwg personol. Cadwai **Pedr** ei gymeriad gwyllt ac **Eseia** 53 ryfeddod ei angerdd moliannus. Fel hyn y traethai **Jeremeia** 36:1-2, 4, 6 mor benodol mewn dadleniad eglur: '*Daeth y gair hwn at Jeremeia oddi wrth yr Arglwydd: "Cymer sgrôl, ac ysgrifenna arni yr holl eiriau a lefarais wrthyt yn erbyn Israel a Jwda a'r holl genhedloedd, o'r dydd y dechreuais lefaru wrthyt."* Wrth i Jeremeia lefaru, ysgrifennodd Baruch yn y sgrôl yr holl eiriau a lefarodd yr Arglwydd wrth Jeremeia... Dos di, ac ar ddydd ympryd darllen o'r sgrôl, yng nghlyw'r bobl yn nhŷ'r Arglwydd, holl eiriau'r Arglwydd fel y lleferais hwy.'

Mae yna ffin a diffiniad ar y geiriau hyn. (Num. 22:18) '*Ni allaf wneud yn groes i'r hyn y bydd yr Arglwydd fy Nuw yn ei orchymyn.*' Dyna'r math o berthynas 'Cyd-awdur' a geid rhwng awduron y Beibl a'r Ysbryd Glân. Drwy weddi ac ympryd trosiadol heddiw y llwydda darllenwyr i glywed rhai o frawddegau'r Gair mewn cyflwr effro effeithiol.

Does neb yn gwadu pechadurusrwydd Dafydd, er ei fod yn awdur. Ond fel yna y gweithiai'r Ysbryd Glân, – drwy bechaduriaid (dychrynlyd yn aml) i ymddiried ei Air pur a dihalogedig ar achlysuron penodol i gyfathrebu'n awdurdodol â'i bobl. Dyma ran o'r ffaith fawr o gyfarfod agos iawn Duw a dyn. Methodoleg baradocsaidd oedd. Yr ydym yn trafod rhyfeddod.

Ceir enghraifft nodedig o'r Awdur yn llefaru drwy eiriau'r awdur yn 2 Samuel 23:1-3 lle yr oedd Dafydd yn cymryd arno'i hun fantell y proffwyd yn ei gân olaf:

*'Dyma eiriau olaf Dafydd:
"Oracl Dafydd fab Jesse,
ie, oracl y gŵr a godwyd yn uchel,
eneiniog Duw Jacob,*

canwr caneuon Israel.

“Ysbryd yr Arglwydd a lefarodd drwof,

a'i air ef oedd ar fy nhafod.

Llefarodd Duw Jacob,

dywedodd craig Israel wrthyf...”.

Sonnir am y math hwn o ddigwyddiad weithiau fel 'profiad cyfriniol' preifat. Ac y mae'r term 'Cyfriniaeth' yn fath o fasedd lle y teflir pob math o oddrychedd – profiadau ysbrydol dilys weithiau, annelwigrwydd defnyddiol weithiau eraill – sydd am ymwared efallai ag awdurdod Beibl absoliwt. Ond yr hyn sydd yma (yn ôl honiad y Beibl) yw nid profiad unigol personol yn unig, ond cenadwri i bawb, a hefyd Dduw anffaeledig yn llefaru o fewn cyd-destun dysgeidiaeth awdurdodol ddi-wall. Hynny yw Cyfriniaeth Gristnogol, debyg i berthynas Iesu ac Ioan ym Mhatmos.

Wrth feddwl am ragoriaethau'r awduraeth gyfun, sef y Prif Awdur (sef yr Ysbryd Glân) o'i gymharu â'r awduron unigol, megis Moses a Solomon, Luc a Paul, mae'n amlwg bod yr Awdur yn meddu ar amryfal ddoniau na allent fod gan y meidrolion. Mae ei fyd-olwg o ran gweledigaethau a gwybodaeth yn anhraethol gyfoethocach. **Mae'n gyfarwydd â'r diwedd cyn y dechrau, ac â'r hyn a geid ynghynt hefyd cyn y dechrau hwnnw. Felly y mae cynllun y Beibl yn orffenedig hysbys iddo'n gyflawn.** Mae'n meddu ar y cyfanrwydd sanctaidd, fel y gall droi ei waith yn drosiadau neu'n symbolau o fewn cyd-destun sy'n gweithio iddo yn ôl ei alw. Felly y mae perthynas yr Absoliwt yn effeithio ar naws a natur trugaredd a thosturi mewn ffordd fel na all cymeriadau bach y ddaear byth ond braidd gyffwrdd â hi. Pan soniwn am Gymhelliad y llenor yn ei waith, rhan o'i waith fel Awdur yw ceisio cyfleu peth o'r dirgelwch enfawr hwnnw i'r darllynydd. Sancteiddrwydd yw ei brif briodoledd swyddogaethol. **Sancteiddir ei holl waith geiriol ym mhob brawddeg.**

Byddaf i'n meddwl am yr Ysbryd Glân yn yr Ysgrythur yn dilyn angen y dynion hyn, fel pe bai'n angel gwarcheidiol yn eu harwain.

Byddai Athenagorus yn sôn am 'yr Ysbryd oddi wrth Dduw, sy'n symud geneuau'r proffwydi fel offer cerddorol.' A mynnai Awstin honni fod Crist, y pen ar ei gorff (yr eglwys), wedi defnyddio'i ddisgyblion 'fel pe baent yn ei ddwylo'i hun' wrth gyfansoddi'r efengylau. Medd Tomos Acwin wrth yr Eglwys Gatholig heddiw: 'Duw yw awdur yr Ysgrythur.' Gweithred oruwchnaturiol oedd ysgrifennu'r Beibl. Awgryma Calfin fod Duw fel pe bai'n arddywedyd (*dictate*) y geiriau; ond esbonnir gan B.B. Warfield ymhellach mai *canlyniad* yr anadlu oedd hyn, nid modd o gopïo. Hynny yw (yn ôl Turretin), felly yr oedd Duw yn amddiffyn cywirdeb y testunau gwreiddiol. Mae'r Ysgrythur yn hawlio amdani ei hun mai Goruwchnaturiol yw. A go brin y gellid ei disgrifio'n uwch

o ran tarddiad, awdurdod, anian, ac ansawdd. Hyn oedd yr hanfod. Dyma'r union nodweddd yr ymosodid arni pan geisiai Beirniaid Beiblaidd erioed ragdybied yn ystyfnig fod dyn yn dod yn gyntaf ym mhopeth.

Caf fy mod innau'n tueddu i ochri gyda Chalfin a'i ddisgyblion ar achlysuron fel hyn, er gwaethaf dychryn parod enw'r dehonglydd hwnnw. Pam? Oherwydd fy mod yn tueddu i ddod o hyd yno i ddoethineb a phrofiad yn eu plith sy'n fwy cydlynus, yn fwy ufudd i'r Beibl. Gweld y byddai Calfin a'i ddisgyblion drwy sbectol y Beibl.

Felly, yr wyf yn dechrau trafod Awdur y Beibl drwy hawlio'i fod ef ei hun yn ei ddatguddio'i hun, nid fel rhywun arall, ond fel Un yn ein plith sy'n gorfod bod yn Amryw, yn Un goruwchnaturiol a dynn Amryw naturiol i'r nef, oherwydd bod yr Un sydd yn y Nefoedd am ymgnawdoli'n un ar y ddaear. Mae'r hyn y mae'n ei lunio'n offeryn, sef **y Beibl, yn baradocs o'r dechrau hyd y diwedd. Ceisiais eisoes esbonio pam y mae'n ymddangos felly, a sut y mae'n cael ei gyfansoddi felly, yn lluosog unol.** Credaf i fod Beirniadaeth Lenyddol gywir yn gorfod trafod y llenyddiaeth hon drwy ymaddasu i'r testun y mae'n ei drafod. Cydymffurfio 'wna â gofynion y Ffurf a'r Deunydd y mae hi ei hun yn dewis ymdrin â hwy. A beiddiaf awgrymu bod unrhyw ffordd ddynol arall o drafod y Beibl yn rhwym o fod yn anaddas.

I feirniad llenyddol Cymraeg o ddifrif, y mae hyn o sylweddoliad yn bleth drwy'n gwareiddiad gartref, gan fod y Beibl, yn arbennig yn ystod y pum can mlynedd diwethaf o'n hanes, wedi bod mor ddylanwadol ar y meddwl Cymraeg.

* * *

Gwelsom felly fod 'Awdur' y Beibl hefyd ar waith ymhlith 'awduron': y paradocs sylfaenol a nodwyd amdano yn y gyfrol honno. Ond pan ystyriwn ymhellach awduraeth yr Ysbryd Glân ei hun gwelwn ail baradocs yn fuan sy'n baradocsaidd gysgodol, Ei fod Ef ei hun, person yr Ysbryd Glân, hefyd yn cael ei ystyried gan y Beibl yn wedd ar Dduw *Tri-yn-Un*. Dyma'r Un o'r Lluosog eto.

Mae crefyddau eraill yn tybied mai amldduwiaeth yw peth felly, a bod y Cristnogion yn arddel Triduwiaeth. Dim o gwbl, wrth gwrs. Mewn gwirionedd, **nid yw Undod sy'n cynnwys Amryw, fel cyfuniad neu gyfundrefn, ddim yn ddieithr o gwbl i neb. Yn wir, mae pob un wedd ar y greadigaeth – y moleciwl, y gell, y DNA a dŵr, a llawer arall – bob un bob amser yn cael eu cydadeladu gan amrywiaeth yn Undod enfawr yn y Cyfanfyd. Felly y deallwn drachefn am y Crëwr personol Cristnogol ei hun yn y tarddiad, fod un o'r personau hyn sy'n undod, wedi ymgymryd â phrif swyddogaeth llunio Gair Duw.** Does dim dwywaith nad yw hynny'n ddirgelwch hefyd. Ond y mae'n wirionedd pwysig ac adnabyddus am y Duwdod. Personol gymhleth yw'r Awdur. Os yw'r Beibl yn rhyfeddod, y mae Ef ei hun yn fwy o ryfeddod.

Yn Act. 5:3, mae Pedr yn dweud bod Ananias wedi dweud celwydd wrth yr 'Ysbryd Glân',

ac yna yn adnod 4 mae'n dweud bod Ananias wrth wneud hynny wedi dweud celwydd wrth Dduw. Yn 1 Corinthiaid 12:4,5,6 y mae'r apostol yn sôn am dri pherson y Duwdod – 'yn yr Ysbryd', 'yr un Arglwydd', 'yr un Duw'. Yn Eiseia 6:9 yr *Arglwydd* sy'n llefaru wrth y proffwyd; ond wrth i Paul gyfeirio at yr adnod, mae'n sôn am yr *Ysbryd Glân* yn llefaru drwy'r proffwyd. Yr Ysbryd yw'r Crëwr: Gen. 1:1-2; Salm 104:30; Job 33:4. Fe'i cysylltir â'r Mab mewn modd arbennig: Luc 1:35, '*Atebodd yr angel hi, "Daw'r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi; am hynny, gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw"*'. A dyma Rufeiniaid. 8:11, '*Os yw Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yr hwn a gyfododd Grist oddi wrth y meirw yn rhoi bywyd newydd hefyd i'ch cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chwi.*' Ym Math. 28:19, y mae Iesu'n cyfarwyddo'i eglwys: '*Gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi.*'

Oherwydd natur ddwyfol yr awduraeth, y mae natur y Beibl ei hun yn rhyfeddol o anffaeledig. Bu'r awdurdod hwn yn dramgwydd aruthrol i bregethwyr rhyddfrydol hunan-awdurdodol Cymru. Ond gofyn yr awduraeth am yr ysgolheictod llymaf ei feirniadaeth gan efengyleiddwyr mwyach, hynny yw, heb fod yn un-dimensiwn yn syml oherwydd rhagfarn a dogmatigrwydd naturiol. Mae'r math o wybodaeth, y ddealltwriaeth sydd gan yr Awdur hwn, yn fewnol i gymdeithas y Drindod, ac y mae'r ysgolheictod sy'n angenrheidiol i'w hastudio yn unol â gofynion hwnnw. Mae'n wybodaeth naturiol ac yn wybodaeth oruwchnaturiol anffaeledig mewn modd sydd goruwch awduron dynol yn unig, ond yn eu defnyddio.

Oherwydd bod yr Ysbryd Glân yn cynorthwyo'r *dehongliad* gan Gristion, nid yw hynny'n golygu bod y *dehongliad* ei hun a dderbynnir, yn ddehongliad dealledig awdurdodol o gwbl. Braint a neilltuwyd i'r proffwydi a'r apostolion oedd hynny. Gyda'r cyffredin, cynorthwyo a wna. Ond rhwng yr Ysbryd Glân a chalon neu ddeall y darlennydd cyffredin y mae'r gair yn tramwyo. Dehonglydd yw'r Ysbryd: y darlennydd ei hun sy'n ffaeledig. Y mae'r Arglwydd yn llefaru'r Gair awdurdodol mewn geiriau dynol yn gyntaf, ond yn ail y mae'r Dehonglydd hefyd yn llefaru gynorthwyo'n bersonol ac yn goleuo iddo'i hun y manau dirgel. Ac y mae hynny'n golygu yn gyntaf y geiriau llythrennol nad oes newid arnynt gan gynnwys potensial i ddyfnder yr ystyr ddiderfyn. Nid yw'n golygu bod yn rhaid bod yn brennaidd lythrennol yn ein dehongliad, er hynny. Ac yn drydydd parados, yr Ysbrydolwr ei hun sydd hefyd yn Ddehonglydd cariadus dwyfol i'r ffaeledig.

Ac fel yna, yr hyn sy'n digwydd i ddarlennydd gonest a gâr Dduw i'r eithaf yw nad yw'n caniatáu chwarae na ffidlan na cheisio cystwyo'r testun. Dyma dir sanctaidd. A gŵyr darlennydd y gellir dod o hyd i drysor y trysorau drwy lafurio mewn gostyngeddwrwydd yn y winllan hon. Meddai

Paul yn ei ail epistol at Dimotheus (2 Tim. 2:9), '*Yng ngwasanaeth yr efengyl hon, yr wyf yn dioddef hyd at garchar, fel rhyw droseddwr, ond nid oes carchar i ddal gair Duw.*' Ac yn 2 Corinthiaid 4:6, '*Oherwydd y Duw a ddywedodd, "Llewyrched goleuni o'r tywyllwch", a lewyrchodd yn ein calonnau i roi i ni oleuni'r wybodaeth am ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist.*'

Oherwydd y Gair nerthol hwn y daeth Adferiadau anferth gynt fel yn Titus 3:5-6. Gweddnewidiwyd cenedloedd. Yna, ar ymylon yr Ymerodraeth Rufeinig, drwy drugaredd difrifolwyd y Paganiaid Celtaidd gan fudiad y seintiau – fel Dewi. A thros ymylon yr Ymerodraeth draw dros y môr yn Iwerddon, cafwyd symudiad mawr arall drwy Badrig a'i ddilynwyr. Bu'r gwledydd Celtaidd yn cynorthwyo'i gilydd ac yn cenhadu ledled y byd a oedd yn hysbys iddynt ar y pryd. Caed diwygiadau ysbrydol gan y Cyfathrebwr mawr ei hun. Mor ofalus y dylem eu dehongli.

Mae yna beryglon wrth gwrs mewn symudiadau emosiynol o'r math hwnnw mewn llu o bobl. Yn wir, cynyrfiadau teimladol a grymus weithiau yw'r hyn a gysylltir â'r Ysbryd Glân pan siaredir am adfywiad crefyddol. Dyma'r dull newyddiadurol o synied am y ffenomen. Erbyn heddiw, tuedda'r cyfryngau i roi hysbysrwydd i gyfarfodydd 'adfywiol' swnllyd, 'Americanaid' fel arfer. Ym mryd cyhoeddusrwydd sylmaidd, dyma'r wedd fwyaf effeithiol ar genhadu Cristnogol. Ffilmir rhai perfformwyr ego-ganolog yn gwneud apêl ariannol wasgol a theimladol gerbron y màs, gyda chefnidir o fiwsig hypnotig ailadroddol. Y cnawdol neu'r perfformiad neu'r tactegol hwn yn fynych sy'n disodli gwirionedd a duwioldeb. Ond nid adfywiadau anghyffredin a sydyn o'r math newyddiadurol hwn dros y canrifoedd fu'r norm. Ymledodd yr Ysbryd yn fynych iawn drwy lef ddistaw, fel yn achos Paul yn Thesalonica (1Thes. 1:5). Dichon nad annhebyg yw'r sibrwd presennol a phetrus ac ofnus a geir heddiw, yn nannedd ein herlidwyr tawel o dreiddgar, sy'n parhau yng Nghymru. I ni, sy'n Gristnogion heddiw, parch gostyngedig yw'r modd y dylem wrando ar y Gair. Pan fydd y Beibl ei hun yn sôn am yr Ysbryd Glân, yr hyn sy'n digwydd yw bod yr Ysbryd Glân yn tystio amdano'i hun. Mae'n ei ddisgrifio'i hun ac yn tynnu sylw at weddau ar ei waith. Priodol yw chwilio'n gynnil am ei bresenoldeb, a phrofi'r cynyrfiadau.

Gadewch i mi roi enghreifftiau o hynny. Yn y gyfrol *Presence, Power and Promise*, a olygwyd gan David G. Firth a Paul D. Wegner, 2011, trafodir rôl Ysbryd Duw yn yr Hen Destament. Yn gyson yn eu trafodaeth, mae'r ysgrifwyr yn cyfleu nad oedd gan awduron yr Hen Destament yr un cliw fod yr Ysbryd Glân yn berson unigol o fewn y Drindod. Ond mewn dwy ysgrif, y naill gan Tremper Longman III, a'r llall gan Langsey Wilson, fe fawrygir swyddogaeth yr Ysbryd – wrth 'rannu doethineb'. Ymdrecha Eliphaz, Zopher, Job ac Elihu i wreiddio 'doethineb' yn yr Ysbryd. A'r hyn a ganfyddir yn *Diarhebion, Job, Llyfr y Pregethwr, Doethineb Solomon* ac mewn manau eraill yw pwysleisio nad mewn ymdrech ddynol y cynhyrchir doethineb o'r iawn ryw: dawn ddwyfol i waglaw yw. Yn Nuw y ceir gwreiddyn a ffurf doethineb. Y wybodaeth hon am y cyfeiriad

sydd i wth doethineb, dyma sy'n rhoi drwy'r 'Ysbryd' bob doethineb am ddoethineb.

Gwedd arall ar swyddogaeth yr Ysbryd Glân drwy gydol yr Hen Destament yw adeiladu disgwyliad. Mewn ysgrif arall, yn yr un gyfrol, gan Williem Van Gemeren ac Andrew Abernethy, dengys yr awduron fel y disgrifir y greadigaeth fel ysgogiad a baratowyd ar gyfer y dyfodol, yna cafwyd yr addewid adeg y pechu cyntaf, a'r darogan drwy'r proffwydi. Gogwyddid fframiau'r cyfeiriad meddyliol hwnnw tuag ymlaen. Mae'r proffwydoliaethau am ffyrdd Duw yn y dyfodol hefyd yn cyfeirio'n ôl hefyd yn baradocsaidd at waith gorffennol Duw yn y greadigaeth (e.e. Eseia 51:3, Esec. 36:35; 47:1-12), at y weledigaeth ar Sinai (Ex. 36:6-7), (e.e. yn Joel 2:13; Jon. 4:2; Mic. 7:8); a'r waredigaeth wrth groesi'r Môr Coch (e.e. Eseia 10:24,26; 11:19; Amos 4:10); a'i addewidion i Abraham (e.e. Eseia 51:2; Esec. 33:24) a Dafydd (e.e. Eseia 9:6; 55:3). Dyma'r cyfathrebu distaw drwy amser a geir gan yr Ysbryd Cyfannu. Gwaith yr 'Ysbryd' yw datgan a gweithredu dibenion Duw yn y diwedd ynglŷn â'i Greadigaeth oll (Salmau 33:6-8; 104:30). Trosglwyddir gwybodaeth am amser Duw o'r gorffennol i'r dyfodol gan yr Ysbryd yn ddyfal drwy arweinwyr y Beibl: Moses, Josua, Othniel, Gideon, Jephthah, Samson, Dafydd. Rhagwelir Cyfamod a fydd yn adfer Israel, eithr drwy gyfrifoldeb Duw. Gwthir amser yn ei flaen drwy baratoadau yr Hen Gyfamod. Fel hefyd yn ein hanes: mae gwrandawyr yn awr yn dal i ddisgwyl goleuni llawn.

Wrth erfyn lle y bydd yr Ysbryd yn sefydlu cymuned newydd y Testament Newydd (Act. 2: 38; 10:44), y mae'r Ysbryd yn ailennyn disgwyliad a fydd yn arwain wedyn at argraffu atgyfodiad y corff a'r greadigaeth newydd ar ymwybod pobl Dduw (Rhuf. 8:21-25; 2 Cor. 5:5) megis yn Eseia 32:15 yml.. Wele'r efengyl yn grwn: eto, nis deellir yn llawn nes y down gerbron wyneb Duw.

Yn yr Hen Destament, dichon eisoes mai uchafbwynt gwaith yr Ysbryd oedd adnewyddu, adfer a diwygio'r Eglwys ar y pryd. Trosiad o hyn yw'r anialwch a'r esgyrn sychion a fywiocâ (Esec. 37:1-14) lle y bydd yr Ysbryd yn dwyn iechyd gyda rûah sy'n rhoi aileni gwleidyddol ac ysbrydol. Ail ymwêl yr Ysbryd droeon (Rhuf. 8:12-13; 2 Cor. 5:16-21). Ac felly y bydd hi hyd nes y daw Iesu drachefn (1 Ioan 3:2). Yr ydym yn byw wedi'r cwbl yng Nghyfnod y Pentecost.

Sonnir weithiau am *ddatblygiad* athrawiaeth a dealltwriaeth rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Mae hyn ar un ystyr yn wir. Ond rhaid bod yn ofalus wrth ei dderbyn neu'i ddehongli. Cymerer dealltwriaeth gynyddol y bobl o'r Ysbryd Glân. Nid gwrthddywedyd yw rhwng y ddau Destament, ac ni chaniateir chwynnu personol. **Cafwyd y dadleniad o'r Ysbryd Glân (ac yn wir y Drindod) oherwydd ymledu'n diriogaethol gyda'r Testament Newydd a chydag ymddangosiad corfforol yr Arglwydd Iesu Grist. Maes o law, ceir dadleniad pellach.**

Eisoes yn yr Hen Destament, y mae presenoldeb yr Ysbryd Glân yn hysbys ddigon, ac eto'n gynnig gudd. Digwydd 'ysbryd Duw' bedair ar ddeg o weithiau, ac 'ysbryd yr Arglwydd' bump ar hugain o weithiau. Ni ddigwydd yr ymadrodd 'Ysbryd Glân' neu 'Ysbryd Sanctaidd' ond yn Salm

51:11; ac yn Eseia 63:10 '*gofidio'i ysbryd sanctaidd*'; Eseia 63:11 '*Ple mae'r un a roes yn eu canol hwy ei ysbryd sanctaidd*.' Yn y gân fawl ddiwethaf yna gan Eseia, yn yr adnodau hynny, ac yn adnod 14, '*tywysodd ysbryd yr Arglwydd hwy*', ceir tystiolaeth eglur ei fod yn cael ei ddehongli fel person.

Mae'n wir felly fod yr ymwybod o'r Ysbryd eisoes yn cael ei gyflwyno fel person a chanddo swyddogaethau, i raddau, fel yn y Testament Newydd, hyd yn oed yn berson o fewn y Duwdod, yn berson sy'n cymell ac yn ysbrydoli, yn rym unigol sy'n tarddu allan o'r Duwdod. Yn y Testament Newydd mae'r wedd bersonol hon yn cael ei phwysleisio fwyfwy, ond y mae'r Drindod ei hun yn gliriach, ac y mae natur safleol a Beibl-swyddogaethol yr Ysbryd Glân yn fwy eglur. Ymddengys fod yr Awdur yn yr Hen Destament yn ymatal rhag dadlennu darlun llawnach y Testament Newydd. Eto, camgymeriad fuasai defnyddio esboniadaeth y Testament Newydd, er yr undod amlwg, yn nehongliad *cronolegol* yr Hen Destament. Nid oedd ei amser (blaenllaw) wedi dod eto. Egwyddor gychwynnol hermeniwteg yw dehongli'r awdur tragwyddol yn ôl ei gyfnod, sef yn ôl yr ystyr a oedd yn briodol debyg ar y pryd. Tasg braidd yn amhosibl. Cyfnodol berthnasol, yn ôl pob golwg, oedd yr hyn yr oedd Duw wedi'i fwriadu. Dadleniad graddol yw'r Beibl yn ei gyfanrwydd, ac adeileddir o fricsen i fricsen. Rhyfeddol yw dilyn yr un patrwm amrywiol hwn.

O flaen pob peth, pan geisiwyd ymhellach ymlaen wrthwynebu, bychanu, gwrthbrofi, a thanseilio'r Ysgrythur, yr hyn a geisid oedd disodli lle dwyfol yn y broses, a'i flaenori gan yr Ego, y fi, y dynol. Dyma eto gam cyntefig mewn anwybod. Eithr hyd yn oed drwy gyfrwng cambwyslais, fe ganfyddir sylweddoliadau newydd defnyddiol. Amoda hyn y parch petrus a brofwn.

Heb hynny, daeth y Testament Gau.

Wrth i Friedrich Schleiermacher (1763-1834) drafod ysbrydoliaeth y Beibl, fe wnaeth rywbeth a oedd yn ymddangosiadol uniongred, sef blaenori *teimlad dyn*, yn ei ddibyniaeth 'absoliwt'. Hyd yn oed gyda'r fath wrthrych â Duw a oddrychwyd, canolwyd ar y teimlad, y profiad personol – llithrad ymddangosiadol bitw – ond rhan oedd hyn o symudiad enfawr ystyrol tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (o leiaf). Felly hefyd hyd yn oed Karl Barth (1886-1968) tua dechrau'r ugeinfed ganrif; fe *ddeuai'r* Beibl yn dyst i ddatguddiad wrth *ddod* yn Air Duw ym mhrofiad y Cristion (CD I/2, 463, 530). Nid y datguddiad gwrthrychol ei hun oedd y Beibl. Nid oedd yn bod fel Gair Duw ar wahân i Gristion, a heb wallau. Ni saif eisoes cyn y Cristion, yn wirionedd o berson i berson, yn wrthrychol heb ddibynnu ar ddyn, yn wahanol i lyfrau crefyddol eraill, yn llyfr crefyddol unigryw o fewn sefyllfa amlffurf, mewn datguddiad uniongyrchol. Mewn gwirionedd, i'r Cristion uniongred, **bodolai drwy Ras. Bodolai'n anffaeledig ac yn ddi-fai drwy ddynoliaeth syrthiedig.** Yn ôl honiad Barth, awdur dynol oedd iddo o ran ffurf a chyfundrefn ystyron. Ond edrych o'r cyfeiriad anghywir a wnâi.

I'r Cristion Calfinaidd, mae Duw yno heb fod yn brofiad-ddibynnol. Mae'n aros yn wrthrychol, ar wahân i chwiwiau cenedlaeth, ar wahân i brofiadau unigol, ac ar ryw olwg yn sefydlog.

Mae Barth yn cael trafferth gyda'r syniad o Absoliwt (CD I/2, 497-498). Tybia ef fod y cysyniad o Absoliwt yn gwbl gyfyngedig o fewn Duw. Mae hyn yn wir. Un yw Duw. Ond y mae hefyd yn Drindod. Os dywedwn hefyd mai Ef yw'r Gwirionedd, a'r Bywyd, dyna ni'n dod yn ôl i'r Amryw mewn Un, lle y mae'r Amryw a'r Un yn Dduw Absoliwt. Er nad yw'n hawdd llunio 'fformiwla' fel petai, i gynnwys y ffaith hon o fewn iaith ddynol, mae'n amlwg bod y Beibl yn arwain yn ddi-dor yn ôl at Dduw ac Ysgrythur a bod yna uniaethu rhwng y naill a'r llall. Sonia'r Beibl weithiau am 'Dduw yn dweud' lle y mae'r 'Ysgrythur' yn dweud, neu enwa 'Ysgrythur' lle y golyga 'Duw'. Siaradai apostolion gan sylweddoli'u bod yn llefaru drwy awdurdod yr Arglwydd (1 Thes. 4:1-2; cf. 1 Cor. 14:36-38). Medd yr Iesu, *'Rwy'n dweud wrthyich, hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd.'* Hynny yw, nid llyfr naturiol yw'r Beibl. Cyfrwng gwrthrychol yw. Nid hwnnw, ac nid y Mawl sy'n achub. Nid y ddysgeidiaeth, yn annibynnol, na'r profiad. Un bod yn unig sy'n achub, sef Duw, Duw'r pridwerth, yr iawndal yn yr Arglwydd Iesu Grist, a hynny dros ein pechodau ni. Eto, gwyllyr y llythyren. Dyna'r rhybudd a rydd Coleridge ynghylch 'Bibliolatry'. Nid yr hyn a wnawn ni o flaen Gair Duw sydd gyntaf, er y gellid meddwl weithiau mai dyna'r genadwri amlwg efengylaidd; yr hyn sy'n cyfrif yw beth a wna Ef i ni drwyddo.

A llefaru a wna hwn wrth bawb, yr ysgolhaig a'r 'cyffredin'. Saif yn Hanes pawb.

* * *

Ambell waith, bydd plant neu bobl ifanc o ran hwyl yn llunio rhestr o atebion posibl i un cwestiwn cyfarwydd – beth yw'r digwyddiad mwyaf erioed yn hanes y byd? Rwy'n credu mai Nixon a hawliodd mai gosod dyn ar y lleuad oedd. Ond beth am radio? A phelydr X? Y llong danfor neu'r awyren? Yr olwyn? Y bêl golff? Y cyfrifiadur? ... Pawb â'i chwiw! Cyfarwydd hoff, gan lawer, yw petheuach ein hamser **ni**.

Ond mae yna rai pethau sy'n wahanol i'r dyfaliadau hynny ac yn sefyll uwchlaw popeth ym mryd miliynau eraill, ac uwchlaw Amser. Yr Un sy'n rhoi pob dim arall yn ei le yw Iesu. Ymgawdoliad Iesu Grist – sef Duw yn Creu'r byd ei hun, ac sy'n ddyn a ddaeth yma. Yn fy marn i, y rhyfeddod fwyaf yw bod y Duw-ddyn Iesu wedi'i roi'i hun yn aberth dros lawer fel y caf i a chi, os pwyswn arno ef, faddeuant, a pherthynas gariadus fywiol gydag Ef, a mwynhau Paradwys yn dragwyddol gydag Ef, drwy'i Atgyfodiad corfforol.

Yr ydym y tu hwnt i Amser a Hanes mwyach o'i herwydd ef. Dyna'r persbectif. Ac y mae'n siarad â phob un yn ôl ei angen.

Ond y cwestiwn nesaf sy'n codi yw – beth yw'r prawf neu'r dystiolaeth dros bethau felly? A oes sicrwydd am wirionedd hwn? Os honnir bod yna dystiolaeth, ble cawn ni hynny? Fe wnawn ni rywbeth, meddwn, i fod yn siŵr. Gwnawn bob ymdrech i sicrhau Teyrnas Nefoedd. Dywedodd Iesu Grist (Mathew 13:44): '*Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i drysor wedi ei guddio mewn maes, yr hwn wedi i ddyn ei gaffael, a'i cuddiodd, ac o lawenydd amdano sydd yn mynd ymaith ac yn gwerthu'r hyn oll a fedd, ac yn prynu'r maes hwnnw.*'

Awn ati hyd yr eithaf. Archwiliwn y dystiolaeth lawen dros y fath honiad – y llawysgrifau, y Canon, y dehonglwyr a'r archaeolegwyr sydd wedi twrio a dod o hyd i'r ateb, – yr ysgolheigion a ddarganfu'r athrawiaethau cyson a amgylchai'i Berson. O'r gorau, mae'r ymchwil yn fwy na hynny gan fod a wnelom â phwnc mor aruthrol, mor ddyrchafedig ac yn amlwg y tu hwnt i faterion cwbl anghyffredin, goruwch digwyddiadau mwyaf bob dydd ar y ddaear hon. Rhedwn yn barod i weithio am fisoedd, am flynyddoedd, ar hyd ein hoes, er mwyn derbyn y rhodd yna, y gras yna. Yn anad dim chwiliwn felly y Beibl ei hun am yr allwedd. Dyna'r dull dynol o geisio sicrwydd annisgwyl. Ond a ydym yn defnyddio'r fethodoleg gywir? A ydym yn cofio mor rheidiol yw bod gyda'r Ysbryd ac yn yr Ysbryd mewn tasg fel hon?

Deall natur Person Iesu Grist hefyd yw'r allwedd. Dod fel plentyn bach. Dod â dwylo gwag.

Ac yn wir, fe geir atebion rhyfedd ac ofnadwy yn y fan yna, yn arbennig os deuir o hyd i fethodoleg sy'n trafod y dystiolaeth ysgrifenedig mewn modd annhebyg i'r hyn a ddefnyddir i'r un llyfr arall. Buddiol a hyfryd yw'r Ffordd hon, a dod o hyd i'r Drws. Na wastraffer yr un eiliad. Teyrnas nef yw hyn, medd Iesu Grist mewn un man am yr ymchwil ei hun am y trysor hwn. Ond mewn man arall, hawlia mai gwedd arall ar y fethodoleg o ddarganfod y trysor yw dod heb ddim, ac y mae'r Ysbryd Glân yn disgyn ac yn cyffwrdd; ac yna fe *welir*.

Dywedais fod rhaid chwilio am hyn mewn dull sy'n gwbl wahanol i bopeth arall; ond mai'r hyn sydd yn ben draw i'r ymchwil yna fydd ffydd yn gyfan-gwbl yn nwylo Duw sy'n caru tlodion yn yr ysbryd.

Yn y broses hon, ni orffenna'r Ysbryd Glân wrth anadlu Gair Duw. Myn yr Ysbryd Glân weithredu ymhellach yn y galon ac yn y meddwl. Gall a myn weithredu hyd yr eithaf wrth i Air Duw gael ei lefaru'n fyw gyda sicrwydd. Mae'r Ysbryd yn defnyddio'r ysgrythurau i gyfrannu Gras. *Sola Scriptura/ Sola Gratia*. A hynny sy'n cyfrannu Ffydd. *Sola Fide*. Felly, drwy eiriau dwyfol, tyn y ffyddloniaid y broses hon i'w chwllwm – 'aelodau Crist' yn yr Eglwys, drwy waith yr Ysbryd Glân. Ac yn yr Eglwys grediniol, pregethir a rhennir yr ordinhadau, ildiwn o hyd drwy Foddion Gras ailadroddol. Ni allwn gredu drwy orfodaeth, ond yn rhydd yn yr Ysbryd. Daw'r gwirionedd yn ddiethriad drwy weithred yr Ysbryd Glân (1 Cor. 2:4; 9:16; 1 Thes. 1:5; 2 Thes. 2:10).

Yr ydym, mewn geiriau eraill, drwy waith *Ymateb Darllenydd* yn gwneud mwy na darllen

plaen a mwy na deall. Sylweddolwn yr ychwanegiad a geir mewn credu Goruwchnaturiol. Nid yw *Ymateb* yn gwneud ei waith, onid yw'n ymateb i'r Metanaratif Cristnogol. Mewn epistemoleg, Gair Duw yw'r sail gadarnaf i sicrwydd, Ei Air ef yw'r gwirionedd (Salm 33:4; 119:160), ac y mae'n gwbl amhosibl i Dduw ddweud celwydd (Titus 1:12; Heb. 6:18; 1 Ioan 2:27). Ef, yr Awdur Goruwchnaturiol felly sy'n dod o'i wirfodd.

Nid yw Sicrwydd Cristnogol llawn yn gwbl reidiol bersonol i gredadun, mae'n wir. Bendith felys ychwanegol yw: gras. Mae'r Ffydd Gristnogol lawn yn uwch na Sicrwydd. 'Teimlad' braf a brofir gan gredadun ac anghredadun breintiedig yw Sicrwydd. Gall creadur feddwl am y banc ac yn sicr fod yna arian atebol ac angenrheidiol yn y fan yna. Ond â tua'r banc wedyn i gadarnhau'i sicrwydd. Yn wir, caiff gofnod o gyfrif gan y twll yn y wal sy'n dweud wrtho'n hyderus am y swm o arian cyniledig. Â ef adref yn gysurus, a chaiff lythyr gan y banciwr yn ei hysbysu fod y peiriant wedi'i dorri... Dyna'r byd syrthiedig ymchwyddog y mae'n bod ynddo, ie ym myd llyfrau hefyd. Nid felly ffydd y Cristion. Bod yng Nghrist, a Christ yn ei feddiannu yw'r Gair cyfiawn, hollwybodus a rowd drwy'r Ysbryd Glân, a hyn yw'r sicrwydd yng nghalon y Cristion, ac yn fwy na sicrwydd, yn fywyd ffyddlon yn yr Ysbryd sy'n ein dwyn beunydd tuag at fwy a mwy o sicrwydd.

* * *

O bryd i'w gilydd, byddaf yn tanlinellu'r ffaith fod yr efengyl Gristnogol ar gyfer y rhai a all fod megis plant: nid i'r doeth na'r deallus fel y cyfryw. Ond gwiw yw lleddfu'r datganiad heb ei wrthddweud. Y gwir yw bod gwybodaeth am Gristnogaeth yn ddiderfyn a'r doethineb yn dragwyddol.

Mae'n amlwg fod cryn nifer o eglwysi Groegaidd Paul yn bobl addysgedig, neu o leiaf yn bobl hunan-addysgedig a deallus. Dichon fod llawer o'r pregethau cynnar – fel yn hanes yr Arglwydd Iesu – yn symlach na'r llythyrau a ysgrifennwyd ar ôl y pedair efengyl. Ond adlewyrcha gwastad deallol y llythyrau hynny fod y gynulleidfa a'r ddealltwriaeth o lawnder y grefydd yn apelio at feddyliau sylweddol, yn ogystal ag at y symlaf ohonom. Rhoir gallu yn ôl yr angen.

Hynny yw, mae rychwant potensial deall yr efengyl yn hollgynhwysfawr. Ac os awn yn ôl at y cysyniad o *Sensus Divinitatis*, fe ganfyddwn fod rhywbeth cynhenid yn y bersonoliaeth ddynol sy'n gysylltiedig â'r duedd hon. Mae'n medru amgyffred pethau enfawr. Nid yw'n syn bod un gwyddonydd Prydeinig wedi casglu: 'Mae yna dystiolaeth gyffredinol fod y rhan fwyaf o fodau dynol, o bob rhan o'r byd ac ers yr amseroedd cynharaf, wedi credu'n sylfaenol fod yna fodau dwyfol, ac ymwybyddant fod yna ryw fath o fyd ysbrydol.' Medd Tomos Acwin, yn *Summa contra Gentiles*, 'Mae yna fath o wybodaeth gyffredinol a chymysg am Dduw ar gael yr ymwna pawb o blant dynion ag ef'; a dilynwyd ef gan Galfin yn ei *Esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid*, 'Crewyd dyn i fod yn wlyiedydd o'r byd ffurfiedig, a rhoddwyd llygaid iddo, fel y gallai, drwy sylu ar

ddarlun mor bryderth, gael ei arwain at yr Awdur ei hun.'

Er y potensial cynhenid hwn, mae'n bwysig ein hatgoffa'n hunain fod y gallu 'od' hwn wedi'i niweidio gan y Cwmp, sef y gwrthryfel yn erbyn Duw. Yn ei le, cafwyd yr ymgais i ddyn naturiol orseddu'r hunan a phellhau rhag adnabyddiaeth gariadus a gostyngedig o'r Duw byw. Mae dyn, gyda'i holl allu, yn methu mor fynych heddiw â gwneud rhywbeth mor syml ag addoli neu ymrwymo i Dduw. Mae'n ceisio tagu a chefnu ar y wybodaeth arbennig hon. Hynny yw, er gwaetha'r wybodaeth sy'n Ras Cyffredin drwy'r byd, ceir ymgais i ymwadu â hyn, ac i'w gwyrddroi o bosibl. Fe'i gwyrddroi drwy ddirchafu'r corff neu gamliwio swyddogaeth cyd-ddyn, neu ladd amgylchfyd naturiol. At ei gilydd, gellid cyferbynnu ar y naill law y modfeddi, lle y mae dyn yn ymdrechu i ddringo'r mynydd tuag at Dduw drwy'i nerth ei hun, â Christnogaeth lle y mae Duw yn dod i lawr at ddyn ac yn gwneud gwaith goruwchnaturiol drwy'i gariad unigryw a phenarglwyddiaethol Ef ei hun yn rasol.

Bydd perthynas y ddwy natur, y Duwdod a'r dyndod yn Iesu Grist, er hynny, a pherthynas y Mab a'r Tad bob amser yn ddirgelwch mawr iawn. Dirgelwch yw y tu hwnt i bob proselytio cynlluniedig. Gyda Chalfin, yn ei argraffiad cyntaf o'i waith mawr *Bannau Diwinyddiaeth (Institutio)*, sylweddolai'r problemau. Nid yw'n trafod y 'Drindod' na'r gair 'Person' o gwbl. Ond aeth ef ati wedyn i ddefnyddio'r termau, am mai dyna'r gorau sy gennym i geisio ateb rhai anawsterau, ac eto er mwyn peidio ag osgoi'r problemau hynny chwaith. Ond mae'n rhaid inni bob amser fel Cristnogion sylweddoli bod Awdur y Beibl y tu hwnt i'r amgyffred galluocaf. Yn y bywyd hwn, ni byddwn ni yn gallu esbonio'n union pam y caniaaodd Duw fodolaeth pechod er enghraifft, sut y daeth y Duw tragwyddol i fyd amser, sut y mae penarglwyddiaeth Duw a chyfrifoldeb dyn yn cyfarfod â'i gilydd, na'r ffordd y mae un o bersonau'r Duwdod tragwyddol yn marw ar y groes. Mae Awdur y Beibl yn help mawr, ac yn sylfaen, **ond ni sy'n wan.**

Meidrol ydym ni, mae'n naturiol bod cwestiynau'n codi, weithiau'n ostyngedig, weithiau'n heriol. Cyn belled ag y gallwn, y cyngor gorau yw peidio â mynd fodfedd yn egwyddorol ymhellach na'r ysgrythur os gallwn beidio. Gwiw inni fod yn hwyrfrydig ac yn ostyngedig hyd yn oed wrth gyhuddo meddylwyr o fod yn hereticiaid os ydyn nhw *fel arfer* yn uniongred ac yn unol â'r ysgrythur, er eu bod mewn ambell fan yn gwyro ryw ychydig bach heb fod hynny'n mynd lawer ymhellach na'r credoau clasurol. Pwysig yw i bawb betruso wrth farnu eraill.

Meidrol ydym oll. Duw yw'r barnwr ar bobl eraill, nid ni. Ceisiwn gan Dduw, yn uniongyrchol bersonol, undod gofalus Awdur y Beibl.

*

*

*

Rhwng y Beibl a'r seciwlaryn o feirniad llenyddol, o'r herwydd, mae yna wal ddiadlam ymddangosiadol. Mae cymryd y Beibl o ddifri fel unrhyw lenyddiaeth arall yn dipyn o embaras i'r

ymchwilydd tlawd weithiau. Gŵyr y seciwlaryn deallus eisoes fod y gyfrol hon yn gampwaith diwylliannol sefydledig. Adnebydd ddarnau o farddoniaeth ddiledryw yma ac aew ynddi. Ceir storïau cain ynddi, a brawddegau a pharagraffau unigol hollol drawiadol, hanesion cywrain calonrwygol, paradocsau syfrdan, a darluniau mawr o gymeriadau achlysurol. Mae'r myfyrdodau ysbrydol yn gallu gafael i ryw raddau yn nychymyg pob person meddylgar, hyd yn oed y rhai sy'n sylfaenol ddigon anghrediniol. Ac y mae symudiad thema'r naratif i lunio cyfanwaith ac athrawiaeth unol gymharol (ddealladwy) yn rhoi'r argraff inni o glasur enfawr. Eto, mae yna rwystr o ryw fath sy'n atal gwerthfawrogiad gonest ac unplyg. Collwyd y pwynt mor aml.

A cholli'n waeth na hynny a wna rhai beirniaid llenyddol diweddar: try'r rhwystr yn wrthuni.

Beth yn union yw'r ymyrraeth? Pam na ellir trin y llyfr hwn yn bwylllog barchus, a'i ystyried o leiaf ochr yn ochr â llyfrau eraill? Mae'r ateb am hynny yn yr Ysbryd Glân. Dywedai'r Gwir. Gwnaeth y Gwir wahaniaeth i wareiddiad yn gyffredinol. Mae'n amlwg fod Cristnogaeth a'r Beibl o safbwynt diwylliant hanesyddol Ewrob yn ffenomen enfawr a phwysig iawn. Ond caiff yr hanesydd seciwlar oherwydd y Cwmp gryn drafferth i bwysu a mesur ystyr y symudiad all-egoaidd hwn mewn unrhyw ffordd sy'n ei ddelweddu'n deg yn ôl criteria hanfodol y llyfr ei hun. Nid yw'n meddu ar y math o werthfawrogiad sy'n hyrwyddo safonau a pherthnasedd sy'n briodol gytbwys. Ni all y dyn naturiol mwyach wynebu'r ffordd ysbrydol o feddwl ac o ddarlunio bywyd, a'i dadansoddi'n blwmp a phlaen fel ffenomen o bwys mawr. Tuedda natur ei ragdybiau i'w diberfeddu'n naturiolaid. Ac eto, gall drawsffurfio bywydau, fe wyddom. Onid oes rhyw dir cyffredin felly lle y gall y seciwlaryn groesi'r bont yn wrthrychol ac yn 'ddiduedd' deg heb aros yn rhy hir mewn ansensitifrwydd? Yr arferiad i'r hanesydd seciwlar gonest, weithiau'n ddiarwybod, yw anwybyddu'r ymddygiad Cristnogol clasurol hwn. Taw piau hi. Ceisir trin y ffenomen fel rhywbeth cyntefig o oes arall od y dylid brysio heibio iddi, ac amherthnasol o fewn meddylfryd materol. Ni all seciwlaryn berthyn, fel dim byd arall, i'r cylch deallol ysbrydol. Ac yn yr arwahanrwydd hwnnw y mae diogelwch iddo. Ni ellir cracio'u problem fel yna, a rhaid brysio ymlaen at ragdybiau eraill i'w harchwilio. Ond wrth wneud hynny, a erys y seciwlaryn yn gwbl onest ac yn wybodus?

Wrth geisio doddi bys ar union wendid y ddihangfa hon, beth yn hollol yw'r maen tramgwydd? Beth sydd heb ffitio'n gonfensiynol i mewn i fframwaith dysgedig ei ragdybiau eraill? Ble mae'r egwyddor sy'n sefyll ar y ffordd? Beth yw'r gwrthwynebiad canolog mawr?

Carwn awgrymu mai'r allwedd i hyn oll yw'r meddwl 'Goruwchnaturiol'. Mae hynny'n gofyn gormod. Mae'n golygu bod yn effro i gynneddf sy'n *eiddo* i bob un ond yn *effro* mewn ychydig.

Beth yn hollol sy'n gwneud amgyffred y Goruwchnaturiol yn un cam yn rhy bell? A yw'r

Goruwchnaturiol yn rhagosodiad mor gwbl amhosibl fel dimensiwn i'w amgyffred fel na allai person cymedrol gall gydnabod ei bosibilrwydd lleiaf? A lwyddwyd i gael gwybod yn sydyn rywle rywle nad yw'r Goruwchnaturiol a'r anweledig ysbrydol ddim yn bod, ac mai peth sy'n gyfangwbl waharddedig i ddeallusrwydd normal yw gwaith gan yr Awdur hwn?

Ond ai dyma'r union, ac i raddau, yr unig atalfa gatholig ar ffordd cydymdeimlo â thrafodaeth academiaidd ar y Beibl? Mae'n rhwystr tra syml rhag dychmygu'r llyfr mewn modd cyfathrebol gytbwys. Rywfodd, mae yna reidrwydd seciwlar trachwantus hyd yn oed i dderbyn na bydd byth fodd yn y cyflwr naturiol i gydnabod fframwaith goruwchnaturiol o ddelweddu ystyrlon. Mae'r Goruwchnaturiol, meddant, wedi cau arnom erbyn hyn yn yr unfed ganrif ar hugain: dyma ddimensiwn amhosibl na ddylai fod yng nghwmni gwâr Positifiaeth Resymegol.

Wrth gyflwyno'r honiad unigryw uwchnaturiol, mae'r deallusyn o Gristion hanesyddol uniongred yn gofyn llawer gan bawb arall. Mae'n gofyn meddiannu bywyd arall cyn amgyffred y bywyd hwn. Mae'n mynnu gan y seciwlyryn amgyffred rhagdybiaeth ry bell. Dyna dir neb.

Ond ceisir yn y gyfrol bresennol roi bys bawd troed ar y tir neb hwnnw. Ni ellir addo o gwbl y bydd y fentr yn llwyddiannus. Chwilio a wneir am y tir neb sydd rhwng dealltwriaeth y Cristion o'r Beibl ac annealltwriaeth yr anghredadun. Ond ceisir mynd mor bell ag y gellir, heb gefnu fodfedd ar Brotestaniaeth y briffordd oruwchnaturiol. Ceisir hefyd archwilio'r rhwystr yn agored. Dylai rhywun sydd wedi'i fagu a'i drwytho mewn Naturiolaeth (y cyflwr normal), a'i amodi a'i gyflyru mewn rhagdybiau cwbl resymolaidd, ac yna groesi i Oruwchnaturiolaeth, fedru esbonio rhywfaint o berthynas y ddwy ochr ddiwylliannol. A yw'r gair 'Cristnogol' yn bont ddiramwy i seciwlyryn effro? A yw'r ymwrthod yn reddfod heb ymwared? Onid oes Gras Cyffredin yno? Nid hawdd datrys y sialens; ond gellir mentro dweud rhai pethau. Yn fy marn i, ac yn wir ym marn beirniaid crefyddol rhyddfrydol Beiblaidd, yr honiad fod y Beibl ei hun yn ddigwyddiad goruwchnaturiol yw calon debygol y gwrthwynebiad iddo a'i esgeulustod gan feirniaid 'digrefydd'. Yn y bôn, yr honiad hefyd mai purdeb Gair Duw yw, dyna'r hawlio mwyaf gwirion bosibl. Beth yw arwyddocâd hawlio peth felly? Pam, i seciwlyryn, y mae neilltuo'r Beibl (mewn modd unigryw hollol haerllug) yn warth academiaidd, ac yn cynddeiriogi pobl?

'Ynglŷn â'r Goruwchnaturiol', meddir yn syml, 'dwi ddim wedi dod ar draws y fath ffenomen yn y byd go iawn. Felly, dyw e ddim yn bod.' Gellir deall y gwrthwynebiad hwnnw, wrth gwrs, ond nid y rhesymu. O fynnu cyfyngu'r gwyddorau goruwchnaturiol i fethodoleg ymchwil y gwyddorau naturiol yn unig, mae'n hollol anysogolheigaidd. Bydd y dull arbrolfol naturiol yn ymddangos yn gwbl addas ar gyfer y gwybod un-dimensiwn. Ond anaddas, anysogolheigaidd, ac afresymegol yw ystyfnigo a pheidio â chaniatáu i'r meddwl a'r ysbryd ystyried amodau priod eraill, a hynny heb

chwilio'r annisgwyl rywfaint.

Fe all Cristion ar y llaw arall wedyn fod yn rhy barod i gyfaddawdu. Y gwir yw bod a wnelo'r Cristion fwy ag adnabod nag â gwybod amddifad. **Pan fo Cristion yn ymwneud â Duw, nid â gwybodaeth normal y mae'n ymhél, ond â chyfarfyddiad personol yn gyntaf.**

*Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm, a'r Iesu'n llawn;
Myfi yn dlawd, heb feddu dim,
Ac Yntau'n rhoddi popeth im.*

Tipyn o sioc i rywrai yw'r 'dim' hwnnw, a'r popeth (gan gynnwys yr ysgrythur). Dyna un o dramgwyddau'r annisgwyl. Ac mae a wnelo'r dirgelwch Cristnogol â dau fath o 'ddim', gan fod Cristion yn peidio â 'gwneud dim' ar ryw olwg ar gyfer iachawdwriaeth. Duw biau'r holl waredigaeth, mae'n wir. Ond yr un pryd, yn ail, gyda'r unigolyn o anghredadun y mae Duw yn defnyddio pobl i efengylu drosto. Ac fel y gwelwn yn achos awdurdod y Beibl, y mae'r prif Awdur, er y gallasai'r Ysbryd Glân wneud y cwbl ar ei ben ei hun, wrth reswm, yn dewis pobl frau i'w wasanaethu ef ei hun drwy ysgrifennu. Mae hefyd yn dewis rhannu'r gwaith.

Pan hawlir, fel y gwneir gan y Beibl ei hun, a thrwy waith yr Ysbryd Glân drwy filiynau o gredinwyr craff ers amser Moses, mai geiriau Duw sy'n gwneud Gair Duw yn y Beibl, ni allwn lai na disgwyl gwrthwynebwyr. Yn wir, nynt ein hun yw'r gwrthwynebwyr cyntaf a adwaenom yn aml. A rhaid gofyn o'r newydd, nid yn unig beth yw'r gwrthwynebiad, ond beth yw'r rheswm dros y gwrthwynebiad? A oes rhywbeth heblaw anghrediniaeth a dogma yn erbyn y Goruwchnaturiol unwaith eto yn dylyfu gên wrth ein porth?

Os rhagfarn yn erbyn posibilrwydd a sylweddoliad cyfyngedig o'r Goruwchnaturiol a gawn, yna does dim ond cynghori arferol. 'Chwiliwch a chwi a gewch', os chwiliwch o ddifri ac yn daer.

O safbwynt y darllenydd cyfoes a'i berthynas â'r awduron, cofier mai'r darllen gorau yw darllen-uniaethu. Ymgolli mewn llyfr yw'r darllen mwyaf cydymdeimladus. Mae'n ffrainc iach pan fo llyfr neu ddarn o lyfr sy'n werth ei ddarllen. Ac felly, mae myfyrio am y berthynas rhwng yr Awdur a'r awduron yn gymorth i ddeall y berthynas estynedig rhwng Duw ac ailedigaeth awduron. Mwynglawdd yw'r Beibl nad oes dim digon o amser gyda ni yn y bywyd hwn i'w fwynhau'n llwyr. Ond y mae ef ei hun, o'i ddeall yn well, yn ddigonol i'n hiachawdwriaeth a'n gogoneddiad. Ond sut?

Ceir pob math o ffyrdd o'i efrdy. Ceir cynlluniau graddedig a mesuredig sy'n dechrau yn Genesis ac yn ein harwain, o ran i ran, bob dydd drwy flwyddyn. Gellir dilyn themâu neu athrawiaethau. Ceir ymdroi'n adrannol gyda gwyrthiau neu ddamhegion. Yr wyf i wedi dewis yn y

gyfrol hon, – gan wreiddio yn yr argyhoeddiad mai'r Ysbryd Glân sy'n arwain yr awduron unigol, – ystyried beth yw natur dulleg ac adeileddeg y Llenor hwnnw o Ysbryd Glân ei hun o gyfansoddi'r cwbl, yn arbennig ei themâu, ei baradocsau, a'i droadau. Datguddio y mae neges Duw ar gyfer pob cenedl ac iaith, pob cyfnod a hinsawdd ar y ddaear. Osgôf y drefn gronolegol er mwyn edrych ar ei chalon yn gyntaf. Chwiliaf orau y medraf am y drefn ysbrydol.

Beth yw ffurf deunydd yr Ysbryd Glân ar gyfer gwaith felly? A pham y mae'n mynd ati o gwbl? Pam dewis y ffordd hon? A yw hynny'n bwysig?

Wrth gwrs, ceir anghytundeb a dadleuon, ac ysywaeth ambell gweryl – a hynny rhwng Cristnogion – ynghylch ei swyddogaeth. Byddaf yn sôn am y gred Feiblaidd ynghylch perthynas Awdur ac awduron, a'm bod i'n synied fod yn y gyd-awduraeth honno ffaith sy'n wir ac yn helpfawr i werthfawrogi natur y Beibl. Ond nid yw'r ddadl honno yn gwbl *angenrheidiol* i Gristion o gwbl. Gellir bod yn Gristion am gyfnod heb wybod hyn. **Mae yna rai pethau mewn Cristnogaeth sy'n anhepgor ac yn bwysicach o lawer na dadl, megis Cariad a pherthynas rhwng dyn a Duw.** Nid yw trefn Awdur/awduron namyn math o esboniadaeth o berthynas arwyddocaol ynghylch awdurdod y llyfr. **Un o Dri yw'r Awdur o'i ran ddwyfol, ond ni raid sylweddoli hyn chwaith ar y dechrau.**

Meddwl gofodol yw hyn, yn debyg o ran siâp i feddwl tri pherson y rhagenw neu feddwl unigol/lluosog. Ceir strwythur arall gan Dduw – un mewn amser – ar gyfer gweithio. Gallwn yn hawdd gloffi gyda strwythurau ac athrawiaethau o'r fath sy'n wir ond heb fod yn anhepgor i ddirnadaeth y canol.

Gwylier rhag amllder dadleuon. Mae a wnelo'r ail bersectif â pherthynas Amser Duw (y tu hwnt i natur) ac amser dyn (sy'n gysylltiedig ag amser y creu), ac yn baradocs arall. Y ddadl symlaf a glywch, o bryd i'w gilydd, er nad y bwysicaf o bell ffordd, yw'r un ynghylch peidio â 'meddwl' yn ormodol, a cheisio'r naid sydyn mewn 'profiad'. Dyna gymnasteg yr Ôl-fodernydd. Chwilier am y profiad syfrdan – y sioc. Wedyn, dadleuir ynghylch parhad neu beidio'r doniau ysbrydol (gwyrthiau, gweledigaethau, gorchmynion) hyd heddiw ar ôl y cyfnod apostolaidd. Ystyriaf nad yw dadleuon o'r fath yn arwyddocaol iawn, pan fyddant ar gael rhwng Cristnogion ailanedig a'i gilydd, gan nad ydynt yn effeithio'n bell ar brif athrawiaethau y mabwysiad a'r undod. Meddyliwch bob amser gymaint ag y medrwch. Ofnaf fod ceisio dyrchafu gweledigaethau neu negeseuon personol awdurdodol i ryw lefel *orflaengar* yn berygl diflas.

Osgöer dadleuon am bynciau ymylog. Hwyl yw pennaf pla llawer o sectau.

Yn aml, ceir *ffasiyngarwch* ym maes dadlau yn arbennig ymhlith newyddiadurwyr. Ymddengys mai ffasiwn, er enghraifft, ym marn rhywrai heddiw, yw'r newid a geisiwyd yn ystod y cyfnod diweddar yn Statws y Ferch ymhlith swyddogion yr Eglwys. Dyma, i'r cyhoedd gellid meddwl, gyda gwrywgydiaeth, un o brif faterion Cristnogaeth i'r cyfryngwyr – a dyma'r argyfwng

a fynnodd fynd â bryd prif elynion a phryderon yr Eglwys Anglicanaidd a'r Catholigion yn ddiweddar. Mae'r gamddealltwriaeth hon yn drist, ond nid yw'n llywodraethol. A oes datblygiad neu wryiad neu ystyfnigrwydd ceidwadol – neu beth – gan Gristnogion difrif yn yr achos hwn? Tybiwn ein bod, oherwydd ein byw mwyach mewn cyfnod 'cywrain' wahanol wedi'r Testament Newydd, yn gorfod ailystyried ein 'trefn' ymarferol dan ddylanwad gwleidyddion a newyddiadurwyr. Ar ôl cyfnod cymdeithasol a ddylanwadwyd gan yr Eglwys, yr ydym mewn cyfnod mwy seciwlaraid, eto mewn sefyllfa fwy cyffredinol a democrataidd pryd y tyfodd mwyfwy o barch ac anrhydedd gyfiawn at ferched: tyfodd eu hawliau. Mae'r anrhydedd a roddwyd yn bennaf i ferched drwy Gristnogaeth glasurol yn dal i ddwyn ffrwyth, a hynny'n gynyddol haeddiannol. Yn hen hen bryd, cydnabuwyd mor boliticaidd eithriadol o angenrheidiol a sylfaenol ymarferol oedd moderneiddio arferiadau drwy egwyddorion y Testament Newydd. *Yno eglurwyd nad oes na gwryw na benyw, o safbwynt bod yn gwbl gydradd o ran parch ysbrydol, ac fel Cristion yn meddu ar holl brif swyddau'r eglwys yn ôl y Beibl – yn Broffwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenin.* Bu llawer dyrchafiad cymdeithasol i ferched oherwydd gogwydd Cristnogaeth. Hen yw tegwch pwyslais y ddwy genedl (neu ryw). Rhagora menywod ar wrywod mewn lluo o ddoniau. Nid Cyfartaliaeth yn unig a gydnabyddwn (*Egalitarianism*), ond Cyflawniadaeth (*Complimentarianism*) ac Ansawddaeth (*Qualitativism*) hefyd o'r dechrau. Ond nod y gwryw a'r fenyw o Gristion yw cydymostwng i Dduw, a chydymostwng i'w gilydd. Mae'r aberth a'r ymroddiad a ofynnwyd yn y berthynas hon i'w gilydd yn ymddangos ychydig yn fwy eithafol yn achos y gwryw, efallai, oherwydd bod Adda wedi blaenori'n hanesyddol. Bu'r nerth corfforol arwynebol gan y gwryw mewn rhai cyfeiriadau hefyd ers cyfnod Adda yn rhagori ar y fenyw, at ei gilydd, ac felly y dynodid yn arferiadol i'w wasanaeth ef gynt le ym myd hela a chludo. Ei ddewis ef wedyn, os oedd yn gall, oedd anrhydeddu'i wraig pan ddô'i'n fater o ystyried gwasanaethu teuluol, oherwydd ei bod hi'n tueddu i flaenori ym magwraeth amseryddol i'r plant, ac mewn llawer o swyddi ymarferol. Ond y mae'r *ymddarostyngiad Beiblaidd* yn eithafol i'r naill ryw a'r llall bob amser yno, os yn wahanol.

Yn gymdeithasol ac yn boliticaidd, yn wyneb llawer o ragfarn geidwadol, y mae *statws* y fenyw yn dal yn llai nag eiddo'r gwryw ysywaeth. Ac y mae ffordd bell i fynd o hyd lle y mae menywod yn derbyn gyrfa-gydraddoldeb a chydabyddiaeth foesol. Cywilyddus yw anghyfartalu cyflogau o hyd. Ond *yn ysbrydol*, lle y mae'n cyfrif yn bennaf, yng nghalon Cristnogaeth, sef yn ôl ein cyd-statws fel pechaduriaid, ac yn ôl ein cyd-statws fel plant i Dduw, nid oes yr un mymryn o wahaniaeth rhwng gwryw a benyw. Ynghylch manion gweinyddol, ceir o hyd lawer o ffwdan, ysywaeth. Arwyddo dirywiad diwinyddol a wna ffwdan felly. *Y swydd uchaf o fewn yr eglwys yw aelodaeth o gorff Crist.* Wedyn gallwn gystadlu â'n gilydd mewn gostyngeddwrwydd: Eff. 5:21, *'byddwch ddarostyngedig i'ch gilydd, o barchedig ofn tuag at Grist.'* Yng nghyweirnydd yr

Eglwys Anglicanaidd, y pen swyddogol yn ôl traddodiad dylanwadol, yw'r Frenhines wladol: y fenyw hon sy'n penodi Esgobion, a hwy drwy weithredoedd allanol, sy'n gwneud pobl yn aelodau drwy weithredoedd penodedig. Yn yr Eglwys Efengylaidd (anghydfurfiol), sut bynnag, Crist yw'r Pen, yr unig ben (does dim awgrym o neb arall, e.e. Pab neu 'babau bach'); Ef yw'r *unig* Ffordd i aelodaeth. Ai Beiblau gwahanol sydd ganddynt 'hwy'?

O ran **dadleuon arwyddocaol** ymhlith Cristnogion, nid y rhai bach a ddylai fod ar y blaen: y pethau a ddylai fod bob amser ar y blaen yw'r cwestiynau ynghylch pwy yw Crist a pham y daeth Ef? A'r modd y ceir yr ateb i hynny yw drwy ymostwng.

Ymostyngodd Duw Mawr. Rhaid i'r ymchwilydd ei geisio Ef yn y pethau mawr. Er mai dyna'r sefyllfa ganolog, ceir cymhlethodau anorffen o hyd, ceir anawsterau deall wrth reswm, rhai yn ymarferol, rhai'n rheoliadaol, rhai heb fod yn werthfawr; ond nid effeithiant ar ddadleuon ond siwrnai a siawns, a phersectif cyd-destun y tu allan i Amser Duw / amser dyn. Nid oes gan Dduw ffasiwn, na dyfodol na gorffennol, onid yn greadigol ddiderfyn y tu mewn i'r mesur o amser a greodd i ddyn. Mae ei amser ei hun yn gwbl gynhwysfawr ac yn gyd-bresennol. Pitw yw amser dyn. Fe'i llethir weithiau gan ffasiynau diwinyddol. Ond dewisodd Duw damaid o amser daearol i'w Fab breswyllo, a hefyd i'r Ysbryd Glân ddod â'i swyddogaeth ddatblygol i'n daear. Cafwyd amser di-ffin ganddo a oedd yn dadlennu angen pechadur ac yn galon i dragwyddoldeb.

Ymostyngodd Duw Mawr. Rhaid i'r ymchwilydd ei geisio ef yn y pethau mawr. Pan drafodwn gyfreithiau a luniwyd am y tro i amseroedd neu gyfleustra ar y pryd, rhai mawr, rhai bach, rhaid sylweddoli bod **dyn yn gwneud y 'rheoliadau' tra bo Duw'n llunio'r 'deddfau'**. Ceir cyfreithiau seremonïol dros dro a chyfreithiau gwladol mân sydd wedi dyddio, o Exodus 21 ymlaen. Ceir statws gwahanol i'r deg gorchymyn cyn cael llu o reoliadau am y tro gan Foses wedyn. Rhoddodd Duw sut bynnag sylw arbennig, perthynas arbennig dragwyddol, a chariad neilltuol i'r Dengair. Ychwanegwyd ymhellach atynt dros dro, weithiau'n gall, weithiau'n wirion, gan ysgrifenyddion a Phariseaid. Ond fe'i defnyddiwyd yn y Bregeth ar y Mynydd. Diau fod yna 'fân' yn y Beibl, yn ogystal â 'mawr'; ond saif y parhaol hefyd ochr yn ochr â'r tros-dro. Boed i'r ymchwilydd yntau fod yn barod ar gyfer yr aruthr. Fe'i ceir efallai yn y bach. Awn yn ôl felly at rai cyfarwyddiadau Beiblaidd sy'n amserol fyr eu harwyddocâd, ond yn ddigon pell, mae'n ymddangos, o ganolbwynt y ffydd: megis 2 Timotheus, 4:11, '*Luc yn unig sydd gyda mi. Galw am Marc, a thyrd ag ef gyda thi, gan ei fod o gymorth mawr i mi yn fy ngweinidogaeth ... Pan fyddi'n dod, tyrd â'r clogyn.*' Dengys hyn fod y Beibl yn ymwneud â'r normal, y dilys hyd yn oed, â'r mân siarad, neu'r cynghorion achlysurol sy'n rhan mor naturiol hyfryd o fywyd ar y pryd. Mae pob dim hyfryd fywydol o'r fath yn rhan o batrwm Duw. Fel mân weithredoedd, ar waith mewn bywyd beunyddiol, ceir llawer o ddigwyddiadau, arferion weithiau, problemau ac egwyddorion sy'n bersonol gan

bechaduriaid y Beibl y gallwn wneud tipyn o ffwdan yn eu cylch. Mae yna lawer o faterion sy'n ymddangos yn dyngedfennol bwysig i rai o'n cyfoeswyr duwiol, nad oedd awduron y Beibl, o fewn eu hamseroedd hwy hyd yn oed, yn ymhél â chynghori yn eu cylch – megis 'rheoleidd-dra' offer cerdd mewn oedfaon dyweder, ffasiwn dillad i addoli, ffasiwn arddull cerddoriaeth. Pynciau aruthr i rai egnïon o hyd! A thramgwydd i lawer. Didolwn bresenoldeb y Mawr.

Ceir un maes, mewn ambell amgylchfyd, y tu hwnt i bobun arall bron a all dyfu'n faen prawf ym mryd ambell un ac sydd hefyd y tu hwnt i bob rheswm. Sef 'llefaru â thafodau'. Yn yr Ysgrythurau sy'n eu trafod hwy, yn y ddau ddarn Actau 2 ac 1 Corinthiaid 12-14, yn bennaf y ceir cymorth. Pam yr holl ffwdan am dafodau? Yn y darn cyntaf, mae'n amlwg nad tafodau disynnwyr oeddent, nid ebychiadau preblog, ond ieithoedd dilys amryfal oddi amgylch Môr y Canoldir. Yr oedd yn amlwg fod hyn yn gyfnod cyffrous cwbl arbennig, yn wyrthiol genhadol yn wir; a'u pwnc oedd proffwydo am y nefoedd a disgleirdeb yr Arglwydd. Caniatawyd a chytunwyd am y tro yn ôl yr angen am allu gwyrthiol. Canolbwyntiwyd ar y pryd nid ar fwynhad pawb, ond ar allu Duw i agor yr Eglwys. Ymddangosai yno dafodau o dân yn ddiau. Yn yr ail ddarn, trafodir amrywiaeth y doniau, ac ni ddisgwylir i bawb ond i ambell un er enghraifft – trwy'r Ysbryd – lefaru doethineb. Doniwyd yn arbennig i un arall ffydd aeddfetach na'i gilydd, i un arall ddawn iacháu, – trwy'r un Ysbryd – gwyrthiau; proffwydo ac yn y blaen. Amrywai o eglwys i eglwys wrth ymagor yn y genhadaeth. Ac yna, gan Paul mewn un o ganeuon harddaf y Beibl, cawn y mawl rhyfeddol hwnnw i'r pennaf o rinweddau parhaol, (a'r fath fawl!). Cariad! nid teimladrwydd digynnwys ac anfeirniadol hunan-ganolog, ond gweithredu diriaethol: dawn drwy Dduw yw hwnnw, yn ddiau. Aeth cariad ar led: cafwyd Cyfnod y Pentecost.

Ai ffenomen dros dro yw hyn? A gyfyngwyd y doniau hyn i'r cyfnod hwnnw'n unig? Nid oes ateb pendant. Gall fod hyn yn ddigwyddiad a ddisgrifiwyd mewn cyfnod a benodwyd yn sicr gan yr Ysbryd Glân i roi grym neilltuol i'r lledaenu. Nid oes yr un awgrym mai dyma'r cyflwr parhaol disgwylidig bob amser gan y Cristnogion i awyddu amdano. Fe draethwyd am gyfnod o'r fath ar y pryd o fewn cloriau cyfrol anffaeledig mewn cyfnod allweddol yn lledaeniad y Ffydd. Ac nid oes yr un gyfrol anffaeledig arall. Os cyfyngwyd y doniau, neu rai doniau, yna y mae hynny'n perthyn i'r un rhaglen o 'gyfyngu' i gyfnod tebyg i'r hyn a gafwyd yn esgoriad y Beibl. Ond gwyddom, o syllu led y ddaear, y pery gwaith yr Ysbryd o hyd mewn ffyrdd priodol. Dysg y Cristion sut y mae osgoi'r rhwystrau, ac adnabod y Mawr.

Ymddengys i mi fod llawer o fwrlwm achlysurol wedi digwydd drachefn lawer tro mewn cyfnodau cyffrous a hynny gydag arddeliad. Gwyddom – bawb ohonom yn bersonol fel Cristnogion – fod yr Ysbryd Glân drwy drugaredd ar waith byth wedyn mewn amryfal ffyrdd. Os glŷn y cyffroadau wrth dystiolaeth y Beibl, heb fynnu dim amgen – yn sicr heb ddim cyfrif pennau na

brolio – ni byddem yn cyfeiliorni. A chawn sail hollol ddibynnol o bosibl i'n hymatebion grymus pellach. Y Beibl sy'n esbonio pa gyffro a pha amser sy'n ddilys. Ond daliwn i weddio am yr Ysbryd tragwyddol. Ein gwaith felly ar hyn o bryd, pryd bynnag y cyfarfyddwn â 'dadleuon', yw troi at Lenor ymysg llenorion, yr Ysbryd Glân hwnnw, a sylwi sut y mae'n dygymod â'r swyddogaeth arbennig hon mewn parhad ac ar achlysuron unigol. Cyflwyno y Mawr y mae Ef.

A oes yna gymorth mewn meddwl cyffredin deallol inni ymgyrredd at y Beibl? A yw'r gwaith o lenyddu dyweder drwy Ras Cyffredin a thrwy ysbrydoliaeth lenyddol yn gymorth i ddirnad patrwm ysbrydoliaeth Feiblaidd? Mae mwynhad unigryw yn ei eiriau. Beth mae'n ei ddweud drwy'r gras hwn? Fel y llenor daearol mae'r llenor nefol yn dethol, yn darlunio, yn cyfansoddi, ac yn defnyddio dychymyg; eithr hefyd y mae'n ysbrydoli ac yn goleuo, ac yn gwneud llawer mwy na llenyddu. Mae'n traethu, ac mae'n cymhwyso i galonnau. Mae ganddo'i ddulliau. Teg ystyried bod troadau yn wedd gyffredinol eu gwerth mewn llawer o lenyddiaeth seciwlar: felly yn Awduraeth yr Ysbryd Glân. Ac mae a wnelo troadau â llenwi bwlch ieithyddol oherwydd annigonolrwydd mewn iaith lythrennol. Mewn Gras Cyffredin hefyd y tardd y syndod pleserus o ganfod tebygrwydd patrymog bywyd. Mae adnoddau rhethregol iaith yn cael eu mabwysiadu er mwyn cyffwrdd â serchiadau, a chyfleu eneniad calonnau. Ond fe all y profiad o wyro iaith fod hefyd yn fath o aileni i iaith. Mae'r ddau fath o lenyddu yn rhannu Gras Cyffredin.

A yw'n gyfan gwbl amhosibl i seciwlarydd sy'n darllen llyfrau da eraill fethu'n lân â gwerthfawrogi llenyddiaeth Gristnogol fedrus? A saif rhwystr gwerthfawrogi dawn naturiol ar lwybr seciwlarydd yn syml wrth brofi gwaith 'y gelyn' crediniol? Sylweddoli'r gwahaniaeth yn y tebygrwydd yw'r gamp.

Sonnir am farddoniaeth yn drosiadol fel math o 'greu', neu o ddefnyddio'r ddawn 'greadigol'. Ac mae yna gyffelybrwydd dealladwy. Yn wir, pan geisir ystyried beth a allai fod yn gymhelliad i'r greadigaeth, pam y bu i Dduw greu dyn, rhoddir pob math o ddamcaniaethau hedegog: bod eisiau cwmni cyffelyb arno, bod awydd arno i garu gwrthrych, bod creu yn rhan o'i natur a'i fodolaeth. Nid fel yna y siaredir yn briodol am Dduw. Gras Cyffredin a welir mewn Creadigaeth: bu ar gyfer pawb. Creadigrwydd bellach yw un o briodoleddau'r diffiniad o ddyn. Ond wrth ystyried bod yna ddau fath o 'greu' yn y fan yma, Duw a dyn, syniaf gyda'r naill a'r llall fod yr annealladwy hefyd yn un o'r priodoleddau sy'n ymwneud â'r tu hwnt i'r deall creedig. (Deut. 29:29, 'Y mae'r pethau dirgel yn eiddo i'r Arglwydd ein Duw; ond y mae'r pethau a ddatguddiwyd yn perthyn am byth i ni a'n plant'; 2 Pedr 3:15, 'Y mae rhai pethau ynddynt sydd yn anodd eu deall, pethau y mae'r annysgedig a'r ansicr yn eu gwyrddroi, fel y maent yn gwyrddroi'r Ysgrythurau eraill hefyd, i'w dinistr eu hunain'.)

Rhoddir profiad o orsafau gras arhosol, yn ogystal ag o orsafau gras achlysurol ar daith y pererin hwn drwy'r Beibl. Dyna batrwm bywyd y Cristion.

Mi ellir synied yn weddol fras beth oedd y *dynamis* a gyfrennid i'r Beibl gan yr Ysbryd Glân ar y pryd. Treiddiai drwy rym y ddeddf a gynhaliai'r cread. Drwy'r nerth hwn y byddai'r Barnwyr a'r Brenhinoedd a'r Proffwydi yn llywodraethu ac yn ennill ufudd-dod (Eseia 55:11). Yr awdurdod hwn a rôl felltith a bendith o ganrif i ganrif. Fe ragluniwyd, fe grëwyd, fel y barnwyd, drwy'r cryfder hwn; ond rhoddid gras hefyd o air i air. Yn wir, gras oedd dengair y ddeddf, fel y ddi'r Piwritaniaid i'w sylweddoli'n ddiweddarach ymhell ar ôl cyfnod yr ysgrifennu.

Sylweddolwyd 'bywyd' y Gair ar hyd y canrifoedd. Gellid dilyn ei ddylanwad o 'arwr' i 'arwr'. Duw piau trosglwyddo geiriau. Ef piau iaith. A'i bobl ynghyd â hi.

Pa mor bell y gellir mynd gyda doniau naturiol cyffredin? Onid yw Duw yn llefaru trwy natur? Yng nghanol bywyd cyffredin, gall Duw ymweld drwy fendith arbennig... a melltith.

Sylweddolwyd y felltith a ddôl yn sgil y fendith mor gynnar ag Adda ac Efa mewn addewidion a thrugaredd, hyd yn oed pan na ddeallent mo'r fath fendith gan Dduw a geid yn y diwedd o bosibl iddynt. 'Bywyd' oedd ystyr enw *Efa*, nid marwolaeth, ac eto bu hi'n gyfrwng i Adda ddysgu marwolaeth. Cafodd hithau fendith esgor ar blentyn er y pechod (Gen. 4:1). Felly y maddeuwyd i eraill, a bendithiwyd pechaduriaid mawrion. Drwy'r Ysbryd a'r gair y ddi *Noa* i ddisgwyl glaw yn y sychder ar ganol anialwch. Y brif enghraifft o ffydd achubol yn y gair, i lenorion y Testament Newydd, oedd *Abraham* (Rhuf. 4:1-25; Gal. 3:6-9; Heb. 11:8-9; Iago 2:21-24). Roedd yna Hen Gyfamod iddo drwy'r Ysbryd Glân, a sicrhâi y câi fab ac yntau dros gant oed. Ac felly y bu hi, er gwaethaf methiant dyn (Gen. 12:10-29; 16:1-16). Arweiniai'r hynt at aberth y mab (Gen. 22) ac yn gysgodol at y fendith achubol yng Nghrist... Gwrandawodd Gideon yntau ar y gair. A cheir help gwerthfawr ganddo ef.

Mae tystiolaeth nodedig am yr Ysbryd Glân fel y'i gwelwyd ym mywyd Gideon yn gyfiawn enwog. (Barnwyr 6:34). *'Disgynnodd ysbryd yr Arglwydd ar Gideon.'* Fe gofiwn hanes arferol Israel, (Barnwyr 6:1,6). *'Gwnaeth yr Israeliaid yr hyn oedd ddrwg yng ngolwg yr Arglwydd, a rhoddodd yr Arglwydd hwy yn llaw Midian am saith mlynedd ... Felly aeth Israel yn dlawd o achos Midian; yna galwodd yr Israeliaid ar yr Arglwydd.'*

Dewisodd Israel ar y pryd Gideon i arwain ei bobl. Meddai Gideon (Barnwyr 6:15), *'fy nhylwyth i yw'r gwannaf ym Manasse, a minnau yw'r distatlaf o'm teulu.'* Yna dywedodd yr Arglwydd wrtho (6:16), *'Yn sicr byddaf i gyda thi, a byddi'n taro'r Midianiaid fel pe baent un gŵr.'* Ceisiodd Gideon bob esgus i oedi'r gwaith. Ond clywn eto (6:34), *'Disgynnodd ysbryd yr Arglwydd ar Gideon.'* Cofiw'n oll am y ffordd y mynnodd yr Arglwydd leihau nerth a phrinbau byddin Gideon o gam i gam – 22,000 i lawr i 10,000; ac o 10,000 i 300, (7:2): *'Y mae gennyf ormod o bobl gyda thi imi roi Midian yn eu llaw, rhag i Israel ymfalchïo yn fferbyn a dweud, "Fy llaw fy hun sydd wedi fachub".'* Dyna wers fawr bywyd y Cristion: Duw yn y canol. Rhannwyd y 300 ymhellach yn dair

carfan, '*â phiserau gwag gyda ffaglau o'u mewn.*' Yna, gyda sŵn dryllio'r piseri, ac utgyrn yn seinio, dyma ruthro ar y gelyn (7:22). '*Tra oedd y tri chant yn seinio'r utgyrn, trodd yr Arglwydd gleddyf pob un yn y gwerysll yn erbyn ei gymydog, a ffoesant.*' Bendith a Melltith ar daith yr Ysbryd.

Tywelltid gras ysbrydol ar bobl Dduw drwy'r blynyddoedd er gwaethaf llwythau o bechod: cawd gwydnwch gras, *dynamis* gras: Ioan o bawb, yr addfwynaf a'r anwylaf o'r efengylwyr, yw'r un a ganolodd ar nerth y Gair (Ioan 6:63; 6:60; 8:47; 12:47-50), ac efallai mai ef yn anad neb oedd efengylwr tyneraf blaenaf yr Ysbryd Glân yn y Testament Newydd.

Sut y'i darllenwn? Mewn gostyngeddwrwydd.

Os ydym yn meddwl am y Beibl yng nghyd-destun llenyddiaeth fel ffenomen ffrwythlon yn hanes dynoliaeth, mae'n amlwg bod eisiau peidio â'i ystyried yn unig fel Llyfr ymysg llyfrau. Mae'i awdurdod a'i gymeriad yn hanfodol wahanol. Mae'n honni unigrywiaeth o ansawdd ac awdurdod arbennig, ac nad yw'n ddynol yn unig. Eto, saif ar y silff gyda llyfrau eraill. Gras Cyffredin yw ei dudalennau. Beth bynnag a feddyliwn am y fath ragdyb neu gasgliad, mae'n deg ac yn gytbwys inni ystyried y fath honiad; yn wir, y fath bosibilrwydd, o Dduw ymhlith y cyffredin.

Ac eto, person cymharol normal sy'n llunio'r ymateb fel arfer wrth ddarllen ei Air: peth cyffredin yn ei fryd efallai; ac oherwydd arfer eto, y bydd beirniadaeth lenyddol yn ei drafod yn ôl criteria Gras Cyffredin. Ni ddechreuir gyda'r anghyffredin. Gŵr neu wraig gyffredin, anhysbys, bob cam drwy'r canrifoedd yw'r norm ar gyfer clywed yr efengyl yn canu o'r newydd yn y galon. Credant nad yw'n annheg nac yn anghytbwys i geisio synied am y Beibl fel llyfr cyffredin daearol i bobl gyffredin er bod y disgrifiadau hyn yn gasgliad o baradocsau neu o droadau uwchnaturiol. Gras Cyffredin yw'r weithred o bregethu. Gwrandawn a darllenwn y cwbl fel grasusau oddi uchod.

Ar bob un tudalen fe geir gosodiadau nad ydynt yn ymddangos yn baradocsaid ond os ceisiwn eu hystyried o fewn amgylchiadau seciwlaraid. Y gair 'paradocs' yw'r hyn sy'n ymddangos i ambell gredadun fel y ffordd gryno fanylaf seciwlaraid i ddynodi naws uwchnaturiol cynnwys y llyfr hwnnw; ac o ystyried mai gwirionedd ydyw sy'n ymddangos yn groes i synnwyr *cyffredin* y byd, mae'n gwneud y tro'n burion ar gyfer y gŵr neu'r wraig gyffredin. Eto, defnyddiwn y term 'gras *cyffredin*' amdano fel petai, ac nid '*anghyffredin*'. Nid 'ar gyfer yr anghyffredin' yw'r term cyntaf a ddôi i rywun wrth roi i lawr ei Feibl fel llyfr neu wrthrych er bod y 'goruwchnaturiol' drwyddo draw. Wedi'r cwbl, gall Cristion gydnabod yn barod mai'r un molecylau sy'n ffurfio papur y Beibl hwnnw â phapur newydd fel y *Cymro*, dyweder. Fe'i ceir o fewn dimensiwn creedig yn gyfoethog agored mewn cyd-destun cyffredin. A rhodd greedig yw'r naill a'r llall. Fe'i gwnaeth ei hun yn ddyn bach.

Beth bynnag yw'r ffasiwn politicaidd yn yr ardal hon heno, a beth bynnag yw'r lliw crefyddol, wrth sefyll yn ôl i ystyried, erys y *disgrifiad* 'paradocs' a 'throad' yn ddi-syfl Feiblaidd, i

ddryllio'r disgwylidig (hyd yn oed er na ddefnyddir mo'r termau yno). Y mae 'paradocs' yn golygu math o eiriau i gredadun ac anghredadun lle y clywir yr un pryd wahaniaeth ac undod, tebyg ac annhebyg. Daw disgrifiadau tebyg, lu, i'r fei yn y testun. Mae Duw bob amser yn rhyfeddol hyd yn oed wrth ymddangos mewn geiriau. Mae hyd yn oed 'sagrafen' yn derm arall sy'n gyffelyb. Pwysig dros ben yw mewn rhai ffrydiau yn yr Eglwys, i gyfleu gwedd eglur ar hyn: yr anweledig yn y gweledig, a'r materol yn cynrychioli'r ysbrydol. Gall 'sagrafen' gael ei defnyddio (megis pregeth) i'r goruwchnaturiol weithredu yng nghanol y 'syml' a'r 'diddysg'. Ond at ei gilydd, i'r person cymharol ddiwylliedig, fe all y gair 'paradocs' ymddangos yn fwy dealladwy, yn fwy cyfoes fel gair; ac yn fwy felly y mae ef yn taro'r sawl nad yw'n ofni sylweddoli bod 'gwahanu' ac 'uno' ar waith yn ein dull o ddeall popeth. Ac yn ôl y dull ystyriol o sylweddoli natur Amser, yn undod ac yn amllder, gellir teimlo'n bod ni felly yn symud ymlaen o ddydd i ddydd, nid yn unig o fewn y presennol, ond o'r gorffennol i'r dyfodol, gyda'r dyfodol yn symud i ddiflaniad y tu ôl i'n cefn. Nid cyffredin yw meddwl dyn. Ac y mae swyddogaeth Ysbryd Duw, sy'n cyfathrebu â dynoliaeth yn uniongyrchol, rywsut yn cael ei wneud yn fwy dirnadwy, wrth inni feddwl yn unigolyddol benodol amdano o fewn holl bwerau eraill yr Hollalluog unol. Mae Yntau hefyd wedi ymostwng.

Mor rhyfedd o bell yw'r Goruwchnaturiol, felly. Mor rhyfeddol o agos.

DEUNYDD

DEUNYDD

Hanes

Mae Hanes yn dechrau i'r Cristion ynghynt nag i'r Seciularwyr. Dechreua gyda Bodolaeth. Dyw hyd yn oed y Gwrth-greadigwr mwyaf taer ddim yn mentro'n ôl mor bell, os yw'n ddoeth. Dechreua'r Cristion Hanes hefyd gyda gorchymyn oddi wrth Dduw, – Deddf yn wir: sef 'Bydded'. Ond down i ystyried y Ddeddf eto, ymhellach ymlaen.

Hanes yw prif ddeunydd a phrif lenddull y Beibl. Hanes yw'r sylwedd sy'n teyrnasu yno: ceir yn yr H.D. a'r T.N. hanes pam a sut y daeth Iesu Grist i'r byd. Nid oes ymgais i'n diddanu yn arddull y naratif. Mae manylder yr hanesion weithiau mor undonog – megis yn yr achau – nes ein llethu. Mae hanesion eraill yn dynn o gyffrous. Cydnabyddwn harddwch y 'darnau porffor' ymddangosiadol, a llawer arall. Ond rhaid camu'n fynych yn ffurfiol unffurf o gyfnod i gyfnod, o farnwriaeth i farnwriaeth, o frenhiniaeth i frenhiniaeth, o broffwydoliaeth i broffwydoliaeth, ie o bechod i bechod – yn ddirugaredd ambell dro. Weithiau bydd rhai o lyfrau crefyddol mawr y byd yn eu llenwi eu hunain â deddfau a chynghorion. A cheir llawer o bethau tebyg hyd a lled y Beibl yn ddiau. Ond yn yr achos hwn mae i'r cwbl arwyddocâd pellgyrhaeddol. Ac fe'u cysylltir yn thematig gan ras a chariad, a chan hanes profiadau o lawer math. Weithiau adroddir am brofiadau cyfriniol neu am weledigaethau arallfydol. A cheir llawer o bethau dwys o'r fath gan y Beibl. Ond Hanes yw'r rheini hefyd, hanes profiadau: asgwrn cefn yr ysgrythur yw *digwyddiadau* hanesyddol a *chymeriadau* hanesyddol gwir a gofnodwyd. Ceir Duw yn ymyrryd drwyddynt mewn gweithredoedd diriaethol o bob math mewn cyfnodau penodol yn y gorffennol ar gyfer y dyfodol sydd ganddo mewn golwg. Hynny yw, gwelwn naratif lliwgar yr ysgrythurau Cristnogol yn cwmpasu amser oll. Creu Hanes y mae Duw, yn ogystal â chreu bydysawd.

Pan ddown, sut bynnag, at rywbeth mor ymddangosiadol ddiniwed neu 'ddienaid' â'r achau, ymbaratwn ar gyfer darllen go galed. Fe ganfyddwn gysondeb ffurf a ffaith eu presenoldeb ym mhob cwr, yn yr Hen Destament o Adda hyd at y ddwy fersiwn o achau amryfal-lin Iesu Grist ym Mathew (Lefi) a Luc. Pan ddarllenwn ach *Joseff* yn y fan hon, y mae her i'w hystyried yn codi – a oedd perthynas Joseff yn rhan o broses oruwchnaturiol arbennig nad ydym yn sylweddoli ei dyfnder? Cenedlaethau o ddigwyddiadau a phobl weddol undonog yw cefndir yr Hanes hwn. Y mae i'r cenedlaethau eu harwyddocâd cyfreithiol cyfoes wrth gwrs, hyd yn oed yn nhrefniant sensws (neu gyfrifiad) Bethlehem, ac felly hefyd yn lleoliad annisgwyl ond disgwylidig Iesu Grist yn y fan honno yn hytrach nag yn Nasareth, gan mai ym Methlehem y ceid dinas y Dafydd hanesyddol, nid yn Jerwsalem. Wedyn, y mae cynnwys ach Iesu yn y fan hon, gyda'r cyffredin a'r pechaduriaid, yn ddiddorol o arwyddocaol oherwydd natur cenadwri ddiwinyddol a hanesyddol Iesu, yn rhan gadarn gorfforol o Israel. Y mae ach Iesu'n cael ei gyflwyno'n rhan o Hanes anghyffredin.

I mi, ynghanol rhediad cyffrous buchedd Iesu Grist daw ei *drefnu achyddol* rywsut yn rhyddieithol annisgwyl. Mae'n ymddangosiadol mor sych o anniddorol. Ond mae'r lle sydd iddi'n bwysig iawn, fel pe bai'n rhan o wyrth greadigol. Hyd yn oed yn y disgrifiad o'r Creu yn rhyfedd iawn, bu meddwl Duw yn mynd i'r un cyfeiriad trefnus neilltuol ac annisgwyl yn y term 'cenhedlu': (Gen. 2:4) '*Dyma hanes cenhedlu'r nefoedd a'r ddaear pan grewyd hwy.*' Meddylwch '*hanes cenhedlu'r nefoedd,*' fel pe baent yn ffurfio ach.

Rhaid i mi gyfaddef i'm meddwl i grwydro'n hwyliog, wrth weld hyn, at ddychmygu eitem achyddol ddigrif o ddychmygol a bendronai ynghylch cyfres – 'bodoli, tad cyfundrefnu, tad bywydu, tad haniaethu' ac yn y blaen, yn fath o Ddarwinaeth ystumiedig goll yn cenhedlu'r byd. Ond y gwir yw bod gan y ddaear ei hun fath o ach, wrth gwrs. Yn ei *magnum opus* yn 1910, codai Alfred Russel Wallace, rhagflaenydd Darwin, rai o'r bylchau hyn; a chafodd fod rhaid cydnabod rhyw 'organising life principle ... Directive Mind... Ultimate Purpose...' a soniai am enigma 'nutrition, growth and reproduction'. Ac yr oedd Duw ei hun wedi awgrymu arwyddocâd Amser yn Genesis heb, wrth gwrs, ymhél â'i amlinellu yn ôl patrwm y bedwaredd ganrif ar bymtheg (na chanrifoedd diweddarach), beth bynnag fyddai'r termau gwyddonol a'r camre llythrennol mewn Amser ffurfiannol fel y tybiai Esblygwyr a oedd yn dal ati ar y pryd wedi Darwin. Gallai creu goruwchnaturiol ddefnyddio amser mewn ffyrdd annisgwyl hefyd. Ni all Cristion lai na myfyrio am ryfeddod geni Iesu fel y bydd yn rhyfeddu am eni'r byd. Oes, mae yna batrwm goruwchnaturiol i 'Esblygiad' neu 'Ddatblygiad daearol' sy'n arwyddocaol, ond nid yn ôl y ffordd orffenedig y cogiai rhai o'n gwyddonwyr yr hoffent ei chael yn ei ffurf ôl-fodernaidd chwâl. Ffeithiau hanesyddol a'r tu hwnt i Hanes oedd rhuddin y Beibl, nid theorïau ffasiynol sy'n gwibio heibio ar y pryd. Ac achau naturiol trefnus dynol, yn hirfaith, a ddisgynnai oddi wrth Dduw, yn rhagluniaethol, a geid gan Iesu.

Mae'r camre yng nghynllun dynoliaeth yn cael eu holrhain fel pe bai'r Beibl ei hun a'r cofnodi'n rhan gynhenid o'r Greadigaeth. Dilynwyd y dull ffeithiol hwn o feddwl er mwyn pwysleisio a mawrygu arwyddocâd llinach drwy gydol Genesis fel fframwaith dymunedig y tynnid sylw'n llyfryddol ato yn ôl sawl 'llyfr' : Gen. 5:1 '*Dyma lyfr cenedlaethau Adda*'; Gen. 6:9 '*Dyma lyfr cenedlaethau Noa*'; Gen. 10:1 '*Dyma lyfr cenedlaethau meibion Noa*'; Gen. 11:10 '*Dyma lyfr cenedlaethau Sem*'; Fformiwla oedd unffurf i gyhoeddi ar gyfer llenfath o'r fath. A dyma oedd yr adrannau a oedd yn rheoli Genesis. Teitlau llawysgrifau gwahanol a gedwid o bosibl oeddent, 11:27; 25:12,19; 36:1,9; 37:2.

Pam y rhoddid cymaint o bwyslais ar lenddull Ach yn gyffredinol?

Dyma'r ysgerbwd personol i Hanes (hynny yw, mae'n enwi unigolion heb fanylu yn unig ar ddigwyddiadau na sefyllfaoedd). Mae'n diffinio pwy ydynt mewn olyniaeth. Y gorffennol sy'n rhoi iddynt oll hunaniaeth (yr uned; y berthynas; y llwyth). Y gorffennol sydd wedi'n creu. Nid â'u

dychymyg y mae'r bobl yn dechrau. Mae popeth sy'n perthyn hyd y funud yna wedi darparu sylfaen. Mae'n bwysig i ddynolryw weld dimensiwn amser a chof, felly. Teyrngarwch a chyfrifoldeb, dyna ffrwythau ach: nid ymddangos yn sydyn ar wyneb y ddaear. Hwyl a rydd wareiddiad datblygedig i ni. Gwybodaeth am berthynas yw'r gorffennol. Dyma arferiad cymdeithasol y tu allan yn ogystal ag y tu mewn i Israel, y genedl etholedig.

Felly, yr oedd '*rhestr achau Iesu Grist*' Math. 1:1 yn dilyn achau cenedlaethau o'r fath a geid yn yr Hen Destament o ran patrwm a bwriad.

Pam y rhoddwyd ach Iesu Grist o gwbl? I'r Cristion sy'n mynnu gweld Iesu ym mhob rhan o'r Beibl ac o fywyd y byd, ac wrth drafod deunydd y datguddiad ohono, yng nghanol helaethrwydd yr achau mae'r llygad yn cael ei atynnu gan ddirgelwch bodolaeth y fath achau.

Ond mynnid cyflwyno'r Iesu yn y T.N. mewn olyniaeth, wrth gwrs. Ai am ei fod, drwy fod yn Israeliad, yn etifedd Meseianaeth? Ie; ac am fod hefyd baratoad penodol ac ystyrion iddo ar hyd y canrifoedd. Ac yn bennaf, er mwyn cyflwyno un o'r 'ddwy natur mewn un person, yn anwahanol mwy' mewn Hanes. Felly y mynnwyd arddel ei ddynoliaeth yn benodol yn y fan hon.

Mwy dirgel o lawer yw'r cwestiwn, pam y rhoddwyd ach *Joseff*? Rhaid bod rheswm i hyn. Fe'i ceid mewn safle amlwg. Ar ryw olwg, fe'i cyflwynwyd yn broblem inni, er nad yw'n broblem sy'n ymyrryd ag unrhyw ddysgeidiaeth. I'r sawl sy'n caru pendroni ynghylch pob un dim sy'n ymwneud â'r Arglwydd Iesu Grist, problem yw i wyleiddio yn ei chylch, ac efallai nis bwriadwyd inni roi gormod o bwys iddi.

Ymddengys nad oedd Joseff – er gwaetha'r cysylltiadau uchelwrol ganddo yma ac acw – yn neb o bwys. Saer, gŵr cyffredin; ac eto, mwy. Ni châi – yn ymdangosiadol a thybiaethol – yr un arwyddocâd yng ngenedigaeth Iesu. Pam ei ach ef felly? Y tebycaf yw ei bod yma oherwydd bod *magwraeth* a chefnidir Crist yn gyfrifoldeb iddo. Cyfeirio a wna ach fel arfer at etifeddiaeth gorfforol. Mae'n ymwneud â dynoliaeth Crist mewn amser a lle, nid ei ddwyfoldeb. Ceir cyfeiriadau amryfal eraill, mwy nodedig, gyda'r bugeiliaid a'r brenhinoedd doeth, at ddwyfoldeb Crist, hyd yn oed ym mhennod gyntaf Luc. Ond yn yr ach cyfeirir at gysylltiadau gweledig ac organau patrymog ei olwg a'i DNA o bosib. Yr oedd i'w ach arwyddocâd cyfreithiol, er enghraifft wrth dalu trethi a diffinio cyfrifiad ac arolygu gwleidyddol; y gwryw a bennai'r diffiniad cymdeithasol hwnnw. Ni pherthynai'r ach i fyd y fenyw fel arfer, yn ôl defod a statws traddodiad. Crybwyllid ambell ddolen fenywaidd o bosibl yn yr ach hon er mwyn olrhain cyswllt pwysig lle y byddai dolennau gwrywaidd (yn unig) yn colli o bosibl ambell gyswllt teuluol gwerthfawr. Eithr eithriadau oeddent.

Ond yr oedd Luc yn hyn o gofnod mor wahanol i Fathew (Lefi). Rhaid bod y sawl a gyplysai'r ddau efenglydd hyn yn bwriadu math cwbl newydd a gwahanol o ach i'r naill a'r llall, ac

wedi defnyddio dull gwahanol o gasglu gwybodaeth, a hynny yn ôl nod arbennig. Yr oedd defnyddioldeb ymarferol o'r math traddodiadol i ach Luc yn gyfreithlon hyd yn oed ar gyfer Arglwydd trefedigaethedig fel Iesu Grist: cofrestru mewn ymerodraeth (Luc 2:2) er mwyn y cyfrifiad a wnaeth Cesar Awgwstws. Yr oedd ach ar un adeg, a llediad y gwahanol lwythau, yn arwyddocaol hefyd wrth brynu a gwerthu tir. Dyma ni'n crwydro'n feddyliol o gwmpas yr achau crwydrol hyn. Mae angen ailfeddwl eto am ddarnau ysgrythurol annisgwyl o'r fath. O leiaf, ni ddylai fod cwestiynau na chaniateir i ni eu holi.

Yn Efengyl *Mathew*, dilynir yr achau yn dair rhan, o Abraham ymlaen at Ddafydd (1 Cron. 2: 2-6), o Ddafydd hyd Jechoneia (1 Cron. 3:10-16), ac yna o Jechoneia yng nghyfnod y gaethglud i Joseff gŵr Mair (er nad enwir yn yr Hen Destament o blith y grŵp olaf ond mab Jechoneia, sef Salathiel, a'i fab yntau).

Yn *Luc* 3, rhoddir achau Iesu i'r cyfeiriad gwrthwyneb i *Fathew*, gan ddechrau yn y diwedd gyda Joseff ac yn ôl drwy Ddafydd hyd Abraham, ac yna ymhellach byth yn ôl hyd Adda, fab Duw. Gadawaf i'r ysgolheigion ddamcaniaethu ynghylch pob anhawster a erys rhwng y ddwy restr hyn. Gallaf gynnig un ddamcaniaeth ar gyfer un anhawster yn Luc. Gan fod a wnelo ach Luc â thad Joseff, dwy nodwedd drawiadol yn *Luc* yw (a) Adnod 23, 'Joseff fab Eli', ac yn rhyfedd iawn (b) Adnod 58, 'Seth, fab Adda, fab Duw.' Ceir dwy nodwedd drawiadol ym *Mathew*, (a) Adnod 16 'Jacob yn dad i Joseff' a (b) Nid olrheindir yr ach yn ôl ymhellach nag Abraham. Hynny yw, dichon fod yr ach gyntaf yn dechrau drwy ddatgan llawnder yr ach yng nghyd-destun Iesu a Duw, a bod yna unoliaeth fel y gellid adnabod arbenigrwydd ach Luc 3 – mai ach i Dduw yw (Eli? cf. Eli, Eli, lema sabachthani), ac mai ach i'r dynol Semitaidd a geid gan Fathew.

Ond pam enwi Joseff yn y naill ach a'r llall? Onid mab Mair ydoedd Iesu, heb le i'r un gwryw yn y cenedliad o gwbl? Pam sôn am ach Joseff o gwbl felly?

Dichon fod Luc 3 yn enwi safle cyfreithiol Iesu, mai Joseff oedd yr un a fyddai'n gyfrifol am Mair ac Iesu yn ôl deddf gwlad yn y cofrestriad. Diau fod Iesu wedi tyfu i gydnabod Joseff, a'i alw'n 'dad' yr un a'i magodd ef yn yr ardal.

Ond a oedd Duw wedi defnyddio Joseff mewn modd gwyrthiol yn yr ach yn ôl ei DNA gan gadw Mair yn wryf? Argraff wyrthiol fyddai enwi presenoldeb Duw yn DNA Joseff. Pe bai awgrym o'r fath yn gywir, byddai'r naill ach (*Mathew*) yn pwysleisio dynoldeb Crist, a'r llall (*Luc*) ei ddwyfoleb drwy ach Joseff. A dyma ffitio un o athrawiaethau mawr y ffydd Gristnogol – yr Ymgawdoliad mewn dealltwriaeth nid annhebygol, ac yn debygrwydd agosrwydd y Mab a'r Tad yn y Drindod. Byddai angen presenoldeb gwyrthiol arbennig yng nghorff Iesu.

Sylwer ym *Mathew* 1:16 fel yr oedd Jacob yn dad i Joseff; '**Mab**' Dafydd oedd enw Crist wedyn, ac yr oedd yn golygu o hil Dafydd, o bosibl, yn llythrennol mewn Meseianaeth. Collir

ambell genhedlaeth efallai o'i herwydd. Ym Math. 1:20 ceir Joseff fab Dafydd – yn yr un bennod, o fewn pedair adnod, ond ni ddefnyddir y term yn y dull modern. Nid gwall yw o gwbl, ond gydag arwyddocâd gwahanol ar gyfer cofrestru. Sylwer: Joseff *fab* Dafydd – fformiwla'r cysylltiad â'r Meseia y tro hwnnw efallai. Un o'r rhesymau am amrywio'r ach o bosibl oedd bod llinynnau'r ach yn dilyn gwahanol genedlaethau yn y ddwy efengyl oherwydd gwahanol bwyslais. Felly, wrth ddedhol, erbyn tad-cu Joseff, yr oedd dau dad-cu, pedwar hen dad-cu, wyth hen hen dad-cu, fel y dilynid gwahanol lwybr ac yn y blaen, a oedd hi'n bosibl hefyd gynnwys ambell ewythr, a oedd yn enwocach na'i gilydd, y gellid golygu 'o hil' hwnnw mewn ambell genhedlaeth?

Yn hanes daearol Iesu Grist, fe roddid gynt lawer o bwyslais ar y Geni Gwyrthiol neu'r Cenedlu Gwryfol. Cryfheid hwnnw yn yr Oesoedd Canol oherwydd cwlt y Forwyn Fair. Ond gellid ystyried yr Ymgawdoliad, a'r Duw sy'n gwacáu ac yn ymdlodi, yn rhywbeth mor gwbl annisgwyl ac yn fwy o ryfeddod i Dduw aberthol, hyd yn oed i Un hollalluog. Yr oedd y pwyslais hwnnw'n bwysicach na'r broses o eni.

Mae'r Beibl yn sôn am eni gwyrthiol neu genhedlu gwryfol, a'r Ysbryd Glân yn gweithio'n oruwchnaturiol. A oedd yn fwy gwyrthiol nag a dybid ar y pryd?

Hyd at Fair, cynnyrch gwryw a benyw oedd pob dyn ers Adda. Yn awr, iddi hi sut bynnag y gallai Joseff ymddangos yn amherthnasol. Felly, o ran dynoliaeth, ceid unochredd, ac yn ddealladwy felly oherwydd swyddogaeth yr Ysbryd. Y math o ach a ddisgwylid yma felly fyddai ach Mair yn unig. Ond disgwylid yn normal heddiw ach i fam ac i dad. Ac y mae cofnodi Ach Joseff yn codi cwestiwn na fu'n cael ei godi ynghynt yn ôl y sylweddoliad diweddar o bwysigrwydd DNA lawn. A ddylem ddisgwyl i Iesu fod yn ddynol ym mhob rhan arall ohono ond hyn? Go brin fod Iesu'n amddifad o DNA. Rhoddwyd DNA i bawb; ond nid *creu* DNA arbennig iddo: anghreedig oedd, ganwyd ef. Byddai'r Ysbryd Glân o ran medr yn gallu corffori DNA Joseff yn gwbl briodol wyrthiol, (nid drwy gyfathrach rywiol; ond gyda'r Ysbryd Glân yn defnyddio patrymwaith Joseff); a heb lai o drafferth na sicrhau DNA Mair. Byddaf yn synied y gall mai'r trosiad gorau ar gyfer goleuo'r syniad 'ar batrwm Joseff' yw mai'r DNA oedd 'Deunydd Duw' a 'Ffurf Joseff' drwy weithred oruwchnaturiol. 'Patrwm Corff Joseff' ac 'Ysbryd Duw.' Hynny a esboniai fod yna le gwyrthiol i Ach Joseph yn y Testament Newydd.

Y dyddiau hyn, dichon fod 'helics dwbl' DNA y Duw-ddyn yn codi mwy o gwestiynau, ac ni ddylem byth gywilyddio oherwydd bod mynegiant Duw ohono'i hun yn fynych yn aros y tu hwnt i'r deall meidrol. Yn y Testament Newydd ceir dwy ffurf ar yr ach, ac ach y tad teuluol sydd gerbron yn y ddwy, sef Joseff. A oes awgrym yn yr ach felly fod gwedd o'r digwyddiad gwyrthiol sy'n ymwneud â'r *Ysbryd Glân* yn cenedlu, wedi defnyddio *patrwm diriaethol* ar hedyn Joseff gan yr Ysbryd yn darparu llawnder dwyfol ddynol yn ogystal â ffurf a chynnwys Duw, ar lun a delw 'dyn'

go iawn, dyn a chanddo nodweddion gwryw, a chanddo DNA yn ôl pob synnwyr? Hynny yw, fel yr atebai Iesu lun Joseff o ddwy law, dwy goes, a phâr o ysgyfaint, felly y dilynai o bosibl helics dwbl ei DNA unigryw ef. Sôn yr ym o hyd am weithred ddwyfol wrth gwrs.

Hollol wahanol yw diffyg ach Duwdod Crist. Yn y Beibl, esbonnir Duwdod Crist o fewn cyd-destun y Drindod. Mae pob dim sy'n olrhain perthynas agos y Tad a'r Mab hefyd yn tanlinellu eu hagosrwydd unol tragwyddol.

Myfyrdod yw hyn, yn hytrach na darganfyddiad neu gynnig gwybodaeth. Ac ni allwn ddisgwyl ateb pob cwestiwn. Enwir gwagedd yn ach Math.: Tamar, Rahab, Ruth, gwraig Ureia (Math 1:6). Canfyddwn beth gwyro difyr yn y fan yna. Ond anodd esbonio pam ar hyn o bryd. Does neb felly yn ach Luc. Cofnodid yn gywir heb fod yr Efenglydd yn gallu esbonio pam popeth.

Wedyn tybed a oedd ffactorau eraill ar waith yn yr ach nas tanlinellwyd am nad oedd yr arwyddocâd ysbrydol yn flaenaf? A fu'r un person yn arfer un enw mewn un ach ac enw arall yn y llall fel mewn mannau eraill yn y Beibl a allai fod yn gyfarwydd i bobl ar y pryd: megis y gwyddom ni am Mathew (Lefi), Pedr (Seimon), Israel (Jacob), ac yn y blaen? Mae hyn yn bosibilrwydd ymyrrol.

Yr hyn a olrheinir hefyd gan ach – ac y mae hyn yn dra phwysig yn ddiwinyddol – yw ei bod yn olrhain Adeiladu Cenedl: peth i'w ddehongli. Ond sut? Un o swyddogaethau'r Beibl oedd mynnu hyn; eu bod hefyd yn adeiladu Teml; ac yn mawrygu teulu. Gallai ystyriaeth felly wyro ach. Erys o hyd lawer i fyfyrion amdano (er nad yw'n ymyrryd â'r un athrawiaeth, fel y'i nodais); ac nid yw'n adran rwydd o gwbl. Y tebyg yw, gan fod Mathew (Lefi) yn dilyn olynid yr Achau traddodiadol, ei fod wedi cynnwys dogfennau ysgrifenedig ambell waith, fel y'u cofnodwyd hwy. Gellid cynnwys neu hepgor rhai plant 'anghyfreithlon' mewn ach. Ac wedyn ceir posibilrwydd fod Luc – a oedd yn meddu ar gymhelliad gwahanol i Fathew, ac yn awyddus o bosibl i argyhoeddi Theophilus ynghylch rhai cysylltiadau mwy personol eu diddordeb o bosibl, (a dangos ei ymchwil ar lafar gwlad), – wedi dilyn gwybodaeth lafar berthnasol i hynny o safbwynt di-wyro traddodiadol.

Diau, ar hyn o bryd, fod ambell linydd yn dal yn enigmatig. Mae hyn yn gysylltiedig (mae'n ymddangos) â'r ffaith fod gan Iesu ddwy natur mewn un person. Felly, nid yw'n amhosibl fod DNA Joseff wedi'i gyfleu'n oruwchnaturiol gan yr Ysbryd Glân (Joseph *fab Eli*, sef yn llinach Duw, teitl dirgel a rhyfedd ar yr ach yn 'Luc'). Hynny yw, yn yr Ymgawdoliad gwrthiol, mynnid cyffwrdd gan yr Ysbryd Glân â'r ffaith arwyddocaol honno. Dichon felly fod Luc yn mynnu pwysleisio'i ddwyfoldeb, a Mathew yn aros gyda'r dynoldeb, heb ddatod problemau tybiedig.

Mae'n rhaid bod yn eithriadol o ofalus (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) wrth drafod digwyddiad mor aruthrol oruwchnaturiol ac annealladwy â'r Ymgawdoliad dynol, y wyrth fwyaf yn hanes y ddaear, ddywedwn i. Mae pob peth yn bosibl i Dduw. Gwyddom fod Iesu Grist yn bod

erioed yn y Nefoedd. Ysbryd oedd Ef yno. Ond yn ei berson a'i unigolyddiaeth, yr oedd yn unigryw. Felly, pan feddylw'n am ddyn 'naturiol' yn cael ei greu ar ddelw Duw (sef Adda: dyn) neu'n anghreedig yn y Logos ('Ystyr' Crist), yr ydym yn sôn am ddirgelwch hydeiml. Honnwn fod y Mab Tragwyddol yn 'ddynol' (o ran patrwm, ac o ran cymeriad megis dyn, heb fod yn 'ddyn' meidrol), ond yn Dduw heb ronyn o bechod ynddo.

Beth yw'r casgliad? Os oedd Adda wedi cael ei 'eni' drwy 'greadigaeth' yn ddi-fai, hawliwn hefyd fod geni Iesu o Fair ffaeledig, yn Ail Adda, yn ddi-fai. Nid creu Ail Adda yn y groth a wnaethpwyd yno: yr oedd Iesu yn anghreedig. Ei eni wedi beichiogrwydd drwy'r Ysbryd Goruwchnaturiol a gafodd Iesu, yn Unig-anedig Fab Duw. Dyna ffeithiau. Nid oedd gan Joseff ddim rhan yn weithredol uniongyrchol yn yr enedigaeth honno fel y cyfryw. 'Gŵr Mair' oedd ef; ond gwry fu hi cyn genedigaeth Iesu, ac (am ychydig) wedyn. Ond yn y Beibl fe gynhwyswyd Joseff yn flaenllaw yn ach Iesu Grist, heb gysylltu Mair ond fel gwraig i Joseff. *'Yr oedd (Iesu) yn fab yn ôl y dybiaeth gyffredin, i Joseff.'* Tad oedd Joseff drwy fabwysiad goruwchnaturiol fel petai gan yr Ysbryd. A rhoddir y lle amlwg a chyfreithiol o'r herwydd i Joseff yn yr ach. Sonnir amdano fel *'tad Iesu'* (Luc 2:33). Roedd dau bechadur yn 'rhieni' i'r Iesu yng ngolwg eu cyfoedion, yn fam ac yn dad yn ôl pob golwg, megis 'dyn'. Ni ddywed yr ysgrythur am 'fab yn ôl y dybiaeth gyffredin i Fair.' Ni *ddywedir* wrth gwrs ddim am DNA Crist. Ac nid yw'n weddus damcaniaethu'n ddi-sail. Eithr fel yr oedd dwy fraich a dwy goes wedi'u hetifeddu ganddo, beiddgar fyddai honni na allai fod helics dwbl ganddo wedi'u patrymu gan Dduw ar y pâr dibriod. Fel y byddai gwaed Mair yn ei wythiennau yn ddi-fai oruwchnaturiol, felly y byddai etifeddiaeth ddwyfol ddynol ym mhob rhan o'i fodolaeth gyflawn. Plentyn goruwchnaturiol oedd. Mae pob peth yn bosibl i Dduw. Ni byddai unigolyddiaeth mabwysiad DNA Mair na Joseff o unrhyw bwys dwyfol, ond gallent (fel eu breichiau a'u coesau) gyfrannu i ddynoliaeth Crist, yn ddyn mewn amser a lle, yn unig Fab i'r Tad nefol. Dyma'r hyn a oedd yn hanfod iddo, yn ei wedd ddynol. Yr oedd y berthynas unol rhwng y Tad a'r Mab yn ddi-amheuol berffaith. I mi, yr adnodau cryfaf ar dduwdod yw'r rhai yn Ioan: (14:9), *'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad';* (17:1) *'O Dad, y mae'r awr wedi dod. Gogonedda dy Fab, er mwyn i'r Mab dy ogoneddu di... A hyn yw bywyd tragwyddol: dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.'* Eto, nid oes dadl ddi-ffael o *blaid* nac yn *erbyn* swyddogaeth batrymol i Joseff yn y teulu. Hyn fyddai o leiaf yn ddehongliad i bresenoldeb ac ystyr ach Joseff yn y Beibl. A rhywsut, y mae'n estyniad o grŵp o ddysgeidiaethau, megis dysgeidiaeth yr Ysgrythur, lle y mae'r dwyfoldeb yn cael ei adlewyrchu mewn patrwm neu gyfrwng meidrol, ar lun a delw dyn. Yr hyn sy'n anodd i'w brofi'n feidrol yw'r safbwynt negyddol presennol di-ach ynghylch perthynas Joseff... Dichon na ddylid anwybyddu ateb lle y gall fod patrymau goruwchnaturiol.

Dadnaturioli Deunydd

Dysgir ni, sut bynnag, gan y Beibl i ymwybod â'i adroddiad i gyd mewn *cywair goruwchnaturioli*. Yn sicr, dyna'r cywair ar gyfer sylweddoli penarglwyddiaeth Crist.

Buom gynnu yn herio y dehongliad ceidwadol ar 'genhedlu'. Mae Awdur y Beibl fel llenor, yn ei gyfrol unigryw ac unol, yn estyn yr iaith oherwydd fod a wnelo ef â chwyldro deall. Mae yn cyflwyno *dimensiwn ysbrydol o'r byd o fewn cyd-destun Hanes*, gan ymwneud â llawer o leoedd ac o amseroedd, naturiol a goruwchnaturioli eu harwyddocâd. Mae ei syniadaeth ef a'i 'naratif' yn helaeth o amrywiol. Ac mae sbectwm ei deimladaeth yn ymestyn o'r serchiadau mwyaf angerddol a phrydferth i'r galar a'r dicter mwyaf anghynnes. Ymestynna o'r nefoedd i'r ddaear, o'r goruwchnaturioli mwyaf dyrchafedig i'r naturiol mwyaf syml, o *Genesis* i'r *Datguddiad*.

Wrth geisio cyfleu deunyddiau ystyrol mor rhyfedd a chynhwysfawr, bu'n rhaid i'r Ysbryd drafod y sefyllfaoedd anghyffredin hyn a geid drwy gorffori'r rheini oll, mewn gwyrriad ieithyddol effeithiol. Haerllug fyddai tybied y gallem byth ddeall meddwl Duw ym mhob manylyn. Awgrymaf na ddylai'r syniad o 'ddadnaturioli' fod yn gwbl annisgwyl mewn methodoleg sy'n dygymod â llenyddiaeth oruwchnaturioli, pan nad oes gennym atebion i'w cynnig.

Ac un dull o ymdrin â rhyfeddod geirwir y fath ddeunydd hanesyddol yw canfod y paradocs yn y cwbl hwn – pob peth. Gonestrwydd a gwirionedd a fynnai'r annisgwyl drwy ddadnaturioli a naturioli'r hyn yr oedd am ei ddweud. **Sonia rhai o'n Hôl-fodernwyr am 'Ddadadeiladu' testun: soniaf finau am 'Ddadnaturioli' (ymwared â chyfyngderau'r 'Naturiol' amddifad)**. Dyna'r her i'n deallusrwydd, a dyna pam y'm hystyriaf fy hun yn Ôl-ôl-fodernydd. *Ymgais y dyn naturiol, mae arnaf ofn, oedd ceisio byw yn groes i'r gwir fel pe na bai Duw yn bod. Wrth ddarllen y Beibl, credaf fod angen darllen drwy sylweddoli hollbresenoldeb yr Uwchnaturioli. Hynny yw, mynnwn sylweddoli'r Beibl bob amser mewn dull Cristnogol yn lle mewn dull seciwlar: ymgymhwysiad beirniadol priodol. Mentr enbyd yw hon i'r sawl na all oddef ystyried rhagosodiad y Goruwchnaturioli.* Gogoniant Duw oedd prif destun yr Awdur. Dyna'i Ddeunydd canolog. Mae'n ormod o bwnc i'r un awdur dynol wneud cyfiawnder ag ef. Ond dewisodd yr Awdur i'r gyfrol hon un dull pwysig o ddatod y naturioli – sef y **paradocs**. Nid ymadawai â Natur. Ond fe'i gwelwyd o'r newydd. Paradocs o fath ydoedd holl hanes creu'r ddaear (o ddim) ei hun.

Paradocs yn y Beibl oedd y dull o esbonio ystyr moesoldeb i ddyn. Cymerwyd un pren 'diniwed' yn yr Ardd, pren na sonnir bod ynddo yr un gwenwyn na marwolaeth. Yr unig ansawdd allweddol y llanwyd y pren ag ef oedd y gwaharddiad rhag anufuddhau i Dduw. Disgwylid iddo aros yn llawn o'i ewyllys Ef, heb ychwanegu drwg at dda, na gwahanu da a drwg, na'u gwybod. Dyna baradocs newydd moesoldeb yn ei wraidd. Ufudd-dod i ddeddfau.

Cawn felly *Hanes* y ddau Adda yn agor, yn yr un llyfr. Wedi'r Cwmp, mewn addewid i'r

Adda cyntaf, ar ôl ei anufudd-dod sarhaus a balch, fe addaswyd trugaredd, ar unwaith, a rhoddwyd Gras Cyffredin iddo yn Iesu Grist. Byddai'n rhaid adennill delfryd a sylwedd daioni drwy dderbyn dawn arall gan Dduw, i ymddiried yn awr yn Ei anfonedig ef. Pwysu bob amser ar gynllun Duw oedd rhaid. Duw mewn dyn fyddai'r anfonedig paradocsaid hwnnw iddo. Byddai yr Iesu hwn a gâi ei eni ym Methlehem eisoes wedi bodoli erioed, yn Fab. Fe'i ganed ef mewn beudy yn awr – i farw'n oruwchnaturiol. Marwolaeth iawnol oedd hyn. Talu iawndal fel Duw yn lle pechod y byd fyddai'u nod. Ganwyd Ef i farw; a bu farw i ninnau fyw. A rhan ddiriaethol o hanes oedd hyn oll. Ail Adda oedd. Yr unig Un yn y byd nad oedd yn haeddu marw. Rhoddwr Gras.

Dros gyfnod y Beibl, wedi'r Cwmp yn awr, ystyr bywyd da i'r wlad fuasai adeiladu cenedl newydd nad oedd o gig a gwaed yn unig, cenedl ysbrydol mwyach. Ond i'r bobl annheilwng hyn nid hawdd oedd derbyn teilyngdod nac arweiniad Un arall. Ond yr oedd a wnelem bellach â chenedl a etifeddodd yn benodol y gwrthryfel naturiol mwyaf erioed yn erbyn Duw, y gwrthryfel cyntaf mewn Hanes. Etifeddwyd hollt. I ateb hyn, cafwyd Israel newydd: yr Eglwys ei hun, yn genedl etholedig: Cenedl y Llyfr, a chenedl y Dyn.

Un math o ddigwyddiad rhyfedd a gafwyd nid yn unig ar hyd ei hanes ym mywyd yr Israel lofruddiol, odinebus, a llwgr gyntaf, ond hefyd ym mywyd a marwolaeth Bugail ifanc yr Israel newydd; a hynny oedd deunydd goruwchnaturiol *gwyर्थiol*. Yn ystod ei oes, gwnaeth y Bugail hwn 35 o *wyrthiau* penodedig a gofwyd. Cofnodwyd un, sef 'Porthi'r pum mil' gan y pedwar efenglydd, ond 10 o'r lleill gan dri efenglydd, a 7 gan ddau. Cyfrifwn y rhai gweladwy a gofnodwyd yn unig, nes ein bod yn tueddu i ystyried 'gweithred afresymol neu groes i natur sy'n weledig' fel diffiniad o'i anian. Ond y gwyर्थiau mwyaf oedd y lleill yn y cefndir, y gwyर्थiau rheolaidd a oedd yn ffrwyth i'w bregethu beunyddiol – achub pobl i'r Deyrnas. Dyma ddigwyddiadau paradocsaid eraill, croes i natur. A ffordd oedd o ddysgu ac esbonio natur oruwchnaturiol yr efengyl. Dysgai inni oll fod yn barod am Hanes y Goruwchnaturiol yn hynt y ddaear, a hynny ar raddfa nad yw'n llawn dderbyniol i'r holl haneswyr *seciwlar* ffwndamentalaidd o lythrennol eu meddylfryd. Yr oedd yn fwy goruwchnaturiol na'r un dyn a fu'n byw erioed. Ni chredodd neb fel hwn nad y 'Naturiol' cwbl amddifad yn unig a gâi fodoli. Ceid paradocsau o lawer math, a'r geni'n wyrth baradocsaid.

Yn wir, pe troem o'r *Hanes paradocsaid* (yn yr adroddiad am ddigwyddiadau) i'r *Athrawiaethau paradocsaid*, fe gaem lawer sy'n ddyfnach yn fynych na'r paradocsau allanol mwy amlwg. Onid paradocs yw ymostyngiad ei hun i ddyrchafu, ac onid paradocs oedd etholedigaeth o fewn rhyddid ysbrydol mawr? Onid paradocs oedd ennill bywyd drwy farwolaeth, a chyfannu drwy ddryllio? Bu hyn oll yn sail i ddigwyddiadau hanesyddol yr un mor rhyfedd yn eu cyflawniad.

Themateg bennaf yr hyn sy'n cwmpasu ac yn cyfansoddi'r Beibl oll yw Mawl Duw byw. Dyna'i Ddeunydd creiddiol. A hyn sy'n dadnaturioli ystyr pob deunydd, gan nad yw iaith ei hun

druan yn medru cwmpasu mawl digonol i ddatgan y **gwir diderfyn am y Duw hwn**. (Dynodaf y term 'mawl' yn y cyd-destun Cristnogol am mai dyna oedd sylfaen a chynnyrch '**dealltwriaeth dda o'r Duwdod**'.) Er mai Hanes diriaethol a gwrthrychol yw asgwrn cefn y Beibl, athrawiaeth a phrofiad ysbrydol yw'r hyn sy'n diffinio'r Beibl yn Feibl. Ni ellir ond pwysleisio o'r herwydd mai ysbrydol drwyddo yw'r Hanes hanfodol.

Y Ddameg a Theyrnas Dduw

Dadleuwn, felly, mai 'Hanes' oedd *llenddull* canolog y Beibl ar y naill ochr. Ond efallai mai'r *llenddull* mwyaf trawiadol a chyffredin a ddefnyddiodd Iesu Grist ei hun wrth *dystiolaethu* ymhlith pobl cefn gwlad oedd y Ddameg. Ac wrth inni ymholi beth yw Deunydd ystyrol y damhegion mynych ganddo – efallai'n rhyfedd iawn inni y gellid casglu, yn arbennig mewn rhai fel 'Yr Efrau a'r Gwenith' a'r 'Heuwr', – mai'r pwnc a'r ddolen sy'n cysylltu'r damhegion i gyd oedd *Teyrnas Dduw* (neu Deyrnas Nefoedd). Dyma a enwir gan Iesu fel priod faes y damhegion. Adrodd hanesion y Deyrnas bob dydd a wnâi. Dyma brif bwnc cyson ei bregethau hefyd. Yr oedd y Deunydd (cymeriadau a phethau) yn y Deyrnas honno yn faterion allanol pob dydd. Bywyd y bobl a bortreadir. Ond yr un mor 'gyffrous' oedd y Deunydd ysbrydol. Yr oedd y geiriau *Teyrnas Dduw* yn ymestyn i danlinellu rhai o'r agweddau pwysicaf ond mwyaf cyffredin ym mywyd a threfn foesol yr Eglwys (neu'r Cristnogion unigol), yn bennaf drwy '**ddidoli**'. Dyma briodoleddau'r sawl sy'n dderbyniol gan Dduw. Dyma adfer ail Eden drwy bregeth. Peth paradocsaidd felly yw Teyrnas Nef, a thystiolaeth am fywyd y deyrnas. Pobl y Deyrnas honno sy'n cael eu neilltuo i fwynhau perthynas Duw a rhannu ei lawenydd ef, a sianelu'r Deyrnas. Gwaetha'r modd, mewn byd pechadurus, y mae sôn am y bobl y mae Crist yn eu derbyn (neu'r rhai sy'n derbyn Crist i'w calonnau) yn golygu fod yna wahaniaethu'n digwydd eisoes. Ac y mae yna baradocs yn y fan hon yn ystyr y Deyrnas. Cymerer 'Dameg y Ddafad Golledig'. '*Nid ewyllys eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd, yw bod un o'r rhai bychain hyn ar goll*' (Math. 18:14). Gall rhai beidio â bod ynnddi. Dyma'r Duw hollalluog yn ewyllysio cadw'r rhain, ac mae'r fath barodrwydd didoledig, y fath daerineb, a llawenydd ganddo, yn wirionedd (Luc 15:7) ac yn rhyfedd. Felly y cynigir efengyl mewn byd hollt.

Mae 'Dameg y Ddau Fab' yn enghraifft glir arall o **ddidoli**. Gyda'r Mab Cyntaf gofynnodd y Gwinllannwr iddo fynd i weithio, a gwrthododd. Yna, aeth ati'n gadarnhaol i weithio. Gofynnodd yr Iesu am yr ail, a ddywedai yr âi, ond nis gwnaeth... Ei ddyfarniad oedd '*rwy'n dweud wrthy ch fod casglwyr trethi a'r puteiniaid yn mynd i mewn i deyrnas Dduw o'ch blaen chwi.*' Clywir condemnio trist a chyferbyniol chwyn yn y fan yna. I'r gwrandawyr ar y pryd, yr oedd yn baradocs sioclyd. Ac felly gyda 'Dameg yr efrau a'r gwenith' (Math 13:24). Yn y fan yna gwelir yn gyntaf hau had da, sef Mab y Dyn ei hun. A phlant y deyrnas sy'n gwneud hyn. Diffinnir y Deyrnas mewn gwrthodiad.

Ond rhwymir yr efrau a'u llosgi. A'r gelyn, y diafol sydd ar waith, a diwedd y byd yw llosgi. Yn yr esboniad i'r ddameg hon, Math. 13:36-43, pwysleisir realiti Uffern. Bwrir i'r ffwrn dân drachefn yn 'Y Rhwyd'. Felly yn 'Y Gŵr Goludog a Lasarus' (Luc 16:19-31). Ceir darlun gerwin o Uffern yn y fan hon, ac y mae'r lleoli a'r darlunio penodol, ac yn arbennig yr enwi ar gymeriadau, yn bywydu'r difrifoldeb yno. Hyn sy'n diffinio Teyrnas Nef. Mae Iesu'n ei gymharu'i hun â Moses a'r proffwydi. Yn unigryw ymhlith y damhegion, dyma un lle y mae'n enwi cymeriadau stori (Hanes efallai?) – Abraham a Lasarus. Erfynia'r gŵr goludog am gael dychwelyd i fywyd i roi disgrifiad fel rhybudd i'w frodyr. Rhaid cyfaddef fod yna duedd ryfedd ac ofnadwy gan Grist i '*ddeunyddio* ei athrawiaeth' am Deyrnas Dduw, hynny yw i sianelu'i athrawiaeth mewn pobl a digwyddiadau. **Didoledig yw: hyn yw prif nodwedd y Damhegion a'r Deyrnas fel y'u darluniwyd. Dyma ddirfodi Teyrnas o fewn amgyffrediad gwahanus dyn.**

Yr hyn sy'n baradocsaidd yn hyn oll felly yw bod yna *gymaint* o sôn yn Namhegion Teyrnas Nef am uffern a'r poenydwyr (e.e. Gwas anfaddeugar – y Talentau), er mai Teyrnas Dduw yw canol y thema. Y rheswm am y sôn yw cariad, bid siŵr, taerineb trist, dweud y gwir mewn pryd, cyferbynnu y syrthio â'r sefyll (e.e. Y Ddau Dŷ), er mwyn pwysleisio bod y syrthio (Math. 8:27) yn bod. Mae 'bod yn barod' – didoli mewn amser – mor hanfodol, fel y byddai'r 'Deg Morwyn' (Math. 25:1-13) yn brydlon i'r amser annisgwyl i gyfarfod â'r priodfab, yn barod i'r 'Swper Mawr' (Luc 14: 15-24) a'r 'Wledd Briodas' (Math. 22:8) – '*Y mae'r wledd briodas yn barod, ond nid oedd y gwahoddedigion yn barod.*' Mae didoli (a'r gwrthod felly) yn weithred o negyddu yn y cadarnhad.

Yn y rhybudd, clywir taerineb gan ambell un o'r cymeriadau: e.e. yn y lleiaf o'r damhegion ('Perl Gwerthfawr'), nad yw yn frawddeg o ran hyd: a '*aeth i ffwrdd a gwerthu'r cwbl oedd ganddo a'i brynu*', (Math. 13:45-46) a'r 'Wledd Briodas' a'r 'Trysor Cuddiedig' ('*un o'r rhai lleiaf*' eto: Math. 13:44). Ond taerineb pentyrrol Iesu Grist ei hun yw hyn. Clywir hiraeth yr Un a hiraethodd fwy na neb erioed ar y ddaear. **Cynnyrch galar eithafol yw'r Damhegion, er mwyn cyfleu mewn pryd Deyrnas Dduw â thrylwyredd.** Eto, mor chwithig o baradocsaidd yw'r llenddull arbennig yn nwylo Iesu. Wedi'r Esgyniad, ar ôl cyfnod y rhybuddio, yn Efengyl y Datguddiad, gogoniant biau'r lle.

Llenddull hollol ddieithrol naturiol o ran adeiledd oedd ffurf y ddameg, o'i chymharu dyweder â'r Ach. Meddai Evan J. George: 'Ystyr wreiddiol dameg yw gosod ochr yn ochr, cymharu. Roedd i ddameg bwrpas deublyg: datguddio a chelu. Dibynnai'r effaith ar gyflwr ysbrydol y gwrandawr. Ie, cyflwr y galon, nid gallu a chyraeddiadau meddyliol sy'n cyfrif. Mae'r eglureb sy'n ffenestr i un yn fur tywyll i arall.' Chwaer i'r Ddeddf yw'r Ddameg.

Mae'r rheswm a roddir gan Iesu ar gyfer 'Dameg yr Heuwr' (Luc 13:3-9;18-23) i esbonio natur dywyll damhegion, ei hun yn dywyll i lawer: 'tywyll' yn yr ystyr 'dyrys', a 'thywyll' yn yr ystyr

'trist'. Mae a wnelo Crist â sawl math o berson neu o gyflwr.

Ceid gwahanol fathau o ddiidoli ac o gynulleidfa yn gwranddo ar yr esboniad hwn: (1) y grŵp o ddeuddeg disgybl, a rhai benywod, a dilynwyr eraill o bosibl. Clywent hwy'r ddysgeidiaeth yn weddol lawn, gan gynnwys y broffwydoliaeth am ei ddiodefaint, ei farwolaeth, ei atgyfodiad, a llawer am ddirgelion Teyrnas Nefoedd. Ymatebent yn wahanol. Mae rhai'n etholedigion aeddfed, ac yn derbyn hyn gyda llawenydd: sicrwydd. (2) Gall eraill (Phariseaid) fethu â derbyn gras, ond tybied eu bod wedi gwneud 'digon'. Gall eraill eto fod ar goll, ond yn hiraethu am gael eu derbyn. Mae'r gweld dynol yn dibynnu gymaint ar y golau neu ar y peidio yn y galon.

Wrth ymdrin â Math. 13:10-17, dywed Gwilym Ll. Humphreys am y Phariseaid deddfol eu bod wedi gweld a chlywed pethau mawr, a dewis cau eu llygaid a'u clustiau (ad.17). '*Oherwydd hyn daeth proffwydoliaeth Eiseia* (ad. 14) *yn wir amdanynt.*'

Yr oedd dameg yn fwy na 'dysgu gwirionedd ar ffurf stori sy'n ei wneud yn haws i'w ddeall, yn fwy diddorol ac yn fwy cofiadwy.' Eto, medd G.Ll. Humphreys ymhellach: 'Mae'n amlwg oddi wrth gwestiwn y disgyblion yn adnod 10 eu bod hwy yn credu bod llefaru drwy ddamhegion yn dueddol i guddio'r gwirionedd, nid ei egluro. Llefaru dychymyg, *speaking in riddles*, oedd hyn. 'Paham na lefari di yn eglur?' yw eu gofyniad, mewn gwirionedd. Mae ateb yr Iesu yn adnod 11 a 12 yn ein synnu efallai. Mae'r dull yn briodol fuddiol i'r disgyblion (er nad bob amser ar unwaith) gan eu bod eisoes yn gwybod rhywbeth am ddirgelion Teyrnas Nefoedd, a chan ei fod yn ychwanegu rhywfaint at eu gwybodaeth.' Roedd yn estyn ac yn straenio – meddyliau a'u hysbrydoedd. Rhaid oedd addysgu cnewyllyn arbenigol. Adeiladai drwch o feddwl yn ymwybod y disgyblion. Ond ar yr un pryd mae'r ffordd hon o ddysgu yn cuddio'r gwirionedd rhag y rhai digred – hynny yw, y rhai ni fynnent gredu ynddo – ac yn cyfrannu at eu colledigaeth: '*oddi arno ef y dygir, ie, yr hyn sydd ganddo.*' Gwedd adeiladol mewn dyfnhau addysg i ychydig o'r disgyblion oedd prif nod llawer o'r damhegion. Rhan o strwythur y berthynas ragluniol oedd.

Mor baradocsaidd, ac eto, mor wir. Gymaint mwy na stori gyffredin oedd dameg, gan mai'r testun cyson yr oedd eu Harglwydd yn ei forthwylio i mewn i feddwl oedd Teyrnas Oruwchnaturiol dro ar ôl tro. **Seminar fu'r damhegion am deyrnas ddidoledig.**

Themateg y Deyrnas yn Ddeunydd

Yr wyf am geisio gosod prif themateg y Damhegion o fewn cyd-destun gweinidogaeth gyflawn yr Arglwydd. Ac awgrymaf mai **Teyrnas Dduw yn ei chyflawnder yw'r holl weinidogaeth.** Nid Teyrnas Gymedrol a Chyfaddawdus oedd. Dyma'r ddolen gydiol, o Faniffesto Galilea ar drothwy'r 'yrfa addysgu' hyd y Geiriau Olaf ar y Groes. Cymorth i mi fu sylwadau F.F.

Bruce yn ei gyfrol *The New Testament Documents – Are they reliable?*, 1959, lle y mae'n dosbarthu dywediadau a naratif gweinidogaeth Iesu Grist yn Efengyl Mathew yn ôl pum disgwrs mawr: (a) Cyfraith Teyrnas Dduw (penodau v i vii), (b) Pregethu'r Deyrnas (x. 5-42), (c) Twf y Deyrnas (xiii. 3-52), (ch) Cymdeithas y Deyrnas (xviii), (d) Cyflawniad y Deyrnas (xxxiv-xxv). **Dyma gylch crwn o gynnal Thema'r Deyrnas yn brif faich i weinidogaeth gyfoethocaf pregethu'r byd.**

Blaenorir hyn oll gan 'brolog' am Febyd y Brenin (i-iv), megis y ceir 'epilog' yn adrodd yn gryno am Febyd y Brenin (i-iv), a cheir epilog neu glo yn adrodd Dioddefaint (gan gynnwys Escatoleg) a Buddugoliaeth y Brenin (xxvi-xxviii). Awgryma Bruce fod strwythur pumplyg yr Efengyl (a – d) wedi'i fodolu ar strwythur pumplyg Deddf yr Hen Destament. Os yw'r disgrifiad damcaniaethol hwnnw'n gywir, dyma ddisgrifiad o weinidogaethu thematig yng nghalon y Beibl, sy'n ymestyn yn gyson drwy gydol fframwaith Cristnogaeth. Dyma strwythur sefydlu'r Deyrnas.

Yn y bylchau rhwng pum pen thematig y Deyrnas yn nisgyrsau Iesu Grist, ceir naratif am ei iacháu a'i wyrthiau, wedi'u dilyn gan ei gyfnod olaf. Dyma ddadansoddiad arwyddocaol cryno o gynnwys fframwaith Mathew.

Yr un pryd, gellid rhannu'r arolwg o'i weinidogaeth yn ddeublyg yn ôl lleoliad: y cyfnod cyntaf yng Ngalyilea a'r ail gyfnod yn Jwda (tua Jerwsalem) a'r uchafbwynt yno. At ei gilydd, ceir rhan gyntaf sy'n adlewyrchu'r derbyniad cadarnhaol iddo, a'r ail ran yn negyddol gyda gwrthodiad. Mae'r rhaniad hwn hefyd yn rhaniad arddull, gyda sgysio cymdeithasol â'r bobl gyffredin yn ildio gerbron dadleuon â'r arweinwyr crefyddol ynghyd â sgysiau agos gyda'i ddisgyblion.

Sut y mae amlinelliad o'r math hwn, yn ddwy wedd, yn cyfateb i'r ddwy wedd ar raglen waith yr Arglwydd fel y'i hamlinellwyd ganddo'n gynnar yn y Synagog wrth gyhoeddi dyfodol ei genadwri? Mae'n werth oedi i ddadansoddi ychydig ar Faniffesto Galilea. Dyma'r hyn a ddatganodd Iesu ar ddechrau'i weinidogaeth am ei fwriadau a'i raglen waith. Fe'i gwelaf yn **ddeuol Feseianaid yn yr Efengylau Synoptig:** [I.] Marc 1:15. *'Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae Teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl.'* (cf. Math. 4:17). Sylwer ar y pwyslais eto ar y disgrifiad 'Teyrnas Dduw'. Dyma'r estyniad i weinidogaeth Ioan Fedyddiwr. [II.] Ceir yr estyniad i hynny ymhellach yn Luc 4:18-19, *'i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.'* A derbyn mai 'tlodion yn yr Ysbryd' yn ogystal â 'tlodion corfforol' y cyfeirir atynt, dyma grynhoi baich y weinidogaeth a arweiniai'r Iesu at ei dlodi eithaf ei hunan ar y Groes. Hynny yw, dyma'i gyflwyno'i hun fel yr ymgnawdolwyd ei Berson ef ar y ddaear, yr Un a welsom ni. Mewn geiriau eraill: *cyhoeddi*, fel adeiladu Teml, *Ffydd* Teyrnas Dduw a rydd; Teyrnas gyflawn i *obeithio* amdani; a *Gweithredoedd iachâd a rhyddhad* sy'n

dilyn mewn cymdeithas achubedig fel y gwelid hwy yn y gwyrthiau a'r gweithredoedd eraill yn trigo yn y 'naratif', hwythau hefyd yn adlewyrchiad ar *iechyd y Deyrnas*.

Hoff bwnc Iesu yn ei ddamhegion, felly, oedd Teyrnas Dduw (Luc 8:1). A gweddus yw inni ystyried sut y mae honno'n ddolen gydiol neu'n thema unol i'r damhegion. Weithiau, maent yn cynnwys rhybudd a bygythiad ymddangosiadol negyddol ynghylch y gwirionedd. **Rhybuddiwr mawr Uffern oedd Iesu. Galwaf hyn yn 'ddidoli'**. Diau y byddai rhai gweinidogion o'r cyfnod diweddar yn gwgu ar y fath ddatguddiad difrif lle y ceid rhybuddion negyddol yn ogystal â gogoniant cadarnhaol. Mae'r datguddiad o natur Uffern iddynt hwy yn dramgwydd sy'n gwahanu awdurdod y Beibl. Y darnau credadwy a'r darnau na ddymunir eu credu. Onid aeth yn arferiad mewn angladdau i gladdu pawb ym Mharadwys? Ceisid ysgafnhau'r amlygrwydd a roid i'r gosb eithaf yn y pwll. 'Dim ond Symbol' (medd rhai) oedd y pwll o dân, mae'n debyg, dim ond gwedd ar y fflagu tragwyddol cefndirol cymedrol mewn tân siafins. Eto, mae gennym oll ffrindiau a pherthnasau mewn perygl. Anwyliaid y teimlwn eu hangen i glywed 'caredigrwydd' (sef dweud y gwir) yn symbol o ddifrifoldeb dwys maint a min y golled derfynol. Ond byddai credu'r symbol hwnnw o ddifri ac yn wir garedig yn golygu dealltwriaeth o ddiodef hyd yr eithaf ym mhob cornel o'u bodolaeth. Mae eu cyflwr yn rhy wir, gwae ni, a pharhasom ni weithiau i'w hwynebu heb inni alaru. Os profwn y symbol sut bynnag mewn parhad crediniol byw, gallwn brofi peth o'r hyn a ganfu Moses yntau ar ôl disgyn gyda'r gyfraith a'i chynnig i lu o'i genedl a oedd yn mynd i golledigaeth dragwyddol (Exodus 32:32; Rhuf. 9:1-5). Drwy ganfod y panorama geiriol gwir hwn, dysgwn o leiaf y byddai ein cynnig ni ein hun yn eu lle yn gwbl annigonol. Pechadur, wrth gwrs, oedd Moses, megis y pechadur Paul a'i edifeirwch wrth annog a chefnogi llofruddiaeth Steffan. Ofer fuasai i bechaduriaid o'r fath roi'u bywyd yn lle eu ffrindiau: annigonol oedd pobun ond yr Oen difefl ar yr allor. Drwy fyfyrdod a gwranddo, os teimlwn awydd i wneud rhywbeth hyd at alar cariad, tybed a allwn ymuno â rhengoedd cydymdeimladol sydd o ddifri'n hiraethu am i'w ffrindiau sylweddoli'r rhybudd ynghylch yr anghenus, oherwydd bod y ffordd honno yn hysbys i ninnau? Oni theimlwn ymosodiad y fath ddamhegion sy'n darlunio hyn? A yw'n serchiadau'n cynnau ynom wrth glywed am yr hen afon? Am Lasarus? A'r ddafad golledig? Nid storïau plant oedd y rhain.

Ni all neb lwyr ddychmygu dwyster damhegion Iesu. Gwyddai ef mai bod ar wahân i Dduw – a theimlo hynny – oedd calon enbyd Uffern. Gwyddai hefyd ofnadwyaeth erchyll y fath gyflwr, ac yr oedd ei gariad yn gwaedu dros ddiwedd pechaduriaid. Adwaenai ef yn lân eithafrwydd y fath gosb. Wylai dros ddallineb ei wrandawyr. I glirio hynny y daeth i'r byd yn ein lle: yr Un hardd yn lle ffyliaid aflan, i gario holl feiau'r byd ar ei gefn pur. Er bod yr Arglwydd yn hawlio mai prif destun y Damhegion oedd Teyrnas Nefoedd neu Deyrnas Dduw, **mae yna bob amser diddoli yn y Gwaed**. Mae yna yn y byd hwn gysgod o rybudd erchyll ar bwys y ffaith honno. Testun gorfoleddus yn

ogystal wrth gwrs; ond rhan anhepgor ohoni tra bôm ar y ddaear yw sôn am wirionedd didoli Pechod, Marwolaeth, ac Uffern. Mae'r rhybudd yn sobr ac yn gariadus. A hynny wrth ddisgrifio Teyrnas Dduw! Iesu'i hun, nid y symbolau o wŷn (tybiedig ddi-nam), oedd y Deyrnas.

Teyrnas Uffern, ie, ond mor agos at Nefoedd. Mor erchyll yw symlder didoli yng ngoleuni'r Ddeddf. Mor rhyfedd o agos yw'r Goruwchnaturiol. Mor rhyfedd o bell. Mor baradocsaidd!

Bu beirniaid neu ieithyddion o bryd i'w gilydd yn ceisio dosbarthu'r mathau neu deipiau o droadau sydd i'w cael gan lenorion unigol a ddarllenant. **Troadau cyferbyniol yw'r didoli deunyddiol hwn a geir gan Iesu, yn syml, megis y bach a'r mawr, y glân a'r brwnt, y colledig a'r achubedig.** A'r paradocsaidd hwn sydd yn eu huno: gofyn Iesu: *'I beth y mae teyrnas Dduw yn debyg ac i ba beth y cyffelybaf hi? Y mae'n debyg i hedyn mwstard'* (Luc 13:18-19). Dyna leddfur' braw â'r bach sy'n cynorthwyo gweld hyd yr eithaf. Mae hyn bron yn chwerthinllyd. Mae'n siŵr gen i fod yr eithafion o wahaniaeth i'r mawrdra disgwylidig i fod i siocio'r bobl. Ond dyma Ddeunydd ysgytiol i'r meddwl. Ac y mae'r math paradocsaidd hwn o gyferbyniad ymddangosiadol wirion a rhyfedd yn digwydd dro ar ôl tro. Yr ydym i fod i sylweddoli mai testun y Ddameg hon yw Teyrnas Dduw yn benodol. Sylwer ar Luc 8:1,4,5,9-10, *'Wedi hynny bu ef yn teithio trwy dref a phentref gan bregethu a chyhoeddi'r newydd da am deyrnas Dduw ... Dywedodd ef ar ddameg: "Aeth heuwr allan i hau ..." Gofynnodd ei ddisgyblion iddo beth oedd ystyr y ddameg hon. Meddai ef, "I chwi y mae gwybod cyfrinachau teyrnas Dduw wedi ei roi, ond i bawb arall y maent ar ddamhegion, fel*

'er edrych na welant,

ac er clywed, na ddeallant.'"

"Dyna ystyr y ddameg. Yr had yw gair Duw..."

Yn y dyfyniad a rydd ef yn y fan hon, o Eiseia 6:9, y mae hi bron fel pe bai'n ei guddio rhag rhai, ac yn ei ddatguddio i rai eraill, ei ddisgyblion (Luc 8:1). Ac i raddau, **mae'n wir ei fod wedi ethol neu ddidoli rhai i fod yn ddisgyblion arbennig iawn, yn apostolion, 'ynghyd â rhai gwragedd.'** Y rhain a gâi hyfforddiant am ei farwolaeth a'i atgyfodiad, am yr erledigaeth erchyll, am ddyfodiad yr Ysbryd Glân yn y Pentecost, am Gwypm Rhufain, gwasgariad yr Iddewon a llawer o fanylion ar gyfer y dewisol rai. Caent eu hyfforddi'n arbenigol gyfrifol ganddo am resymau eraill, megis i'w cysuro, drwy esbonio mewn paradocs chwyldroadol am y Deyrnas – am fod y lleiaf yn gallu bod yn fwyaf yn y Deyrnas honno, a'r bach yn gallu bod yn fawr. Caed tipyn o sialens i ddynoliaeth falch yn barhaol, ond diddanwch iddynt hefyd mewn dyddiau dreng. A hynny mewn didoli. **Diffinio yw didoli, gwahuno; tanlinellu gwahaniaethau, o fewn cyd-destun cosmig. Na'n twyller ein hunain fod yr hanesion bychain hyn yn storïau difyr i blant yn unig.**

*

*

*

Gwelwn felly mai dwy o'r ffurfiau neu'r troadau ystyrol mwyaf cyffredin a ddefnyddid gan

Awdur y Beibl oedd y paradocs a'r trosiad, a hynny o fewn amgylchfyd o wahaniaethu a chyferbynnu. Fe'u ceid mewn Hanes ei hun, mewn Athrawiaeth, ac mewn Storiâu, heblaw'r trosiadau a ffigurau mewn arddull: roeddent yn cerflunio'r deunydd, gan docio mawrdra grym y bydolwyr di-liw. Ceid tocio meddwl, a thocio gweithred. Caed symlder.

Mewn Dysgeidiaeth, gwelwn hoffter cyson Iesu o'r dyfeisiau hyn. Ac yn ei Ddamhegion cafwyd un gadwyn thematig, y **grŵp mwyaf niferus a chyfansawdd ymddangosiadol o drafodaethau trosiadol ar ystyr y bywyd Cristnogol**. Gellid yn wir ddadlau mai trosiadau rhyfedd o Deyrnas Nefoedd oedd y cwbl bron o'r Damhegion, gan gynnwys y rhai hynny lle na ddefnyddid y term hwnnw. Yn wir, ceir 'Damhegion' digydnabod â label felly, mewn disgrifiadau megis 'halen y ddaear' a 'goleuni'r byd' (Math. 5:13-16).

Mae yna le blaenllaw i lenddull y Ddameg mewn tair o'r Efengylau. Eto, ni thraddodir yr un Ddameg yn Efengyl Ioan. Pedair Dameg yn unig a ail-gofnodwyd ym mhob un o'r tair efengyl synoptig, sef Halen a Goleuni (Math. 5:13-16; Marc 9:50; Luc 4:34-35); yr Heuwr (Math. 13:3-9; Marc 4:1-20; Luc 8:5-15); yr Had Mwstard (Math. 13:31-32; Marc 4:30-32; Luc 13:18-19); a'r Llafurwyr Drwg (Math. 21:33-46; Marc 12:1-12; Luc 20:9-19). Ac y mae a wnelo tair o'r pedair hyn â thyfiant cynhaeaf allanol a mewnol. Amgylchfyd pob dydd a oedd ganddynt. Yr oeddent oll yn gartrefol yng nghefn gwlad. Nid concwest allanol a materol drawiadol yn unig oedd y Deyrnas hon. Peidio â chuddio oedd: dweud y Gwir wrth bobl, achubiaeth drwy rybuddio.

Arbenigrwydd Math. 13:13 yw bod Iesu'n egluro yno bwrpas paradocsaidd, *'Yr wyf yn siarad wrthynt ar ddamhegion; oherwydd er iddynt edrych, nid ydynt yn gweld, ac er iddynt wrando, nid ydynt yn clywed, nac yn deall.'*

Ni rydd ef lonydd i'r meddwl diog. Hyfforddi ei bobl yr oedd mewn meddwl. Weithiau ceir ysgogi ysbrydoedd diog, o fwriad.

Un peth sy'n gyffredin i bob un o Ddamhegion Teyrnas Dduw fel ei gilydd yw, yng ngoleuni person Iesu Grist ei hun, fod y sawl sy'n deall y damhegion hefyd wedi canfod rhyfeddod yr isel sy'n uchel. Storiâu pitw bach oedd y Damhegion, ar yr olwg gyntaf, a oedd yn cynnwys gwirioneddau epig, ac efallai adroddiadau hanesyddol o rai digwyddiadau go iawn, yn y newyddion. Yr oedd yr Iddewon yn disgwyl Meseia o Waredwr Rhyfelgar, Brenin buddugoliaethus arfog a fyddai'n bwrw'r Rhufeiniaid i'r Môr, Cawr o Arweinydd Politicaidd i ryddhau'r genedl, ar gyfer sefydlu Teyrnas Newydd Gref. Hyn oedd y newyddion a geisient. Ond 'tamaid' o dangnefeddwr ysbrydol o Nasareth oedd yr un a ddaeth. Yr oedd ef ei hun yn baradocs. Ac yr oedd y Deyrnas (neu'r Eglwys) a ffurfiwyd ganddo'n ddaearol yn ei ddelweddu yn ymddangos yn dila iddynt, a'r rhyfela yr ymwnâi ag ef yn bitw fewnol. Eto, o glywed y Damhegion hyn y ddi

darganfod y gwirionedd o fewn cyrraedd pawb. Bu hyn yn dramgwydd er ei fod yn adeiladu'r disgyblion yn benodol ac yn caniatáu deall y peth sylfaenol yn yr efengyl. Drwy glywed y troadau a'r paradocsau hyn y goleuid hwy. Drwy'u cynnal yn thematig y'u troid.

Damhegion oedd y Gwyrthiau hwythau hefyd, mewn ffordd, yn datgan gwers trugaredd a gallu Duw ar waith. Eto, y mae pob troad yn baradocs: paradocs troadol bywyd y Cristion.

Mor werthfawr yw egwyddor Damhegion Iesu Grist (y 30 ohonynt) wrth ystyried natur y llythrennol a'r troadol.

Roedd yna ddwy nodwedd arwyddocaol ynghylch yr awdurdod a oedd iddynt. Yn gyntaf oll, nid oeddent *o raid* yn llythrennol 'wir'. Eto, er nad oedd rhai'n storïau wedi digwydd mae'n bosibl yn ôl y llythyren, arhosit yn gwbl awdurdodol yn ôl yr holl angen a oedd amdanynt: am eu Gwirionedd. Mae gennyf gyfaill sy'n ddilynwr ffyddlon i gyfres boblogaidd 'Storïau Gwir' ar Deledu Americanaidd. Storïau domestig a charu digon cyffrous yw'r 'Gwir hwnnw'; ond yr ebychiad a glywaf ganddo ef ar y diwedd yn fynych yw, 'A meddwl eu bod nhw'n wir!' Hynny yw, roedd y ffaith eu bod wedi digwydd yn go iawn yn rhyw fath o ernes o fwynhad, cyffro, a chadernid geirwiredd ychwanegol. Nid felly storïau Iesu, o raid, na llawer o naratif y byd. Eto, wrth gwrs, yr oeddent *yr un mor wir*; bob sill, er yn chwedlonol yn ôl yr angen a geid amdanynt, a'r geirwiredd trosiadol i fywyd naturiol a goruwchnaturiol a oedd yn sail iddynt. Felly y mae hi gyda llenyddiaeth. Nid oedd y ffaith mai troad a 'ffuglen' oeddent yn eu dibrisio o gwbl. Ffurf arall ar *wirionedd* oedd y naill a'r llall. Ni fwriedir i bob stori dda fod yn ddrych llythrennol. Dieithrwch fel arfer i ambell leygwr ym maes beirniadaeth lenyddol yw **sylweddoli bod Gwirionedd yn bosibl drwy gyfrwng 'dychymyg' mewn llenyddiaeth.**

Ond yn bwysicach na hynny, ail nodwedd i'r Damhegion oedd eu bod yn naratif allanol a 'naturiol' *am ddigwyddiadau gweledig* (nid yn athrawiaethu diddigwyddiad), eithr yn ddieithriad yn gyson ymarferol ysbrydol. Dyma'r math o ddysgeidiaeth a oedd yn gyffredin ganddo. Nid traethu athroniaeth yn grai ac yn amlwg a wnaent. Gweithient efallai ar ddau wastad, yn yr ysbrydol yn 'llythrennol', ac yn anuniongyrchol neu'n 'droadol' yn y personau a ddarlunnid yn uniongyrchol megis Hanes. Yr anuniongyrchol oedd biau hi, yn ddiau, mewn stori. Dyna'r Naturiol wedi'i ddadnaturioli ychydig, a'i wrthnaturioli yn y broses. Ac anuniongyrchol yw cymaint o Hanes a dysgeidiaeth y Beibl; eithr uniongyrchol hefyd yn fynych. Mae'n ein cael ym mhob ffordd.

Ni fernid y damhegion gan y gynulleidfa yn ôl eu gwerth 'llynyddol' chwaith, o leiaf yn bennaf. Bwriadwyd hwy, ac felly yr oeddent yn cael eu deall, yn ôl eu pwrpas a'u gwerth ysbrydol. Pethau felly, a oedd yn fwy na 'llynyddiaeth' ar ryw olwg.

Dyna, o'r herwydd, gyferbynnu'r llythrennol a'r troadol, ie o ran gwerth, yn naturiol lafar, gan wrthod y gwerth llythrennol fel petai. Nid oedd y dewis rhwng yr hanesyddol lythrennol a'r

troadol yn arwyddocaol weithiau: rhaid cofio hyn yn y cefndir, bob amser, pryd bynnag y ceisir barnu'n negyddol y troadol mewn damhegion. Gallent felly fod yn ffrwyth dilys o'r dychymyg a batrymwyd ar y llythrennol. Mae hyn hefyd yn baradocs beirniadol, oherwydd y mae fel petai'n groes i gynllun y Gwirionedd sydd mewn Iaith. Ni leihâi'r anllythrenolrwydd ffeithiol hanesyddol eu gwerth. **Gwir llenyddol oeddent.** Nid ymdrechai'r Awdur i fathu cymeriadau dwyn-sylw llenyddol neu ffansiol. Bid siŵr, yn ôl natur a chraidd iaith arferol, yn ddiriaethol, dafad ar goll oedd dafad golledig, nid dyn; ffigysbren heb ffrwyth oedd ffigysbren diffwrwyth mewn digwyddiad hanesyddol a gwrth a dameg drannoeth, nid cenedl na pherson; hedyn mwstard nid teyrnas nef oedd hedyn mwstard – er mai dyna ydoedd bob un hefyd. Ond trônt oll ym mhridd y calonnau. Adwaenwn hwy mewn pobl a sefyllfaoedd. Mor gudd yw'r gwir am gynifer ohonom. Ac wrth gwrs, mae'r prolog, "Rhyw ŵr a aeth i waered i Jerwsalem ..." yn swnio fel adroddiad hanesyddol.

Deddf: Cynnwys Mawl

Symudwn, oddi wrth ffurf y Ddameg, at ffurf (a llenddull) y Ddeddf; a llenyddiaeth y Ddeddf.

Symudasom eisoes ym myd llenddulliau oddi wrth archwilio Deunydd mewn Hanes at Ddeunydd a Themateg Damhegion, ac oddi wrth ddiddanwch y stori tuag at fyd egwyddor a gwerslun haniaethol. Eto, gall Deddf ddarparu thema ar gyfer Dameg. Mae'r llenddulliau'n gwau drwy'i gilydd. Bellach, down at Ddeunydd a ffurf sy'n asgwrn cefn i'r Beibl oll yn y bôn, sef Deddf Duw.

Lle da i ddechrau trafod cynnwys 'Deddf' ysbrydol, sy'n fater mor ganolog i Israel ac i fywyd y byd, fyddai ystyried ffenomen 'Cyfamod'. **I mi, y mae 'Cyfamod' yn fath o sylfaen a diben i Ddeddf Gristnogol. Mae'n fath o athrawiaeth i'r Ddeddf.**

Ond sonnir am ddau Gyfamod rhwng Duw a dyn, yng nghyd-destun y Beibl. Y mae hyn yn fwy na deuoliaeth yn unig, pegwn yr Hen Adda a phegwn Adda Newydd (neu Ail Adda) yn ymestyn ar draws yr Ysgrythur. Yn achos yr Hen un, ceid rhywbeth tebyg i ddau Gyfamod, i ddyn rhwng Duw a'r Adda cyntaf ei hun, un cyn y Cwmp ac un wedyn. **Cyn y Cwmp ceid math o ddealltwriaeth bersonol rhwng Duw a dyn ynglŷn â'u perthynas. Câi Adda yno bopeth yn rhad ac am ddim – stiwardio'r ddaear, rheidrwydd gwynfyd, trefn a ffrwythlondeb, cariad Duw, bywyd am byth, heb salwch byth, yn rhodd oll gan Dduw, ond ar un amod hollol dila. Trefn yn Eden: *derbyn deddf*. Dyna Ras Duw, *Gras Cyffredin*. Dyna drefn gynnes i gynnal y greadigaeth. Ond gyda dyfodiad pechod rhaid cael amod *Gras Arbennig*, a Chyfamod gwahanol. Bellach, *deddf mewn cariad o fath adferol* yw Cyfamod. A dyna drefn y Testament Newydd.**

Beth oedd dyletswydd dyn? Derbyniai yn gyntaf o fewn cariad Duw, drefn dibyniad ac ufudd-dod. Derbyniai reidrwydd trefn foesol a chorfforol ac ysbrydol. Hynny yw, derbyniai yn gynnwys drefn seml elfennaidd ar gyfer byw a byd 'normal'. Caed, y tu ôl i'w angen, 'ddeddfau bodoli': fframwaith bodoli. Ond gallai dyn ufuddhau o'r galon i'r rhain. Ymhlith y gofynion angenrheidiol hyn, yr oedd stiwardio'n golygu cydymffurfio â'r **Gorchymyn Diwylliannol** 'Ffrwythwch ac Amlhewch' a amgylchai'r ddaear. Dyma fwynhad hefyd. Rhan oedd hyn o'r Drefn gydnabyddedig, ac yn sylfaenol yr oedd yn ymwneud â pherthynas â Duw.

Yr oedd perthynas lwyr â Duw, megis llinyn bywyd, yn golygu caru mawr.

Sylwer felly. Pan fyddwn yn synied am 'Ddeddf' yn wreiddiol, yr ydym yn gallu cynnwys pethau a phobl: mae 'bywyd' yn mynd ymhellach ac yn gyd-bresennol weithredol yn y gair 'Cyfamod', rhwng Duw a'r Greadigaeth a rhwng Duw a dyn.

Yn achos y Greadigaeth, yn gynnwys, gosodwyd mewn gweithred seml symbolaidd, hollol ddibwys, mae'n wir, arwydd o ymrwymiad ufudd-dod. Mewn pren. Ac eto, anufuddhawyd, a thorrwyd **Cyfamod y Drefn** honno: Cyfamod y Prawf. Drylliwyd patrwm y berthynas seml berffaith. Collwyd perthynas a oedd heb ddrwg a heb drais. Ac eto, dyna hanfod sefydlu pechod cychwynnol, a marwolaeth y berthynas ddelfrydol. Dyma ddryllio hanfod deddf y Greadigaeth hefyd: datod cydymffurfio â Chyfiawnder neu Drefn Duw. Llygrwyd harddwch y Greadigaeth o'r brig i'r bôn oherwydd colli gan Adda gyflwr priodol stiward a brenin y ddaear. Bradychwyd Duw trefn. Nid oedd dyn mwyach yn ateb **yr alwad greadigaethol**. Dyna ddiwedd felly ar y Cyfamod Cyntaf. Peth bach oedd? Ond a oedd peth mwy i'w gael na dryllio perthynas a chynghanedd â Duw?

Ni bu Duw fawr o dro cyn sylfaenu Cyfamod Newydd. Cyfamod yn awr oedd i bechadur sy'n marw. Cyfamod Cariad ato. Dyma ail Gyfamod a oedd yn well na'r Cyfamod Cyntaf. **Cyfamod Gwaredigol** oedd eiddo Duw. Ar bren. Drwy 'droad' rhyfedd, y mae Duw yn melltithio'r sarff (gyffredinol) a fu'n gyfrwng i Adda briodi anufudd-dod, ac yna mae'n cynnig Meseia: 'bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'i sawdl ef.' A ydym yn aros i ystyried am foment natur ryfedd y geiriau hyn? Pam y mae Duw yn defnyddio geiriau troadol mor anarferol yn ei leferydd? Pam nad yw'n siarad yn rhyddieithol ddiddieithr fel ni?

Ateb y cwestiynau hynny yw un pwrpas i hyn o gyfrol. Yr oedd yr achlysur cynnar ei hun mor bwysig. Yr oedd a wnelo â phresenoldeb yn Ei Greadigaeth gan Dduw (ac â'i wahaniad). Digwyddai rhyfeddod. Yr oedd am gerfio egwyddor trefn ar gydwybod dyn. Er y bydd dyn yn marw'n gorfforol ac yn dychwelyd i'r ddaear o'r lle y daeth, câi fywyd newydd o ddieithr am byth drwy Grist. Drwy ffydd yn yr addewid yna a'r Crist yna, defnyddiai Ras Arbennig, anghwmpadwy, yn ychwanegol at y Gras Cyffredin gweddilliol. Gras oedd Gras Arbennig newydd mwyach yn dod i ganol bywyd dyn i'w ddidoli a'i droi. Câi ef aileni drwy ffydd a chymorth yr Ysbryd i sancteiddhad

mewn tröedigaeth neu droad. Yn lle Gras Cyffredin Cyfamod y Drefn, ceir Gras Arbennig (a chadw a gweddnewid Gras Cyffredin) y Cyfamod Gwaredigol. Yn lle'r drefn gyferbyniol ynghynt, ceid trefn seml yn awr: Ffydd heb weithredoedd nas ceir heb weithredoedd. Diriaethir egwyddorion. Ond eisoes ar ôl y Cwmp y mae Cariad anfeidrol Duw yn amlwg. Symudwn at gyfnod newydd yn awr. Datblygir y berthynas hon i oes newydd y Ddeddf a'r rheoliadau helpfawr. O fewn fframwaith pechod bellach, y mae Duw yn amlinellu ffordd. Mae'r cyferbynnu, a'r datblygu, yn golygu nawr fanylu, helaethu a dehongli. Oherwydd byddai Un yn dod atynt a goncrai'r Sarff.

Peth personol oedd calon y Ddeddf rhwng dau, eu Cyfamod Newydd. Peth annwyl oedd Cyfamod. Teyrngarwch i Dduw oedd ysbryd Deddf: fe'i llanwyd ag ufudd-dod y bobl a chariad y Mab mewn perthynas gariadus.

Ond arhosai'r weithred o Gyfamodi yn sail i'r Deddfau hyn oll.

Math arbennig o Ddeddf yw Cyfamod. Gweithred o ddeddf ac o anwyldeb yw. Dyma'r fformiwla yn Exodus 6:7, '*Fe'ch cymeraf yn bobl i mi, a byddaf finnau yn Dduw i chwi.*' Sylwer ar y ddwy ochr. Fe geir fformiwlâu tebyg yn Gen. 17:7-8; Exod. 29:45; Lef. 11:45; 22:33; 25:38; 26:45; Num. 15:41, ac unwaith yn Esec. 34:24. Gellir caniatáu i'r drefn hon o ran ffurf y fformiwla gael ei datroi o ran olyniaeth yn Lefiticus 26:12, '*Byddaf yn Dduw i chwi, a chwithau'n bobl i minnau.*' Ond yr un seremoni a chyd-wasanaethu oedd. Pwysleisiol, i'w gofio, drwy ailadrodd o wahanol gyfeiriadau; a chyffelyb i Lefiticus yw'r geiriad yn Deut. 26:17-19; 29:13; a 2 Samuel 7:24; ac yn fynych felly gan y proffwydi Jeremeia, Eseciel, a Sechareia. Dyma'r Drefn newydd.

Datganiad ffurfiol, cofiadwy, bachog, ac awdurdodol yw cyfamod. A chariadus bob amser. Mae Duw yma. Gwneir ymrwymiad sydd yn gytundeb. Selio cytundeb rhwng dwy ochr yw, Duw a dyn. Ond y mae'r weithred o gyfamodi rhwng dau unigolyn dynol (neu ddwy bobl) mewn modd ffurfiol hefyd yn rhywbeth cyffredin yn yr ysgrythur – rhwng Abraham ac Abimelech, Isaac ac Abimelech, Jacob a Laban, Jonathan a Dafydd, Dafydd ac Abner, Nebuchadnesar a Sedeceia. Daeth yn batrwm meddwl. Efallai fod hynny'n naturiol. Ond efallai fod math arall o Gyfamod rhwng Duw a'r wlad, neu â'r Eglwys, yn fwy unigryw, hyd yn oed yn annisgwyl, er bod y cyfamod ag Adda yn fath o gyfamod â'r ddaear oll hefyd.

Pan drow'n at y Cyfamod rhwng Duw a'i bobl, down â holl gwestiwn Etholedigaeth i'r golwg, ac o ddeddf a chariad. Bob amser wrth ddiriaethu yn y greadigaeth, rhaid penodoli pobl a phethau. Profir etholedigaeth gan ymateb. **Dewisodd Duw lwyth neu bobl i'w paratoi, yn amseryddol ac yn ôl lleoliad unigol didoledig personol, i dderbyn y Meseia.** Bu'n rhaid bugeilio'r bobl etholedig hyn drwy gydol llu o fethiannau ac o lwyddiannau, o ddewisiadau. Bu'n rhaid eu paratoi a'u haddysgu. Ond âi Duw ac Israel drwy'r trafferthion oll gyda'i gilydd mewn perthynas lle yr ystyrid teyrngarwch cytûn yn ganolog, yn wrthrychol ac yn oddrychol, tan ddidoli

ar hyd y ffordd. Canolog oedd o ran egwyddor, a symbolid gan addoliad. Addysg oedd.

Yr oedd y llwyth yn safle i eglwys. Ac felly ymhellach ymlaen, yn y Testament Newydd, ceid Israel arall, a oedd hefyd yn bobl etholedig. Nid etholedig yn ôl gwaed hiliol oedd, ond yn ôl ysbryd cyfun y Testament Newydd, megis yn yr Hen Destament heb ei ddeall yn llawn fel arfer. Ysbryd nas deallwyd ond yn achlysurol a geid yn yr Hen Destament. Ond meddai Jeremeia 31:31, “*Y mae'r dyddiau'n dod,*” medd yr Arglwydd, “*y gwnaf **gyfamod** newydd â thŷ Israel ac â thŷ Jwda. Ni fydd yn debyg i'r **cyfamod** a wneuthum â'u hynafiaid, y dydd y gafaélais yn eu llaw i'w harwain allan o wlad yr Aifft. Torasant y **cyfamod** hwnnw, er mai myfi oedd yn arglwydd arnynt,*” medd yr Arglwydd, “*...rhof fy nghyfraith o'u mewn, ysgrifennaf hi ar eu calon, a byddaf fi'n Dduw iddynt a hwythau'n bobl i mi.*” Dyma dri o'r ychydig leoedd unigryw yn yr Hen Destament lle y gosodwyd yr union derm 'cyfamod'. [Ond cf. Gen. 9:8].

Dyma Jeremeia'n diffinio yr Hen Gyfamod a'r Cyfamod Newydd. Etholedig oedd y naill a'r llall. A phechod oedd gwreiddyn Ethol. Daeth Ethol yn rhan o waith Duw mewn Hanes oherwydd yr angen i argraffu gwahanu moesol a gwahanu ysbrydol ar seice ac yng ngwreiddiau dyn. Ethol oedd y Canon ei hun eisoes, didoli y gwir a'r gau. Gwrthodwyd rhai pethau, gan 'ddiffinio' felly. Yn awr gellir camu ymlaen. Eglurid Ethol ynghyd â Chyfrifoldeb dyn.

Teyrnas Dduw i bwrpas neilltuol fu'r Hen Israel, megis yr Israel Newydd. Ac o du dyn, ni allai ef wasanaethu ond Duw: (Barnwyr 8:23), *'Dywedodd Gideon wrthynt, “Nid myfi na'm mab fydd yn llywodraethu arnoch; yr Arglwydd fydd yn llywodraethu arnoch”.*'

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â Chyfamodi yn union wedi'r Cwmp yw ei fod ar y naill law rhwng Duw a'r unig ddyn; ond o'r herwydd ac yn fwy annisgwyl efallai, rhwng Duw ac Israel (a oedd yn yr Hen Destament yn Israel y llwyth – o'r un waed mewn cenedl-eglwys etholedig) ac yna hefyd yn Dduw gydag Israel Newydd y Testament Newydd (yn agored i bob cenedl o ddynion led y byd, yn un eglwys etholedig drachefn). **Symudwyd o'r arbennig i'r cyffredinol, o'r wlad i'r byd.** Peth arall yw bod yna ymwybod eto o selio'r rhwymedigaeth honno **o'r ddwy ochr, o gariad i deddf.**

Deddf Moses a Duw

Mae hi'n annisgwyl o bwysig sylweddoli mor rhyfedd oedd y ffordd y cyflwynwyd rhywbeth mor rhyddieithol â Deddfau i Israel. Dyma waith ystrydebol tost gellid meddwl. Ond y mae Duw'n argraffu ar Foses ofnadwyaeth y sefyllfa. Heb ein bod yn canfod gydag ef yr arbenigo a'r aruthredd a oedd i'r digwyddiad, gallwn beidio â dirnad mor wahanol yw'r Beibl oll i'n holl fywyd naturiol. Mae deddfwriaeth i fod yn rhyfeddod, awgryma Duw yma. Pam yr oedd Duw yn llewyrchu yn y canol? Pam nad oedd dyn ei hun yn llunio'r deddfau'n swyddogol ddiffwdan?

Dyma ym mryd credinwyr ffenomen anferth i'r greadigaeth, golwg sy'n sylfaenol i'n ffordd o fyw. Deddfau gwlad, ie. Ond yr oedd yn rhan o drefn y Nef. Disgrifiad ysbrydol oedd hyn i Dduw ac i Moses, nid mater gweinyddol yn unig. Meddwl Duw, rhodd o'r tu allan: yn berffaith. Eto, os derbyniwn hyn heb ofyn pam, yr ydym i raddau yn farw'n hysbrydoedd. A pham mai barddoniaeth hefyd – llefaru mewn gweledigaeth – yw'r ffordd addas inni i amgyffred bywyd a mawredd yr achlysur? Mae Duw wedi ffurfio'r achlysur gyda dwyster a theimlad a dychymyg a all ein cynorthwyo i'w dderbyn ar gyfer ein perthynas ag ef fel norm newydd.

Hynny yw, mae gan y Beibl fframwaith dwfn ysblennydd i'w Ddeddfau megis i'w Hanes gwleidyddol. Drwyddynt fel ei gilydd yr ydym yn mynd i mewn i Deyrnas newydd. Dyna oedd y gwirionedd mewn byd o gelwydd. Nid byw bywydau cyffredin di-Ysbryd a di-Dduw yr ydym ni. Y mae rhywbeth fel Deddfau, sy'n cynnal adeiladwaith bywyd, hefyd yn gyfrin ac yn gynhenid. Tynnu ein hesgidiau yw'n rhan gerbron y sialens hon. Dyma Ddeddf a luniwyd bob amser gan Gariad.

Gofynnwn o hyd efallai: Pam hyn? Pam dull mor ddieithr arallfydol o'i gymharu â rhyddieitholdeb cyfraith gwlad? Ond mae hi mor hanfodol symud yng nghwmni Duw i'w Deyrnas ef yn y cywair iawn. Os ydym yn mynd i ymward â byd a ddiberfeddwyd gan bechod a marw, mae'r dwyster angenrheidiol, sydd gan Dduw mewn hanes, yn graidd i'r neges lân. Presenoldeb Duw oedd i gyfrif am y deddfau, o leiaf yn eu hegwyddorion cyffredinol.

Ond ddi yna amser, ar ôl dyfodiad Crist, pryd y byddai hyd yn oedd deddfau'n beryglus, o fewn fframwaith gwlad yn enwedig yn y cyfnod cenhadu a'r symud allan i amgylchfyd cenedl-ddynion. Oherwydd hollbresenoldeb pechod, a dyn yn cyffwrdd â'r deddfau, bu'n rhaid i Paul rybuddio am beryglon camddefnyddio deddfau a chamddeall natur a safle deddfau. A'i reswm? (Rhuf. 10:4) '*Oherwydd Crist yw diwedd y Gyfraith, ac felly, i bob un sy'n credu y daw cyfiawnder Duw.*' 'Diwedd' oedd hyn yn gymaint ag yr oedd Ef yn cyflawni'r gyfraith yn berffaith; 'diwedd' yn gymaint ag y **codai perthynas â Duw yn uwch na chyfiawnder moesol a pherthynas rheolau, bellach wedi i Grist sefydlu Teyrnas Cariad yn ei pherffeithrwydd.** Ond yr oedd 'diwedd' y gyfraith yn golygu mwy. Pe bawn yn awgrymu mai un o'r diffiniadau symlaf i 'Gristion' yw 'un sy'n credu yn Uffern', iawn fyddai i rai ruthro i brotestio. Ond pe bawn yn gorfod wynebu'r dasg o ddiffinio *Cyfanrwydd* cred y Cristion, diau mai rhy hwylus fyddai osgoi'r fframwaith deuol moesol fel yna. Annheg a llipa fyddai osgoi'r cyferbyniad eithafol a rhybuddiol foesol. Yn wir, ni byddai'n Gariad. Ac wrth gwrs, annigonol yw honni mai credu yn yr Arglwydd yw'r ffordd i gadwedigaeth, heb gydnabod bod peidio â chredu yn gadael dyn heb nefoedd. Mor ddifrifol yw difrifoldeb Deddf.

Mae *deddfau* yn un o'r llenddulliau pwysicaf ac yn un o'r pynciau blaenaf yn y Beibl. Yr oedd hefyd yn ymwneud â phynciau pob dydd. Bu deddfau'n ganolog i hunaniaeth llawer gwlad. Ystyriai Saunders Lewis fod Cyfraith Hywel yn un o'r datblygiadau ceinaf yn natblygiad rhyddiaith

Gymraeg. Ni raid i ddeddfau beidio â bod yn llenyddiaeth. Bu Cyfraith Hywel hefyd yn fodd i uno gwlad. Yn y Beibl, yr oedd amlygrwydd y *Torah* yng nghalon yr hen gyfamod. Ar ryw olwg, yr oedd yn un o'r ffactorau yn undod gwladol yr Ysgrythurau. Dechreuai cyfreithiau Duw gael eu mynegi yn Genesis, ac y mae prif thema'r Beibl o'r Cwmp yn arwain ymlaen drwy ddeddfwriaeth Moses, hyd Ddydd y Farn, yn gwbl arwyddocaol ac yn amlygu mor ganolog yw'r *Torah* yn y Cyfamod. A'r un mor ddwfn yw'r **deddfau** yn holl natur y Greadigaeth, a hanes Cymru.

Dysgu hyfrydwch a daioni'r deddfau yw un o'r paradocsau adeiladol sy'n adeiladu Cristion. Gwych i genedl y Cymry fu deddf Hywel. Gwychach i genedl Israel y Ddeddf a dderbyniodd Moses. Rhan o waith y Deddfau oedd gwneud Israel.

Dyma hyfforddiant i ddyn yn neddfau moesoldeb, ac y mae'r dyn cyfiawn yn '*cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr Arglwydd ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.*' Mae'r Arglwydd Iesu Grist yn cyfarwyddo'i ddisgyblion at yr union ffordd i ufuddhau i'w ddehongliad ef o'r ddeddf: '*Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion... Pwy bynnag y mae fy ngorchmynion i ganddo, ac sy'n eu cadw hwy, yw'r un sy'n fy ngharu i*' (Ioan 14:15,21). Yn wir, wrth geisio ystyried awduraeth y *Datguddiad*, ac yn y ddadl ynghylch uniaethu-neu-beidio yr apostol ag Ioan y Datguddiad, credaf fod llygad-dyst geiriau Iesu Grist yn Ioan 14 a 15 wedi amlygu cymaint argraff o'r berthynas rhwng y ddeddf a chariad ag un dim yn benodol yn unman arall yn yr Efengylau. Aralleirir y cyfuniad dro ar ôl tro (Ioan 15:10,14; 1 Ioan 2:4; 3:22; 5:2-3; 2 Ioan 4-6; Datguddiad 12:17; 14:12), mor gyson unplyg. Sylwer yn y rhestr hon ar bresenoldeb Ioan ymhlith yr ymadroddi hwn. Tebygaf i (er nad yw'n bwysig) mai'r un oedd Ioan annwyl yr Efengylau ag Ioan hen y Datguddiad. Ac y mae'r pwyslais ar rinwedd ac athrawiaeth fel hon mor drawiadol o ddiddorol (sy'n fath o baradocs) ac yn fath o gadarnhad i'r profion eraill i'r safbwynt traddodiadol ynghylch awduraeth y *Datguddiad* nes y'i cyfrifaf yn gadarnhad grymus. Yn y Datguddiad clywir Diwedd.

Egyr y deddfau oll gyda'r un ysbrydol sy'n rheoli'r lleill i gyd ac yn cynnwys diben y lleill i gyd. Yn wir, y mae adran gyntaf Exodus 20:2-8 yn troi o gwmpas 'perthynas Duw a dyn': '*Na chymer dduwiau eraill ar wahân i ni. Na wna iti ddelw...Na chymer enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer... Cofia'r dydd Saboth.*' Duw sy'n arwain.

Ac yna symuda ymlaen at ddeddfau 'perthynas dyn a dyn.' Wrth eu gosod yn y drefn honno, 'Duw' a 'dyn,' y mae ansawdd a blaenoriaeth a dylanwad y deddfau cyntaf – sy'n hwy o dipyn na'r rhai sy'n dilyn – yn eu hamodi ac yn estyn eu sancteiddrwydd dros y cwbl.

Y mae'n nodedig fod gweddi'r Arglwydd yn cymryd cynllun neu drefn union debyg i'r Dengair Deddf: yn ddwy ran gyda Duw yn: Mathew 6:9-13: '*Sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys.*' Ac yna, symuda at faterion dynol, beunyddiol, er bod yr hanfod o berthynas dyn a Duw yn ymestyn dros y bywyd 'ymarferol' beunyddiol oll: '*Dyro inni heddiw ein*

bara beunyddiol.' Dyma welediad deuol y Duw-ddyn.

Dyma'r ddeuliaeth a grynhowyd gan yr Arglwydd Iesu fel diwedd y ddeddf i garu Duw â'n holl galon, a'n cyd-ddyn megis ni ein hun. Mae'n cwmpasu'r mawr a'r bach yn ddeuol.

Profiad mwyaf Moses oedd bod yn unigol gyda Duw ar y mynydd, cymdeithasu gyda Duw, gan ymdeimlo â'i sancteiddrwydd tragwyddol ef. Roedd Duw wedi dewis person penodol, unigolyn, i dderbyn hanfod y Ddeddf ar ei ran, Deddf Duw ei hun. Moses o bawb yn y byd oedd y person addasaf i'r fraint a'r ddyletswydd. Ac eto, soniodd Geoff Thomas am 'y paradocs ynglŷn â phŵer Moses', mai dyna 'yw'r dystiolaeth fwyaf o *bresenoldeb* yr Ysbryd Glân ynddo: sef *absenoldeb* y pethau hynny a gysylltir â phobl rymus a mawr: heb falchder yn ei hunanddigonolrwydd, heb amddiffyniad eiddgeddus o'i hawliau personol ei hun, heb uchelgais ynghylch ei freintiau etifeddol. Ond drwy ostyngeddwrwydd y mae'r Ysbryd Glân yn nerthu'i bobl...Dyna dystiolaeth ysigol am un o'r arweinwyr mwyaf a gafwyd erioed yn hanes y blaned...Ystyrier y problemau y bu'n rhaid eu hwynebu: gormodedd o waith gweinyddol, problemau darparu lluniaeth, cynryfiadau carismatig, gelyniaethau teuluol, beirniadaeth o'i briodas, gwrthodiad i dderbyn ei weledigaeth awdurdodol i lefaru ar ran Duw, ymosodiadau o'r tu allan i'r gymuned, anfoesoldeb rhywiol o'r tu mewn i'r gymuned. Ymdopiodd Moses â'r cwbl oll drwy nerth Ysbryd Duw.' Ac er ei wendid, yr oedd a wnelo ef â'r grym – y ddeddf – sef yr egwyddor fwyaf pwerus yn strwythurol yn y bydysawd.

Yr oedd didoli moesol bob amser yn golygu Deddf. Sôn am rym y Deyrnas yn baradocsaid yr oedd y Damhegion hwythau megis yn yr Had Mwstard a'r Ddafad Golledig. Ond y mae yna fwy o nodweddion na Grym yn unig i ddiffinio Teyrnas, fel y gwyddai Hitler ac Orwell, Machiavelli ac Aldous Huxley. Peth cyfredol i fywyd meidrol oedd Cyfraith. Ac am y dehongliad Cristnogol o gyfraith Moses, fe'i ceid yn nosbarth y gwynfydau megis y'u cyflwynid drwy'r Bregeth ar y Mynydd. Mae yna gyplysiad cyflenwol yng nghyfuniad y Damhegion a'r Bregeth. Siaradant gyda'i gilydd â'r oesoedd.

Rhwng Thomas More a Machiavelli, cyflwynid ni i seiliau ideoleg ddyn-ganolog Stalin. Roedd More yn awyddus iawn i ddyn gyflawni'i ddiben yn y wladwriaeth. Mae'r gwahaniaeth pwyslais rhwng More a Machiavelli yn arwyddocaol. Gwyddai Machiavelli am bresenoldeb 'realistig' dyn yn ei rym a'i lygredd. Gellid ei rag-weld felly. I More, gwyddid yn burion am wanc a hunanoldeb. Ond coleddai ef fwy, gyda gobeithion a darddai o rinweddau diamheuol ddynol. Yr oedd yn fwy nag optimydd Iwtopaidd. Yr oedd yn gweld gobaith mewn hawddfyd, a chydarddoldeb cyfartal. Ond ceisid gwthio gweledigaeth More o fewn hanes, drwy bwysleisio gwaith materol dyn.

Teyrnas y tu hwnt i'r byd hwn oedd eiddo dinasyddion Cristnogol, hwythau: pwnc eu myfyrdod. Ac eto, ar hynny o bryd, arhosent yn y byd a oedd ohoni o fewn cyfyngiadau Cwmp. Yn lleiafrif, yn y Bregeth ar y Mynydd canfyddent Absoliwt a allai gyrraedd calon credadun. Roedd

yn oleuni a roid inni. Mae'r Cristion yn gwybod am yr Atgyfodiad yn hollbresennol yn ei ffydd. Mae gennym Gyfaill o Farnwr. Gallwn oddef amgylchfyd, a bodloni ar y gras sy'n goleuo'r tywyllwch. Ni negyddir y Deyrnas felly. Nid y mwynhad yn unig yw'r Deyrnas, chwaith, eithr y Duw mawr a rydd y mwynhad cyfiawn. Yn llaw Duw Cariad y mae'r grym a'r gyfraith.

Yn y Ddeddf hefyd y profir y Gras mwyaf a'r felltith fwyaf.

Cais i ddangos patrwm y drefn nefol oedd y Ddeddf. Cynigiai y ffordd i newid byd pechadurus yn fyd dwyfol. Cynigiai y dull delfrydol i droi'r colledig yn gadwedig. Yr oedd yn Athro at Grist (Gal. 3:24). Yr oedd Teyrnas Dduw yn droad mewn potensial i deyrnas ffôl dyn, canys daeth y Rhoddwr yn Geidwad i'r Ddeddf.

Deddf a Gras

Dyna pam y mae angen inni fyfyrion ofalus am berthynas Deddf a Gras. Gŵyr pob Cristion fod arwyddocâd ac ansawdd y ddeddf yn newid rywfaint drwy amgylchiadau Dyn. A phriodol cydnabod hynny i ni ein hun. Er ceisio bod yn hynod o gryno sefydlog, ni ellid dadlennu yr amllder agweddol, ac ni ellid cyflwyno'r cwbl mewn un sydynrwydd.

Yn flaenaf, pan grewyd dyn, fe ysgrifennwyd deddf (a oedd yn ddatguddiad i'w feddwl) yn anymwybod dyn. Dyma'r Ddeddf Foesol Gychwynnol. Medr i wahanu rhwng da a drwg oedd. Dyma Ddeddf Natur. A Gras Cyffredin oedd. Fe fframiwyd y ddeddf honno i fod yn unol ag awydd dyn i geisio hapusrwydd. Fe'i hysgrifennwyd yn araf ar anymwybod hanes Israel.

Yn ail, am ben hyn, er mwyn profi a datblygu gwydnwch y berthynas rhwng Duw a dyn, **gosodwyd Cyfraith Adda o fewn y ddeddf Foesol yn gyfamod. Yr unig arbenigrwydd ynglŷn â'r gyfraith hon oedd mai Duw a'i rhoddodd.** Ni allai deddf fod yn bwysicach. Pan dorrodd Adda beth o hyn, fe ddrylliwyd yr holl Ddeddf. Fe'i sbwyliwyd, ac aeth yn aneglur.

Yn drydydd, ailysgrifennwyd y Ddeddf honno yn syml ar feini neu lechi, ar Sinai. **Fe'i hysgrifennwyd yn allanol ac yn wrthrychol.** A daeth maes o law ag atodiadau a oedd yn addas i'r lle a'r amser. Felly y'i cafwyd yn Ddeddf Foesol hirfaith, ynghyd â'r Seremonïol a'r Ddinesig. Gosodwyd y Ddeddf Foesol mewn cyd-destun newydd i ddyn syrthiedig; ac felly fe'i mynegwyd yn negyddol amgylchiadol. Gosodwyd y Dengair yn Arch y *Cyfamod*, am fod y rheoliadau'n ymarferol ar gyfer gweithredu'r Dengair yng nghanol y genedl, yng nghalon Moses.

Yn bedwerydd, yr oedd angen Cyfamod Newydd, un lle yr oedd **Deddf Sinai'n cael ei hysgrifennu nid ar lechi carreg eithr ar gnawd calonnau.** Gweithredwyd hyn ar ddau gam ond yn flaenaf **drwy fywyd, marwolaeth, ac atgyfodiad Crist.** Bellach, dyma Un a ufuddhaodd i'r holl Ddeddf yn berffaith ac yn gyflawn (*telos*), ac a felltithiwyd er mwyn y genedl lle yr ymddangosodd gan gyflawni'r addewidion a roddwyd i'r genedl honno lle y'i ganed, a thrwyddynt hwy ar gyfer pob

cenedl: (Salm 2:8) '*gofyn, a rhoddaf iti'r cenhedloedd yn etifeddiaeth,*' Ac wedyn, ar ôl cyfnod o amser wedi'r cyfiawnhad ar y Groes, cafwyd **Cyfnod y Pentecost**. Daeth yr Ysbryd Glân drwy'i wynt pwerus ef i adeiladu ac ysgrifennu'n ddyfnach ddyfnach ddeddf arall yn y galon, a'i hadfywio mewn serchiadau, drwy'r deall, drwy gydymffurfio â'i hanghenion, drwy roi dymuniad i ufuddhau, drwy ymhoffi fwyfwy, a thrwy ufuddhau'n ymarferol. Dyna'r cyfnod presennol.

Felly, yn arweiniol, y cafwyd Gras Arbennig i gredinwyr. Nid oedd condemniad oherwydd methiant o bryd i'w gilydd; ond eglurwyd telos y Ddeddf, y perffeithrwydd a gynigiai Crist i'r rhai a oedd ynddo Ef. Yr oedd ei ufudd-dod ef i'r Ddeddf yn efengylaidd ac nid yn ddeddfol. Drwy'r Ddeddf yr oedd argyhoeddiad o bechod yn codi ynddo oherwydd cyffyrddiad yr Ysbryd. Yr oedd y Ddeddf yn foddion i rwystro troseddau yn sgil sancteiddrwydd ewyllys Duw. Duw, y Creawdwr a'r Gwaredwr, yw'r un a gerid ac a ddarparai Ysbryd i egnïo ffydd. Bellach, llawenydd a hyfrydwch fyddai'r Ddeddf oherwydd yr Un a'i rhoddodd ac a'i gwisgodd. Drych Duw oedd y Ddeddf.

Eithr yn bumed athrylithgar, wrth gwrs, clywsom ateb grasol Crist am y Ddeddf pan geisiodd y Pharisead roi prawf arno drwy ofyn iddo (Math. 22:36-40): "*Athro, pa orchymyn yw'r mwyaf yn y Gyfraith?*" *Dywedodd Iesu wrtho, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl." Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu*".' Eglurwyd Iachawdwriaeth i gredinwyr yr Hen Destament fel y Testament Newydd.

Pechod a Gras

Gellid ystyried, wedi gwranddo ar rai 'credinwyr amlffydd', eu bod yn coelio mai Duw a'i waith, ei foesoldeb a'i allu yw prif Ddeunydd y Beibl. Onid dyna'r 'gwir' amlwg? Ond yr hyn a ysgogodd y *Beibl* oedd Pechod. Pechod hefyd a ysgogodd yr Ymgawdoliad a'r Croeshoeliad.

Cymerwyd cenedl arbennig, mae'n wir, i gynrychioli ac i ddarlunio gwaith Duw, sef Israel. Ac ar hyd llinach cofnodion yr Hen Destament, fe ddown ar draws Jacob, a'i deulu, a'u disgynyddion, a buont yn dylwyth gwarthus, eithafol o gywilyddus, a methiannus. Gwae ni, Israel. Cawsant hefyd grisialu gwaith Satan.

Ar ryw olwg, **Pechod oedd prif bwnc ingol a hanesyddol dyn yn y Beibl. Diben yr efengyl oedd dwyn pechaduriaid at Grist**. Mor fuddiol fyddai, mae'n ymddangos, pe bai Duw yn unig gynnwys i'r llyfr hwn, yn arbennig mewn oes sydd wedi ceisio canolbwyntio tuag i mewn ar ddyn, a phryd y ceisir troi pechod ei hun yn drafferth seicolegol. Ac ochr yn ochr, drwy drugaredd, gyda phechod, safodd Duw.

Mae'r Beibl yng nghanol bywyd modern am fod cri Daniel a Nehemia yn galaru yn ein clustiau heddiw: '*Arglwydd, pechasom...!*' Nid 'Duw' ysywaeth yw'r hyn sy'n codi o'n geneuau wrth

inni feddwl am bechod yn rhy aml, eithr cyd-ddyn, a ni'n hun. Mae'n wir mai anghenion dyn, yn naturiol, yr allanol a'r materol, yw'r anghenion a gyfrifir yn rhy aml ar ganol y darlun; ac mai pobl eraill fel arfer sy'n 'pechu' yn ein herbyn ac yn achosi'r anghenion. Ac eto, er gwaethaf y ffaith fod dyn yn cael y fath sylw, hyd yn oed yn y Beibl, – ac felly hefyd ddiecter a chariad Duw at yr hyn sy'n groes iddo Ef, ac yn groes i ddaioni potensial dyn, – y mae'r rhain hefyd yn ein hargyhoeddi ni o ddyfnder a difrifoldeb pechod o safbwynt Duw ei hun. Un o brif gyfraniadau'r Mudiad Piwritanaidd ym Mhrydain oedd ailsefydlu'r ymwybod byw hwn o bechadurusrwydd pechod. Yr oedd hyn yn eu hachos hwy, fel yn achos y Salmydd, yn 'brofiadus' iawn. A chredaf i mai'r cyferbyniad â'r daioni pur yn Nuw a barodd iddynt ganu amdano. Ar y naill law clywn *Salm* 119:16,18,54, '*Byddaf yn ymhyfrydu yn dy ddeddfau... Agor fy llygaid imi weld rhyfeddodau dy gyfraith... Daeth dy ddeddfau'n gân i mi ymhle bynnag y bûm yn byw.*' Ac ar y llaw arall: *Salm* 119:8,10,71,176, '*Paid â'm gadael yn llwyr...paid â gadael imi wyro oddi wrth dy orchmynion... Mor dda yw imi gael fy ngheryddu ... Euthum ar gyfeiliorn fel dafad ar goll.*'

Gwadu Duw yw craidd pechod. Y mae pechod yn bwydo dyn â chasineb tuag at Dduw. *Titus* 1:15-16, '*T'r rhai llygredig a di-gred, nid oes dim yn bur; y mae eu deall a'u cydwybod wedi eu llygru... Y maent yn ffaidd ac yn anufudd, ac yn anghymwys i unrhyw weithred dda.*' Calon y diffiniad o bechod i'r Cristion argyhoeddedig yw *Salm* 51:4, '*Yn dy erbyn di, ti yn unig, y pechais.*' Nid oes ond yr Ysbryd Glân a all oleuo'r fath gyffes. Casawyr a gelynyon a 'lladdwyr' Duw yn unig a wŷr hynny.

Pechaduriaid goleuedig, mewn pechod a gras, yw uchafbwynt y Beibl.

Hyn, yn anad dim, a ganfuwyd gan y Piwritaniaid:

John Owen: 'Ystyriwch yr anniolchgarwch dychrynlllyd a geir mewn esgeulustod neu wrthodedigaeth i beidio â dyfod at Grist wedi cael ei wahoddiad.'

George Swinnock: 'Cymerwn faint pechod yn rhy isel, yn rhy fyr, yn anghywir, wrth ei fesur yn ôl y drwg a wnawn ni'n hun neu i'n teuluoedd... Dylem ystyried y drwg a wnawn i'r Duw mawr, godidog, ac anghymharol.'

Thomas Goodwin: 'Calfaria sydd yn gosod gerbron yn fwyaf plaen ofnadwyaeth anfynegadwy diecter Duw.' 'Mae gan "Dduw'r Ysbryd"... swyddogaeth arbennig wedi'i phennu iddo, ac felly sy'n angenrheidiol, sef yr hyn y rhoddwyd y teitl iddo yn Rhufeiniaid 8:15, yn "Ysbryd caethiwed." A hynny a dderbyniwyd cyn dyfod yn "Ysbryd mabwysiadu".'

Mewn byd dirywiedig, nid syn yw mai Hanes Pechod yw 'Hanes'. Ble byddai Newyddiaduraeth gyfoes pe na bai pechod? Ni raid i Newyddiadurwyr ymdrechu ryw lawer cyn llwyddo i ddod o hyd i'r tamaid lleiaf o newyddion drwg. Ymwybod o bechod sydd fel arfer yn

cyfrannu angerdd ac argyfwng i Hanes megis i lenyddiaeth yn gyffredinol.

Paradocs y Llenor Cristnogol sy'n effro i'r Negyddiad yw bod hynny'n rhyfedd iawn yn cyflyru'i waith yn gadarnhaol. A cheisiaf esbonio'r paradocs hwn. Beth a gynigia'r *Ymwybod o Bechod* i grebwyll y Cristion o lenor?

Rhydd hydeimledd a hunan-feirniadaeth ynghylch pob sain, pob gair, pob gosodiad, pob gweledigaeth, pob gwerth, bob munud, a hollbresenoldeb gwendid ym mhob ffrwythlondeb.

Rhydd, oherwydd hunan-feirniadaeth, barodrwydd hiraethus i ddiwygio o hyd, sancteiddhad; adolygu; yr awydd am 'berffeithrwydd' i'r ymestyniad diderfyn.

Rhydd ddealltwriaeth o natur a hunaniaeth ysbrydol dyn: drwy'r llygredd bythol a'r treiddgarwch ymosodol gan y negyddol, yn ogystal â'r math o anrhydedd sydd gan ddyn.

Rhydd olwg ar fodolaeth anochel yr Absoliwt y tu ôl i bob dim: dealltwriaeth a natur y Greadigaeth afieithus, a dyfnder trefn a rheidrwydd gwerthoedd.

Rhydd falchder wedi'i dorri, gan mai pobl yr ymostyngiad yw'r Cristnogion. Dyna pam y ceir pleser hyfrydwch mewn tlodi ysbryd.

Y mae'r dimensiwn goruwchnaturiol pechadurus felly yn rhoi bywyd oll mewn persbectif deallol. Mae cyfanrwydd y ddealltwriaeth Oruwchnaturiol o fewn gwaith Naturiol yn cyfannu'r golwg ar fywyd, gyda phenarglwyddiaeth gymen y tu hwnt i fyfiaeth. Yr ymroddiad i'r dwyfol yn ddiau sy'n rhyddhau rhag ymroddiad i'r hunan. Ymrwymir i felyster ffrindiau. Gwybod pechod drwy'r Ddeddf sy'n cyfarwyddo ymarferoldeb bywyd.

Sylweddolir cyfrifoldeb dyn wrth bechu bob amser yng ngŵydd Duw. Ac ni cheisir trosglwyddo cyfrifoldeb am bresenoldeb y drwg i Dduw hollalluog. Sylweddola'r pechadur lenyddiaeth o bob math fel maes cyflawn o fewn cyfrifoldeb i ysgrifennu mewn cyd-destun dwyfol. Bellach, gellid cynnal hyd sylw meddyliol pob gwasanaeth ('attention span') ac awydd am lendid. Rhoddir parodrwydd gant y cant i gynhyrchrwydd ffrwythlon mewn cymdeithas.

Personol yw'r Deunydd hwn i gyd

Mae gennym broblem ynglŷn â'r geiriau 'personol' a 'pherson'. Ai troad yw'r gair 'person' i Gristion pan fo'n sôn am Dduw? Onid gwyriad yw peth felly ar iaith? Wedi'r cwbl, oni ddefnyddir y term cyflawn 'person' fel arfer am greadur (pechadurus)? Pa le sydd yn y Beibl i olwg amgen?

Pan ddefnyddir y gair 'personau' am Dduw yn Athrawiaeth y Drindod, oni ellid disgwyl y byddai'r gair 'person' ar gael yn y Beibl? Nid felly. Fe all Cristion gredu 'Tri yn Un' fel disgrifiad cywir gan Gristnogion, oherwydd profiad dwfn o weddau gwahanol o Dduw ar waith, ond heb iddynt dderbyn y gair 'person' fel y defnyddir y gair yn arferol. Eto, onid troad cywir a them

ieithyddol yw 'person' o fyd dynoliaeth, er mwyn cyfleu yn gwbl gyfiawn mai Bod 'personol' ymarferol, yw Duw? Mae Ef yn meddu ar briodoleddau a gysylltir â *bodolaeth bersonol*, – megis deall, caru, bod yn amyneddgar, yn dyner, yn ddoeth, yn garedig, yn llawen, yn ddig. Tynnir ein sylw gan Geoff Thomas at y ffeithiau hyn ac at y defnydd Beiblaidd Gramadegol o dri pherson y rhagenw am yr Ysbryd: fi, ti, ef. Bydd y Cristion yn ystyried bod y person dynol hwn yng Nghrist yn un a gyfrifir yn 'rhywun', yn unigolyn, nad yw'n marw'n fythol, ei fod wedi bodoli erioed yn Nuw, yn Dduw a heb ei greu; ond yn achos yr Ysbryd mae Hwnnw'n hollalluog, yn hollbresennol, yn hollwybodol. 'Person' dwyfol yw, nid person dynol yn unig fel yr oedd y seciwlar yn ei amgyffred. Yn Act. 5:3-4, dywed Ananias, *'sut y bu i Satan lenwi dy galon i ddweud celwydd wrth yr Ysbryd Glân? ... Nid wrth ddynion y dywedaist gelwydd, ond wrth Dduw.'* Ac eto yn 1 Cor. 12:4-6, meddai Paul, *'y mae amrywiaeth doniau, ond yr un Ysbryd sy'n eu rhoi; ac y mae amrywiaeth gweinidogaethau, ond yr un Arglwydd sy'n eu rhoi; ac y mae amrywiaeth gweithrediadau, ond yr un Duw sydd yn gweithredu pob peth ym mhawb.'* Duw yw'r person rhyfedd hwn: yr Anwylyd.

Gallwn gasglu bod iaith ei hun yn ymestyn dros gyfnod o ddatblygiad meddwl dynoliaeth. Pan nad oedd y wybodaeth am Dduw na'r weledigaeth ohono wedi'u datguddio i'r graddau a gafwyd ymhlith yr Iddewon a'r Cristnogion aeddfetaf ar ôl y Cwmp, yr oedd geirfa'n disgwyl o hyd am lawnach neu letach defnydd. Felly y cedwid gair neu syniadaeth seciwlar a sefydlwyd eisoes – megis 'car' yn gynnwys yn y Gymraeg, a'i estyn yn ôl helaethrwydd dealltwriaeth neu anghenion i amgylchfyd newydd newidiol, heb fod y gair mewn un cyfnod yn cyfeiliorni. Tyfodd dealltwriaeth o Dduw dros y canrifoedd, a bathwyd termau iaith i'w esbonio yn ôl y deall pellach, wrth iddynt ddod yn amlach amlwg ar ganol y darlun. Daethant yn fwy dealladwy hefyd yn y Beibl. Dyfnhaodd iaith. Felly yn hanes yr Ysbryd Glân yn y Beibl yn Ei berthynas â dyn. Perthynas yw'r Ddeddf.

Bu'n rhaid, er mwyn dealltwriaeth, fabwysiadu a chymhwyso gair dynol i gyfleu natur a gwaith Duw a oedd wedi ysbrydoli pob ysgrythur, a 2 Pedr 1:21, *'Ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed trwy ewyllys ddynol; pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân.'* Tyfodd yr Adnabod.

Ymdeimlir â bodolaeth person yn yr ysgogi hwn. Defnyddir ystyr ddynol 'person' am yr Ysbryd Glân am ei fod yn cael ei ddisgrifio fel unigolyn sy'n *gwneud* pethau. Yn Ioan 15:26, *'Pan ddaw'r Eiriolwr a anfonaf fi atoch oddi wrth y Tad, sef Ysbryd y Gwirionedd, sy'n dod oddi wrth y Tad, bydd ef yn tystiolaethu amdanaf fi.'* Yn Eiriolwr, gellid yn deg synied yn drosiadol amdano drachefn fel Cwnsel (*Paraclete*: sef yr un sy'n pledio achos mewn llys cyfraith). Mewn modd digon tebyg dywed 1 Ioan 2:1, *'Ond os bydd i rywun bechu, y mae gennym Eiriolwr gyda'r Tad, sef Iesu Grist, y cyfiawn.'* A chofio mai Iesu Grist yw'r Barnwr ar Ddydd y Farn, ac fel y mae dau Eiriolwr yn cael eu cynorthwyo gan y Tad, yna – er mor ofnadwy y sefyllfa – does dim syndod bod yr

Ysbryd Glân yn cael y teitl cynnes hwn o Gysurwr hefyd. Enghraifft gyffelyb o fod yn absoliwt paradocsiaidd yw'r Duw sy'n trugarhau ac yn maddau, er Ei fod yn hawlio Barn ddiwyro.

Person yw'r Ysbryd Glân sy'n ymbresenoli mewn personau eraill er mwyn ei uniaethu'i hun â hwy. Ond y mae'n fwy na dylanwad. Mae'n Berson absoliwt sy'n gallu bod yn gyson bresennol, neu'n gallu ymweld â hwy. Ac y mae yma er mwyn adeiladu'r ddealltwriaeth o'r Absoliwt.

Gogoneddu Duw yw gwaith yr Ysbryd Glân. Ac mae'n gwneud hynny drwy gyflwyno Duw i bobl a thrwy esbonio'i natur a'i weithredoedd. **Term yw 'Gogoneddu' sy'n absoliwt mewn ystyr ddwyfol, ac nid oes dim yn fwy.** Term arall sy'n cyfleu'r absoliwtrwydd hwn yw 'anffaeledigrwydd'. Mae hyn yn un o briodoleddau'r Duwdod. Mae'n ddigon hollalluog fel ei fod yn alluog i roi terfynau dynol arno ef ei hun. Mae'r Absoliwt ar unrhyw linell o amrediad o briodoleddau daionus yn sefyll ar eithafbwynt y bywydol ac yn gwbl wrthwynebol i'r marwol, hyd yn oed pan fydd yn lladd. Mae Duw yn dysgu beth yw aruthredd y gair 'Person'.

Gwelir hunan-derfyn eto, er enghraifft, yn ei *anallu i* gelwydda: e.e. Num. 23:19; 2 Tim. 2: 13; Titus 1:2; Heb. 6:18; Rhuf. 3:4; Salm 51:4. Enghraifft gyffelyb o fod yn absoliwt paradocsiaidd yw'r Duw sy'n trugarhau ac yn maddau, er Ei fod yn hawlio Barn ddiwyro. Hawlia'r Beibl fod Duw bob amser yn dweud y gwir: Salm 43, 119, 142, 151, 160. Gwirionedd yw'r teitl a arddela Crist: Ioan 14:6. A chofiwn am deitlau o'r fath ac unrhyw ddisgrifiadau a wna'r Beibl o'r Duwdod, mai un o nodweddion Absoliwt Duw yw'r amhosibilrwydd i ddweud y cyfan am y Goruwchnaturiol mewn iaith naturiol. **Ond yr hyn a ddywed yw'r gwirionedd cyflawn.**

Credaf fod y gair 'person' mor addas yn anad dim oherwydd yr ymwybod cyneddfol o 'berthyn'. Perthyn llwyr yw perthyn Duw: perthyn mesuredig yw perthyn dyn.

Heblaw'r gair 'Person', mae yna air cyferbyniol, sy'n dod yn ôl i mewn i feirniadaeth lenyddol fwyfwy, yn arbennig wedi'r cyfnod Ôl-fodernaidd dogmatig sgeptig, a hynny yw'r gair a nodais gynau, sef 'Absoliwt'. Mae'r gair ei hun yn absennol yn y Beibl, ond y mae'r ffaith hefyd yn hanfodol yn themateg y Beibl. Effeithia ar y naws: mae'n ganolog i'r ystyr. Rhodd Duw i'r byd yw.

Mae natur Absoliwtrwydd y Duw Tri-yn-Un Cristnogol yn wahanol i bob Absoliwtrwydd arall. Ceir crefyddau lawer eraill lle y mae'r sylweddoliad am Dduw yn 'Absoliwt' creadigol, megis Iddewiaeth ac Islâm. Yn wir, byddaf yn synied bod ymwybod 'Absoliwt' yn ffenomen go gyffredin mewn bywyd. Oherwydd bod ymwybod o Wirionedd ac o Ystyr, er mwyn byw'n ymarferol, yn gorfod ei amlygu ei hun yn bur gyson, byddaf i'n credu bod cydnabyddiaeth o ddelfryd Absoliwtrwydd o ryw fath yn brofiad mwy sylfaenol nag y bydd pobl yn ei sylweddoli. Ond yn wahanol i grefyddau eraill, adnabyddiaeth o bresenoldeb a pherthynas Duw personol sy'n ymwneud â thrugaredd nas enillir ond drwy'r profiad Cristnogol. Iesu yw. A Duw sy'n llefaru mewn hiraeth ag Awdurdod yw Hwnnw. Hwn sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl eraill wisgo dillad y Gwir 'cyfan gwbl'

absoliwt yn y man, yn debyg iddo ef, nad oes gwyro ynddynt yn dragwyddol. Mae, i fywyd, Absoliwt. Mae'r Ysbryd Absoliwt hwn, heb ymadael â'i Dduwdod, wedi cymryd arno'i hun ddyndod perffaith. Er iddo greu'r holl Greadigaeth, y mae ar ffurf y Mab wedi ymgawdoli, a'i roi ei hun i ddioddef er mwyn talu pridwerth dros ddyn ffôl a gwrthryfelgar. Mae'n cynnig perthynas bersonol â phob un sy'n ildio'i ffydd a'i gariad iddo. Pan fwynhawn ei Arglwyddiaeth, caniateir i'r credadun ganfod aberth Duw, a gwybod hefyd beth yw Ei gynllun. Adnabod Ei berson Ef yw uchafbwynt bywyd.

Un elfen dra phwysig sy'n uno'r Greadigaeth a'r Waredigaeth yn feddwl cytûn yw'r Beibl ei hun. Ac y mae'r ddwy brif thema ynddo yn cyfeirio'n gyson at Ogoneddu Duw. Diolch iddo Ef sy'n darparu sylfaen o dan gyfeiriad yr 'actorion' unigol a'r llendulliau, yn Drefn Absoliwt ac yn Berson Absoliwt. Dyma'r ateb Cristnogol i ddamcaniaeth anthropomorffig y Seciularwyr.

Felly, y mae'r Beibl yn gyson yn cael ei 'droi', ei awdurdod ei hun, ei berffeithrwydd ei hun, a'i waith ei hun, yn gymeriad yn yr Efengyl. Mae'r Beibl ei hun yn llefaru ac yn herio. Mae'n cysuro. Mae'r Beibl ei hun yn eiddo i gymeriad sy'n amddiffyn ac sy'n cael ei amddiffyn. Mae'n llais gan Berson sy'n ein caru, a datgelir bod pob peth yn y Greadigaeth yn cydberthyn.

Y Gwirionedd yw'r Deunydd

Yn ei gyfrol boblogaidd *Awdurdod, 1970* (*Authority* 1958), y mae D. Martyn Lloyd-Jones yn codi un egwyddor ddefnyddiol i'r sawl sy'n ceisio deall y Beibl, a hynny yw'r **angen i ystyried y manylion yng ngoleuni'r cyfan**. Oherwydd undod yr awduraeth a natur anffaeledig yr awduraeth honno, y mae manion yn cyfrannu at y crynswth, a'r cyfanrwydd yn goleuo'r rhannau. Felly y deallir, er enghraifft, yr Hen Destament yng ngoleuni'r Newydd (ac fel arall).

Beth felly sydd yn y Deunydd sy'n ei uno i gyd? Y Gwirionedd. Duw.

Mae'r cyfanrwydd yn argyhoeddi. Golyga hyn fod ymgais Baruch Spinoza (1632-77) i rannu deunydd yr Ysgrythurau (er yn ddealladwy ac yn ymddangosiadol amlwg) yn ôl categorïau gwahân, rhai yn faterion blaenllaw a rhai yn eilaidd, yn beryglus. Nid oes iot ynddo nad yw pob rhan yn cyfrannu at yr adeilad hwn. Mewn dadl, os oes un rhan (er lleied) yn gwrthddweud yn gyfan gwbl rywbeth arall, diau mai annealltwriaeth yw. Chwilier ysgrythur i esbonio ysgrythur gytûn, er nad drwy reswm dynol yn unig. O'm profiad i, y mae myfyrdod am Dduw drwy ymddiried ynddo yn datod pob anhawster. Mae rhagdybio Duw ac ymwybod ag Ef yn arwain at ei garu. Nid syn, bid siŵr, fod Spinoza'n dyrchafu rheswm goruwch ysgrythur; ac eto, er bod ei reswm yn gynneddf ddaearol ragorol, nid yw hi'n atebol i ddisodli awdurdod tragwyddol goruwch amser-a-lle.

Wrth ganoli ar un gynneddf ddynol, collodd René Descartes (1596-1650) yr ateb, a geid mewn dychymyg, mewn hunan-dwyll. Iddo ef, aeth meddwl dyn yn ddechreubwynt i bob

gwybodaeth ddynol. Y goddrych sy'n drech na'r gwrthrych.

Bid siŵr, nid oes prinder o'r rhai a garai chwalu'r undod ysgrythurol. Arweiniwyd Beirniaid Beiblaidd, yn arbennig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, i droi'n helwyr gwallau. Collasant arddull soffistigedig y Beibl, a oedd yn rhan olau o ddealltwriaeth y werin. Ac enillasant soffistigeiddrwydd arall, un unochrog a gyfyngwyd gan yr hunan.

Gellid dosbarthu'r mathau o wallau yr honnai'r beirniaid hyn eu bod yn eu darganfod. Yn eu plith, y ceid pwnc mawr y cyferbyniad rhwng iaith lythrennol ac iaith droadol. Ond nid 'ateb problem' oedd y ffordd i gamu ymlaen. Nid oedd pobl syml bob amser dan anfantais. Nid bob amser y bu pobl 'gyntefig' mor gyntefig anwybodus ag yr honnai 'modernwyr' plwyfol Ewrob eu bod. O archwilio llwythau 'cyntefig' heddiw, ceir eu bod yn aml wedi dod o hyd i soffistigeiddrwydd yn eu harmoni â natur, yn eu gwybodaeth am ffisig yn ôl yr amgylchiadau lleol, yn eu perthnasoedd cymdeithasol a theuluol, ac yn eu blaen. Cânt lawenydd yn eu rhythmau di-straen o fyw, o'u cymharu â brys Ewrob. Felly hefyd yn eu dychymyg deallol wrth drafod iaith ffigurol, lle y mae dulliau 'gwyddonol' llythrennol yn ddiffygiol. Adnabod ac ymddiried – i bobl o bob gradd o ddysg – a ddatrysai broblemau orau. Yn Israel ceid soffistigeiddrwydd crefyddol nas gwelid yn unman.

Mae'n amlwg heddiw bod bri a statws ysgolheictod modernaidd Beiblaidd gynt wedi cael ei ysgwyd gryn dipyn po fwyaf yr amlygid ei ragdybiau ystrydebol. Ond wrth gwrs, ni ellid disodli un math o gryfder beirniadol heb adeiladu math o feirniadu amgen. Yn y ddatl am ddehongli'r Beibl bu selogion ar y ddwy ochr (llythrennol/troadol) yn weddol ddogmatig a chyfyngedig yn eu rhagdybiaethau ynghylch y defnydd neu beidio o iaith lythrennol. Dyma un o'r problemau bythol ym maes dehongliad. Bu llawer o Gristnogion difrif a ffyddlon yn awyddus iawn i fod yn llythrennol o hyd gan dybied mai'r llythrennol oedd fwyaf gonest, yn fwyaf hanesyddol gywir. Ond y gwir yw nad yw iaith lythrennol yn gywirach neu'n llai cywir o raid nac yn orfodol i amgyffred gwir ystyr yr hyn a fwriadwyd, a'r hyn sy'n fwyaf ffyddlon yn natur yr hyn a ddywedir. Weithiau, defnyddir troadau yn fwriadus rymus, yn fywiog afaelgar, gyda'r cyfan yn goleuo'r rhan. Ni ddylid teimlo euogrydd os dehonglir troad fel troad. Fe all mai'r gwir yw.

Mae angen i ddehongliad go iawn fod yn barod ar gyfer y goruwchnaturiol bob amser, a sylweddoli mai Crefydd hanesyddol a ffeithiol yw Cristnogaeth oruwchnaturiol dragwyddol. Gellir aralleirio, crynhoi, cyffredinoli, ac yn anad dim, gellir troadu ac alegorïo; a thrwy'r cwbl, y gwirionedd a arddelir. A rhaid inni fanylu o'r newydd ar y mater hwn, gan ei fod mor agos at ganol y broses lenydd. Felly y canfyddwn sut y gellir weithiau fod yn gywirach wrth gydnabod y Gwir a geir mewn troad. Gwedd ar soffisteigeiddrwydd Israel oedd gwirionedd y troad.

Mae'r dull ysbrydol o ddarllen yn hoelio'r sylw ar Ogoniant Duw, a hynny yw'r cyfarwyddyd terfynol. Boed yn drosiadol neu'n llythrennol, gŵyr darllenydd nad oes trosiadol heb lythrennol, ac

wedi'r cwbl mai arwydd gweledig yw'r llythrennol ei hun o rywbeth arall. Dywed y trosiadol a'r llythrennol hefyd wrthym am Dduw – 'Y mae'n fwy na hyn.' Ac yn y Beibl mae'n hybu'r argyhoeddiad mai Mawl yw i Dduw mewn hanes.

Cynhwysir yn y Beibl y llythrennol a'r trosiadol fel ei gilydd, felly. A chyda'i gilydd. Ond mae'n cynnwys, yn gyson barhaol drwyddo draw, *ddehongliad* yr Ysbryd Glân ei hun o ffeithiau. Ef yw'r dehonglydd ysbrydol geirwir. Llyfr hanesyddol yw'r Beibl, ond llyfr tragwyddol hefyd. Dyma ddehongliad Duw o'r hyn a ddigwyddodd yn y dimensiwn gweledig ac yn y dimensiwn anweledig. Nis deellir o gwbl ond drwy gymorth Ysbryd Duw. Heb i'r Ysbryd Glân fendithio a chynnal ac arwain y darlennydd didwyll unionsyth, ni bydd yn ei ddeall yn iawn. Rhaid o'r herwydd ddod at y Beibl â meddwl ac â chalon ostyngedig. Nid syniadau dyn sydd ar y blaen, ond gwybodaeth Duw. Deled at y Beibl â dwylo gwag.

Ysbryd Duw yw'r awdur. Ond yn drosiadol, Moses a Paul ac Ioan a Dafydd ac eraill yw'r awduron y mae'n siarad drwyddynt. Nid *automatons* goddefol oeddent. Parchwyd eu personoliaethau cywir-greadigol. Yr hyn sy bwysicaf yw mai Duw sy'n llefaru drwyddynt. Nhw sy'n trosi drosto.

Ni ddeellir odid ddim o bwys o waith Duw, yr awdur hwnnw, ond gan ddarlennydd sy'n meddu ar galon ddrylliedig. Yr un y rhoddwyd llygaid ysbrydol iddo gan Dduw, hwnnw, nid y llythrenolwr gwyddonol na'r esthetydd barddonol na'r ysgolhaig dyn-ragdybiol, ond y Cristion tlawd a chariadus, hwnnw yw'r dehonglydd cywir datblygedig sy'n plygu i dderbyn cymorth. Mae hyn yn ffaith allweddol. Nid y Beibl sy'n 'dod' yn Air Duw, ond y darlennydd sy'n dod yn Gristion.

Sonnir am y Beibl fel Gair Duw, ac yn y fan yna y mae'r gair 'Gair' yn drosiad wrth gwrs, neu'n droad o leiaf. Mae'n wybodaeth a roir gan Dduw, ac mae awdurdod ei chynnwys yn wedd ar benarglwyddiaeth ddwyfol. Fel y mae Duw yn benarglwydd ar y greadigaeth ac ar fodolaeth, felly y mae'n benarglwydd ar wybodaeth. Duw yw'r cyfeirbwynt eithaf ymhob dehongliad ohono – cymharu'i eiriau â'i eiriau eraill, dyna sut yr ufuddheir yn unol i'w lyfr ef fel y dylid ufuddhau iddo Ef ei hun yn gyflawn.

Yn ôl yr anghredadun, ac efallai bob amser ym mryd hwnnw, dyn yw'r cyfeirbwynt eithaf. Dyma pam y mae pethau'n ymddangos yn relatif iddo. Dyn sy'n darparu'r rhagdybiau a'r gogwyddo iddo, boed mewn gwyddoniaeth neu hanes. I'r Cristion, y Gair a ddefnyddiwyd ac a fendithiwyd gan Ysbryd Duw, y Gair a dderbyniwyd gan yr Arglwydd Iesu Grist, a chalon y Cristion tlawd, erys hwnnw yn wir, tra bo hanes naturiol a gwyddoniaeth naturiol yn tyfu ac yn gwamalu'n gyson.

Hunangynhwysol yw Duw, ac y mae'r datguddiad a roddodd Ef drwy'i weision yn unol â'i gynllun ar gyfer y greadigaeth.

Felly, wrth i Gristion tlawd ddarllen yr ysgrythurau, yr hyn y mae'n ei geisio yw meddwl glân Duw. Ar ei liniau, yn drosiadol o bosibl, y mae'n ceisio'r ystyr yr oedd Duw'n ei fwriadu. Cais ddeall yn ddidwyll beth a fwriadodd Duw iddo'i ddeall. Felly, yn achos y Creu, fe wyddom fod E.W. Bullinger wedi rhestru 150 o esiamplau o iaith ffigurol yn *Genesis* 1-11. Gellir hefyd ymdeimlo â rhai patrymau 'rhetregol'. Ond y mae'n amlwg hefyd fod yna adroddiad 'rhyddieithol' yma i raddau helaeth lle y bwriadwyd iddo gyfleu gwedd hanes gwirioneddol 'lythrennol' yn y bôn. Digwyddodd y Creu, y drefn, y pwrpas, yr ystyr. Gwir i gyd. Myn rhywun un flwyddyn restru 'gwallau', o bosibl: fe'u dadwallusir hwy y flwyddyn wedyn. Nid ar ddarllen o'r fath y bydd byw ddyn.

Rhaid i'n dealltwriaeth o'r Gair fod yn unol â natur a gonestrwydd y Gair. Gwnaeth Luther gamgymeriad gorchestol pan synnodd fod Iago 2:14-26 (wrth ystyried geiriau megis 'ffydd' a 'gweithredoedd' a 'chyfiawnhau') i fod i gael eu dehongli a'u deall â'r un criteria yn gymwys â Paul yn *Rhufeiniaid* a *Galatiaid*, nid yn unig ag Iago yng nghyfanrwydd ei epistol ef. Mae cysondeb y Ffydd yn waelodol yn ddigon i'n harwain at yr Arglwydd Iesu Grist sy'n cynnwys y cwbl, Ffydd a Gweithredoedd, yn ôl eu cyd-destun, ac yn ddigon hefyd i gyd-ddehongli cynnwys a phrofiad yr Ysgrythurau. A phwysig yw sylwi, er gwaethaf cyfeiliornad Luther ynghylch awdurdod Iago, fod Luther o hyd yn derbyn y Beibl oll fel llyfr anffaeledig Duw.

Sylweddolai'r gwir: '*Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywirow, a disgyblu mewn cyfiawnder.*' (2 Tim. 3:16). Ac eto: '*ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed trwy ewyllys ddynol; pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân*' 2 Pedr 1:20-21.

Rhaid bod gan Luther ryw uwch ysfa a drechai bob rhagfarn. Yr oedd, (gwiw cofio, hefyd, ei fod yn hyn o beth fel Awstin ac fel Paul ac fel yr Arglwydd Iesu Grist), nid yn unig yn derbyn yr Ysgrythurau yn *wrthrychol* fel Gair rhoddedig gan Dduw. Yr oedd ei galon hefyd wedi cyd-dystiolaethu drwy waith grasol, coledus, cariadus yr Ysbryd Glân fod y Beibl hwnnw yn neges oruwchnaturiol wrthrychol iddo.

Onid oedd ef ei hun wedi cyfarfod ynddo â'r Duw byw?

*

*

*

Ceisiais ddadlau un tro mai un o'r themâu crefyddol pennaf yn Hanes Beirniadaeth Gymraeg fu'r frwydr (neu'r ymryson) rhwng Corff ac Ysbryd. Ac yn y cyfnod diweddar y mae'r gwrthdaro rhwng materion ysbrydol a materion cnawdol mwy anifeilaidd wedi ailfrigo i'r golwg. Wrth gwrs, hen frwydr yw hon yn y Beibl, a hen thema storiol. Ond diddorol sylwi fel y daeth i'r golwg o'r newydd wrth i ysgolheigion Beiblaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf ymrafael ynghylch natur ddynol a ffaeledig Gair Duw. Yr hyn a gollwyd am gyfnod yn yr ymrafael hwn oedd

y rheidrwydd i ddarllen y Gair yn ôl ei natur ysbrydol. Daeth deall y gwrthwyneb i'r ysbrydol i'r blaen wrth geisio dilyn myfiaeth hunanoldeb. Ymryson oedd, ac un rhwng yr Ysbrydol a'r Cnawdol.

Pan fo dyn ar ei orau, cyfuniad yw'r 'ysbrydol' o'r Gair a'r Ysbryd Glân. Canlyniad ymostwng yw. Digwyddiad goruwchnaturiol yw'r darlleniad ysbrydol hwn ohono. Darlleniad uwchnaturiol yw, ac iddo gynnwys awdurdodol. Yno y mae'r Gair yn cael ei eni o'r newydd yn y galon.

Dyma'r wedd arno a fydd bob amser yn bresennol, yn wrthrychol. Mae'n methu â heneiddio. Perthyn hyn i hynafiaeth dyn; ac eto, ni pherthyn i ieuencid mewn modd llai. Cyflawn yw ar y pryd, a diderfyn. Mae sefydlogrwydd ei ddoethineb yn y sefyllfa, pan fo'n dragwyddol, yn methu â dibynnu ar newid. Nid yw'n hiraethu am fod yn newydd nac yn hen. Ac eto, mae'n anorffen. Yn y fan yna, nid yw'r meddwl yn hidio mwyach am na llythrennol na throsiadol, ond am Dduw yn unig. Drwy weddi'r tlawd y darllenir y Beibl.

Un o fuddugoliaethau mwyaf diddorol y cyfnod diweddar oedd buddugoliaeth gyson a helaeth ffrwythlon ysgolheigion *Beiblaidd* dros feirniaid negyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oedd y traddodiad negyddol hwnnw gynt fel petai'n gwybod bellach beth oedd ar gerdded heddiw. Mae hi fel pe na chlywsai'r negyddwyr beth oedd bellach yn cael ei ddadlennu. Delir efallai i arddel o hyd yr hen 'gywiriadau' a'r un 'tanseiliadau' ymhell ar ôl arddangos eu diwallusrwydd 'diwygiol'. Nid oes a wnelo eu camgywiro mwyach â gwir ysgolheictod mewn hanesyddiaeth. Dewis ymddirywio yw'r ysfa gref gan yr hen do. Bu archaeolegwyr eu cyfnod gynt yn bur ddiwyd yn ceisio dangos bod archaeoleg yn medru gwrthddweud honiadau Beiblaidd. Eithr ar ôl cyflafan araf ond eithaf trwyadl, gallodd y blaenaf o ysgolheigion archaeolegol Palestinaidd, Nelson Glueck, gasglu: **'nid oes yr un dystiolaeth archaeolegol sy'n gwrthbrofi cyfeiriad Beiblaidd.'** Cadarnhawyd hyn yn ddiweddarach gan Alan Millard o Brifysgol Lerpwl. Yn ei *A Scientific Investigation of the Old Testament*, 1926, gellid cyfeirio at un enghraifft drawiadol gan yr enwog Robert Dick Wilson o Princeton ynghylch trefn gronolegol rhyw ddeugain o frenhinoedd rhwng 2000 C.C. a 400 C.C. a fu dan amheuaeth. Syfrdanwyd ef gan y cywirdeb. 'Ni ellid dychmygu tystiolaeth gryfach i gywirdeb sylweddol adroddiad yr Hen Destament na'r casgliad hwn o frenhinoedd. Yn fathemategol, nid oes ond un siawns mewn 750,000,000,000,000,000,000 fod y cywirdeb hwn yn ddamweiniol.' A gellid helaethu ar nifer o enghreifftiau o ysgubell uniongred y cyfnod diweddarach yn clirio gwrthwynebiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, os yn llai lliwgar.

Yn hynt gwallgasglwyr y Testament Newydd, bu hanes Syr William Ramsay, un o archaeolegwyr pennaf y byd erioed, yn drawiadol syn, gan iddo fod mor gadarn wrthgrediniol ymlaen llaw (dan ddylanwad Julius Wellhausen). Heb gredu awduraeth Luc o'r *Actau*, aeth ef i Dwrci yn unswydd i danseilio unwaith ac am byth eirwiredd yr hanes. Yn raddol, ac yn groes i'r

graen, o flwyddyn i flwyddyn, gyda ffaith ar ôl ffaith, suddodd gerbron y syndod, 'Y mae Luc yn hanesydd o'r rheng flaenaf' meddai; 'nid yn unig y mae'i osodiadau ffeithiol yn gwbl ddbynadwy, ond y mae'n meddu ar synnwyr gwir hanesyddol... Dyma awdur y dylid ei ystyried yn un o'r haneswyr mwyaf erioed.' Ufudd oedd i'r Gwirionedd.

Gellid helaethu'n ddifyr ar y gwallchwilio archaeolegol a gafwyd, a hynny drwy symud at feysydd cyfredol ysgolheigaidd megis 'copïwyr'. Ac unwaith eto, mae graddfa brofedig y cywirdeb cydwybodol yn cadarnhau dibynolrwydd manylder y testunau mewn modd syfrdanol. Erys rhai anawsterau deall o hyd fel bob amser gyda dynion. Ond y mae'n amlwg fod a wnelom â thystiolaeth unigryw yn ei gwirionedd. Mae angen bellach ysgrifennu Hanes y Gwallchwilwyr Cywiredig i oleuo'r patrwm o 'sicrwydd' tybiedig a gafwyd. Mae'r patrwm o hyder naturiol yn ysigo dan bwysau diwydrwydd anfwriadus wedi arwain at ddadrithiad disglair. Disodlwyd yr encilio gan helaethrwydd o wybodaeth dragwyddol, anghysurus o oruwchnaturiol ei chymhellion, a chafwyd un o symudiadau aruthr o gadarnhaol yr ugeinfed ganrif. Roedd yn ddathliad o'r Ysbryd Glân.

Mae angen o hyd olrhain yn fwy manwl hanes olynol ac ymlynol y dehongliad trosiadol o'r Eglwys gynnar (yn wir, o'r Hen Destament ymlaen drwy'r Oesoedd Canlynol hyd at y Piwritaniaid), gyda Theodôr o Antioch a fu'n pwysleisio'r llythrennol ac Origen o Alecsandria yn pwysleisio'r defnydd achlysurol o alegori. Cafwyd datblygiadau hanesyddol ffrwythlon rhwng yr Hen a'r Newydd ym mryd Theodôr; ond rhaid fu, fel y gwnâi Awstin wedyn, ogwyddo at gydnabod elfen o Alegori. Bu'r Hen felly yn hedyn; a'r Newydd yn goeden.

Y gwahaniaeth rhwng Gwybod Ysbrydol y gwir a Gwybod gwyddonol yw, yn syml:

- (I) *Gwybod Gwyddonol*: Cyfnewidiol yw Gwybod gwyddonol balch oherwydd cyfyngder rhagdybiau a breuder profiad. Dibynna ar faint y wybodaeth ar y pryd. Gall, yn draddodiadol, wneud rhagdybiau annigonol rhwystrol: e.e. ynghylch awdurdod y naturiol, a chau allan y goruwchnaturiol. Problem foesol ac ysbrydol fu hyn erioed, nid ffeithiol. Codwyd Rheswm amddifad yn bennaf, ysywaeth, i wneud y tro, hyd yn oed y tu hwnt i ofod a lle. Ond ni all fod yn sail i fywyd, er y gall gyfrannu llawer iawn at ein gwybodaeth fwyaf allanol ar y pryd drwy Ras Cyffredin.
- (II) *Gwybod Beiblaidd*: Sicrwydd parhaol a ddisgwylir yn y fan hon. Dibynna ar faint y wybodaeth dragwyddol, oruwchnaturiol, roddedig. Cawn ragdybiau gwrthrychol ynddo ynghylch tarddiad perthynas Duw a dyn (peth amhosibl yn y maes a chwiliwyd yn I Gwybod Gwyddonol). Cafwyd awdurdod yn y datguddiad. Mae pob cynneddf ar waith. Mae tarddiad II Gwybod Beiblaidd yn absoliwt.

Gan nad oes gwrth-gyferbyniad tanseiliol rhyngdynt, gellid casglu bod yna sefyllfa sy'n wynebu'r naill gyda'r llall, megis gyda Gras Cyffredin + Gras Arbennig:

(III) *Yr Effaith Ôl-Feiblaidd*: ym maes (I) Gwybod Gwyddonol: darparu'r ddealltwriaeth fel gwybodaeth gyffredin drwy gasglu tystiolaeth, dadansoddi a chyffredinoli. Gweithred ddynol o Ras Cyffredin yw ym myd deall (dirnad, amgyffred). Ffaeledig yw ond pwysig; a gweithred 'gyffredinol' fu. Yn (II) Gwybod Beiblaidd: yr Ysbryd Glân sy'n anadlu'r Gwirionedd yn rhodd drwy'r awduron dynol, dros gyfnod, yn goleuo ysbryd dynol, yn cymhwyso'r gwirionedd i'r holl bersonoliaeth, drwy'r galon (sef canol yr holl ddyn). Mae'n argyhoeddi drwy dystiolaeth fewnol. Gweithred arbennig a chyffredinol yw; ac mae'n grwn. Gellir cydnabod y Gwirionedd hwnnw fel ffaith absoliwt, gyda Gras Arbennig a Gras Cyffredin wedi'u hasio ac ar waith.

Yr Amddiffyniad a geir i'r Naturiol Llythrennol: Y Creu

Teimlir tipyn o anesmwythyd gan Gristnogion difrif grediniol heddiw pan fyddir yn trafod rhyddiaith neu hanes y Beibl yn ôl arddulliau Mawl. Tybir na all Mawl fod yn ddatguddiad o ffeithiau mewn amgylchfyd diwydiannol modern. Bu rhyddiaith Mawl yn fwyfwy anghyfarwydd yn gyffredinol mewn llenyddiaeth seciwlar ddiweddar, fel na ellid ei chysylltu â ffeithioldeb moel. Tybid bod defnydd diweddar o iaith mewn rhyddiaith seciwlar, os yw'n cael ei thrin bob amser yn ôl cywair y cyfnod diweddar, dyweder mewn gwyddoniaeth – hynny yw, yn llythrennol – yn dianrhydeddu'r gwirionedd a folid. Ac o ganlyniad, ceir gagendor rhwng naws a nod Mawl a naws y gymdeithas fydol soffistigedig. Mae yna nerfusrwydd, a dehonglwyr seciwlar yn bychanu ffigurau a throadau Mawl am na hoffant y ffordd yna o feddwl am ffeithiau. Ond yr hyn sydd dan sylw gennym ni yn awr yw'r dehongliad manwl gywir a phriodol o Fawl, yn ôl y cyd-destun a'r posibiliadau gloyw, yn enwedig wrth ymdrin â materion cadarnhaol sydd ac a fydd yn apelio at lawn ddeall meidrol dyn. Y Mawl sy'n dweud y gwir wrth reswm sy'n bwysig, nid dadl ynghylch y llythrennol. Cyfatebiaeth yw 'Mawl' i wybodaeth ac angen dyn am Dduw, a darpariaeth Duw i ddyn.

Bu'r symudiad mytholegol o du Bultmann ac eraill yn agenda am dro a fychanai nerth eglurder hanes moliannus yr Ysgrythur unigryw. Felly y caed crefydd gymharol Fabyloaidd ac amlffydd yn rhy fynych. Bu'r pwyslais gan wyddoniaeth naturiol gyfyngedig hefyd fel pe bai'n her i'w dynwared, gyda llythrenoldeb. A chafwyd rhagdybiau eraill megis cyd-destun hanesyddol meddyliol yn fodd i galedu'r safbwynt llythrennol Cristnogol. Gellir colli rheidrwydd cynhenid foliannus yr Ysgrythur, o'i gwthio i gyfeiriad amhriodol er mwyn ei ddeall.

Pwysig yw sylweddoli, felly, natur y testun dan sylw a'i gynnwys. Dechreuir Hanes gan y Beibl drwy ddelweddu geiriol, cyn amser a lle, yn gyn-faterol, hynny yw cyn bywyd a threfn gorfforedig, mewn cyd-destun cwbl oruwchnaturiol, ymhell y tu hwnt i ddealltwriaeth ddynol. Yr her i'r Awdur oedd i gyflwyno rhai gwirioneddau dieithr o'r fath, – nid pob gwirionedd – , heb gelwydd, ac ar ffurf Mawl. Ffordd o ddweud 'celwydd' gwir yw troadau neu ffigurau mewn cyd-

destun felly, ond ffordd o *ddweud* y *gwir* mewn modd lle nad yw'r llythrennol yn ddigonol. Bod yn ddigonol yw'r gamp. Sylwer ar rai ystyriaethau a gwerthoedd ychwanegol yn ddiweddarach lle y ceir amryfal fathau o ffigurau achlysurol sy'n dweud y gwir: **damhegion** yn yr Hen Destament: *Barn. 9:7 yml.; 2 Sam. 12:1 yml.; Esec. 7:23; alegori: Gal. 4:21-27, 'Dywedwch i mi, chwi sy'n mynnu bod dan gyfraith, oni wrandewch ar y Gyfraith? Y mae'n ysgrifenedig i Abraham gael dau fab, un o'i gaethferch ac un o'i wraig rydd. Ganwyd mab y gaethferch yn ôl greddfau'r cnawd, ond ganwyd mab y wraig rydd trwy addewid Duw. Alegori yw hyn oll. Y mae'r gwagedd yn cynrychioli dau gyfamod. Y mae un o Fynydd Sinai, yn geni plant i gaethiwed. Hagar yw hon; y mae Hagar yn cynrychioli Mynydd Sinai yn Arabia, ac y mae'n cyfateb i'r Jerwsalem sydd yn awr, oherwydd y mae hi, ynghyd â'i phlant, mewn caethiwed. Ond y mae'r Jerwsalem sydd fry yn rhydd, a hi yw ein mam ni. Oherwydd y mae'n ysgrifenedig: "Llawenha, y wraig ddiffrwyth nad wyt yn dwyn plant; bloeddia ganu, y wraig nad wyt fyth mewn gwewyr esgor; oherwydd y mae plant y wraig ddiymgeledd yn lluosocach na phlant y wraig sydd â gŵr ganddi."* Sylwer ar y Beibl yn sôn am 'alegori'. Ceir troi ffeithiau hanesyddol yn **Fawl** yn Ex. 15. Profir miwsig yn yr iaith. Pan ddarllenir pennod Luc 11, gwyddom ein bod yn mwynhau miwsig anghyffredin mewn rhyddiaith hardd. Mae pob Cymro diwylliedig yn gyfarwydd â phatrymau prydyddol Hebreig. A thueddant i'w gweld fel math o groes rhwng mydryddiaeth a ffigurau ymadrodd gyda mynych aralleirio. Patrymir unedau llinellog rhediadol, ond rhediadau *cynnwys* ac nid curiadau *mydryddol* (yn ôl ein harferiadaeth ni). Gwedd ar y neges oedd y miwsig. Trosiad oedd y miwsig ar gyfer y gwir. Miwsig meddwl oedd.

Imago Dei

Gellir hawlio bod y trosiadol hefyd yn ystyriaeth Ddiwinyddol. Yn yr ymadrodd *Imago Dei*, er enghraifft, ceir honiad amlwedd ynghylch perthynas. *Un o'r datganiadau pwysicaf arni a gofnodwyd yn y Beibl yw Genesis 1:26-27: Dywedodd, 'Gwnawn ddyn [Adda] ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu... Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy.'*

Mae hyn yn fwy na chreu Adda ac Efa, mae'n fwy hyd yn oed na chreu DNA i'r hil. **Creu patrwm y mae ar gyfer yr Ymgnawdoliad ei hun, yr ail Adda.** Mae'n ffurfio lluosog mewn undod. Mae'n trefnu hefyd berthynas rywiol a photensial ar gyfer rhywbeth arall, sef sefydliad y teulu. Ond yn bennaf, mae Duw'n ei gorffori'i hun mewn delw-wedd; ac yn ôl Luc 3, y mae'n ei gorffori'i hun o fewn llinach dyn. Rhaid bod sôn am bethau o'r fath yn her i adnoddau iaith; ond ta waeth am hynny, dyna ystyriaeth am Ddeunydd y Beibl.

Mae Duw'n creu trosiad ohono'i hun mewn ffordd anghyffredin drwy greu dyn. Argraffa'i ddelwedd ei hun ar bridd. Ond disgwylir i ddyn ymbalfalu'n ôl wedyn i lunio ac i lenwi'r ddelwedd

sydd yn Nuw. Edrydd Delwedd Duw i'r pechadur am chwenychu bod yn debycach iddo, ac yn debyg i Grist. Cynorthwyir dyn gan yr Ysbryd Glân i ymgynraedd o fewn y greadigaeth i ymestyn at y Crëwr: (Col. 3:10) *'wedi gwisgo amdanoch y natur ddynol newydd, sy'n cael ei hadnewyddu mewn gwybodaeth ar ddelw ei Chreawdwr.'*

Ceir pedwar *Imago Dei* felly. **Yn gyntaf**, y ddelwedd sydd gan Dduw erioed. **A'r ail**, y ddelwedd ddethol a wna Duw ohono'i hun wrth greu dyn meidrol (Gen. 2:7). **Yn drydydd** (Effes. 4:24): wedi'r Cwmp a'r achub: *'y natur ddynol newydd sydd wedi ei chreu ar ddelw Duw, yn y cyfiawnder a'r sancteiddrwydd sy'n gweddu i'r gwirionedd.'* Mae'r hunan newydd, drwy adnabod, yn profi delw'r Creawdwr o'r newydd. Adferir delwedd mewn tröedigaeth ddelfrydus. Nid uniaethir dyn a Duw, y Crewr a'r creedig; ond enillir undod wrth ddod yn Gristion (hyd yn oed yn yr Hen Destament), fel nad adeiledir undod pellach ond drwy sancteiddhad. Gyda thröedigaeth, bywheir y drydedd elfen – yn nhrioliaeth 'corff, enaid, ysbryd.' Ymunir yn hyn â chymdeithas ysbrydol sy'n amcanu at Ogoneddiad (1 Thes. 5:23). Mae perthynas ddeinamig yn ysgogi'r ymdeimlad o droi.

Mae yna **bedwerydd Imago Dei**, sef yr Arglwydd Iesu Grist, yn anghreedig, sy'n corffori delw Duw yn gynrychioliadol. Ynddo ef, yn weladwy, y rhagordeiniwyd y Cristion *'i fod yn unffurf ac unwedd â'i Fab, fel mai cyntafanedig fyddai ef ymhlith pobl lawer'* (Rhuf. 8:29). Felly, *yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef'* (2 Cor. 3:18).

Dyma droad hollol unigryw, hyd yn oed yn y Beibl, **y dyn ymgnewdoledig ar ddelw Duw**. Mae'n weithredol, hyd yn oed yn ddigwyddiad hanesyddol, y tu hwnt i iaith – ond mewn iaith. Gwneuthur delw uniongyrchol ohono'i hun (ddwywaith) yr oedd Duw, sef dyn. **A gellir deall bod y dyn syrthiedig, sy'n cael ei aileni, yn awyddu i adfer y ddelw honno a fwriadwyd iddo**. Mae 'dysgeidiaeth' yn gwneud mwy nag esbonio peth o'r berthynas wreiddiol rhwng dyn a Duw. Y mae hefyd yn awgrymu rhywbeth o'r berthynas rhwng y Tad a'r Mab. Ond mae a wnelo â'r holl ieithwedd droadol lle y **defnyddir y materol i ddarlunio'r ysbrydol**, rhwng y pethau creedig a'r anghreedig. Ymwybyddwn yn lletach â ffaith o'r fath drwy lefelau o ystyr.

Mae'r Deunydd, felly, yn dyfnhau mewn dealltwriaeth o Hanes. Deunydd i Fawl yw'r Hanes.

Mae Cristnogaeth yn cyflwyno Duw yn sylfaenol fel Ysbryd, er bod yr Ysbryd hwnnw'n penderfynu ymgnewdoli'n faterol yn y Mab tragwyddol. Yn yr ysbryd dynol y canfyddwn un ddolen 'ddelw' fawr sydd ganddo rhwng y naturiol a'r goruwchnaturiol. Gan fod tragwyddolrwydd yn gynhenid yn Nuw, y mae derbyn bywyd tragwyddol gan y bod dynol yn golygu ei fod yn etifedd i dragwyddol cyfan, a'i wreiddiau (yn ogystal â'i ddyfodol) yn ddiamsr. Yr ysbryd yw 'trigfan ffydd', yn ôl Luther. Dyma'r wedd uchaf ar ddyn, nes canfod perffeithrwydd y Mab hefyd. Yn rhyfedd iawn, gan mai delweddu yw rhan o waith y celfyddydau, pan fo celfyddyd ddelweddu dyn

drwy Ras Cyffredin mewn cytgordd â gwerthoedd Cristnogion, (nid yn gableddus nac yn eilunaddoliad), nid anghywir fyddai sylwi sut y mae'r artist yntau (a'r bardd, a'r pregethwr) yn gwneud peth o waith Duw yn yr argraff a rydd o feddwl, deall, rhesymoliaeth, ffurf a dychymyg dyn. Mor rhyfedd o agos yw Duw; mor rhyfedd o bell.

Thema'r Naturiol: Y Gorchymyn Diwylliannol

Mewn bywydau cyffredin, fe fyddai Cristion yn dadlau bod yna ddau fath o themâu ystyrion. Sef y rhai Goruwchnaturiol a'r rhai Naturiol. I'r anghredadun confensiynol, y mae rhai Goruwchnaturiol i gyd naill ai'n negyddol neu'n gaeedig. I'r credadun, ar y llaw arall, y mae'r Goruwchnaturiol weithiau yn wrthrych negyddiad ac weithiau'n gadarnhaol; ond nid ydynt byth yn gaeedig. I'r credadun, y mae'r Naturiol o fewn y Goruwchnaturiol.

Diddorol sylwi ar y deddfau sy'n llythrennol berthnasol yn y dimensiwn Goruwchnaturiol a Naturiol. Teg dweud bod y deddfau *naturiol* i gyd yn gyfartal o ran ystyr a gwir i'r credadun a'r anghredadun. Ond gyda'r deddfau *goruwchnaturiol*, y gorchymyn canolog unigryw,, sy'n cydio pob deddf wrth ei gilydd ac yn rhoi undod cyfeiriol iddynt oll, yw '*Gogoneddwch* yr Arglwydd'.

Gyda'r deddfau *naturiol*, ar y llaw arall, y gorchymyn canolog cynwysedig cyfannol, sy'n cydio pob deddf wrth ei gilydd ac yn rhoi undod cyfeiriol iddynt oll, yw '*Ffrwythwch*'. Ym mherffeithrwydd y Nodau hyn y gweithia'r Ysbryd Glân.

O ran troad y mae'r Naturiol oll yn cael ei amodi gan y Goruwchnaturiol (ac y maent yn cael eu gweld felly yn yr ysgrythurau) gan fod a wnelo troad ag iaith naturiol a lanwyd gan foddion goruwchnaturiol. Dyma'r lle y mae'r anghenion. O ran cylch y troad y mae'r Naturiol yn cyd-droi yn ei gilydd, ac eithrio eto lle y bo'r defnydd ysgrythurol yn arwain pwnc naturiol. Ond y mae'r Goruwchnaturiol yn gallu newid y cwbl. Y lle amlycaf i'r Naturiol ddechrau fyddai yn Eden. Ac yn y fan yna y cyflwynir i ddyn y gorchymyn cyntaf, sef y gorchymyn mwyaf arwyddocaol iddo ynghylch y *ffordd i ogoneddu ar y ddaear drwy natur*. Mae'n egluro ychydig o ystyr ddiwinyddol bywyd cyffredin. A thrist bod diwinyddion uniongred Cymru (o bawb) heb roi iddo'r anrhydedd a haedda o fewn sbectrwm cyflawn y bywyd Cristnogol realistig. Dyma'r Gorchymyn Diwylliannol. Dyma wedi'r cyfan ystyr gwaith beunyddiol. Y mae popeth (y mynyddoedd, y moroedd) yn gogoneddu Duw. Dyma brif thema ein gwaith ar y ddaear ac yn y nef.

Mae rychwant Deunydd Crefydd a rychwant Deunydd Llenyddiaeth yn cyfateb yn union i'w gilydd. Pan ystyriwn athrawiaeth Penarglwyddiaeth Duw, a throi i feddwl am amrediad honno, yr ydym yn meddwl am berthynas Duw â'r holl greadigaeth, gan gynnwys holl berthynas dyn a phopeth. Mae lled perthynas dyn a chyd-ddyn, a dyn â phob peth sy'n bod, yn gorfod ystyried perthnasoldeb Duw ar ddechrau Genesis i ffrwytho popeth gan gwmpasu 'sylwedd' oll.

Ym maes Deunydd y mae a wnelo Mawl â diben byw yn amgylchfyd y greadigaeth. Ac y mae'r Gorchymyn Diwylliannol yn bodoli ar ffurf thematig a deinamig ym mherthynas dyn a'r amgylchfyd hwnnw. Diwyllio er clod i Dduw yw 'ffrwythwch'.

Dyma un o brif orchymynion y greadigaeth, felly. Y mae'n ymwneud â phwrpas popeth creedig o'r dechrau hyd y diwedd: gogoneddu drwy ffrwytho. Gellid dadlau bod y Gorchymyn Diwylliannol yn isradd o ran fframwaith thematig i Iachawdwriaeth, ond ei fod yr un mor flaenllaw o fewn fframwaith diben y Greadigaeth. Mae Iachawdwriaeth yn waith cyfredol â'r gorchymyn er gogoniant i Dduw. 'Wiw i efengyleiddwyr er hynny fod yn esgeulus o'r Gorchymyn Diwylliannol.

O'r greadigaeth ymlaen, yr oedd gan yr Ysbryd Glân gyfrifoldeb arbennig am Ras Cyffredin, gan ddechrau drwy '*ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd*' (Gen. 1:2). Dyma un o brif gymeriadau llenyddol yr Hanes sy'n sôn am ddyfeisio'r Deunydd i'r byd. Hanes Duw a fyddai'n darparu'r haul a'r dyfroedd, y golau, yr anifeiliaid, yr awyr a'r planhigion. Ei anadl ef a fywhaodd y clai. Yn y cefndir hwnnw y magwyd Adda. Dyma Hanes ffrwythlonni daearol o fewn cywaith y Drindod. Ni wn a yw'n orchymyn tragwyddol neu beidio. Ymddengys yn wedd ar gymeriad Duw.

Mae'n wir mai Iesu Grist yw canolbwynt Gras Arbennig, ond gwasgerir hefyd hwnnw'n llydan ynghyd â Gras Cyffredin yn gyson drwy'r Beibl lle y cafwyd gwybodaeth am y Tri yn Un; i bawb yn ddiwahân. A thrwy bregethu'r Gair hefyd, fe'i gwasgarwyd ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Yn gyfrwng gwybodaeth, yn nerth meddwl a chorff, rhoddir defnyddiau Gras Cyffredin i ddynion oll a gorchymyn i bob un, yn gredadun ac yn anghredadun, (Gen. 1:28), '*Bendithiodd Duw hwy a dweud, "Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi"*.'

Wedi'r Cwmp, sut bynnag, y mae dynion, fwyfwy, yn gwrthryfela'n erbyn deddfau Duw: hyd yn oed yn lladd ei gilydd a lladd ar ei gilydd: (Gen. 5:5) '*a bod holl ogwydd eu bwriadau bob amser yn ddrwg*.' (Gen. 6:12); '*am fod pob peth byw ar y ddaear wedi ei lygru*.' Cyffredinol yw pechod. Mellithiwyd gwaith. Mae yna amlhau ar wrthryfel a cham newydd yn hanes dynoliaeth, gan arwain at Noa. Cafwyd cosb arbennig i'r byd gan y Dilyw. Dyma un o'r chwyldroadau mwyaf yn rhediad twf dynolryw. Eto, ewyllys sylfaenol Duw o hyd oedd: '*Byddwch ffrwythlon, amlhewch a llanwch y ddaear*' (Gen. 9:1). Ailadroddir y Gorchymyn Diwylliannol yn drefn barhaol. '*Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, epiliwch ar y ddaear ac amlhewch ynddi*.' (Gen. 9: 7).

Eisoës, yn gynnar yn Genesis, '*dechreuodd y bobl amlhau ar wyneb y ddaear*' (Gen. 6:1). A pharhâi'r olwg ryngwladol ledled y byd: 1 Bren. 10:24; Jer. 51:41; Galar. 2:15; Jer. 5:41; Esec. 34: 6; Heb. 1:6. Yn Gen. 9:9, dyma ail-sefydlu trefn ffrwythlon i ddyfodol dynoliaeth oll: '*dyma fi'n sefydlu fy nghyfamod [sylwer ar y gair] â chwi ac â'ch had ar eich ôl*.' Erys y mandad hwn yn gyffredinol am byth tra parhao'r ddaear.

Ond ar ddechrau Gen. 11, ysywaeth, heriwyd y Gorchymyn Diwylliannol o ddifri am y tro

cyntaf erioed. Ymataliwyd rhag llenwi'r ddaear a gwasgaru ac ufuddhau. Ceisiwyd canoli grym ac arddangos gallu dynion ynddynt eu hunain i fod yn bwerus, ac **ymgodi hyd y nef yn eu nerth canoledig eu hun.** Dymument ymadael â'r dull a sefydlwyd o grwydro led y ddaear ar wasgar. Yn hytrach, codent wartheg a phlanhigion yn yr unlle. Penderfynent sefydlu dinas â phriddfeini, a thŵr a'i ben yn y nefoedd. Grym! **Ego-mania!** Daethant yn uniaith fawr, fel y digwyddodd yn imperialaidd yn ystod y cyfnod modern drachefn. Dywedasant wrth ei gilydd: '*Gwnawn inni enw, rhag ein gwasgaru dros wyneb yr holl ddaear. Disgynnodd yr Arglwydd i weld y ddinas a'r tŵr yr oedd y bobl wedi eu hadeiladu,* [Ond mynnai ymyrryd.] *a dywedodd, "Y maent yn un bobl a chanddynt un iaith: y maent wedi dechrau gwneud hyn, a bellach ni rwystrir hwy mewn dim y bwriadant ei wneud* [yn ôl eu tybiaeth; a dywedodd wedyn –]. *Dewch, disgynnwn a chymysgu eu hiaith hwy yno, rhag iddynt ddeall ei gilydd yn siarad*".' (Gen.11:4-7) [Cedwir hwy felly rhag grymuso, rhag canoli'n ddiwylliannol, ac ymddwyn yn groes i ffrwytho'n amrywiol yn ôl y mandad.] *Felly* (yn groes i'w chwant canoli) *gwasgarodd yr Arglwydd hwy oddi yno dros wyneb yr holl ddaear.* [Dyma weithred ac ewyllys Duw,] *a pheidiasant ag adeiladu'r ddinas.* [h.y. Buddugoliaeth Duw yn atal dinas ganolig yn groes i amrywiaeth ffrwythlon amrywiol ym mhob rhan o'r ddaear.] *Am hynny gelwir ei henw Babel, oherwydd yno y cymysgodd yr Arglwydd iaith yr holl fyd, a gwasgarodd yr Arglwydd hwy oddi yno* [pwysleisir hyn drwy ailadrodd; ac **nid oes dim sôn am gosb.** Dyfais a gweithred ddwyfol oedd hyn.] Gen. 11:8-9. Dyma ymgais dyn ac ateb Duw i droi'r Gorchymyn Diwylliannol wyneb i waered. Ond yno, sicrhaodd Duw fod ei gynllun a'i ewyllys yn cael eu cyflawni. Yr hyn a ddigwyddodd oedd datgan parhad y patrwm gwaith a'r cynllun byw ar gyfer gweddill amser y byd. Rhwng Genesis 10 ac 11, ceir bwlch hanesyddol. Mae'n gam newydd yn hanes dynoliaeth yn gwrthryfela drwy wleidyddiaeth grym, undonedd, ac unffurfiaeth ddiwylliannol. Rhoir atodiad i'r Gorchymyn Diwylliannol cynnar, felly. Ailgydiwyd yn egwyddor sylfaen greadigol, 'yr amryw mewn gwleidyddiaeth o fewn Undod Gwaed a Llywodraeth un Duw.' Roedd dyn i fod i anelu at ddiwylliant yn ei amllder, er gwaetha'r chwys.

Dyma weledigaeth ddwyfol: ufuddhau i Dduw a fynnid. Weithiau, clywid ymgais i ddileu cenedloedd gan unbenaethiaid imperialaidd, neu eu cysgodion taeog. Ond cenadwri well sydd yn y fan hon. Os gofynnir pam y meithrinwn ni'r Gymraeg, yr ateb gonest yw – **Babel! Duw a fynnodd amlhau ieithoedd. Ei weithred ef oedd. Y Drindod, y Tri yn Un, a roddodd inni batrwm yr Amryw mewn Undod, sy'n anghenraid cwbl orfodol mewn iaith ac yn etifeddiaeth drwy fywyd, yn y gell, yn yr atom, mewn organau, mewn ffrwythau, mewn llyisiau ac anifeiliaid, a'r tu mewn i ramadeg a geirfa'r iaith, a rhwng diwylliannau amryliw sy'n sychedu am ffrwythlondeb. Gwrthwynebodd Duw ddiogi diwylliant.** Dyma'r esboniad gonest sy'n egluro'n ddigonol sydynrwydd y cyferbyniad rhwng Gen. 10:31 a Gen. 11:1. Ergyd y cofnodiad am Fabel

oedd arddangos ewyllys Duw yn cael ei gwneud yn baradocsaidd er gwaethaf tywyllwch ewyllys dyn. **Er gwaethaf taeogrwydd y bobl goncweredig, a'r awydd bythol i lyncu cae mewn cae, dengys Duw drwy'r Ysgrythurau fel y mae ef yn gwahaniaethu rhwng pobl yn ddiwylliedig mewn cariad, mewn modd sy'n eu harwain at werthfawrogi unigolion a diwylliannau ffrwythlon ac amrywiol ledled y ddaear. Amllder mewn Un yw'r patrwm.**

Un o'r ffactorau pwysicaf fu datblygu gwerthusiad a diben o fewn y gorchymyn diwylliannol hwn, ac y mae hyn hefyd yn wedd ar ogoneddu Duw. Er bod pobl seciwlar hwythau'n gorfod wynebu'r gorchymyn, yn isymwybodol neu beidio, y maent hwythau ar eu hennill o ran ansawdd a nerth o ganfod cyd-destun ystyrllon yr hyn y maent yn ei wneud. Enillir dyfnder a boddhad i'r Cyffredin gan bresenoldeb yr Arbennig.

Meddai Christopher Hart am yr atheist Jonathan Miller: 'Fe hawliodd fod "pob crefydd yn gyfartal wrthun â'i gilydd", ond fel yr artistiaid o'r teip chweched dosbarth hwn o 'glyfar' (Dawkins, Hitchens, et al.) nid yn unig y mae'n methu â deall ond hefyd tuedda i grefyddu yn unol â'r naturiol ddynol... Mae clyfrwch negyddu coegi yn arwain at dristwch gallu sy'n ei buteinio'i hun wrth ei eilunaddoli'i hun.' Ysglyfaeth yw Miller i relativrwydd.

Rhan o ffrwythlondeb y Gorchymyn Diwylliannol yw llenyddiaeth ei hun, gan gynnwys y Beibl. Ond awdurdod hefyd yw hwnnw. **Y mae'r Beibl yn fwy na llenyddiaeth arferol. Mae athrawiaeth anffaeledigrwydd y Gair yn cadarnhau bod y Beibl yn achos arbennig. Mae pob llenyddiaeth yn gweithio mewn cyfannau. Yn wir, y mae'r ymennydd ei hun yn gorfod meddwl mewn cyfannau, mewn geiriau, mewn brawddegau, ac yn y blaen yn sylfaenol. Ffurfiwyd, bron yn ddjarwybod, Ganon i'r Beibl, yn ganlyniad i wth penderfynol, isymwybodol i raddau i ddethol cyfansoddiad cyflawn. Fe'i profwyd gan y traddodiad eglwysig a ymwrthodai'n rhyfeddol o gytûn, a chofio mai pobl – ond o dan lywiad yr Ysbryd Glân – a fu wrthi. Cred Cristnogion fod cyflawnder datguddiad Duw ar gyfer gwaith Iesu Grist yn y Testament Newydd wedi gweithredu a gorffen. Cyflawnwyd gwaith Iesu Grist yn ei ymweliad aberthol â'r ddaear. Yna, a dim ond y pryd hynny, y gellid tywallt allan lawnder yr Ysbryd. Pan oedd Crist wedi marw, codi, ac esgyn, y pryd hynny y buasai dŵr geiriol y bywyd yn gorlifo'i lannau ac yn ymestyn dros y cenhedloedd yn Actau 2. Dyna symud tuag at Ei gynhaeaf. Cyn hynny, fel y dywedodd Ioan 7:39, '*nid oedd yr Ysbryd ganddynt eto, am nad oedd Iesu wedi cael ei ogoneddu eto.*' Mae yna ymdeimlad o ffin 'Gorffennwyd' mwyach. Cyfanwaith creadigol yw gan yr Ysbryd Glân, gyda dechrau, canol, a diwedd i'r Cosmos.**

Dyma hefyd ganolbwynt a gorffen y gwaith o lunio Beibl. Ffrwythwyd o fewn ffiniau.

Tystiai arweinwyr y bobl mai'r Ysbryd Glân oedd yn cynnal y Canon wedyn, fel gyda Nehemia 9:20, '*Rhodaist dy ysbryd daionus i'w cyfarwyddo,*' wrth iddo arwain yr Iddewon yn ôl i

Israel ar ôl i Israel dreulio deng mlynedd a thrigain o alltudiaeth ym Mabilon. Fel yr oedd Duw wedi cynnal Moses am flynyddoedd y buont hwythau yn alltudion mewn math o anialwch. Cafodd Micha yr un awdurdod gan Ysbryd Duw i gyhoeddi neges unol o hyd (Micha 3:8), '*Ond amdanaf fi, rwy'n llawn grym ac ysbryd yr Arglwydd, a chyfiawnder a nerth, i gyhoeddi ei drosedd i Jacob, a'i bechod i Israel.*' Ceid 'Cerddi'r Ysbryd' drwy gydol yr Hen Destament. Yn 2 Samuel 23:2-3, geiriau olaf Dafydd, brenin daearol mwyaf Israel, i'w bobl oedd: '*Ysbryd yr Arglwydd a lefarodd drwof, a'i air ef oedd ar fy nhafod. Llefarrowd Duw Jacob, dywedodd craig Israel wrthyf.*' Dyma'r sylweddoliad o Ysbryd a brofodd Israel drwy'r canrifoedd. Cydnabuwyd gan yr Awdur wahanol awduron dynolryw a'u profiadau a'u doniau a'u harddulliau wrth i'r Ysbryd eu harwain, a siarad drwyddynt. Dyma'r ffordd a ddewisodd Duw. Yn hyn o gelfyddydwaith roedd gan Eseia lais gwahanol i Ioan yr Efenglydd, a Jeremeia dôn a gallu gwahanol i Bedr. Ond yr un efengyl a oedd ganddynt oll, a'r un ysbryd. Trawiadol o undod oedd. Gorffennwyd drwyddynt yr Addewid.

Ffrwythwyd mewn undod. Trawiadol iawn yw'r dull yr aeth Jeremeia ati i drosglwyddo geiriau Duw. Meddai Jeremeia 36:4-7, ac yntau wedi'i rwymo fel na châi ysgrifennu ei hun, '*Yna, galwodd Jeremeia ar Baruch fab Nereia, ac wrth i Jeremeia lefaru, ysgrifennodd Baruch yn y sgrôl yr holl eiriau a lefarodd yr Arglwydd wrth Jeremeia. Yna, rhoes y gorchymyn hwn i Baruch: "Fe'm rhwystrwyd i rhag mynd i dŷ'r Arglwydd, ond dos di, ac ar ddydd ympryd darllen o'r sgrôl, yng nghlyw'r bobl yn nhŷ'r Arglwydd, holl eiriau'r Arglwydd fel y lleferais hwy. Darllen hwy hefyd yng nghlyw holl bobl Jwda a ddaw o'u dinasoedd."*'

Themateg

Themateg yw'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan yr Ysbryd Glân i gyflwyno Deunydd y Beibl, fel arfer. Hynny yw, mae yna fath o ddeinameg drwy gydol y Beibl sy'n cario'r naratif a'r syniadaeth, y weddi a'r myfyrdod. Mae'r Awdur yn cydio mewn Deunydd, ac yn ei gyfansoddi ar ffurf symudiad meddyliol mewn undodau thematig. Y symudiad cydlynol unol hwn yw'r themateg.

Yn ôl ffurf themâu, wrth gwrs, y bydd Deunydd yn ei ddadlennu'i hun mewn llenyddiaeth yn gyffredinol. Ystyr rhediad y Cynnwys yw'r themâu.

Undod rhediad o fath arbennig yw Thema. Rhediad ystyr yw sy'n uno tair elfen i ddweud rhywbeth am fywyd. Gall fod yn rhediad *meddyliol* a *syniadol* neu'n rhediad *digwyddiadol*. Gall fod yn gryno neu'n estynedig. **Ond fe geir, mewn thema, yn gyffredinol *adeiladwaith triol* o Enw (peth, neu berson, neu bwnc) / Berf (digwyddiad) /ac Adferf (amgylchfyd amser a lle neu ansawdd). Dyma gynheiliaid meddyliol i thema, a chynheiliaid meddyliol i Frawddeg yn ffurfiant iaith: y graidd frawddeg.** Dônt at ei gilydd i lunio cyfanwaith lle y gellir mewn thema estynedig gynnwys rhannau neu is-themâu o fewn thema sy'n gyfannol lywodraethol.

Yn y Beibl, fe geir *ddy brif thema* sy'n cysylltu neu'n cwmpasu pob rhan o'r Beibl â'i gilydd, o'r gair cyntaf i'r gair olaf, yn ogystal â llu o is-themâu o fewn y llyfrau. ***Creu a gwaredu*** yw'r *ddyw thema arweiniol hyn*.

Mae prif arwr daearol Duw, sef Iesu Grist, yn y canol yn gwneud daioni'n wastad. Mae'r is-arwr – dyn – sy'n derbyn, yn ceisio'i ddifetha. Mae'r prif arwr yn cynnig maddeuant a chymod. A cheir dau ateb posibl gan ddyn – derbyn neu wrthod. Gwrthod yw'r norm neu'r cyflwr cynhenid. A dau ateb gan Dduw, – trugaredd a barn. Ond yr hyn sy'n uno trugaredd a barn yw daioni. O dan y rhediad thematig yna, rhed paradocs, sef caru gelyn gan Dduw, a'r cariad hwnnw yn bresennol hyd yn oed yn ei gyfiawnder.

Mae'r themâu hynny yn y Beibl; a'r wedd faddeuol a chymodol yn gyffredinol yw prif ddiben y Beibl. Manylaf ychydig ar hynny ar ddyw lefel, ar lefel y Greadigaeth lydan ac ar lefel y Credadun unigol cyfyng, yr ail o fewn y llall.

Yna, symudaf yn ôl at y Gogoniant sy'n ddiben hefyd i Ras Cyffredin drwy'r cyfuniad Creadigaeth–Gwardigaeth. Dynodir hyn yn nechrau Genesis. Mae'n cyfeirio at Bwrpas Duw ar gyfer bywyd beunyddiol dyn ar y ddaear – sut y mae i fod i ogoneddu Duw yn ei waith bob dydd, drwy stiwardio'r ddaear. O fewn y Greadigaeth o hyd, y mae dyn i fod i ddiwyllio (er bod y gwaith hwnnw'n chwyslyd feichus mwyach, ac yn amherffaith ar ôl y Cwmp). Yn hyn eto, ar lefel arall, y mae dyn i fod i ufuddhau ac i fawrygu Duw ym mhob math o swyddi. Ni bydd efengyleiddiwr weithiau yn ei genadwri yn rhoi llawer o sylw, ysywaeth, i arwyddocâd ei fywyd am chwe diwrnod yr wythnos. Un diwrnod mewn wythnos, sef y Sul, ac efallai un diwrnod yn ei fywyd, sef dydd ei dröedigaeth, a gaiff fonopoli o sylw gan rai efengyleiddwyr. Ond y mae Penarglwyddiaeth Duw yn mynnu bod y cyfan o Ddeunydd y Byd a'r Betws yn eiddo i'r Arglwydd.

Dyna sy'n cyfrif, wrth sôn am Ddeunydd Thematig y Beibl, fel y ceisiwyd rhoi cyfeiriad gan Bantycelyn i ddyw thema i bawb yn benodol o'i ddarllenwyr yntau. Nid amhriodol yw sôn am gyfochredd thematig cysgodol Creadigaeth/ Gwardigaeth. Dyma ddyw thema gwbl gyfredol ac adleisiol sy'n cyd-adeiladu strwythur meddyliol y Beibl. Maent yn cyd-godi fframwaith ymbarél i'w ystyr fawr oll. Clymir y geiriau Creadigaeth a Gwardigaeth yn y gair Gogoniant.

Ymddengys i mi fod cydberthynas dwy arwrgerdd fawr Pantycelyn yn ymwneud yn fras ag esgor ar arch-themâu cydlynol i'r Beibl – 'Y Greadigaeth' yn *Golwg ar Deyrnas Crist* a'r 'Waredigaeth' yn *Theomemphus*. Ar berygl symleiddio, fe syniaf fi fod rhai o ddadleuon mawr y tri chwarter olaf o'r ganrif ddiwethaf yn sffêr Diwinyddiaeth wedi'u hollti o gylch y ffaith hon fod un gwerysll wedi aros gyda'r Greadigaeth, y Deddfau, a Natur (sef y dyn-ganolwyr), a'r garfan arall wedi ymdroi gyda Gwardigaeth (sef y Duw-ganolwyr). Cafwyd pendil rhyngddynt. Felly, yn ymateb cam Barth *Na! Ateb i Emil Brunner*, fe gyhuddwyd Brunner am iddo honni bod yna

ddatguddiad cyffredinol i'w gael, – gras a chynhaliaeth mewn creadigaeth, deddf naturiol, a chysylltiad rhwng natur a gras. Mae hyn yn ein hatgoffa o'r ddeuliaeth gyfredol yn Oes Fictoria rhwng Gwyddoniaeth a Chrefydd, lle y mae Gwyddoniaeth yn ymdroi ar y naill law gyda chyfyngiadau naturiol y Bydysawd, a Chrefydd gron yn ymddangos fel pe bai'n ymdrin â'r Goruwchnaturiol yn unig. Wedyn, cafwyd gogwydd megis Alvin Plantinga, Nicholas Wolterstorff, a T.F. Torrance a'r Rhagdybiaethwyr a Phenarglwyddiaethwyr, megis Van Til, Kuyper ac eraill, yn ôl at Sylfaenogrwydd (*Foundationalism*), ac yn ôl hefyd mewn modd gwahanol at faes y 'profion' o Dduw, a Phum Ffordd Acwin. Roedd hi fel petaent yn teimlo'r bwlch yn nifodaeth Søren Kierkegaard a Barth. Felly y'n tynghedwyd ni i ddioddef y pendil.

Nid yw hi mor syml â hyn wrth gwrs, ac fe geir Efengyl Waredigol yn yr Hen Destament ynghyd â Chosmoleg a Gogoniant y Greadigaeth a Glendid y Deddfau yn y Newydd. Bu Plantinga (o leiaf ar un adeg) yn rhoi sylw mawr i seiliau ffydd cytbwys o'r fath, megis i ddioddefaint, i'r Drindod a phechod. Ond cafwyd ymgais ganddo hefyd (yn fwyfwy naturiolaid mae arnaf ofn) i lenwi'i fylchau pwyslais; ac nid mewn athrawiaethau unigol ond yn yr holl wth personol mewn ffydd. Dyma hefyd fater a gafodd sylw adnewyddedig ymhlith diwinyddion effro diweddarach.

Sut bynnag, pan drown yn ein themateg at strwythur deublyg y Beibl, ac ymdroi gyda'r Greadigaeth Newydd yng Nghrist, dechreuwn sylwi'n eglur mai deuoliaeth fawrhydige gyfun yw. Amgylchir y ddau begwn hyn gan holl fframwaith 'amgylchol' y Beibl, y Greadigaeth a'r Waredigaeth, a llu o athrawiaethau eraill perthnasol. Fe'i clywid yn yr hen gyferbyniad Natur/Gras: (Gras Cyffredin/ Gras Arbennig). Egyr holl faes Diwinyddiaeth Naturiol yn yr ystyr ddiweddar lle y mae Crist yn esbonio Natur, ac nid Natur sy'n esbonio Crist. Yr Absoliwt deublyg sy'n esbonio themateg, ac nid fel arall. Yma y gallwn olrhain Strwythur cyfansawdd o dan y strwythurau creedig, a fframwaith thematig o fewn y Duwdod, lle y mae'r Potensial yn esgor ar Effaith. Mae swyddogaeth anweledig Deddf ar waith yn ddeublyg oherwydd cymeriad Duw ei hun.

Nid achlysurol na damweiniol yw dim yn yr Ysgrythur, nac yn wir yn ein bywyd beunyddiol. O ran y sylweddolwn y Cynllun deublyg sydd ar waith. Buddiol i bawb yw bod yn effro i'r Rhagluniaeth sy'n batrwm sefydlog ac a roes fod i'r da a'r drwg gyda'i gilydd. Hyn a ddengys Gyfundrefneg Duw a esgorodd ar gyfundrefnau'r byd. A hyn a ddarparodd hefyd i Gristnogion ymwybod hydeiml o gyd-themateg driphlyg Creu/Cwmp/Codi, ac o Raglunio/Torri Deddf/ Gobaith yn yr Hen Destament megis yn y Newydd. Gwylw'n rhag colli'r Cyfan mewn rhan.

Mae cyfochredd themateg fel hyn yn ddrych o gyfochredd prydyddiaeth ffurfiol y Beibl benbwygilydd, ac union adlewyrchiad mewn meicrocosm yw o'r symudiad cyfochrog a geir ym macrocosm ei syniadaeth gyffredinol. **Y Naturiol o fewn y Goruwchnaturiol yw popeth.**

Thema Fawr y Goruwchnaturiol: Gogoneddu

Pan ystyriwn Ddeunydd deinamig neu symudiadol y Beibl, a'r cwlwm sydd i'r holl themâu, mae yna un digwyddiad egwyddorol ac un cwlwm terfynol emosiynol uwchlaw pob dim. A hynny yw, Gogoneddu. Hyn yw uchafbwynt pob synnwyr. Pan aeth Williams ati i ymadael â'i emynau am gyfnod, ac i ysgrifennu dwy arwrgerdd hir, fe ddewisodd ef ddwy thema – neu fe'i dewiswyd ef gan ddwy thema a oedd yn un; a'r ddwy'n gorffen mewn Gogoneddiad. Bu ef yn astudio'n daer, a bu ei gyd-ddiwygwyr yn pryderu am ei iechyd gan galeted oedd ei waith arwrgerddol ochr yn ochr â'i holl ddyletswyddau rheolaidd eraill. Ac o'r diwedd, yn flinedig, fe orffennodd yn gyntaf *Golwg ar Deyrnas Crist*, ac yna *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus*. Mewn gwirionedd, ym Maniffesto Nasareth fe ddatganodd yr Arglwydd Iesu Grist mai cyflwyno Teyrnas Dduw – yn ei holl symlder a'i chymhlethdod amlochrog – fyddai'i waith. A dyna'r brif thema yn ei Ddamhegion. Yr hyn a gafwyd gan yr Iesu oedd 'Golwg' ar gosmos tragwyddol y Deyrnas. Yr hyn a roddodd Pantycelyn i ni oedd 'Golwg' mewn Amser yn ganolog. Ond ymestynnai hynny o'r tu allan i amser, mewn Rhagluniaeth, ac ymlaen drwy hynt a helynt y Cwmp mewn amser a'r Waredigaeth mewn amser hyd yr Ymryddhad a'r Farn. Yn *Theomemphus* ar y llaw arall, fe ddilynai hynt a helynt un pechadur. Holir pwy oedd Theomemphus. Compendiwm o bechod oedd ef. Y gwaethaf o'r pechaduriaid, fel chwi a fi: nid Paul, ond Pantycelyn, neu'r Cymro diweddar a wyddai beth oedd Pechod *fel* Paul; pob pechod, o'r tu mewn, ac a adnabu ef yn yr Un a oedd y tu hwnt i Bechod, ac a gymerodd yr holl bechodau ar ei ysgwyddau'i hun. Ni oll yw pechod, felly, yn ymyl Iesu; a'r rhai a dderbynia Iesu yw Teyrnas y Gwaredigion.

Dyma ddadansoddiad deublyg Williams, a'i ddatliad o'r ddwy wedd fawr ar Gristnogaeth a ffurfiodd iddo fath o ongeddiad o Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol: y Greadigaeth ac Iachawdwriaeth. Dyma gwmpasiad meddyliol a theimladol i fod yn sylfaen a myfyrdod cyson yn ei feddwl deallol a phersonol. Pe gallwn grynhoi mewn un Gair hanfod yr hyn a oedd yn ddiben ac yn galon i'r Themâu hyn, felly, yn y ddwy gerdd, y gair a ddewiswn fyddai 'Gogoneddu'.

Term pwysig yw 'thema' mewn beirniadaeth lenyddol, megis mewn celfyddydau eraill. Mae'n un o'r termau sy'n ymwneud â'r wedd ystyrol unedol ar ein llenyddiaeth. Mae hefyd a wnelo â Deunydd y Llenor. Yn llif lleferydd bob dydd, er gwaethaf unedau achlysurol o fewn ymddiddan rhydd a all ymdroi am ysbaid yn gyfan o gylch un pwnc, yr ymdeimlad llac yw nad oes disgwyl i sgwrs naturiol ymffurfio'n gyfnodau unol, na chydlynu heb ymyrraeth, na rhedeg yn themâu gorffenedig o raid. Mewn sgwrs rydd, nid nod yw llunio undod cyfannol fel arfer. Ac eto, ymdrecha'r siaradwr tuag at gyfannu, megis mewn brawddegau a geiriau.

Mewn llenyddiaeth, ar y llaw arall, dyna a ddisgwylir. Fe ddywedwn mai dyna un o'r dibenion celfyddydol hyd yn oed. Un elfen ffiniedig ystyrol yw thema. Fe'i ceir mewn cerdd, mewn

ffuglen, mewn drama – mewn llenddulliau o bob math. Mae'n digwydd hefyd mewn rhannau cyfunol o fewn cyfanwaith. Digwydd hefyd yn y Beibl ar bob tudalen.

Y 'sylwedd' yn symudol yw un o'r priodoleddau sy'n gwneud thema'n bosibl. **Rhediad unol yw mewn ystyr, boed yn ddigwyddiadol, yn syniadol, neu'n deimladol. Rhyw fath o linydd neu ddilyniant yw thema, mewn myfyrdod neu mewn datblygiad argyhoeddiadol, neu mewn symudiad gweithredol.** Gellir cael themâu lleol mewn rhediad o lenyddwaith, dros ychydig o dudalennau; neu gellir cael thema'n ymestyn drwy gydol y llynyddwaith oll yn ddi-dor.

Yn y Beibl, gellir olrhain rhai prif themâu sy'n ymestyn o ddechrau Genesis hyd at ddiwedd y Datguddiad. Er enghraifft, fel y gwelwch, *adeiladu'r Greadigaeth* (ond drwy rediad o'r llunio amlochrog cyntaf drwy gwmpwng hyd at adferiad a gogoniant a'r diwedd). Neu'n gyffelyb ac yn gnewyllyn i'r thema honno, ceir y thema gymysgedig o *Bechod* (anghred, colli perthynas), sef hynt a helynt dyn drwy broses enfawr tua Gwaredigaeth. Wedyn, yn aralleiriol, tan sefyll rhwng y naill a'r llall o'r ddwy thema hyn gellid crybwyll '*adeiladu cenedl*' Israel (a'r Eglwys), a phynciau eraill cwmpasog.

O fewn pob un o'r elfennau fframweithiol hyn, ceir cymeriadau penodol, a'u themâu storïol, Noa neu Jona, neu Samson pryd y canolir dros gyfnod byr ar rai agweddau unigolyddol ar eu bywyd o arwyddocâd cyffredinol. Felly hefyd, y canolir dros dro, o bryd i'w gilydd, ar gymdeithas neu ddigwyddiad sy'n haeddu eu lle unigol mewn patrymwaith cyflawnach na'r unigolyn ar y pryd. Ond canfod a wna Cristion yr olwg ar y Meseia, ei gymeriad a'i genadwri a'i waith terfynedig, sy'n uno pob arwr felly: y meicrocosm a'r macrocosm.

Ochr yn ochr â'r rhain, sy'n synied am thema fel dolen gydiol o fewn rhediad cynllun cyfan yr hanes, fe geir ambell egwyddor foesol (yn benodol), neu drafodaeth ar egwyddor, neu wers, sydd hefyd yn thematig. Gall y rhain hwythau redeg drwy gydol y Beibl – megis un 'pechod' penodol (fel balchder) ac athrawiaethau cysylltiedig. Symudir ymlaen tan ddatblygu'r thema hon o gam i gam, o ddyfnder i ddyfnder, tan helaethu ar ei ystyr. Neu gellir arbenigo gan un cymeriad mewn un pechod penodol, a rhedeg y myfyrdod ar falchder neu ddialedd neu genfigen, dyweder. Ffactor o arwyddocâd amrywiol yw'r ffenomen egnïol o Thema i'r beirniad sy'n ystyried strwythur, golud, a bwrlwm yr ysgrythurau a byrdwn ambell awdur unigol. Egni'r Ysbryd Glân a fywha'r themâu i gyd.

Gellid cyfrif bod athrawiaethau mwyaf y Beibl, y gwasgerir hwy'n helaeth a hael drwy gydol y llyfrau unigol, yn tueddu'n fynych i flodeuo'n thematig leol mewn myfyrdod neu mewn enghreifftiau eraill i benodoli ar waith. Yn wir, y mae rhai ohonynt yn ymffurfio'n gyferbyniol weithiau, yn arbennig y rhai sy'n ddadleuol, yma ac acw, – megis 'canolrwydd' Duw neu ddyn, neu Iachawdwriaeth drwy Ffydd, neu Iachawdwriaeth dybiedig drwy Weithredoedd. Dyma themâu hir fyfyrdod mewn llynyddiaeth yn y Beibl, megis drwy Ras Cyffredin mewn llawer o lenyddiaeth

seciwlar. Sôn yr wyf am amrywiaeth yr ysgrythur, sydd wedi'i seilio ar Ogoniant Duw.

Gair Duw yw'r ysgrythurau. Ni allwn ddarllen dim pwysicach. Yn wir, y mae Duw'n ei uniaethu ei hun â'r Gair a leferir. Ac felly, er gwranddo ar bob rhybudd ynghylch eilunaddoliad ohono, y perygl mwyaf yw peidio â gwranddo. **Dyma gyfathreb y dwyfol ei hun, mae'n siarad â ni y funud yma yn anffaeledig, mae'n gwneud mwy na dweud y gwir, mae'n ein caru drwy'r Gair hwn.**

Dyma yw gwir Ddeunydd y Beibl. Clywsom ynghynt rybudd Coleridge ynghylch Beibl-addoliad. Ond o brofiad y cyfnod diweddar, ac er gwaethaf y theori yna, sy'n deg weithiau, y gwir yw mai diffyg parch at y Beibl fu'r haint arferol. Gellid sylweddoli drwy hyn hefyd beth yw unigrywiaeth Gair Duw.

Rhaid inni beidio ag ofni os ydym yn methu â deall popeth. Y gwir yw bod llawer o'r gwirionedd – hyd yn oed y gair 'caru' pan fydd Duw'n ei ddweud – yn ymestyn y tu hwnt i lawn amgyffred. Ac y mae hynyna'n wir am lawer iawn o'i eiriau eraill. Efallai pob gair. Ond y mae'n bwriadu inni ddeall cymaint ag sy'n bosibl. A thrwy gymorth Ei gariad, a llawer o gymorth arall, y gallwn dyfu mewn deall, ac ymateb yn well i'r hyn a ddywedodd eisoes wrth gofio'n ôl (cf. Abraham yn *Genesis* 22). Hyn yw'r hanfod yn nelw'r 'Tad' a rydd Duw i ni.

Felly ei orchmynion i ni. Rhaid ufuddhau o fewn ein deall, er synnu. (Rhuf. 4:20,21). Gallwn fod yn anufudd; ond pechod yw. (Job 40:2-5). Rhaid ufuddhau, fel Noa'n adeiladu bad ynghanol anialwch sych. Mae'r cysylltiad rhwng caru Duw ac ufuddhau i Dduw yn annatod: Ioan 14:21, *'Pwy bynnag y mae fy ngorchmynion i ganddo, ac sy'n eu cadw hwy, yw'r un sy'n fy ngharu.'* Fe all academydd o fri eich beirniadu oherwydd eich bod yn sôn yn ormodol am 'ddeddfau' Duw; ond sôn a wnewch, os dymunwch sôn am ufuddhau iddynt a'u mawrygu, am eu bod yn eiddo i Dduw.

Yn yr un modd, nid digonol yw ynysu a derbyn un o briodoleddau Duw yn ynysig os ydym yr un pryd yn anwybyddu un cwbl gytbwys – megis y 'cyfiawn' a'r 'trugarog' ynghyd yn baradocsaid, hyd yn oed heb amgyffred y cyfuniad dirgel. Yn sicr, perthyn math o degwch a thangnefedd i'r rhain. Ar eu pwys, y mae'r gair 'Gogoniant' yn awgrymu undod grymus llawn.

Cymerer y priodoledd 'absoliwt', am Dduw ac am bopeth. Mae'n gwbl gywir oherwydd nad yw Duw yn dibynnu ar neb na dim arall am ei fodolaeth, ei wireddiad, na'i allu cyfiawnhaol. Ond fe geid math o 'absoliwt amheronol' gan Hegel yntau, ac ni cheir tebyg Beiblaidd i'r 'personol' yn ei ddealltwriaeth ef. Mae'r diffiniad diberson yn gwbl annigonol fel disgrifiad cyflawn o Dduw. Mae'r Un hwn yn llawn bersonol; ond yn y Drindod y mae'r tri hefyd yn bersonau, ac yn absoliwt a rhyng-bersonol rhwng y tair gwedd, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân. Drwy Uffern mae'r diberson yn ymddangos. Gellir dweud fod Aristotlys a'i Symudydd

Cyntaf yn absoliwt o fath. Ond amheronol oedd, ac felly nid absoliwt cyflawn; ac nid oedd yn ddigonol i gyfleu yr hyn a oedd yn wir absoliwt. Nid yw'r math o absoliwt a geir gan Aristotlys na Hegel yn gallu meddu ar berthynas. Perthynas nerthol yw perthynas y Duw unigryw. Mae'r berthynas honno yn absoliwt yn y modd y dywedodd Paul wrth yr Atheniaid: (Act. 17:28), '*Oherwydd ynddo ef yr ydym yn byw ac yn symud ac yn bod.*' Y Mab ei hun yw'r Gair: Ioan 1:1; Rhuf. 10:6-8 (cf. Deut. 30:11-14); Heb 1:1-3; 1 Ioan 1:1-3; Dat. 1:2; 19:13. Felly y ceid gair ymhlith geiriau Duw (Eseia 55:11), '*ni ddychwel ataf yn ofer, ond fe wna'r hyn a ddymunaf.*' Gallu gogoneddus yw, ac unol.

Yn yr un modd y clywn am Rym y Gair yn yr Ysbryd. Mae'r Ysbryd Glân yn gyrru'r Gair yn ei flaen i gyflawni'i bwrpas: Gen. 1:2; Salm 33:6; 1 Thes. 1:5; 2 Tim. 3:16; 2 Pedr 1:21.

Un priodoledd amlwg o gyfunol a grybwyllais yn y Beibl yw Cariad Duw. Teg dadlau efallai mai Cariad yn anad dim yw thema bennaf neu ganolog y Beibl. Ond gellid cael themâu o faintioli a hyd gwahanol yn y llyfr hwn, rhai yn rhinweddau'n cwmpasu'r Greadigaeth yn gyffredinol, ac ambell un 'bach' arall wedyn rhwng dau berson dros gyfnod cwta. Y mae pob rhinwedd, yn fach neu'n fawr, yn gysylltiedig â Duw sy'n ddiffiniol iddynt oll. Ac yn achos Cariad, er tynered yw, ni ellir llai na chydabod mawrhydi Duw ynddo. Profir hyn yn nelw'r 'Tad' a roddodd y Beibl.

Mae Cariad mor amlochrog (ac mor rhwydd i'w ddefnyddio fel gair) nes y gellid yn hawdd ei weld yn niwlio yn ein bywyd beunyddiol ac mewn ambell grefydd yn mewn-ymgymysgu â nodweddion megis dicter. Ac eto, y mae mor ganolog i'r ffydd a'r bywyd Cristnogol nes bod cerdd anghyffredin o felys Paul amdano yn 1 Cor. 13 yn athrylithgar o gryno gwmpasfawr. Dilyn yr adran am y 'doniau' y mae hon, ac mae'n rhagflaenu 'doniau' eraill. Y ddawn uchaf ac arweiniol yw. Fe'i cymherir â doniau eraill, bid sicr: y rhoi cyfan yw. Mae'n bwysicach na hyd yn oed golli bywyd ei hun. Fe all Moslem difrif yn ein dyddiau ni ddymuno gwasanaethu Duw drwy *jihad* lofruddio, yn ôl ei dybiaeth addolgar ddwys, tan fynd i'r eithaf i ddifa person arall er mwyn gogoneddu 'Duw', hyd yn oed drwy'i chwythu ei hun yn yfflon. Ond heb fod ganddo gariad dwyfol at y person arall hwnnw, nid yw ddim llesâd iddo ef nac i ni.

Gweithredu a wna Cariad, yn ei burdeb, fel y gwna'r Samariad yn y ddameg, taw pa mor dduwiol yw'r offeiriad neu'r Lefiad a aeth o'r tu arall heibio. Iesu Grist yn ôl pob tebyg oedd y Samariad. Beth bynnag a wneir, a pha faint bynnag o arwyddion brwdfrydedd ac o hirymaros a chymwynasgarwch, y mae cân Paul yn mentro canmol drwy negyddu hefyd. Yn wir, y mae'r hyn sy'n cael ei gyflwyno fel yr hyfrytaf o'r rhinweddau yn cael ei olrhain ar hyd diffiniad o Gariad, tan gael ei ddiffinio – bron yn ddiarwybod – yn fwy drwy wrthod rhai gweddau na thrwy dderbyn yr ychydig o reidrwydd syml sydd y tu hwnt i eiriau, beth bynnag. Drwy Gariad Duw, boed yn y Tad, yn y Mab, neu yn yr Ysbryd Glân, mae Cariad yn delweddu Duw yn y bôn fel Person, yn Dduw

Personol Tragwyddol. Dyma graidd cymeriad Duw. Iesu Grist yn ôl pob tebyg oedd y Samariad.

Yn awr, pe bai ein meddyliau a'n hysbrydoedd yn cylchu o gylch holl briodoleddau'r Drindod hon – y glendid, y creadigrwydd, yr iachawdwriaeth, y cyfiawnder, y daioni, ac yn y blaen, a'r cariad – a bod hyn oll ar waith yn cael ei ddyrchafu gyda'i gilydd, a phe bai'r Undod hwnnw yn cofleidio pechadur gwardedig, yna dyna fyddai i chi ac i fi yn Ogoniant dwyfol.

FFURF

FFURF

Wrth astudio'r Beibl, mae'n ddisgwyliedig ein bod yn rhoi blaenoriaeth i'r Deunydd neu'r Cynnwys neu'r Ystyr. Dyna galon yr hyn sy'n cael ei ddweud. Ail beth (disgwyliedig) yw Ffurf neu gyfrwng. Rhyw fath o wisg. Eto, y mae'n fwy na hynny. Yn wir, ynglŷn â threfn datblygiad meddwl dynoliaeth, ni chafwyd na gair na brawddeg erioed a fodolai heb Ffurf. **Ceisio 'trefnu' ystyr nes ei chael yn llenyddiaeth a wna ffurf iaith.** Er hynny, ystyr y cynnyrch yw'r nod. Er nad yw'r ystyr ar y dechrau ddim yn drefnedig neu'n gwbl ddadansoddedig eglur efallai nes sylfaenu Ffurf, mae gennym ymdeimlad mai ystyr yw'r peth blaenaf. O ran pwysigrwydd, rhyw ail, megis cynheilydd, yw Ffurf, fel *foetus* heb aeddfedu'n fod go iawn, yn ceisio chwilio am fodolaeth drwy Ddeunydd.

Ond a yw hynny'n gyfan gwbl wir? Mi all ffurf fod yn fath o gyntaf o flaen deunydd hefyd. At ei gilydd, yr wyf yn cymeradwyo diffiniad Thomas Charles: 'Y gair *ffurf* ...a gyfeiria at adeiladwyr; y rhai a dynnant yn gyntaf ddarluniad o'r adeiladwaeth, ac wedi hynny gweithiant y cwbl yn ôl ac yn cyfateb iddo: "Felly," medd Paul, "bydded gennyt tithau ffurf yr ymadroddion iachus, yn ôl ac yn gyfatebol, i ba un y mae i ti athrawiaethu, disgyblu, a bucheddu." Y mae y ffurf, neu y darluniad, yn hollol gywir, wedi ei dynnu gan Ysbryd y gwirionedd; byddwn ninnau yn gywir mor belled ag y byddwn yn cyfateb i'r ffurf ddwyfol honno.' Hynny yw, cyn dod i'r golwg, mae'r 'ffurf' ddwyfol yno yn y ffynhonnell. **Mae yna ragdyb o ffurf. Rhaid cael deddf. Rhaid cael strwythur meddyliol. Mae'n fath o Dafod yn ceisio Mynegiant.**

Genir 'ffurf dweud' o 'ffurf deall'. A thrwy wahanu a thebygu (gwahuno) y ceir deall llawn. Gwahuno yw'r ffurf gyntaf, yn dirnad ac yn amgyffred. Cydfodolaeth yw gyda deunydd.

Y gwir yw nad oes mewn iaith y naill heb y llall – y gwahanu heb y tebygu, na'r deunydd heb y ffurf. Ac eto, y maent yn ffenomenau unigol. Ambell waith, nid ydym yn sicr ai o dan un pennawd neu o dan y llall y dylid dosbarthu ambell ffenomen.

Mae paradocs, er enghraifft, yn *ffurf* amlwg, sy'n cynnwys math o wrthddywediad i'r disgwyl. Ffurf ddeuol yw. Ond *deunydd* mewn mynegiant yw hefyd. Ffaith yw yn y Beibl ynghylch ystyr ysbrydol bywyd. Dywed, yn wir, ryw *beth* am gynnwys yr hyn a greidir. Golwg yw ar bwnc ymddygiad.

Nid ffurf yn unig yw perthynas y Llythrennol a'r Ysbrydol yn y mater hwn. Mae 'neges' eto'n enw ar ffurf amlwg, wrth gwrs, ffurf o feddwl y gellir ei hanfon. Ond y mae a wnelo ag ansawdd cyflwr hefyd. Mae a wnelo hefyd â lleoliad y gwirionedd, sef y Cynnwys, ym mwriad Duw.

Felly, priodol (wrth ddechrau ar Adran yn y drafodaeth hon, sydd am droi at *Ffurf* yn benodol) yw peidio â bychanu na neilltuo'i harwyddocâd yn nhrefn yr Ysbryd Glân. Ffenomen bwysig yw.

*

*

*

Yn yr Adran hon yr wyf yn bwriadu sôn yn gyntaf am *Undod* fel yr elfen ffurfiol a llywodraethol flaenaf. Er fy mod wedi taro cis o'r blaen ar Undod fel math o ystyr a deunydd athrawiaethol, yn y fan hon yr wyf am ei bwysleisio fel gwedd ar Ffurf. Nid rhinwedd yw undod o raid. Siâp yw. Gall fod yn dda ac yn ddrwg. Ceir pechodau ar ffurf unol. Felly afiechydon hefyd. Ar y llaw arall, ceir gweithiau llenyddol a diwinyddol sydd heb fod yn undodau clir a gorffenedig mewn gras cyffredin, ond sy'n hyfryd a gwerthfawr. Ac fel arall, ceir gweithiau llenyddol a diwinyddol hynod anfoddfaol sy'n llwyddo i fod yn grwn o ran ffurf. Mae eu ffurf yn orffenedig. *Ansawdd* yr undod, a'i ffiniau, yw un o'r prif bethau sy'n ein diddori wrth archwilio gwaith llenyddol a diwinyddol. Gall undod fod yn atyniad, er nad o raid.

Mae'r Beibl yn Undod o undodau. Mae'n ddwy ran estynedig, sef yr Hen Destament a'r Testament Newydd, gyda'r naill a'r llall yn undodau unigol. Ond y mae'r math o undod a geir rhwng dwy ran y Beibl yn gwbl ymlynol, yn gyflawn, ac yn amrywiol ei ystyriaethau pegynol. Dyma undod sy'n hanfodol ddisglair a nodedig fel na all myfyriwr werthfawrogi'r Beibl yn agos i foddfaol heb archwilio'r nodwedd gydlynol hon yn drwyadl. Mae'r patrwm gwahanol o lenddulliau a themâu, arddulliau, ac awduron yn gwbl hynod o'r tu mewn i hyn yn cydaddiladu un strwythur mawr. Hyd yn oed o safbwynt y gymeriadaeth, pe na chymerem ond y rhai meidrol o'r ffigyrau fel Abraham a Moses, Dafydd ac Eiseia, Paul ac Ioan a Phedr, dyma ni'n enwi rhai o athrylithoedd mwyaf dawnus ond hollol unigolyddol hanes y byd, sydd oll yn tynnu tuag undod arall, undod eu pwrpas. Caent undeb ewyllysiol a'u clymai oll yng Nghrist.

Ond dyna ni'n crybwyll undod o safbwynt *cyfanwaith y Beibl*. Yn ogystal â'i fod yn undod o lyfr, llyfrgell o lyfrau yw hefyd. Ac y mae'r llyfr cyfun hwn yn cynnwys nifer o undodau eraill, megis *llenfathau* unigol (*genres*), er enghraifft, salmau, damhegion, diarhebion, deddlyfrau, llyfrau hanes, a llythyrau, a'r rheini'n cynnwys bob un undodau eraill, megis themâu ystyr ac athrawiaethau aruthr. Gyda'r dosbarthiadau hyn oll, maent yn eu cyfanrwydd unigol yn cynnwys elfennau ffurfiol sy'n ganolog i'r rhannau sy'n llunio'r cyfannau.

Undod Llyfr y Beibl

Yn y pedwardegau a'r pumdegau yng Nghymru, cafwyd cryn bwyslais ar Feirniadaeth Ffurfiol. Ac ystyr hynny mewn crefydd oedd astudio llenddulliau (dosbarthiadau) y gwahanol rannau yn y Beibl. Dyma sut y disgrifia'r Athro Bleddyn J. Roberts y ffenomen yn rhagair ei gyfrol ar y pwnc, *Patrymau Llenyddol y Beibl*, Lerpwl, 1950: '*Dywaid adnod gyntaf yr Epistol at yr Hebreaid ddarfod i Dduw lefaru "llawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau trwy y proffwydi," ac iddo lefaru "yn y dyddiau diwethaf hyn wrthym ni mewn Mab."* Dyna fwy neu lai,

yw fy amcan i – ceisio nodi'r amryw ffurfiau llenyddol sydd i'r datganiad a'r datguddiad a geir yn y Beibl. Efallai mai mantais i'r dadansoddiad newydd yw iddo ymddangos yr un pryd ag awydd i ddychwelyd at uniongrededd mewn crefydd, oherwydd llesteiriwyd llawer ar waith beirniadaeth hanesyddol am iddi gydredeg â thuedd ddinistriol faterol y ganrif ddiwethaf.'

Dyma ddisgrifiad addas o wedd ar yr hyn a geisïaf innau ar raddfa gryno. Rhan fechan fach a thila o'r ymgais yng Nghymru i ddychwelyd heddiw at uniongrededd clasurol Beiblaidd yw'r ymdriniaeth gota sydd gennyf i. A dymunir gwneud hynny mewn modd ychydig yn wahanol i eiddo Dr Roberts, nid drwy'i wrthddweud ef, eithr drwy ddechrau mewn man gwahanol. **Synïaf yn sylfaenol (ac yn ysbrydol mi gredaf) fod y Beibl oll yn Amrywiaeth Mewn Undod. Mae'r Undod hwnnw yn cynnwys tair gwedd – sef Deunydd, Ffurf, a Chymhelliad, a'r tair yn un.** Ni ellir colli'r un o'r tair. Y tu mewn i bob un o'r tair gwedd hynny, ceir is-weddau eraill. Synïaf fod y Beibl ei hun, – mewn llu o groesgyfeiriadau, yng nghysondeb yr Hen Destament a'r Testament Newydd, mewn themateg ddatblygol gyfannol, mewn cronoleg ystyrlon, ac mewn athrawiaeth – yn undod diwniad. Yn wir, undod yw'r brif nodwedd *ffurfiol* sydd yn ein taro. Mae'n amlwg fod dysgedigion y Testament Newydd yn sylweddoli hynny am yr Hen, ac yn rhyfeddu.

Mae yna Ddeunydd, Ffurf, a Chymhelliad i bob gair yn y Beibl.

Byddir felly, yn yr Adran hon o'n hastudiaeth, yn dechrau drwy geisio goleuo'r Ffurf sy'n Uno, os mynnir, y Llenddull cynhwysfawr a'r gogwydd sy'n eu hargraffu'u hun ar y cyfansoddiad hwn. Yma, ceisiwn ddeall yr egwyddor ffurfiol lenyddol '*Amryw mewn Un*', a chyffwrdd â natur *unol* yr Amryw hwnnw.

Os yw'r disgrifiad o'r Beibl yn gywir, mai gwaith ysbrydol un Awdur llywodraethol yw, yn gweithio drwy gyfrwng grŵp o awduron gwasanaethgar, yna undod o fath o gywaith yw'r cynnyrch. Dichon y cawn ystyried dau derm yn flaenaf wrth ddisgrifio natur y llenddull unol sy'n cyfansoddi'r Beibl cyfan – sef 'Epig (neu Arwrgerdd)', neu'n fwy paradocsaidd (oherwydd Ei berthynas â'r Beibl) 'Hunan-gofiant yr Ysbryd Glân.' Dau fath o Undod hirfaith sydd yna; un agored ar yr wyneb ac yn y golwg; a'r llall yn ffaith, ond heb dynnu sylw at hynny.

'Ond,' gofynasoch, 'onid gogoneddu Crist, nid sôn amdano'i Hun, a wna'r Ysbryd Glân?'

A hynny yw'r pwynt, y peidio â sôn amdano'i hun, ac eto'r presenoldeb, yw ei Wir Hunan-gofiant. Tystiolaethu am Iesu yw cymeriad prif waith bywyd yr Ysbryd Glân o fewn Hanes y Byd. Dyna'i Hanes Ef felly. Yr Ysbryd yn amlygu fwyfwy yn Ei wyleidd-dra.

Felly, os gofynnir pa fath o Un yw'r Undod yn haniaethol (yn ogystal â diriaethol) sydd yn y Beibl, atebwn '*Amryw mewn Un*'. Er bod y dadansoddiad yn sylfaenol wahanol, y mae *Patrymau Llenyddol y Beibl*, Bleddyn Roberts yntau yn cyd-gydnabod: Undod Naratif a Llendulliau Amrywiol.

Undod Testamentau'r Beibl

Mae'r Hen a'r Newydd yn ymateb i'w gilydd. Cyn belled ag y mae rhannau o'r Testament Newydd yn ddehongliad o'r Hen Destament, teg casglu mai '*beirniadaeth*' *ddeunyddiol ymddiriedus* ydynt o'r Hen Destament. Mae'n amlwg fod Iesu Grist, Paul, Pedr ac eraill yn darllen yr Hen Destament gyda dyfnder cyson a chynyddol yng ngoleuni eu neges ddatblygedig unol yn y Testament Newydd. A gwnânt hynny mewn modd rhyfeddol o glwm. Mewn ffordd o siarad, y mae'r Hen Destament yn cyfansoddi'r Testament Newydd. Ac i arwyr y Testament Newydd, mae yna fath o *gymhelliad* cryf am undod ysblennydd cynhenid ynddynt hwy oherwydd eu cysylltiad â'r Hen. Ond nid yw'r ffaith hon yn drysu'r darlleniad.

Mewn beirniadaeth lenyddol, ar y maes wrth gylchu'r Eisteddfod, pan fydd dau ddarllenydd seciwlar arferol yn beirniadu'r un gerdd seciwlar â'i gilydd, lle y mae'r naill yn rhoi dehongliad 'A', a'r llall yn ddigon gwahanol, neu ychydig yn wahanol heb fod yn groes, yn rhoi dehongliad 'B', yna bydd rhywun yn holi, 'Gan ba ddarllenydd y mae'r awdurdod?' A'r casgliad Ôl-fodern (Theori Ymateb-Darllenydd) yw 'Neb!' Ym mhob pen mae piniwn. Gydag amllder o ddehongliadau o fewn relatifrwydd o feddwl, lluosedd cysurlon o wirionedd yw'r awdurdodau o ddarllenwyr. Diogelwch yw chwalfa dehongliad i'r traddodiad sgeptigaidd. Efallai fod hyn yn wir am bob llenyddiaeth seciwlar.

Yna, bydd rhyw fachgen drwg yn y cefn yn awgrymu 'ffoniwch yr Awdur, os ydych am gael dehongliad cywir.' A bydd yr Awdur, gan ei fod yn methu â bod yn anonest, yn ateb yn eofn 'Y darn ei hun yw'r dehongliad.' Onid dyna, i raddau, yw ateb y Beibl hefyd? Dehonglir adnodau gan adnodau eraill gan yr un Awdur. Gwyddom, a chawn sôn eto drachefn, am gyfochredd ffurfiol barddoniaeth Hebraeg. Ond y mae'r ailadrodd cyson os achlysurol, yn ailddychwelyd i themâu ac egwyddorion ac yn wedd arall ar gyfochredd drwy'r Beibl. Cân yw'r ailadrodd.

Ni olyga hyn fod darllen un adnod yn aralleiriad o un arall. Mae aralleiriad yn fath o ffigur mewn llên. Nid ailadrodd pur yw, hyd yn oed mewn ailadrodd union ar ôl y geiriau cyntaf. Y mae lleoliad yr ailadrodd mewn safle arall, a'r profiad yn wahanol. Yn wir, teimlir elfen o bwysleisio wrth eilio.

Bid siŵr, ni ellir yn fanwl fyth ailadrodd yn union yr un hyd na thraw na nerth. Os aralleiria Awdur yn wahanol mewn cerdd dyweder, gall y gerdd '*ymddangos fel pe bai'n ailadrodd*', ond nid yw yn ailadroddiad union debyg: mae'r gerdd yn cael ei hail-greu'n wahanol, yn bwysleisiol. 'Pe bawn eisiau dweud yr esboniad neu bwyslais yn gyntaf, byddwn wedi dweud rhywbeth arall – yr esboniad mewn rhyddiaith er enghraifft, neu mewn rhythm arall. A'r tebyg yw y byddwn wedi'i aileirio o'r newydd yn rhywbeth arall. Gwydroi yw aralleirio amhur. Byddai'n rhaid cael yr union eiriau gan beiriant i gael pob gwedd yn gyd-gytbwys. Dyna'r unig ffordd i'r gwir hwn.'

Dyna gasgliad teg.

Ond yn y Beibl, mae'r Awdur, yr Ysbryd Glân, wedi ysgrifennu'r esboniad o'r Hen Destament eisoes o'n blaen, a chyn geirio'r awenyddiaeth hon o gyfrol, – y Testament Newydd. Nid eglurhad hollol newydd yw. Os gwelwn yr Hen Destament yn trafod darnau o'r Testament Newydd mewn proffwydoliaethau neu gysgodau, fel petaent yn ddehongliad, nid yw'n llai o Destament Newydd. Mae'r Newydd yn mynd ati i drafod yr Hen Destament gan ei dderbyn i'w gôl. Tystio i'r undod awdurdodol hwnnw a wna Cristnogaeth.

Pan fydd y Testament Newydd yn cyflawni'r Hen Destament, ceir boddhad gweld. Math o fuddugoliaeth yw.

Sylwer ar Luc 24:44: *'Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthy ch pan oeddw'n eto gyda chwi, ei bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni sy'n ysgrifenedig yng Nghyfraith Moses a'r proffwydi a'r salmau.'* Does dim dewis. Corffori yw. Hynny yw, yr oedd ysgrifenydd yr Hen Destament yn eglur. Roedd ganddynt eu testun am Grist cyn iddo'i weithredu. Rhaid mewnlod oedd i Grist ufuddhau i Air yr Ysbryd Glân drwy'i gyflawni. Dyma'r Awdur hwn yn esbonio gwaith corfforedig yr Awdur sy'n canlyn, yn awdurdodol. Oherwydd yr undod hwn, yr oedd Duw yn ymgyfeirio'n weithredol yn y gorffennol yn gynhenid yn yr un ffordd ag y dywedai'r dyfodol maes o law. Ni ellid deall yr Hen yn llawn ond yng ngoleuni'r Newydd. Dyna bwrpas y naill i'r llall: 'Dywedais y pryd hynny yn union yr hyn rwy'n ei feddwl nawr. Yr hyn a gyflwynaf yn awr yw trosiad.' Mewn addewid cafwyd tyst. Yr oedd y dehongliad felly yn ddifrif ac yn codi uwchlaw amser. Hanes oedd proffwydoliaeth, megis 'hanes ymlaen llaw'. Esgrodd yr Hen Destament ar Grist.

Ceisio esbonio yr ydys yn awr fod y math o Undod ysbrydol a ganfyddwn yn y Beibl yn anghyffredin. Byddai llawer o feirniaid wrth drafod unrhyw lenyddiaeth, boed yn seciwlar neu beidio, yn dynodi Undod o ran natur fel priodoledd a geisir neu a geir neu a edmygir. Yn achos y Beibl, mae yna Undod yn yr holl lyfrau, themâu, cymhellion, gweledigaethau, athrawiaethau hefyd, ac ym miwsig y syniadau cynganeddol.

Nid oedd Iesu'n llai ei barch na'r Iddewon eraill yn ei barch at destun yr Hen Destament. Y gwir yw yr oedd ei barch yn burach. Ond nid oedd yn barod i dderbyn *dehongliad* 'traddodiadol' yr Hen Destament gan y swyddogion (yn y Bregeth ar y Mynydd). Ef yn ei berson oedd y brif ddolen gyswllt rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Ond ymhle y câi'r awdurdod? Ymhlith lleoedd eraill, yn y lle yr oedd ef yn cyflawni ysgrythur: Math. 4:14; 5:17; 8:17; 13:38; 26:56; dywed ef ei hun ei fod yn cyflawni ysgrythur yn fwriadol: Math. 13:14; 26:56; Luc 24:44-47. Mae'r Hen Destament yn tystiolaethu amdano ef: Ioan 5:39; 5:45-47; Luc 24:25-27. Felly y Beibl ei hun oedd y carn, nid gwaith yr ysgolheigion a eisteddai wrth ei ben wedyn yn y cyfnod diweddar, er y gallai'r Ysbryd Glân ddefnyddio'r rheini o bryd i'w gilydd.

Honnai Gerhard von Rad mai anorffenedig fyddai'n gwybodaeth am Grist heb dystiolaeth yr Hen Destament. 'Ni chynigir Crist ond yn nhystiolaeth y corws o ddisgwyliad ac atgof.' Felly yn y cyfuniad hwnnw, ceir addewid a chyflawniad creadigaeth a gwardigaeth. Ac fel yna, wedyn, y lleolid y Testament Newydd.

Mewn geiriau eraill, drwy gydol yr Hen Destament a thrwy'r Testament Newydd, y mae yma undod yn thema adeiladu cynyddol pob gair. Hawlia'r Cristion fod yma un ffynhonnell, ac un dull o uno'r Beibl – sef drwy'r Ysbryd Glân yn ei drosglwyddo, oddi wrtho Ef, drwy gyfrwng dynion ffaeledig ar eu hyd yn un neges anffaeledig.

Sylwn fod y thema'n un, yr athrawiaeth a'r profiad yn un. Fel hyn y ffurfiwyd y Canon. Ffurfiwyd, er mwyn bod yn un. Mae hyn yn golygu bod yna ffiniau: fe'i derbynir ac fe'i gwrthodir. Pan geisiodd y Brenin Balac gan Balaam felltithio'r bobl, atebai Balaam, (Num. 22:18), '*Pe bai Balac yn rhoi imi lond ei dŷ o arian ac aur, ni allaf wneud yn groes i'r hyn y bydd yr Arglwydd fy Nuw yn ei orchymyn.*' Felly Ioan yn llyfr y Datguddiad 22:18: *Yr wyf fi'n rhybuddio pob un sy'n clywed geiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn: os ychwanega unrhyw un ddim atynt, fe ychwanega Duw iddo yntau y plâu sydd wedi eu hysgrifennu yn y llyfr hwn. Ac os tyn unrhyw un ddim allan o eiriau llyfr y broffwydoliaeth hon, fe dynn Duw ei ran yntau allan o bren y bywyd.*' Fel hyn y lluniwyd cyfanwaith ffiniedig.

Siarsiwyd yr awduron i ddilyn cyfyngiadau gwirionedd, bron fel pe bai Awdur unol mawr yn tywys yr awduron bach, ac eto gan barchu personoliaethau'r awduron hynny. Roedd hyn oll yn sicrhau thema ganolog. Gwell osgoi'r term 'ar-ddweud': gw. J.I. Parker, 'God-breathed Scripture' yn *God Has Spoken*, Hodder and Stoughton, tt. 66-70; a J.I. Packer, '*Fundamentalism' and the Word of God*, IVP, 1958, 77-114, sef pennod IV, 'Scripture'. O dan yr is-bennawd *Dictation?* (t.78) dywed yr awdur; 'This “dictation theory” is a man of straw. It is safe to say that no Protestant theologian, from the Reformation till now, has ever held it; and certainly modern Evangelicals do not hold it.' (t. 79)

Mae'r Ysbryd Glân yn ymwneud â'r wedd greadigol ar weithgaredd Duw. Yn hyn o beth y mae'r Ysbryd Glân wedi gwneud thema ohono'i hun yn Awdur i'r awduron, yn fath o hunan-gofiant a wnâi Greadigaeth o ddim, yn unigryw, yn ddiraddodiad; yn dystiolaeth i Gydwbybod dyn; yn gyflwynydd i'r Mab ac yn gydlynnydd i bob adnod. Dyma Ras Cyffredin i bawb. Pan oedd yr Ysbryd yn symud ar draws wyneb y dyfroedd, yr oedd yn cyflawni rhywbeth eisoes na allai neb arall ei wneud am y tro cyntaf – ar gyfer pawb. Ond pan sonnir am 'gynneddf greadigol' mewn llenor, beth yw'r cyswllt â gwir greu'r Ysbryd lle na bu dim creedig o'r blaen? Onid trosiad yw? Yng Ngras Cyffredin y doniau unigol, un nodwedd gyffredin drwy'r Beibl yw adnewyddu geiriau. Cyn bod y llenor yn defnyddio iaith, mae'r geiriau'n gorwedd yn llonydd farw, ac yna daw'r ysbrydoliaeth, a bywha'r geiriau: (Job 33:4), '*Ysbryd Duw a'm lluniodd ac anadl yr Hollalluog a'm ceidw'n fyw.*'

Trosiad yw'r tebygrwydd cyson rhwng anadlu bywyd ac anadlu ysbrydoliaeth. Math o estyniad yw; ond wrth gwrs, ychydig iawn sydd yn yr iaith na fu yno o'r blaen o ran defnydd potensial; a'r hyn a wna'r Ysbryd, wedi'r creu, yw bywhau'r bywyd, a grewyd eisoes. Nid peth marw yw undod llawn.

Yr hyn a welwn ni nawr yw'r undod sydd mewn celfyddydwaith yn syml oherwydd mai'r un Awdur sy'n gyfrifol amdano. Tuedda llawer o feirniaid llenyddol i chwilio am un math o undod sydd mewn tueddiadau cyson. Y mae darllenwyr wrth reddf yn dilyn y gogwydd cynhenid i gaffael cydlyniad. Yr undod hwn yw'r ateb i'r amlffydd: 'Eilunod yw holl dduwiau'r bobl ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.' (1 Cronicl 16:26). Mae a wnelo'r Crëwr-Dduw â phob dim creedig bach o fewn y Greadigaeth fawr, heb yr un eithriad. Trafoda bob dim sydd i'w gael. Ac y mae hyn yn wir hefyd ynglŷn â 'hollbresenoldeb' y llenor. Gall y llenor Beiblaidd drafod pob swydd a sylwedd (Salm 139:8-10): '*Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno, os cyweiriaf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd. Os cymeraf adenydd y wawr a thrigo ym mhellafoedd y môr, yno hefyd fe fydd dy law yn fy arwain.*' Dyna gylchwaith potensial llenyddiaeth. Mae'r ffaith nad yw Duw yn gwarafun i'r llenor ymhél â phob dim, yn glod ac yn fynegiant i Ras Cyffredin. Mae'n arbennig o wir am Lenor o Gristion. Ond pan ddefnyddir termau dynol fel 'creu, ysbrydoli' i ymestyn at Ganlyn Duw wrth gwmpasu'r Greadigaeth, gwelir yma fwllch digymar. Ac yr ydym yn ymwneud â'r perygl bythol o gymysgu yn hytrach nag o uno'r naturiol â'r goruwchnaturiol. Nid yw'r cysondeb unol hwn yn difetha'r gwyro celfydd sy'n un o brif nodweddion y duedd greadigol. Yn wir, dibynna gwyro ar yr wyneb cadarn seiliol o gysondeb.

Ymhlith y troadau rhethregol, ceir un o'r enw Lleihad. 'Dyw hi ddim yn llawer o beth,' medd y llanc am yr Hafn Fawr (*Grand Canyon*). Dyma'r gwrthwyneb i Ormodiaith. Gormodiaith yw'r troad o chwyddo neu o eithafu maintioli mewn mawl dyweder, er mwyn cyfleu maint teimlad. Yn awr, sylweddolwn wrth sôn am waith creadigol ambell lenor dynol fel y mae'r math hwn o foliant dynol i Dduw bob amser yn ormodiaith annigonol, oherwydd bod defnyddio iaith ddynol ei hun yn Lleihad anochel mewn amgylchiadau o'r fath. **Lleihad yw'r troad naturiol i'w ddefnyddio am Dduw oherwydd na ellir ei ganmol na'i ddeall yn ddigonol. Lleihad hefyd o raid yw pob clod i Dduw. Hynny yw, ceir diffiniadau Cristnogol ar rai mân ffurfiau fel troadau. Lleihad a wnâi Crist yn ei Ymostyngiad. Amhosibl yw dweud yn ormodieithol pan sonnir am Ei fawrhydi.**

Ond y mae Gras Cyffredin, sy'n adlewyrchu creadigrwydd Duw mewn dyn yn droadol, yn ddrych o gyswllt dyfnach. Ffaith yw bod delw (neu ddelwedd) Duw wedi'i hargraffu ar ddyn. Mae Duw yn ei ailadrodd ei hun mewn dyn, ar ryw olwg. Hyd yn oed er gwaethaf bychander dyn, a ffolineb balchder, canmolir elfen o ffrwytho: stiward Duw yw dyn. Sianel felly. Ymhellach, mae yna ddeddf ddeinamig sy'n rhan o'r greadigaeth estynedig barhaol yr ydym yn sôn amdani, sy'n peri

bod llenor yn stiward-helaethu wrth lenyddu: Gen. 1:28, *'Bendithiodd Duw hwy a dweud, "Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi".'* Ymhellach na hynny, sonia'r Beibl am y tro cyntaf (Ex. 35:30-35) am ddynion yn cael eu llenwi ag ysbryd Duw er mwyn cyflawni'r celfyddydau. A'r hyn a wnânt yn y 'llenwi' yw nid gweiddi mewn oedfa, dyweder, eithr llunio crefftwaith cain o'r newydd. *'Dyma Besalel fab Uri o lwyth Jwda, ac wedi ei lenwi ag Ysbryd Duw, ac â doethineb a deall, a gwybodaeth hefyd a phob rhyw ddawn, er mwyn iddo ddyfeisio patrymau cywrain, a gweithio ag aur, arian, a phres a thorri i'w gosod, a cherfio pren, a gwneud pob cywreinwaith. Hefyd ysbrydolodd yr Arglwydd ef ac Aholiab fab Achisemach o lwyth Dan i ddysgu eraill. Llanwodd hwy â'r ddawn i wneud pob math o waith crefftus a chywrain a wneir gan saer neu grefftwr, neu gan un sy'n brodio sidan glas, porffor ac ysgarlad, a lliain, neu gan un sy'n gwau.'* Mae hyn yn ddigwyddiad hynod arwyddocaol yn hanes gweithgareddau'r Ysbryd Glân. Ac i mi, y mae'r 'annefnyddioldeb pragmatig ac ymarferol' (fel y'i dywedir weithiau am gelfyddydau), eithr y gwaith 'dibwrpas' hefyd o ddatlu harddwch mewn modd celfyddydol, yn dweud rhywbeth am estyniad esthetig o waith Duw. Mae harddwch yn ogoneddiad digonol ynndo'i hun. Yn yr ufuddod i ewyllys Duw yn y ffrwytho a'r amllder, gwelir hefyd mai math o ailadrodd yw ufudd-dod ei hun.

Yn rhyfedd iawn, fe all nofelydd neu ddramodydd 'greu' gwaith llenyddol, a honni bod y ffuglen yna yn dweud y gwir am fywyd, hyd yn oed yn llawnach na hanesydd amddifad arferol nad yw'n gallu corffori profiadau teimladol na gwerthoedd. Mae'r Ysbryd Glân yn eneinio pob dim gwerthfawr ynndo'i hun, gan gynnwys gwaith beunyddiol yn y swyddfa ac ar y cae chwarae. Lle bynnag y ceisir gwneud rhywbeth yn gelfydd, yno y mae gras cyffredin ar waith drwy eneiniaid yr Ysbryd creadigol.

Ym maes Gras Cyffredin yr ydys yn agor teyrnas y llenor i gynnwys popeth ac i ysgrifennu'n 'ddilyffethair'. Wrth gwrs, y mae Gras Arbennig yn fwy aruchel a dwfn. Ond nid yw hynny'n caniatáu inni leihau gogoniant Gras Cyffredin. Ac yn negyddol, gwelwn fel y mae celfyddyd yn cynnwys o fewn ei harolwg cyffredinol y ffenomen aruthr o bechod. Cofiwn mai Gras Cyffredin i bawb fydd Gras Arbennig hefyd yn y Nefoedd.

Ymhlith y nodweddion y mae'r awdur dynol a'r Ysbryd Glân yn eu rhannu gyda'i gilydd, fe geir cwmpasu amrediad diddordeb mewn 'pechod', un o bynciau mawr llên. Does dim y tu hwnt i faes yr Ysbryd Glân wrth iddo ymwneud â llygredd negyddol y Brenin Dafydd – ei odineb, ei frad, a'i waith ysgeler o lofruddio. Dyw gwadiad dair gwaith Seimon Pedr a'r honiad nad oedd ef yn adnabod Crist ddim yn ei osod y tu hwnt i faddeuant Duw neu i sylw llenyddiaeth. Hynny yw, fel y mae a wnelo calon Duw â'r holl ddrygau ar y ddaear, ni chyfyngir yr awdur dynol chwaith rhag sylwi ar bob gwedd ar bechod – megis rhag traethu pob daioni, a gwireddu maddeuant. Undod yw

wynebu popeth.

Mewn gwyddorau ceir ffiniau fel arfer i feysydd gwahanol. Ym maes Cemeg neu Fioleg, nid oes llawer o ddiddordeb mewn cicio pêl neu deithio i rywle i gerfio penddelw neu lunio amserlen trenau. Ond fe all pob un o'r rheina, a phob dim arall, fod yn arwyddocaol iawn i ryw lenor. Pwy sy'n cyrraedd undod terfynol bywyd? Ac i Dduw, y mae popeth da, 'diduedd', neu ddrwg yn rhan o hanes creadigaeth, ac yn sicr o fewn ei hollalluowgrwydd a'i hollwybodaeth. Mae problem y drwg yn ymddangos yn anfesurrol; ond nid yw y tu hwnt i drugaredd Duw nac i destunwaith y llenor.

Yn wir, un o'r cynhwysion sy'n aruchelu llenyddiaeth ac yn rhoi statws iddi yn baradocsaid iawn yw pechod. Dyna pam y dewiswyd y Beibl i wneud ei waith o dystiolaethu.

Mi all dyn mewn llenyddiaeth fethu. Mi all syrthio drwy gyflawni cabledd yn erbyn Duw: felly y gwnaeth llawer cymeriad yn y Beibl hefyd. Gall ymdrybaeddu. Gall amlhau pechodau rhywiol, neu ei ladd ei hun. Ond gwyddom yn ôl tystiolaeth y Beibl nad yw Duw ddim yn cau'r drws o safbwynt maddeuant na chwaith yn bychanu myfyrdod annigonol y llenor. Ni all Cemeg wneud hynny. Ac yn sicr, nid yw'n annog inni beidio â myfyrio am bechod, nac osgoi ei wynebu'n blwmp ac yn blaen. Ond sonnir ym Mathew 12, Marc 3, a Luc 12 am un pechod sy'n anfaddeuol, sef y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Os bydd dyn yn gwrthod neu'n cablu yn erbyn yr Ysbryd Glân, drwy sefydlu yn ei feddwl fframwaith o briodoli gwaith yr Ysbryd Glân i Satan neu'n gwrthgilio'n wirfoddol ymwybodol felltithiol rhagddo wedi adnabod Duw, ym mryd y llenor cyffredin mae hyn yn cyfateb i'r sawl sy'n meddu ar dalent i sgrifennu'n dda, ond heb sylweddoli'r *un diben* i sgrifennu'n dda, neu heb weld yr un diben i sgrifennu o gwbl. Hynny yw, o fewn maes cyffredol Gras Cyffredin dyma'r dyn sydd wedi cael ei wir ysbrydoli, yn sylfaenol yn ei daflu'n ôl yn nannedd ei ddaioni'i hun. Mae'r creu'n mynd yn anghreadigol. Eto, wrth lunio cymhariaeth fel yna, sylweddolwn mai llai yw'r cyffredin na'r arbennig; ac ni ellir gosod creu artistig yn yr un categori o arwyddocâd diwinyddol â'r pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân.

Undod yr Awdur, heblaw'r awduron

Mae'r awdur dynol, fel yr Awdur dwyfol, yn ennill undod yn rhychwant ei weithiau am ei fod ef ei hun yn gyd-gyfrifol iddynt a throstynt fel ffynhonnell. Mantais wybodol yw un o briodoleddau ffeithiol dyn; er bod iddi ffiniau cyfyngedig. Ond mae yna wybodaeth gydlynol goruwch unigolion na allai fod ond yn ail-law gan yr awduron, ac nad oedd yn awdurdodol ond gan Dduw ei hun. Wrth gwrs, mae yna gymaint o wybodaeth yn y Beibl na allai dyn unigol oherwydd ei ffiniau amseryddol byth fod yn ddigonol i'w trafod. Mae'n bur amlwg fod yna hawlio awdurdodol gan yr Awdur am yr hyn a geid *cyn* y greadigaeth, er enghraifft, megis yn y Diwedd ar ôl ei distrywio'n llwyr; ac y mae hyn yn rhywbeth nad oedd o fewn cyrraedd hyd yn oed awduron

naturiol fel Moses a Paul, ohonynt eu hunain. Mae *undod* amseryddol y Beibl wedyn – y proffwydoliaethau yn yr Hen Destament, rhai na ddeellid yn llawn ar y pryd, ynghyd â'u cyflawniad yn y Testament Newydd, – yn rhywbeth a oedd y tu hwnt i'r awduron unigol. Nid oes ymgais yma i wadu gwaith nac awduraeth yr ysgrifenydd; ond y mae'r Beibl yn honni mwy na hynny amdano'i hun: y mae'n rhodd uniongyrchol oddi wrth ffynnon sydd uwchlaw gofod ac amser.

Ceisir dadlau bod yna undod drwy gydol y Beibl o ran cynllun a themateg oherwydd bod yna fudd o'r sylweddoliad hwnnw, fel sydd wrth sylweddoli undod pob peth trwy'r Greadigaeth. Iechyd yw canfod cyswllt lle y bo cyswllt ar gael. Mae ymwybod o gyfanrwydd yn ogystal ag o rannau gwaith llenyddol yn rhoi iddo fwy o gyfoeth ac o ddyfnder ac o fwynhad i'r darlennydd o'r herwydd. Mantais yw yn y meddwl gwyddonol. Hoffir adeilad crwn. Ac fe ddadleuwn i fod yna gynllun hanfodol sy'n rhoi nerth aruthr strwythur i'r Beibl uwchlaw'r rhannau gwahân.

Dichon fod y gyfrol (sy'n cynnwys cyfrolau) wedi'i hysgrifennu dros gyfnod o bymtheg cant o flynyddoedd gan fwy na deugain o awduron gwahanol gyda chefnidir eithriadol amrywiol rhyngddynt, yn bysgotwyr, yn gasglwr trethi, yn frenhinoedd, yn werinwyr, yn feirdd, yn fugeiliaid, yn filwyr, ac yn athronwyr, yn grefftwyr a chantorion, ym mhob math o amgylchiadau emosiynol a daearyddol ar dri chyfandir mewn tair iaith. Ein gwaith yw ymatal am y tro rhag edrych ar natur yr awduron gwahanol, nac ar eu harddull a'u cyfraniadau unigol. Mae hynny'n rhy amlwg a rhwydd. Mynnwn ganolbwyntio ar y ddolen gydiol, ac ar yr Un sy'n hawlio mai ef yw'r Awdur a gyfeiria bob sill (yn gadarn, dirgel a diorthrwm). Bwriadwyd undod ym meddwl a bywyd pob darlennydd.

Wrth sylwi ar y Beibl felly fel cyfanwaith, er nad oes un awdur dynol i'r cwbl, i mi yr esboniad sy'n tanlinellu undod yr efengyl o Genesis ymlaen yw grym cydlynid y twf mewn tir da. Dyma un elfen lle yr ymdeimlir â phresenoldeb awdurol yr Ysbryd Glân. Yn hyn o beth, Perchen yw'r Awdur. Perchen sy'n rhoi benthyg.

Felly'r rheolaeth yn 2 Timotheus 3:16, '*Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw*' (wedi'i hanadlu gan Dduw: **theopneustos**: mwy o lawer nag 'ysbrydoli' yn yr ystyr 'cynhyrfu'); 2 Pedr 1:20-21, '*Nid yw'r un broffwydoliaeth o'r Ysgrythur yn fater o ddehongliad personol, oherwydd ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed trwy ewyllys ddynol: pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu **hysgogi** gan yr Ysbryd Glân*'; Act. 4:24-25, '*Codasant hwythau eu llef yn unfryd ar Dduw: 'O Benllywydd, tydi a wnaeth y nef a'r ddaear a'r môr a phob peth sydd ynddynt, ac a ddywedwyd drwy'r Ysbryd Glân yng ngenau Dafydd dy was ein tad ni...*' Offer neu gyfryngau neu dystion oedd yr awduron dynol i'r Ysbryd Glân, **auctor primarius**: Thes. 1:13, *Yr ydym ni'n diolch i Dduw yn ddi-baid ar gyfrif hyn hefyd: eich bod chwi, wrth dderbyn gair Duw fel*

y clywsoch ef gennym ni, wedi ei groesawu, nid fel gair dynol ond fel yr hyn ydyw mewn gwirionedd, sef gair Duw. Math o arolygu ac o uniaethu oedd hyn oll: cf. Marc 12:31; Act. 1:16; 28:25; 1 Cor. 7:25; 14: 37.

Dyluniwyd y Beibl fel ei grefftwaith i gyd gan Dduw. A hynny a oedd yn ei wireddu'n anffaeledig gywir. Daeth i awduron unigol brofiad o adnabyddiaeth o rannau, a rhaid, yn y gyfathrach hon, eu bod wedi teimlo fwyfwy yn gyson ganmoliaethus wefr o'i briodolddau a'i fedrau.

Dyna pam y buwyd yn sylwi ar Undod llywodraethol y Beibl, gan bwysleisio'r ffaith honno drwy dynnu sylw at yr anocheledd oherwydd mai'r Ysbryd Glân oedd yr Awdur cyson arweiniol hwn. Roedd hyn yn ysgogi themâu ac yn fodd i leddfu cymeriadaeth yr Awdur. Ond o archwilio'r testun ei hun, sylwn ar lu o elfennau unigol sy'n amlygu'r un ffaith. Sylwer ar ddau fath o elfennau sy'n uno'r Beibl:

I Rhai o'r Elfennau Thematig (Unoli Datblygol Cyson) drwy'r Beibl

1. Sefydlogrwydd y berthynas rhwng Duw a'i bobl; 2. Hanes olynol fel Cofnod; 3. Traddodiad aflonydd yr Eglwys; 4. Cysgodeg-Typos (un o ddolennau'r traddodiad byw); 5. Proffwydoliaethau (Math arbennig o Gysgodeg); 6. Meseia (Un o'r Proffwydoliaethau).

II Rhai o'r Parau Cyferbyniol Unol mewn rhannau o'r Beibl

Dyma strwythur sy'n undod oherwydd cysondeb y fframwaith o *gyferbynnu* athrawiaethol a gweithredol yn y Beibl. Datblygiad deuol neu driol ystyrllon ydyw ar ei hyd. Mae rhan ohono yn adlewyrchu agwedd yr Arglwydd Iesu Grist at yr Hen Destament.

1. Yr Hen Gyfamod/Y Cyfamod Newydd; 2. Creadigaeth Natur Dyn / Creadigaeth yr Efengyl; 3. Yr Hen Adda/ Yr Adda Newydd (neu Adda'r Ail); 4. Gras Cyffredin/ Gras Arbennig; 5. Deddf/ Gras; 6. Israel Waed/ Israel Ysbryd; 7. Themateg y Bydysawd a Dyn (Creu/Cwyp/Codi); 8. Brwydr y drwg a'r da.

Mae yna gynnydd yn y Beibl, sydd fel arfer yn cynnwys cyfiawnder penodol y naill ran o fewn trugaredd y llall. Ond mae'r rhain oll, y rhai estynnol a'r rhai cyferbyniol, yn gwau'n fywydol drwy'i gilydd. A gallwn ninnau hefyd eu canlyn yn organaidd heb eu categoreiddio'n rhestrol wahân. Hwyl yw'r strwythur unol canolog a chyd-blethol o ran Ffurf a Sylwedd. Nid oes ond yr Awdur cynhwysfawr tragwyddol a allasai ddarparu'r fath gyflawnder hanfodol inni o bethau, o bobl, ac o ddigwyddiadau. A sylwn, felly, ar rai o'r rheini'n fanylach.

Gwyddys fel y bu haneswyr seciwlar a materolaidd y ganrif o'n blaen yn hapus anymwybodol o'u rhagdybiau. Chwynnent eu defnyddiau yn rhagfarnllyd ryfeddol heb hidio ynghylch addef eu gwyradau egwyddorol neu ddiegwyddor cynhenid. Dyna pam y teimlwyd dyletswydd i osod gerbron yr elfennau unol hynny sy'n cyfundrefnu Hanes fel y'u cyflwynid yn y

Beibl. Mae'r strwythurau a'r safbwyntiau sy'n sail i'r Hanes yn troi o gwmpas arwyddocâd dibennol y materion hyn oll.

Yn achos llyfr crefyddol 'perffaith', fel y'i disgwyliid gan Gristnogion difrif i'r Beibl fod, dylid erfyn i feirniad fod yn gynhwysfawr. Gellid disgwyl gan Awdur fod yn berffeithgwbl o ran cwmpas ei themateg gan ymestyn o Ddechrau perthynas greadigol Duw hyd y Farn, ac o ddechrau waredigol Duw o'r dechrau hyd y diwedd. Ond yr her i'r beirniad yw wynebu math o gyfanrwydd gweledigaethol a chwilio'i gydlyniad. Anodd inni fodloni'n gwbl hyderus ar lai na hynny. **Undod hanes y greadigaeth yw undod y llyfr.**

Os yw'n ddatguddiad, fel y credwn, gan Drydydd Person y Drindod ar hyd ei gyfansoddiad, gan Awdur o awduron, – yr Ysbryd Glân, – disgwylir iddo fod oll, felly, yn gydlynol, gyda phob rhan yn ymglymu ym mhob rhan arall i wneud cyfanwaith. Un awdur arweiniol sydd. Ac os oes datblygiad cynyddol angenrheidiol, hyd yn oed yn gyferbyniol yn y gyfrol, yna fe ddylai'r cynnydd hwnnw fod yn ystyrllon gyfannol ac yn arwyddocaol o chwyldroadol. Dyna yw'r math o undod llenyddol a ddisgrifir gennym. Yr undod rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd yw'r gweithredu cyson gan bersonoliaeth Duw mewn hanes. Hyn yw eu parhad i'w gilydd. Y Mab yw'r 'estyniad' neu 'barhad' mewn undod ffurfiol i'r Tad mewn Hanes wedi'i ddehongli'n ddi-dor. Person Awdur goruwchnaturiol unigryw yw gwreiddioldeb yr awduraeth. Er bod yna broffwydoliaethau ac addewidion gan Israel o ran hil, y mae rhai o'r addunedau mwyaf sylfaenol yn yr Hen Gyfnod, megis Exodus 20:2, Galarnad 3:22-23, ac Eseciel 18:23, yn ymgysylltu â'r estyniad o berthynas yng Nghrist. Er enghraifft, mae yna arwyddion yn yr Hen Destament o'r gwacáu o ogoniant Duw a ddangoswyd yn yr Ymgnawdoliad. Felly y gellid synied amdano'n ei fychanu ei hun wrth fabwysiadu'r 'lleiaf o'r holl bobloedd', (Deuteronomium 7:7), felly y tadogir troadau diurddas wrth ymestyn i gyfleu'i ymostyngiad: e.e. Hosea 5:12. '*Byddaf fel dolur crawnllyd i Effraim, ac fel cancr i dŷ Jwda.*' Dyna baradocs o droad i Dduw! Ond dim llai na Duw a'i ddiffiniad.

Yn yr Hen Destament byddai'r offeiriaid yn *ailadrodd* aberthau maddeuol oherwydd eu bod wastad yn cwmpo'n ôl i'r un cyflwr syrthiedig. Ond *unwaith am byth* oedd ddigon i Grist offrymu'i aberth, a sefydlodd gyflwr newydd cyferbyniol gerbron Duw. Yn wir, y mae'r aberthau edifeiriol, a'r addewidion o faddeuant, yn llinyn cadarn syfrdanol sy'n dechrau'n gynnar yn y Beibl ac yn para tan y diwedd. Mae arwahanrwydd yr un digwyddiad unigryw, er mor wahanol, yn ganolbwynt i amryw'r gweddill.

Cyhoeddir enw ar yr Awdur i hyn oll: Ysbryd Crist, Ysbryd Duw, yr Ysbryd Glân. Undod yw Ef sy'n llefaru'n hygryw. Yn y Beibl mae'n gwasanaethu'n ddiderfyn drwy 'ddweud' yn bersonol fel un o brif gymeriadau dynol y llyfr. '*Dywedodd yr Ysbryd wrth Philip, "Dos a glŷn wrth y cerbyd yna* (Act. 8:29); '*dywedodd yr Ysbryd, "mae yma dri dyn yn chwilio amdanat"* (Act. 10:19);

'dywedodd yr Ysbryd wrthyf am fynd gyda hwy heb amau dim (Act.11:12). Mae pob Un o'r Tri Pherson uwchnaturiol yn y Duwdod, yn siarad drwy'r Beibl, a'r 'Ydwyf Hwn' ar ryw olwg sy'n llefaru fwyaf am mai Efô sy'n datgan y Beibl i gyd; a Pherson yw, mae'n amlwg.

Y mae'n teimlo i'r byw (Eseia 63:10), *'Ond buont yn wrthryfelgar, a gofidio'i Ysbryd sanctaidd.'* (Eff. 4:30), *'Peidiwch â thristáu Ysbryd Glân Duw.'*

Wrth gwrs, bu ef yno adeg y creu: (Gen. 1:2), *'Ac Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd.'* Ac yna hefyd yng nghanedd Crist: (Math. 1:18), *'cyn iddynt briodi fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân.'* Ac wedyn yn ei fagwraeth, (Math. 4:1), *'Yna, arweiniwyd Iesu i'r anialwch gan yr Ysbryd.'*

Ceir wedyn fwy o sôn am y cyffro a'r gorfoledd amrywiol yn ei deimladau Ef na'r un arall o bersonau'r Drindod. Efô sy'n arwain drwy gydol ein tröedigaethau i gyd, ac yn cynhyrfu'n serchiadau, gan ein hanwesu yn yr hyfrydwch: (Rhuf. 8:15), *'trwy fabwysiad, ac yn yr Ysbryd yr ydym yn llefain, Abba! Dad';* (Rhuf. 8:15), *'Y mae'r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni.'* O'i herwydd ef wedyn gellir profi diwygiadau dilys hyd yn oed heddiw.

Ond pwy yw hwn? Gwyddom na allwn fyw'n ysbrydol heb fod yr Ysbryd yn ein llunio: (Job 33:4) *'Ysbryd Duw a'm lluniodd, ac anadl yr Hollalluog a'm ceidw'n fyw.'* Efô sy'n ein harwain at Iesu Grist, ac at y Tad. Efô sy'n ein darostwng ni am ei fod ei hun mor ddarostyngedig, yn gwasanaethu pawb. Ef yn anad neb sy'n anadlu bywyd i mewn i ni yn y creu cyntaf; ac ef sy'n anadlu bywyd yn yr ail-greu. Sonir llawer am ei anadl ac am y 'bywyd' a geir ganddo. Ef biau'r bywyd oll sydd yn y Greadigaeth ei hun. Dyma ei arbenigrwydd diledryw. Mae'n cyd-deyrnasu gyda'r Tad a'r Mab; a dywedid (Math. 28:19), *'gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.'* Arhoswch, ac ystyriwch mor rhyfedd yw'r honiad hwnnw o fewn perthynas, yn un o'r Tri-yn-Un. Os Iesu yw'r efengyl, ei Ysbryd ef sy'n ei chyflwyno'n effeithiol i ni. Yr Ysbryd sydd yn dweud yn ein clustiau am droi. Iesu a'n cyfiawnhaodd, mae'n wir; ond yr Ysbryd a gymhwysodd y galon isel i wrando mewn ymostyngiad, ac a'n sefydlodd yng Nghyfiawnhad yr Arglwydd Iesu, ac i aros yna yn Sancteiddhad tawel Duw – gwaith oes wedi'r troi. Dyletswydd, hyd ein marw ni, fydd hyn dan arolygiaeth feunyddiol yr Ysbryd. A'r hyn sy'n sicrhau sancteiddrwydd yn anad dim yw cymdeithas felys yr Ysbryd hwn. Ef yw ein cydymaith beunydd: hynny a sicrhaodd undod.

Hwn, felly, a gyfrifwyd gan y Beibl yn Awdur iddo. Hwn sy'n cyfrif Iesu'n Arwr ymhlith yr arwyr ynddo. Ac ym mhob mân gornel o'r adroddiad amdano, y mae ef yn cyfansoddi'r awduron hefyd. Beth yw ergyd y fath esboniad â hyn ar y daith, a'i effaith hollbresennol ar bersonoliaeth a meddwl pob pechadur edifeiriol?

Cyflwynai ef y wybodaeth a fuasai'n gudd, ond sydd yn aros yn y Beibl yn ysgrifenedig. Heblaw hyn, wrth gwrs, gall ef ddefnyddio llawer cyfrwng arall i fod yn oleuni ar ffordd

iachawdwriaeth, – y Greadigaeth, Cristnogion eraill, cydwybod gyneddfol yr unigolyn. Mae llais yr Ysbryd Glân yn gweithio drwy bob man lond ei Anffaeledigrwydd. A cheir hynny'n ymamlygu ar y naill law yn y 'ffurfiau mawr', – ym mhob hanes, mawl, doethineb, proffwydoliaeth, llythyr; ac yn wir yn y 'ffurfiau bach' weithiau, – yn y trosiadau unigol, y paradocsau, y mydrau. Iddo ef, y mae pob iot yn bersonol bwysig ac yn fanwl. Mewn gwirionedd, nid oes cornel lle nad yw'r Ysbryd Glân ar waith yn cyflyru neu'n ysbrydoli, yn dethol ac yn arwain, gan ddefnyddio popeth yn offer.

Ond beth, felly, yn ôl y safbwynt hwn, a oedd yn digwydd ym meddyliau'r awduron unigol?
Graslonwyd hwy.

Dim llai na chyfarfod Gras Cyffredin a Gras Arbennig ynghyd ynddynt. Y ddau ras – un i bawb sy'n effro – ac un arall hefyd i'r etholedig. Problem arbennig wrth gwrs yw ewyllys rydd ym myd Gras. Ac ar y ddaear hon dichon nas deallwn byth. Rŷm ni'n mynnu 'gau-ddeall' popeth, ac fe'n gwnaethpwyd â'r cyneddfau priodol i ddeall llawer o fewn cyfyngiadau. Ond ateb anochel a ddaw i bob pen ac i bob genau a brofodd faddeuant Duw. Dyma'r ateb sy'n ymddangos yn gwbl annheg i'r anghredadun rhesymol ond i'r credadun tlawd dan Dduw yn felys. 'Does dim yn amhosibl iddo Ef.'

Prosiect yr Ysbryd Glân

Yr wyf yn ceisio'n ofer ddisgrifio unigrywiaeth cymeriad a gwaith anferth yr Ysbryd Glân yn y Drindod drwy gyferbynnu dau brosiect dwbl, sef dau gan Berson y Mab â'r ddau gan Berson yr Ysbryd. Dyma ddwy thema ddwyfol a llenyddol yn gyfun ganddynt, a'r ddwy'n cael eu cyflwyno'n barau cyfun. Ceisiais amlinellu'r hyn a ystyriwn yn 'brosiectau'r Mab' yn y *Y Cynllun sy'n Canu*. Yno fe welwn drwy olwg Pantycelyn brosiectau'r Mab fel y'u cytunwyd (yn drosiadol) yn y Cyngor Tri-yn-Un. Prosiectau deublyg oeddent a gyflwynwyd gan y Tad i'r Mab ac a ddisgrifiwyd mewn dwy gerdd gan Bantycelyn – 'Golwg ar Deyrnas Crist' a 'Theomemphus'. Gyda'r Mab, cyferbyniwn y 'Greadigaeth' a'r 'Waredigaeth' sy'n ymestyn rhwng Genesis hyd Ddatguddiad. Mae'r Tad fel pe bai'n cyflwyno'r 'ddaear' a 'dyn' i'r Mab ar y dechrau, a'r Mab yn eu cyflwyno'n ôl i'r Tad ar y diwedd. Dyna'r uned lenyddol a ddehonglir yn weledigaethol ac a adroddwyd yn y Beibl a chan Bantycelyn, ac yn gwmpasol. Prosiectau'r Mab a rannwyd hefyd gan yr Ysbryd Glân.

Cyferbyniwn yn awr y prosiect dwbl hwn gan yr Ysbryd Glân, sydd wrth gwrs yn gyffelyb ac yn gydlynol â gwaith y Mab. Yr un dechrau sydd, yn creu ar wyneb y dyfroedd, yr un diddordeb mewn bywydau, a'r un Farn ar y diwedd: felly'r Greadigaeth. Ac yna mae gan yr Ysbryd, yntau, ei le eto yn Thema Iachawdwriaeth. Mae ef yn gweithio'n gyffredinol i gyflwyno'r Mab i bechaduriaid y llawr. Swyddogaeth yr Ysbryd yw goleuo a deffroi pechaduriaid. Swyddogaeth yr Ysbryd yw goleuo iddynt feddwl y Mab, deffroi pechaduriaid i gofleidio'r Mab, a derbyn Gras Duw. O fewn y gorchwyl hwnnw, neilltuwyd y cyfrifoldeb o ysbrydoli'r Beibl i'r Ysbryd. Modd i gyflwyno prosiect

y Mab i'w ddilynwyr yw Gair yr Ysbryd Glân. Cyswllt penodedig yw'r Ysbryd ei hun i lafurio yn y Winllan honno (yr Eglwys) ac i gynaeafu cariadon eneiniedig ar hyd y llinell gywir i'r Mab.

Mae ysgrifennu'r Beibl ynddo'i hun yn thema o fewn y Beibl ei hun, o safwynt beirmiadaeth lenyddol, fel pe bai'n glasu'r dehongliadol gan yr Ysbryd Glân. Mae hi fel pe bai'r Ysbryd – yn ddiogel gudd o ostyngedig – wedi cadw Dyddiadur, ac wedi cofnodi'r gweithgareddau drwy'r canrifoedd o *Genesis* i'r *Datguddiad*. Iesu Grist yw prif arwr y cyfansoddiad. 'Cofiant' iddo yw sy'n ei ddadlennu'i hun bob cam heb dynnu sylw at y ffaith mai dyna sy'n digwydd. Ni sonia'r Ysbryd amdano'i hun chwaith ond fel pe bai'n ymguddio. Yn baradocsaidd – fel y gellid ei ddisgwyl bellach – dyma'r Ysbryd yn cyfeirio i ffwrdd oddi wrtho ef ei hun bob amser, heb dynnu sylw at ddim braidd ohono'i hun; ac eto ynddo'i hun, drwy olrhain beth yr ydys yn ei wneud ym mhrosiect enfawr Iesu Grist: drych bron yw i'r Iesu. Y mae'n bresennol drwy'r amser, ac mae'n gogoneddu enw'r Iesu y tu hwnt i amser. Hunan-gofiant anhunanol yw'r Beibl iddo, yn baradocsaidd.

Nid rhoi'r Beibl ar bapyrws neu femrwn neu lechen oedd prif waith yr Ysbryd. Offeryn oedd hynny yn ei brif swydd o egluro i feddyliau ac i serchiadau pobl y llawr y gogoniant a brofwyd yng ngwaith aruthr y Mab. Dyna'i hanes. Mae'n eneinio'r gwirionedd hwnnw ym meddwl y credinwyr drwy gofnodion. Ef sy'n adeiladu'r Eglwys. Mae'r Beibl yn fwy na chyfrwng, felly. Nod yw yn y canol. Gogoniant Duw yng Nghrist yw'r canol hwnnw.

Digwydd bod yn Hunan-gofiant Tri-yn-Un mewn cyfnod daearol hefyd 'wna'r Beibl. Dyma 'hunan' sydd yn gwbl fwriadol *ar yr ymylon*; a'r hunan-gofiant ei hun yn digwydd bod yn gofnod o gywaith cwbl drindodol.

Is-gynnyrch gwaith yr Ysbryd Glân fu'r Cynllun sy'n Canu. Y Mab yw gwrthrych y Gân hon. Ef yw pwnc y Canu. A'r Ysbryd sy'n ysbrydoli'r gân. Duw sy'n traethu, a Duw yw'r testun. Ef yw'r dôn a'r geiriau a'r wefr. Ef sy'n caboli'r gân, ac yn torri i ffwrdd oddi wrthi unrhyw efrau, unrhyw anghytgord, unrhyw amhariad gan ei gyd-awduron meidrol a allai ddylanwadu'n amhersain ar felyster y Mab.

Cyfrwng cadwedigol deinamig yw'r Beibl, 'perl mewn adfyd', i helpu dyn yn ei helbul, nid ymson atgofus perchennog barfog y gadair freichiau.

Fel arfer, y mae Hunan-gofiant yn y byd llenyddol yn un o'r llenddulliau mwyaf peryglus. Gwibdaith i'r Ego yw. Gall fod yn anghysurus i'w ddarllen. Un o baradocsau'r Beibl fel cyfanwaith yw bod yna Berson gwylaidd am fawrygu Person gwylaidd arall yn y Drindod. Gwaith yw gan y Trydydd Person yn bennaf yn y Drindod, un y down i'w garu, yntau hefyd, ac y down i sylweddoli'i bresenoldeb cariadus a'i bersonoliaeth mor angerddol o gynnes. Down i'w addoli, fel y down i addoli'r Tad a'r Mab, er ei fod fel petai yn ei ddatguddio'i hun drwy ein hannog i gofleidio'r Mab ac i ogoneddu'r Tad. Nid oes un awdur dynol a ymostynga i'w destun fel yr ymostyngodd yr Ysbryd.

Uchel-seinyddion yw'r awduron unigol i anadl yr Ysbryd Glân. Felly, yn Heb. 3:7, '*Gan hynny, fel y mae'r Ysbryd Glân yn dweud...*'; Math. 22:43, '*Sut felly, gofynnodd Iesu, y mae Dafydd trwy'r Ysbryd yn ei alw'n Arglwydd...*'; Act. 4:25, '*ac a ddywedodd drwy'r Ysbryd Glân yng ngenau Dafydd, dy was, ein tad ni...*'

Un arall o ddyletswyddau'r Ysbryd Glân fu bywhau'r awduron. Roedd pobun o'r awduron unigol yn ffaledig odiaeth. Roedd pob un ohonynt wedi pechu, wedi marw. O'r braidd y byddem ninnau wedi 'ymddiried' yn Solomon i ofalu am un frawddeg o'r Beibl. Ond bu'r Ysbryd Glân yn ddiwyd wrthi ym mhob cornel i ofalu am garthu pob nam a wnelai pob awdur, ac i drosglwyddo.

"*Sut felly?*" gofynnodd Iesu, "*y mae Dafydd trwy'r Ysbryd yn ei alw'n Arglwydd, pan ddywed: 'Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd i, "Eistedd ar fy neheulaw nes imi osod dy elynion dan dy draed?"*" (Math. 22:43-44). A chafwyd y Bregeth ar y Mynydd yn ein hatgoffa: '*Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd*' (Math. 5:18). Pam felly? gofynnwn eto.

Pan fo'r Ysgrythur yn llefaru, yr Ysbryd Glân ei hun sy'n llefaru (Ioan 3:7-11). Yr Ysbryd sy'n sicrhau'r gair gwrthrychol; ac yna, wrth gymhwyso'r Ysgrythur i'r galon unigol, yr Ysbryd eto sy'n cyflawni'r dasg fewnddrychol honno: Rhuf. 8:26, '*Y mae'r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddio, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau.*'

Fel yr oedd dynoliaeth Crist yn ddibechod, felly y mae dynoliaeth yr Ysgrythur yn yr awduron yn awr yn ddi-wall oherwydd yr Ysbryd.

Ceir enghreffftiau amlwg o'r awduraeth ddeuol neu amrywiol, ddynol a dwyfol, yma ac acw: Gal. 4:22-29 ac 1 Cor. 9:8-10, '*Ai ar awdurdod dynol yr wyf yn dweud hyn? Onid yw'r Gyfraith hefyd yn ei ddweud?*' Siaradai dynion wedyn gan Dduw yn yr eglwysi cynnar: '*Geiriau Duw oedd geiriau'r proffwydi,*' meddai Theophilus o Antioch. Un yw'r Meddwl, llawer yw'r llefarwyr unigol.

Amrywiol yw natur yr ailadrodd. Cymharer proffwydoliaeth gyfochrog Eiseia 2:1-4 a Meica 4:1-3. Ceid manion gwahanol yn y rhain. Ond mae'n bur debyg mai Meica oedd y gwreiddiol yn y ddau le. Gallai mai *verbatim* oedd y naill fersiwn; ac yn y llall, mae'r awdur dynol yn rhoi fersiwn bras. Ond nid effeithiai hyn ddim oll ar wirionedd yr adroddiad. Nid oedd gwrthddywedyd. Roedd yna atodiad neu ailadrodd bid siŵr. Dau sy'n rhoi adroddiad o'r un peth, efallai, ond heb wall. Sylwer ar yr adroddiad am yr Enw uwchben y Croeshoeliad yn y pedair efengyl. Ni wahenir yn hyn o warant rhwng yr Hen Destament a'r Newydd: Deut. 12:32, '*Gofala wneud popeth yr wyf fi yn ei orchymyn iti, heb ychwanegu ato na thynnu oddi wrtho*'; cf. Deut. 13:1-5.; 18:21, '*Os wyt yn gofyn i ti dy hun sut y mae adnabod y gair nad yw'r Arglwydd wedi ei lefaru: beth bynnag y bydd proffwyd yn ei lefaru yn enw'r Arglwydd a hwnnw heb ei gyflawni na'i wireddu, y mae hwnnw yn air nad yw'r*

Arglwydd wedi ei lefaru; mae'n rhyfyg y bu i'r proffwyd ei lefaru; paid â'i ofni'; cf. Jer. 14:14 yml.; Jer 23:30; Jer 2:9; 29:8 yml.; Marc 13:22. '*Oherwydd fe gyfyd feseiau a gau broffwydi,... ond gwyliwch chwi; yr wyf wedi dweud y cwbl wrthych ymlaen llaw*'. Ond cf. Ioan 4:1, '*Peidiwch â chredu pob ysbryd, ond profwch yr ysbrydion i gael gwybod a ydynt o Dduw*.' Yr Ysbryd a'ch helpa.

Yn yr hyn a draethodd Moses ac Iesu Grist y ceir y profion mewnol i'r term 'cywirdeb'. Cadarnheir hyn gan yr ysbryd yn *Hosea* 4 lle y rhestrir rhai o'r nodau negyddol sy'n diffinio'r sawl sy'n camarwain. Gair goruwchnaturiol Duw yng ngeiriau naturiol dyn yw'r Ysgrythur oll. Gallant ddigwydd ar wahanol lefelau. Mae'r rhan fwyaf o lenorion o werth yn gyfarwydd â'r grefft o gyfansoddi ar fwy nag un lefel. Ac felly, y mae'n deg sylwi – dyweder ar lafar, ac ar lyfr – ein bod yn gorfod ystyried y dull deublyg neu allblyg a ddefnyddiodd yr Ysbryd yn elfen ddwyfol ac yn elfen ddynol ynghyd, megis yn yr Ymgawdoliad. Mae yna amrywiaeth yn natur y dystiolaeth ddynol, ac y mae hynny'n adlewyrchu'r undod sydd yn bosibl mewn amser, lle, a chymeriadaeth yn y dystiolaeth ddwyfol. Dadleuon mewn ymddiriedaeth dlawd.

Canon

Canolbwyntiwn ar undod arall y Canon: dewisiad o destun y Beibl. Undod dirgel yw hwn i'r Beibl oll. Undod yw yn y Gwirionedd, ac undod yn y detholiad o'r Gwirionedd a luniwyd mewn modd unigryw i ddiogelu'r Hanes pwy oedd Iesu, pam y daeth, a pham y mae'n rhaid i ni'n bersonol gadw'r detholiad hwn o'i feddwl. Fel y gwelsom, un o nodweddion ffurfiol pennaf llenyddiaeth yw'r ymwybod o gyfan. Gellir yn deg ddefnyddio'r term 'cyfanwaith y Beibl' i gyfeirio at y brif agwedd ddetholus yr wyf yn ceisio'i thrafod yn awr ynglŷn â Ffurf y Beibl. Ond credaf mai dyna yn union yw 'Canon' mewn gwirionedd yn yr achos hwn. Dyma'r llyfrau unigol a ganiatawyd gan yr Ysbryd Glân i gael eu cynnwys gyda'i gilydd yn y cyfanwaith trefnus terfynedig. Y rhain a awdurdodwyd bron yn isymwybodol gan yr Eglwys dros y canrifoedd. Yr un criterion gan yr Ysbryd a ddilysodd y llyfrau *unigol* i fod yn safonol oedd yr un yn union ag a ddilysodd gyd-bresenoldeb y *cydlynad* o *Genesis* i *Ddatguddiad* yn y gyfrol gyflawn. Yr Ysbryd a gerfluniodd allan o dystiolaeth y disgyblion unigol, dyna oedd yr hyn a gofid yn gywir ynghylch cyfanrwydd y gyfres o lyfrau. Yr Ysbryd a ddetolodd faint a siâp yr Hanes; undod Hanes yn yr unigol dilys, ac undod Hanes yn y rhediad cyfun. Heb i'r awduron droi'n bypedau diymadferth, defnyddient eu holl adnoddau dan arweiniad Duw.

Term hwylus yw 'Canon' sy'n cyfleu cwmnasiad cyflawn o ysgrythurau dethol gan yr Ysbryd Glân. Cyfundod safonol a chydabyddedig i'w gyfrif, fesul llyfr ac yn Llyfr o lyfrau, a rôl ffiniau ar gredoau a hanes. Ysbrydiaeth ac arweiniad fyddai i bobl Dduw.

Didoli penarglwyddiaethol, sef derbyn a gwrthod, yw un o egwyddorion mawr Cristnogaeth.

Un o ganlyniadau'r Cwyp yw. Mae'n golygu dewis: mae'n golygu bod yna wirionedd sy'n iawn, a bod angen troi oddi wrth lwybr anghywir. Mae'n un o'r dirgelion hynny sy'n dramgwydd i'r dyn naturiol. Mewn byd creulon, fel y dengys cynifer o'r damhegion, didoli a wna Teyrnas Nef. A rhaid i'r Cristion ddod yn gyfarwydd ag ef, gan ei fod ym mhob man. Yn raddol y daw'r Cristion i sylweddoli ei fod yn anochel, ac fel y mae'n rhaid ei gael, yn ddwfn o fewn realiti.

Y mae anffaeledigrwydd neu ddiwallusrwydd yr Ysgrythur yn rhagflaenu anocheledd y Canon. Mae yna ganon o fewn y Canon, canon o fewn llyfr unigol a chanon ar gyfer y casgliad. Gwrthwynebir y gred mewn Canon, meddir, gan Reswm. Ond rhagflaenir Rheswm yntau gan nifer o ragosodiadau a rhoddion eraill, megis y galluoedd i ddi-doli, i gymharu, ac i gofio, rhai y dibynnir arnynt i raddau helaeth iawn er mwyn Rhesymu o gwbl. Honnir bod yr elfen ddynol yn tansilio'r gred oruwchnaturiol a oedd wedi'i chydabod erioed gan y meddwl a'r synnwyr o Dduw, er nad yw'n gwadu nac yn gwrthwynebu cydfodolaeth yr elfen naturiol. Ceir digon o anawsterau wrth ymdroi gyda'r ddealltwriaeth hon. Ond lle bynnag y bo deall, y mae'n bresennol. Fel egwyddor y Goruwchnaturiol, mae'n rhaid i'r Cristion ei dderbyn fel un o'r rhagdybiau y bydd Cristion gan bwyll yn sylweddoli ei bod mor gyrrhaeddbell ac mor helpfawr i'w chanfod, ac y mae'n ymestyn i mewn i holl gymhlethdod bywyd. Bid siŵr, heb barchu'r Goruwchnaturiol, ceir o hyd ddigon o bwyntiau cynnen mewn natur fel hyn.

Pa mor llythrennol, gofynnir, y gall awdurdod geiriau'r Iesu fod, os yw'r fersiynau o'r un stori yn amrywio'n eiriol? Beth yw'r cyswllt rhwng yr awdur unigol a'r Awdur dwyfol? Bu awdurdod canonaidd ac anffaeledig yr Ysgrythur yn destun beirniadaeth negyddol ers canrifoedd. Ond yn blwmp ac yn blaen, fel yr oedd Iesu Grist yn ei wireddu'i hun, felly yn ôl tystiolaeth y Beibl, ynddo Ef y caed y Gair, wedi'i ymgawdoli (Ioan 1:1-14; Dat. 19:13). A daw'r Cristion i'w adnabod. Ni wahaniaethir rhwng awdurdod Crist ac awdurdod y Beibl: Math. 18:20. Mae yna bont drosodd, o'r Duw a ymgawdolodd a'r geiriau a'r gweithredoedd a ymgawdolodd drwyddo. Mae'r naill yn achos i'r effaith. Mae'r Beibl hefyd yn ei wireddu'i hun drwy'i eiriau'i hun amdano'i hun; a thrwy nerth yr Ysbryd sy'n eu llefaru. Ymgawdoliad oedd y Beibl, a chanddo aelodau ac organau.

Proses datblygol mewn Hanes oedd ffurfio'r Canon. Gwyrth oedd. Ynddo fe gyferfydd dwy ochr, y Goruwchnaturiol a'r Naturiol. Partner i Dduwioldeb yw Teyrnas Nef. Myn y Canon fod grym arall yn gyfredol â'r Traddodiad. Y tyst cyntaf gydag Eglwys Newydd y Testament Newydd oedd yr 'apostol'. Caed awdurdod ynghlwm wrth ffaith a gallu tystiolaeth y *llygad* dyst i'r atgyfodiad i ddechrau, a chan *galon* y tyst wedyn. Ceir amrywebau pwyslais rhwng tystiolaeth ddilys a'i gilydd, a gwahaniaethau agwedd efallai. Ond dyna wahaniaethu heb wahaniaeth arwyddocaol. Ac felly yr aethpwyd yn ei blaen yn amryfal o'r apostolion i'r eglwys apostolaidd gynnar a'r oesoedd canol i'r Diwygiad Protestannaidd a'r cyfieithiadau cynnar. Rhydd Tomos Acwin

y datguddiad a gafodd yr apostolion a'r proffwydi ar y blaen i reswm dwyfol yn nysgeidiaeth yr eglwys (*Summa theologiae I, q. 1.8*). Cyffelyb i'w awdurdod yng nghyfnod llunio'r ysgrythurau oedd cyfnod gwyrthiau Pedr yn yr Actau. Caed rheswm a chalon Feiblaidd.

Mae'r ethol mewn canon megis yr ethol mewn Eglwys neu gredinwyr. Un o briodoleddau Duw mewn creadigaeth syrthiedig a byd o bechod yw dangos i'r dyn a gâr y Gwirionedd a'r Cariad mor angenrheidiol mwyach yw didoli. Tebyg yw Canon mewn sefyllfa lle y mae'r Drwg yn ymosod o hyd yw dysgu i'r galon ac ym mhob man fod dethol yn ymwybod na ellir byw hebddo.

Mae'n hollbresennol ac yn ffordd o feddwl. Rhan o'r uno yw dethol. Presenoldeb Duw yw Canon. Mae'n debyg i undod y Cosmos sy'n amodi'r cysylltu ac yn egnïo'r awdurdodi.

Mae'r syniad o Ganon i'r Beibl yn dal yn broblem i rywrai heddiw. Wrth gwrs, roedd hon yn broblem hefyd i ambell un o'n blaen gan y gallai ymddangos bod rhywrai dynol iawn, 'chwiwus' debyg iawn, wedi ymwrthod â pheth deunydd ysgrythurol sydd yn *ymddangos* gystal bob dim â'r hyn a gynhwyswyd. Gan bwy yr oedd yr hawl i dderbyn Canon o lyfrau? Pa awdurdod a oedd gan neb i wrthod Efengylau Thomas a Jwdas (nid Iscariot) er enghraifft? O safbwynt dynol, yr oedd Efengyl Thomas yn llawer melysach na llawer o ddarnau cas yr Hen Destament.

Gadewch imi geisio ateb pob un o'r cwestiynau hyn, ac efallai ddiffinio'r broblem, a chodi ambell un arall sy'n gysylltiedig. A gadewch i ni ddisgrifio'r dasg yn ei man eithaf. **Yr wyf yn synied bod y broblem o gynnwys Canon yn union yr un fath â chynnwys un sillaf, un gair, neu bennod mewn Efengyl, neu gynnwys yr Hen Destament o gwbl yn y Beibl.**

Yr Ysbryd ei hun sy'n gyfrifol am destun manwl a chyflawn y Beibl. Wrth gynnwys unrhyw beth o gwbl, yr oedd yr un pryd yn gwrthod yr hyn nas cynhwyswyd. Yr Ysbryd Glân a oedd yn dewis awduron i fod yn gyd-awduron i (dyweder) Eseia a Dafydd, yn gyd-weithwyr, ac yn lleisiau iddo'i hun. Hynny yw, yr oedd yn dewis rhai o aelodau'r eglwys i gael y fraint o gyflawni gwaith aruchel drosto. Yr oedd a wnelo hyn â pherthynas yr Ysbryd Glân â'r Eglwys oll, a didoli cymhellion dynol ar y pryd. A golygai hyn ein bod yn ateb pwy neu beth oedd yr Eglwys, a sut y'i ffurfiwyd. Dyna yw bod yn unplyg.

Tebyg yw dethol ysgrythurau i ddethol aelodau Eglwys. Yr Eglwys yw pobun a fywhawyd ac a ailanwyd gan yr Ysbryd Glân. Nid pawb o'r Eglwys Allanol yn yr achos hwn; nid rhieni sy'n ethol eu plant, nid offeiriad; ond aileni yw dod yn aelod o'r Eglwys. A pha swyddog sydd, nad yw gant y cant yn sicr o'r Ysbryd ynddo'i hun, a gaiff ethol aelod o gorff Crist? Felly, **etholedigion o awduron a fyddai'n sianelu gair yr Ysbryd yn anffaeledig.** Dim ond y rhai a adfywiwyd ar y pryd i'r perwyl a gymerai ran yn y prosiect hwn o lunio Beibl. Ethol person oedd ethol Gair.

Pa gymwysterau felly a oedd yn angenrheidiol er mwyn cael mynediad gan air yn y Beibl?

Onid yw'r cwestiwn o ddull Absoliwt yn codi, ac felly'r cwestiwn o relativrwydd? A oedd awdurdod gan 'draddodiad' o ryw fath yn hyn o dasg? Nid oes gwir awdurdod onid gan Dduw (sef yr Ysbryd Glân yn yr achos hwn). Nid yw'r ffaith fod dim yn cael ei drosglwyddo [traddodi] dros gyfnod byr neu hir o amser yn hanes y Beibl yn ddigon o rinwedd yn y byd, fel y dengys y pechod gwreiddiol. Arall yw'r nerth. Persona Ysbryd Glân sy'n dethol drwy ddynion gwan yn ôl ei Ewyllys; a hynny a wnaeth drwy'u traddodi... Dethol a didoli mewn gwerth yw calon gwaith prif feirniad y Beibl.

Mae'r gymhariaeth yn hen rhwng yr Ymgawdoliad yn yr Ail Berson a'r Corfforiad Ysgrifenedig (neu'r cyfansoddiad o'r Gair mewn Beibl) fel llais byw gan y Trydydd. Ai'r un ydynt o ran statws? Yn y grefydd Gristnogol, aelod o'r Drindod (hynny yw Duw ei hun) yw'r Ail Berson a addolwn. Person dwyfol yw. Cynnyrch geiriol yn unig ar offeryn yw'r Beibl, nid gwrthrych addoliad. Bu'r Ail Berson yn Dduw erioed, fel y Cyntaf a'r Trydydd. Eiddo yw'r Beibl crwn yn bennaf i'w bobl wedi'r Esgyniad. Wedi'r Esgyniad y cafwyd cyfnod penodol i dystion yr Ail Berson. Tyst dynol-ddwyfol yw'r Beibl mewn amser a lle (fel y Crist ymgawdoledig). **Ond tystiolaeth yw sy'n traddodi geiriau'r Gair, ac yn sianel iddo.** Tystiolaeth gan lygad-dystion oedd hyn yn fynych, gan bobl freintiedig yn fuan ar ôl y digwyddiad, neu'n broffwydol freintiedig ymlaen llaw. Ond mesurir yr holl rinwedd o Wirionedd gan union eiriau yr ail Berson fel y'i cofnodwyd drwy awdurdod yr Ysbryd Glân. Ond nid yw geiriau'r Ysbryd Glân yn llai nac yn fwy gwir na geiriau Crist ei hun. **Math o undod yw'r Beibl, sydd oherwydd gofal yr Ysbryd Glân, yn berffaith ar ei hyd.** Y mae hyn yn hunangyfiawnaol fel y mae Duw'n gorfod bod yn y pen draw. Nid oes gan neb dynol, hebdo Ef, y gallu i ganslo dim o'r Gair awdurdodedig. Yn hynny o beth, y mae'n oruwchnaturiol ac yn wyrth, yn destun i dystion. Ond nid yw'n wrthrych addoliad.

Dewisodd Duw, ar gyfer yr Eglwys yn gynulliadol ac yn gydranedig, roi awdurdod cydlynol o fath sianelog rhwng Duw a dyn, a dyn a dyn, drwy gyfrwng y Beibl. Bu hyn yn fraint ddethol. Nid yw hyn yn gwahardd Duw rhag gweithio neu lefaru ym meddyliau unigolion eraill hefyd, wrth gwrs, mewn llawer modd megis ateb gweddi. Ond rhybuddir ni rhag ymddyrchafu a rhag rhoi unrhyw flaenoriaeth onid yr un ufudd gwrthrychol, goddrychol, tymhorol, llwyr bersonol hwn i'r cyfathrebu preifat felly, yn unol o 'gyfriniol' fel petai ar ran neb arall.

Fel y mae'r Beibl yn debyg iawn i'r Ymgawdoliad yn unigryw, felly y gellir ei ddefnyddio'n faen prawf, gyda'r amodau a nodwyd. Dywedodd W. Joest fod Gair Duw ei hun wedi'i 'godiffeio' mewn Ysgrhythur. Gwnaethpwyd cyfun newydd, sy'n golygu bod ysgrifeniadau'r awduron diweddarach mor berffaith â'r rhai cynnar. Cyfannu a chyffredinoli yw canoneiddio. Felly, er mai llythyrau lleol at eglwysi ag anghenion penodol oedd y rhai ar gyfer Rhufeiniaid, Corinthiaid, a Thesalonidiaid, dyweder, roedd ganddynt gymwysterau ac awdurdod cyffredinol yn ôl y galw i bawb arall. Fel yr oedd yr awduron yn cytuno â'r Ysbryd Glân yn y testun, felly yr oedd yr awduron yn

cytuno â'r Canon a gafwyd o'u blaen.

Mor ddoeth oedd cynnwys Iago a Rhufeiniaid gyda'i gilydd ar gyfer gwahanol anghenion a chynulleidfaoedd fel y câi pobl heddiw ymdeimlo â'r tyndra byw sy'n dal yn y Gwirionedd, ac sy'n darparu gwyliadwriaeth ganiatâus ar gyfer amrywio gofalus mewn pwyslais meddwl. Yr un egwyddor, sef profi ysgrythur drwy ysgrythur arall, 'drwy'r cyfan y mae barnu'r rhannau', sydd y tu ôl i farnu perthynas blociau thematig mwy yr Hen Destament a'r Testament Newydd.

Mae a wnelo dadl y 'Canon' â derbyn a gwrthod cyfanrwydd y Beibl. Ble mae ei ffiniau gwireddu felly? A sut y'i barnwyd? Bu hyn, wrth reswm, yn un o'r prif lwybrau a gafodd sylw gan ddysgedigion drwy gydol hanes Cristnogaeth. Erbyn 202 O.C., yr oedd Irenaeus, yn ei gyfrol *Yn erbyn Heresiaïau*, eisoes wedi enwi bron y cwbl o'r llyfrau fel heddiw. Yr ychydig nas enwa yw Philemon, 2 Pedr, 3 Ioan, a Llythyr Jwdas. Yr unig rai o bwys a gurodd ar y drws heb eu derbyn oedd Efengyl Tomas ac Efengyl (nid llythyr) Jwdas: dwy efengyl a gynrychiolai Gnosticiaeth. Tyfodd y Canon gan bwyll, ac wrth gwrs digwyddodd dros gyfnod detholus o amser – syndod cyn lleied – ond yr oedd egwyddorion yn gais safadwy erioed, fel gyda'r Hen Destament. Pwysai'r Ysbyrd Glân tuag at themâu cyson, llygad-dystion, a dibynolrwydd testun ac awdur. Caed cytundeb rhwng Iesu a'i elynion ar gynnwys ac awdurdod yr Hen Destament; a hynny i'r Eglwys Gristnogol fu'r Canon i'r Hen Gyfamod eisoes. Daeth yn rhagdybiaeth i bob Cristion na fuasai Duw yn gadael i'w bobl dros y milenia gerdded mewn tywyllwch. Teg sylwi, erbyn yr Esgob Athanasius o Alecsandria, O.C. 363, fel y caed gan Gristnogion gytundeb ar y rhestr o lyfrau safadwy yn y Canon, ac mai honno a fyddai'n cael ei derbyn gan y prif draddodiadau – Uniongred Dwyreiniol, Catholig Rhufeinig, a maes o law gan y Protestaniaid, yn fater o fyw ac o farw. Ac yn awdurdod.

Yr oedd y criteria apostolaidd yn arwyddocaol yn y dethol etholedig hwn. Caed rhai llyfrau nas ysgrifennwyd gan apostolion 'llythrennol', mae'n wir, megis Marc, Luc-Actau, Hebreaid, Iago, a Jwdas. Ond credir bod Marc wedi cydweithredu â Phedr, a Paul wedi cydweithredu â Luc (gw. Col. 4:14; 2 Tim. 4:11; Philem. 24). Er nad apostolion oedd Iago a Jwdas yn dechnegol, y tebyg yw eu bod yn frodyr gwaed i Iesu. Yr oedd apostoliaeth yn griterion cefndirol.

Yr oedd criterion hynafiaeth gynnar yn amod arall; ac wrth gwrs, cysondeb y ffydd a gogwydd cytûn yr eglwysi cyntaf. Ar ryw olwg, daeth y Canon yn ffenomen gaeedig yn gynnar (Deut. 4:2; 12:32; Diar. 30:6; Dat. 22:18,19). Yn ôl y gymhariaeth a fathodd Athenagoras, Duw oedd y chwaraewr fflwiwt a'r fflwiwtiau oedd y proffwydi (ond gw. Green ar 2 Pedr, IVP, 1968, t.92): yr Awdur a'r awduron drwy gymeriadau amryfal, eu hetifediaeth a'u hamgylchfydoedd, eu haddysg a'u doniau, eu diddordeb a'u harddulliau unigolyddol, bu Duw'n eu hysbrydoli ac yn eu ffinio oll.

Pwysleisiai Iesu a'r Apostolion fod geiriau Duw yn treiddio drwy'r Testament Newydd: Math. 7:24-28; 24:35; Marc 8:38; 13:31; Ioan 3:34; 5:47; 6:63; 8:47; 14:24; 17:8; Actau 15:15; 1

Cor. 2:13; 1 Tim. 4:6; 6:5; 2 Tim. 4:1; 6:5; 2 Tim. 1:12; 2 Pedr 3:2; Jwdas 17; Dat. 1:3; 19:9; 21: 5; 22:6-10; 18:19. Mewn cyfrol sy'n trafod y Beibl, mae yna amryw ffactorau yr ydys yn dychwelyd atynt o hyd o fewn maes y cysyniad o Ganon: yr undod, yr amryw mewn un, y goruwchnaturiol, y thema ddatblygol, yr ymagweddu paradocsiaidd, y berthynas rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, lle'r ddeddf, a chysondeb yr anffaeledigrwydd, hyd yn oed lle y ceid troadau 'llythrennol'.

Ond un ffordd i ddeall natur y dethol yn y Canon yn y Beibl ac mewn canonau seciwlar yw archwilio'r cymhelliad a rhagdybiau sydd gan bobl a fu'n ei wrthwynebu. Yn achos y Beibl, bu'r drafodaeth o du 'rhyddfrydwyr' ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif (megis Marcion gynt) yn codi'n fynych oherwydd y cymhelliad syml i ymwrthod ag unrhyw fath o awdurdod ysbrydol o'r tu allan i'w casgliadau tymhorol hwy. Hiraethid o ran natur am i awdurdod yr Ego trosgynnol fod yn y canol. Ceisid tanseilio canon y Testament Newydd yn hunan-fodhaol o fewn cyd-destun yr ymgais i ymwarded ag unrhyw flaenoriaeth ddwyfol, ynghyd â'r elyniaeth draddodiadol ysbrydol yn erbyn trefn dragwyddol wrthrychol. Ac mewn modd athronyddol nid anghyffelyb, bu yna anesmwythyd ôl-fodernaidd ynghylch metanaratif, a safonau llenyddol cadarnhaol. Ystyrid unrhyw ymwybod o bosibilrwydd 'Llenyddiaeth Fawr' ar ffurf Canon sefydledig yn fath o fygythiad democrataidd o du'r 'cyffredin' mewn llenyddiaeth seciwlar. Amryfal oedd cymhelliad y gelyn. Ymddengys mai unig bwrpas daionus rhai beirniaid anghyfrifol a thenau eu swmp diwinyddol heddiw, megis Marcion gynt, oedd iddynt gael eu defnyddio gan rywun o galibr Tertwlian i ddiffinio ambell ddysgeidiaeth eglur. A'r un modd yr ôl-fodernwyr: buont yn denau eu swmp moesol, ond – a hwythau'n meddu ar waelod eithaf y dogmâu a 'ryddhawyd' ac a etifeddwyd gan niwrosis Nietzsche – buont yn ysgogiad i ddiffinio rhagdybiau'r dirywiad deallol wedi Moderniaeth. Gellid negyddwyr i Bwrpas.

Yn y cyfnod diweddar, cysylltid Neo-Farcionaeth (a'r ymosodiad ar yr Hen Destament) â chwmp y Trydydd Reich. Ond nid Natsïaeth oedd unig gymhelliad Neo-Farcionaeth. Un arall, perthynol, o ddylanwadau Neo-Farcionaeth – fel y'i dangosodd Tudur Hallam yn ei astudiaeth ohoni yn *Canon ein Llên*, 2007 – oedd cwmp uniongreded yn y 30au gyda chyhoeddi pethau megis erthygl Bultmann ar 'Arwyddocâd yr Hen Destament i'r Ffydd Gristnogol'. Ond erbyn y 70au, gyda gwaith pobl fel B.S. Childs ac yna gan Christopher Seitz (1998 a 2001), wedi'u harfogi gan ysgolheictod Beiblaidd sylweddol, caed adferiad iachus ym mhrriffordd y credu clasurol.

Rhaid imi bwysleisio fy mod i'n dod at y cwestiwn o gyferbynnu Canon y Beibl â chanon y Gorllewin 'seciwlar', nid o safbwynt y Cristion yn unig eithr hefyd o safbwynt Gras Cyffredin. Ac yn yr achos hwn (ac yn wir, ym mhob achos llenyddol), cytunaf â safbwynt y sawl sy'n cydnabod, felly, y ffaith o Fetanaratif. Hynny yw, cydnabyddaf bresenoldeb bythol y meddylfryd cyfannol, y rhagdybiau, a hynny hyd yn oed ymhlith ôl-fodernwyr diog eu rhagdybiau. Mae Ôl-foderniaeth,

megis yr Ymoleuo, fel yr Oleuedigaeth Gristnogol, Rhamantiaeth, Marcsaeth, a Dyneiddiaeth, a meddylfrydau 'cyfannol' ceisiedig eraill, yn darparu fframwaith myfyrdod perthnasol i feddwl ein cyfnod: Metanaratif. Ac anodd gennyf synied bod unrhyw lenor gwir effro, yn y cyfnod sydd ohoni, yn medru llenyddu'n ystyrlon berthnasol i'r oes heb feithrin hefyd Fetanaratif cryf a gwydn o fath, i gynnal barn yng nghanol y rhain hyd yn oed os mai Sgeptigiaeth yw tipyn ohono.

Gelyn i'r cysyniad o relativrwydd (megis sgeptigiaeth ddogmatig) yw Canon a safon.

Dywedir bod Canon yr Hen Destament a'r Testament Newydd wedi ymffurfio neu gael ei gydnabod mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd. Pan fyddai awduron y Testament Newydd yn cyfeirio at yr Ysgrythur (Ioan 20:9; Gal. 3:22, ac yml.), mae'n amlwg fod yna destunwaith awdurdodol gan yr Hen erbyn amser Crist. Dywed Iesu (Luc 24:44-45): '*Rhaid i bob peth gael ei gyflawni amdanaf yng Nghyfraith Moses a'r Proffwydi a'r Salmau.*' [Yr olaf a ddeallir fel adran yr 'Ysgrifeniadau' yn ôl pob tebyg.] Yn wir, yr oedd y rhaniad triphlyg hwn wedi ymsefydlu'n awdurdod cyn 130 C.C.. Nid oedd yr Apocryffa'n rhan o Ysgrifeniadau Israel, ac nis cydnabuwyd hwy gan yr Eglwys Gynnar, na chyfeirio atynt gan Iesu Grist. Defnyddid hwy (ac ysgrifeniadau dynol eraill) er addysg a goleuedigaeth, ar hyd y canrifoedd, gyda llai o garn nag y defnyddiai'r hen ysgrythur i ddeall y newydd. Yr oedd Canon y Testament Newydd ei hun, felly, yn gadarn sefydlog gan gorff yr eglwys erbyn diwedd y bedwaredd ganrif. Ac fe'i cydnabyddid yn awdurdodol gan gyngor eglwysig yng Ngharthege yn O.C. 397. Fe'i cydnabyddid yn ganonaidd oherwydd bod rhyw gysylltiad rhyngddynt a'r apostolion, neu â llygad-dystion, oherwydd cydlynid cytûn â'r hyn a gyhoeddai Iesu a'i apostolion eu hunain yn ddiwinyddol, ac oherwydd derbyniad rhyfeddol o eang drwy gydol yr eglwys. Hynny yw, gwyddid gan yr Eglwys dan yr Ysbryd yn ei ffurfiant ethol mai hyn oedd y gwirionedd, ac fe'i cedwid. Er na cheid y math o ddatganiad ffurfiol ynglŷn â'r Hen Destament, gwyddid erbyn diwedd y Testament Newydd fod yna berthynas rhwng yr Hen a'r Newydd am eu bod yn undod diwinyddol. Gwahanol yw criteria pwysu a mesur *llenyddol* y Beibl. Er mor aruchel yw llawer iawn o arddull y Beibl yn y ddau Destament, ni byddai beirniad llenyddol seciwlar yn barod i gydnabod canoniaeth 'lenyddol' llawer iawn o'r Hen Destament (dyweder e.e. Nehemeia 70: 1-27). Eto, mae'r ganoniaeth Feiblaidd yn dderbyniedig oherwydd awdurdod ysbrydol mewnol a'i gwirionedd hanesyddol neu'r gwirionedd barddonol cyfan. Dyma wahaniaeth rhwng canoniaeth Llenyddiaeth Seciwlar a Llenyddiaeth Feiblaidd oherwydd gwahanol griteria gwerth.

Mewn gwirionedd, gwahaniaethid oherwydd mai'r Ysbryd Glân oedd Awdur yr awduron. Ef oedd yr Un hunan-wireddol awdurdodol a osodai ffin anffaeledig ar yr hyn a gofnodid. Hynny yw, Ef oedd yr unig Ganonydd i'r awduraeth unigol ac i'r gyd-awduraeth yn yr ysgrythurau, – nid eu camp lenyddol; ac ni wnâi'r awduron unigol ond cydnabod Ei awdurdod cariadus a di-wall ef: (Datguddiad 22:18-19), '*Yr wyf fi'n rhybuddio pob un sy'n clywed geiriau proffwydoliaeth y llyfr*

hwn: os ychwanega unrhyw un ddim atynt, fe ychwanega Duw iddo yntau y plâu sydd wedi eu hysgrifennu yn y broffwydoliaeth hon.'

Paradocs o drosiad yw cael y fath Ganon ei hun. Byrfoddiad yw'r Canon o'r tragwyddoldeb gan y meidrol: tragwyddoldeb rhwng cloriau. Ni allai ddweud y cwbl. Hynny yw, ni fentraï y tu hwnt i'w ffiniau am na fedrai neb geisio dweud y cwbl sy'n ddigonol na'r cwbl sydd ar gael i'w wybod am Dduw, nac am fywyd y greadigaeth, nac am holl bwrpas a hanes a pherthynas Duw a dyn mewn modd perffaith, neb ond yr Ysbryd Glân. Ac eto, rhaid oedd i Dduw ei ddweud, a byddai'r Ysbryd yn gwneud y gweddill. Troad ar gyfer y Gwir a ddigwyddodd ac a ddigwydd byth yw'r Canon a ddisgyblwyd yn naturiol reidiol gan y Goruwchnaturiol.

Ac wrth gyflwyno'r mawredd diderfyn hwn o fewn cylch bach anffaeledig mewn ychydig dros fil o dudalennau gorffenedig, ymddengys yn syn o baradocsaidd.

* * *

Cwestiynau defnyddiol oedd rhai Ôl-foderniaeth i finiogi beirniadaeth arnynt hwy eu hun. Cwestiyna, rywsut, oedd ei nod. Un o'r cwestiynau cudd a ofynnai oedd *sut* y gellid cael Canon.

Roedd yr *atebion* a ddefnyddiai bron yn ddi-werth, gan gynnwys ei safbwynt at Ganon llenyddiaeth seciwlar. Ond coegi cyfiawn yw mai felly y troes hi, gan mai un o ddogmâu Ôl-foderniaeth oedd nad oedd yna'r fath beth â chywirdeb na gwerth gwerth-chweil. Ac ofer, felly, fuasai '*dewis*' Canon. Dogmâu oeddent a'u lladdodd eu hunain drwy fod yn seciwlar.

Yn ôl un o'r theorïau Ôl-fodernaidd, cyflyrir y Darllenydd i archwilio llwybrau *gwahanu* pan fydd yn darllen. Ymetyb pawb yn unigolyddol mewn darlleniad. Arddelir felly, gan y theori hon ar ei ffurf fwyaf consensiynol, y rhagdybiau gwahaniaethus heb werthuso arferol. Gwyddys nad oes dim o'r fath beth â 'darlleniad cywir'. Nid oes neb yn cyd-ddeall yn gyson â'i gilydd. A gwyddys, wrth gwrs, ein bod oll yn cael ein camddeall os ydym yn werth ein halen. Rhydd hyn gyfoeth dehongliad inni. A rhyddheir y theori hon i wahanu ac uno gan Awdurdod dogma, mewn gwahuno.

Aeth gormes y 'gwirioneddau' ôl-fodernaidd i mewn i lôn gaead yn hanes beirniadaeth lenyddol. A daeth yn bryd inni heddiw unioni'r sefyllfa mor fuan ag y gallwn. Gwyddom fod yn y berthynas sydd ar waith rhwng pobl a'i gilydd, fath o amcangyfrif cytûn cyfathrebol anochel, ac yn wir awydd cyndyn i ddeall geiriau unigol ei gilydd yn weddol debyg. Yr ydym hefyd yn meddu ar 'Dafod' neu Ramadeg potensial sy'n sylfaenol gytûn ac yn gymorth i gynnal pont rhyngom. A phan fyddwn 'yn yr ysbryd' fel y dywedwn, yr ydym yn ceisio cyd-ddeall a chyd-gerdded gyda'r awdur a ddarllenwn. Mae modd inni felly ystyried yr ochr arall i'r geiniog, a *chyd-deimlo* (empathi) â synnwyr y llenyddiaeth a brofwn, hyd yn oed heb 'gytuno' bob amser. Gallwn gydnabod 'gwahuno' fel proses reidiol gyfunol mewn deall. Ond gallwn fentro awgrymu hefyd y buasai beirniadaeth aeddfed, heblaw hela anghytundebau anochel pêr a thyndra barn, yn medru – yr un mor ddiddorol a

chudd efallai – gynnwys cytundebau unol 'diniwed' (a llai diniwed) yn ogystal. Ffaith yw Undod yn ogystal ag Amryw.

Yn y cysyniad o Ymateb Darllenydd, etifeddir un strwythur triol Awdur+Testun+Darllenydd. Dyma Undod rheidiol arall mewn llenyddiaeth, a chan bob un o'r safleoedd ei ofynion cydberthynol ei hun, a chan bob un ei hawliau ei hun.

Sylweddola Darllenydd fod 'bod yn yr ysbryd' yn rhan o'r fargen ac yn golygu rhywbeth dyfnach o dipyn, a bod yr Awdur hwn hefyd yn *'dywysydd.'* O bosibl, wrth sefyll ar wahân i lenyddiaeth seciwlar am foment, a throi at ddarllen cyfrol sy'n hanfodol awdurdodol o ran natur, fe gyfyd cwestiynau o ganlyniad sy'n gyffredinol eu harwyddocâd, i gredinwyr ac i anghredinwyr. Wedi'r cwbl, honna sawl beirniad (darllenydd) fod yr awdur seciwlar yntau'n ceisio dweud rhyw fath o wirionedd am fywyd, ac yn gallu meddu ar gymhellion aruchel os yw'r llenyddiaeth sydd ganddo yn werth ei chael. Ac erys gras cyffredin yn eu doniau dychmyglon o hyd, seciwlar neu beidio.

Os ydym yn chwilio am theori gyfansawdd lle yr ystyrir ymateb y darllenydd i bob llenyddiaeth, yna, dichon y dylid anelu at fwy o gatholigrwydd, ac archwilio a oes math o gydlynid wrth ddiffinio llenyddiaeth i ddeall strwythur beirniadaeth gatholig.

Yn y profiad a gaiff Darllenydd gyda Thestun y Beibl, felly, beth bynnag ei gred, fe all fod yn brofiad unigryw, mawr. Yn gyntaf, mae Gras o ryw fath yn bresennol yn yr Awdur unigol, eithr y mae iddo swyddogaeth arall yn ymateb y Darllenydd. Gall ei dywys i ganol chwyldro. Y mae fel petai'n dilyn ymlaen o'r Awdur, drwy'r Testun, ac ymlaen drwy'r Darllenydd ei hun, gan ei argyhoeddi. Mae'n gallu goleuo, mae'n cynhyrfu, mae'n darostwng. Hynny yw, mae'n dehongli i'r galon. A disgwylir i Feirniadaeth fod yn ddigon cyfansawdd i fod yn atebol i bob argyfwng llenyddol o'r fath a phob modd. Yma, heblaw'r awdur, a'r darllenydd, saif y llenwaith yntau, gyda diffiniad unigolyddol heriol.

*

*

*

Ymhlith yr amllder o ysgolion chwâl a gafwyd yn symudiad cyffredinol 'Ôl-foderniaeth', ceid amryw sy'n dangos peth ffresni meddwl, dychymyg mentrus, lliw, ac anturiaeth ffurf a deunydd. Amgylchid hwy gan arwyneboldeb ffasiynol a rhagdybiaethau anaeddfed ac ychydig yn ddifeddwl. Ond ceid gogwydd gan un dosbarth tuag at Ffurfiolaeth feddylgar ac Adeileddeg sydd wedi goleuo beirniadaeth mewn modd cynyddol. Parheid hefyd yn hanes beirniadaeth lenyddol un ysgol o'r cyfnod rhamantaidd ac esthetaidd sydd wedi cyfrannu datblygiad parhaol i feirniadaeth: sef y darlleniad clòs o adeiladwaith a chynnwys 'y darn ei hun'. Perthynas o bell i ddarllen clòs i'r dull archwiliol hwn, ond perthynas, oedd un ysgol Ôl-fodernaidd werthfawr yn yr Almaen a oedd yn fuddiol gadarnhaol mewn rhai cyfeiriadau, sef Theori Ymateb-Darllenydd. Tarddodd hon yn

gyntaf, sut bynnag, o'r awydd i ddyrchafu'r Darllenydd uwchlaw'r hyn a Ddarllenir. Ac yn hanes Beirniadaeth Feiblaidd, gellir yn hawdd ddeall fel yr ailgyfeirir hon o Ardd Eden ymlaen. Yn ail, fe'i clymir – heb reswm – wrth ddogma osgoi undod, ac â'r dymuniad i ddarllen y testun yn ôl ei reidrwyd 'drylliog' a'i hunan-wrthddywediad digwestiwn. Yn drydydd, yn canoli'r sylw ar luosedd o destunau o fewn un testun. Ond oherwydd dogmâu Ôl-foderniaeth, mae Theori Ymateb-Darllenydd yn cael bod yn gyfres o gamddealltwriaethau egwyddorol.

Gêm barti yw, o fath. Ond o chwynnu'n ofalus, gellid hefyd yn feirniadol ddod o hyd i dechnegau gofalus. Mae'r Beibl yn addas iawn ar gyfer cwmpasu holl anfeidroldeb ystyr destunol. Mae'n ddi-ffin oherwydd y cysylltiad tragwyddol. Wedi'i anadlu gan yr Ysbryd Glân, gall synnu mewn cyfoeth. Mae'n unigryw hefyd oherwydd ei fod wedi'i fwriadu i fod yn eiddo i 'gymuned o berson'; ac y mae cytundeb deall yn nod yn y fath amgylchiadau, ac felly dylai fod yn dramgwydd hallt i'r wleidyddiaeth gywir o hunan-reolaeth cyn belled ag sy'n bosibl. Eto, fel y myn Husserl, prosesir y byd allanol drwy gyfrwng y meddwl ymwybodol – yn Ego Trosgynnol; eithr ni chyrhaeddai namyn cysgod o'r gwir yn y fath awgrym. Anffaeledigrwydd y Testun yw rhagoriaeth y Beibl.

Cytuna Derrida (1978) fod yn rhaid 'rhoi ystyr at ei gilydd' drwy gydol yr amser y bydd y beirniad yn ceisio 'datod'. Dyma wrth gwrs 'wahuno'. Ac nid ef oedd yr unig Ôl-fodernydd a sylwodd ar yr anocheledd hunan-wrthddywedol yna. Ond gwaetha'r modd, ni chanfu arwyddocâd cyson y darganfyddiad goruchafol. Yn ein hadferiad graddol ni ar ôl yr '*impasse*' a brofasom mewn Ôl-foderniaeth, diau fod angen inni mwyach fynd i'r eithaf ymwybodol o geisio hepgor y gorwahanu anfeirniadol gan sicrhau o'r newydd ein bod yn cydnabod anocheledd eu cydlyniad.

Ond y mae'r egwyddor gyfôn o *ddatod* sy'n cydweithio ag *adeiladu*, yn ystod darllen araf yr astudiaeth glôs (megis archwiliad yn nhraddodiad yr Ysgol Sul), yn waith i'w gymeradwyo. A gallwn gymeradwyo y math hwn o berthynas yn burion rhwng yr Awdur a'r Darllenydd. Ni raid ymwardd â phob gwedd ar feirniadaeth amrywiol Ymateb Darllenydd. Cymerer enghraifft o Lythyr Paul at y Rhufeiniaid fel Darn Llenyddol i'w ddarllen yn glôs mewn ufudd-dod.

Nid fi yw'r cyntaf yn y Gymraeg i gymharu'r cysyniad o ganon llenyddiaeth yn gyffredinol â chanon y Beibl. Bu'r Athro Tudur Hallam yma o'm blaen. Myfyrdod yw'r ysgrif hon yn ei sgil ef ar natur y canoneiddio hwnnw yn y naill a'r llall, y llenyddiaeth seciwlar a'r Beibl. Y casgliad Protestannaidd ynghylch awduraeth ganonaidd awdurdodol yw mai'r Ysbryd Glân oedd nid yn unig yr Un a ysgogodd ac a ysbrydolodd y Beibl yn awdurol, ond Ef hefyd a ddetolodd y Canon. Digwyddodd y cwbl drwy Ras. A chynulliadau eglwysig cynnar (un o diriogaethau arbennig gan yr Ysbryd) a gymhellwyd o dan bwysau traddodiad yr Ysbryd Glân i lunio'r criteria, ac a ddaeth i gytundeb go unfryd ynghylch y dethol. Datganiadau gan yr eglwysi ffaeledig mewn cynulliad gan

yr Ysbryd Glân a benderfynodd yn anffaeledig y rhestr ddethol o lyfrau awdurdodol a gâi eu derbyn yn y diwedd gan bron pawb. Do; ond brysiog fyddai'r sawl a dybiai mai'r dyn naturiol a'i gwnaeth.

Yn wir, un o nodweddion mwyaf gogleisiol Ôl-foderniaeth, sy'n honni bod mor archryddfrydol ac mor amhenderfyniadol amhendant, yw'r math o unbenaethdod diddewis a fu'n disgyblu'i harddelwyr, ac ar sail mor denau. Ond diolch i'r drefn, hyd yn oed yn ystod ei dyddiau tywyllaf, caed rhai beirniaid medrus cyfoes a fynnai o hyd ystyried *posibilrwydd* canon, yn nannedd pob dogma, – ie, canon mewn llenyddiaeth genedlaethol neu ryngwladol seciwlar – rhai megis Harold Bloom yn Saesneg, ac Alan Llwyd yn y Gymraeg. Ac yr wyf am archwilio casgliadau Harold Bloom cyn troi at ffenomen bur wahanol, ond nid cwbl wahanol, ein Beibl, oherwydd ei gyfrifoldeb gofalus a dewisol.

Harold Bloom fuasai'r cyntaf i addef mai dadleuol ac ansicr yw ffiniau canon llenyddiaeth seciwlar y byd. Lastig efallai fyddai'r term priodol. Ond ni bu'r natur amorffaidd honno yn ddigonol i wadu bodolaeth ddiamheuol y fath beth. Ac y mae hynny'n gasgliad – sef nad yw bod yn amorffaidd yn canslo bodolaeth rhywbeth – yn ddigon i beidio â dileu realaeth yr amorffaidd, megis y gwelir yn y geiriau angenrheidiol 'bydysawd' ac mewn 'bywyd' yn gyffredinol. Er mwyn trafod Canon seciwlar, y mae Bloom wrth reswm yn gorfod derbyn yr angen i werthuso. Ni ellid ei osgoi. Ac wrth wneud hynny, y mae'n gorfod wynebu'r cwestiwn o nodi pam – beth yw'r criteria? Sut y pennir safonau? Pam yr ystyrir bod gwaith hwn a hwn yn rhagori?

Ymdeimlir yn naturiol ac yn gryf, yn wir yn angenrheidiol, fod yna'r fath beth â safon, a diffyg safon, mewn bywyd ymarferol megis mewn llenyddiaeth seciwlar. Rhaid eu cael er mwyn byw. Beth i'w wneud nesaf? Beth i'w fwyta?

Rhyw fath o 'ysbryd' cymunedol a fu wrthi'n ffurfio'r syniad o ganon seciwlar byd-eang mewn llenyddiaeth, a hynny yn y cyfnod diweddar o dan brociad beirniaid llenyddol, gydag ambell ysgarmes leol ar yr ymylon unigolyddol. Ond yr oedd yna hefyd, yn wrthrychol yn y gweithiau llenyddol eu hun, ddeinameg a ffurfiai'r canon seciwlar. A cheisiaf nodi rhai o'r criteria a nodai Bloom, nid yn unig yn ei ragymadrodd eithr hefyd yma ac acw yn ei ddisgrifiad o *The Western Canon*, 1994.

Mae Bloom yn ystyried fod dros dair mil o lyfrau yn y Canon Gorllewinol, ac y mae ef ei hun yn y gyfrol honno yn trafod chwech ar hugain ohonynt. Dywed ei fod yn eu derbyn am eu harucheledd (*sublimity*) a'u cynrychioliad (*representative nature*). Sôn y mae am y canon 'seciwlar', wrth gwrs. Yr wyf yn barod i'w ddilyn gyda'r rhinwedd gyntaf, ac yn wir, yn ôl rhai o'r rhinweddau eraill a enwa yma ac acw yn y gweddill o'r ymdriniaeth. Ond am yr ail, tybiaf ei fod yn gwrthod

natur 'canon' rhai beirniaid wrth ddyrchafu'r 'cynrychioliadol'. Diddordeb hanesyddol hefyd sydd ganddo weithiau yn ei 'ffasiwn' o werthuso. Sonia yn ei ragymadrodd am ddwy *bête* yr wyf yn cydsynied â'u gwrthodiad. Beirniada ef yn llym amddiffynwyr 'adain dde' y Canon sy'n cymeradwyo'r detholiad yn ôl seiliau moesol. Er hynny, cytunaf mai rhyw fath o foesoldeb, er nad y moeswersol, yw rhuddin llenyddiaeth. Yna, try at y newyddiadurwyr academaidd a eilw 'The School of Resentment'. Ôl-fodernwyr yw'r rhai mewn golwg, sy'n canoneiddio eu Canon personol yn ôl rhaglen o Newid Cymdeithasol: pethau sy'n anathema i ambell geidwadwr Americanaidd – megis ffeminyddion, duon, hoywon, aelodau o 'ddosbarth cymdeithasol', ac yn y blaen: pawb sy'n gwyro gwerthoedd yn ôl eu 'plaid' seicolegol neu boliticaidd, fel y gwna Bloom yntau, yn dawel bach. Gall cangen ym myd credoau ddylanwadu'n ormodol ar chwaeth lenyddol. Ac y mae'n amlwg fod yna griteria sy'n rhybudd i feirniad Cristnogol, er bod ei faes ef yn lletach na sffêr llenyddiaeth.

Ysywaeth, gwna Bloom ei hun ymgais i gynnig detholiad a wna ef er mwyn 'cynrychioli' ambell wlad, cyfnod, neu lenddull heb ymddisgyblu i gynnwys materion eraill – fel gwerth – yn gytbwys. Wedi datgan ei ragdybiau, â ati i nodi ansoddau (paradocsiaid yn aml) sy'n hyrwyddo aelodaeth o'r Canon – *estroneiddiwch, gwreiddioldeb, yr awydd i fod rywle arall mewn amser a lle, ofn marwoldeb yn yr ysgrifennu, meistrolaeth ffigurol, gwybodaeth, deallolrwydd, afiaith megis dychymyg, afiaith ieithwedd, ymwybod o ffurf ac egni deniadol, gallu i resymu, hunanlywodraeth farddonol, a gweledigeth gynhwysfawr am fywyd, gydag amrywiaeth mynegiant*. Dyma ansoddau y gallwn oll gydsynied â hwy, gan mwyaf, er gwaethaf eu haniaetholdeb. Chwilio y mae ym mhob un am awdurdod esthetig, dethol. Ond y mae'n ein hatgoffa ni am 'safonau' heblaw'r rhai esthetig. Ac ni wylia agoredrwydd y catholig. Prociad o lawer math yn y gwaith sy'n dal ar y gwaith canonaidd.

Dylwn geisio diffinio beth a olyga wrth 'estroneiddiwch'. Hyn, rwy'n tybied, yw bod gwaith llenyddol yn 'arbennig' oherwydd fod yna naws unigryw, efallai anesmwythol, ynddo sy'n ychwanegu mwy na 'gwahaniaeth' at grynsyth llenyddiaeth ei gyd-lenorion. Mae yna rinwedd ynddo y teimlwn nas cawsom erioed, ac y diolchwn mewn syndod amdani.

Yn fynych, bydd canonwyr dibrofiad yn methu lle y maent yn gadael i'w chwaeth bersonol drechu barn oherwydd angen catholigrwydd. Yr ydym oll yn rhagfarnllyd i ryw raddau. Felly y cefnogir anghatholigrwydd pwnc ac anghatholigrwydd ffurf. O'm rhan i fy hun, nid wyf yn hoffi storïau am y 'gofod' nac am 'drais er mwyn trais': chwaeth hollol bersonol. Ni hoffaf sentimentalïaeth. Dychrynaf wrth bob sarhad i feddylgarwch. Nid yw rhai pobl eraill yn hoffi cerddi mewn cynghanedd, neu gerddi hir, neu rai sy'n gorffen mewn tristwch. Ond go brin fod y rheini'n uwch na chwaeth orbersonol elfennol a chwbl annigonol. Gallwn grwydro drwy ardd chwaeth yn bur anghyfrifol. Ffieidd-dra i rywrai yw crybwyll y goruwchnaturiol. Nid oes barn anffaeledig. Nid oes criteria clir annadleuol. Ac ymhellach, nid oes esgus rhag cydnabod gwerthuso.

Gwelir er hynny fod peth gwahaniaeth rhwng criteria canonaidd y Beibl a chriteria canonaidd llenyddiaeth seciwlar, a hynny oherwydd eu bod – er goryffwrdd – yn perthyn i wahanol sfferau: diwinyddiaeth y naill a chelfyddyd y llall. Anghyfrifol yw i ganonwyr rhagfarnllyd eu cymysgu er y gellid eu cyd-gyffelybu. Cânt eu hawdurdod a'u hansawdd ysgrifenedig weithiau gan eu priod sfferau. Yr hyn a gawn yma yn y naill a'r llall yw rheidrwydd dynol naturiol i geisio gwerthuso heb golli cyfanrwydd. Mae yna wth i gydnabod rhagoriaeth gytûn. Mae darllen beirniadol sy'n dadansoddi rhinweddau yn agor cwys tuag at gytuno.

Felly hefyd mewn ffordd wahanol ym maes Canon y Beibl. Gwahanol hollol oedd y criteria a'r priodoleddau i'r hyn a geid gan bob llyfr arall, gellid meddwl. Ond ceid yn weddol gyffredinol yr un Cymhelliad absoliwt i'w bennu'n iawn. *Deil Gras Cyffredin i warchod 'gwerthoedd' fel egwyddor.*

Hynny yw, yr hyn sy'n cael ei rannu fel nodwedd gyffredin rhwng canon seciwlar a'r canon Cristnogol yw 'Gwerth'. Eithr nid dyna sy'n eu 'gwahanu'. Yr hyn sy'n cael ei neilltuo yn ffurfiant y Canon Beiblaidd yw anffaeledigrwydd awdurdodol unol y Canonwr, yr Ysbryd Glân. Ac ym maes Gras Cyffredin, y mae Gras Arbennig yn mynnu sylw er ein gwaethaf. Dyna un o'r 'problemau' y ceisir eu hwynebu yn y gyfrol hon.

Buwyd yn ymagweddu at y Beibl yn y gyfrol hon o bryd i'w gilydd o fewn cyd-destun llenyddiaeth yn gyffredinol. Yr un pryd, mynnid mai *Llenyddiaeth + Gras Arbennig* oedd y Beibl. **Mae'n cynnwys elfennau Gras Cyffredinol megis Llenyddiaeth Seciwlar, – er enghraifft troadau, paradocsau, themâu, arddull, adeiladwaith cyfannu a ffurfiant iaith, a'r athrawiaeth gyfoethog o fawl.** Ond erys problemau o gyfosod y ddau fath o lenyddiaeth. Derbynnir bod Gras Arbennig mewn Cristion yn cynnwys Gras Cyffredin. Ond ochr yn ochr â chwestiynau o ffurf a deunydd, cyfyd cwestiwn 'gwerth' fel arfer mewn beirniadaeth lenyddol, hyd yn oed pan fydd diddordebau mewn man arall, megis testunwaith neu fywyd awdur. Mewn llenyddiaeth Gymraeg cafwyd campweithiau mawr ers canrif bellach ym maes **testunau** gan ysgolheigion fel Ifor Williams, Thomas Parry, R. Geraint Gruffydd, ac unigolion iau, ynghyd â llafur safonol aruthr y Ganolfan Uwch Efyrdiau Cymraeg a Cheltaidd. Dyma i ni uchafbwynt ein Hysgolheictod Diweddar. Mae'n cael ei ddilyn gan **gofiannau rhagorol i awduron**. Lle y cafwyd siom, i raddau, fu yn yr **astudiaeth ymarferol o werthuso** – am resymau diwinyddol ac ôl-fodernaidd ymhlith eraill. Mae hyn yn eironig. Pe baem yn troi at feirniad Beiblaidd Cristnogol gyda'r cwestiwn hwn o 'werthuso', fe ddywedai'n deg ac yn sobr, nad oes dim dewis ond i gydnabod bod y Beibl yn gwbl 'amhrisiadwy'. Mae yn bwnc hollol unigryw, ac yn codi materion dyrys i'r fath drafodaeth. Nid problem i ddianc rhagddi mewn beirniadaeth lenyddol na diwinyddiaeth yw hyn, er hynny, ond cwestiwn i'w bwysu ym mha ffyrdd ac ymhle y gellir yn gyfiawn ac yn Gristnogol ddefnyddio

ystyriaethau sy'n 'gyffredin' (yn yr ystyr o Ras Cyffredin), ac nid yn gyfaddawdus nac yn ddiduedd. Bydd angen gwyntyllu nodweddion llenyddol y Beibl, felly, mewn fframwaith a ddylai fod yn unigryw mewn beirniadaeth lenyddol. Eithr sylwais droeon hefyd ar y broblem a gaiff beirniaid seciwlar wrth ddod wyneb yn wyneb â llenyddiaeth grefyddol. Teimlwn y gellid o leiaf ddadansoddi, disgrifio, a diffinio nodweddion y broblem honno. A pheth o nod y gyfrol hon yw ymholi pa fath o beth yw hynny.

LLENDULLIAU

Hanes, Salm, Dihareb, Proffwydoliaeth, Cysgodeg, Deddf, Llythyr, Dadl, Cyffes, Prydyddiaeth

Wrth gydnabod yr angen mewn Beirniadaeth Lenyddol i gynnwys sylwadaeth ar Ffurf, beiddiwyd gosod 'Amryw mewn Undod' fel un o'r egwyddorion addas pennaf. *Mentrwyd eisoes grybwyll 'Undod' fel prif griterion Ffurf lenyddol foddhaol;* ac wrth droi at yr 'Amryw' ffurfiol, yn awr, uno'r gweddau rhaniadol y gellid cytuno arnynt a wneir, a'u categorio fel rhai mathau ffurfiol unol sy'n digwydd yn rhyngwladol. Dosberthir yn ôl grwpiau o gyfannau sy'n meddu ar nodweddion cyffredin. Dyna'r dosbarthiad yn ôl *llenddull* (genre). Mae'n wir, – yn arbennig fel rhan o Ôl-foderniaeth, – fod ymgais ymwybodol wedi bod ymhlith beirniaid negyddol i fod yn gyfangwbl wrth-unol, yn anorffen, ac yn amhenderfyniadol. Ond sylfaenid hyn wrth gwrs ar ragdyb ynghylch gwerth: adwaith negyddol oedd. Diffinnir bodolaeth y negyddu hwn er ei waethaf yn emosiynol. A chyferbyn â phob negydd o'r fath ceir diffiniad cadarnhaol.

Soniais o'r blaen fod 'Beirniadaeth Ffurf', fel dosbarth penodol a threfnus o lenyddiaeth, megis yn astudiaethau Beiblaidd Bleddyn Roberts, wedi bod yn ddatblygiad nodedig mewn Beirniadaeth ym mhedwardegau a phumdegau'r ugeinfed ganrif. Rhoddai ef gryn bwys ar ddiffinio, disgrifio a dosbarthu llendulliau'r Beibl. Yn ddiweddarach, aethpwyd ati i'w cyd-destunoli a'u gosod hwy fwyfwy yn eu cefndiroedd cymdeithasol yn Israel ac yn yr Eglwys Gynnar.

HANES

Hanes yw brenin llendulliau'r Beibl. Duw mewn Hanes yw'r Duw Cristnogol. Ond heblaw Hanes, ceir llendulliau eraill, ac y mae'r llendulliau hynny'n dweud rhywbeth ynglŷn â'r math o Hanes a fabwysiadai'r Beibl. Mae 'Deddf', er enghraifft, yn llenddull ffurfiol amlwg; ac ar ryw olwg, Hanes datblygiad 'cydwybod' ac ymwybod moesol Israel yw llawer o'r Beibl, o'r bennod gyntaf hyd yr olaf, gyda deddfau yn cael eu goleuo fwyfwy. Hanes ei phechod yw llawer o'r Hanes. Ond Deddfau (sy'n berthnasol i Bechod) yw cryn dipyn o wrthrych pob Hanes beth bynnag yw'r testun.

Heblaw dylanwad llendulliau eraill, o fewn adeiladwaith Hanes – sy'n cwmpasu hanes unigolion, – ceir eto strwythurau gwahanol mewn digwyddiadau ac amgylchfydoedd. Yn fyny, canolid ar unigolion nodedig, megis Hanes Abraham, Dafydd, Solomon, a Paul. O fewn Hanes yr Arglwydd Iesu a'i fywyd daearol ef, a'r tu mewn i lenddull yr Efengyl, gellid dosbarthu ambell enghraifft o lenddull (byr) megis Hanes Gwyrthiau o fewn llenddull (hir) megis cofiant.

Ond ceir bod Hanes yn cael ei adeiladu o amrywiaeth o lenddulliau (cyd-lenddulliau neu is-lenddulliau) eraill. Mae'r rheini eu hunain yn amrywiol.

O fewn 'llenddull' llyfr y Salmau, ceir dosbarth achlysurol sy'n dilyn is-ddulliau pynciol megis grŵp yr esgyniad, Salmau 120-134. Ond y mae'r Salmau fel arfer erbyn heddiw yn cael eu rhannu'n bum llyfr: Llyfr 1: Salmau (1 – 41); Llyfr 2: (42 – 7); Llyfr 3: (73 – 89); Llyfr 4: (90 – 106); Llyfr 5: (107 – 50). Honnai llawer fod y tri llyfr cyntaf yn cyfansoddi Salmedydd (*Psalmody*) cyfan, gyda'r ddau lyfr olaf yn ychwanegiad diweddarach. Rhan yw o hanes defosiwn Israel.

Adwaenir 'pwrpas' swyddogaethol rhai Salmau fel Salm 95 (ad.7 – 11) a 96: fe ddefnyddiwyd y rhain yn y Deml ac yn ddiweddarach yn y Synagog fel gwahoddiad i agor Addoliad. Salm 90 yw'r hynaf o'r Salmau. Diau mai Moses ei hun yw'r awdur; ac fe'i gosodwyd yng nghalon y casgliad, yn batrwm i'r holl waith a gyflawnodd Dafydd yn y llenddull hwn.

Ymddengys fod Llyfr y Diarhebion gan mwyaf yn gasgliad o waith Solomon, ac wedi'i gyfansoddi i fod yn addysg i'w blant. Mawl yw mewn diffiniad o rinwedd Llenyddiaeth Ddoethineb. Dichon fod Penodau 10 – 24 wedi'u llunio gan Solomon ei hun, hyd yn oed os oedd peth wedi'i lunio neu o leiaf ei olygu (Penodau 1 – 9) yn ystod cyfnod y Brenin Heseceia, a diwedd y casgliad wedi'i ychwanegu a'i orffen yn y cyfnod hwnnw. Ceid diarhebion pynciol megis rhai ynghylch Godineb, neu Ffolineb, neu'r clod i Wraig Fedrus, hwythau wedi'u grwpio. Dywed hyn rywbeth wrthym am hanes addysg yn llys y brenin.

Un ffurf nas cyfrifir yn 'llenddull' yn arferol, a hynny yw'r 'Weddi'. Eto, ni wn ba derm arall ond 'llenddull' yw'r un y dylid ei ddefnyddio i ddisgrifio'r lle ffurfiol sydd iddi mewn llenyddiaeth. *Genre* yw, math o gyfansoddiad sefydledig mewn geiriau. Y Weddi gyntaf, sy'n cynnig patrwm o Weddi daer y tlawd ei ysbryd yw'r un ym Mheniel pan oedd Jacob yn ymaflyd codwm ag angel Duw. Arhosodd y patrwm hwn ar gof yr eglwys dros y canrifoedd (megis yn Hos. 12:3-4). Yr oedd Jacob yn gofyn yn benodol am faddeuant pechod ac am berthynas union gyda Duw. Yn ystod y codymu hwnnw, trawsffurfiwyd Jacob, a chafodd enw newydd, 'Israel', *'oherwydd yr wyf wedi ymdrechu â Duw a dynion, ac wedi gorchfygu'* (Gen. 52:22-32). Yn yr Hen Destament ni wn am yr un Weddi mor gofiadwy oni chyfrifwn y Salm ar ran Dafydd (51), pan ddaeth y proffwyd Nathan ato wedi iddo fynd at Bethseba sy'n cynnwys y geiriau cyrhaeddol:

Yn dy erbyn di, ti yn unig y pechais

a gwneud yr hyn a ystyri'n ddrwg, (adnod 4)

yn ogystal â rhediad ingol Salm 51:10-12. Ceir Gweddïau lawer ymhlith y Salmau (megis 73 – 77, a 102 – 104) fel na ellir gwahaniaethu'n llenddulliol rhwng Salm a Gweddï ambell waith o ran cynnwys a ffurf. Dyma wedd ar hanes defosiwn.

Diau y byddai llawer Cristion o'r galon yn anesmwytho wrth glywed y term 'llenddull' ar gyfer 'gweddï'; ond nid yw 'llenddull' ond yn derm llenyddol ar gyfer ffurf – megis gair, brawddeg, paragraff, cyfansoddiad, hyd yn oed os yw'n 'gri o'r galon'. Ceir llawer defnyddioldeb gan lenndull.

Anodd fyddai tynnu llinell derfyn rhwng Salm ac Emyr a hyd yn oed Gweddi.

Er nad yw'n arfer enwi'r Weddi fel 'llenddull', y mae hynny'n bod yn ôl pob tebyg am nad yw beirniaid seciwlar yn gyffredin yn ei chyfrif felly. Ychydig yn embaraslyd iddynt fyddai meddwl amdani yn 'llenddull' fel eu llenddulliau hwy yng nghyd-destun seciwlariaeth gyfoes neu mewn sgyrsio seciwlar bob dydd, er ei bod yn syndod fel y bydd hyd yn oed y bobl fwyaf seciwlar yn gallu rhedeg amdani ar adeg o argyfwng. A fyddai rhai seciwlariaid yn hoffi barnu bod cyfansoddiad mewn iaith, a ddefnyddir i bwrpas mor neilltuedig, nas mabwysiedir ganddynt hwy, yn esgymun fel llenddull arferol? Os yw 'Achau' fel y cyfryw yn 'llenddull' hanesyddol ymylog arall am resymau mwy ffurfiol, ni ellir llai na'i gyfrif yn 'rhestr' ieithyddol ar gyfer pawb. Mae Achau'n fynegiant ieithyddol diogel. Os yw'n wahanol o ran naws i'r Stori neu'r Alleg (Alegori) neu'r Weddi neu'r Ddrama, yn yr Hen Destament y mae i 'achau' ran ganolog mewn llyfrau megis Lefiticus a Chronicl, ac yn wedd ar Hanes. Ac mewn dwy o'r efengylau mae i Achau Iesu Grist arwyddocâd diwinyddol, hanesyddol, a phroffwydol. Perthyn yno i llenddull y 'rhestr'. Rhaid i feirniad llenyddol Cristnogol fod yn benodol wrth ddiffinio 'llynyddiaeth'. Iaith ffurfiol yw mewn undodau.

Luc yw'r efengyl lle y ceir mwy o Weddiâu na'r un arall. Yn gyntaf, y patrwm (11:2-4). Yna, mae a wnelo tair o'i ddamhegion â gweddi: cyfaill ganol nos (11:5 yml.), gweddi daer (18:yml.), a'r Pharisead a'r casglwr trethi (18:9 yml.). *Luc* yn unig sy'n sôn am Iesu'n gweddïo dros Bedr (22:31-32), amdano'n gweddïo dros ei elynion (23:24), a throsto'i hun (32:41). Canfyddir hefyd yn y rhain yr ymwybod o undod y Mab a'r Ysbryd Glân yn amlach yn *Luc* nag yn yr Efengylau eraill. Sonnir am Iesu'n cael ei arwain i'r anialwch 'yn llawn o'r Ysbryd Glân' (4:1). Mae ef yn dechrau'i weinidogaeth 'yn nerth yr Ysbryd' (4:14). A dysg y disgyblion i ddisgwyl am yr Ysbryd, gan gyfeirio'n ddi-os at y Pentecost (24:49). Ymddengys fod hyn, fel yr achau, yn awgrymu bod cymeriad a phwyslais yr efengylau hyn yn gwahaniaethu ychydig mewn cyfeiriadau nodedig.

Sôn yr ym am undod Hanes yn cael ei adeiladu'n ffurfiol gan amrywio ar sail cyd-llenddulliau cynhwysol eraill.

* * *

Ym mryd hyd yn oed yr 'Academi Gymreig' a 'Llyfr y Flwyddyn', cyfrifir Hanes yn 'llenddull' mwyach, er nad yw'n ffuglen yn fwriadol. Myn fod yn ysgolheictod.

Y mae Hanes yn fwy na llenddull yng nghyd-destun y Beibl. Mae'n ddatguddiad o natur ddiwinyddol Gristnogol. Efen ganolog yw yn niwinyddiaeth Creadigaeth a Gwardigaeth. Y mae a wnelo â chanolrwydd y Duw sy'n ymgawdoli ar y ddaear, y Duw hwn (ar wahân i greu Hanes o'r dechrau) sy'n ymyrryd mewn Hanes. Duw yw'r prif berson yn Hanes y byd a'r Beibl. Er bod rhes o gymeriadau dynol yn ymddangos yn eu tro yn y Beibl, un arwr dynol mawr arall sydd mewn

gwirionedd, sef Israel – y Bobl. Adeiladu cenedl yw prif thema'r Hanes, ac yn yr unigolion y mae yna uned gyfunol yng nghalonau pob un ohonynt. Gellir canfod dwy wedd ar Israel. Sef Israel Waed (hil a lleoliad ac amser ac Ysbryd) yr Hen Destament. Yna ceir ymyrraeth ganolog Duw yng Nghrist, peth sy'n gweddnewid neu'n lledu amser Duw, a gweddnewidir ystyr Israel. Israel yn ôl cnawd a geid yn yr Hen Destament o ran terminoleg. Ac ymddengys Israel Ysbrydol, yn ymwybodol (i bob hil, bob lleoliad, amser ac Ysbryd) yn y Testament Newydd. Fe'u cyd-osodir bid siŵr drwy gydol y Beibl, oherwydd presenoldeb y Drindod a'r cyswllt rhediadol thematig yn yr agwedd a sylweddolir at bechod a'r ddeddf ac at yr iachâd drwy iawndal y Gwaredwr.

Hynny yw, er bod Hanes yn rhes o ddigwyddiadau mewn Amser, y mae a wnelo Hanes yn y Beibl â dangos diflaniad Amser (y tu hwnt i Hanes). Hanes y Gwrthwynebiad i Amser yw ar un olwg. Trechir Amser. Ceir Cwmp yr arwr unigol ac arwr y llwyth Israel sy'n ymyrryd â natur Amser. Ceir yn fuan botensial neu addewid yr Adferiad drwy'r unigolyn i'r llwyth Israel ysbrydol. Ond yr hyn sy'n digwydd, yn undod i'r Beibl, yw cyswllt rhwng y prif 'ffigur', Duw, a'r 'is-arwr', dyn. Codir dyn yn ei ôl. A'r digwyddiadau personol hyn rhwng Duw a dyn yw'r Athrawiaeth ei hun. Crefydd ganolog ddigwyddiadol a phersonol yw Cristnogaeth. Ond drwy Hanes y crynhowyd ystyr resymegol y ffydd honno mewn bywyd ymarferol a chwlwm o uchafbwyntiau ystyrol yng ngweithredoedd yr arwyr. Diriaethir yr egwyddorion.

Mae'r Beibl yn llawn o Hanes dysgeidiaethol felly. Rhan yn unig o undod ei weledigaeth yw Hanes. Eto, Hanes yw asgwrn cefn y Beibl ar ei hyd. Ac y mae olrhain y cydlynid rhwng gweithred ac athroniaeth yn rhan o ddadansoddi gwaith y Beibl. Cytunir yn gyffredinol mai detholiad yw Hanes digwyddiadol bob amser yn sylweddoliad dynion. Ac adlewyrcha natur y dethol a gafwyd mewn Hanes (megis Hanes Cymru) beth yw safonau, gwerthoedd, a phwrpas yr hanesydd, drwy'r athrawiaeth bersonol.

Olrheinir hanes Israel o'r dechrau hyd y diwedd gan y Beibl. Mae'r Hanes yn rhoi *undod* mewn sawl ffordd: er enghraifft, yn Jerwsalem; y mae'r deml a'i chyfundrefn aberthol a'i holl ddelfrydoleg yn ffurfiol ddylanwadol ar Iddewiaeth dyfiannol wedi'r Alltudid hyd at Gristnogion cynnar wedyn. Mae yna undod yn y disgwyliad am Feseia; yn y cysyniad o Gyfamod rhwng dyn a Duw; yn y Ddeddf a'r agwedd at y Ddeddf; yn y cysyniad o bobl etholedig; yn nhwf y swyddogaethrwydd triol – Proffwyd, Offeiriad, a Brenin; yn thema Cwmp ac Adfer; ac wrth gwrs yn yr Undduwiaeth a'r math o Undduwiaeth bersonol, benarglwyddiaethol, fewnfodol a throsgynnol, o'r Hen Destament i'r Newydd. Duw yn y Nef ac ar y Ddaear a rydd Hanes i ddyn drwy Ras Cyffredin a thrwy Ras Arbennig. Duw a greodd Amser o fewn Tragwyddoldeb.

Ym mryd llawer un, gwleidyddiaeth faterol yw hanfod hanes poblogaidd heddiw – sef yn y gwaelod yn llythrennol, economeg plws rhyfel ydyw. Dyma un o brif glymau rhagdybiol y criteria i

gynnal fframwaith cyfanrwydd Hanes yn y Gorllewin. Ac ychydig a fydd yn synied am ansawdd bywyd a hapusrwydd moesol fel fframwaith Hanes. Ond onid Gwerthoedd dyn sy'n dethol y cynnwys yn y diwedd? I'r Cristion, Hanes perthynas yw. I Dduw, mae Hanes ar gael heb amser, heb ddechrau a heb ddiwedd.

Pan drow'n at Hanes fel elfen bwysig ymhlith llenddulliau'r Beibl, bydd yr ysgolhaig o Gristion uniongred yn gweithio yn ôl y rhagdybiaeth mai'r Ysbryd Glân sy'n gyfrifol am y dethol. Math arbennig o Hanes yw. Hanes uwchben Hanes yw sydd wedi cael ei arwain yn ôl athrawiaeth a datguddiad rhagosodiadol am fywyd gan Dduw. Hanes yw sy'n ddidactig hyd yn oed, er ei waethaf. Ceir o'r herwydd bwysleisiau, a threfn, dylanwadau a dehongliadau sy'n bur wahanol i'r math o hoffter a geid gan hanesydd seciwlar. Nid anghywir fyddai dweud bod yr Hanes yn y Beibl yn cydfod â Hanes gan y Crëwr ei hun a'i ddehongli gan Ysbryd y Gwirionedd. Ac felly, y mae presenoldeb neu absenoldeb y deall goruwchnaturiol a'r diamser yn her anodd i'r sawl sy'n coleddu'r dull positifaid a materol fel pe na bai'r un ffordd arall i egluro bywyd. Hynny yw, mae yna ragdybiaeth o werthoedd ac o safonau gau sy'n cyflyru detholiad Hanes seciwlar. Adeiladwyd Hanes Cristnogol ar y llaw arall yn unswydd gan Ysbryd Mawl, yn yr ystyr gadarnhaol ac adeiladol letaf. Ennill yn aml yw'r colli. Er gwaethaf erchyllterau pechadurus, fe'i clymwyd wrth ganolbwyntiau daearyddol a chyfnodau hanesyddol gwahanol. Ac wrth gwrs, er bod llawysgrifau 'diweddar' ar dro yn cofnodi hanesion sy'n mynd yn ôl i gyfnod cynt o lawer, deallwn fel y gallai'r llafar cynnar hefyd gael ei etifeddu gan lyfr mewn modd gwahanol i'r hyn a gofnodwyd ar lafar ynghynt, ond yn gywir. Gwyddom hefyd i Grefydd Gymharol ddangos amrywiadau o fersiynau gwahanol o'r un digwyddiadau, ond heb awdurdod yr Ysbryd. Amlffydd yw, chwaer relatifrwydd.

Bydd newid yn digwydd o'r Hen Destament i'r Newydd, wrth gwrs, eithr nid oherwydd 'syniadau'n datblygu' yn ddamweiniol. Bydd syniadau'n tyfu oherwydd bod y datguddiad gan Dduw unol yn cynyddu. Mae'r chwyldro'n symud oddi wrth ddeall crefydd yn rheolau-ganoledig at gred mewn perthynas arbennig â Duw unigryw. Nid yn syml oherwydd bod dyn yn ddoethach. Mae'n digwydd oherwydd bod Duw'n drugarog; ac wedi'i egluro'n fwyfwy o fewn amgyffrediad annigonol dyn. Y mae'n cymhwyso diwylliant Israelaidd fel y cynyddda dealltwriaeth.

Hanes yw adeiladwaith ein bywyd ninnau oll. Os siaradwn iaith neilltuol, y mae honno'n atebol i'n hanes personol. Aeth hanes diwylliant i mewn i'n cyfansoddiad ni. Y tu mewn i hanes yr ydym yn bodoli, ac mae llawer o'r broc hefyd a roliodd dros ein cefnau yn ystod y gorffennol wedi glynu wrthym, Gristnogion neu beidio. Y gorffennol ar ryw olwg a'n creodd ni. Ac ymateb y darllenydd yw ceisio rhoi trefn ar y baich a'r cyfoeth hwn, yn fewnol ac yn allanol. Weithiau, y mae'n cael ei batrymu fel pe bai ambell drobwynt yn ymyrryd. Yr hyn sy'n bwysig yw inni ei gael yn gywir.

Cysgodau

Mae 'Cysgodau' yn batrwm o feddwl nodweddiadol Feiblaidd, ac yn ddehongliad unigryw o Hanes. Dehongliad ymlaen-llaw ydyw, megis proffwydoliaeth ar ffurf ychydig yn wahanol. Dyma ffactor arall o gryn bwys a bri wrth ddadansoddi cydlynid y Beibl. Mae llawer o ddarllenwyr yr Ysgrifurau Sanctaidd yn troi at y Testament Newydd i ymwybod ynddo â'r adleisiau a'r paratodau yn yr Hen, y rhai a ymddangosai ychydig yn wahanol i broffwydoliaethau oherwydd eu bod yn ymddangos yn ddelweddu byw personol. Dichon fod ambell un o'r adleisiau cymeriadol neu ddigwyddiadol hyn heb fod yn fwriadus, ac yn gynnyrch dychymyg rhywrai wedi mynd dros ben llestri. Hynny yw, geill darllenwyr ddod o hyd i Gysgodau ansicr o'r Newydd yn yr Hen, am eu bod yn eu rhagdybied yn ymddangosiadol orgryf; ac o fewn cyd-destun cyflawn gall y ffactorau hyn fod yn wir arwyddocaol. Ond y mae eraill o'r fath weithiau yn fwy ymwybodol ddeallol; ac y mae presenoldeb y rheini a'r undod thematig rhwng yr Hen Destament a'r Newydd yn anochel gyd-gadarnhau'r dull hwn o ddarllen o fewn cyd-destun goruwchnaturiol. Cadarnheir yr ymchwil am Gysgodau gan rai o ddatganiadau Iesu Grist ei hun. Paradocs yw hyn oll.

Wedi'r cwbl, hawliai Crist fod yr Hen Destament yn sicr yn sôn yn ddarluniadol amdano Ef (Ioan 5:39; Luc 24:44-47). Clymir Gweinidogaeth Iesu wrth Elias ac Eliseus yn Luc 4:25-47; fe gyferbynnir yr annigonol â'r digonol – Jona, (Math. 12:41); Solomon a'r Iesu (Math. 12:42); Dafydd (Marc 2:25-26); y Deml (Math. 12:6); â Gwaed y Cyfamod Newydd (Marc 14:24).

Cyflawnir proffwydoliaeth ym Math. 2:14-15 (sef Hos. 11:1). A hawlir bod Adda yn gysgod o Grist (Rhuf. 5:14). Mae pob cysgodeg yn cyfeirio at batrwm Hanes, lle y mae a wnelo alegori â'r cysylltiadau mwy 'damweiniol'. Yn y Cysgodau, megis mewn proffwydoliaeth, mae'r Hen Destament yn darparu strwythur sylfaenol a chywir ar gyfer y Newydd; megis Tafod (Gramadeg) ar gyfer achlysuron Mynegiant ym maes iaith. Dyma Addewid ar gyfer Cyflawniad, yn dystiolaeth ymlaen llaw fel petai, yn Luc 24:44, y potensial yn yr effaith. Amser Duw yw.

Ac mewn sawl un o'i gerddi, byddai Pantycelyn yn hoff iawn o ymdroi gyda chysgodau Crist, a diau fod hyn yn cyfoethogi trwch trosiadol ei ddealltwriaeth o fywyd y Cristion. Rhan o fywyd trosiadol unigryw Cristnogaeth oedd y Cysgodau mewn dimensiwn arall. Rhan oeddent o fframwaith meddwl a gymerai undod y Beibl yn ganiataol yn ôl rhagdybiaeth bod Duw gyda hwy yn gyson, a'r cysondeb yn ei brofi.

Un o'r prif gysyniadau gan Wilhelm Vischer, sy'n cael lle amlwg yn niwinyddiaeth 'Hanes Gwardigaeth' ym mhumdegau'r ugeinfed ganrif oedd ei waith 'Typological Interpretation of the Old Testament', lle y mae'n dweud (o'i gyfieithu): 'Gwelwn ym mhobman yn yr hanes hwn, a'r rheini wedi'u hysgogi gan Air Duw, weithredoedd barnedigaethol a gweithredoedd gwardigol, sy'n rhagffiguraeth o Weithredu Crist yn y Testament Newydd. Nid pedlera llên gwerin chwedlonol, na

phalu i'r golwg wyrthiau cudd yw cydnabod o'r newydd gysgodau'r Hen Destament. Nid yw ond yn gydaggraffiad o'r gred fod yr un Duw a'i datguddiodd ei hun yng Nghrist hefyd wedi gadael olion ei draed yn hanes pobl gyfamodol yr Hen Destament.'

Ar ôl y gwaith hwnnw, ac am hanner canrif mewn aml fan, hyd yn oed yng Nghymru, cafodd cysgodeg gryn sylw. Wrth gwrs, yr oedd rhai esbonwyr ychydig yn rhyddfrydol (megis Lampa), am ystyried mai parhad naturiol o bwrpas Duw yw dilyn Cyfamod, lle y disgwyliid cyfatebiaethau *naturiol* mewn pobl a gweithredoedd yn sgil yr un trywydd. 'Analog' oedd term Barth. Gellid felly ddisgwyl gwrthod pob esboniad sy'n awgrymu addewid i'r dyfodol. Ond gall Cysgodeg olygu mwy na hynny, er y gall gynnwys hynny hefyd. Mae hefyd yn baratoad yn y meddwl a'r ysbryd, ac yn adeiladu fframwaith deall goruwchnatur. Yn wir, mae'r awgrymiadau'n gryf yn y Beibl ei hun fod ffydd yn ddibyniad ar y dyfodol unedig a ddiogelir gan Dduw sy'n ei wybod eisoes, fel yn y bennod fawr am Ffydd yn Hebreaid 11 (cf. Iago 2:21-25). Cysgod sydd yn y ffydd o'r anweledig yn y dyfodol: 'y mae ffydd yn warrant o bethau y gobeithir amdanynt, ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld.' Hynny yw, mae Amser Duw yn wahanol i amser dyn.

Ceir termau penodol sy'n awgrymu teip, patrwm, neu gysgod, gan Ruf. 5:14, 'y mae Adda yn rhaglun o'r Dyn oedd i ddod'; 1 Cor. 10:6, 'Digwyddodd y pethau hyn yn esiamplau i ni'; cf. Ex. 25:9,40. Mae'r cwbl yn cael ei ddefnyddio fel y byddai credinwyr yn ymwybod â chydlynid a chyd-gyswllt y Beibl fel cyfanwaith. Felly, y mae'r holl gyfundrefn o aberthu yn gysgod o Iesu Grist, a'r Eglwys (a'r Ddeddf) yn gysgod o Deyrnas Nef. Yr oedd yr Arglwydd Iesu Grist yn hyrwyddo'r dull cyfannol hwn o feddwl yn Luc 24:44; 'Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthyhych pan oeddwn eto gyda chi: ei bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni sy'n ysgrifenedig amdanaf yng Nghyfraith Moses, a'r proffwydi, a'r Salmau.'

Troad yw dyn ei hun o Dduw. Yn y Testament Newydd, defnyddir y gair *eikon* o Dduw ar gyfer dyn: Col. 1:15: 'Hwn yw delwedd Duw anweledig, cyntafanedig yr holl greadigaeth.' Hwn felly yw sylfaen pob delweddu metaffisegol. Mae'r ymgnawdoliad ei hun yn fath o droad mewn Mab dwyfol, yn dod yn fynegiant mewn amser a lle o'r Duw tragwyddol. Troes dwyfoldeb yn ddyn. A phan gais Cristion fod yn debyg iddo ef, ac uniaethu â'i ddelw ef, beth y mae'n ei wneud ond dymuno bod yn un ag ef, yn gysgod ohono, mewn modd trosiadol drwy dröedigaeth? Ni allwn blymio'n feddyliol i ddyfnder y fath uniaethu cyfriniol, oherwydd y mae'r fath undod rhwng dyn a Duw mor rhyfeddol am fod Duw ei hun mor gyfan-gwbl gynhwysfawr tan gwmpasu pob peth: (Act. 17:28) 'Oherwydd ynddo ef yr ydym yn byw ac yn symud ac yn bod.' Dyna fodd y meddwl 'barddonol' neu uchelgeisiol Gristnogol o weithio. Ac estyniad ohono yw ffenomen Cysgodeg. Mae'r Waredigaeth a wnaethpwyd ar y Groes yn rhaglun o'r Waredigaeth a ddôi i bob Cristion a gaed wedyn.

Yn Heb. 10:1 defnyddir y gair *eikon* mewn ffordd nodedig. Mae'r gyfraith seremonïol ei hun yn dod yn droad, a'r *eikon* yw'r realiti, '*Oherwydd cysgod [Cyffelybiaeth] sydd gan y Gyfraith o'r pethau da sy'n dod, nid gwir ddelw [eikon] y dirweddau hynny. Ni all hi o gwbl, trwy'r un o'r aberthau sy'n cael eu hoffrymu'n barhaus, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ddwyn yr addolwyr i berffeithrwydd am byth.*' Hynny yw, mae'r aberthau cyfreithlon sy'n rhan mor ganolog o'r gyfraith Hebreig yn gweithredu'n gyffelybiaeth addysgol i'r Glendid diriaethol a fyddai'n marw er mwyn union gyfiawnder yng Nghrist.

Byddwn yn dychwelyd ymhellach ymlaen i drafod y dull troadol hwn sydd gan yr Ysbryd Glân o gyflwyno bron popeth – a hynny wrth gwrs drwy'r llythrennol. Nid yw'r 'cysgodau' y sonnir amdanynt yn yr Hen Destament ar ryw olwg namyn troadau deall i gynhyrfu'r serchiadau. Ond troadau deall ydynt hefyd: gweledigaethau a gyflwynir drwy gydol y Beibl nes cyrraedd pwrpas Duw yn Datguddiad 21:22, '*A theml ni welais ynndi, oherwydd ei theml hi yw'r Arglwydd Dduw, yr Hollalluog, a'r Oen.*' '*Nid oes ar y ddinas angen na'r haul na'r lleuad i dywynnu arni, oherwydd gogoniant Duw sy'n ei goleuo, a'i lamp hi yw'r Oen.*'

Wrth gwrs, ni ellir pwysleisio digon fod cysgodau a gweledigaethau'r Beibl ar ei hyd yn llawer mwy na throadau gan eu bod yn adeileddol neu'n strwythur sy'n cynnal undod deall yr Hen Destament a'r Newydd. Cysgod o fath yw hyd yn oed Israel yr Hen Destament (yr Eglwys cyn yr Ymgnawdoliad), cysgod o'r Israel Newydd wedyn. Rhaid oedd paratoi Israel ar hyd y canrifoedd, ei haddysgu hi, ac adeiladu ffordd o feddwl ar gyfer dyfodiad corfforol y Meseia. Parod iawn erioed fu dyn i gamddeall. Ac nid camddeall meddyliol ydoedd yn unig, eithr camddeall ysbrydol, y math o gamddeall a all fod yn elyniaethus hyd yn oed; nid yn ffyrnig yn unig, ond yn dawel ddifater elyniaethus, yn ystyfnig anwybodus, fel y rhai sy'n dilyn y llwybr rhyddfrydol.

Heb. 9:23, '*Gan hynny, yr oedd yn rhaid i gysgodau o'r pethau nefol gael eu puro â'r pethau nefol eu hunain ag aberthau gwell na'r rhai hyn.*' Cysgodion o Ogoniant Duw yw'r cwbl.

Felly y bu Israel druan wrthi'n camddeall llawer am fwriadau'r Hen Destament yr un pryd, ond yn araf yn cyflwyno'r 'deall', dros ganrifoedd, yn gofalus gam-gyfansoddi cyflwyniad, (y ffurf tuag yn ôl megis mewn drych) gan ddefnyddio pob math o gyfarpar, digwyddiadau, pobl, a gwersi; yn symleiddio patrymau, yn cyd-uno i'r un perwyl, er mor ofer ydoedd yn aml; gyda rhyfel yn ymyrryd o hyd (heb ddeall Tywysog Tangnefedd); y corff yn hytrach na'r ysbryd (heb ddeall yr Ysbryd Glân); y grym yn hytrach na'r gwendid (mewn aberth); 'ni' yn Act. 3:4-5, yn hytrach na 'nhw' (wrth ymwybod â'r hunan); cymryd yn hytrach na derbyn a rhoi (wrth geisio gras); gweithredoedd yn hytrach na ffydd (er ceisio Duw); balchder yn hytrach nag edifeirwch (yn ein pechod personol); gweledig yn hytrach na'r anweledig (oherwydd obsesiwn y materol). Dyma'r patrwm wyneb i waered, ac eto atgoffa a wna o'r gwir wyneb. Camddeallid yn ddygn: dyna hanes

dilys: mewn gwirionedd yng Nghysgod Israel y ceir y troad delfrydol i'r dyn naturiol. Oes, mae yna newid, mae yna dwf gwahaniaethus yn ôl gwaith rhagluniol yr Ysbryd Glân yn y byd; ond o fewn cynllun, denir yr Hen Israel yn ei blaen i fod yn Israel wedi'i gweddnewid. Cynrychiolydd i gredinwyr ffaeledig ac anorffen, ar ryw olwg, fu Israel erioed. A dyna un o'r ffyrdd, un o'r troadau mawr a fabwysiadodd yr Ysbryd Glân i arwain y dyn bydol i mewn i'r dirgelwch disglair.

Gwedd oedd Cysgodeg o drwch delweddol y Testament Newydd ac o fodolaeth bresennol yr Hen Destament ynddo. Mae yna debygrwydd yr ydym yn ddoeth i ymdeimlo â'i bresenoldeb; ond mae yna chwyldro sydd yr un mor berthnasol. Cyflawni yw'r parhad; a chyflawni yw'r newydd:

Tanlinellir Ymwybod fod Iesu Grist yn cyflawni deddfau'r Hen Destament: Math. 5:17; Luc 24:27; Luc 24:44; Ioan 5:39,40,46,47; ar y Damhegion – Math 13:14; ar Ioan Fedyddiwr – Math. 11:10; 21:42; 26:56; Luc 4:20, 21; 22:37; Ioan 15:25; Marc 13:26 (cyf. at Dan. 7:13,14).

Yr oedd Ysgrifenyddwyr eraill y Testament Newydd yn ymwybod â chyflawni proffwydoliaethau: Act. 3:18; 10:43; 13:29; 17:2,3; 1 Cor. 15:3,4; Rhuf. 1:2; 1 Pedr 2:5,6; Math. 2:4-6.

Ac yn fwyaf penodol, diffinnid Meseia'r Israel yng Nghrist drwy bobl unigol a themâu ar waith ynddo: *Yn Wryf:* Es. 7:14; Math. 1:18, 24, 25; Luc 1:26-35; *Mab Duw:* Salm 2:7 (1 Cron. 17:11-14; 2 Sam. 7:12-16); Math. 3:17; (Math. 16:16; Marc 9:7; Luc 9:38; 22:70; Act. 13:30-33; Ioan 1: 34-33; Ioan. 1:34,49) cf. Marc 3:11; Math. 26:63; *Had Abraham:* Gal 3:16 (cyfeiriad at Genesis 22: 18). Mae'r Cyfieithiad Newydd yn colli'r pwynt hwn. Yn yr un gyfrol, ceir cyfeiriad sy'n dibynnu ar adlais o adnod ynghynt. Camgyfieithu yw felly golli hynny. Dyma'r un tro y mae Duw yn mynd ar ei lw i'w gyfrif ei hun mewn perthynas â'r genedl, ac y byddai'r Meseia'n dod o linach Abraham; *Mab Isaac (Israel), nid* Ishmael, mab arall Abraham: Genesis 21:12; Luc 3:23,34; *Mab Jacob:* Numeri 24:17 (Gen. 35:10-12); Luc 3:23,34; (Math. 1:2; *nid* Esau: dileu hanner llinach, gan mai dau fab oedd gan Isaac); *Mab Jesse:* Eseaia 11:1 (Es. 1:10); Luc 3:23, 32 (cf. Math. 1:6); *Tŷ Dafydd:* Jer.: 23:5; Luc 3:23,31 (Math. 1:1; 9:23; 15:22); *Geni ym 'Methlehem':* Meica 5:2; Math. 2:1,11; *Anrhegion:* Salm 72:10 (Es. 60:6); Math. 2:1,11; ac yn blaen. Mae'r dystiolaeth yn anferth. Sôn yr ŷm am wth thematig tuag at Undod grymus y Beibl; a'n bod yn canfod hyn yng Nghrist. Yn y gwth gwyrthiol hwnnw bu'r proffwydi yn golofnau cynhaliol. Ond yr Ysbryd Glân yn unig a neilltuai adeiledd y sgaffaldwaith cyfan hwn.

Wrth ystyried Undod y Beibl, pwysicach o lawer yn hyn o ystyriaeth yw agwedd yr Arglwydd Iesu Grist ei hun at yr Hen Destament. Sylwer ar effaith y llinyn sy'n dal ynghyd ar gyflwyniad etifeddol ganddo Ef:– (1) *Cadarnhau: awdurdod absoliwt:* Math. 5: 17-20; 22: 34-40; (2) *Dehongli ysbrydol chwyldroadol:* Math. 5: 21-48; Marc 7:14-23; cf. Yr agwedd at ryfel; cyfartaledd merched; (3) *Cyflawni:* Luc 24:44 (Rhaid oedd cael ei groeshoelio ac atgyfodi) lle y mae'n troi'r Gyfraith yn Efengyl (Calfin: *Inst.* Adran 2.9). Ffordd o ddehongli Hanes fel

ymddangosiad rhagluniol oedd Cysgodeg. Dysgu darllen catholig yw ei ddarllen yn gywir.

Llenddull yw Cysgodeg (*Typology*) a ffurfiwyd gan ymwybod arbennig o Hanes.

Wrth gwrs mae hanesyddoldeb 'llythrennol' a 'gwrthrychol' yn ganolog gartrefol yn yr efengyl. Fe'n clymwyd am byth wrth *ddigwyddiadau cras crai* a fu ar gerdded yn y gorffennol byw. Ni chafwyd gwaredigaeth Gristnogol fythol gan broses ddychmygol a anwybyddodd amser dyn. Fe'i cafwyd drwy waith corfforol mewn amser a lle. Iesu Grist, Duw yn y cnawd. Ac yn marw'n weledig. Dyma graidd yr ymddangosiad. Pan sonnir am yr 'ysbrydol' yng nghyd-destun Cristnogaeth, felly, y mae a wnelo ag ymarferoldeb mater, a pherthynas real â Duw o fewn ac y tu hwnt i'r byd. Hynny yw, wedi dod i sôn am Gysgodeg, nid ydym yn ymadael â realiti (Hos. 11:1).

Cyflwynir yr hanes hwn mewn modd ysbrydol, wrth gwrs. Ac o bryd i'w gilydd, ymdeimlwn â rhyddiaith sy'n 'gwyro' i gyfeiriad barddonol moliannus, yn rhyfedd iawn.

Felly, peidiwyd â bod yn ddiniwed euog o gael ein camarwain gan gyfyngder positifaid. Nid yw pethau byth yn digwydd o fewn dimensiwn pethau'n unig. Y mae syniadau a meddwl Crist yn ei ddangos yn mynd bob amser yn gyfan gwbl y tu hwnt i'r math o astudiaeth a geir gan ffenomenau naturiol arferol. Nid ymyrrir â'r unigolyddiaeth nac â'r sefyllfaoedd ysbrydol y bu ef ynddynt. Yr oedd yr efengylwyr hwythau felly yn rhoi adroddiadau hanesyddol am berson beunyddiol Iesu mewn ffordd sy'n amgenach na'r allanol. Fe'i hadeiladwyd yn hanes ar ffeithiau eraill a wireddwyd. Bob amser, perthyn Iesu Grist hefyd i'r fan yma *ac* i ddimensiwn arall.

Mae'n wir, o safbwynt gwyddoniaeth hefyd, yn achos ffenomen naturiol ddynol, fod ailadrodd arbrawf yn ofynnol inni weld ein trefn. Eto, amhosibl gwneud hynny yn achos rhai meddyliau a phrofiadau dynol. 'Aileni ysbrydol' er enghraifft. I Gristnogion, nid yw hyn yn llai hanesyddol wrth gwrs, nac yn llai 'gwrthrychol', nac yn llai 'llythrennol' chwaith. Rhaid disgwyl i'r prif ddigwyddiadau ganoli ar brofiadau ysbrydol. Mae'n wir hefyd y gellir dehongli hyn mewn ffyrdd gwahanol ac ar lefelau gwahanol. Ond nid yw er hynny yn ei wneud yn llai ffeithiol. Digwyddiad yw digwyddiad hyd yn oed yn yr ysbryd. Mae'n bosibl wrth gwrs i Gristion ddal mai gwrthrychol real hunan-gynhaliol yw Duw iddo, nid yw Ef yn dibynnu ar unrhyw syniadau nac yn wir ar unrhyw gredoau eraill nac ar ddim yn y bydysawd. Bod hunangynhaliol yw. Mae yno. Nid yw'n relatif, yn oddrychol, yn ffuglennol, yn wallus, nac yn rheidiol emosiynol. Mae'n wir bod iaith y Beibl yn ceisio ei ddarlunio ac ymestyn tuag ato gan ddefnyddio 'symbolau' amdano, sydd mor bwysig mewn sagrafennaeth Gristnogol. Ond dewisodd Duw gyflwyno Hanes iddo'i hun yn uniongyrchol mewn dyn. Ni raid cywilyddio wrth ragdybiau sy'n ddyn-ganolog (os ydynt yn Dduw-ganolog hefyd) nac oherwydd yr amhosibilrwydd deall chwaith. Dyn yw Cristion a brofwyd ond a oleuwyd mewn llawer dull a llawer amser. Dyna gefndir awgrymusrwydd ei Gysgodeg.

Proffwydoliaeth

Llenddull crefyddol yw Proffwydoliaeth sy'n cysylltu dau amser yn y Beibl. Nid oedd yn gelfyddydol o ran bwriad. Nid celfyddyd oedd y weddi chwaith, na'r bregeth. Mae'r rhain yn fwy na darn o lenyddiaeth o ran bwriad: y maent yn anadl o'r ucheldir. (cf. John Bunyan, *Prayer*, BoT, 1991). Fe all proffwydoliaeth gysylltu'r Hen Destament â'r Testament Newydd, neu un pwynt yn y Testament Newydd a phwynt arall yn yr Hen Destament, neu un pwynt yn y Testament Newydd â phwynt diweddarach (nid o anghenraid yn y Testament Newydd). Yn y Beibl, gwyrth gorfforol yw. Gall Cynnwys Proffwydoliaeth gorfforol amrywio o ran hyd ac arwyddocâd. Ffenomen ddiddorol ac ysgytiol mewn Hanes yw. Gall ddibynnu ar y dyfodol a'r diamsr.

Yn ôl ystyr arall, mae Proffwydoliaeth yn cysylltu dau gyflwr: sef cyflwr fel y mae, a chyflwr fel y dylai fod. Fe enwyd y llenddull hwn ar ôl un o'r tair prif swyddogaeth a enwyd fel *swyddogaethau Iesu Grist*. Yn wir, tair prif swyddogaeth bersonol ydynt a enwyd ar gyfer tystiolaeth pob Cristion, yn wryw ac yn fenyw, sef *Proffwyd*, *Offeiriad*, a *Brenin*. Crynodeb ysbrydol yw'r triawd hwnnw i enwi mathau o wasanaeth.

Y mae dau fath o ogwydd gan y gair 'proffwyd' felly. Yn yr ystyr boblogaidd, gorfforol, un yw sy'n gweld y dyfodol, ac yn datgan yn y presennol rywbeth anghyffredin am y dyfodol hwnnw. Dyna'r math o ystyr y meddylir amdani'n gyffredin. Ond y mae'r ail ddefnydd yn wahanol: mae'r ystyr Feiblaidd yn bennaf, fel 'un o'r tair swydd' unol, yn lletach. Gweld y mae proffwyd o Gristion fod bywyd oll yn oruwchnaturiol, ac y mae'n datgan y canfyddiad hwnnw, am ei fod yn gweld bywyd yn gweithredu drwy sianel nad yw hi ddim o'r byd hwn.

Ond mae yna gyswllt rhwng y ddau fath o broffwyd. Gweledigaeth wahanol i'r corfforol a'r materol arferol yw amgylchfyd proffwydoliaeth: siarad a thystio y mae am ffordd o fyw sydd eisoes yn dragwyddol. Wrth dystio felly y mae'n cyflawni ei swydd o ddweud y gwir goruwchnaturiol.

Chwiorydd geiriol i'r 'Cysgod' yw'r 'Proffwydoliaethau' a geir yn y Beibl. Ffenomenau ydynt ymlaen llaw am yr hyn a ddaw. Ac y maent, yn amlwg iawn, yn yr ystyr gyntaf, yn dolennu cyfnodau, yn aml yn neidio mewn Hanes, ac yn darparu strwythurau undodol eto, a mwy na hynny. Gall esbonio neu gyfrannu undod yr ysgrythurau gyda'i gilydd fod yn wedd ar broffwydo felly. Mae'r defnydd corfforol o'r gair 'Proffwyd' yn tanlinellu bod person o'r fath yn gallu neu'n mynnu cyhoeddi'r gwir 'anhysbys' cyfannol am y dyfodol. Doniwyd rhai pobl i rag-weld fel hyn.

Ond nid dyna'r unig ystyr i Broffwyd, fel y gwelsom. Yn y Beibl yn unig y profwn yr ail ystyr i Broffwyd. Dyma'r un lleiaf hysbys heddiw, pan sonnir am driawd swyddogaethau'r Cristion cyffredin, (ar ddelw Crist) fel 'proffwyd, offeiriad, brenin.' Ac yn y fan yna, ni olyga 'proffwyd' lawer mwy na'i bod hi'n ddyletswydd ar Gristion (a Christ yntau'n broffwyd), i rannu'r gwirionedd

neu i draethu'r efengyl wrth eraill; i sefyll dros y Gobaith, i roi rheswm dros yr hyn a gredir, i dystiolaethu am y tragwyddol.

Mae'r elfen oruwchnaturiol gorfforol yn peri tramgwydd i seciwlaryn, yn ôl yr arfer. A chyfrifir bod y wedd ysbrydol yn rhy ddiniwed gan gallwyr materol. Ond canfyddir undod rhyfeddol a chywrain y Beibl, a'i ddilysrwydd yn ôl un fethodoleg o ddehongli drwy gymharu Ysgrythur ag Ysgrythur. Olrheinir un ddysgeidiaeth, megis un digwyddiad, drwy'i dangos yn arwain at ddysgeidiaeth arall, oll yn gysylltiedig mewn amser a thragwyddoldeb. Cysylltwr yw Proffwyd go iawn. Er mor wahanol i'w gilydd y bo'r proffwydi o ran anianawd, diben, a phwyslais, y maent yn gogwyddo i'r un perwyl ac yn ffurfio corff o fyfyrddod ac o genhadaeth sy'n un grym cyson ysbrydoledig drwy'r Ysgrythurau, a hynny drwy ras yr Ysbryd Glân yn gweithio drwyddynt. Mae proffwydoliaeth unol yn fwy na gweld a dweud. Mae'n rhan o'r genadwri gyfuno.

Undod yw cenadwri gwaith yr Iesu, ac undod yw'r gwyrthiau allanol, fel yr athrawiaethau ysbrydol. Daeth i'n huno â Duw. Y mae Ef am ein gwneud ninnau'n un drwy undod ei Wirionedd yn y Ddau Destament: Luc 4:18-21. Mae Iesu'n dweud bod proffwydoliaethau *Eseia* 61:1-2 yn cael eu cyflawni ynddo ef; Ioan 19:28-32. Mae yna gyfeiriadau yn Exodus, Numeri, Salmau, Sechareia yn sôn amdano ef; yn Math. 21:5, Ioan 12:15, Sechareia 9:9, cyfeirir at orymdaith fuddugoliaethus Iesu yn Jerwsalem; Heb. 10: lle y clywn y Salmau, Jeremeia, a Habacuc. Yn Act. 13 dyma Paul yn cyfeirio at broffwydoliaethau'r Salmau ac Eseciel. Nid rhaid bod yr awduron dynol ar y pryd wedi llawn sylweddoli arwyddocâd yr hyn a draethent, nac yn y manau hyn nac yn unman arall, gan mai sianel i'r Ysbryd Glân oeddent. Y gwir yw mai Duw yw'r prif Awdur o hyd, a thrwy hynny dyrchefir rhinwedd ac effeithiolrwydd y gorchwyl proffwydol i ddimensiwn diderfyn. Mae'r cysylltu hwn yn dangos ystyr Hanes.

Ar ryw olwg, craidd eu cenadwri oedd bod Hanes Israel ei hun ar ei hyd yn undod. Eu gweledigaeth oedd undod y greadigaeth a'r ymgnawdoliad yn Rhagluniaeth y Crist a ddygai bopeth i gwlwm y dyfodol. Dyma'u Mawl: undod Natur a Goruwchnatur o genhedlaeth i genhedlaeth. Hwy a glymai Ryfel Cyfiawn yr Hen Destament â'r Rhyfel Tangnefedd (megis yn y Bregeth ar y Mynydd) fel y byddent yn gosod gyda'i gilydd mewn Hanes gyfanrwydd cyfeiriad i foes ac ymddygiad a dreiddiai drwy hynt yr Eglwys benbwygilydd. Teg yw cyferbynnu'r modd yr unodd Cystennin yr Eglwys yn Ymerodraethol Gristnogol drwy ddulliau sylfaenol heddychlon, â'r ffordd ryfelgar y bydd ambell grefydd arall *o ran polisi* yn ymledu drwy drais. Beth bynnag a feddyliwn am grefydd Cystennin o ran 'polisi' (a 'Christnogion' bedyddiedig wedyn yn y crwsadau), ni allwn lai na synied bod *lledu'r 'ffydd' (wedi Crist) drwy nerth cleddyf* yn wyrddroad ffiadd gan gredinwyr y Beibl.

Adlewyrchid undod Hanes yn yr hiraeth am undod meddwl yn yr Eglwys. Ceisient undod yn

yr Eglwys Gynnar, nid drwy wendid y credu, eithr drwy gryfder y ffydd. Ystyrir hyn yn wedd ar y sylweddoliad o Un Duw. Ond fel yr oedd yr Ysbryd Glân, a Christ, a Duw'r Tad yn tystio i Amryw o fewn y Drindod unol honno, felly yr oedd y ffaith o broffwydo yn tystio am gyswllt hanesyddol rhwng lle a lle, amser ac amser. Eto, mae holl wth yr Ysgrythur yn tanlinellu'r gwth paradocsaid cysylltiol yn erbyn unffurfiaeth undonog.

Er gwaethaf yr holl undod hwn sy'n mewn-gyferbynnu a mewn-amrywio, mae'r ddeuliaeth gyson yn ymestyn fel ymbarél dros y ddwy thema a bwysleisiai ddwy arwrgerdd Williams Pantycelyn. Yn gyntaf *Golwg ar Deyrnas Crist* gyda Chreadigaeth Natur a Rhagluniaeth fawr allanol yn Genesis 1 yn ymestyn hyd 1:1-18 (Philip 2:6; Col. 1:15; Heb. 1:3) drwy Gwmp y Bydysawd hyd ei Adferiad, felly y ceid yn ail yn *Theomemphus*, ddyn, y creadur etholedig, yn teithio tua Chreadigaeth Newydd y waredigaeth Newydd fewnol, y Waredigaeth yn Num. 16:22, 27, a Diar. 20:27 gan ymestyn hyd Rhuf. 5:14; 1 Cor. 15:45-49; 2 Cor. 5:17; Gal. 6:15. Dyma'r ddeuliaeth sy'n ymestyn o'r Adda cyntaf (Gen.1:26) hyd Adda'r Ail (Rhuf. 5:14; 1 Cor. 15:4).

Wrth i'r Ysbryd Glân gwmpasu a chydlynu'r Hen Destament mewn modd eithriadol o blethog a chyfannol o gwmpas Jerwsalem a'r Meseia, y mae'n dysgu i ddigon o Bobl y Ffydd feddwl yn gyffelyb ac yn amrywiol.

Bydd y term 'Meseia' yn ein hatgoffa am y wedd broffwydol ar yr Efengyl. Caed Meseia o fewn cyd-destun meddyliol a'i cryfheid drwy Broffwydoliaethau'r Hen Destament. Fe'i canfyddid hefyd o fewn amgylchfyd Cysgodau. Dyma bethau dirfodol iawn nad oeddent yn cael eu sylweddoli ar y pryd, mewn llawnder, nes bod y Testament Newydd yn dechrau cyfeirio'n ôl yn gyson at yr Hen. Cafodd y proffwydoliaethau oll bwysigrwydd newydd wrth eu cyplysu â'r sylfeini newydd a brofwyd wedyn yn y Testament Newydd.

Un enghraifft drawiadol mewn Crefydd Gymharol o Ras Cyffredin yn proffwydo oedd yr hyn a geid gan un bardd cyn-Gristnogol, 'Meseia' gan Fyrsil. Ffuglen oedd hyn wrth gwrs. Ond gall fod yn weledigaeth seciwlar ddiddorol hefyd. Mewn nodyn gan D.R. Griffiths, soniai'r beirniad am 'ddylanwadau dwyreiniol ... efallai Iddewig; a theg felly yw cydnabod Meseianaeth y gerdd... Gellid dadlau eto na feddyliai Fyrsil am y plentyn yn amgen na'r hyn ydyw yn ei gerdd, sef baban di-enw a fydd, er hynny, yn corffori gobeithion byd...'

'Yn ei gân *The Messiah*, cyfunai Pope elfennau o'r gerdd hon â rhai o nodweddion *Eseia*, penodau XI a XXV. Yng Nghymru troswyd efelychiad Pope gan Ieuan Fardd.'

Ni ellir llai na dyfalu a oedd yr ymwybod hwn mewn crefydd gymharol yn wedd ar Ras Cyffredin a phresenoldeb mawr y gwirionedd yn dal i ymlwybro o fewn cyd-destun y Cwmp ac o fewn y *sensus divinitatis* yn ddrylliog. Mae angen i Gristnogion feddwl yn drefnus newydd sut y mae ymagweddu at gymysgedd amlffydd.

Sylwer hefyd fod Mwhamed yntau'n cydnabod Crist fel y Meseia. Ond profwyd agwedd Mwhamed at Grist yn bur ddyrys a ffynonellau'i dystiolaeth yn brin, yn garplog, ac wrth gwrs yn wallus. Credai yn y Geni Gwyrthiol yn ôl pob golwg, ac yn yr Esgyniad (ond nid yn y Croeshoeliad na'r Atgyfodiad). Credai mai Mab Duw oedd Iesu, ond ni ddatblygwyd arwyddocâd y fath sylweddoliad oherwydd ei ffynonellau blêr.

(Nid wyf yn cytuno â rhai o'm cyd-efengyleiddwyr y dylid anwybyddu Crefydd Gymharol. Fel y credaf fod angen deall y safbwyntiau seciwlaraidd heddiw, felly y mae'n bwysig edrych ar amrediad helaeth y crefyddau mwyaf hynafol yn ogystal â sectau cyfoes. Perthynant yn ffaeledig i'r Synnwyr o Dduw. Dysgant i Gristion finiogi'i ddiidoliad meddyliol.)

*

*

*

Arall oedd awdurdod yr Hen Destament a'r Iddewon bid siŵr, os syniwn am Iddewiaeth anghyflawnedig o fewn cyd-destun Crefydd Gymharol. Ac yr oedd tystiolaeth Iesu Grist tuag at ddibynolrwydd hwnnw yn wedd ar yr undod graslon yr ydym yn sôn amdano yn awr.

O safbwynt Undod y Beibl, ac o'r safbwynt Iddewig hefyd yn benodol, y mae thema'r Meseia yn ddolen gydiol hanfodol sylfaenol. Ynddo ef yr oedd y cynllun personol yn grwn. Disgwylid, o ddechrau Genesis a'r Cwmp, am Un a ddô'i'n Waredwr i adfer Israel wedi trychineb arswydus y Gwahanu. Dewisai'r Arglwydd beidio â defnyddio'r term Meseia amdano'i hun ar y dechrau. Rhoddai daw ar ddemoniaid a ddefnyddiai'r term (Luc 4:41; Marc 1:25,34; 3:12). Onid Meseia cwbl anghonfensiynol oedd? O bob Meseia, ef oedd yr un nas disgwylid ac nas deallid, y paradocs. Felly hefyd, pan gydnabyddai Pedr ef fel *Christos*, fe aildehonglai'r cysyniad troednodiadol ar unwaith (Math. 16:16 ac 21-23). Ni chyfeiriai ato'i hun fel 'eneiniog' namyn unwaith (Luc 4:18). Ynddo ef câi'r chwyldro ysbrydol ei gorffori mewn modd darostyngol. Ac i'r Iddew naturiol a balch, tramgwydd fu'r Ymgnawdoliad hwn. Term mewn Hanes oedd Meseia.

Ar y llaw arall, datganwyd gwir frenhiniaeth Crist yn y Cyhoeddiad cyntaf (*Annunciation*) Luc 1:32, a thrachefn yn ei ddysgeidiaeth am deyrnas Dduw yn y Damhegion, a chan yr eglwys gynnar (Act. 2:30). Hunan-enwol yw ef drachefn yn Luc 4:18 wrth gyfeirio a chymhwyso'r eneinio ysbrydol a gawsid yn Eiseia 61, ac wrth gyfeirio at ei weinidogaeth ddaearol. Felly Pedr drachefn ar ôl y Pentecost syfrdan; a bendithid Iesu mewn modd anghyffredin Act 4:27; 10:38.

Eto, eisoes yn ei fuchedd, yr oeddid yn ymwybod bod Crist yn cyflawni'r Hen Destament: yn fyw iawn ac yn fyrlymus: Math. 5:17-19; 19:4-5; 26:53-56; Marc 12:36; Luc 18:31-33; 22:37; 24:25-32,44-67; Ioan 10:35; Act. 4:25; 17:2 ac 11; 28:25; Rhuf. 1; 2; 9; 17; 15; 4; 16; 26; 1 Cor. 10:1-11; Gal. 3: 8, 22; 2 Tim. 4, 17; Heb. 3; 7; 4: 3-7; 10; 15-17; 12; 5-6; 1 Pedr 1:10-12; 2 Pedr 1:19-21; 3: 15-16.

Yn hyn oll, dolen gydiol oedd y Gobaith Meseianaidd; gwythïen ryfedd a redai drwy gorff

Israel. Byddai Israel yr Hen Destament, pan syniai am y dyfodol i'w llwyth, yn canolbwyntio weithiau ar *Berson* arwrol. Ef oedd cynrychiolydd y bobl a ddisgwylid. Nid at athrawiaeth yn benodol yr ymdroid. Weithiau, syllid tuag at Fab Dafydd (2 Sam. 7; Eseia 9:11; Salm 89:4,20,35). Dro arall at Was yr Arglwydd (Eseia 42:49; 53:7; Sech. 9:9; Math. 1:5). Ond yn baradocsaid annisgwyl y cysylltid yr Arglwydd Iesu â'r Meseia heddychlon – sef y Gwas o Frenin, yr Uchelisel. Dyma'r Duw rhyfedd a ddôl. Yr oedd y Meseia a'r Ysbryd a ddaeth wedi troi Israel Gwaed (y llwyth) yn Israel Ysbryd (pawb o'r credinwyr), a'r diriogaeth ddaearyddol hanesyddol o Balesteina yn Ddaear ddiffiniau hefyd. Ac roedd y Meseia o ddyn hwn hefyd yn Dduw (e.e. Mal. 3:1), ac eto'n wir ddyn (Ioan 1:14; Rhuf. 9:5). Ef hefyd oedd yr athroniaeth, 'trysor yr holl genhedloedd' (Hag.2:7). Ef a ddiffiniai'r Meseia i gyfnod newydd o anneall.

Troid y gobaith buddugoliaethus corfforol a llwythol hwn yn Groeshoeliad ac yn Wrthodiad, fel y rhagwelid yn burion yn yr Hen Destament (Es. 53); a gweithredid yn ôl cynllun Iachawdwriaeth yng ngwrthodiad y Mab (Act. 22:2-21; Marc 8:31; Luc 18:31; Act. 3: 18;4: 28; 13:29).

Eto, roedd Iesu Grist yn cyflawni'r addewidion Meseianaidd i gyd: Marc 8:29; 16:61-62; Ioan 1:41; 20:31; Act. 9:22; 17:2-3. Yn y Testament Newydd bu'n cyflawni'r addewidion Meseianaidd yn ôl amrywiaeth o deitlau – mab Dafydd, Mab y Dyn, Gwas yr Arglwydd, Oen Duw, Immanuel. Gorsafoedd amrywiol oeddent oll ar hyd taith tuag at Nod chwyldroadol a eglurwyd yng Nghrist ar y Groes.

Fel arfer, mae a wnelo proffwydoliaethau Meseianaidd â'r *eschaton* (digwyddiad olaf). Ond tybid mai Crist ei hun fyddai diwedd Hanes yn ôl awdurdod dwyfol. Roedd Meseia felly yn un o nifer o ddolennau symbolaidd a oedd yn rhedeg drwy'r Beibl, drwy'r Hen Destament a'r Newydd, gan asio'r cwbl ac adeiladu undod hanesyddol creiddiol. Cafwyd efengyl gron.

Digwyddodd yr Ymgawdoliad ei hun mewn gwirionedd yn unswydd er mwyn y Croeshoeliad. Dyna oedd uchafbwynt Hanes y Byd. Dyma'r Aberth i orffen yr holl aberthau. Ond pam clymu'r gwaith hwn wrth y Meseia? Sut y gallai neb yno ddisgwyl y fath beth heb synhwyrâu uwch-naturiol? Yn y berthynas rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd yn unig roedd y llwybr a ganiatâi ymbalfalu tuag at y fath sylweddoliad â hwn. Canfyddid natur y Person, a'r Meseia, drwy asio'r holl genadwri yn y Testament Newydd, yn dramgwydd, wrth yr Hen. Nid esbonio neu drafod hyn yn athrawiaethol yn unig a wneid felly. Sianelid yr elfen ddisgwyl yn ddiriaethol drwy'r bobl a'r digwyddiadau yn y Testament Newydd oherwydd hanes a digwyddiadau a fuasai eisoes heb ddod, ond ar ddod, yn yr Hen Destament Newydd. A hynny mewn tair ffordd: unai'r Meseia gyfnodau hanes mewn lle; unai amser a thragwyddoldeb; ac unai'r gymuned mewn person. A thrwy'r cwbl hwn yr oedd Israel yn disgwyl arwyddion.

Gwelsom fel y defnyddid 'Eneiniog' a 'Christ' i ddynodi'r Meseia a ddisgwylid: Daniel 9:25, 26, '*Deall hyn ac ystyria: bydd saith wythnos o'r amser y daeth gorchymyn i ailadeiladu Jerwsalem hyd ddyfodiad tywysog eneiniog ... Ac ar ôl y ddwy wythnos a thrigain fe leddir yr un eneiniog heb neb o'i du, a difethir y ddinas a'r cysegr gan filwyr tywysog sydd i ddod.* Clywsid am ei ddyfodiad yn y dyfodol gan Eseia 9:6-7; Eseia 7:14; Eseia 11:1,2; Micha 5:2; Malachi 3:1-7; Deut. 18:15-19; Salm 22. Ond tra oedd yr Iddewon yn disgwyl Meseia o filwr, cenedlaethol ei fryd, i'w hachub oddi wrth elynion, yr oedd y Cristnogion drwy Grist yn canfod eisoes yn yr Hen Destament, yn ogystal ag yn y Testament Newydd, ddelwedd sylfaenol baradocsaid. Yn Eseia 53 fe'i cyflwynid fel Gwas Dioddefus. Dyma fyddai Iesu yn ei ddioddefaint ac yn ei ogoniant, fel y'i gwelwyd wedyn yn Act. 8: 26-40. cf. Sech. 11:1-17; ac wedyn yn 1 Pedr 2:22-25; Rhuf. 4:25. Yn y Testament Newydd, disgrifid gobeithion yr oes newydd mewn cerddi yn Luc 1:46-55, 67-79; 2:29-32, er gwaetha'r siomedigaethau yn Luc 24:21, a glywid eisoes yn Jer. 8:20.

Yn natblygiad y sylweddoliad hwn o Feseia, fe ganfyddir y cyswllt â'r chwyldro syniadol drwy ddeall yr Iddewon a'r Cristnogion gyda'i gilydd, mewn Un.

Cawn ddigon o reswm ymhellach ymlaen, wrth drafod cymhelliad Awdur y Beibl, i'w gyferbynnu â chymhellion Ôl-foderniaeth yn llenyddiaeth y cyfnod diweddar. Mae'r relativrwydd, yr amhenderfyniadaeth, y nihilistiaeth, a'r chwalfa ystyr a phwrpas, ac yn y blaen, yn datguddio ac yn creu negyddiaeth sy'n amhosibl i Absoliwt y Beibl fel y mae'i absenoldeb ef yn amhosibl. Ond y mae angen crybwyll un mater sy'n dra pharadocsaid. Fe'i ceir mewn un fethodoleg a ddisgrifir gan Derrida. Sef ei ddiffiniad ef o Ddadadeiladu (*Deconstruction*). Yr hyn a feddylir – o un cyfeiriad – am Ddadadeiladu, yn ôl esboniad Derrida, yw goleuo pwynt mewn cyfansoddiad a oedd yno drwy'r amser, ond nas canfuwyd tan hynny. Felly yr oedd proffwydi a rhai o bobl Israel yn gwybod am y Meseia, yn ymdeimlo am ei reidrwydd, yn disgwyl amdano cyn ei ddod, ac yn ei rithio a'i fynegi drwy **Ddadnatorioli (sef canfod drwy ddimensiwn ystwyth goruwchnatorioli)**. Felly y gellid mynd at yr Hen Destament, heb ddisgwyl ar y pryd fod yr awduron yn sylweddoli beth yr oeddent yn ei wneud. Ond yr oeddent yn ei wneud. Ac yr oedd y Testament Newydd fel beirniad dadadeiladol yn ei 'ddatod' a'i 'ddadlennu', ac yn dangos yr hyn a oedd yno drwy'r amser.

Yr hyn sy'n goeg yw bod Dadeiladu yn fethodoleg neu'n theori sy'n cael ei gyflwyno gan Ôl-fodernydd o fri, o bawb. Ac fe darddai yn eironig o'r union athrawiaeth neu weithred o wahuno, sy'n arwain at undod cyflawn a dwfn yr oedd yr Ôl-fodernwyr yn ei wrthwynebu. Mewn gwirionedd, wrth 'ddadnatorioli' cyfeirir at fwy na chydabod y goruwchnatorioli. Yr hyn sy'n digwydd yn ymarferol yw derbyn a chredu'n 'llythrennol' o ran ysbryd heb wadu realiti delweddu. Sylwer mai Iesu Grist yw'r Awdur i'r 'Broffwydoliaeth' yn *Datguddiad*, nid Ioan na'r Ysbryd Glân. Try'r cwbl o gwmpas cyfresi o ddelweddau: symbolau megis y Briodferch (21:9); Y Deml a Dinas Duw (3: 11-

12); a Dŵr (21:1, heb fôr, sef Absenoldeb; a 22:1, Presenoldeb, afon oddi tan orsedd Duw a'r Oen.)

DEDDF

Llennull pwysig iawn, mor bwysig bob dim â Hanes yw'r Ddeddf, er nas bwriadwyd i fod yn llenwaith. Cyflawnodd Iesu'r Hanes, a chyflawnodd y Ddeddf. Yr oedd y Piwritaniaid a'r Efengyleiddwyr Cymraeg yn amharod iawn i wahanu'r Ddeddf a'r Efengyl. Nid oeddent chwaith yn barod i oramlygu gwedd negyddol y Ddeddf. Fel gwyddonwyr, mawrygent brydferthwch Deddfau. Diolchent am eu Gras. Yr hyn a feirniadent yn negyddol, fel y gwnâi Iesu, oedd deddfoldeb. Yr addewid oedd gan Ffydd, a'r Cyflawni oedd y Ffrwythau (neu'r deddfoldeb). Ac yr oedd hyn, i raddau, yn debyg i'r berthynas rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd, gan mai yn yr Hen Destament y sefydlwyd fframwaith y Ddeddf a'r Addewid, ac yn y Testament Newydd ddi'r un a ufuddhâi i'r Ddeddf yn llawn. Dyna lwybr pwysig i'w ddilyn gan bob Cristion.

Mor barod ym i gamddeall adnodau trugarog megis Eseia 54:7-8:

*"Am ennyd fechan y'th adewir,
ond fe'th ddygaf yn ôl â thosturi mawr.
Am ychydig, mewn dicter moment,
cuddiais fy wyneb rhagot;
ond â chariad di-baid y tosturiaf
wrthyt,' medd yr ARGLWYDD dy waredydd."*

Wrth gymharu rhan â rhan, gwelwn mai troad sydd yma, defnyddio sefyllfa ddynol i gyfleu sefyllfa ddwyfol. Yn yr achos hwn, diffygia iaith a ddatblygwyd o fewn cynefin daearol; ac er mwyn anghenion gofod-ac-amser, y bathwyd y troad hwn. Wrth ddisgrifio Duw, y mae iaith dyn bob amser yn annigonol. Drych oedd y Ddeddf felly o wedd ar Ei gymeriad Ef. Ac yn yr Hen Destament, ceid tosturi Duw megis y'i ceir yn y Testament Newydd.

Mor fynych y condemnir yn yr Hen Destament ddarnau ymddangosiadol negyddol drwy anwybyddu y cwlwm yr arweinir ato: fel pe bai Duw Barn ymhobman – heb sylweddoli cymaint y canolid ar yr ymryddhau o'r Aifft, dyweder: Barnwyr 6: 8; Josua 24:6-15; Salm 73:2,7,10,23.

Maes rhyfedd o brydferth yw'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd. Doniwyd y Greadigaeth â deddfau naturiol yn ddi-wahân. Felly'r deddfau moesol yn yr anghredadun. Anodd gennyf feddwl y gall ymwybod o Dduw fodoli heb ymwybod hefyd o'i Ddeddf Ef, hynny yw, o Gyfiawnder a Glendid Duw, gyda rhai arweddau eraill ar Ei gymeriad. Anodd gennyf feddwl y gall ymwybod o fodolaeth a chymeriad Duw fod heb i'r ymwybod hwn effeithio ar ein hagwedd tuag at gyd-ddyn. Mor felys yw myfyrio ar gywreinder y Drefn.

Mae'r Ddeddf naturiol (fel Disgyrchiant, holl ffurfiant yr atom a'r gell, perthynas y

galaethau, a Mathemateg) yn perthyn yn dreiddgar i'r Ddeddf Foesol, ac yn rhoddedig. Hyn sy'n treiddio drwy bob ffurf ieithyddol a llenyddol a ddefnyddiwn. Ymwneud y mae â dweud y gwir. Ac y mae'r gwir yn golygu cysondeb. Da yw cyfanrwydd Deddf Duw.

Dyma ysywaeth borfa helaeth hefyd wrth gwrs i foesolwyr a deddfgarwyr eu dyrchafu eu hun, a defnyddio'r Ddeddf yn erbyn cyfiawnder Ffydd yr Ysgrythur. Diogelir ganddynt le yn y canol i'r 'fi' yn hytrach nag ymagor i'r Gras Arbennig. Felly, ym mhob dim wrth efrydu'r Ysgrythur, gwiw yw agor clustiau i sibrydiad tyner yr Ysbryd Glân sy'n uno yn Nuw, yn greadigol ac yn waredigol. Gwiw yw mawrygu a diolch am ogoniannau Gras trugarog Cyffredinol yr Arglwydd; ond yng nghydbwysedd prydfarth yr Ysgrythurau, ein braint yw chwilio ei gyfanrwydd diledryw.

* * *

Fe gafwyd proses o sancteiddio'r Deddfau, hyd yn oed yn hanesyddol. Hyn, mewn gwirionedd, a ddiffinai natur Deddfau yn eu hollbresenoldeb, a rheidrydd Maddeuant.

Awn yn ôl â'n meddyliau i amser pryd yr oedd Duw yn datguddio'r Deg Gorchymyn. Lledaenu'r cyfansoddiad hwnnw mewn manylion achlysurol sy'n dilyn hynny, y print mân ar gyfer achlysuron. Ceir elfen o awdurdod newydd felly yn y geiriau canlynol a lefarodd Duw wrth Israel. Cyfeirio yr oedd at y *torah* (llyfr a llafar) sef y Pumllyfr, (nid rhaid oedd cael memrwn i lyfr yn gyfrwng cyhoeddi): (Deut. 6:6-9): *'Y mae'r geiriau hyn yr wyf yn eu gorchymyn iti heddiw i fod yn dy galon. Yr wyt i'w hadrodd i'th blant, ac i sôn amdanynt pan fyddi'n eistedd yn dy dŷ ac yn cerdded ar y ffordd, a phan fyddi'n mynd i gysgu ac yn codi. Yr wyt i'w rhwymo yn arwydd ar dy law, a byddant yn rhactalau rhwng dy lygaid. Ysgrifenna hwy ar byst dy dŷ ac ar dy byrth.'*

Yn y craidd ceir sancteiddrwydd Duw yn y ddeddf, i bob pwrpas, megis y'i ceid yn yr adnod glasurol am ysbrydoliaeth y Beibl yn y Testament Newydd uchod, (2 Tim. 3:16).

Sylwer mai'r hyn a anadlai'r Ysbryd yn benodol, yn y ddau le hyn, yw'r deddfau. Derbynnir yn gyffredinol mai'r Ysbryd Glân yw'r sawl sy'n 'anadlu' trefn, megis yn y Creu. Yn ail, anadlai'r Ysgrythur i awduron unigol bob un yn ei dro yn awdurdodol. Ac felly, dyma gydweithrediad cychwynnol rhwng dwy wedd yr Ysgrythur a'r Ddeddf. Proses yw lle y ceir ar y naill law Awdur anfeidrol anghreedig ac ar y llall awduron unigol creedig. Mae'r naill yn anweledig, a'r llall yn weledig. Ond un Awdur trefnol bydol sydd. Cynnyrch deddfau oedd ac yw Hanes.

Dyma gyffelybiaeth ryfedd: Deddf ac Ysgrythur. I'r sawl sy'n gyfarwydd, mewn modd catholig, â'r astudiaethau diweddar o Iaith, ac sy'n gyfarwydd felly â'r darganfyddiad o ddeuoliaeth drefnus – Tafod a Mynegiant, 'Tafod' yw'r term sy'n disgrifio'r drefn botensial yn y meddwl cyfeiriol, a 'Mynegiant' ohono'n sôn am y defnydd unigol diriaethol ac achlysurol ar y pryd. Mae natur y ddau gyflwr hyn yn gwbl wahanol a chyferbyniol. Y naill yn tueddu i fod yn fewnol, a'r llall yn allanol. Tafod fu'r un dirgel ac anamlwg. Fe geisiais ei ddisgrifio mewn sawl lle, yn *Tafod y*

Llenor, 1974, yn Seiliau Beirniadaeth I-IV, 1984-1988 ac yn Beirniadaeth Gyfansawdd, 2003, fel hyn: 'Dyma'r potensial, yr achos, ac y mae'n cynnwys nifer o undodau neu o gyfundrefnau. Mae pob un ohonynt wedi'u llunio o gyferbyniad deuol neu driol neu o gydadeiladwaith o ddeuoedd neu druoedd, yn ôl ei egwyddor briod ei hun... Mae gennym, felly, ddau gyflwr bras ar iaith, y naill yn hollol wahanol o ran natur i'r llall, a'r naill yn rhagflaenu'r llall;... deddfau parod sydd yn debyg i ddisgyrchiant, o'r golwg ond yn gyflyrol.'

Mewn iaith, dechreuir yn y meddwl. Yno, o'r golwg, ceir gramadeg, syniadau, a'r potensial i wneud seiniau trefnus: felly mewn llenyddiaeth, yn y golwg gyda Mynegiant.

Un o swyddogaethau'r Ysbryd Glân, nid annhebyg, yw anadlu, arwain, cyflyru a gwarchod ysgrifenydd yr Ysgrythur drwy'i Dafod tân. A dadlau'r wyf fod yr hyn a geir yn Nhafod y siaradwr, a Thafod y llenor, ym myd iaith, yn gyffredinol anweledig, yn eithriadol o debyg i'r drefn a geir yng ngwaith yr Ysbryd Glân mewn sefyllfa arall. Mae hi fel pe bai'r cynllun goruwchnaturiol yn gysgod rhagflaenol i drefn strwythurol naturiol. O leiaf, mae yna reidrwydd i un o flaen y llall.

Ond y mae'r testun ar waith ymhellach nag ym meddwl y Cristion. Arddeliad yw'r Ddeddf yn y galon. Nid yw'r broses yn gorffen gyda'r darlennydd wrth ffurfio'r geiriau ar bapur. Corfforir hefyd weithiau Ymateb cyflawn y Darlennydd. Mae'r Ysbryd yn cymhwyso iaith yn yr awdur daearol i feddwl ac i argyhoeddi'r gydwbybod yn y Darlennydd. Drwy'r darllen a'r derbyn, mae'n cyfannu'r broses arbennig hon yn llawn. Yn wir, disgrifir enghraifft drawiadol o barhad y broses adeg y Pentecost: (Act. 2: 3) *'Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt.'* Dyma ddsbarthiad trefnol hefyd yn disgyn yn yr angerddol.

Dyma'r pwnc Tafodol yn eu huno oll drwy'r Ysbryd yn Fynegiant. Trefn Duw.

* * *

Drachefn, yn ddiweddar, ym myd Beirniadaeth Lenyddol, yn arbennig wrth ganfod ffasiynau anghyson a gwrth-werthfawrogol Ôl-foderniaeth yn cilio, fe godwyd sylweddoliad a pharch newydd ymhlith beirniaid a fu gynt yn nihilistaidd at Estheteg a harddwch cadarnhaol. Dechreuwyd ailystyried gwerthoedd llenyddol, adeiladwaith ieithyddol cywrain llenyddiaeth, a'r cymhellion aruchel a'u gyrrai o'r newydd. Felly, o fewn cyd-destun yr ymadfer diweddar, hyd yn oed o safbwynt Beirniadaeth Ysgrythurol berthnasol gyffredin, y mae archwilio honiadau'r Beibl ynghylch ei ysbrydoliaeth a'i awdurdod yn fater hefyd sy'n dod yn ôl i ganol y llwyfan, gan roi patrwm anfeidrol brydferth i'r Deunydd. Mae'r daliadau oesol wedi adennill eu lle.

Nid ceisio sôn am y Beibl fel 'llynyddiaeth' yn yr hen ddull yn unig yr ydys, felly. Nis bwriadwyd yn unig i fod yn 'bleserus' fel 'llynyddiaeth'. Ni raid oedd disgwyl ei drin fel 'llyfrau eraill'. **Yr oedd yn dod o le gwahanol, ac yn mynd i le gwahanol. Ond ar y daith fe gynhyrchwyd campwaith llenyddol dihafal sy'n hawlio'i ystyried yn unigryw ryngwladol.**

'Na' yw un o eiriau mawr y Ddeddf, hyd yn oed o'r Dengair Deddf. Ac yn y fan yna y mae Diwinyddiaeth yn arweinydd hanfodol nid yn unig i Foesege, eithr hefyd i'w chwiorydd naturiol Seicoleg a Chymdeithaseg. Yn wir, oherwydd i'r ddwy ddiwethaf brofi Rhamantiaeth yn bur egr, y mae'n bryd iddynt ill dwy brofi dôs newydd o 'Na.' Dan ormes cywirdeb gwleidyddol rhamantaidd, dywedir yn gyffredin bellach, 'Ni ddylid dweud "Na" wrth blentyn.' Gŵyr pob ieithydd fod hynny'n amhosibl. Mae'n rhwystr anferth rhag dysgu deall. Rhan gynhenid yw'r negydd o iaith a meddwl. Mae peidio â dysgu hyn yn warth mewn ysgol. Mae'n mynd gyda babieidd-dra 'Ni ddylid byth gosbi plentyn.' Nid yw hynny'n dysgu dim i blentyn. Ac nid yw'n gweithio. Rhyw fath o ddisgynydd trist i Relatifrwydd yw hyn, ac y mae'n rhywbeth a helaethodd dipyn ym myd Cyfraith Gwlad ysywaeth, oherwydd cost cynnal cyfraith a threfn i wleidyddion. Esgus ariannol oedd i fod yn rhyddfrydig ynghanol trais.

Yn y Deg Gorchymyn, sut bynnag, ceir rhaid y Cadarnhaol a'r Negyddol fel ei gilydd, gyda'r Cadarnhaol sylfaenol yn arwain, ac yn ei fynegi'i hun drwy gydbwyso â'r Negyddol ymarferol. Da yw dysgu ffiniau i blentyn a sut na ellir dysgu iaith heb wahuno, heb ddioli a chyferbynnu deuoliaeth. Mae cytsain yn negyddu llafariad y sain gan adeiladu gair byw. Dyna'r peth cyntaf a wnaeth Duw – gwahanu Dydd a Nos, Môr a Thir. Ac yn wir, sylfaen perthynas dyn a Duw oedd gosod gwaharddiad athrawiaethol o ufudd-dod drwy negyddu. Mae gomedd ac atal i blentyn o ddyn wybod 'Na' yn ffieidd-dra i brydferthwch bywyd.

*

*

*

Ymhellach ymlaen, gobeithir trafod rhai o'r 'swyddogaethau' gwahanol sydd fel petaent yn cael eu cysylltu â'r Ysbryd Glân. Un yn benodol sydd o dan sylw yn awr oherwydd ei bod yn hanfodol wrth ystyried Undod y Beibl. Un o weithgareddau pwysicaf yr Ysbryd Glân oedd llunio'r Ysgrythur (o fewn amser), – swyddogaeth a oedd y tu hwnt i'r un o'r awduron dynol unigol. Efô oedd yn cydlynu'r cwbl. Swyddogaeth arall wedyn oedd dilyn darlleniad hwnnw i mewn i'r galon ac i mewn i *sensus divinitatis* y darlennydd. Parai hyn fod yr Ysgrythur yn gallu dod yn fyw fel uned mewn profiad. Drwy gyfanrwydd yr ysgrythur y deallir pob deddf.

Dehonglydd yr Hen Destament oedd y Testament Newydd, yn ôl egwyddor Awstin (*in Vetere Novum latent et in Novo Vetus patent*). Hynny yw, mae'r Testament Newydd ynghudd yn yr Hen; a'r Hen yn cael ei wneud yn gyraeddadwy gan y Newydd. Mae'n wir, wrth gwrs, fod awduron unigol yn y Testament Newydd yn gwneud yr union waith o fwrw goleuni ar yr Hen. Hynny yw, yr oedd y Newydd yn taflu goleuni tuag yn ôl, fel yr oedd yr Hen wedi ei fwrw ymlaen.

Paul oedd prif lenor y Testament Newydd. Ond un ymhlith amryw oedd: nid Paul a gafodd ysgrifennu'r Datguddiad. Ac ni chafodd chwaith sylweddoli arwyddocâd pob manylyn yn yr Hen, na phob cydlyniad a chysylltiad rhwng yr Hen a'r Newydd mewn gwir datblygol, na chwaith y

cydbwysedd yr oedd yn rhaid ei gael rhwng pwyslais Iago a phwyslais Caniad Solomon. Meidrol yn eu cylch gwaith oedd awduron fel Paul (ond rhan o'r Anffaeledig yn eu hawduraeth). Yr Ysbryd Glân oedd biau'r cwbl amrywiol yn anfeidrol. Yr Ysbryd Glân a gydlynai ac a arhosai tan y gair olaf pryd y croesid pob t. Dyna'r uwch-ddynol y soniwn amdano yn y gyfrol hon.

Dyma'r hyn a draddodwyd o genhedlaeth i genhedlaeth, ac ymlaen o'r Awdur i'r awduron. Deinaimig yw traddodiad. Nerth yw, ond bywyd hefyd ar dro. Troir o'r ddeddf-ganolog (gyda gras) i'r gras-ganolog (gyda deddf), megis gyda deddf godineb, megis gydag amddiffyn yr efengyl â chleddyf, megis gyda llygad am lygad. Mae undod yr Ysgrythurau yn un o'r priodoleddau mwyaf rhyfedd sy'n eu diogelu – a mwyaf anesmwythol. Mae yn ail-ddehongli, a helaethu.

Soniwn yn hyderus am undod ystyrion yr Hen yn y Newydd. Ac iawn y'i gwneir, o gam i gam. Ond y mae'n dra phwysig sôn hefyd am undod sy'n dod yn eglurach, yn ddyfnach, ac yn llawnach erbyn y diwedd. Undod ysbrydol yw'r Beibl yn y rhannau a ddatgelir o ddealltwriaeth i ddealltwriaeth gan feithrin deall dyn. Ac fe all ymddangos yn undod rhyfedd rhwng y ddwy ran gyferbyniol ddeinaimig i'r Arglwydd Iesu Grist rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd, oherwydd i'r egwyddor ganolog o gyfiawnder esgor ar ddealltwriaeth fanylach o drugaredd a chyfiawnder. Heb aberthu moes, dadlennir cyfoeth moes. Mae'r Meseia'i hun fel person yn dod yn newydd ei ddadleniad pellach wrth i'r Beibl symud rhagddo. Mae Israel ei hun yn tyfu. Nis gwna er mwyn llacio, fel rhyddfrydwr diweddar sydd am i'r Sefydliad droi'r dwyfol gwahân yn ddynol gwahân, a'r mewdol yn allanol, dan esgus 'datblygu'. Fel arfer, yn y Bregeth ar y Mynydd, y mae'r diffiniad o drosedd megis lladd, neu ladrata, yn ddwysach ac yn llymach o derfynol. Ymddengys fod y ddelwedd o Uffern hefyd yn y Testament Newydd yn fwy ofnadwy na Hades yn yr Hen Destament. Felly y mae'r difrifoldeb gwrthun a rybuddir ynghylch cam-drin plant. Mae 'radicaliaeth' Iesu ynghylch sancteiddio'r Saboth yn datblygu ond yn cyflenwi'i ystyr. Nid gwrthddweud a wna. Yr hyn sy'n digwydd yw bod Arglwydd y Saboth yn egluro fwyfwy galon yr athrawiaeth am y Saboth. Nid ymddiried mewn allanolion a wna. Nid oes petruster ynghylch 'newid' neu ddyfnhau, lle y bo'r cydlyniad yn cael ei aeddfedu. O safbwynt y Sefydliad, chwyldro Crist oedd cydio yng ngwreiddyn y Ddeddf a'i gogoneddu.

Nid yw'r cyfreithiau'n aros yn yr unfan, ond mae yna barhad a dadlennu cynyddol traws gydweithredol, heb beidio â bod yn undod. Ymddiriedwyd trysor i'r Eglwys i'w fuddsoddi yn y ffydd (*depositum fidei*), ac yr oedd yr Ysbryd Glân yn gwarantu'r Gwirionedd terfynol. Datguddiad yw'r Beibl, felly, o ddirgelwch mawr. Rhodd yw a gyflwynir heb ddisgwyl inni ei ddeall yn llawn byth ar y ddaear hon. Diderfyn ddirgel yw ei hanfod. Ac wrth 'ddirgelwch', yr wyf yn meddwl yn yr achos hwn mai diderfyn yw ei hanfod dwyfol. Gellid dweud 'problem' hefyd wrth gwrs am yr hyn y cais Rheswm seciwlar ei ddatrys; a rhydd y Beibl gryn barch i Reswm naturiol. Ond y mae

dirgelwch Duw yn fwy na 'phroblem': y mae'n gymorth ac yn ddatguddiad. Ac y mae'r gwendid a'r annigonolrwydd yng ngallu dyn yn methu'n lân heb yr Ysbryd Glân â'i datrws. Yn wir, nid yw'r Ysbryd Glân yn ceisio yma ddatrys y cyfan inni: dim ond yr hyn sy'n ddigonol i fynd rhagom, ac o fewn cyraeddiadau inni ymostwng iddo.

Cydnebydd haneswyr bellach nad oes y fath beth â ffeithiau hanesyddol 'pur' a sefydlog. Hitler popeth yn ddi-dolus drwy feddwl yr hidlydd – boed yn awdur neu'n ddarllynydd. Sylwer ar ffaith 'oer' megis yr Exodus o'r Aifft, sy'n tyfu gyda datguddiad pellach. I'r Hen Destament a'r Testament Newydd dehonglir hynny fel gwaredigaeth ddwyfol. Ac y mae'r datguddiad hwnnw yn 'llunio' pobl rywfaint, yn adeiladu'u meddwl, yn mowldio'u mawl yn gysgod. Ni welid gan y byd ar y pryd ddim ond cenedl ar grwydr. Felly gyda'r ffeithiau am Grist; ac nid ydym yn seciwlar sicr am odid ddim oll ynghylch Crist ond yn y geiriau a ddaeth inni drwy gyfrwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Ond o'r tu mewn i Israel, profiad cynddelwaidd mewn hanes i'r Arglwydd Iesu oedd yr Exodus. A gallwn ninnau, y dyddiau hyn, synnu at ddibynolrwydd testunwaith rhyfeddol yr Hen Destament yn y Testament Newydd oherwydd hynny.

Gall pob awdur, felly, gyfleu rhyw fath o wirionedd am ei feddwl a'i deimlad, tuag at y gronfa lawn. Ond fel bod meidrol, cyfyngedig yw pob awdur dynol Beiblaidd ynddo'i hun. A'r hyn a brawf mewn gwirionedd yw buddugoliaeth mynd ymhellach na meidroldeb. Pobl dan awdurdod ac arweiniad ydynt yn cael eu cario i ryddid gogoniant gan Ymwelydd Glân.

Llythyr

Y mae bodolaeth y llenddull hwn ei hun yn y Dwyrain Canol yn dynodi trobwynt penodol yn naearyddiaeth a thema'r Beibl. Gwelwyd eisoes nad oedd modd tynnu ffin rhwng y llenwaith bwriadus lenyddol, a'r llenddull ymarferol er ei waethaf, er bod y llythyr yn nes at y llenddull beirniadol-geidwadol na'r weddi dyweder neu'r emyn. Mae'n dynodi'r newid o Israel y llwyth i Israel y ddaear oll. Gwasgarwyd Israel ledled byd Môr y Canoldir. Newidiwyd siâp y gynulleidfa drwy hynny, a datganolwyd yr Eglwys i fod yn ganolfannau cenhadol. Chwyldro yw llenddull y Llythyr yn nhwf y Beibl. Gorsaf yn yr hynt o gyrraedd pobl. Sefydliad i'r ymledu yw'r Llythyr.

Gweithredoedd Paul, ac yn arbennig ei ysgrifeniadau, sy'n dynodi orau'r groesffordd honno rhwng yr Israel ddaearyddol a'r Israel ysbrydol, fyd-eang. Roedd yn rhaid ymledu'n gyfathrebol mwyach. Gorffennodd y paratodau cyfyngedig ymarferol mewn un genedl. Newidiwyd ystyr 'cenedl' ei hun, yn grefyddol. Newidiodd ystyr yr Eglwys a'r Deml. Teml oedd yr holl ddaear. Ac aethpwyd yn fwy nag erioed i mewn i fyd addysgedig Groegaidd, byd o fyfyrdod a sialens ddeallol. Wele, felly, y llythyr. Maent yn ymddangos ar bwynt yn hanes Cristnogaeth ac yn rhan o'r datblygiad i ddweud rhywbeth am gynllun Duw yn ddaearol ac yn feddyliol. Hynny yw, mae'r

llenddull ei hun, y ffurf o ysgrifennu, yn adlewyrchu ystyr y ffordd a ddewisodd yr Ysbryd Glân i adeiladu'i bobl mwyach, yn fwy soffistigedig mewn cyd-destun llawer mwy modern.

Datganiad yw'r ffurf lenyddol hon o 'genadwri'. Pregethau *in absentia*, fwy neu lai, oedd cynnwys y llythyrau, gydag ambell gyffyrddiad personol a dynol. Ond yr oedd eu dadleuon yn awr yn wynebu amgylchfyd athronyddol a symudai Gristnogaeth i wynebu problemau a dyfodd allan o athroniaeth ddatblygedig gwareiddiad a roddai lawer mwy o le nag a roesai'r Israel fwy seremonïol i reswm. Wynebent yr hyn a ddyfeisiwyd mewn amser. Darlledent ystyr marwolaeth ac atgyfodiad yr Iesu ôl-farwolaeth, mewn modd llawnach bellach na'r proffwydoliaethau cyn-farwolaeth. Yr oedd hyn yn faich o gyfrifoldeb, fel y dengys llythyrau Paul, Iago, Ioan a'r Hebreaid. Cynhwysai Athrawiaethau Gras ar eu ffurf lawnaf ynghyd â'r disgrifiadau llawnaf o Berson Crist. Dyma hefyd y person *dynol* ei hunan yn tyfu mewn ystyriaeth, mewn amgylchfyd a baratowyd gan dystion ers canrifoedd ar gyfer y llam a geid gan efengyl yr Iesu. Ond yn fwy na hynny: yn y fan yna y ceir yr ymgais orau i egluro paradocsau mawr ffydd a chymeriad y 'Crist ailanedig'. Mewn Cyffes bersonol a phreifat i raddau, ceir tuedd newydd i siarad rhwng person a pherson mewn byd newydd ei leoliad mentrus. Datblygwyd heb newid mymryn o'r craidd.

Nid yw'n syndod, wrth gwrs, fod y Llythyr yn dod yn Llenddull hynod o amlwg a swmpus ar adeg o dwf llydan sydyn. Mewn erthygl gan D. Ceri Jones rhoddir gwybodaeth am dwf y Llenddull hwn yn ystod Adfywiad y ddeunawfed ganrif ('Calvinistic Methodism and English Evangelicalism', yn *The Emergence of Evangelicalism*, gol. Michael A.G. Haykin a Kenneth J. Stewart, 2008, 117), 'Letters were written between evangelicals in many regions of the revival; particularly edifying examples were circulated among local communities of saints, and by the early 1740s, special 'Letter days' were being held regularly at Whitefield's Tabernacle in London at which the latest revival news was relayed to enthusiastic congregations.' 118: 'By recanting their experiences in a letter to one of the pioneer evangelists, or a prominent lay reader at least, converts could seek verification of their experiences from those who were experts in matters of the soul.'

Nid yw hyn namyn adlais o Eglwys Gynnar Paul.

Yr oedd hefyd yn gyfnod o gyffro wrth i ddiwylliant un cyfnod gyfarfod â diwylliant cyfnod arall: felly yn achos y ddeunawfed ganrif, pan gyfarfu'r Ymoleuo (Seciular) â'r Oleuedigaeth (Gristnogol). Gwnaeth David Bebbington gryn gymwynas drwy gydol ei waith wrth gyfeirio at gydweithrediad ac at wrthdrawiad y naill a'r llall. O safbwynt cadarnhaol, nid oedd y cyfarfyddiad rhwng Hen Israel ac Israel Paul yn Athen ddim yn gwbl annhebyg i'r ddau gyfarfyddiad deallol yn y ddeunawfed ganrif. Cyfarfu'r pen â'r galon. Pan ddaeth John Locke â'i feddwl praff â'r oleuedigaeth, ni ddymunai gydnabod 'gwybodaeth ben' Gristnogol heb 'wybodaeth galon'. Cawn y cyferbyniad clir rhwng yr Oleuedigaeth yng ngwaith Jonathan Edwards (1763-58) ar y naill law, gyda'r Ymoleuo

Seciwlar yn Voltaire (1694) a David Hume (1711-76) ar y llall. Roedd y cyferbyniad yn drawiadol. Ond yr oedd y cofiannydd Gillies (1712-96) yn sôn am dröedigaeth Whitefield fel 'being now happily enlightened.' A hyn oedd 'Golwg' Pantycelyn.

Dadleuon

Dadleuon oedd llawer o waith Paul yn yr Actau a llawer o gynnwys ei Epistolau i'r Eglwysi ac i unigolion. Dadleuon oeddent am rai o brif fannau'r Ffydd: Person Crist ac Arwyddocâd ei farwolaeth. Defnyddiodd yr Ysbryd Glân y ffordd hon i hogi y meddyliau Cristnogol cynnar iddynt ddygymod â byd syrthiedig a oedd ar y pryd, ac sydd bob amser, yn pendroni ynghylch problemau personol a deallol. Hynny yw, nid yw'r Ysbryd Glân yn gadael Cristnogion sy'n ymgymryd â llenddull y 'ddadl' yn amddifad. Dilyna ffurf hynafol yr Ymryson.

Mae'r Ysbryd Glân wedi trefnu i Paul fynd i Rufain. Ond y mae wedi clywed ymlaen llaw fod yna gyfeiliorni deublyg eisoes wedi cydio yn yr eglwys yn Rhufain. Fel sy'n digwydd yn fynych, y mae yna lithro moesol difrifol yn digwydd wedi cyfnod o lewyrch, ac ynghyd â hynny ceir llithro dysgeidiaeth tuag at fod yn ddeddfol ochr yn ochr â gorbwysleisio canologrwydd cydymffurfio â defodau. Ceir camddealltwriaeth. Yr hyn sy'n uno'r cyd-syrthio hwn yw *dyn-ganolrwydd*. Yn ei bryder, enfyn Paul lith o lythyr, a thry'n fath o ddadl rhyngddo a'i bobl ynghylch amryw o egwyddorion y Ffydd – rhai yn ymarferol (megis priodi), a rhai'n ddiwinyddol (megis Cyfiawnhad Ffydd, ac ystyr Cariad Duw, a'i Ogoniant).

Mae'r llythyr hwn i Rufain yn un o gyfansoddiadau mwyaf oll Llenyddiaeth Ryngwladol. Ceisio perswadio'n feddyliol y mae: neu fel y myn rhai, proselytio. Sylwn yn y fan hon ar un paragraff sy'n trafod y modd y mae mabwysiad Ysbryd Duw, a thadolaeth Duw yn mynd at y gwraidd, fel y bo iechyd corff ac iechyd ysbryd yn cyd-adeiladu calon newydd (Rhuf. 8:12-17): *Am hynny, gyfeillion, yr ydym dan rwymedigaeth, ond nid i'r cnawd, i fyw ar wastad y cnawd.*

Yn y fan hon, tybiaf fod Paul yn chwarae ar y gair 'rhwymedigaeth', oherwydd y bydd ef yn dod fel carcharor, ond yn dymuno y mae fod hefyd yn garcharor o'r iawn ryw i Grist. *Oherwydd, os ar wastad y cnawd yr ydych yn byw, yr ydych yn sicr o farw; ond os ydych, trwy'r Ysbryd, yn rhoi arferion drwg y corff i farwolaeth, byw fyddwch.*

Gŵyr drwy'r ysbryd, ei fod yn wynebu bygythiad marw, fel y mae pawb. Ond gŵyr hefyd, fod bywyd yr ysbryd y tu mewn iddo, eisoes yn ei ryddhau rhag hynny, go iawn. Plethir cyferbyniadau yn awr yn gynganeddus i'r ymennydd. *Y mae pawb sy'n cael eu harwain gan Ysbryd Duw yn blant Duw.*

Os yw'r Ysbryd yn mabwysiadu plentyn Duw, yna mae'n derbyn breintiau gan Dduw. *Oherwydd nid ysbryd caethiwed sydd unwaith eto'n peri ofn yr ydych wedi ei dderbyn, ond ysbryd*

mabwysiad, yr ydym drwyddo yn llefaru, "Abba! Dad!" 'Mab.' 'Tad.' 'A Mabwysiad.' Mae yna gyferbyniad i ddau ysbryd ar waith, a'r ail yn rhyddhau rhag caethiwed ofn ac yn anwylo o fewn ffaith gofal y Tad.

*Y mae'r Ysbryd yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni ein bod yn blant i Dduw. Mae yna undeb hefyd yn y fan yma wrth i'r Ysbryd weithio ynom, sy'n rhoi sicrwydd i ni: *Ac os plant, etifeddion hefyd, etifeddion Duw a chyd-etifeddion â Christ, os yn wir yr ydym yn cyfranogi o'i ddiodeffaint Ef er mwyn cyfranogi o'i ogoniant hefyd.**

Dyma sylweddoliad a gwirionedd gogoneddus aruthrol yn seinio drwy'r geiriau eu hunain. Brenhinoedd ydym ni sy'n Gristnogion, yn etifeddu Teyrnas Nefoedd, yn derbyn holl eiddo Duw, ac yntau'n rhoi inni Ei werthoedd ef, a'i gyfiawnder ef. Rhoddir hyn o fewn cyd-destun o Wirionedd ynghylch y modd y derbynnir pechadur i hyfrydwch sicr Teulu Israel ddi-goll, ddibechod, ac iachawdwriaeth fythol.

Ond myfyriwn ymhellach am y dyfyniad hwn yn fwy cyffredinol; oherwydd bellach fe sylweddolwn fod yr athrawiaeth hon yn weledigaeth 'newydd' hen, yn ddatguddiad llawnach o fewn y craidd. Her yw i'r Naturiolaid Groegaidd.

Ystyriwn swyddogaeth unigryw Tywysydd amryddawn, yr Ysbryd Glân, o fewn perthynas gwllwm Awdur/darllenydd. Pa fath o ddarllen yw hyn? Mae cysylltiad yr Ysbryd Glân ac Iesu Grist yn undod diwniâd ynghyd â chysylltiad yr Ysbryd Glân â'r Ysgrythurau yn un meddiannol o agos. Dyma galon theori Gristnogol 'Ymateb Darllenydd'. Dywedir mai swydd yr Ysbryd Glân gyda golwg ar waith 'awduron' yr Ysgrythurau yw hyn: *'nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt broffwydoliaeth; eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân'* (2 Pedr 1:21). Cysylltir y berthynas mewn darllen araf â'r berthynas mewn athroniaeth a'r swyddogaeth aruthr greadigol a dadogwyd ar yr Ysbryd Glân. Cydnabyddir ysbrydoliaeth benodol. Dywed yr Arglwydd Iesu yntau am yr Ysbryd Glân: *'A phan ddêl, efe a argyhoedda y byd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn.'* (Ioan 16:8). Ac eto: *'efe a ddysg i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi.'* (Ioan 14:26). Ac eto: *'Efe... a'i mynega i chwi.'* (Ioan 16:14).

Hynny yw, mae'n ymweld â'r byd yn yr ysgrythur ac yn un o brif dystiolaethwyr Duw: yn wir, defnyddia Ioan 15:26 y term syml: *'efe a dystiolaetha amdanaf fi.'* Crynhoa R. Tudur Jones ei ddisgrifiad o'r Ysbryd Glân fel hyn, **'cynrychiolydd cyflawn yr Arglwydd Iesu.'** (Ioan 14-16) ... Yn y Testament Newydd pwysleisia fod yr holl gredinwyr yn cyfrannu o'r Ysbryd. (1 Cor. 12:13). Ac am yr Eglwys, medd Tudur Jones (*Yr Ysbryd Glân*, Caernarfon, 1972, 82): *'Mewn gair, gwelwn raglen Duw'n aeddfedu wrth iddo ddwyn miloedd "i fod yn unffurf â delw ei Fab ef" (Rhuf. 7:29).'*

Prydferth iawn yw'r ffordd hon y disgrifia ffordd yr Ysbryd o ymyrryd yn y darllen. Tyn J. Cynddylan Jones yntau sylw at y gair 'tywys'. Dyma sy'n awgrymu naws a dull yr Ysbryd. *'Megis*

mai yr ysbryd a alluogodd ddilynwyr cyntaf Crist i osod y 'golud anchwiliadwy' mewn ysgrifen, felly yr un Ysbryd sydd yn galluogi saint pob oes i gloddio iddo a dwyn allan ohono "bethau newydd a hen". Triga yr Ysbryd yn yr enaid fel Ysbryd y Gwirionedd, ac fel canlyniad cynhyrcha ynddo gydymdeimlad nawsaidd â gwirioneddau moesol ac ysbrydol... Mae yr Ysbryd yn cryfhau y meddwl ac yn bywiogi pob cynneddf o'r bôn i'r brig... Tywysa yr Ysbryd, nid at y gwirionedd, ond i'r gwirionedd...Ac nid cynt yr ewch chwi i mewn i'r gwirionedd nag yr â y gwirionedd i mewn i chwi.'

Nid rhyw ddarllen y llythrennau na hyd yn oed y geiriau, yw'r llwybr drwy Rufeiniaid 8. Agorir i'r llais yn nadl yr Ysbryd, yna treiddir i mewn, ac i mewn ymhellach na'r corfforol. Ni wiw i ni anghofio nac esgeuluso anrhydeddu swyddogaeth allweddol ddeinamig yr Ysbryd Glân, gan na wnawn ddim gwerthfawr hebdo. Ef sy'n goleuo, yn ysbrydoli, ac yn tywys i'r dyfnderoedd.

Mae angen nodi bod pob un o'r tystiolaethau sydd gan Dduw yn y byd – yn yr Ysgrythur, yn yr Eglwys, yn y Mab, y Gydwybod, y Synnwyr o Dduw, y Greadigaeth – oll bellach yno drwy gyfrwng yr Ysbryd Glân. Nid oes eithriad, trwy Ras Cyffredin na thrwy Ras Cyffredin ac Arbennig. Yr Ysbryd sy'n eu cymhwyso oll i galon yr unigolyn. Erys hyn yn arddeliad. Gwaith goruwchnaturiol yw profi'r Goruwchnaturiol ei hun bob tro, wrth reswm. A darparodd y Drindod gyfryngwr neu leisydd amryddawn i'n calonnau ni sy'n gynhwysfawr ym mhroses ein darllen.

Mae gofyn inni gyfuno egwyddorion Gras Cyffredin beirniadaeth lenyddol – rhythmau Gras Cyffredin – fel y bo darllenydd seciwlar yn medru mwynhau darllen llenyddiaeth wir ac 'anllenyddol' y Beibl yn ddilys, er na all ei ddeall yn yr un ffordd ag y'i mwynha'r Cristion. (gweler gwaith yn y maes: e.e. David Barratt, Roger Pooley & Leland Ryken, *The Discerning Reader: Christian perspectives on literature and theory*, IVP, 1995.)

* * *

Cyffes

Llenddull 'israddol' ac achlysurol, gellid meddwl, yw Cyffes o'i chyferbynnu â Hanes. Gellid disgwyl y byddai'n digwydd yn anaml, hyd yn oed; heb fod mwy nag unwaith o bosib yn hynt rhywun weithiau, o leiaf ar raddfa ddofn. Gall ddod i'r golwg yma ac acw. Adlewyrcha hunanymwybod a rhyw fath o euogrwydd ac edifeirwch prin. Ond digwyddiad mewn cornel o fewn cyfanwaith llenyddol yw fel arfer, er yn ddigwyddiad arwyddocaol. 'Llenddull' od yw.

Ond yn y Beibl, cyffes yw'r cyfanwaith oll hefyd fel trosiad. Nid unigolyn yma ac acw a'i gwna, eithr Israel oll sy'n agor ei chalon. Dyma ddolen gydiol, i'r dolennu i gyd. A'r un gyffes yw pob cyffes, sef gwrthryfel dyn neu genedl yn erbyn Duw; gwadu, bradychu, sarhau. Yn hytrach na bod yn ddigwyddiad yn unig, y mae'n gyflwr. Ceir cyffes hefyd i'r datguddiad o Dduw.

Cyffesu yw'r brif thema yn y Beibl gan yr awduron unigol, weithiau ar ran y gymuned.

Rhydd ansawdd arbennig i'r themâu sy'n uno'r Beibl oll. Rhydd hefyd, fel arfer, bwrpas a chyfeiriad i berthynas y prif wrthrych. Oherwydd bod yr Awdur arweiniol yn oruwchnaturiol, y mae'n gallu estyn a rhoddi'n rhad ac am ddim y medr a'r awydd i gyffesu, ac y mae'n gallu ymhyfrydu a mwynhau prydfferthwch y gyffes rydd. Mae'r gyffes yn ymostyngiad ac yn fuddugoliaethus.

Ar y lefel fwyaf syml, y mae Cyffes yn tueddu i fod yn dywalltiad o'r galon, ac yn ebychiad gan yr enaid. Ond yn y traddodiad Cristnogol, pan sonnir am ambell Gyffes Brotestannaidd, drwy'r oesoedd (wedi cyfansoddi'r Beibl), tueddir i synied am amlinelliad go hir a datblygedig o gytundebau a gafwyd rhwng grwpiau o Gristnogion ynghylch dadleuon dyrys am y credoau canolog yn eu hanes, megis Cyffes Westminster neu Gyffes yr Hen Gorff, pan ddaeth nifer o'r arweinwyr at ei gilydd i gyfansoddi crynodebau o Fannau'r Ffydd y cydsyniwyd amdanynt. Mae'r rhain oll hefyd yn gyfraniadau yn Hanes y Ffydd, ac yn ffrwyth i'r Ysbryd.

* * *

Wrth sôn am egwyddor Amryw-mewn-Un, yr wyf am grybwyll yn y fan hon ddullwedd y byddwn yn dychwelyd ati drachefn wrth droi'n nesaf at ddullweddau Prydyddiaeth. Sef Trawsganu. Dyma un ffurfiant a fabwysiadai llawer o'r awdlwyr yn yr Oesoedd Canol yng Nghymru, sef agor gyda gosodiad ymadroddol, yna corff datblygol y gerdd, yna cloi â chyfeiriad at yr agoriad ymadroddol cyntaf drachefn. Rhoddir neges o gyfansoddiad cyflawn, o ddatrys y dechrau erbyn y diwedd, a'i gyfiawnhau mewn clo eglurhaol cytûn, eiddo Moses ac Iesu (Datguddiad).

Felly y gwneir rhwng y ddwy weledigaeth bwysicaf yn y Beibl. Ffurfiant amlen. Yn gyntaf Gweledigaeth Moses (Genesis 1-3), y weledigaeth gyn-hanesyddol, a chyn-amseryddol ar ryw olwg, ac anhysbys i wybodaeth naturiol, sy'n cael ei hateb, ei hailadrodd neu ei datod a'i hunioni yn efengyl Iesu Grist a gofnodwyd wedi Gweledigaeth Ioan ar Batmos (Datguddiad): Genesis 1:1, 'Yn y dechreuad creodd Duw y **nefoedd a'r ddaear.**' Datguddiad 21:1, 'Yna gwelais **nef newydd a daear newydd.**'; Gen. 2:17, '*byddi'n sicr o farw.*' Dat. 21:4, '*ni bydd **marwolaeth** mwyach.*' Gen. 3:1-7, Esgor ar **bechod**. Dat. 20:10, **Poenyddio** 'byth bythoedd.' Gen. 3:8, '*ymguddiodd y dyn a'i wraig o olwg yr Arglwydd.*' Dat. 22:4, '*cânt weld ei wyneb.*' Gen. 3:23, 'anfonodd yr Arglwydd Dduw ef **allan.**' Dat. 21:1 'y mae preswylfa Duw **gyda** dynoliaeth.' Gen. 3: 17, '*melltigedig yw'r ddaear o'th achos.* Dat. 22: 3, *Ni bydd dim mwyach dan **felltiith.***' Gen. 3: 24, 'gwarchod (atal) y ffordd at **bren y bywyd.**' Dat. 22:14, '*iddynt gael hawl ar **bren y bywyd.***'

Mae'r drych yn drawiadol. Dyna berffeithrwydd Ffurf yn ateb perffeithrwydd gorffenedig Deunydd. Er y bydd y ddaear wedi'i phuro gan dân, does neb yn cael gwared â mater. Caiff y ddaear ei hadnewyddu: nid oes buddugoliaeth i Satan. A'r ddaear ei hun fydd hi. Rhwng Genesis a Datguddiad ymroliar Hanes gerbron i brofi sut a pham yr aethpwyd ar y siwrnai ryfedd hon yn ôl Trefn Duw. Yn y ddau ben, sydd y tu hwnt i Hanes, clywir y dechrau'n galw ar y diwedd.

Prydyddiaeth

Ffurf Farddol

Drwy gydol y Beibl, try prydyddiaeth i ryddiaith, a rhyddiaith i brydyddiaeth. Mae gan yr Ysbryd Glân ei ffordd ei hun o ffurfio'i Fynegiant. Ni ddylem ddisgwyl unrhyw reol ddynol i orfodi patrwm disgwylidig dynol. Felly y bu hi hefyd yn y cyfansoddiad meddyliol dwyfol sy'n rhagflaenu'r Beibl. Gwelsom fod yna drefn bersonol gan Dduw yn ei 'lyfr cyntaf' – y Greadigaeth. Nis crewyd yn ôl fframwaith rhyddieithol prenaidd. Ffurf hardd oedd. Barddoniaeth hefyd, o fath newydd, yw'r 'ail lyfr', yn helaeth. Barddoniaeth a hanesyddiaeth ac athrawiaeth, – cyfuniad gwir hardd 'arwrol'. Mawl i'r Greadigaeth a geir, ond Hanes hefyd, yn amlwg, mawl o fewn sicrwydd.

Bydd gwyddonwyr meidrol yn newid eu barn beunydd ynghylch hanes rhywbeth mor ganolog â bodolaeth, heb ddod i ben byth ynglŷn â'r gwir llythrennol am bob cam yn nhrefn bodoli, nac â'r cam cyntaf yn wir. Erys y gwir ddechrau o hyd yn guddiedig. Eleni (2014), erys o hyd ddirgelwch yn y Gwrth-fater, a dirgelwch beth sy'n digwydd yn y Tyllau Duon. Anrhydeddwyd â Gwobr Nobel ddarganfyddiad yn ffurfiant Mater. Eto, amaturwyr ydynt o hyd, yn ymddangosiadol, yn troi o gylch dychymyg mor aml, a gweddill eu gwaith yn ddiderfyn. Nid oes angen inni fod yn gyffelyb ansicr ynghylch adroddiad y Beibl. Cafodd Duw ffordd amgen i ddatgan sylfaen i Wirionedd mewn dullwedd Feiblaidd. Ffordd ysbrydoledig oedd. Rhaid inni felly ddysgu gwrando ar unrhyw ychwanegiad dynol 'gwir' drwy bersbectif tragwyddol. Erys grym Mawl heb ei ddatrys.

Gwiw yw sylweddoli'n anesmwyth mor 'farddonol' yw ffurf y Beibl. Y dyddiau hyn, y mae Barddoniaeth, yn gyffredinol ymhlith y boblogaeth mewn rhai o'r gwledydd datblygedig, wedi'i gwthio i'r ymylon, ac eithrio mewn ysgolion llai blaengar na'i gilydd. Aethpwyd i dybied mai ffansi oedd. Cododd rhagfarnau yn ei herbyn ymhlith crefyddwyr dwys. Yng Nghymru, lle y mae cymhleth y taeg yn sylfaen adnabyddus i wleidyddiaeth ac i seicoleg hunaniaeth, y mae 'llynyddiaeth oedolyn' wedi mynd yn 'amhoblogaidd'. Dyma'r criterion gormesol poblogaidd i'r dosbarth darllengar; ac ymgyfyngir braidd i ddiddanwch ysgafn a diffyg meddyliol yn y cyfryngau cyhoeddus. Cyfyngir ar werthoedd. Aeth popeth yn relatif.

Yn ffurfiad y farn gyhoeddus am y Beibl, y mae ideoleg a metanaratif moesol yr oes hefyd yn ffactorau a aeth yn 'ymhongar' feirniadol gan y meddwl newyddiadurol. Cododd ffasiwn yn erbyn ideoleg foesol, nid yn unig o ran relativrwydd a lluosedd poblogaidd, eithr hefyd yn y rheidrwydd i osgoi arucheledd ac egwyddorion cryf megis 'anrhydedd' a 'harddwch'. Ni pherchir y syniad o werth ymenyddol o fewn yr hyn a ystyrir yn 'addurniadau' neu'n 'ddifyrrwch'. Felly, fel y dywedwyd, mae hawlio bod y Beibl yn 'farddoniaeth' yn debyg o fod yn ddisgrifiad nas croesewir gan rywrai. Yn wir, hyd yn oed i gredinwyr sy'n edmygu Gwirionedd y Beibl a'i anrhydedd, tueddir i ystyried nad gair clodforus yw 'barddoniaeth' am ran o ddogfen sy'n ymwneud â difrifoldeb

argyhoeddiad. Ond dweud y gwir yw dawn y farddoniaeth hon a'r hanes hwn gan y llenyddiaid Beiblaidd. Yn aml, gwir yw mewn ffurf sy'n wefreiddiol i'r glust.

Eto os troir yn awr i gyfieithiad diweddar y Beibl Cymraeg fe welir bod darnau o Genesis 3, 4, 8, 9, 14, 16 ac yna lyfrau Job, Salmau, Caniad Solomon yn amlwg wedi'u *hargraffu* yn gyfan gwbl mewn ffurf brydyddol. Mae bron y cwbl o Eiseia, a chyffyrddiadau yn y llyfrau sydd yn y bwllch rhyngddynt a'r Testament Newydd, Nahum, Habacuc, a Seffaneia yn brydyddiaeth fwriadus megis llawer o Jeremeia, Sechareia a Datguddiad Ioan. Darnau hir o farddoniaeth yn aml. Mawl yw. A hanes. Yma ac acw mewn mannau unigol eraill, megis cerdd fawr Moses yn Deuteronomium 32 – 33 a Chân Buddugoliaeth Dafydd 2 Samuel 22, y mae'r traethiant yr un mor farddonol. Yr hyn sy'n rhyfedd efallai yw bod peth o iaith Iesu'i hun, dyweder Math. 5, megis Mawl Mair yn Luc 1, a Chân Simeon yn Luc 2, yn ogystal â'r Llythyr at yr Hebreaid hefyd yn farddoniaeth ffurfiol. Mae sylweddoli hyn yn dra phwysig i ddarllenwyr nad oes ganddynt lawer i'w ddweud am farddoniaeth.

I'r rhai ohonom sy'n credu eisoes mai'r ffurf orau ar iaith yw barddoniaeth, ac mai dyma'r ffurf gryfaf i ddweud y gwir personol neu emosiynol, nid yw'r ffenomen hon mor anaddas. Fel arfer, mae'n fwy o ddifrif nag yw mynegi arall. Ac yn wir, o archwilio'r Beibl, ac ieithwedd oruwchnaturiol yr Arglwydd Iesu Grist yn benodol, nid yw'r dull barddonol o feddwl yn brin, hyd yn oed mewn cyfeiriadau heblaw ar ffurf llinellau neu benillion. Ceir y duedd hon ar ei hamlycaf mewn damhegion ac mewn siarad lliwgar troadol, yn ogystal ag mewn gweithredoedd symbolaidd. Am fod Iesu mor hoff o droadau yn ei waith a'i iaith (yn arbennig yn 'Datguddiad'), ni ddylem synnu fod holl gynllun Iachawdwriaeth ei hun i'w gael ar ffurf symbolaidd gwbl weithredol: cyflwynir Metanaratif aruthr yn gynheilydd i hanes ysbrydol nad oes mo'i fawreddocach.

*

*

*

Buddiol yw cofio mor batrymog yw geiriau Duw. Mae'n ddiddorol sylwi, er enghraifft, ar Drawsganu ffurfiol yn **Salm 8**, sy'n dechrau â'r llinell '*O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear.*' Dilynr hyn gan saith llinell sy'n profi'r pwynt hwnnw, gan arwain at yr adnod olaf, **un sy'n ailadrodd yr adnod gyntaf**. Yn yr un modd, y **pâr Salmau 103 – 104**. Yn **Salm 103** agorir â'r geiriau '*Fy enaid bendithia yr Arglwydd*', a dyna sy'n gorffen y Salm hefyd. A pharhad yw **Salm 104** o batrwm cyffelyb, gyda **Salmau 15, 22, 32, a 139** yn adleisio patrwm o gyfateb nid annhebyg wedi'i gymhwyso. Dyma strwythur (linell gyntaf/ llinell olaf) yr ydym yn gyfarwydd ag ef yn yr Awdl glasurol Gymraeg yn ei hanterth, megis yn y tair ar ddeg o awdlau sy'n agor cyfrol 1 o *Waith Tudur Aled* (gol. T. Gwynn Jones). Yn ei gerdd 'A Wreath' y mae'r bardd Saesneg o Gymro, George Herbert (heblaw llawer o gywreinder arall) yn gwneud yr un fath. (Bûm yn sôn am **yr un patrwm o 'Drawsganu' yn SB III, 226**). Dyry hyn argraff o undod ffurfiol gerddorol i gerdd gron. Gall y bardd wneud ei ragosodiad yn y llinell gyntaf a dychwelyd yn ei

gasgliad fel pe bai wedi profi'i achos. Neu fe all ddychwelyd yn y diwedd, a'r llinell gyntaf yn y gerdd wedi dyfnhau neu'i gogwyddo'n ddyfnach erbyn y clo. Cyffelybwyd hyn i frechdan, gyda'r ddeupen yn amgau'r cig. Fe'i gelwir hefyd yn amlen. Ceisiais ddangos fod y Beibl yn gyfansawdd – Genesis/Datguddiad – yn debyg. Och! meddwch, ffwdan am sŵn! Nage'n wir, sôn yr wyf am brydferthwch cynganeddus ailadroddrwydd mewn cyfanwaith. Sôn yr wyf am anrhydeddu. A hynny ar gyfer y bobl gyffredin i gyd, mewn symlder, gloywder, a serenedd, sy'n ysbrydoli llinellau syfrdan megis y gwnâi eiddo Charles Wesley yn ei linell gyfareddol 'Being's source begins to be'.

Wrth geisio disgrifio natur y Beibl, ni ellid llai na chydabod mai *Mawl barddonol yw o ran anian i fawrygu Duw*. A chan mai Trydydd Person y Drindod yw'r Awdur, mae'n naturiol bod rhai darllenwyr megis Burns a Swift yn codi aelïau call wrth synied am Dduw yn ei ganmol ei hun. Mae Mawl yn cael ei ddefnyddio (mewn Theori) mewn dwy ffordd lenddulliol; yn gyntaf, yn achlysurol o gyferbynnu Mawl a Dychan (y cadarnhaol a'r negyddol, yr esgynnol a'r disgynnol); ond yn ail, term yw sy'n cwmpasu cymhelliad sylfaenol y Greadigaeth, sydd ynddo'i hun yn ddyrchafol adeiladol a ffrwythlon o ran hanfod. Ond o'i osod gyferbyn â'r dull dyn-ganolog o feddwl am falchder, wrth gwrs, ni all Duw ei ganmol ei hun yn yr ystyr gyntaf o'r ddwy a nodir. Mawl yw ei fodolaeth oll: ei hanfod. Nid oes ynddo ddim drwg: ni all dyn Ei ganmol Ef ddigon am Ei holl weithredoedd, sut bynnag. Felly, yn hanes y Greadigaeth ac yn y Salmau Mawl, mae dathlu a diolch yn wead Mawl eisoes yng ngwneuthuriad y Gwrthrych. Dweud y Gwir glân a gostyngedig yw Ei anian; a chynhaliaeth gadarnhaol gron yw Ef oll i wead y Cread.

Dadlennu hyn a wna'r Ysbryd Glân i'r credadun tlawd.

A diddorol sylwi y lle sydd hyd yn oed i Amau (*dubitare*), deuoliaeth meddwl, yn 'Diarhebion' a 'Job'. Rhan bwysig o ddynoliaeth yw hyn. Cloffi rhwng dau feddwl yw hyn o ymarfer, gan fod Moli wedi'r Cwmp (o leiaf) yn fater o ddiidoli hefyd. Er hynny, dyfnach yw Amau na hynny. Mae'n perthyn i'r 'deall' sylfaenol, a'r cam cyntaf o wahanu (mewn gwahuno cynnar) i'r dysgwr-faban. Gyrrir yr Amau, hyd yn oed, i hedfan rhag y gwahanu ac i ymaflyd yn yr uno, sy'n hanfod i bob ffurf, i bob deunydd, ac i bob cymhelliad yn Ffurfiant hardd y Beibl. O'i gysegru, mae'n miniogi deall ac yn amddiffyn strwythur meddwl. Dysg ddiidoli yn y diwedd.

* * *

Wrth ymateb i farddoniaeth fawl y Beibl, rhaid inni fod yn barod i ymateb i symudiad mawr cyfannol yn y Weledigaeth fawr. Ond rhaid inni fod yr un mor barod i ymateb i'r farddoniaeth yn y manion bach – yn y rhythmau, yn y ffigurau bach lleol, ac yn yr adeiladwaith cywrain mewn unedau neu rediadau patrymog. Mae'r naill a'r llall yn arwain at Werth.

Wrth wynebu'r Ffurf/Deunydd sydd ym mhob llenyddiaeth, yr ymateb arferol a chyfyngedig a glywir gan Gristion yw mai'r Deunydd sy'n cyfrif. Fel lens, edrychwn drwy Ffurf tuag at Sylwedd

ei hun. Gall hyn arwain at ddifrio Ffurf. Ond nid dyma a wnâi beirdd y Beibl. Onid cadw Ffurf yn gudd yn yr isymwybod a wnaent? Purion. Ond ei gwadu, weithiau. Iddynt hwy, y Ffurf (hyd yn oed mewn manion) sy'n cynrychioli'r Deunydd ac yn ei strwythur. Ar ryw olwg, anrhydeddu'r Deunydd a wna Ffurf, megis o'r golwg. Gall effeithio ar yr emosiwn, a dyrchafu'r cynnwys i ysgogi prydfferthwch. Gall drefnu; ac ar y trefnu yr oedd eu golwg yn bennaf. Gyda'i gilydd, arweiniant oll at werthuso.

I feirniad, sy'n trafod deuoliaeth Ffurf/Deunydd, gall y gyntaf fynd â'i fryd. Ond teg cydnabod, yn arbennig y dyddiau hyn, mai Deunydd yw monopoli bron yr holl feirniaid. A diau fod disgwyl gan feddwl am 'rywbeth i'w ddweud' yn bwrw beirniadaeth yng nghnewyllyn ei thalcen. Cychwynna iaith, meddan nhw, mewn swydd i drafod rhyw 'sylwedd', nid i 'lunio' ffurfiau. Yn yr ugeinfed ganrif, sut bynnag, pan fyddai beirniaid yn sôn am ffurfiau'r Beibl, ymdroi y byddent gan mwyaf o gylch cyfochredd a 'llendulliau', sef y ffurfiau bras cyfanweithiol. Ond heb ddifrio'r ail fath o ddiddoreb, carwn oedi ychydig gyda'r ffigurau bychain unigol, y troadau bach arddulliol, y rhethreg leol fel petai, gan gynnwys adeiladwaith llinell a phennill. Gyda'i gilydd y'u gwerthusir.

* * *

Gŵyr pob Cymro am yr egwyddor o gyfochredd mewn barddoniaeth Hebreig. Ac i rywrai, y mae hyn yn cyfateb i ddulliau hysbys mewn Cerdd Dafod Gymraeg. Math o ailadrodd yw nid cwbl annhebyg ym myd ailadrodd ystyrol i adleisio patrymau cytseiniol y Gynghanedd. Felly, ailadroddir grwpiau mydryddol hefyd. Mae gan bob gwlad Ewropeaidd, fel Israel, ei harferiadau neu ddefodau prydyddol. Ond y mae hyn yn fwy na chwarae. Mae'n fwy na goglais clust a deall. Mae'n fwy nag ymgais i greu prydfferthwch. Strwythurol yw. Cynhaliaeth. Mae'n patrymu'r plethog yn y meddwl Beiblaidd. Mae'n pwysleisio ac yn disgyblu'r clyw, ac yn dathlu gosodiadau.

Y mae trefnu patrymau cyfatebol mewn barddoniaeth yn dweud rhywbeth am adeiladwaith cytbwys bywyd. Mae'n adleisio yn y glust a'r cyhyrau meddyliol wirionedd am gyfundrefneg gymen y cread, a'r amryw yn yr undod. Mae cynnwys y cynganeddus yn nhrefn ysbrydol Duw yn cael adleisiau syml ym mhatrwm cywir barddoniaeth. Yn y Beibl ceir lluo o enghreifftiau o gyfochredd o'r fath.

Yng nghanu'r Hen Destament, cydnabuwyd tri llyfr yn benodol fel rhai barddonol, sef y Salmu, Diarhebion, a Job. Cyfrifid bod gan y rhain ffurfiant mydryddol a seiniol o wahanol fathau cain ar eu hyd. Ond y mae'n amlwg bod llawer o'r gweddill o'r Hen Destament wedi'i ysgrifennu'n fwiadus farddonol, megis Genesis 49:1-27; Ex.15:1-18; Barnwyr 5; 2 Samuel 1:17-27.

Y person cyntaf i ddadansoddi ac archwilio'r ffurfiau hyn oedd yr Esgob Robert Lowth ym 1753 (*De sacra poesi Hebraeorum*). Sylwodd mai'r llinell unigol oedd uned seiliol y farddoniaeth.

Roedd dwy linell yn 'distich', tair yn 'tristich', pedair yn 'tetrastich', a phump yn 'pentastich'.

Yn ôl Lowth, caed tair ffurf sylfaenol ar gyfochredd, ac erys y rhain yn sylfaenol ac yn safonol: (i) Cyfystyrol: e.e. Salm 49:1; (ii) Gwrthystyrol: e.e. Diar. 15:1; (iii) Cyflenwol: e.e. Diar. 4:23. Gydag ymchwil bellach, llwyddwyd i ynysu sawl estyniad neu gymhwysiad ar yr egwyddorion dadansoddol hyn. Erys o hyd ym maes Cerdd Dafod Feiblaidd lawer i'w ddarganfod yn llawn.

Ymddengys i mi mai'r llinell yw'r cnewyllyn tarddiadol; a'r gyfundrefneg yn cymryd y cyferbyniad llinellog (a phenillio wedi hynny) fel cwlwm cyflawn i Gerdd Dafod. Dyma gyfundrefn gyffelyb i'r Gair/Brawddeg (neu Ymadrodd) mewn Iaith, Rhan/Cyfan mewn Strwythureg, Mewnol/Allanol mewn Gofodeg. Gellir amrywio perthynas ac arwyddocâd elfennau Llafariad/Cytsain/Acen o fewn adeiladwaith y llinell, ac amrywio'r dulliau o ychwanegu a chyfuno yn adeiladwaith y pennill. Felly y mae hi hefyd ar ryw olwg mewn Cerdd Dafod Gymraeg. Yn adeiladwaith Cerdd Dafod y Cymry, ceisiais ddangos ym *Meddwl y Gynghanedd* mai'r man cychwyn a thyfu i olrhain holl gydlynid ffurf yw Llinell/Pennill, y sut a'r pam.

Yn y Salmau a'r Diarhebion, gwyddom oll am **gyfochredd syml cytûn**, cadarnhaol megis:

Salm 15: *Arglwydd, pwy a gaiff aros yn dy babell?*

Pwy a gaiff fyw yn dy fynydd sanctaidd?

Gwyddom oll hefyd am **gyfochredd croes**, dadwneuthurol negyddol megis:

Diarheb. 1: *Ofn yr Arglwydd yw dechrau gwybodaeth,*

ond y mae ffyliaid yn diystyru doethineb a disgyblaeth.

Wedyn cawn gwpled lle nad yw'r ail linell yn gwneud y naill na'r llall, ond fel pe bai'n **estyniad datblygol** neu ychwanegol:

Salm 61: *O eithaf y ddaear yr wyf yn galw arnat,*

pan yw fy nghalon ar suddo.

Mae'r rhain yn wybodaeth gyffredin, ac nid wyf am aros gyda hwy. Ond erys llawer i'w ddarganfod; ac mewn cyfnod felly, fe geir llawer o fentro dychmygus. Rhaid bod yn barod i fod yn ansicr wrth ymchwilio ymhlith posibiliadau ystwyth.

Cymerer un pwynt bach ychwanegol sydd gennyf mewn golwg hefyd, un sy'n hysbys ers talwm, er nad yw mor gyfarwydd i'r cyhoedd. Mae'r ymdriniaeth a ddefnyddiaf yn mynd yn ôl i *The Modern Reader's Bible* gan Richard G. Moulton, 1895; ychydig o sylw a gaiff yn fynych er bod y pwynt mor gyffredin. Sef 'elastigrwydd' yr uned brydyddol Hebraeg, neu 'straen'. Clywir hyn byth a hefyd mewn telynegion Beiblaidd, lle y ceir cwpled lle y gellir *ei chryfhau drwy linell ychwanegol* fel hyn:

Salm 27: *Un peth a ofynnais gan yr Arglwydd, dyna'r wyf yn ei geisio:*

*cael byw yn nhŷ'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd,
i edrych ar hawddgarwch yr Arglwydd ac i ymofyn yn ei deml.*

Meddai Moulton: 'It is very important for the appreciation of biblical lyrics to accustom the mind to this idea of an elastic unit. When once this idea is grasped it becomes easy to see, for example, that the two divisions of psalm iii are perfectly symmetrical, although one contains eight lines, the other nine.'

Sylwer ar batrwm –

Math. 5:43-45: *Clywsoch fel y dywedwyd, 'Câr dy gymydog, a chasâ dy elyn.'*

Ond rwyf fi'n dweud wrthyich: cerwch eich gelynion, a gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid,

felly fe fyddwch yn blant i'ch Tad sydd yn y nefoedd,

*oherwydd y mae ef yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da,
ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn.*

Yma gorffennir â chwpled syml. Ond yn y straen cyntaf, cryfheir y cwpled gan linell sengl o'i flaen sy'n ei gyflwyno. Yr oedd hyn yn ffordd o feddwl, yn fframwaith i'r llais weithio mewn brawddegau seiniol-ystyrol: mae'r straen yn ymrannu –

Math. 11:28-30: Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog,
ac fe roddaf orffwystra i chwi.

Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf,

oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon,

ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau.

Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn,

a'm baich yn ysgafn.

Ceir cwpled yn agor y pennill, yna straen tair-rhan, gyda llinell agoriadol sy'n rhedeg ymlaen ar ôl y cwpled o'i blaen, gyda thrydedd linell sy'n adleisio ail linell y cwpled cyntaf. Wedyn, cwpled cau elastigrwydd. A ddysgodd Iesu hyn gan draddodiad llafar gwlad?

Yn y drefn o feddwl yn ôl angen 'Ymateb Darllenydd', Pantycelyn yw'r darllenydd dychmygol y tro hwn sydd gennyf mewn golwg, a'r Ysbryd Glân yw'r Awdur o hyd. Am y tro, nid sôn am syniadaeth Williams a wna. Yr hyn a'm tery yw'r miwsig prydyddol a glywai Pantycelyn. Ni allaf lai na synied bod Pantycelyn yn clywed mwy na'r tri chyfochredd a nodais yn gyntaf; sef cyfochredd syml cytûn, cyfochredd croes, ac estyniad datblygol. Yr oedd Pantycelyn yn ei ffordd ei hun yn fynych ymwybodol o straen elastigrwydd. Ac er bod y miwsig hwn ar gerdded ar lafar gwlad, mi dybiaf yn y symudiad ystyrol-seiniol fod y cyplysiad rhediadol yn perthyn i'w ymwybod

dwfn iawn o symudiad y salmau. Hynny yw, nid mater o batrymau ystyrol a oedd yma; ond yn ei grefft ffurfiol isymwybodol, yr oedd ef yn cyd-deimlo â phrydyddeg Hebraeg. Sylwer ar elastigrwydd patrwm y pennill:

*Iachawdwr dynolryw,
Tydi yn unig yw
Fy Mugail da;
Mae angau'r groes yn llawn,
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melys iawn,
Rhain a'm hiachâ.*

Neu eto:

*Chwilia, f'enaid, gyrrau'th galon,
Chwilia'i llwybrau maith o'r bron,
Chwilia bob rhyw stafell ddirgel
Sydd o fewn i gonglau hon;
Myn i ma's bob peth cas
Sydd yn atal nefol ras.*

Ceir cannoedd o benillion lle y mae'r patrwm neu'r egwyddor hon ar gerdded, ac yntau'r emynydd yn gwisgo'r ffurf yn reddfol, a hynny mewn mydrau o wahanol batrwm byd a threfn. Yr egwyddor Sain sydd dan ystyriaeth fel cyffelybrwydd. A'r mydr wrth gwrs yn ddathliad esthetig o Drefn yr Ysbryd Glân yn curo drwy'r galon feidrol i mewn i'r ystyr. [Dichon fod yna gan y canu gwerin rhydd yng Nghymru ryw fath o gynganeddu braidd gyffwrdd gynt. Dyma un ymateb Cymreig i'r fframwaith meddyliol. Er nad yw'r Elastigrwydd yn y canu uchod ddim yn dechneg berthynol o gwbl, efallai fod gan y canu rhydd traddodiadol Cymreig yn gyfredol ryw fath o grwpiau technegol wedi datblygu gwreiddiau yr un modd dros y canrifoedd. Sylwer ar fy nisgrifiad o ddatblygiad tanddaearol gwerinol Gogynghanedd ym *Meddwl y Gynghanedd*.]

Nid oedd a wnelo'r drafodaeth hon yn awr â tharddiad hanesyddol tybiedig y fydryddiaeth honno sydd mor gyfarwydd yn y Beibl. Ond dychwelwn am foment at y ffenomen ei hun. Y mydr sydd dan sylw yw'r mydr a ganfyddir yn y Beibl fel y'i ceid hefyd yn y llawysgrifau gwreiddiol Hebraeg, Aramaeg, a Groeg ond eu bod bellach i ni mewn cyfieithiad. Mae damcaniaethu ffurfiol am ffynonellau ffurfiannol tybiedig y fath fydryddiaeth yn amherthnasol, at ei gilydd.

* * *

Gwelsom fel y tyfir megis o hedyn bob uned o gwpled; neu o ddwy linell, lle y cyfnerthir y naill linell neu'r llall (ond nid y ddwy) gan drydedd linell ychwanegol mewn rhyw safle heb

yn gyffelyb. Ceir *Galwad* gan Dduw (dair llinell) yn y naill (adnod 7) a'r llall (adnod 16), wedyn Dadl, adnodau 8 – 13 yn y naill ac adnodau 17 – 21 yn y llall; ac wedyn *Dyfarniad Dwyfol* sy'n bedair llinell, adnodau 14 – 15 yn y naill ac adnodau 22 – 23 yn y llall. Mae'r Stroff yn dyfarnu 'fy mhobl', y credinwyr, a'r Antistroff yn dyfarnu'r drygionus, yr anghredinwyr.

Dywedir fod y dull stroffig mewn barddoniaeth Roeg yn tarddu mewn dawns ac yn canoli ar rhythm. Ond y mae'r dull stroffig yn Salmu'r Beibl yn canoli ar berthynas feddyliol yn y ffurfioli.

Dymunaf danlinellu'r wedd ysbrydol ar y ffurfiau mydryddol hyn eto. Buom yn trafod ffurf amlen y Trawsganu yn y Gymraeg ac mewn Hebraeg. A rhaid helaethu ar hynny. Buwyd yn dadlau fod y patrymu a brofir mewn barddoniaeth, nid yn unig mewn Hebraeg, ond mewn Cerdd Dafod Gymraeg, yn fwy na rhyw adleisio esthetig pert. Yn y Beibl, Ffurf yw. Dadleuwyd bod hyn yn cyfateb i'r ystyr drefnus sy'n sylfaen i fywyd y Cristion. Mewn gwirionedd, yr ydym oll yn ymwybodol o ryw fath o drefn reolaidd drwy'r Cread yn ein cyrff, mewn atomau a chelloedd, mewn organau a galaethau sy'n ein hamgau, mewn syniadau meddyliol sy'n gwrtheirio neu'n ailadrodd ei gilydd yn ffurfiol. Mewn cyfundrefn y mae dyn yn byw, er gwaethaf y Rhamantwyr. Ac fel y ceir mewn Cyfochredd Hebraeg batrymau deuol yn cael eu llunio oherwydd bod y glust yn ymhyfrydu mewn adleisiau, felly hefyd yn adeiladwaith y corff dynol, y mae yna ddeuliaethau hynod gyffelyb. Ceir dau lygad, megis dwylo, ffroenau, clustiau, breichiau, ysgyfaint, bronnau, coesau, traed, a hefyd wrth gwrs, y genedl rywiol (gwryw a benyw). Mewn iaith, yr ydym yn gyfarwydd â chfundrefn rhif (unigol a lluosog) a chenedl (wrywaidd a benywaidd). Mae'r gydwybod ddynol yn gyfarwydd â fframwaith moesol ac esthetig sy'n cydnabod pwysigrwydd aruthrol y cyferbyniadau da/drwg, hardd/hyll. A gwyddom am lawer iawn mewn diwinyddiaeth gyfundrefnol am gyferbynnu deuol cyffredin o fath Corff/Ysbryd. Mae'r corff mor gymen mewn patrymau. Yn ogystal â Deuliaeth, gellid gwneud rhestr anrhydeddus nid annhebyg wrth ystyried Trioliaeth. Heb fanylu, digon am y tro yw dyfynnu Anthony Hoekema, *Created in God's Image*, Paternoster, 1968, 75: 'God has placed man into a threefold relationship: between Man and God, between man and his fellow-men, and between man and nature.' Ymestynna'r perthnasoedd triol drwy gydol y Greadigaeth mewn cysylltiadau adeileddol di-gyfrif. Hynny yw, y mae Ffurf strwythurol trindodol bywyd yn gymaint o bresenoldeb yn y Beibl â thrioliaeth Cynnwys. Mewn brawddegau Cymraeg ceir 'cwlwm enwau, ansoddeiriau, ac adferfau.' Ni ellir llai nag ymwybod â'r patrymau ystyrol deuol a thriol hefyd mewn grwpiau o ailadrodd neu aralleirio geiriol, neu frawddegol, neu ddigwyddiadol, neu 'bersonol arddulliol' yn helaeth drwy gydol yr astudiaeth o'r Beibl, a'r defnydd rhyfedd o rifau. Fe'n gorfodir felly i ddehongli'n ddeuol ac yn driol. Gall deuoliaeth a thrioliaeth yn neall y llythrennol a throsiadol brofi'n broblem i rywrai; ond i gredadun ffyddlon y mae eu cyfuniad yn ffordd o ddeall credu corff/ysbryd ar waith. Maent yn ymwybod o strwythur dirgel isymwybodol drwy'r bydysawd.

Drwy arddull y Beibl, ymdeimlir ag arbenigrwydd Ffurf yn bresennol ym mhobman.

Profiadol a strwythurol fel y gwyddom yw'r gwahaniaeth a'r cyswllt rhwng Cyfiawnhad a Sancteiddhad. Am ein bod yn mwynhau'r profiadol, tueddwn i anghofio cryfder a threfn y strwythurol. Adeiladwaith rhagluniol yw, mewn olyniaeth a ffurf. A pharadocs hyd at anghof yw dyled y naill nodwedd i'r llall. Rhan o'r rhagfarn i ymwrthod â hyn yw yn erbyn ffurfioldeb prenaidd. Un o nodweddion strwythurol Cyfiawnhad/ Sancteiddhad yw'r cyferbyniad amseryddol sydyn/parhaol. Yr un modd, mae'r cyswllt rhwng Gras Cyffredin a Gras Arbennig yn strwythurol, yn amseryddol, ac yn brofiadol, a'r gwrthygyferbyniad rhwng Uffern a'r Nefoedd. Ffurf gymen a hardd sydd i'r awel a anadla'r Ysbryd Glân.

Ceir yr egwyddor o Gyfochredd yn treiddio o'r meicrocosm i'r macrocosm mewn Themateg. Yn strwythurol, dyna sy'n ganolog yn Llyfr y Datguddiad. Adeiledir y cyflwyniad o'r saith eglwys mewn modd sy'n pwysleisio saith cylch neu weledigaeth. *Datguddiad Ioan* yw'r unig lyfr yn y Testament Newydd a ddiffinnir fel 'proffwydoliaeth' (1:3; 22.7, 10, 18, 19). Gellir dosrannu *Datguddiad* yn ôl y dechneg a adwaenir fel 'Cyfochredd Cynyddol' (Progressive Parallelism). Nid cyfochredd cronolegol yw, ond cyfosodiad yn ôl gweledigaethau sy'n ailadrodd ei gilydd yn yr hanfodion, ond bod atodiad unigolyddol yn nodi manylyn pellach, sef agwedd ar y nefoedd. Felly y patrymir gorymdaith yr Eglwysi – Ephesus, (pren y bywyd), Smyrna (coron bywyd), Pergamon (carreg wen gydag enw newydd), Thyatira (concro, ac awdurdod), Sardis (gynau gwynion, heb flotio'i enw), Philadelphia (concro, a cholofn yn y deml), Laodicea (concro, rhannu'r orsedd gyda'r Tad). Canfyddwn yn y Broffwydoliaeth hon gyfansoddiad celfydd cyfochrog a grisiog a'r darn mwyaf estynedig o'i fath a luniwyd gan Iesu'r Awdur.

CYMHELLIAD

CYMHELLION GAN Y BEIBL

A. CYFRYNGAU TYSTIOLAETHU

BOD: Drwy Synnwyr o Dduw
Drwy Gydwybod
Drwy'r Greadigaeth

DUW EI HUN YN GWNEUD:

(Anffaeledig)
Drwy'r Geiriau (Y Beibl)
Drwy'r Mab
Drwy'r Ysbryd Glân

Y BOBL YN GWNEUD

(Ffaeledig)
Drwy'r Eglwys
Cenhadu

B. NOD TYSTIOLAETHU

GOGONEDDU

CYMHELLIAD A: SEF TYSTIOLAETHU

Ymddengys mai'r ddau gymhelliad blaenllaw a fabwysiadwyd gan yr Ysbryd Glân ar y ddaear oedd (1) Tystiolaethu, (2) Gogoneddu.

Tystiolaethu i'r Mab ac i'r Tad yw swyddogaeth arbenigol yr Ysbryd Glân. Datgela i ddyn mewn angen y ddarpariaeth waredigol sydd gan Dduw. Fe'i datgela ac fe arweinia ddyn amddifad at y Groes: dyma'i dystiolaeth ddaearol. Wrth fyfyrion am yr Ysbryd Glân a Chymhelliad, neu nodi ei waith mwyaf nodweddiadol, ac wrth olrhain Ei awduraeth o'r Beibl, felly, fe ellir crynhoi'r Cymhelliad hwnnw yn y ddau air: 'Tystiolaethu' (y gair cyntaf sy'n dod i'r meddwl) a 'Gogoneddu' (yn ail). Cawn sylwi ar y Gogoneddu, a'i gysylltiad, ymhellach ymlaen. Yn fynych, pan geir dadl ddeallol ar ben heol rhwng y Cristion a'r Person Seciwlar ynglŷn â sylwedd ffydd, bydd y naill yn gofyn i'r llall, 'Beth yw'ch *tystiolaeth*?' Wedi'r cwbl, mae tystiolaeth, sy'n hen gysyniad yn y Beibl, bellach yn bur flaenllaw ymhlith gofynion y gwyddorau hwythau. Tuedda'r naill i gyhuddo'r llall o ddibynnu ar ragdybiau. Cyhuddant ei gilydd efallai o adael gormod o fylchau yn y ddadl.

Beth yw lle tystiolaeth ym mywyd y Cristion heddiw? A oes mwy na'r Ysbryd Glân sy'n tystiolaethu i fodolaeth a gweithredoedd Duw? Tybed ai'r Ysbryd Glân yn unig sy'n tystiolaethu am Dduw ym mhopeth a thrwy bopeth? Onid yr Ysbryd Glân yw'r un ymhlith cyfryngau tystiolaethu sy'n ymwybodol gysylltu ac yn agored ddefnyddio'r gweithgareddau daearol i gyd i'r perwyl hwnnw? Dyna'r cwestiynau cyfoes a ofynnir gan Gristnogion ffyddlon wrth wynebu seciwlarwyr.

Gawn ni eistedd am ychydig i synfyfyrion yn y cyd-destun goruwchnaturiol ynghylch pa gymell a thystiolaethu sydd ar waith, yn gyntaf i gymell y gred bod Duw yn bodoli o gwbl, ac yn ail y dystiolaeth i argyhoeddi bod Duw yn gweithredu.

Mi dybiaf i fod yna o leiaf saith dystiolaeth gynhwysfawr i Dduw. Yn gyntaf, ceir yr hyn a eilw diwinyddion yn *Sensus divinitatis* (y Synnwyr mewn ymwybod cynhenid o Dduw). Yn ail, ceir *Cydwylbod* sy'n cyhuddo dyn o'i angen, neu'i brinder, neu'i fai. Ac yn drydydd, yng ngŵydd **mawrhydi'r Greadigaeth ei hun**, gall dyn sefyll yn ôl a phlygu'i ben mewn diolch a syfrdandod. Dyma'r tri pheth a all beri i'r person effro a hydeiml *drwy Ras Cyffredin* gredu fod y fath beth â Duw yn bodoli. **Nid profion ydynt, ond tystiolaethau. Nid ydynt yn anffaeledig.** Dim mwy, ar y lefel yna. Ond y mae Duw yn gallu defnyddio'r elfennau hyn i fynd yn bell weithiau ym mywyd anghredadun. Dyna'r tri cyntaf felly a neilltuaf i drafod 'Bodolaeth Duw' ymhlith y saith dystiolaeth. Rhoddion yw 'tystiolaethau'; ond rhoddion *a dderbynnir* yn gyffredinol fydd 'profion'. Ni thry tystiolaethau'n brofion nes setlo *problem clywed*.

Wedyn, ceir **pedair tystiolaeth arall hollol wahanol lle y mae Duw ar waith yn fwy uniongyrchol.** Yn gyntaf o'r pedair, ceir tri phrawf anffaeledig y gellir eu hynysu ynddynt eu

hunain yn eu hawdurdod ac yn eu gweithrediad, er nad yw'r ymateb gan y gwrandawr yn effeithiol o raid. Tystiolaethau yw'r tri – y **Beibl**, y **Mab a'r Ysbryd Glân**. Wedyn, ceir pedwerydd prawf tystiolaethol ar waith yn tystiolaethu am y Groes a'r Atgyfodiad – ond yn ffaeledig, sef cyfrwng yr **Eglwys**. Gall Duw ddefnyddio pobl feidrol felly i fod yn gyfrwng i'w Ysbryd Glân weithio'n llwyddiannus anfeidrol fel tystion i bobl glywed o'r newydd a chredu mwy na 'bodolaeth' Duw.

Ceisiwn ystyried y saith hyn yn yr adran hon. Hwyl mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yw'r rhai sy'n ysgogi'r Beibl: y mae ganddynt berthynas, ac yn wir gydwead.

* * *

Wrth ymhél ag arolygu, dros y blynyddoedd, y strwythur neu'r fframwaith i lenddull Beirniadaeth Lenyddol yn gyffredinol, cefais hefyd mai hwylus oedd ymdrin â thair Gwedd hanesyddol gwbl gytûn ond helpfawr wahân yn eu swyddogaeth. Sef Deunydd, Ffurf, a Chymhelliad. Ymddangosai i mi mai dyma'r safbwyntiau cyfun i glymu'r disgrifiad adeiladol ym mhob llenyddiaeth. Dyna diriogaeth driphlyg y Beibl. **Rhan gyntaf y Cymhelliad i'r Beibl yw tystiolaethu.**

Mae Cymhelliad ei hun, ar unwaith, felly, yn ffactor mor angenrheidiol â Deunydd a Ffurf ac yn ymhél â phwrpas pob llenyddiaeth. Amhosibl ei chael hebdo. Mae'n cwmpasu'r ysgogiad gwreiddiol. Gall hynny fod yn bur amrywiol. Ond teg yw cydnabod bod y fath beth â *Chymhelliad* yn bod yn ôl ei fraint ei hun, yn **rhan hanfodol o fywyd ac o feirniadaeth lenyddol yn y defnydd o bopeth.** Mae'n wir ynglŷn â *Deunydd* a *Ffurf* eu bod yn gorfod wynebu, a dibynnu gymaint ar *Gymhelliad*. Ond gellir eu trafod mor helaeth arbenigol, bob un yn unigol yn ôl ei briodoleddau gwahanol; eto, gan mor bwerus a hanfodol yw dylanwad y *Cymhelliad*, daethpwyd i synied am gyfundrefn driol, a oedd yn dechrau gyda *Deunydd* (amorffaidd ddigon yn fynych) ac a yrrwyd tuag at Fynegiant drwy geisio trefn arno'i hun, ac yn dod o hyd i *Ffurf* gyfundrefnus unedol. **Y Cymhelliad i'r Beibl yw'r ddeinameg y tu ôl i'r Deunydd a'r Ffurf gyda'i gilydd yn cyniwair drwyddi draw ar ffurf saith dystiolaeth. Cymhelliad sy'n eu gwthio oll.**

Ceisir yn y fan hon yn awr arolygu ac amlinellu'r saith dystiolaeth hyn drachefn yn uned gydweithiol. Sylwn fod y 'Beibl' a'r 'Eglwys' fel petaent yn amlycach o ran sylw cyhoeddus na'r lleill fel tystiolaethwyr gweledig i'r byd naturiol. Ond credaf fod angen ymwybod â'r saith ynghyd.

Cyfuniad neu gyd-dystiolaeth o'r grymoedd hyn sydd yn llaw'r Tad tragwyddol yn adeiladu'r Meddwl Cristnogol, felly. Datgelir y saith dystiolaeth unigol yn y Beibl fel hyn:

1. *Presenoldeb y Synnwyr o Dduw* [BODOLAETH: Gras Cyffredin]

Mae Cymhelliad, naill ai'n anymwybodol neu'n ymwybodol y tu ôl i bopeth a wnawn. Pryd bynnag y gweithredwn, mae yna fwriad fel arfer, ei sylweddoli neu beidio. Ond yr un mor ddiddorol i mi yw'r cymhelliad cudd y tu ôl i'r gwaed sy'n cyflymu yn y galon neu'n cynhyrfu'r nerfau, y

cyhyrau neu'r ymennydd. Nid ymenyddol yn unig yw'r ymwybod hwn. Mae'n ffaith fod ein cyfansoddiad, o ran natur, yn gweithio'n anweledig yn adlewyrchu'r *Synnwyr o Dduw* sydd gan y dyn naturiol. Fel y rhoddodd Duw galon sy'n medru cyflymu, felly y **rhoddodd Ef synnwyr yng nghyfansoddiad pobun ledled y byd, mae'n ymddangos, i ymwybod â'i fodolaeth, ac o bosibl â'i bresenoldeb**. Plannwyd y gallu mewn dynoliaeth i wybod am fodolaeth Duw.

Ceir ymwybod cynhenid yn fyd-eang fod yna fath o synnwyr ynghylch y *goruwchnaturiol* o'i gyferbynnu â'r *naturiol*. Y tu allan i'r ego, y mae yna rywbeth ar wahân, a gall y sylweddoliad o'r 'Uwch' hwn ddifrifoli nes gyrru dyn i'w addoli. Dywedir nad yw hyn ar gael ar gyfer pawb. Ond cawn weld. Yn sicr, fe'i gwedir, er ei fod yn fyd-eang.

Dyma'r craidd. Ond hynod bwysig yw cofio am y tair tystiolaeth gyntaf (a dylanwad y pedair ar eu hôl) eu bod wedi'u **rhwystro'n wreiddiol i'r eithaf rhag synnwyr iach** gan wahaniad oddi wrth Dduw, sef y Cwmp i awdurdod pechod. Ond dechreuir pob tystiolaeth felly yn yr ymwybod hwn o'i *fodolaeth*. Ymwybod yw yr ymladda dyn yn ei erbyn yn fynych.

2. *Y Gydwybod* [BODOLAETH: Gras Cyffredin]

Cyd-wybod yw hadau'r ymwybod o **berthynas ag arall – â phobl a phethau**. Byddai'r rhan fwyaf ohonom yn barod i gyfaddef fod gennym gydwybod. '*Cyd*' yw un o nodweddion bodolaeth bersonol. Mae'r cyswllt hwn a'r 'drylliad' o berthynas yn ei amlygu'i hun yng nghyd-destun pechod. Ac felly, rhaid gwylio dyrchafu'r Ego, gwylio ymchwyddiad hil a dosbarth, bod yn wylidwrus o awdurdod, lle y mae dolennau cyd-barchol yn cael eu peryglu. Mae hefyd yn ysgogi'r angen i ofalu dros eraill mewn angen mawr sydyn. Dyna feithrin y medr i ddirnad pechod – a difrifoldeb y drwg ynddo. Ond nid gweithredu yw dirnad. Mae hefyd yn hogi'r ysfa am 'ryddid' ar ffurf 'cyd-ryddid', a hefyd yr angen melys i *wasanaethu*. Dyma ymwybod arall yr ymleddir yn ei erbyn.

3. *Y Greadigaeth (Deddfau)* [BODOLAETH: Gras Cyffredin]

Rhyfeddod i'r ymennydd yw'r Greadigaeth, y deddfau, a mater. Bu'r Gydwybod yn cydagor â'r sylweddoliad mewnol o'r ddeddf Foesol. Ond yn wir, egyr hefyd i'r *egwyddor o ddeddfau ei hun*, ffenomenau hanfodol i'r Cread. Hynny yw, y mae'n cydagor â'r sylweddoliad fod yna Drefn neu Wir neu Iawn o gwbl yng nghalon y Greadigaeth. Dyma driawd Bodolaeth Amgylchfyd. Mae yna iawnder yn llywodraethu pethau. Y Cyfiawnder Cariadus hwn yw'r awdurdod y mae'n ofynnol i'r Greadigaeth ei dderbyn a'i wasanaethu. Mae'r Greadigaeth yn dynodi dirgelwch y Natur y mae iddi achos a deddfwr. Gall esgor ar deimladau eithafol werthfawrogl o ryfeddol. Rhodd ydyw – fel bywyd, er enghraifft, i bawb. Gŵyr pawb yn ei isymwybod fod ganddo amgylchfyd pwysig o ddeddfau perthnasol, y gellir eu cymryd yn ganiataol. Dyma hefyd yr ymwybod o Fater.

4. *Y Beibl* [Gras Arbennig: ANFFAELEDIG]

Dyma gam arall. Dyma rodd deheulaw Duw, mewn iaith, y gyfathreb fanylaf ddynol. Yn y berthynas hon, y mae'r Duw Cristnogol yn cyfathrebu â'i greadur drwy eiriau, mewn modd anffaeledig a datguddiad. Hynny yw, y mae'r gwir y buwyd yn sôn amdano yn 1,2,3, ac eto ar ôl hyn drwy 5,6,7, yn cael llais uchel mewn ymddiddan dwyochrog ysgrifenedig rhwng Duw a dyn: megis datguddiad/gweddi. Crisielir a chrynoir hyn gan yr Awdur o awduron. Datguddiad yw hyn a roddir i bawb yn ddiwahân, er mai 'ychydig' sy'n credu. Datganiad glân yw sy'n hunan-wireddol.

5. *Y Mab* [Gras Arbennig: ANFFAELEDIG]

Y gyfathreb lawnaf yn bersonol, yn gyd-gyflawn â'r Ysbryd Glân, yw Ymgawdoliad y Mab. Ef sy'n cyflawni'r berthynas, drwy garu, â chyflawnder y cyneddfau dynol. Ef yw arweinydd hardd pob ymostyngiad; mae'n cynrychioli cyd-ddyn ac yn **gwneud iawn hyd at ei aberthu'i hundros gyd-ddyn. Rhodd ddwyfol** yw i elyn. Mae'n ymostwng i Dduw'r Tad ac yn ymostwng i'w gyd-ddyn mewn ffordd wahanol yr un pryd. Dyma'r brif ddolen rhwng Duw a dyn, a'r ffurf ar Dduw sy'n agor yr adnabyddiaeth gliriaf o'r cariad dwyfol. Pwy bynnag sy'n derbyn Iesu Grist, derbyn y mae Fywyd Tragwyddol (Luc 19:10): 'Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig.'

6. *Yr Ysbryd Glân* [Gras Arbennig: ANFFAELEDIG]

Fel pob aelod arall yn yr un Duwdod, y **mae'r Ysbryd Glân yn rheoli'r Greadigaeth, ac mae'n dod i wasanaethu'r Drindod drwy gyfeirio at y Mab. Mae'n ysgogi ysgrifennu'r Beibl. Mae'n bywhau ffydd, yn cyflwyno bywyd o gredu** (gyda pharch ac ymostyngiad i Dduw ac i'w gyd-ddyn). Mae'r ysbrydol yn annog ac yn hyrwyddo rheoli'r materol a'r cnawdol gan gyflawni'r berthynas a'r profiad o Dduw drwy Grist mewn pobl. Mae hyn yn ddolen hollalluog rymus. Sylwer; grym yn y berthynas â Duw yw, heb drais; gyda gwasanaeth yn nod yn y berthynas â dyn. Fel Iesu Grist, y mae'r Ysbryd Glân, yn cael ei gynnig eto i bawb; ond 'ychydig' yw'r rhai sy'n ei dderbyn.

7. *Yr Eglwys* [FFAELEDIG: Gras Cyffredin a Gras Arbennig]

Mae'n hynod allweddol, yn ddiffiniadol, i **gyferbynnu'r 'eglwys sefydliadol' â'r Eglwys Ysbrydol**. Mae'r eglwys sefydliadol i'w pharchu. Mae'n un o sfferau allanol ymarferol bywyd; ac yn fwy na hynny, dyna'i sffêr arferol hysbys yn yr ymgais gan ddyn crefyddol i lunio **cymdeithas i bregethu Iesu Grist, ei gyd-addoli, a'i gyd-wasanaethu**. Ond oherwydd pechod dyn, rhaid gwylid, yng nghyfundrefnwaith unol y sfferau'n allanol, nad yw'r Eglwys yn cael ei llyncu yn ei threfniadaeth fewnol yn ôl deddfau a bodolaeth sfferau eraill. Cyd-adeilad yw'r sfferau oll i gyd-fawrygu Duw. A pechod yw eu cymysgu â'i gilydd yn grefydd aml-ffurf relativ drwy Jihadiaeth, Crwsadau na Cromwelliaeth, Stalinaeth seciwlar na gorfodaeth ddynol arall. Mae'r syniadaeth am or-ganoli imperialaidd gan y creedig yn null Babel yn haeddu chwalfa. [Cyferbyniwn hyn â'r Eglwys dragwyddol, aelodau corff Crist yn etholedig anffaeledig.]

Gwyddom mai Cyfundrefneg saith-ochr gyflawn yw'r rhestr hon o un i saith o dan

deyrnasiad Tad, a phob un yn dibynnu'n ostyngedig ar ei gilydd. Rhaid oedd eu henwi gyda'i gilydd yn uned Tystiolaeth fel hyn cyn mynd ati ymhellach i'w diffinio'n fanylach. Y maent bob un yn gweithio drwy'i gilydd, heb amddifadu'r un. Ond uned ydynt, ac yn eu plith y mae'r Ysbryd.

Ceisir ystyried beth yw swyddogaeth yr Ysbryd Glân o fewn y Drindod, a sut y mae'r Ysbryd Glân yn cydfffitio'n gydiol o fewn y fframwaith saith ochr hyn. Cydnabyddir bod yna waith amryfal a gysylltir ag ef, o'i ran yn yr Arfaeth a'i bresenoldeb gweithredol yn y Greadigaeth ymlaen i awduraeth y Beibl: ni ellir llai na chyfrif mai *Tystiolaethu i'r Mab y mae'r Ysbryd yn bennaf*. Mawryga'r Mab, gan gyfeirio'i bobl ato Ef, a'n goleuo yn ei gylch. Gogoneddu'r Mab mewn gostyngeddwrwydd a chariad, dyna o hyd yw **prif waith yr Ysbryd, a phrif nod tystiolaethu**.

Beth yw'r Dystiolaeth gyfun sydd gennym felly yn y fan hon i Dduw? Nid beth sy'n aileni Cristion, ac nid beth yw'r dystiolaeth ganolog i ddatguddio bodolaeth Duw byw i Berson? Ond pa fath o wreiddyn a dolen rhwng y rhain sydd gan y Creawdwr a'i gredadun yn grwn, heblaw rhoi ymdeimlad i'r sawl sydd heb fod yn gredadun fod yna Dduw sy'n bodoli iddo eisoes?

***Yn gyntaf**, ar y lefel fwyaf elfennol, dywed y Synnwyr o Dduw (Sensus Divinitatis) fod Duw yno, oherwydd cynneddf etifeddol sy'n rhoi ymwybod drwy'r Ysbryd Glân fod Duw ar gael. Hedyn yw.*

***Yn ail** ac yn gysylltiedig, y Gydwybod foesol a'r Ddeddf foesol. Dyma'r Ymwybod fod yna'r fath beth â chyferbyniad gan yr Ysbryd Glân, yn y galon, rhwng da a drwg.*

***Yn drydydd**, y Greadigaeth, a'r Drefn Naturiol. Mae hyn yn cynnwys gwerthoedd esthetig. Geilw rhywrai hyn yn Llyfr Cyntaf Duw. Mae'r Ysbryd Glân yn datguddio yn y Greadigaeth fod ynddi fawredd a rhyfeddod a strwythur gallu Duw.*

***Yn bedwerydd**, y Beibl. Mae Duw yn siarad drwy'r Ysbryd Glân â phobl arbennig – yr awduron etholedig yn gyntaf– amdano'i hun a'i Arfaeth. Cyflwynir Gair Duw ar gyfer canolbwyntio ar y Mab, yn berson dwyfol. Y Beibl yw'r 'ail' lyfr.*

***Yn bumed**, mae Duw yn anfon Ei Fab i'w ddatguddio'i hun ac amlygu drwy'r Ysbryd Glân ei Gariad drwy'r Ymgnewdoliad, Croeshoeliad, a'r Atgyfodiad, i bawb.*

***Yn chweched**, mae'r Ysbryd Glân yn tystiolaethu yn uniongyrchol ac yn llefaru am Drugaredd Duw ac yn estyn adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist i'r rhai sy'n ymostwng iddo. Mae'n cynhyrchu ac yn cymhwyso'r Gair.*

***Yn seithfed**, yr Eglwys, sef y rhai a ailanwyd gan yr Ysbryd Glân sy'n tystiolaethu i eraill mai Crist yw'r Arglwydd a'i fod yn gallu rhoi bywyd newydd i dlodion yn yr Ysbryd. Mae adnabod y rhain yn*

gallu bod yn syndod gwaredigol.

Ni raid ychwanegu fod y saith hyn yn fframwaith cyflawn sy'n gallu bod ar waith drwy Ras Cyffredin. Hynny yw, fe ellir eu cynnig i bawb yn ddiwahân, ond dim ond ychydig a fydd yn ymateb yn groesawus, sef y rhai sy'n profi Gras Arbennig dan fendith gan yr Ysbryd Glân. Fel yna y mae'r Cwlwm ar waith, **gyda'r tri chyntaf yn naturiol gyffredinol, y tri nesaf yn weithred arbennig, a'r olaf yn gyfanswm o'r rhai sy'n derbyn y chwech hynny uwch eu pen.**

I mi, o'r Tair Gwedd a ynysais ar gyfer dadansoddi fframwaith meddyliol llenyddiaeth – sef Deunydd, Ffurf, a Chymhelliad, yr olaf sy'n fwyaf diddorol erbyn cyrraedd y rhan hon o'r ymdriniaeth. Dyna'r un a esgeuluswyd yn arwynebol, gan feirniaid dros yr oesoedd, fel Gwedd benodol. Cymhelliad yw'r un a drafodwyd leiaf. A dyna'r hyn sydd fel pe bai'n cydlynu'r ddwy arall. Mae'n gyrru sylwedd y naill drwy strwythur y llall, ac yn eu bywydu.

Ac i mi, o'r Tri Pherson a enwir yn y Duwdod (Tad, Mab, ac Ysbryd Glân) yr olaf yw'r un a gysylltir fwyaf o ran swyddogaeth benodol ag ysgrifennu'r Beibl ac â'i gymhwyso i galonnau pobl. Wrth feddwl am Gymhelliad fel ffactor cyfreithiol ac wrth ystyried pam a sut yr ysgrifennwyd y Beibl gan yr Ysbryd drwy awduron dynol, deuthum i'r casgliad mai dau ddiben, yn bennaf, sy'n cwmpasu'r ateb, sef Tystiolaethu ymarferol a Gogoneddu. **Wrth ystyried Cymhelliad y Beibl, nid wyf yn mynd ato fel pe bai'n un llyfr ymysg llawer, ac yn debyg o fod yn drafodadwy yn ôl yr un Cymhellion â llyfrau eraill. Rhaid sefyll yn ôl ac ystyried beth a allai fod yn Gymhelliad hollol arbennig i'r gyfrol hollol unigryw hon yn benodol.**

Yn y ddau gymhelliad hyn, beth yw lle'r Gras Cyffredin a'r Gras Arbennig sy'n llenwi'r swyddogaethau hyn yn y Deunydd a'r Ffurf sydd gan y Gair? Gwn fod Cristnogion yn weddol gytûn gan mai *Gogoneddu* yw prif waith popeth a phobun, ac mai *Tystiolaethu* yw priod waith y Beibl a'r Eglwys, ac yn y cyd-destun hwnnw yn briod waith i'r Ysbryd Glân. Y mae'n weddus i ni ledur rhwyd-drafodaeth yn lletach, ac arolygu'r prif bwyntiau sy'n ymwneud â phob pechadur (ac â phob llenor Cristnogol) ar wyneb y ddaear sy'n ceisio pendroni uwchben y ddau weithgaredd hyn.

Mewn Beirniadaeth Gyfansawdd, mae'r ddwy wedd gyntaf, Deunydd a Ffurf, yn ddefodol gyfarwydd. Nid yw'n arferol bellach i feirniaid seciwlar fod yn rhy benodol yn eu hagwedd o'u 'gwahanu' neu'u 'cyferbynnu' gan fod y ddwy wedd hynny mor glymedig a diwahân yn ei gilydd. Eto, mae'r gwahaniaeth rhwng gogwydd y naill a'r llall yn mynnu eu bod braidd yn amlwg wahanol o ran eu cymeriad mewn beirniadaeth.

Buwyd eisoes yn trafod yn y gyfrol hon beth yw'r **Deunydd** yn y Beibl. Cynigiwyd mai'r nod i hynny oedd y Gwirionedd am Dduw, am Ei gymeriad a'i Weithredoedd, a'i berthynas â dyn ac â'r Greadigaeth. Ceir pwyslais ar Hanes y Crëwr a'r Gwaredwr wrth ymwneud â phechod dyn, a

cheir cyfeiriad eglur i Hanes Rhyfedd Duw, sy'n arwain at Ymgawdoliad y Mab, Ei fywyd glân, a'i aberth iawnol i achub dynoliaeth. Roedd y Gwirionedd hwnnw'n gyson baradocsaidd, oherwydd bod Hanes dyn wedi'i seilio ar gelwydd, ar falchder, ac ar elyniaeth dyn tuag at Dduw cyfiawn a chariadus.

Gwelsom fod **Ffurf** y Beibl yn Undod o lenddulliau (*genres*) gwahanol. Mae'r llenddulliau hynny yn adlewyrchu'r Deunydd unol. Gan fod llawer o'r Deunydd gweithredol ei hun yn wyrdroad gan ddyn brith, er yn ddatliad o ddaioni Duw, ceir Hanes a Mawl mewn gwahanol ffurfiau. Ceir yr undod hwnnw mewn Canon sy'n Llyfr o lyfrau. Ond gan mai'r berthynas rhwng Duw a dyn yw'r testun, sy'n sôn llawer am y Goruwchnaturiol a'r Naturiol fel ei gilydd, mae'r Llythrennol a'r Troadol yn cyd-ymdrechu i fynegi mewn iaith ddynol yr hyn sydd y tu hwnt i'r Rhesymol ac eto'n cynnwys y Rhesymol.

Erys **Cymhelliad** i weithredu glymu Amryw yn yr Un. Er bod Cymhelliad wedi cael llawer o sylw achlysurol a phwysig gan Feirniaid Beiblaidd dros y canrifoedd, mewn Beirniadaeth Gyfansawdd am y tro cyntaf y mentrwyd ei drin o fewn triawd fel **Uned gyffelyb drwy Ddeunydd a Ffurf**. Hynny yw, dyma (fel Deunydd a Ffurf) elfen mewn Beirniadaeth **sy'n gyd-orfodol ac yn gyd-anhepgor ym mhob llenydiaeth. Dyma'r ddeinameg sy'n gyrru'r Deunydd drwy'r Ffurf, ac yn rhoi Pwrpas i'r cwbl. Dyma'r ysbrydoliaeth yn y cwlwm ffactorau.**

Dychweler felly at ein hesboniad o fframwaith neu gynllun y gyfrol hon. Cyn mynd ati i drafod y Tair Gwedd feirniadol hynny yn y gyfrol hon, **Deunydd, Ffurf, a Chymhelliad**, cafwyd Rhagymadrodd a ymwnâi â'r Awdur. A dywed bwy oedd ef. Nid anghyfarwydd yw cyfeirio at Awduraeth y Beibl fel gwaith unol gan yr Ysbryd Glân ei hun a natur ei waith. Yn wir, ceid cryn gytundeb mai tystiolaethu i'r Arglwydd Iesu Grist, a thrwy'r Beibl oleuo ac ysbrydoli darllenwyr tlawd oedd priod swyddogaeth y Trydydd Person o'r Duwdod. Hwyrffrydig, efallai, oedd arolygu'r modd y clymid y Tair Gwedd hyn, a nodi fel yr oedd Gras Cyffredin a Gras Arbennig yn dilyn saith ffordd benodol i gyflawni'i Gymhelliad i Dystiolaethu i'w Ogoneddu. Hwyrffrydig hefyd o safbwynt Beirniadaeth Lenyddol fu archwilio perthynas yr Awdur a'r ddau fath hyn o Ras yn undod.

Yr wyf am rannu'r Adran hon ar Gymhelliad yr Awdur yn ddwy ran, sef Tystiolaethu a Gogoneddu. Credaf mai dyna yw'r ddwy swyddogaeth fwyaf penodol sydd i'r Ysbryd Glân yn ei gysylltiad â'r Beibl. Y rhain, gredaf i, yw'r ddau brif gymhelliad wrth ysgrifennu'r Beibl.

Yn gyntaf, Tystiolaethu. Mewn gwirionedd, y mae pob llenyddia yn dystiolaethu. Mae'n mynegi'r Awdur. Mae'n tystiolaethu i'w werthoedd, i'w barch at gelfyddyd a bywyd; mae'n cyfleu'i ddychymyg am ei deimladau a'i syniadau; mae'n dystiolaeth o'i ehangder wrth brofi'r bydysawd ac wrth brofi'r bywyd ysbrydol. Cyhoeddi math o Wir cydlynol a wna.

Yng ngwaith yr Ysbryd Glân a swyddogaeth y Beibl, y mae'r dystiolaeth yn gatholig ac yn

amrywiol fel offeryn. Dechreua'r Adran hon yn yr hedyn lleiaf a'r mwyaf elfennol gyda'r Synnwyr o Dduw yn y canol; ac ymegyr i gynnwys pob profiad o fywyd ac o Dduw tystiolaethol sy'n bosibl. Mae'n tystiolaethu yn hyn o beth i bob peth cadarnhaol gan gychwyn yn yr ymwybod lleiaf a mwyaf cyffredinol o berthynas dyn a Duw. Mae'n egluro ewyllys Duw yng ngwreiddyn ei gyffyrddiad mwyaf syml.

Yn olaf, Gogoneddu ei hun. Mae'n gwneud mwy na Thystiolaethu. Mae'n dyrchafu, yn helaethu, ac yn mawrygu. Mae'n cymhwyso'r wybodaeth (am ryfeddod y Greadigaeth a Bodolaeth Duw) i galonnau dynion. Mae'n cyfeirio perthynas dyn a Duw i berwyl arbennig. Mae'n cynhyrfu credinwyr ac yn eu dwyn i fwynhau Duw. Mae'r egluro hwnnw'n troi'n rhyfeddu a gorfoleddu. Mae popeth goruwchnaturiol yn troi'n destun mawl, taw sut y bydd y mawl hwnnw'n cael ei fynegi.

Mae safle Gogoneddu yn yr Arfaeth, o fewn diben y Greadigaeth a Dynolryw, yn cael anrhydedd yn ôl trefn y cwbl sydd i'w gael yn naturiol ac yn oruwchnaturiol. Y mae'n ben draw i gadwyn aur. Yn ystod tröedigaeth yr unigolyn, a all fod yn eiliedyn o ran hyd, gellir ymwybod â'r sydynrwydd hwnnw mewn nifer o gamre datblygol. Pen draw ac uchafbwynt pob Cristion yw'r Gogoniant. Fe grynhoir hyn gan yr Apostol Paul yn yr adnod adnabyddus (Rhuf. 8:30), '*A'r rhai a ragordeiniodd, fe'u galwodd hefyd; a'r rhai a alwodd, fe'u cyfiawnhaodd hefyd; a'r rhai a gyfiawnhaodd, fe'u gogoneddodd hefyd.*' Wrth ymdroi gyda rhai unigol o'r camre hyn, bydd y Beibl yn egluro'n fanylach adeiladwaith rhai ohonynt, gan ychwanegu ystyriaethau eraill, megis aileni, mabwysiadu, sancteiddio. Ond bob amser, y mae'r olrheiniad hwn yn dod i gwlwm mewn Gogoniant.

Ond yn ogystal, wrth olrhain agweddau adeiladwaith y weithred lenyddol, – sef Deunydd, Ffurf, Cymhelliad, – fe geir mai'r hyn sy'n gyrru'r tri ynghyd, yn eu hysgogi, ac yn peri iddynt gael eu cyflawni yw Cymhelliad ei hun. Try Tafod hefyd yn Fynegiant drwy Gymhelliad. Ac er bod Cymhelliad yn medru ymddangos yn dra amlochrog, y mae bob amser yn cynnwys math o bwrpas neu ddiben ymysg pethau eraill, sef pen draw iddo'i hun. Ac o archwilio pen draw meddwl ac ysbryd dyn, yn neilltuol yn y celfyddydau, wedi sylweddoli anocheledd y wedd gadarnhaol a chreadigol, a'r rheidrwydd i gydnabod y negyddol yr un pryd, **anodd synied nad yw Gogoneddu yn darparu craidd absoliwt ac uchafbwynt adeileddol i'r cyfan.**

SYNNWYR O DDUW

Duw ei hun wrth reswm yw ffynhonnell pob Tystiolaeth ohono'i hun. Duw hunanwireddol yw, o raid. Pwy arall a allai dystiolaethu, ar wahân iddo? Mae ganddo sawl cyfrwng i'r dystiolaeth honno, cyn belled ag y gwelaf i. Y rhain yw'r Cymhellion i'r Beibl ei hun, o ran ysgrifennu ac ymateb iddo. Ond mae yna sianelau cytûn i'r dystiolaeth y mae am ei chyflwyno.

Closiwn, yn y man mwyaf elfennol, at y **synnwyr sy'n gynhenid ac yn etifeddol** i ddyn yn gyffredinol, (megis y cof ei hun), y synnwyr fod yna Dduw ar gael o gwbl. Ni raid fod hyn yn argyhoeddiad clir nac awdurdodol. Efallai na fydd yn ymwybodol aeddfed i rywrai byth. Er ein bod yn medru 'cofio', pwy ohonom sy'n naturiol ddarganfod yn fwriadol fod gennym 'gof' o gwbl? **Ei ddefnyddio a wnawn heb bendroni am y ffenomen o gwbl, oni fydd yn cloffi.** Ond mae yna synnwyr nid anghyffredin fod yna rywrai ymhlith y bobl o'n cwmpas, yn benodol neu'n annelwig, leiafrif bach efallai, sy'n cymryd yr ymdeimlad o Dduw ei hun o ddifri. Yn wir, adeg argyfwng dwys neu arwynebol neu sydyn, fe all sioc gynhyrfu ebychiad neu lw neu gri am gymorth gan lawer un, hyd yn oed tamaid o weddi flêr a (Syndod disyfyd!) apelio at rywbeth o'r enw 'Duw'. Mae hyn hefyd yn cyfrif am ledaeniad gwybodaeth am Dduw drwy'r byd sydd wedi esgor (oherwydd y Cwmp) ar yr astudiaeth o Grefydd Gymharol. Ond mae yna rywrai ymhlith y boblogaeth sydd wedi derbyn llawer mwy. **I Gristion, gall y synnwyr hwn drwy'r Ysbryd Glân ddeffro'n annisgwyl yn ei enaid, ymledu, a dod yn realiti gliriach.** Yn wir, er mor annelwig y gall fod, fe all yr ymwybod hwn flodeuo a dod yn fyw iawn. Fe all brofi twf a mwyfwy o wybodaeth. Bu diwinyddion drwy'r oesoedd, fel Awstin, Acwin, a Chalfin, a mwyfwy yn y cyfnod diweddar gan gynnwys ambell Galfinydd o athronydd fel Alvin Plantinga, a phregethwyr megis Martyn Lloyd-Jones, yn myfyrio ac yn traethu am yr ymwybod cyntaf. Ond at ei gilydd, ychydig o sylw sydd iddo, am amryfal resymau, gan weinidogion a chapeli cyffredin. Eto, efallai, yn fy marn i, y gall fod **cyswllt o fath rhwng y cnewyllyn hwn o Synnwyr o Dduw a'r term 'enaid' (o'i gyferbynnu â'r term 'ysbryd')** a medr i ddysgu rhywbeth am y ddealltwriaeth o Dduw yn fwy cyffredinol yn ein profiad. Dyma'r cam cyntaf sydd yn uwch na'r anifail.

Yn yr adran hon (y drydedd yn y cyfuniad *Deunydd, Ffurf, Cymhelliad*), yr wyf am sôn am gwllwm o gynorthwyon cynhenid ac ychwanegol sydd i'w cael inni *gredu yn Nuw*. Soniaf yma'n gyntaf am allu ynom, sydd wedi cael ei eni ynom i greu fel y cyfryw, **credu fel cynneddf**, fod yna Dduw. Yn ein natur ni, mae yna ryw duedd sy'n ein gyrru ni i weithredu'r gynneddf o greu pethau cyn eu profi, er mwyn eu hamau wedyn efallai. Gallasem fod wedi trafod yn y fan hon 'ddadl Pascal' ynghylch betio ac elw, a dangos felly fel y gallwn fod yn sylfaenol ar ein *helw* o greu yn Nuw. Hynny yw, fe'n hwynebir ni'n noeth gan ddewis bydol rhwng ennill-ennill a cholli-colli. Y peth callaf mewn cyd-destun felly yw credu. Ond yr un pryd, hyd yn oed mewn amgylchiadau fel

yna, fe'n gyrrir ni weithiau am ryw reswm hysbys dwfn tua'r negyddol, i anghredu Duw.

Bu dadleuwyr athrylithgar fel Tomos Acwin a Chalfin, yn datgan fod Duw yn ei ddatguddio'i hun i bob dyn drwy ddawn arbennig i wybod amdano. Hynny yw: fel y mae gennym ni amryw gynneddfau naturiol, megis y dychymyg, y cof a'r rheswm, ac yn y blaen, felly y mae gan bob un y synnwyr o Dduw i ymateb i rywbeth y mae Hwnnw ei hun yn ei wneud. Fe allwn ni geisio tagu hyn a'i wthio i lawr i'r isymwybod. Ymosodwyd arno gan y Diafol. Ond y mae Ef yno. Sôn yr wyf am fwy na rheidrwydd i gredu 'rhywbeth-rywbeth' yn unig, ond y posibilrwydd potensial i ymwybod â Duw. Nid ymgais i berswadio neb o'i fodolaeth lawn yw crybwyll y fath ffenomen. Dim ond sôn bod y fath ymdeimlad yn bodoli gennym ni.

Awgryma'r astudiaeth o Grefydd Gymharol fod hyn yn awgrym llydan sy'n werth ei ystyried mewn esboniad amdani. Mewn pŵl piniwn a gymerwyd ledled y byd ychydig o flynyddoedd yn ôl, cafwyd mai dim ond 4.4% o atheistiaid go iawn a oedd i'w cael, ynghyd â rhyw 16.4% o bobl eraill 'anghrefyddol'. Ceid felly fod yna bron 80% o bobl a arddelai gred mewn rhyw fath o dduw, neu'n ymwybod â'r dimensiwn goruwchnaturiol. Hyd yn oed ym Mhrydain, sy'n cael ei chyfrif y dyddiau hyn yn wlad amlffydd braidd o safbwynt gwerthoedd ysbrydol, fe geid 71.75% a honnai eu bod yn Gristnogion, o leiaf tan y degawd diwethaf. Gyda chrefyddau byd-eang eraill, cododd y nifer o arddelwyr crefyddol dros 77%. Ar ryw olwg, mae credu mewn Duw neu'r goruwchnaturiol yn norm, er bod y gwrthryfel yn erbyn ei awdurdod yn naturiol sylweddol, yn arbennig ymhlith newyddiadurwyr. Dyma'r math o Brydain lle y mae arfau'n brif ddiwydiant, cynhyrchu ffisig yn ail, a phornograffwaith yn sibrwd trydydd.

Diddorol sylwi ar yr ymgais fawr a gafwyd gan lywodraethau atheistaidd gormesol yn Nwyrain Ewrop gynt yn yr ugeinfed ganrif i gladdu Cristnogaeth. Dadleuodd Alvin Plantinga fod methiant yn yr ymdrechion materolaidd hyn, wedi saith deg o flynyddoedd yn yr Undeb Sofiet o geisio dadwreiddio'r ymwybod hwn o Dduw, yn cadarnhau (gyda'r ailwreiddio helaeth wedyn) fod y synnwyr o Dduw mor fyw ag erioed.

Credaf i fod i'r gynneddf hon, heb inni sylweddoli, le arwyddocaol, lle y bo'r ymwybod ysbrydol yn cael rhwydd hynt mewn gwerthoedd diwylliannol, i ansawdd llenyddiaeth yn gyffredinol ddyfnhau. Ymddengys i mi yn un o'r ffactorau dyrchafol mewn dynoliaeth, po agosaf y bo at efengyl tangnefedd. Lle bynnag y bôm ni'n teithio drwy'r byd, boed ym mherffedd rhyw goedwig hynod o drwchus neu yng nghanol yr anialwch unigaf, yn amlach o lawer na pheidio, os cyfarfyddwn â phobl, gallwn fentro eu bod (efallai drwy draddodiad llafar, chwedlau, a seremonïau) yn credu eisoes yn Nuw. Mae Calfin yn sôn am hyn fel math o reddf. Ond nid oes gennyf amheuaeth y gall hyn hefyd yn eu plith fod yn wyrdröedig, megis gyda chanibaliaid.

Mae'r Diafol yn credu yn Nuw ac yn crynu. Felly, ar y gris gwaelod – 'bodoli' – 'rŷm ni wedi

cyrraedd lle poblogedig. Fe wyddom ni hefyd (fel mewn cyd-destun Cristnogol) fod y berthynas lawn rhwng dyn a Duw wedi'i thorri ers tro; ac y mae yna duedd reddfól gref i lawer Ei anwybyddu cyn belled ag sy'n bosibl. Mae yna gryn bellter rhwng synnwyr 'greddfól' o Dduw, ac adnabyddiaeth a chariad ohono, ac addoli o'r galon gyda'r holl gorff a'r meddwl a'r ysbryd. 'Dyw deall arwyddocâd marwolaeth Iesu Grist, a'r berthynas sy'n bosibl ag Ef, drwy'r Iawn a dalodd ef, ddim yn dod i mewn i'r ystyriaeth ar hyn o bryd. 'Rŷm ni yn hytrach ger y gwaelod yn grwn.

Ond byddaf yn dadlau bod trafod natur perthynas dyn a ffaith amrwd ac elfennol ynghylch perthynas dyn a Duw, a'r broblem o gredu, yn dechrau yn y fan yna gyda'r datguddiad o synnwyr i ymateb. Gwth cyson yw. Dyw'r goruwchnaturiol ddim yn rhy bell. Dyw e ddim yn bellach na'r ymwybod hwn. Os ydym ni'n ceisio pendroni'n gadarnhaol am y ffaith o 'gredu', fe ddwedwn i mai calondid yw gwybod bod credu o'r fath yn gwbl normal yng nghanol sgeptigrwydd. Mae'r ysbryd sydd gan bob un ohonom, a'r Gras Cyffredin sy gan Dduw, oll yn ein tueddu ni i fod yn elfennaidd wybodus ohono. Hynny yw, mae gennym ni fan cychwyn, er efallai ein bod ni yn nosbarth y babanod, ac er nad yw efallai'n ymddangos yn fawr o werth.

Dywed Paul yntau fod yna gynneddf gennym sy'n ein gwneud ni'n 'ddiesgus' (Rhuf. 1:19-23). Allwn ni ddim pledio – 'doeddwn i ddim yn gwybod.' 'Mae'n eglur,' meddai Paul. Mae hyn wedi cael ei blannu ynom. 'O dwi'n cicio pethau o'r fath ma's,' medd y dyn cyffredin. 'Dwi'n gwadu hyn ac yn gwadu'r llall.' Wedyn medd Sain Tomos Acwin yn dawel: 'Fe blannwyd ynom ni, gan natur, y gallu i wybod bod Duw yn bodoli'. Gan fod hyn yn wir ac yn gweithio'n hysbys ledled y byd, **mae'n sialens inni symud i fyny o ddsbarth y babanod.** Ceir cynorthwyon eraill i ddod i rywbeth dyfnach a mwy adeiladol fel y cawn ddarllen wedyn o'r Gydwybod i Lyfr y Greadigaeth. A mwy.A beth yw'r dosbarth nesaf?

Lle bynnag y ceir y Synnwyr o Dduw, fe geir Gras Cyffredin, a lle bynnag y ceir Gras Cyffredin, ceir yr Ysbryd Glân. Mae hyn yn rhan ganolog o adeiladwaith mawr sy'n cyd-bontio.

Dyma synnwyr heriol sy'n eiddo i ddynoliaeth oll, beth bynnag fo'n cred. Mae'n annigonol o safbwynt aeddfedrwydd Cristnogaeth. Ond yr wyf yn gynyddol sicr, pa lenyddiaeth bynnag a ddarllenwn hefyd, pan ddeuwn ar draws campwaith mewn unrhyw iaith, po fwyaf godidog y bo'i gyfansoddiad, a pho fwyaf uchelfryd y bo'r mynegiant, cryfaf i gyd y bydd, (yn rhyfedd iawn) yn cyffwrdd â dimensiwn ysbrydol o ryw fath. Nid yw'n angenrheidiol fwriadus nac amlwg. Ond myn y synnwyr o Dduw (*sensus divinitatis*) fod yn bresennol yng ngwead popeth i'r sawl a fo'n fywydol effro i orchestion llenyddol. Mewn ffordd ryfedd, fe'i ceir yn y drwg eithaf hefyd. Metaffisegol drwg a da, llon a lleddf, yn yr ystyr wreiddiol, yw campweithiau llenyddiaeth y byd, yn rhyfedd iawn. Hyn a Moesolrwydd sy'n amodi Metanaratif o fath mewn llenyddiaeth ac mewn buchedd i bawb. Mae yna wrthdrawiad, wrth gwrs, mewn dyn i brofi tyndra rhwng credu ac anghredu; ond y

mae'r naill a'r llall yn milwrio o fewn cyd-destun metaffisegol.

Wrth ystyried llawnder bywyd, a'r saith dystiolaeth (neu ddawn) yr ydym yn sôn amdanynt yn yr adran hon, ni chredaf fod yna'r un fwy cyfoes berthnasol sylfaenol na'r un leiaf hon – yr ymwybod noeth â'r Goruwchnaturiol. **Y methiant i barchu hyn sy'n dynodi'r wahanfa fwyaf amlwg rhwng Seciwlaryr a Chredinwyr. Dyna diriogaeth gychwynol y pechod gwreiddiol hefyd wrth gwrs.** Wrth ymddiddan â'r dyn modern, sy'n cynnwys y gwyddonydd, dyma'i rwystr deallol mwyaf, er nad yw'n meddwl am hynny o raid chwaith. Dyma hefyd y deall caeedig mwyaf ofnadwy gredaf i. Nid oes anwybodaeth fwy. Hyn yw'r rhagdyb i bob rhagdyb. **Roedd colli'r cyswllt hwn yn gollu popeth.** Roedd methu â chroesi'r bwloch hwn yn cau'r drws ar y ffordd i mewn i'r prif ddeall. Ni ellid profi ar ryw olwg ddim gwaeth. Dyna'r math o ddeall a ofynnai lawer mwy na'r deall elfennol arferol, ac a ddibynnai ar wahanu ac uno syml. Dyma'r deall ynghynt a ddibynnai ar sythweled canfod cyntefig. Ac os ceisid soffistigeiddio hyn, fe'i soffistigeiddiwyd o fewn rhagdybiau cryf. Dyma faes y rhagdyb fwyaf cyntefig – y rhagdyb lle nad oedd gan ddyn ond dimensiwn 'greddfoll' yn unig i'r naturiol, ac na ellid bellach fynd ymhellach na'r arwyneb. Ceir rhagdyb negyddol wyllt o'r un siâp â'r ymwybod o Dduw. Mae'r **rhagdyb** fod yna wacter hollbresennol yn dipyn o eiddigedd i ambell ddyn naturiol gwahân heddiw, yn ddiaw: rhagdyb yw sy'n rhagflaenu pob deall creiddiol, a hunan-bwysigrwydd iddo. Canfyddiad rhoddedig arall fyddai'r Goruwchnaturiol, cam hiraethus i fyny o'r fan yna, a goleuni dieithr sy'n gwneud dyn yn ddyn, ar ddelw Duw'n fod tragwyddol. Diau, felly, mewn twf dynol, nad oes darganfyddiad 'elfennaidd' sy'n fwy na hyn. Darganfyddiad o agor drysau yw i lawnder pob peth arall, am ei fod yn newid dimensiynoldeb. Math o synnwyr cyffredin yw; ond gall fod yn gam bach cyntaf ar y llwybr tua'r Goleuni.

*

*

*

Yn y byd sydd ohoni, Seciwlariaeth piau'r ffasw. Yn ein capeli yn arbennig yn yr ugeinfed ganrif po fwyaf y cynhelid enwadau hyd yn ddiweddar, mwyaf y clywid am seciwlariaeth (heb ei henwi) a dyneiddiaeth a 'bod yn neis.' Dyna oedd y cyfeirbwyntiau eithaf. Roedd y gwyrthiau wedi'u chwynnu. Roedd y dimensiwn anweledig wedi'i anwybyddu pe gellid. Trowyd y cwbl mor gyfleus naturiolaid ac mor 'foesol' ddidactig ag y gellid, yn 'boliticaidd gywir'. Rhyw araith Nadolig gan y frenhines oedd llawer pregeth. Ac eto, mae'n amlwg fod rhywbeth dwfn iawn wedi digwydd i Gristnogaeth yng Nghymru: mwy nag enciliad tua'r Synnwyr cyffredin cyntefig. Roedd yna ymadawiad o wyrddroad pwerus yn sicr. Roedd yn anodd iawn mewn llawer ardal i neb ddod o hyd i fan addoliad lle'r oedd rhyw fath o gyfatebiaeth ffyddlon ac union rhwng yr hyn a ddarllenem ar hyd a lled y Beibl a'r hyn a bregethid o'r pulpudau. Datguddiai'r Beibl o'r adnod gyntaf hyd yr adnod olaf fod Duw yno. Ceid sôn pendant a diamwys am y goruwchnaturiol; ond chwynnid yn

eithafol – Iesu, Gwirionedd y Gair, y Goruwchnaturiol. Yn fuan iawn, sylwid bod yna ymgais gan un enwad hynod Gymreig i newid enw. Yn lle 'Methodistiaid Calфинаidd', a awgrymai ryw fath o gynnwys ac ystyr ysbrydol, dyma fabwysiadu 'Presbyteraidd' yn derm gweinyddol trefniadol rhonc. Bellach, drwy 'Annibynnol' ac 'Esgobol' a hyd yn oed 'Bedyddiol', fe fyddid yn cael mater pur ymylog yn rhan ganolog o'r teitl; ac yr oedd y rhan fwy sylfaenol a gynhwysai ryw awgrym o ystyr ac egwyddor a chredo am y Cwmp, am y Groes, am y Drindod, ac am yr Ysgrythur wedi'i neilltuo i'r gornel. **Aeth 'bod yn un' yn fater gweinyddol ac nid yn fater o gredu cryf.** O'r braidd y byddid yn clywed mwyach am rai o'r pynciau lle y cafwyd undod yn bur amlwg yn yr Ysgrythur erioed. *'Efallai'* oedd yn rheoli ym mhob man. *'O bosibl'* oedd y cyflwyniad i rin yr efengyl. Credu llipa os cwrtais oedd tinc llawer gwasanaeth bellach. Doedd odid neb o ddifri ynghylch gwirioneddau Ysgrythurol heriol fel 'Uffern'. Hynny yw, bu dargyfeiriad cyfleus, clir hyd yn oed, yn bosibl *heibio* i bresenoldeb Gair Duw. Ceisiwyd adeiladu twll o faintioli daearol â'r Synnwyr o Dduw!

Yn y dyddiau gynt, ceid math o undod elfennaidd mewn Synnwyr o Dduw. Yn y manau lle y ceid ystyried a meddwl uwchben pynciau 'moesol' nis cysylltid hwy fel gynt ag awdurdod dyfnbethau'r Gair... Moesoli dynol oedd yna. Prin oedd yr ymgais i ystyried o ddifrif fod y 'drwg' neu'r 'pechod' a ddisgrifid yn y Beibl yn meddu mwyach yn y dyddiau goleuedig hyn ar ddimensiwn goruwchnaturiol hanfodol, na'r iachâd ohono. Dyma fater cwbl ganolog ac echelog ar un adeg, bellach wedi'i gladdu. Hyn oedd dyn mwyach. Yr hyn a wneid oedd disodli'r Gwrthrych gan syniad seciwlar o foesoldeb syml. A bu'r Wasg yn gymorth mawr.

O ganlyniad, roedd y cwbl wedi'i liwio gan arwyneboldeb pur ddieithr o safbwynt deallusol. Yn ôl y norm newydd, collid y gogoniant yn Ewrob. Collid y synnwyr deallol o fodolaeth Duw'r Beibl. Doedd dim modd ymwybod â mawrhydi sanctaidd a chariad syfrdanol Crist y Gwardedwr. Doedd dim Gwardigaeth bellach – gwarded rhag beth? Rhag anghyfiawnderau enbyd megis apartheid yn Ne Affrica? Rhag erchylltra tloidi ym Mheriw? Rhag erledigaeth o'r ffeiddiaf gan Gomiwnyddion Gogledd Corea? Ie – ond! Gellid amgyffred ofnadwyaeth hyn oll drwy synnwyr moesol dynol, drwy drugaredd. Ond ni chlywid am ryfeddod y gwaed tragwyddol bellach, na'r Cristion tlawd yn plygu gerbron Duw ac yn derbyn yr Iawn drwy farwolaeth Crist, a'r Undod â Duw yn dragwyddol. Ni chlustfeinid yn Ewrob am fawredd anferth yr efengyl achubol tragwyddol a pherthynol sydd ar gael ar gyfer pob person marwol.

Ble oedd dimensiwn sancteiddrwydd Duw a'i awdurdod? Ble oedd y purdeb llwyr a syfrdanol na fedrai oddef syllu ar lygredigaeth? Arweinid yn ôl, a'r tu ôl, i 'bresenoldeb'. Ond ble oedd y Duw byw tragwyddol-bersonol ei hun? Ble yr eglurder Cristnogol?

Ym mryd rhywrai, rhywbeth i bobl eraill oedd Pechod. Ar lefel y gynneddf fwyaf elfennol

honno, ni sylweddolid rywffodd mai hanfod y gwendid oedd peidio â charu'r Arglwydd ein Duw â'n *holl* galon a'n *holl* enaid a'n *holl* feddwl. Oherwydd colli'r cam cyntaf, yr oedd Adnabod Crist yn swnio'n anhygoel o arallfydol. Ond rhywbeth a ddangosai yn ddiflwyn ar dafod gan Dduw inni oedd pechod, roedd yn amlwg. Dyma'r hyn sy'n ysgaru dyn a Duw. Yn y bôn, mater o ddiffyg perthynas yw, hyd yn oed o gasineb tuag ato. Yng nghraidd ein bodolaeth yr ydym ar wahân i Dduw drwy bechod. Byddai ymwybod o bechod yn bygwth ymwybod o'i Fodolaeth. Dyma'n man cychwyn egluraf mwyach yn y byd crefyddol. Wrth dynnu'r ddysgeidiaeth amlochrog a chyfoethog hon i lawr o ran statws, a dynnid hi i lawr yn awr hyd at y gwaelod? Ai arferiad fyddai'r cwbl o hyn ymlaen? Heb odid yr ymwybod lleiaf o Dduw, ni cheid yr ymwybod o bechod: fe osgoid llawer o foesoldeb, a llithrwyd yn esmwyth i lefel arferiad.

Cafwyd bellach gystadleuaeth rhwng crefydd a gwleidyddiaeth, gyda'r ail yn ennill gan y Wasg. Dyma efallai y rhyfeddod mwyaf ynglŷn â'r sefyllfa – fod y Tad hwnnw sy'n trefnu'r datrysiad i'r broblem dyngedfennol hon, a'r Mab yntau sy'n cyflawni'r Iawn, a'r Ysbryd Glân sy'n cymhwyso hyn i galonnau pobl, y Cyngor Tri yn Un, bellach wedi cilio oherwydd colli peth o'r wybodaeth fwyaf elfennol ohono, hyd yn oed gan ddysgedigion. Roedd yr Un a oedd wedi ymwneud â phob unigolyn bach ar y ddaear, ac wedi cynnig gwaredigaeth o'r herwydd drwy'i ddiodeffaint ei hun, i bawb sydd mewn angen, yn awr megis dim, ac wedi'i gamddeall. Roedd dyn yn lle ymateb yn ostyngedig yn nyfnder marwol ei angen wedi ei glustogi'i hun rhag sylweddoli'r fath gariad a rhag y cyflawnder o dystiolaeth hanesyddol. Ffodd rhag y Gwirionedd goruwchnaturiol i gysuron moesoldeb a rheswm seciwlar. Diogelwch oedd anghredu.

Duw'n bodoli mewn dyn, yn ôl y Beibl, oedd y broblem sylfaenol mewn Moeseg, ac nid 'gwneud gweithredoedd da', o leiaf nid yn gyntaf. Roedd y galon graidd yn dwyllodrus ac yn llygredig yn y cysegr-leoedd y tu hwnt i unrhyw iachâd naturiol. Cyn gwneud dim o'i le yn allanol, cyn rhesymu, yr oedd cynneddf symlaf y galon ei hun eisoes yn meddwl y tu allan i Grist. Roedd y coleddu casineb neu falais, cenfigen neu odineb, balchder neu ffolineb, chwennych neu hunanoldeb yn gudd efallai, ond yn gyson yno. Yn anad dim, yr oedd yr hunan yn bychanu awdurdod a chyfiawnder perffaith Duw. Dyna'r diagnosis.

Mae Paul yn disgrifio cyflwr yr anghredinwyr naturiol yn Effesiaid 4:18-19. *'Yn oferedd eu meddwl; oherwydd tywyllwch sydd yn eu deall, a dieithriaid ydynt i'r bywyd sydd o Dduw, o achos yr anwybodaeth y maent yn ei choleddu, a'r ystyfnigrwydd sydd yn eu calon. Pobl ydynt sydd wedi colli pob teimlad.'* Mae yna adeiladwaith mawr o ddeall oll wedi'i gollu. Felly, caed tywyllwch yn disgyn o'r tu allan i daro ar y gwreiddyn eithaf. Cafwyd enciliad, a achoswyd gan y Marwol Mawr. Hynny yw, nid dyn ar ei ben ei hun, megis, yn ei falchder hunanlywodraethol annibynnol yw'r 'credadun' sydd wedi penderfynu gloywi ychydig bach ar ei fuchedd. I'r Cristion cynt, patrwm yr

arferiad oedd hwnnw neu honno a gafodd oleuni yn ei ddeall, ac a dderbyniodd natur hanfodol newydd, a bywyd yr Ysbryd Glân wedi'i eni o'r newydd yn ei galon. Helaethid ar gyflwr yr anghredadun druan ar y llaw arall gan yr un Apostol, yn Rhufeiniaid 1:21,23,25, '*Oherwydd, er iddynt wybod am Dduw, nid ydynt wedi rhoi gogoniant na diolch iddo fel Duw, ond yn hytrach wedi troi eu meddyliau at bethau cwbl ofer; ac y mae wedi mynd yn dywyllwch arnynt yn eu calon ddiiddeall. Er honni eu bod yn ddoeth, y maent wedi eu gwneud eu hunain yn ffyliaid. Y maent wedi ffeirio gogoniant yr anfarwol Dduw am ddelw ar lun dyn marwol, neu adar neu anifeiliaid neu ymlusgiaid...Y maent wedi ffeirio gwirionedd Duw am anwiredd, ac addoli a gwasanaethu'r hyn a grewyd yn lle'r Creawdwr.'*

Dyma'r symudiad trefnol felly: yn lle Duw yn y canol, codwyd dyn gwag yno. Lleihawyd y gynneddf elfennol i synhwyro Duw. Nid gwaith gan y Synnwyr o Dduw fydd yn ddigonol i'w adfer, y twpsyn truan. Ei ddeall sydd wedi'i dywyllu, yr holl feddwl wedi'i ddistrywio yn y sylfaen. Onid y ffŵl yn ei galon sy'n dweud nad oes Duw? (Salm 14:1-2). Dyna'r dyn disylwedd o ran deall ysbrydol gwreiddiol, yr un sy'n esbonio ac yn esgusodi'i weithredoedd, yn hau cyffuriau, ysgariadau, erthyliadau, balchder, trais, hunanoldeb, sy'n 'wleidyddol gywir' ledled y byd modern. Y mae'r dyn, sydd heb fod yn Gristion, yn rhestru ac yn dod o hyd i 'fywyd' o fath y tu allan i fywyd Duw heb amgyffred y ffynhonnell. Ac o wacter ei ddeall, effeithir ar ei deimladau, ei serchiadau, a'i ewyllys. Meddiennir y cwbl oll o'i fywyd gan ysbryd Tywyllwch anneall.

A'r dyfnder rhyfeddol o dywyll hwn a arddengys i ni beth o faint cariad Crist – y dyfnder a'r uchder, a'r hyd a'r lled. Does dim llai na gallu enfawr y Mab a'r datguddiad gan yr Ysbryd Glân a all egluro a dadwneud y sefyllfa gyfoes. Nid drwy dwtio moesol, ond drwy fod Duw ei hun yn chwyldroadol ddod yn ddyn, a rhai pobl yn Ei dderbyn yn ei weithred aberthol, dyma'r dull a ddyfeisiodd Ef cyn amser i'w gymodi'i hun â phechadur, fel y mwynhâi'r pechadur Ei gymdeithas hardd lawn Ef o'r newydd. Yn y mwynhad hwn o Dduw yn unig y profid llawenydd pennaf dyn. Dyna uchafbwynt profiad y Beibl.

Mae'r ddysgeidiaeth hon am Bechod yn ddirgelwch eithriadol anodd, wrth gwrs, i'r dyn naturiol, sef i'r dyn goruwchnaturiol syrthiedig, yntau. Mae'i holl feddylfryd yn gynhenid yn ei herbyn. Mae'n rhaid iddo ei gysgodi'i hun rhagddi. Ac mewn capeli rif y gwllith yn yr ugeinfed ganrif lle na chyflwynid yr efengyl (heb ei chwynnu), yr oedd bron yn amhosibl i amgyffred dyfnder difrifwch yr ysbryd dynol. Gadewid y gwrandawyr yn amddifad, yn Satanaidd o amddifad ddwedwn i, am na welsant cyn hynny ddifrifoldeb dirgel y drwg. Ni chyflwynwyd yr elfennau lleiaf o'r Gwirionedd mewn llawer ardal am na welsant cyn hynny newydd-deb hen y drwg. **Ni ddatguddiwyd syndod union gred y Gair. A chollwyd Cariad Cristnogol gan weinidogion tuag at golledigion. Collwyd Anturiaeth Cymru.**

Soniais ynghynt fod pechod, a'r dehongliad Cristnogol soffistigedig o bechod yn ganolog wrth fyfyrion am themâu llenyddiaeth ddatblygedig Ewrob drwy'r oesoedd. Heb fyfyrion am bechod ar ei ddwysaf, ni ellid meithrin diwylliant gwir wâr. Ac y mae'r sylweddoliad o berthynas yr argyhoeddiad o bechod a gwaith cadarnhaol yr Ysbryd Glân yn arddangos, fel y darganfu Gwenallt, ddwystr llachar y meddylfryd Cristnogol Cymreig. Gweithred yn erbyn Duw yw 'pechod'.

Ond tybed a ofynnir y cwestiwn anghywir, felly, pan ofynnir 'A yw Duw'n bodoli?' Onid oes a wnelo ag anallu dyn? Ac onid oes a wnelo hynny â'r rhwystr i wybodaeth?

* * *

Beth felly yw'r gwahaniaeth rhwng dyn sy'n meddu ar y *Synnwyr o Dduw* (yn 'syml' felly drwy Ras Cyffredin) a'r dyn sy'n *credu yn Nuw* drwy Ras Arbennig. Nid difrifoldeb yn unig. Gall arwahanrwydd sydd yn dal gan y cyntaf filwrio'n erbyn iddo yn y llall ildio a phlygu, ymostwng, derbyn, addoli, dibynnu ar Dduw. Mae yna rywbeth yn wydn yn ei natur o ddifri sy'n llwyddo i'w atal rhag bod yn gywir. Myn *dyn* fod yn y 'canol' o hyd. Fe all fod yn Athro mewn Coleg Diwinyddol yn hyddysg yn yr holl ddadleuon, a'r Beibl neu Feirniadaeth Feiblaidd ar flaenau'i fysedd. Fe all fod yn pregethu bob Sul druan, ond heb gael ei dorri, heb agor ei galon erioed, heb syrthio mewn cariad â'r Iesu, heb dderbyn rhin Gwaed, heb y gwybod canolog. Ar y llaw arall, y mae'r dyn bach aeddfed syml a gredodd yn Nuw ac sy'n greadur newydd o'i frig i'w fôn, yn wahanol mewn un ffordd aruthrol. **Mae'n meddu yn symledd ei galon ar ddimensiwn gwahanol ac ar fywyd gwahanol.** Mae'n *bod* yn ogystal â *gwneud* yn wahanol. Yn ddigon tebyg, ymddengys ei gyflwr ef efallai (yn ogystal â'i wneud, ar dro), yn bur debyg i'r llall. Ond mae'r naill ddyn a'r llall yn meddu ar berthynas ac ar bwrpas gwahanol. Cafodd un galon newydd gan Un. Agorodd sianel drwyddi i'r Goruwchnaturiol. Mae'n fod ysbrydol. Mae *bod* felly'n bwysig; ond hanfodol yw *ansawdd* bod. Felly, nid 'bod Duw', ond 'bod pechod' yw'r hyn sy'n deffro dyn i berthynas ag Ef.

Mae'r cyntaf yn ei amddifadrwydd yn medru amau a yw yn ei dipyn synnwyr o Dduw yn gwneud synnwyr o gwbl. Gall ofyn onid yw'r dadleuon academaidd negyddol a wneir mewn meysydd eraill yn gwneud y tro yn y maes ymylog rhyfedd hwn hefyd? Efallai y bydd ganddo ddigon o ddychymyg i amgyffred y gall dimensiynau eraill fodoli. Mae'r dyfodol yn bwysig i bawb. Daeth rhan o'r ateb yn groyw. Dihunodd; eithr heb gofleidio dim.

Bydd y credadun ar y llaw arall wedi clywed ac wedi agor drws arall; a chaiff fyw a bod, gobeithiwn, mewn tŷ arall. Myn sancteiddhad o fewn ei feddwl, a gogoneddu Duw drwy ufudd-dod. Salm 139:7-14. *'I ble yr af oddi wrth dy ysbryd? I ble y ffoaf o'th bresenoldeb? Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno; os cyweiriaf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd. Os cymeraf adenydd y wawr a thrigo ym mhellafoedd y môr, yno hefyd fe fydd dy law yn fy arwain, a'th ddeheulaw yn fy nghynnal. Os dywedaf, "Yn sicr bydd y tywyllwch yn fy nghuddio, a'r nos yn cau amdanaf", eto nid yw*

tywyllwch yn dywyllwch i ti; y mae'r nos yn goleuo fel dydd, a'r un yw tywyllwch a goleuni. Ti a greodd fy ymysgaroedd, a'm llunio yng nghroth fy mam. Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol, ac y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol. Yr wyt yn fy adnabod mor dda.'

Beth yw'r gwahaniaeth felly? Mae gan y naill enaid sy'n 'huno'. Mae fel pe bai heb fod, i'r hyn sydd yn hanfod. Gellid dweud yn deg ei fod yn absennol oddi wrth Dduw, er ennill yr holl wybodaeth seciwlar. Mae'n absennol i bwrpas bodolaeth. Mae'r llall wedyn yn meddu ar enaid a gofleidiwyd gan yr Arglwydd. Ni all lai na diolch, a gorfoleddu, ac ofni ag ofn sanctaidd. Person brwnt yw a ddaeth yn ymyl y glendid mawr. Hiraetha yn ei dom am ddilyn bodolaeth Iesu. Daeth hefyd ar gyfyl yr Un y cyfeirir ato ganddo Ef ei hun fel ffynhonnell pob dim yn y bydysawd. Hwnnw ym mryd y creadur bach yw'r unig un o ran hanfod a diffiniad y gellir dweud amdano rywbeth na ellir ei ddweud am ddim arall yn gyfan gwbl ac yn ddiamheuaeth sylfaenol, mai Efô yw'r Gwirionedd: mewn Person. Ac Efô sy'n gwneud y gwir glân gloyw yma yn weithredol ar y ddaear. Os ydym yn archwilio datguddiad Duw felly, tra phwysig yr un pryd inni yw archwilio'r rhwystrau, a bod yn barod, nid i dwtio'r Synnwyr o Dduw, ond i wynebu efengyl Iesu Grist yn nerth ei llawnder. Os cafwyd Cwmp mewn Gras Cyffredin, yna mewn Gras Arbennig cafwyd Atgyfodiad.

Does a wnelo *sensus divinitatis*, felly, fel y gwelir, ddim o anghenraid ag iachawdwriaeth na dod yn Gristion. Dyma'r synnwyr rhoddedig elfennaidd (sbwyliedig, ond yn werthfawr) sydd gan yr ymwybod sy'n peri bod y mwyafrif o ddynol-ryw, pan ofynnir iddynt, yn tystio eu bod yn credu ym modolaeth Duw neu'r Goruwechnaturiol. Iddynt hwy, mae Ef yno, y tu ôl i bopeth. Ond dim ond hynny o dystiolaeth sydd mewn Synnwyr o Dduw.

Ond mae'n rhywbeth. A gall y Synnwyr cudd cwbl waelodol, er hynny, gael anadlu. **Ac fe'i dethlir gydag arddeliad mawr gan Forgan Llwyd a Waldo Williams bron fel pe bai'n un o'r athrawiaethau mawr fel yr Ymgawdoliad, y Pechod Gwreiddiol, yr Iawn, a'r Atgyfodiad.** A mawr yw, yn ddiâu, o'i gynhemlu o ddifrif. (gw. *Seeing the Face of God: Nine Reflections on the Psalms*, Martyn Lloyd-Jones, Crossway, 2005).

Yn achos Llwyd, credaf ei bod yn bwysig dal ati i danlinellu'r ddwy ystyr i'r term 'Goleuni Mewnol' ganddo ef, er eu cymysgu: ceir dwy ystyr hefyd i'r Synnwyr o Dduw:

1. *Sensus Divinitatis*, yr ymwybod cyffredinol hwn o fodolaeth Duw o'i gyferbynnu a'i gymysgu â'r gydwybod. Mae'n rhoi addewid drwyddo: tamaid i aros pryd. Hyn sy'n gallu arwain dyn maes o law at uniad â Duw. Hynny yw, agorir sianel a oedd ynghau yn nechrau deall.
2. Ond golyga fwy mewn hedyn, *wedi deffro*. Gwaith yr Ysbryd Glân yw yn y galon, y profiad unigol o berthynas â Duw, Gair Duw yn yr ymennydd, y profiad unigol o

berthynas â Duw, Gair Duw drwy Ymgawdoliad a thrwy'r Ysgrythur. Y Gair sy'n pontio'r gagendor hwn rhwng dyn amddifad a Duw. Gwahaniaethir rhwng anarchiaeth neu gymysgedd y rhain yn y pamffledyn *Where is Christ?* ac yn *Gair o'r Gair* gan Morgan Llwyd, lle y mae Goleuni (Gair) yn gweithio (i) ar y gydwibod, a (ii) ar reswm. Ond yr Ysbryd Glân sy'n ysgrifennu'r Gair hwn. Gwedd y bodoli yn y galon yw.

Credaf mai Morgan Llwyd yw'r llenor yn anad neb sydd wedi trafod y mater hwn fwyaf yn y Gymraeg, yn athrawiaethol ac yn serchiadol, – yn ddatliadol mewn gwirionedd. A'r ysgolhaig a'i dehonglodd ef ac a'i cyflwynodd â'r mwyaf o gydbwysedd, gan lwyddo i ddarostwng y cymysgedd dehongliadol a adawyd gan Ysgol Gruffydd, yw Dr Goronwy Wyn Owen. Roedd gan W.J. Gruffydd (a'i ddisgyblion) agenda cudd ynglŷn â Morgan Llwyd. Yr oedd yn gwbl amlwg, er gwaethaf amllder o ddylanwadau arddulliol a syniadol arno, mai Calfinydd union a di-lol oedd Llwyd. Ac yr oedd yn fwy derbyniol, oherwydd y pwysau rhyddfrydol llethol ar y pryd ar Gruffydd, i ddehongli Llwyd fel pe bai'n ecentrig ac yn lluosaid ymhlith y llyfrau a ddarllenai. Gwyrdrowyd cymhlethdod Llwyd gan ysgolheigion ar un adeg er mwyn gorbwysleisio'i waseidd-dra meddwl i Böhme. Ceir chwalfa heddiw er mwyn cynnal y gwacter meddwl. *Lluosaeth* a '*différance*' Derrida (a'i crynhodd) fu dau o ddogmâu creulon, sensoriol, ac erlidiol yr ugeinfed ganrif i gadarnhau'r math negyddol o ddynol-garwch a fu'n ymwithio i'r golwg ers tro. Dogmâu o beidio â chredu oedd hyn; ond yn gyhoeddus, ymhlith Sefydliad y farn gyhoeddus, gall y negyddiaeth fynd yn bellach. Sylwais yn ddiweddar ar un orsaf deledu Gristnogol yn cael ei dirwyo'n drwm am iddi ddatgan – yn ôl y Beibl – nad oedd enw arall dan y nef drwy'r hwn y gellid bod yn gadwedig ond Iesu Grist. Gwrthodid Cristnogaeth ddi-lol unplyg. Yr oedd y fath argyhoeddiad heb fod yn wleidyddol gywir nac yn unol â'r gwleidyddion na'r farn 'bland' gyhoeddus ormesol a ddywedai gelwydd. Erbyn hyn, o'r braidd bod modd credu nac arddel 'Un' byth. **Lluosedd yn unig a oddefir hyd at erledigaeth.** Y chwalfa greulon haearnidd hon yw'r dogma gormesol. Gwyddom oll ers tro am y grefydd 'gyfaddawdol' hon a wacaodd y capeli. Ceid ymgais yn ddiweddar i sensro'r Beibl – y gyfrol fwyaf yn ein gwareiddiad – gan rai cynghorwyr lleol oherwydd bod prifathro yng nghynulliad ei ysgol yn rhoi peth gwybodaeth allan o'r Ysgrythurau a oedd yn groes i'r politicaidd gywir. (A oes unrhyw wleidyddiaeth yn 'gywir'?) Rhaid disgwyl dyddiau tywyllach eto i ddod. ... **Mae lluosedd, sy'n credu popeth, yn peidio â chredu dim.** Eto, erys un Bod drwy'r cyfan, beth bynnag, yn rhwystr.

Ond yn achos y dehongliad o Forgan Llwyd, neu o leiaf ym mryd Gruffydd a'i ddisgyblion, nid 'dylanwad' syniadol a dychmyglon yn unig oedd Böhme, y Bumed Frenhiniaeth, Peter Sterry, na'r 'Crynwr' unionged yn hytrach na'r Ysgrythur. Dyma gyfle cymysglyd iddynt yn hytrach i wasgaru chwalfa credo yr ugeinfed ganrif led y ffordd yn ôl lluosaid meddwl. Ym mhob pen mae

'différance'. Bod ar chwâl oedd yr uchelgais. Cafodd Llwyd, sut bynnag, lwybr allan o'r anialwch. Ym mryd Calfin ei hun, unigryw unol oedd yr un Synnwyr datguddiedig mewn Hanes ac yn yr Ysgrhythur: person y Mab. A'r profiad ohono. Ynddo Ef y ceid rhai ffeithiau a oedd yn ddichwarae ganolog, er bod eraill yn ymylog yn ôl blaenoriaeth pwysigrwydd. Ar y pryd, câi Llwyd, drwy gymorth lled ei ddiwylliant Calфинаidd, ddull ffres o'i fynegi'i hun am y profiad hwn o ddeffro. Yr oedd strwythur a blaenoriaethau'i feddwl eisoes drwy'r Ysbryd Glân, cyn dechrau sgrifennu, yn ufudd i welediad y Beibl. Yn y bôn, mynegai Llwyd feddwl aeddfed, dethol, a chyfoethog a ddylai ddyfnhau dealltwriaeth ei ddarllenwyr o Gristnogaeth ysgrythurol. Denai â'r Synnwyr o Dduw.

Yr hyn a gafodd Llwyd oedd y *fframwaith* cyfundrefnol Calфинаidd. Dyma fframwaith Beiblaidd di-lol iachawdwriaeth, y fframwaith tyngedfennol i Gristion (o'i sylweddoli felly neu beidio). Pan herid ef, felly, ar unrhyw bwnc canolog efengylaidd, deuai Morgan Llwyd allan o blaid Calfin yn erbyn Böhme. Ond yr oedd Böhme wedi'i fwrw ef yn ei berfedd yn ddi-os. Fe'i hoffai o ran arddull a theimladaeth. Creodd argraff aruthrol o bersonol arno'n brofiadol. Caniataodd i Llwyd ryddid dychymyg a llymder meddyliol a oedd yn sicr yn gynhyrriad i'w ryddiaith, ac yn hyfrydwch iddi hefyd, ddwedwn i. Felly, wedi inni gofio'r allwedd a gafodd o du Calfin – mai Duw oedd yn y canol, a dyn ohono'i hun yn ddiymadferth, Duw yn rhoi, a dyn yn derbyn ac yn ymdrechu i gyrraedd sancteiddhad drwy ddawn Ysbryd Glân Duw – ni raid cael ein dallu gan luosaeth drendi ein hoes ni, na rhyddfrydiaeth ein magwraeth, i fynd oddi ar briffordd angerddol (os baróc ambell dro) bywyd Morgan Llwyd.

Felly, dyna Forgan Llwyd – yn eithriadol o berthnasol hardd ynghanol y lluosaeth ddogmatig gyfoes a'r 'grefydd gymharol' relativfaidd – yn mentro sôn am y synnwyr union o Dduw: drwy'r gydwybod. Ac mae'r *sensus divinitatis* hwnnw'n dechrau, drwy drugaredd, ddod yn bwnc amserol. Yn anad un amser, ers dyddiau Llwyd, mae angen gwahaniaethu'n araf ofalus heddiw rhwng *sensus divinitatis* cyffredin byd-eang a hynt *sensus divinitatis* y Cristion. Mae angen, wrth gwrs, ddirnad rhwng cydwybod ac ymwybod cyffredin, a chydwybod ac ymwybod y Cristion ymrwymedig, rhwng gras cyffredin a'r gras cyffredin a gyfoethogir yn ychwanegol ac a weithredir drwy ras arbennig y Cristion. Efallai mai 'beth yw “*divinitatis*” yn yr ymadrodd hwn?' yw'r cwestiwn treiddgar.

Ceir yr ymdriniaeth orau yn y Gymraeg ar y gydwybod fel y'i gwelid gan Forgan Llwyd gan Dr Goronwy Wyn Owen, a honno gystal â'r un a welais yn unlle ar y pwnc hwn. Yn ei lyfryn bach, *Morgan Llwyd*, yng nghyfres *Llên y Llenor* t.46 dywed fel hyn am y 'goleuni cyhuddgar': '*Y mae, i ddechrau, yn hysbysu bodolaeth Duw i ddyn. Ond y mae ar yr un pryd yn condemnio dyn os yw'n gweithredu yn erbyn ei gydwybod a'r ddeddf foesol a blennir ynddi, ac yn ei llygru drwy bechu. Y mae'r goleuni mewnol hwn felly yn gyrru dyn at Dduw i ofyn am drugaredd a maddeuant.*'

Mae Dr Owen yn datblygu ar hyn ymhellach yn ei gyfrol feistraidd *Rhwng Calfin a Böhme: 'ni ddywedai Llwyd ei hun fod y goleuni cyffredinol hwn (gras cyffredin) yn ddigonol i iachawdwriaeth... Yr etholedigion yn unig a fydd yn gwrando.'*

Y mae'r Diafol yntau'n 'gwybod' yn burion, – yr un ffunud neu'n well na'r un ohonom, – fod yna Dduw yn bodoli. Nid 'a yw'n wir?' felly. Nid 'a yw wedi'i warantu?' chwaith. Credai'r Diafol y rheini'n gadarnhaol. Ond rhaid ateb yn union heddiw – 'A yw wedi digwydd i ti? A wyt ti'n eiddo i Grist? A yw dy fywyd wedi'i fwriadu'n glod i Dduw uwchlaw dim arall?' Ni waeth i neb gredu yng ngwaith Crist ar Galfaria fel ffaith nac fel athrawiaeth onid yw'r Ysbryd wedi'i gymhwyso'n bersonol ato mewn ail-enedigaeth. Y tro mewnol goddrychol angenrheidiol sy'n dyfod â'r gwaith allanol yn effeithiol. Argyhoeddiad o Bechod oedd y Gydwybod Gristnogol.

Cyfuniad o arddull delynegol a chariad o'r galon at yr Arglwydd sy'n gwneud paragraff fel *Gwaith Morgan Llwyd I, 219, 'Pan fo'r gwir fugail yn llefaru...'* mor felys i glust credadun.

Nid tystiolaeth seciwlar o fodolaeth Duw yn unig yw hyn. Ni cheir prawf digonol a materolaidd yn hynny o beth. Ni cheir tystiolaeth aeddfed nes bod yr ysbryd dynol yn profi derbyn arwyddocâd Duw'n bersonol, realiti'r Duw tragwyddol yn ysbryd dyn. Dyma'r wybodaeth ogoneddus sy'n Feiblaidd wir. Ac adnabyddiaeth effro yw. Mae'n fwy o lawer na chanfyddiad. Y mae megis gwahaniaeth rhwng byw a marw. Yn fynych, meddiennir y Cristion newydd gan ryfeddod, ymwybod llachar o'r goruwchnaturiol, sylweddoliad ysgytwol o fod yng ngŵydd mawdra a mawrhydi mor orthrechol nes y plygir y galon i'r llawr. Dyna ras arbennig ar waith yn ddygn yn y gydwytod, ac yn wir yr holl bersonoliaeth bellach. Mwyach, i'r Cristion, fel Morgan Llwyd, wynebir y byd a thragwyddoldeb gan 'ragdybiaeth' fendigedig, rhagosodiadau a gwybodaeth sylfaenol gwbl newydd. Sef gwaith y Gair: gorchwyl yr Ysbryd Glân yn y dystiolaeth gyntaf.

Gobeithio'i bod yn eglur bellach sut a pham yr wyf am wahaniaethu rhwng yr ymwybod o fodolaeth Duw a threfn cydwytod moesoldeb. Y mae Morgan Llwyd yn cyfuno'r ddau o dan ymbarél 'Cydwytod'. Nid wyf yn anghytuno ag ef o gwbl. Y mae'r ymwybod o dda a drwg yn y pen draw yn dibynnu ar ymwybod o Absoliwt, sylweddoli hynny neu beidio hynny yw, yr unig beth sy'n rhoi safon i ddaioni (a gwrthwynebiad hyderus i ddrygioni) yw sylweddoliad isymwybodol (fel arfer) fod yna Absoliwt sy'n gosod delfryd. Ond o fewn y ddadl sydd gennyf i, gellir meddwl yn ddirnadol wahaniaeth rhwng y ddwy egwyddor hyn, er mwyn dadansoddi'r saith dystiolaeth yn briodol wahaniaethus.

Rhaid bod cysylltiad diwniâd rhwng yr ymwybod mewn dyn o ddaioni detholedig a'r ymwybod o fodolaeth Duw. Ym mryd Morgan Llwyd, gweddus yw sylwi ar undod y ffenomenau hyn sy'n procio'r dyn naturiol. Ond, o ran hwylustod, fe all ar achlysur fod yn briodol – a dyna dybiaf i – i ystyried yr ymwybod o'r ffaith o Dduw ar wahân i'w arwyddocâd ef fel yr Un sy'n gosod

egwyddor o rinwedd. Dyma'r gwahaniaeth rhwng dyn a Duw.

Fe all yr ymwybod hwn o Dduw ymestyn, o ryw led gredu bod yna Dduw ar gael (dyweder ar adeg argyfwng neu anhawster neu syfrdandod), hyd at sylweddoliad byw iawn ac arswydus iawn efallai o'i bresenoldeb rhyfeddol yn torri asgwrn cefn dyn, er mwyn ei godi wedyn.

*

*

*

Rwyf wedi bod yn sôn o'r herwydd am ddwy wedd ar *gredu*. Mae credu bob amser yn golygu perthynas. Perthynas o ddibyniaeth yw, yn ysgafn neu'n ddwfn, fel arfer naill ai rhwng dyn a Duw neu rhwng dyn ac ef ei hun, neu â'i gilydd. Gwelsom eisoes y rheidrwydd sydd i gredu. Math o ddawn ddiddeus yw gan bob un – Gras Cyffredin. Gwelsom hefyd y posibilrwydd i gredu 'bod' (yn ysgafn) a'r rheidrwydd i *gredu Duw* sef ein dibyniaeth ar awdurdod absoliwt. Ond yn y cwlwm hwn o rasmusau, mae yna elfen arall, sef 'datguddiad' o fath sy'n cyfleu'r cwlwm hwnnw. Gweld a phlygu. Canfod drwy'r galon. Gwastraffu credu yw credu ym mlaenoriaeth dyn.

Er bod dyn a Duw wedi profi ymwahanu wrth i ddyn ei ddyrchafu'i hun mewn balchder a hunanoldeb, rhoddodd Duw yn drugarog hefyd iddo lwybr o ddawn arall. Ceisiai Llwyd annog ei ddarllenwyr i fynd rhagddynt arno. Gwybodaeth bellach. Synnwyr ychwanegol drwy ddatguddiad arbennig. Ar ryw olwg, gellid awgrymu mai cysylltu'r gynneddf elfennol honno gynt o gredu (unplyg, syml, llawn) ynghyd â'r hen ddawn *sensus divinitatis* oedd y credu Cristnogol aeddfed. Dyma'r credu a holltwyd gan falchder Eden. Dyma'r credu a ddinistriwyd gan y Cwmp. Pontio'r agendor anferth yna yw dod yn ôl i'r teulu tragwyddol: uno'r ddau begwn, iacháu'r clwyf o'r newydd, yn gariadus. Oherwydd clwyf ydyw. Dyna'r clefyd neu'r rhwyg sydd wedi gadael i lygredd, afiechyd, a marwolaeth o bob math ddod i mewn i'n bywyd ymarferol. Mae'r rhain eto'n anochel. Ni ellir osgoi'r drwg hwn yn llwyr; a phriodol i bobun yw holi pam, a cheisio o ddirif gael ateb. Ar ôl y Cwmp, gwyddai Adda o hyd fod yna Dduw, cyn codi Abraham a Moses.

Pan fydd dealltwriaeth o fywyd yn hepgor unrhyw gam datblygol cwbl hanfodol, mae'n ei chau'i hun rhag llwybr cyfansawdd ddeallol y cyfanrwydd, yn arbennig y cam cyntaf. Felly, er enghraifft, gall rhagdybiaeth weithio yn erbyn i'r *posibilrwydd o'r goruwchnaturiol* fod, yn gyfan gwbl dyngedfennol i ystyr dyn. Yr un modd wrth drafod *bodolaeth sylweddau (mater)* neu *fodolaeth rhywbeth*. Os neidir yn anghyfrifol yn y fan yna i feddwl am ein presennol heb ein gorffennol, heb gymryd o ddirif y rheidrwydd o greu allan o ddim, gellir esgor ar fethiant i ddeall rhywbeth hanfodol.

Felly hefyd *bodolaeth trefn*. Heb amgyffred bodolaeth Absoliwt a Chyfundrefn (natur a dull o drefnu), gellir arwain at anwybyddiad cyfleus i gau'r Ddeddf allan i ryw raddau, ond yn y bôn mae'n elfennol anwyddonol. Yr un modd *bodolaeth bywyd* a *bodolaeth personoliaeth* sy'n gyfarwydd â *gwerthoedd* a *phwrpas*. Nid hepgor bach yw bodloni ar wibio heibio i faterion o'r fath

yn syml er mwyn ystyfnigo yn erbyn Duw ac esgus bod yn 'wleidyddol gywir' neu'n 'ddogmatig sgeptig'. Mae'n gam ystyfnig yn erbyn ysbryd bywyd ei hun.

Cyfyd un cwestiwn mawr am hyn o du efengyleiddwyr Calfinaidd. Pa werth yw'r Synnwyr o Dduw o safbwynt ailenedigaeth? Onid drwy enw Iesu Grist yn unig, a'i ddwyfol glwyf, y bydd dyn yn gadwedig? A ellir iachawdwriaeth i rywun sy'n anwybodus am y Ffydd Ddiffuant? Onid yw'r efengyl oll yn dod gyda'i gilydd. Mae perygl inni rannu Cristnogion cywir ar y cyfrif hwn.

Gall pob Cristion gytuno fod Duw'n hollbresennol, yn gyfiawn heb fod yn annheg, ac eto'n drugarog. **Nid yw Synnwyr o Dduw yn ddigonol i hyn, a rhaid cael calon newydd. Dyna'r ateb. Dim ond drwy Waed Crist y gwneir iawn dros neb.** Ni chaiff neb farnu neb arall yn derfynol ond Iesu Grist; nid drwy holi ac ateb, nid drwy weithred o fedydd, na thrwy gyffes y'i pwysir. Nid drwy weithred 'dda' yn unig. Iesu ei hun yn unig a gaiff dafoli drwy undeb.

Gall person gredu bod Duw ar gael, a cheisio a chael profiadau 'cyfriniol' a phrofi llesmair; ond ofer i gyd. Yr un pryd, gwyddom fod yna'r fath beth â Chyfriniaeth Gristnogol ddilys, a bod yna Gristnogion niferus sydd wedi profi perthynas unol ac ystyrion â Duw ofnadwy sy'n ymwneud â ni mewn dimensiwn sy'n Oruwchnaturiol ac yn Naturiol. I'r sawl a gais (gyda dyfnder) fe'i caiff.

Mae'r Synnwyr o Dduw a Gras Cyffredin yn weddau ar ddatguddiad o'r Goruwchnaturiol. Dywedant fod pob *dyn* yn meddu ar ryw ddimensiwn goruwchnaturiol yn ogystal â'r naturiol. Ni byddai'r un gwyddonydd gonest yn gallu gwadu'n ystyrion *fodolaeth* y goruwchnaturiol. Byddai'n amhosibl iddo wrthbrofi'r goruwchnaturiol, na'r posibilrwydd fod yna ddimensiwn arall i fywyd heblaw'r daearol. Ni all brofi nad oes bywyd ar ôl marwolaeth (er ei fod yn ddigon o ffŵl i'w mentro hi). Nid oes rheidrwydd i ragdybied yn awdurdodol 'absenoldeb' fawr ddim, gan gynnwys Duw trosgynnol, neu y gallai Duw ymgnawdoli.

Methwyd ag esbonio'n seciwlar wreiddyn bodolaeth, trefn (neu gyfundrefn), bywyd, na chenhedlu allan o ddim. Methwyd ag esbonio'n seciwlar wreiddyn y drwg parhaol, cydwybod, ymddangosiad deall a hanes ymwybod neu hunaniaeth. Tueddir hefyd yn y cyd-destun ôl-fodernaidd i gymryd yr ymwybod o werth a phwrpas mor ysgafn ag y gellir, ac felly derbynnir yn aml y rhagdyb mai corfforol yw popeth o reidrwydd. Gorbwysleisia dyn yr hunan.

Nid rheswm sy'n gwneud hyn oll. Dibynna sicrwydd o'r Goruwchnaturiol yn gyntaf ar gynneddf y Synnwyr o Dduw (sydd gan bawb) ar waith. Mae'r gwrth-Oruwchnaturiol hefyd yn elyniaeth etifeddol ddigon cyffelyb. Gall fod yn ffyrnig iawn. Am gyfnod wedi'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*) a'r Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*), ymchwyddodd pwysigrwydd dyn, yn arbennig y Dyn ymchwyddog balch Ffawstaidd amddifad, nes cyrraedd y cyfnod brau pryd y bu'r cyfryngau, y Teledu a Newyddiaduraeth yn mawrygu seciwlariaeth amddifad fel asgwrn cefn bywyd. Gartref, bychanwyd cyfraniad aruthrol yr Eglwys i ddiwylliant Cymru, wrth gwrs. Ond

ymhlith gweddill ffyddlon, o bryd i'w gilydd, mewn corneli cêl, bu Iesu o Nasareth, drwy'r Ysbryd Glân, yn ei wneud ei hun yn gyfoeswr i ni. Ni ellid gwneud y tolch lleiaf yn yr efengyl er gwaethaf lluoedd croes.

Ac eto, ni all Cristion 'brofi' Duw i rywun arall chwaith yn y dull seciwlaraidd. Duw ei hun sy'n ei ddatguddio'i hun i ni, fel ein bod ni'n gallu'i 'brofi' drosom ein hun. Nid ni sy'n rheoli'r berthynas Duw – dyn. Duw sy'n rheoli hynny, a'r dyn doeth sy'n ei cheisio; ac o'i cheisio mewn difrifoldeb, yn ei chael.

Mae yna gysylltiad rhwng Ymwybod â Duw a bod yn fyw yn gorfforol. Ac y mae hynny'n tynnu'r ffenomen o ymwybod i gyfeiriad sôn am yr Enaid.

*

*

*

Ceisias esbonio'n gryno felly sut y deallaf i'r gwahaniaeth rhwng 'enaid' ac 'ysbryd' gan y gall fod yn berthnasol i'r 'Synnwyr o Dduw'. Mae'r pâr 'Corff ac Ysbryd' yn weddol ddealladwy, yn arbennig 'Corff' efallai. Corff yw'r hyn sy'n weladwy; ond y mae hefyd yn cynnwys elfennau anweledig fel y meddwl a'r teimladau. Mae hefyd yn cynnwys elfen arall dra phwysig, sef *yr ymwybod o fod yn fyw*. Dyw bod yn fyw megis llysiuyn yn fawr o beth i'r bod dynol. Gallai person fod yn farw, yn ôl yr holl werth buddiol y mae 'bod yn fyw' yn ei olygu iddo, hynny yw os yw heb *ymwybod* â bod yn fyw. Y mae'r seice effro yn wedd normal i gorff sy'n fyw. **Galwn yr ymwybod hwn o fod yn fyw yn 'enaid' (gw. *Geiriadur Ysgrythyrol*, Thomas Charles, 1864, 360-361). Pan waedda capten y llong 'Save our Souls', nid 'Achubwch ein Hysbrydoedd' y mae'n ei feddwl. Dyna broses hollol wahanol. Yr hyn y mae'n ei feddwl yw 'achubwch ein cyrff fel cyrff byw': dyw'r cyrff ddim yn werth eu hachub heb eu bod yn fyw ac yn *ymwybod* eu bod yn fyw. Y corff ynghyd â'r enaid sy'n gwneud canol hunaniaeth i'r unigolyn. Dyna Ras Cyffredin i'r credadun ac i'r anghredadun fel ei gilydd.**

Ond pan drown at yr Ysbryd, y mae a wnelom â'r profiad Cristnogol. Mae gan bob unigolyn byw effro eisoes Gorff ac Enaid; **ond i'r anghredadun, y mae'r ysbryd yn 'farw'.** '*Meidrolion yw'r Eifftiaid, nid Duw; a chnawd yw eu meirch, nid ysbryd*' (Eseia 31:3). Dyma sy'n arwain at y cyswllt naturiol a goruwchnaturiol rhwng dyn a Duw. **Pan enir rhywun yn iach, y mae'r unigolyn yn naturiol ynghwsg yn ysbrydol, ond ei gorff a'i enaid yn fyw.** Nid yw'r ysbryd yn cymdeithasu â Duw, nac yn Ei fwynhau. Mae pob unigolyn byw, yn gredadun neu beidio, yn meddu ar enaid byw ac ar ysbryd unigol neu botensial fyw. Un o'n breintiau dynol yw. **Ond i'r anghredadun mae'r ysbryd yn effeithiol farw.** Fe all y sawl, a fywheir drwy waith yr Ysbryd Glân yn cyffwrdd â'i galon, ddeffro mewn ysbryd byw. **Rhan o Aileni yw bod ar ddi-hun yn ysbrydol, a'r Ysbryd wedi anadlu ynddo. Dyma'r cam mawr.** Rhan o bresenoldeb Duw sydd wedi'i rhoi iddo. '*Rhof fy ysbryd ynoch, a gwneud ichwi ddilyn fy neddfau a gofalu cadw fy*

ngorchmynion Esec. 36:27).'

Dyma Ras Arbennig. Fe ellir bod yn ymwybod o hyn a ninnau'n dal yn fyw hefyd.

Mae yna o leiaf un term arall yn y grŵp geiriol hwn, sef 'cnawd'. Mae a wnelo 'cnawd' yn amlwg iawn â 'chorff' ac â 'pherson'. Dyma'r lle y mae brwydr yn amlwg. I'r anghredadun y mae'r cnawd a'r gydwybod yn brwydro o'r dechrau, a'r cnawd sy'n ennill (o safbwynt ymwybod corfforol) adeg marwolaeth. Ond i'r Cristion, mae yna *ddwy* frwydr. Mae'r corff a'r cnawd yn brwydro, a'r corff a'r ysbryd yn brwydro â'i gilydd. Yn yr ail frwydr, mae'r person drwy help yn gallu gorffen y gwrthdrawiad, a'r ysbryd yn trechu, er ei fod dal i bechu tan y diwedd, ond yn ennill. Adeg marwolaeth, mae'r cnawd a'r corff yn colli. Ond y mae'r ysbryd buddugoliaethus a'r enaid yn ennill ac yn mynd at Dduw, y cnawd a'r corff yn cael eu claddu tan ddydd y Farn. (1 Thes. 5:23) '*Bydded i Dduw'r tangnefedd ei hun eich sancteiddio chwi yn gyfan gwbl, a chadw eich ysbryd a'ch enaid a'ch corff yn gwbl iach a di-fai hyd ddyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist.*' A bydd corff newydd yn atgyfodi i ymuno â'r ysbryd perffaith yn dragwyddol i'r Cristion.

Ymwybod â bod yn fyw felly yw'r enaid effro. Diddorol sylwi nad oes dim sôn am enaid Duw nac am enaid Iesu Grist, er bod sôn am ysbryd y naill a'r llall. Nid oes chwaith sôn am berthynas moesoldeb â'r enaid, er bod yr ysbryd yn amlwg ymgysylltu â'r ffrwythau moesol.

Mae'r Ysbryd Glân yn ymwneud â bywyd yn ei lawnder. Mae'n ymwneud â dechrau bywyd ag anadl a chyda'r geni cyntaf; mae'n ymwneud â'r ail-eni ag anadl o ansawdd arall; ac yna wrth gwrs â'r trydydd geni. Digwydd y trydydd geni pan fydd y corff yn marw. Wrth drafod 'Corff, Ysbryd, ac Enaid', felly, buwyd yn sôn am y proses yn strwythurol. Yn y fan yma, wrth sôn am gyfoesedd y proses presennol o farw fel y'i deallir gan Gristnogion, y mae a wnelom â'r 'frwydr' yn fwyaf penodol. Gall fod yn frwydr gorfforol weithiau, a fedr fod yn echrydus o boenus a chreulon. Dyna i rywrai y lleiaf o'u problemau. Ond yr wyf am sôn am yr ochr gadarnhaol. Fe ddywedwyd am rai Cristnogion eu bod yn gallu marw'n dda. Mae hyn yn dibynnu fel arfer ar ansawdd a dyfnder y paratoad. Mae angen cyfeirio llygaid y meddwl Cristnogol at Dduw, at y Drindod – at dadolaeth y Tad, at lendid y Mab, at y Groes a'i chariad, ac at Ei atgyfodiad ysgubol o fuddugoliaethus yn ogystal ag at Ei freichiau estynedig tuag atom y funud yma. Mae'n bwysig hefyd hoelio'n sylw'n benodol ar yr Ysbryd Glân. Mae gan Hwnnw swydd arbennig yng ngwaith bywydu: hoelio.

Mor hanfodol yw mwynhau Duw yn awr lle bynnag y bôm. Does dim fframwaith parod ar gyfer hynny gan fod mwynhad yn beth mor bersonol. Mae mwynhad yn anogaeth. Ar gyfer pawb, ymarfer â phresenoldeb Duw yw'r peth angenrheidiol. Yn gyffredinol, gorau po fwyaf pleserus y bo gweddi y pryd hynny a'r paratodau ar gyfer gweddi. Ond wedyn ymhle a sut y mae Duw yn ei amlygu'i hun – gall fod ar ein pen ein hun, mewn priodas, mewn teulu, gyda ffrindiau, yn y

greadigaeth, yn ein gwaith hyd yn oed, mewn damwain, yn cysgu, lle bynnag y bôm, rhaid i Dduw fod yn y canol, rhaid i'r meddwl a'r holl bersonoliaeth adnabod Iesu Grist; yn fwy nag adnabod, caru, dyna'r mwynhad; ac yn fwy na charu, mopio'r pen yn lân oherwydd Ei weld ef fwyfwy, a gwybod mwy amdano, drwy gymorth ei Ysbryd.

Mae hyn oll yn ein gyrru i feddwl am fwynhau yn awr y fuddugoliaeth derfynol sy'n bosibl y pryd hynny; a dangos perthnasedd y testun o farw o fewn cyd-destun rhyfel sanctaidd ymarferol ddigon, ac o ddal i fyw yng nghanol cyfoesedd y brwydrau presennol yn erbyn Ôl-foderniaeth lithrig heddiw. Y byw llawn yw maes y gad fwyaf llydan i Gristion hyd yn oed wrth farw. Nid amherthnasol yw myfyrio'n agored ynom ni'n hunain ynghylch trechu pwysau aruthr ffasiwn yr oes a ffasiwn pob oes. Y llwynogod! Y rhwystrwyr! Y mae'r Absoliwt drwy ddirgel ffyrdd o'r fath, yn ein sicrhau drwy'r Arfaeth nad oes modd i'r dogmatig ansicr, na'r relatif, arwain yn ddirgel at yr hyn sy'n Wirionedd; ond drwy'r Ysbryd Glân y mae'r cwbl hwn wedi'i ddarparu.

CYDWYBOD

Tegir y *Sensus Divinitatis* gan Bechod: gellir tagu hefyd dystiolaeth yr Ymwybod o Foesoldeb anweledig. Yn y Bregeth ar y Mynydd, fe esboniodd yr Arglwydd ddyfnder pechadurusrwydd pechod drwy ddangos nad y troseddau unigol oedd Pechod. Nid y gweithredoedd gwael yn unig a oedd yn hyll, ond y chwennyech hadol amdanynt yn y galon wag. Nid y godineb allanol yn unig sy'n ein gwneud yn euog o odineb, ond y chwennyech cudd lleiaf. A'r un modd gyda 'lladd'. 'Na ladd' oedd y ddeddf, eithr nid yn unig yn null y papur newydd, ond, yn hytrach, 'Na choledda un mymryn o falais nac o gas yn y meddwl.' Y mymryn o staen ar lendid Duw a'i ewyllys Ef, hyn a eglurai i'r gydwybod yr hyn a weithiai Duw yn y galon hefyd i oleuo'r Cwmp. Dyma fyddai anufuddhau i ddeddf Duw, beth bynnag y mae a wnelom â deddf dyn. Y mae a wnelom â dimensiwn dwyfol o'r herwydd. Felly eto, gydag lladrata. Y chwenychu am eiddo oedd y drwg, neu'r cenfigennu o'r golwg: peth yn y galon oedd; cyflwr naturiol dwfn.

Yn y maes ysbrydol, nid yn unman arall, y mae'r cwestiwn iawn yn llechu.

Y goleuo personol hwn oedd yn treiddio heibio i'r ystrydebau ysbrydol hyd at Iesu Grist (gyda rhai awgrymiadau arloesol yn yr Hen Destament), a hyn yn unig oedd yn ddigonol i ddeall ysbryd llachar Duw. Hyn yn ganolog yn awr oedd yn helpu'r pechadur ymguddiol i amgyffred pam nad oedd yn teilyngu bod yng ngŵydd Duw yn Eden. Dyna pam yr oedd angen cymorth goruwchnaturiol yr Un difrycheulyd a chwbl sanctaidd i ddwyn arno'i hun ein bai ni, fel y caem ninnau, sy'n ymostwng, Ei dderbyn yn afieithus i'n calonnau, a chael ein derbyn i lawenydd Ei deulu tragwyddol. Ei natur Ef yn unig a'n cynrychiolai; a'i Enw ef ar ein talcennau. Ni allwn byth wneud digon i ennill lle o'r fath ar ein liwt ein hun neu oherwydd ein rhinwedd ni. Dywed y Gydwybod rywbeth; ond nid â ati i gywiro neb yn drylwyr.

Troseddu syml yn erbyn Duw yw pechod: yn erbyn cyfraith Ei natur ef ac yn erbyn y gwerth a roddodd ef ym mhob cyd-ddyn. Methu mewn unrhyw iot yw anghyfiawnder. Pechod yw'r cwestiwn, felly, nid pechodau: y peth llethol, meddiannol hwnnw sy'n llenwi pob rhan o'n bodolaeth. A marwolaeth yw ei gyflog. Yn y gwraidd, dimensiwn yw hyn. Dewis annuwioldeb ac anghyfiawnder yw'r hyn a wna dyn am resymau ysbrydol; ymhyfryda ynddynt yn dawel; a hyn sy'n milwriaethu hefyd yn erbyn y Synnwyr o Dduw, tra bo gras yn milwriaethu o'i blaid.

Sonia'r Beibl am 'ddicter' Duw yn erbyn pob anghyfiawnder nes peri i'r dyn naturiol wrthryfela'n erbyn y defnydd o'r fath derm. Dyma eto wedd elfennol ar y 'Deunydd'. Ond yr hyn a eglura'r 'dicter' yw difrifwch dwys y sefyllfa gan Dduw Cariad. Mae'n mynd at waelod symlaf unrhyw ymwybod ohono. Hyn a danlinella berthynas pob perthynas. Yng ngogoniant Duw yn unig y gogoneddir dyn, canys dyn yw'r un a grewyd ar ddelw Duw. Drwy sylweddoli peth o hynny yn unig y down bellach i wybod Ei bresenoldeb syml a phwy yw Ef, rhyfeddol yn ei ddiderfynoldeb a'i

fawrhydi a'i gariad annirnadwy o fawr. Mor llawn yn ei berffeithrwydd oedd dedwyddyd cyntaf dyn gyda Duw! A'r un mor llawn yw ei angen yn awr. Yn awr, y mae'r un a grewyd ar lun Duw, ac sy'n dal i gario rhai o'r priodoleddau, wedi syrthio – i ryw raddau, meddir, – ie, ac yn bendant farw ym *mhob* gwedd. Drwy anufudd-dod, drwy ddyrchafu'i awdurdod a'i hunan-hyder i fod yn uwch na Duw, ac oherwydd ar y dechrau fod ganddo ewyllys rydd (a erys ar ryw olwg yn gyfrifoldeb), dewisodd dyn gystadlu'n bersonol â'r Crëwr cwbl ddi-fai a hollwybodol hwn. Collwyd cydymffurfiad moesol dyn â Duw. Collwyd y bodoli a gaed yn Ei fodolaeth ef. Collwyd y blas diflino a sanctaidd at ei waith o ffrwythlonni a moliannu yn Ei wasanaeth. Collwyd y gymdeithas 'naturiol' â Duw. Daeth marwolaeth i'r ysbryd yn gyntaf, ac yna o ran 'addewid' i'r corff i gyd.

Hadau'r Adda llwgr hwnnw sydd ynom oll, a'i enynnau ef. Mae yna rywbeth o'i le ar bawb ohonom. Mae Duw'n naturiol 'farw' i'n profiad bob rhan. A dyma'r rheswm: cyffredinolrwydd pechod nas gwellir yn llwyr tra bôm ar y ddaear, na thrwy addysg na thrwy atrefnu'r economi na'r gymdeithas. Rhan anochel yw ohonom. 'Y maent oll wedi pechu ac yn amddifad o ogoniant Duw.' (Rhuf. 3:23). **Mymryn o botensial fu Synnwyr o Dduw. Ni ellid ei adnewyddu drwy bregethu am y 'Synnwyr o Dduw' ynom ni. Mae'n rhy elfennol gyfyng. Yr unig hedyn ymarferol a fydd yn bywhau'r pechadur mwyach fydd mynd drwyddo a rhagddi i argyhoeddi'r ysbryd drwy foddion Goruwchnaturiol yr Ysbryd Glân i ddatguddio'r gelyn Pechod, a'i ateb gan Ras Arbennig llawn o Iachawdwriaeth Iesu Grist.** Yn y cyd-destun hwnnw, gwefreiddiol yw cofio: 'Y mae'n wir i drosedd yr un [Adda] ddwyn llawer i farwolaeth; ond gymaint mwy sydd ar yr ochr arall: helaethrwydd gras Duw a'i rodd raslon i'r llawer, drwy'r un dyn Iesu Grist. Ac ni ellir cymharu canlyniad pechod un dyn â chanlyniad rhodd Duw. Ar y naill law, yn dilyn ar un weithred o drosedd, y mae dedfryd gyfreithiol sy'n collfarnu; ar y llaw arall, yn dilyn ar droseddau lawer, y mae gweithred o ras sy'n dyfarnu'n gyfiawn.' Cyfiawnder yr Oen yw. Ofer i ddyn hunanlywodraethol ddatrys y broblem.

Cyn cloi'r adran fechan hon (sy'n ceisio esbonio'r gwir rwystr i gredu, a'r atalfa rhag i ymwybod o Dduw droi'n ffug adnabyddiaeth ohono), a gaf i grybwyll rhai ystyriaethau diffiniol am bechod? Gwelsom eisoes fod synnwyr o Dduw yn gallu aros a bodoli yn y dyn syrthiedig. Ni honnir bod dyn felly yn gwbl amddifad o bob daioni. Mae ganddo ras cyffredin. Eto, yr hyn y rhybuddir ynglŷn ag ef yw trwyadled y llygredd yn ei erbyn: y mae'n llygru natur dyn yn gynhenid wahanus gan ymestyn rywfaint i bob cynneddf gan gynnwys y synnwyr o Dduw. Does dim daioni cyflawn *ysbrydol* yn y dyn naturiol: mae'n elyn naturiol yn erbyn Duw. Eto, gadawodd Duw ynddo dystiolaeth megis 'gweddill'.

Dau gyflwr sydd yn bosibl, yn ôl y Beibl: y naill dan bechod, a'r llall dan ras arbennig: marw a byw. Ni ofynnir yno a yw rhywun yn ddyn da? Nid oes neb yn ddigon da ond Duw. Ond a yw'n

perthyn i Deyrnas Dduw neu deyrnas y byd hwn? Y lleoliad yw'r hyn sy'n cyfrif yn sylfaenol. Pan enir ni yr ŷm i gyd dan bechod, yn ddiddeuwis, fel corff marwol. Os ailenir ni yr ŷm o dan ras newydd. Mae yna awdurdod drosom, a barn arnom. Er mwyn i bobl y deyrnas gyntaf feddiannu'r cadw syml y daeth Iesu Grist i'r byd. Dyna bwysigrwydd y Cwmp, a'r Ymgawdoliad gogoneddus a gafwyd wedyn. **Dyfodiad pechod oedd trychineb mwyaf y ddaear hon erioed, a'r Groes y fuddugoliaeth fwyaf.** Dyna pam y mae angen ymwared â'n clustogau a pheidio â sensro'r hyn a ddywed y Beibl am bechod ac am y Groes. Tystio y maent gyda'i gilydd am angen dyn ac am ogoniant Duw. Thâl hi ddim i'r dyn naturiol ddadlau nad yw'n teimlo'n bechadur yn erbyn y Goruwchnaturiol. Wrth gwrs, nid mater o deimlad yn unig mohono, ond mater o ffaith. Does dim eithriadau ymhlith plant y llawr. Fu neb erioed, ond Iesu, er dyddiau Adda heb bechu. Heb ei fai, heb ei eni. Pawb a bechodd yn feddyliol fel nad yw'n addas i ennill nef na bywyd tragwyddol. Cafwyd amherffeithrwydd o ryw fath ym mhawb. Thâl balchder ond i bentyrru marwor. Mae hunan-amddiffyn yn hunan-ddinistr pan wynebir ni gan y cyhuddiad o bechu. A goleuo dyn yw ei argyhoeddi o'i dywyllwch: ei ddal yn y gwraidd. Mae Iesu'n eiriol dros ei blant heb golli'r un.

Delwedda'r Beibl gynllun achub a sianela Duw o'r gwagle drwy'r Ysbryd Glân yn gymhwysiad o'r pwynt yma ymlaen, yn ôl angen mwyaf dynoliaeth hyd yr ateb terfynol.

*

*

*

Wedi'r Dystiolaeth fewnol o synhwyro neu ymwybod â Duw, dyma droi at yr ymwybod o Werthoedd Moesol ac eraill. Dyma ni o gam i gam yn archwilio'r ail o Saith Dystiolaeth i Dduw. Fe ddadleuwn fod y ddwy hyn yn angenrheidiol gyda'i gilydd: **Ymwybod a Chydwybod.** Rhaid yw *credu* bod Duw yn bodoli. Ond nid yw'n ddigonol. Priodol i'r Gydwybod hon wedyn *brofi'r gwirionedd bod dyn yn cael ei eni yn meddu ar bechod marwol.* Mae'r ddwy dystiolaeth yn gyd-wir ac yn 'naturiol'. Ond nid yw profi gwybodaeth yn rhoi argyhoeddiad digonol i ddarparu ateb llawn. **Pa werth yw gwybod am bechod sydd ynom heb ddim mwy?** Doniwyd y baban dynol er yn gynnar i wybod yn reddfodol y gwahaniaeth rhwng y derbynol a'r annerbyniol. Daw i ddethol rhwng cysur ac anghysur, pell ac agos, goleuni a thywyllwch. Ac wrth ddeall arwyddocâd buddiol gwahanu pethau, fe'i cynorthwyir i ddewis gan synnwyr mewnol o dda a drwg. Fe'i pigir ef. Ac fe dry.

Mae'r 'Gydwybod' neu 'Gyd-wybod' yn awgrymu gwahanol bethau yn hanes diwinyddiaeth. Gan amlaf, ac ar y lefel symlaf, y mae'r cyntaf o'r termau hyn yn golygu pwl (bach efallai, a digon cyntefig) o euogrwydd. Mae'n awgrymu'r llais bach yna yng nghefn y meddwl fod rhywun wedi gwneud yr hyn sydd heb fod yn gwbl iawn. Mae gan bawb bron ryw fath o safonau felly y tybir eu bod yn briodol ym mherthynas cyd-ddynion. Os nad ufuddheir i'r safonau gwrthrychol hyn, yna bydd yna Gydwybod yn pigo efallai.

Mae Cyd-wybod yn golygu dyn a dyn yn rhannu 'gwybod' â'i gilydd: profiad nodedig iawn. Ond bydd dynion o bryd i'w gilydd yn treiddio'n ddyfnach ym myd 'Cydwybod.' Nid yn ôl perthynas â chyd-ddyn nac â Bywyd Gwyllt y Greadigaeth yn unig y maent yn teimlo'r Gydwybod ar waith. Ânt ymhellach, ac ystyried beth yw eu perthynas â Duw. Mae hyn yn fwy arwyddocaol na'r 'Ymwybod â Duw' neu'r 'Synnwyr o Dduw'. Ychydig a gaiff brofiad felly cyn llencyndod. Ond daw llanc effro i feddwl am *Dduw* byw. Daw yn ymwybodol o berthynas y mae angen iddo fod yn cyfrifol ymwybod â hi, yn atebol, yn ofnus, neu'n gariadus â Duw. Dyma wybod am bechod byw.

Mae'r ymadrodd 'mewn perthynas â Christ' yn cael ei ddefnyddio'n fynych ymhlith efengyleiddwyr. Ond ymadrodd annigonol yw i fynegi'r hyn sydd ganddynt mewn golwg. Maent yn synied am berthynas o fath goruwchnaturiol cwbl arbennig. Ac y mae'r berthynas honno sydd ganddynt mewn golwg yn weddol agos o ran fframwaith i'r un a ddisgrifir gan yr apostol Paul (yn Rhufeiniaid), lle yr oedd y gydwybod ar waith y pryd hynny; go brin fod dwysach profiad. Maent y cael eu llethu y tu hwnt i ddeall cyffredin. (cf. Samuel Rutherford, *A Free Disputation against Pretended Liberty of Conscience*.) Maent yn cyd-wybod, ac yn cael eu hysgogi ymhellach.

Y mae gwybod 'Cydwybod' yn ffactor sy'n fwy cyntefig efallai nag adnabod Crist. Dyna'r ail o'r ddau 'brawf' o Dduw, neu'r ddwy dystiolaeth gyntaf y mae Duw wedi'u darparu ar ein cyfer. Wedi'r Synnwyr o Dduw, wele'r Gydwybod ynghylch y bywyd ysbrydol a moesol. Nid yw'r naill na'r llall o'r ddau hyn yn ymddangos yn fawr o beth o safbwynt cryfder prawf bod Duw yn bod. Ond rhan bwysig ydynt o'r proses. Wrth inni ymdroi ychydig gyda'r *Gydwybod*, neu drafod natur a phwysigrwydd y *Synnwyr o Dduw*, gallwn ystyried gymaint mwy yw *Cydwybod* yng ngoleuni'r Beibl. Ac ymhellach, gallwn fyfyrion amdani o safbwynt tystiolaethu drwyddi gan yr Ysbryd Glân. Er bod Ymwybod o bresenoldeb Duw yn rhywbeth a brawf pob Cristion, fe all *Ymwybod* syml o Dduw beidio â mynd fawr ymhellach na'r *Ym*. Fe all arwain at Ddeistiaeth, mor sicr ag y gall Rhesymoliaeth. Gan amlaf, bydd Deistiaeth yn golygu bod Duw'n dylunio bydysawd yn ddeallol, ac yna'n gadael iddo ymdopi heb ymyrryd. Cam ymlaen o'r fan yna yw'r presenoldeb a deimlir â'r 'galon', fel y gwnâi Rousseau. Ond fel arfer, y mae *Ymwybod* noeth sy'n amddifad o Gydwybod yn pwysleisio'r 'Ym' neu'r fi yn ormodol.

Mae Cristion fel Morgan Llwyd ar y llaw arall yn cymryd *Cydwybod* fel perthynas aruchel. Mae'n ymwybod â phresenoldeb o fath arbennig. Mae'n ystyried hefyd fod yna ymsymud mawr yn y galon o werthoedd da a drwg megis llais Duw. Dyma realaeth y Duw personol. Anrhydedd yw'r Cyd hwn. Gall anghredadun glew wrth gwrs *ymwybod* â gwerthoedd cyffelyb. Eithr onid edwyn Grist, nid yr '*ym*-' sy'n siarad, ond y '*fi*' sy'n barnu, naill ai drwy syniadaeth yr ymennydd neu brofiad y deimladaeth.

Tuedda Morgan Llwyd i gydnabod yr 'Ymwybod' o fodolaeth *a'r* 'Gydwybod' o berthyn

gyda'i gilydd yn gyfuniad annatod, ac mae'n defnyddio'r term 'Cydwbybod' i gynnwys y naill a'r llall ynghyd. Rhydd y Gydwybod her aruchel i ddyn sy'n peri iddo weithredu neu ei harddel mewn ufudd-dod. O ymwybod â Bodolaeth, ni all y Gydwybod lai nag ymateb yn foisol.

Darganfyddiad aruthrol yw Cydwbybod effro o'r fath. Mae'r caledrwydd ymennydd, sy'n atal dyn naturiol rhag sylweddoli'r ataliad rhag llygredd, wedi adeiladu amddiffynfa negyddol, rhag cywiro'r methiant. Ond y mae'r Gydwybod yn caniatáu sylweddoliad o fwllch yn y gwrthwynebiad hwnnw. Dyma un goleuni yn y tywyllwch sy'n argyhoeddi ymwybod fod yna'r fath beth â rhwystr yn bod. Ni ellir ymwared â rhwystr o'r fath heb sylweddoli nerth ac ansawdd y rhwystr.

Sut bynnag y diffinnir y drwg – hunanganologrwydd, balchder – mae canfod y fodolaeth honno yn y galon effro yn ddarganfyddiad o negyddiad i'r Ymwybod o Dduw.

Y mae a wnelo felly â pherthynas â Chyfraith Duw, yn fwy treiddgar yn ei chyfrifoldeb na'r Ymwybod noeth o bresenoldeb Duw. Mae'n ysgogi ysfa am faddeuant. Mae'n uwch na Gras Ataliol.

*

*

*

Ymddengys i mi fod yna ar gael ar y naill law ymwybod moel o Dduw, sef y gynneddf symlaf o'i synhwyro. Nid yw'n cynnwys fawr o wybodaeth ddofn am Ei gariad yn yr ymdeimlad hwnnw, oherwydd trais ac alltudiaeth pechod. Eto, y mae'n cynnwys rhywfaint, neu'n gwyrto'r ymwybod di-Dduw. Mwy yw nag ymwybod o fodolaeth seml: mae yn ymwybod o arall. Ymwybod elfennol ynghylch cymeriad Duw yw hyn. Mae'n gysylltiedig â'r hyn a alwasom eisoes yn 'Gydwybod' gan chwilio am fwy o ddiffiniad ohono. Roedd Morgan Llwyd yntau, heblaw'i fod yn cynnwys y gynneddf gyntaf, sef yr ymwybod dirfodol o 'fodolaeth', a hyd yn oed o fodolaeth Duw, hefyd yn cynnwys yr ail gyda hi, y gydwbybod ynghylch cyfiawnder Duw fel petaent yn un. A chredaf ei fod yn agos i'w le: ni feddyliwn yn ystyrllon am Dduw heb inni gael ein gogwyddo fel arfer i ymwybod â'i gymeriad Ef. Mae'n welediad, yn sylweddoliad, sy'n anorffen, ac yn disgwyl am ddyfodol. Mae'r ymwybod moel o Dduw, o fodolaeth Duw, yn ein gwthio fel arfer at gysylltu rhyw rin ag ef, rhyw ymwybod o awdurdod dros fywyd a marwolaeth efallai; rhyw gynnwys, rhyw allu ynglŷn â daioni'r ddaear, rhyw syniad am lendid. Y ddeddf farnol. Dyna'r Gydwybod sy'n wynebu 'natur' Duw. Mae a wnelo â'r Ddeddf. Oherwydd y cysylltiad hwn rhwng rhin arbennig cymeriad Duw a'i fodolaeth a'i ddeddfau: dyna pam yr oedd ymyrraeth pechod mor berthnasol.

Cyfeiriodd Plantinga megis dyfyniad at batrwm ei ragflaenwyr Calfin a Kuyper a Van Til: '*Nid oes unrhyw fangre yn y bydysawd lle na ellwch ddirnad rhyw wreichion o'i ogoniant.*' Ac ychwanegodd Plantinga y gallasai Calfin fod wedi atodi hefyd yr ymwybod o anfodlonrwydd dwyfol pan fyddir yn cyflawni rhyw waith anghywir neu israddol, yn ogystal â chanfyddiad o

faddeuant dwyfol oherwydd cyffesu ac edifarhau. Bydd pobl mewn dygn berygl yn troi at yr Arglwydd ar gyfer swcwr mewn euogrwydd, i achub eu crwyn. Mae yna fwy nag ymwybod bod Duw'n bodoli y pryd hynny, a hynny oherwydd bod ganddo Ef gonsárn amdanom ni, bechaduriaid tlawd. Mae yna galon sy'n chwyldroi wedi canfod y Glendid.

Mae pob person yn meddu ar ryw gynneddf i wybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg, llesol ac aflesol, manteisiol ac anfanteisiol. Mae'n gallu dirnad gwahaniaethau o fewn cyferbyniad. Ac yn y bôn neu yn y dechreuad, er gwaethaf pob gwyrddroad alaethus a methiant ffaidd, weithiau'n fethiant terfynol i bob golwg, y mae drygioni'n dal i beri anesmwythyd i gydwybod yn bur gyffredin. Cyhoedda pennod 20 o Gyffes Augsburg 1530: '*Mae'r holl ddysgeidiaeth hon yn gysylltiedig ag ymryson y gydwybod ddychrynedig, a heb yr ymryson hwnnw ni ellir ei deall.*' Dadleua J.I. Packer mai gwedd yw Cydwybod o ddelwedd aml-sbwylledig Duw y gwnaeth dyn gawdel ohoni. Dadleuai'r Piwritaniaid o Perkins ymhellach fod a wnelo Cyd-wybod â gwybodaeth a oedd yn cydreddeg â gwybodaeth Duw (cf. Samuel Rutherford, *A free Disputation against Pretended Liberty of Conscience*). Meddai 1 Cor. 11:31, *Canys pe iawn farnem ni ein hunain, ni'n bernid.* '*Ysbīwr Duw yn ein mynwes yw'r Gydwybod,*' yn ôl y Piwritan Thomas Brooks. Ysbīwr mewn rhyfel yw, yn ddiau.

Cytunwn efallai mai'r gair a ddefnyddir weithiau felly mewn cylchoedd Cristnogol yn lle 'Synnwyr o Dduw' yw'r Gydwybod, am fod bodolaeth yn 'bygwth' mwy. Ac mae'r cysylltiad rhwng y ddau yn annatod. Dyna pam y defnyddiai Calfin y gair hwn yn ddiflewyn ar dafod megis y gwnâi Morgan Llwyd a'r Piwritaniaid hwythau. Ond yr wyf am grynhoi sylw ar wedd y 'Gydwybod' sydd fel petai ar wahân ac yn olynol i'r 'Synnwyr o Dduw'.

Pan soniwn am hyn a'r llall yn pigo'n Cydwybod, felly, neu'n hytrach fod ein Cydwybod yn ein pigo ni oherwydd hyn a'r llall, nid 'y 'Synnwyr o Dduw' yw'r peth cyntaf y meddyliwn amdano. Dwedwch ein bod wedi gwneud neu wedi dweud rhywbeth angharedig neu hunanol yn ein perthynas â rhywun, fe all ein Cydwybod ddod ar ein gwarthaf, a'n cystwyo. Dyna'n synnwyr moesol cyffredin efallai yn hytrach na'r synnwyr dwyfol arbennig o fodolaeth yn ein poeni. Gwyddom, megis drwy reddf eto, o fewn fframwaith rhoddedig y rhagor rhwng da a drwg, y berthynas rhwng dyn a dyn. Gwyddom am aroglau'r dom. Ond beth am berthynas dyn a Duw yn hyn? Bydd y Cristion yn aeddfedu'n fyw iawn ynglŷn â'r Gydwybod. Saif hwn a hwn ar ei anrhydedd gerbron Duw. Mae calon gydymdeimladus yn mynd ynghlwm wrth rywun neu rywbeth, ac ni all ei fradychu mewn unrhyw ffordd. Ni chaiff lonydd gan ei Gydwybod na chan ei Fugail.

Yn Worms datganodd Luther: 'Rhwymedig yw fy nghydwybod wrth Air Duw.' Meddai J.I. Packer am hyn: 'Golygai "cydwybod" wybodaeth dyn amdano'i hun yn sefyll yng ngŵydd Duw (*coram Deo*, yn ôl ymadrodd Luther), a hynny'n ufudd i Air Duw ac yn datgelu'r farn i gyfraith

Duw... Y fforwm neu'r llys barn oedd y gydwybod lle y datgenid dedfryd gyfiawnhaol Duw. Pridd unigryw oedd y gydwybod lle y tyfai gwir ffydd, gobaith, tangnefedd a llawenydd.' Hynny yw, y mae'r synnwyr o Dduw yn cyfarfod â'n synnwyr amdanom ein hun yn ei wÿdd ef, a threwir ni gan ein haflendid.

Fel y synnwyr o Dduw, y mae'r Gydwybod foesol y soniwn amdani fel arfer yn wybodaeth gyffredinol a rannwn yn isymwybodol – cyd+wybod. Ond fe'i rhannwn hefyd gyda Duw ei hun, oherwydd inni gael ein llunio ar Ei ddelw ef. Weithiau, ymholwn ym mha ffyrdd bellach y mae unrhyw argraff o ddelw, hyd yn oed mewn modd gwelw a thenau, yn dal i aros arnom. Dyma un ateb, – yn y Gydwybod gloff. A dyma'r ffordd y mae Gras Cyffredin Duw (heb sôn am ddim arall) yn gallu effeithio arnom wyneb yn wyneb ag ansawdd gwacter ein perthynas ag eraill.

Drwy'r Gydwybod y gellir ein hargyhoeddi o bechod fel peth yn erbyn cyd-ddyn, hyd yn oed heb sylwi ei fod yn erbyn Duw hefyd. Drwy'r Gydwybod, gellir ein hargyhoeddi yn ogystal o Farn, ac o hyfrydwch aruthr Trugaredd.

Dawn yw'r Gydwybod nid yn unig i adnabod y gwahaniaeth rhwng cyfiawn ac anghyfiawn yn well na rheswm, eithr hefyd i'w teimlo i'r byw. Oherwydd Gras Cyffredin, fe'i rhennir gan anghredadun a chan gredadun. Rhyw fath o gennad gan Dduw yn yr enaid yw. Mwy pwerus yw na'r ewyllys. Tyst yw hefyd i ddehongli ffeithiau. Rhuf. 2:15: '*Y maent yn dangos bod yr hyn a ofynnir gan y Gyfraith wedi ei ysgrifennu yn eu calonnau, gan fod eu cydwybod yn cyd-dystiolaethu â'r Gyfraith, ac felly y mae eu meddyliau weithiau'n eu cyhuddo, ac weithiau hefyd yn eu hamddiffyn.*' Tystiolaeth aruchel, felly, yw'r gydwybod pan fo mewn cytgordd â gwrthrychedd yr efengyl a adwaenir eisoes. 2 Cor. 1:12-13: '*Dyma yw ein hymffrost ni: bod ein cydwybod yn tystio bod ein hymddygiad yn y byd, a mwy byth tuag atoch chwi, wedi ei lywio gan unplygrwydd a didwylledd duwiol, nid gan ddoethineb ddynol ond gan ras Duw. Oherwydd nid ydym yn ysgrifennu dim atoch na allwch ei ddarllen a'i ddeall.*' Dyna gydwybod Gras Arbennig Paul wedi'i fendithio i'w waith, ond yn rhannu nodweddion swyddogaethol gyda Gras Cyffredin.

Sylwer felly yn y fan yma ar y gwahaniaeth rhwng y Synnwyr o Dduw, sef yr ymwybod o'i fodolaeth, a'r Gydwybod yn ôl y rheidrwydd i ymateb. Mae'r ail yn barotach i symud. Adlais amherffaith o Dduw a adawyd ynom adeg y creu gyda Rheswm a'r Cof yw'r Gydwybod, a syrthiodd bid siŵr fel pob dim arall ynom sy'n ffaledig felly, ond sydd wedi para gyda'r union swydd a chynneddf o gyd-wybod gyda Duw. Gall ymateb i'r Cyfiawnder sydd yn Nuw, ac i'r anghyfiawnder a'r cyfiawnder sydd mewn dyn. Cynneddf bwysig iawn yw i dystiolaethu am ewyllys Duw yn y galon; a llawforwyn yw i'r Ysbryd Glân.

Nid dyma, wrth gwrs, y safon eithaf. Dyma'r dirnadwr: hyn a brofir wrth roi 'prawf'. Nid dyma'r unig un a rydd y gyfraith ynom. Ond dyma'r un hefyd sy'n *deall* peth o gyfraith Duw ac yn

galw arnom i ufuddhau iddi. Oherwydd peryglon goddrychedd rhyddfrydol a'r awydd i danseilio bannau'r ffydd, bendithiwyd ni â chanllawiau gwrthrychol i'r Gydwybod. Yn yr ysgrythurau anadledig y datguddiwyd y meddwl hwnnw. Cyd-dystiolaethu â'r dystiolaeth ddwyfol honno yw swydd y Gydwybod, sef â'r dystiolaeth a ysgrifennwyd ynom ac yn yr Ysgrythur dan lywodraeth yr Ysbryd Glân drwy gyfryngau dynol. Felly y rhoddwyd i gydwybodau dynion gyfarwyddyd eglur ynghylch ffydd a bywyd, ac ymlaen i Undod â Duw wrth i'r Ysbryd dystiolaethu am y Gwardedwr.

Gwir mai Gras Cyffredin weithiau yw'r Gydwybod yn annibynnol ar argyhoeddiad o ffydd. Ond mae'r Synnwyr o Dduw a'r Gydwybod hefyd yn gyd-dystion â'r Ysgrythur i'r sawl sy'n ceisio mwy na gwybod bod Duw yno. A'r Ysgrythur yna a all roi i'r Synnwyr hwnnw a'r Gydwybod honno sicrwydd iachawdwriaeth. Gall y Synnwyr o Dduw yno a'r Gydwybod ymateb o'r herwydd yn llawnach i alwad yr Ysbryd Glân adeg aileni.

*

*

*

Roedd yr Apostol Paul yn tynnu sylw at y ffaith ryfedd hefyd fod y bobl a oedd y tu hwnt i gyrraedd yr efengyl yn teimlo bod y gyfraith wedi'i hysgrifennu yn eu calonnau. Un ffordd dda iawn o feddwl am y gydwybod felly yw synied amdani megis Morgan Llwyd fel llais mewnol sy'n siarad â ni am werthoedd pan fydd Ysbryd Duw yn ein pigo ni ar ein gwarthaf. Dyma fath o wybodaeth gyffredinol sy'n dod *gyda ni* – Cyd-wybod yn cydgerdded, hyd y diwedd yn achos Llwyd. O ble y daw hyn? Fe ddaw yn arbennig pan fydd yn golygu bod rhyw ddaioni yn mynd i gostio ychydig inni, neu'n costio hyd yn oed llawer, ie hyd yn oed bywyd. Daw drwy'r Beibl.

Sylwch chwi, wrth grybwyll y Gydwybod, a llawer o'r tystiolaethau eraill, ni byddir yn canolbwyntio yn neilltuol ar Gristnogaeth yn unig. Yr wyf wedi bod yn sôn am gyflyrau cyffredinol iawn. Ond hawlio yr wyf fod y rhain oll ar waith ym mhobman, oherwydd bodolaeth a gwaith yr un Duw, hyd yn oed pan fo'n tarddu mewn Gras Cyffredin. Mae Morgan Llwyd yn sôn amdani yn fwy penodol fel hyn: ***'Ysbryd y Duw byw ... yn gweiddi yn groch yng ngwaelod meddwl.'***

Ac meddai ef ymhellach: *'Mae math o Ddydd y Farn o'r tu mewn i ddyn yn barod, er nad yw diwedd pob peth eto. Mae'r cnawd fel drwg weithredwr, a'r gydwybod yn dyst, a'r rheswm cnawdol yn ddadleuwr dros y pechod, ond mae Duw fel fflam dân yn farnwr yr enaid.'*

Unwaith eto, fel gyda'r ymwybod o Dduw, ond yn gam ymlaen, felly mae'r Gydwybod: mae'r dyn naturiol yn fynych yn ceisio mygu hyn. Mae yna rywbeth sy'n peri ein bod ni'n gwrthwynebu'r Gydwybod yn aml. Eithr rhodd yn ein dannedd yw, a rhodd gan Ysbryd Goruchaf.

Sôn yr wyf am wneud rhywbeth sy'n uwch ac yn groes i egwyddor 'cyfleustra'. Torri ar draws rhyw fath o egwyddor gyffredinol greadurol syrthiedig yr wyf, ac yn erbyn rhywbeth a allai fod yn hunanol. Gall ddechrau drwy beidio ag enwi Cristnogaeth o reidrwydd, ac yn y cyd-destun hwnnw, gellir na ddefnyddiwyd mo'r gair 'pechod' yn hytrach na 'drwg'. Ond ar y daith, gall

Cydwybod gymryd cam newydd. Gair ysbrydol yw 'pechod', sef, nid drwg fel y cyfryw, ond drwg yn erbyn Duw. Mae hynny'n gryn gam allweddol ymlaen i'r meddwl effro. Ar hyn o bryd, mae drwg yn erbyn cyd-ddyn yn ddigon i'w ddeall. Ac y mae tarddiad y fath syniad â hynny hyd yn oed, yn dipyn o ddirgelwch. Ond fe ddylwn efallai sôn am un peth, rhag sleifio yn rhy rwydd heibio i'r ddealltwriaeth o 'bechod'. *Nid achlysur yn unig yw.* Mae 'pechod' fel cydwybod yn *gyflwr* parhaol. Mwy na thipyn o gamp yw ymwneud â phechod. Mae gofynion perffeithrwydd meddwl a theimlad hefyd yn fwy nag y gall meidrolyn eu cyflawni, mae arnaf ofn. Felly, yn ogystal, y mae'r Gydwybod ei hun yn gyflwr bythol bresennol er mor gloff y gall fod. Mae'r ddau – pechod a chydwybod – yn cydreddeg â'i gilydd. Y maent gyda ni o hyd, Cristnogion neu beidio, ond bod y Cristion wedi dyrchafu 'bod yn ddrwg' i lefel ysbrydol, ac i fod yn ffactor pellgyrhaeddol yn ein perthynas â Duw yn benodol. Mae'r Beibl yn sôn gyda manylrwydd am yr Angen a'r Iachawdwr.

Dwi wedi ceisio sôn hefyd am gynorthwyon o'r tu mewn sy'n ysgogi cred yn Nuw. Mae rhai'n gofyn o hyd – Ai man cyfathrebu yw'r Gydwybod, felly rhwng Credadun ac Anghredadun? A oes tir cyffredin? A'm hateb petrus i hyd yn hyn fu 'oes'. Ym myd y naturiol fe geir yr hyn y mae ysgolheigion yn ei alw'n 'Ras Cyffredin'. Mae Duw'n glawio ar bawb, ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Un o'r manau niferus sy'n gyffredin i'r ddwy ochr hynny ac sy'n cyfeirio'n meddwl tuag at Dduw yw'r Gydwybod, peth sydd gan bawb fel ei gilydd ar ryw siâp. Rhyw fath o fan cyfarfod gwych yw cyd-wybod rhwng dyn a dyn. Eto, i rywrai (a adwaenwn oll) a geisiai 'ddyneiddio' Cristnogaeth, wrth wadu'r ffydd ddiffuant, rhoddid ysywaeth yr holl bwyslais ar foesoldeb y fi. Gall hynny gamarwain a gwenwyno. Er bod Cristion yn cymeradwyo ac yn diolch o'r galon am ddeddfau moesoldeb yr anghredadun, am gyfnod bu hyn yng nghanol y darlun dyneiddiol yng Nghymru ar lun deddfoldeb weithiau yn lle perthynas â Duw. Ond os yw'r Gydwybod yn esgus i anghredadun o 'ddyn-da' synied fod hwnnw'n ddigon, dyna'r Gydwybod syrthiedig wrthi'n gwneud drygioni. Cymer mai'r drwg yw pechod yn erbyn rhyw ddyn arall, yn unig. *Y Beibl, sy'n dod o'r tu allan, sy'n gymorth i ddiffinio'r Gydwybod; ac yn ei goleuo.* Aeth llawer o bulpudau enwadol Cymru ysywaeth yn foesolaidd ac yn oddrychol, bron yn gyfan gwbl, gyda phinsiad o Gristnogaeth, yn yr ugeinfed ganrif. Ar ryw olwg, yr hyn a oedd ar goll mewn capeli oedd y sylweddoliad nad Moesoldeb yn unig oedd Cristnogaeth. Gwacawyd y capeli gan Foesoldeb unochrog, gan 'Iesu Grist y dyn da'.

Clywir sôn am 'Y Gydwybod Ymneilltuol', yn gysylltiedig yn arbennig ag anghydfurfiaeth ryddfrydol dechrau'r ugeinfed ganrif. Ymwybod yw hyn o gyfrifoldeb dros gyd-ddyn. Fe'i cyplyswyd yn wreiddiol ag ymwybod o bechadurusrwydd personol gynt a'r angen i ymddiwgio a sancteiddio'n barhaus. A throes hyn yn ymgais hollol glodwiw i ddiwygio cyd-ddyn. Nid ymgais oedd i ddiwygio eraill yn unig oedd yn wreiddiol, nac i ymddwyn yn farnwriaethol, o raid, ond i ymostwng mewn ysbryd. Nid rhestr o reolau oedd hon; ond ymgysylltai â chalon a garthwyd cyn

belled ag a oedd yn bosibl o bob hunan-gyfiawnder. Ond collwyd rhywbeth. Does gan y Cristion ddim *awdurdod* ohono'i hun yn y maes hwn: allanol a gwrthrychol yw'r awdurdod sy'n llywio'r gydwibod. Daw o ras. Fe'i ceir yn yr ysgrythurau ac yng ngwaith yr Ysbryd Glân. Dyma'r tarddiad i hunan-ddisgyblaeth ac i ymostwng. Ceir nod i'r gydwibod mewn duwioledeb cadarnhaol, heb ddim o'r ysbryd deddfol na'i negyddiaeth gyfyngiadol. Y gydwibod sy'n gyfrifol am gymhwyso'r goleuni a gafwyd drwy Air Duw, yn y fath fodd fel y bydd y Cristion yn byw yn ôl clod i'w Arglwydd. Y 'gwybod' hwn sy'n ysgogi'r 'ewyllys' i wneud. Cyfleustra ymarferol ddigon yw gwneud rhestr o arweddau: gwna'r Beibl hyn, eithr fe â ymhellach. Molwr yw'r Gydwybod ostyngedig i Dduw sy'n cynnwys yn Ei gymeriad a'i fodolaeth yr holl ddeddfau moesol.

Yn ei gyfrol *Gwaedd Ynghymru yn Wyneb pob Cydwibod*, cyfeiria Morgan Llwyd at y gydwibod fel cloch: *'Pwy bynnag wyt, mae cloch yn canu o'r tu fewn i ti.*

Oni wrandewi ar y llais sydd ynot dy hunan, pa fodd y gwrandewi di ar gynghorion oddi allan?...

Mae'r Gydwybod yn dwedyd mai drwg yw bod yn falch, yn filain, yn genfigennus... Y Gydwybod a fydd yn dyst, ac yn farnwr, ac yn gnofa.

Nid eraill sydd yn dy farnu, ond dy gydwibod dy hun...

Os gwna dyn y dim lleiaf yn erbyn ei oleuni, mae fo yn ei wenwyno ei hun...

*Mae math ar Ddydd y Farn o'r tu mewn i ddyn yn barod, er nad yw diwedd pob peth eto. Mae'r cnawd fel drwg weithredwr, **a'r gydwibod yn dyst**, a'r rheswm cnawdol yn ddadleuwr dros y pechod, ond mae Duw fel fflam dân yn farnwr ar yr enaid...*

Mae'r meddwl eto yn rhedeg fel anifail gwyllt dros gloddiau'r gydwibod, a thros wrychoedd y gwirionedd. Ac wedi i ddyn roi asgwrn ei gydwibod allan o'i le, wrth geisio bodloni eraill, nid oes un cydymaith a'i llonydda...

Duw a'r gydwibod yw'r gelyn gwaethaf. Duw a'r gydwibod yw'r cydymaith gorau...

Llyfr Duw yw cydwibod dyner, a gwych ganddo sgrifennu ei ewyllys ynddi.'

Drwy'r gydwibod yr argyhoeddir y dyn daearol o'r drwg a wnaeth yn erbyn cymydog. Drwy'r un gydwibod y caiff y Cristion wybod ei bechod yn erbyn y cymydog o Dduw. Argyhoeddiad o bechod sy'n caniatáu i Gristion fod yn dyst absoliwt o faddeuant pechod drwy'r iawn neu'r pridwerth a dalwyd yng ngwaed ein Harglwydd Iesu Grist.

Meddai Morgan Llwyd eto: *'Cymered amser i holi'r gydwibod yn ddirgel, a gwaedded ar Dduw tra fo ef yn agos, a chuddied y geiriau hyn yn y galon, rhag i'r gelyn eu lladrata.'*

* * *

Digwyddodd rhywbeth sylfaenol anonest i'r Gydwybod Ymneilltuol honno, felly, rhwng canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a diwedd yr ugeinfed ganrif. Daethpwyd, yn gyffredin

ymhlith y rhyddfrydwyr diwinyddol, i arddel Gweithredoedd yn lle Ffydd, Ysbrydoledd yn lle Cristnogaeth, ac Awyrgylch yn lle Beibl. Cafwyd math o Sensoriaeth mewn rhai o bulpudau Cymru ar uniongredd, cyn eu darfod. Ac araf fu rhai ohonom i ddarganfod yr hyn a aeth yn absennol. Niwliwyd yn benderfynol barchus yr ateb rhwng 'Bod yn ymwybodol o Dduw' a 'Chael Cymdeithas gydag Ef.' A'r rheswm yw bod rhai o brif athrawiaethau'r ffydd Gristnogol hanesyddol, glasurol, wedi'u tynnu o'r golau a'u doddi yn y drôr: y goruwchnaturiol, yr argyhoeddiad drylliol o Bechod, yr Ymgnawdoliad gwyrthiol, Y Drindod Odidog, yr Iawn yn y Gwaed, y Farn Fawr, ac yn y blaen. I lawr y draen â hwy. Sylwer mai realiti'r enciliad hwn oedd deffro Cyd+wybod rhywrai. Dieithrwch syfrdan i rywrai ym mhedwardegau a phumdegau'r ugeinfed ganrif fu darganfod y Beibl yn cael parch newydd mewn difrifwch unwaith eto – cwsg i eraill – , nid fel llenyddiaeth 'bleserus' ond bellach fel dŵr yn yr anialwch, fel cyfrwng gwirionedd absoliwt. Llenyddiaeth wirioneddol fyw. Bu i ambell un, yn y cyfnod hwnnw, a fu ar grwydr yn chwilio am air crediniol, brofi gosodiadau eglur y Beibl drwy gyfrwng yr Ysbryd a gwybod mai ofer mwyach oedd chwarae â'r rhain drwy amwysedd ac ysgafnder. Ac yna, câi ef dinc gobeithiol eithriadol ddieithr. Roedd y gydwbybod ar gael o hyd! A'r bygythiad a gyfodai'n rhy fynych oedd y gydwbybod o sylweddoli Duw glân.

Nid prawf 'diamheuol' o'r math elfennaidd ynghylch bodolaeth Duw yn unig, felly, yw'r Gydwybod Gristnogol, ond y mae'n tystiolaethu i'r modd y gall rhyw ddaioni gyffwrdd â gwaelod bywyd. Ffaith yw hon eto yn y berthynas. Yr unig brawf sicr o Dduw yw bod yr Ysbryd Glân yn gweithio'n ddatguddiol benderfynol yn y galon ddynol drwy nifer o gyfryngau. A gellir ei wireddu yn ôl y geiriau a lefarodd mewn testun 'corfforol'. Mae'n ymwneud â *pherthynas* o'r fath; ac ymddengys fod y Gydwybod (1) yn gweithio'n *isymwybodol* i raddau. Hynny yw, nid oes angen troi ati'n fwriadus. Y mae fel petai'n llefaru ohoni'i hun ynghylch ein gweithredoedd a'n teimladau. (2) Mae'n gynneddf ddynol sy'n dirnad neu'n gwahaniaethu ac yn cysoni amgyffred (gwahuno) wrth farnu rhwng da a drwg, cyfiawn ac anghyfiawn. (3) Er bod unigolion yn gwahaniaethu rhyngddynt a'i gilydd wrth benderfynu casgliadau o'r fath, gan fod hunan-les a hunan-amddiffyn teimladol yn ymyrryd, y mae'n gryn syndod fel y mae swmp annaturiol o haelfrydedd, caredigrwydd, a gonestrwydd yn aros yn gyson gyda rhywrai. Hynny yw, nid ymddengys hyn yn ddamweiniol nac yn hunanol bragmatig, eithr yn ddeddf 'naturiol', yn ras cyffredin. Nid yw'n anffaeledig, wrth gwrs. Ac eto, nid rhaid cymdeithasol mohono. (4) Mae Cydwbybod oruwch-hunan yn gymhelliad heriol i droi egwyddor yn weithred. Mae'n ysgogiad ymarferol i weithredu neu i ymddwyn mewn ffordd neilltuol o dan berswâd ymdeimlad/undod â Duw. (5) Tyf yng ngolau'r Ysgrythurau.

Datguddir yn ddeinamig, felly, ychydig am Dduw drwy Gydwybod (ochr yn ochr â'r Greadigaeth, a Synnwyr o Dduw); ond nid prawf boddhaol o Dduw mohoni. Nid drwy ymdrech dyn ffaeledig a marw ei ysbryd y datguddir Duw yn ei gyfoeth. Cyflwynir Duw gan Dduw ei hun. Ni

ellir ei gyrraedd heb Ei Ras Arbennig o fewn y Gras Cyffredin. Ef yn unig sy'n bendithio â phrawf neu brofiad: Ef sy'n dod i lawr i'n nôl i fyny. Gall Llwyd amlinellu taith ddi-dor o'r hedyn hyd y nef.

Allanol a gweledig yw'r dystiolaeth gyfunol gan y Greadigaeth, yr Ymgawdoliad, y Beibl, a'r Eglwys drefnedig. Ond priodol, wrth ddosbarthu fel yna, yw cofio cymeriad anweledig a swyddogaeth un datguddiad arbennig o hyd, sef yr Ysbryd Glân ar waith yn yr Ymwybod ac yn y Gydwybod; a llais yr ysbryd mewnol yn cael ei wireddu yn ôl gwarant ysgrythurol. Hwn sy'n peri'r newid. Hwn sy'n bendithio pob tystiolaeth, ac yn cynrychioli'r Goruwchnaturiol.

Beth yw *perthynas* briodol weithredol dyn o'r Ysbryd Glân yn y gwaith hwnnw? Argyhoeddi – Credu; Gorchymyn – Ufuddhau o'r galon; Bod – Addoli. Dyma ffrwythau amhosibl heb waith yr Ysbryd Glân. Ond sut bynnag y deuir i brofi'n fyw unrhyw un o'r tystiolaethau gwahanol hyn drwy ras, y mae yna un gyd-dystiolaeth benodol blwmp a phlaen bob amser yno'n bresennol: sef yr Ysbryd Glân yn ei fawrhydi cydwybodol ei hun. Yn aml, gweithia ar y tir a baratowyd.

Efallai mai'r ddwy ffordd amlycaf *yn y maes naturiol* o brofi'r 'Synnwyr o Dduw', cyflwr y buom yn ei drafod yn sylfaenol, yw drwy'r 'Gydwybod' a'r Greadigaeth. Hynny yw, fe brawf yr ymwybod o bechod, – y gynneddf foesol, – y gwahaniaeth rhwng y da a'r drwg; a dyna'r rhan dda sydd fel arfer yn cyfeirio sylw credadun at Dduw. Mae'r sylweddoliad hwn fel pe bai'n annatod mewn perthynas gyffredinol â'r 'Synnwyr o Dduw'. Datguddiad amlochrog yw i bawb: 'Roedd y gwir Oleuni, sy'n goleuo pawb, eisoes yn dod i'r byd' (Ioan 1:9). Ac wedyn, oherwydd presenoldeb Duw yn ei waith creadigol hardd, fe â'r gweld ei hun yn rym deinamig.

Rhufeiniaid 1:18-24 sy'n dadlennu'r gosodiad clasurol ar hyn. '*Y mae digofaint Duw yn cael ei ddatguddio o'r nef yn erbyn holl annuwioledeb ac anghyfiawnder pobl sydd, drwy eu hanghyfiawnder, yn atal y gwirionedd. Oherwydd y mae'r hyn y gellir ei wybod am Dduw yn amlwg iddynt, a Duw sydd wedi ei amlygu iddynt. Yn wir, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig efe, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd. Am hynny y maent yn ddiessgus. Oherwydd er iddynt wybod am Dduw, nid ydynt wedi rhoi gogoniant na diolch iddo fel Duw. Y maent wedi ffeirio gogoniant yr anfarwol Dduw am ddelw ar lun dyn marwol...'*

Yr ydym yn sôn,wrth drafod y Gydwybod megis wrth drafod y 'Synnwyr o Dduw' (fel pe bai'n gynneddf elfennaidd a noeth), am faterion eang sydd ar gyfer pawb yn ddiwahân. Ond y tro hwn, wrth gydnabod cyffredinedd arwyddocâd hyn drwy'r byd, y mae'n ofynnol inni ddal yn gyfochrog y ffaith o unigrywiaeth ddwyfol ddynol Crist, a'r ymwybod â phrofiad Arbennig y Mab. Ym maes Cydwybod, yn fynych y mae'r Ysbryd yn tystio drwy'r Mab. Ac y mae hyn yn fwy anodd i'w ddeall yn naturiol.

Ar y naill law, clywn (Rhuf. 1:32) fod pob dyn yn gwybod rhywbeth am farn Duw ar

bechod, a bod y rhan fwyaf sy'n gwybod hyn heb ei gymryd o ddifrif. Gwyddom hefyd fod yr Arglwydd yn ddaionus tuag at bawb sy'n ei geisio (Galarn. 3:25, Diar. 8:17). Gellir troi, ac 'ym mhob cenedl, y mab sydd yn ei ofni ef ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo ef (Actau 10:34-5).

Ond gwyddom ar y llaw arall, os gwyddom rywbeth am Gristnogaeth, na ddarparwyd ond un ateb goruchaf. Un aberth iawnol, un Gwardwr, un drugaredd, 'o'r tu allan': *Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd. Nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof i.'* (Ioan 14:6). *'Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo'* (Act. 4:12). O! Amlffydd. O! luosedd!

Dyna'r gwahanu newydd rhwng y prawf mewnol a'r prawf allanol unigryw.

Rhaid dal y ddwy ochr gyda'i gilydd, a chydabod bod pawb yn ddiesgus. Fe'i cynigir i bawb. Mae gan Dduw ei ffordd o sicrhau'r cydlynad anffaeledig hwn: *'ac ef sy'n aberth cymod dros ein pechodau, ac nid dros ein pechodau ni yn unig, ond hefyd bechodau'r holl fyd'* (1 Ioan 2:2). Gelwir arnom i dystiolaethu i'r holl fyd am y drugaredd sydd ar gael i'r sawl a dry ato, ac a'i profir. Gelwir arnom gan y Gydwybod i gyhoeddi'r ateb anffaeledig hwn yn hy.

* * *

Yn ei gyflwyniad am y ddwy gynneddf hyn – yr Ymwybod o Dduw a'r Gydwybod – credaf nad yw Calfin (gan ddilyn Paul yn *Rhufeiniaid*) wedi tynnu sylw at y gwahaniaeth rhyngddynt fel y gellid plesio diwinyddion diweddar. Mae Morgan Llwyd yntau hefyd, er mor hydeiml a chraff ei fyfyrddod ar y pwnc hwn, wedi tueddu i'w clymu'n anwahaniaethus. Ac wrth gwrs, mae'r cyswllt agos yn bod. Ffrwyth Gras Cyffredin yw'r naill a'r llall. Dywed Dr Goronwy Wyn Owen eu bod yn perthyn i'r hyn a eilw yn 'ddeall yr enaid'. Mae'r ddwy gynneddf yn gronolegol olynol yn eu perthynas, gyda'r Gydwybod wedi'i seilio ar yr Ymwybod. Gwybodaeth 'wrthrychol' yw Ymwybod, fe ymddengys; ond hawlia Paul fod gwybodaeth gydwbybodol am Dduw yn ddigon i'r dyn naturiol brofi euogrwydd wrth beidio â'i addoli. Y mae'r Gydwybod yn cymryd ochr fwy eglur, ac o leiaf yn cael ei hannog i farnu gwerth, trefn a diben. Ystyr pigo'r Gydwybod mewn cyd-destun felly yw bod y Gydwybod ar waith. Yn y fan yna, yn ei phryd, y disgyn Gras Arbennig ar ben y mynydd, o bosibl, i oleuo ac i fywhau'r ysbryd tlawd. Y gwir, mi gredaf, yw na ddylid ceisio'u hystyried ar wahân. Defnyddir Ymwybod a Chydwybod i ddringo'n uwch ato.

Dyma ddisgrifiad Goronwy Wyn Owen o'r sefyllfa: *'Er y Cwmp y mae gwreichionen o oleuni'r Mab tragwyddol neu'r Gair yn aros yng nghydwybod dyn. Swyddogaeth y goleuni hwn yw bod yn anogaeth fewnol ar i ddyn gydnabod Duw a'i hawl arno fel Crëwr... Bydd yr etholedigion yn gwranddo ar y dystiolaeth fewnol hon, a thrwy wrando ar anogiadau'r Ysbryd yn y gydwbybod câi dyn ei aileni yng Nghrist.'*

Beth yw priod nodwedd y Gydwybod? Dyma eiriau craff Dr Owen eto: *'Yn y gydwbybod y ceir y gyfraith naturiol sy'n cyd-daro â chyfraith Moses. Dengys i ddyn y gwahaniaeth moesol rhwng da a drwg ac y mae'n cyhuddo dyn pan yw'n methu yn ei ddyletswydd. Y mae'r goleuni yn y gydwbybod yn dysgu dyn beth yw ei gyfrifoldeb gerbron Duw, ond dim ond yr ewylllys a drawsgyfeiriwyd gan ras achubol a allai ei gyflawni.'*

Dywed Dr Owen mewn man arall fod yr Ymwybod wedi'i leoli o fewn y Gydwybod, yn ôl y ddelwedd a rydd Calfin a Morgan Llwyd o'r berthynas. Mae'r sylw'n gwbl gywir. Ond mentraf ychwanegu hyn. ***Mae gan y Diafol Ymwybod o Dduw, ond nid oes awgrym fod ganddo Gydwybod. Mae'r Gydwybod yn adlewyrchu cyswllt arbennig parhaol rhwng Duw a dyn sy'n fwy nag Ymwybod.*** Er bod yr ymwybod o Dduw, y mae'n amlwg, yn gweithredu yn debyg i'r Gydwybod, a'r Gydwybod yn dibynnu ar yr Ymwybod, teg yw sylwi bod gan y geiriau hyn eu priod ystyron eu hunain, a bod o fewn eu hundod bwyslais gwahanol ar y naill ochr a'r llall.

Gŵyr pob Cristion, sy'n sylweddoli bod yna'r fath beth ag ymwybod o Dduw, neu fod Cydwbybod ar gael megis yn reddfod, hefyd drwy'r un craffter fod y naill gynneddf a'r llall wedi'u niweidio. Does dim dal arnynt. Mae yna fath o ddallineb neu afiechyd wedi ymlusgo drostynt, ac yn peri eu bod yn gweithio'n bŵl neu'n ymddangos fel pe na baent yn gweithio o gwbl.

Credaf fod yr Ymwybod a'r Gydwybod er hynny yn annatod. ***Sylweddoliad yw Ymwybod o fodolaeth yn ogystal ag o ryfeddod, ofnadwyaeth a harddwch Duw. Mae Cydwbybod yn ymwybod â hynyna yng ngŵydd pechod ac yng ngŵydd daioni'r Ysbryd Glân.*** Rhaid wrth Ymwybod a Chydwybod ynghyd i ddarllen mêr yr efengyl. Grisiau ydynt; a'r rhai cyntaf ydynt i mewn i'r nef.

* * *

Ceir yn y *Salmau* fynegiant o lawnder aeddfedrwydd y ddysgeidiaeth Gristnogol am Ymwybod-Gydwybod. Yno y sylwn ar eu cyflyraeth o fewn cyd-destun Mawl.

Cyn hynny fe'i dadansoddwyd ac fe'i cwmpaswyd yn benodol gan y Cyfreithiau. Bywhawyd elfennau Cyfiawnder gan Fawl. Dywedid drwyddynt hwy feddwl Duw. Ond arall yw pwyslais y *Salmau*: datguddiwyd y sefyllfa'n ddyfnach ar ryw olwg drwy ddiolch a ddaeth o'r tu mewn.

Yn y fan yna drwy ganolbwyntio'n fwy personol ar un peth, llwyddwyd i roi pob dim arall mewn persbectif. Llwyddwyd i gorffori amlochredd y Gyfraith mewn un pwynt ac mewn llawer, drwy glymu'r genadwri fesul cân gron. Nid rhestr yw. Mae'r Gydwybod ddynol, a'r Moesoldeb, oll wedi'u cynnwys yn fyw mewn un peth: mawl. Medd Salm 15:1; *'Arglwydd, pwy a drig yn dy babell? Pwy a breswylia ym mynydd dy sancteiddrwydd?'* Fe'i crynhoir mewn agosrwydd Personol.

Dyma'n holl Foesoldeb a'n holl Gydwybod Gristnogol yn ymuno â'i gilydd: yn preswyllo yn Ei bresenoldeb mewn gorfoledd, ac yn Ei babell. Yno y mae Ef. Beth allwn ni'i wneud yng ngŵydd y fath sancteiddrwydd a'r glendid a'r perffeithrwydd ofnadwy hwn? Pwy a all aros yn y fan yna?

'Yr hwn a rodia yn berffaith ac a wnêl gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon.'

Beth yw'r Gydwybod hydeiml fan yma? Cyd-wybod â Duw yw cyd-rodio. Moli mewn bywyd o berthynas foesol: byw yw Ei bresenoldeb yn wastad. O'r Salm Gyntaf ymlaen drwy'r Salm Fawr, sonia'r llyfr hwnnw am yr hyfrydwch a'r cariad angerddol tuag at feddwl Duw fel y'i clywir yn y Gyfraith. Hardd ydyw'r gyfraith. A ydyw'n ymarferol? Daw i ymosod ar y Gydwybod. Wrth i'r Pencerdd yn Salm 19 orfoleddu ym mhrydferthwch y Greadigaeth (ad. 1-6), try yn sgil y mawl i Dduw mewn natur i orohïan ynghylch perffeithrwydd y Ddeddf (ad. 7-11); ac yna cymhwysir y cwbl i'r gydwybod bersonol (ad. 12-14). Gyrrir y pechadur i blygu o'r prydferthwch allanol i'r deddfau anweledig, ac yna i'r cymhwysiad personol o fodoli ym mhresenoldeb yr Arglwydd.

Pan ddirywia cymeriad Dafydd yntau, a phan dry i ladd ac i odinebu, ni feddylia foment am y pethau hynny yn nhermau torri gorchmynion yn unig. Mae'r Salm yn ei ysgogi i wynebu Duw mawl. Clywir ffrwyth yr argyhoeddiad a gaiff: *'Yn dy erbyn di, dydi dy hun, y pechais, ac y gwneuthum y drwg hwn yn dy olwg.'* Dyna'r diffiniad mwyaf aruchel o'r Gydwybod Gristnogol, drwy iachâd mewn Mawl wedi clwyfo cariad Duw; a dyna gyffwrdd hefyd â'r modd y mae'n ymuno â'r Ymwybod mwyaf byw o Dduw. Yn wir, y mae bod yn agored neu beidio, fel hyn i Synnwyr o Dduw, yn fater o foesoldeb o fewn cyd-destun addoli. Yn y Beibl fe'i gelwir yn 'galon' weithiau: craidd y bersonoliaeth, sy'n cynnwys hefyd ewyllys a serchiadau. Fe'i dyrchefir gan yr Ysbryd. Tua dechrau'i *Institutio Christianae Religionis* datgana Calfin: *'Gwnawn osodiad nad yw'n wrthodadwy, fod gan y meddwl dynol, hyd yn oed drwy reddf naturiol, ryw synnwyr o Dduwdod. Fel na chaiff dyn ei gysgodi'i hun o dan ragosodiad anwybodaeth, rhoddodd Duw i bawb ryw ganfyddiad o'i fodolaeth. Ac y mae'n adnewyddu'r cof hwn yn isymwybodol ac yn fynych. Felly, gan fod dynion yn gyffredinol yn gwybod bod yna Dduw, ac mai efô yw eu Gwneuthurwr, fe'u condemnir hwy gan eu tystiolaeth eu hunain, os na fyddent yn ei addoli ac yn cysegru'u bywyd i'w wasanaeth.'*

Dyna'r dystiolaeth waelodol, a'r canlyniad i'r hyn y buom yn ei drafod: mae'r gydwybod yn crafu os methir â moli. Galwad yw i foli. Nid yw ansawdd y dystiolaeth yn ymddangos yn eithriadol o helaeth wrth ei holi a'i archwilio fel hyn. Ond y mae ei chyffredinedd go drwyadl, ac yn wir nerth eithriadol ei hargyhoeddiad weithiau, yn peri synied bod y gynneddf hon yn haeddu'r sylw cyntaf. Hynny yw, dyma graidd neu sylfeini i bob athrawiaeth arall: honnir bod gan ddyn fodd o fewn ffiniau i brofi o leiaf fodolaeth a daioni Duw drwy allu naturiol. Ac mae'n wirionedd mor hardd: galwad i fawl yw. Hyn yw'r Gydwybod Gristnogol.

Nid yw rhan yn mynd yn bell. Mae'r Diafol yn cydnabod bodolaeth Duw fel y gwelsom. Yr hyn sy'n dilyn yr ymwybod hwnnw sy'n bwysig: y berthynas fywiol â Duw, yr adnabyddiaeth ohono, y derbyniad, y cyswllt cyson pur, yr addoliad effeithiol gwefreiddiol. Y fodolaeth fyw ar waith wedi ymateb i'r alwad. Anghywir fyddai gwylltu'n ysgafn heibio i'r ddolen gynhwynol

werthfawr hon pan fo'n fyw. Rhaid dechrau gyda'r hyn sy'n uniongyrchol yn y dystiolaeth, yr hyn a erys o gyswllt teneuaf o'r dechrau rhwng dyn a Duw yn gyffredinol. Drwy'r gydwybod yn ei llawnder y mae Ef yn gweithio.

*

*

*

Pan brawf y Cristion y Gydwybod, gall y boen honno brofi'n fendith fel y dangosai un Piwritan brydferthwch y Ddeddf, a chariadon y Ddeddf: '*Y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonnau a'u cydwybod yn cyd-dystiolaethu, a'u meddyliau yn cyhuddo ei gilydd, neu yn esgusodi.*' Darlunia Sibbes yn y fan hon y gydwybod hon fel llys cyfraith Duw y tu mewn i ni, lle y rhagwelir y Farn Fawr. Gwyddom oll am bobl hyfryd ac ardderchog, sydd yn ymddangosiadol unionsyth eu buchedd, fel 'Mr Recorder' yn *Rhyfel Sanctaidd* Bunyan, mor ddewr ffyddlon fel arfer i ofynion y gyfraith, eto ymhell cyn i ras achubol ymaflyd ynddynt. Ar ryw olwg, drwy'r gydwybod led effro yr apelia'r Ysbryd Glân wrth gyhoeddi efengyl Crist. A chymhwyso'r gwirionedd hwnnw, i gydwybod gosmig y gwrandawr, yw gwaith y pregethwr yntau.

Byddaf yn synied, yn gam neu'n gymwys, mai yn yr enaid y mae'r anghredadun yn profi'r Gydwybod hon ac yn yr Ysbryd y mae'r Cristion yn ei phrofi. Y ddau ras. Ac efallai na cheisiwyd yn ddigonol drafod y berthynas rhwng *sensus divinitatis* a'r enaid a'r ysbryd o'u cyferbynnu â'r corff.

Buom yn sôn am ddyn syrthiedig, am wynebu'r Greadigaeth syrthiedig, am y frwydr negyddol, ac am ddinistr. Ond y mae'r Beibl yn dangos, wedi cydnabod gwirionedd hyn oll, mai delwedd ry rwydd yn ddiwinyddol yw cyffesu gwybod y drwg yn unig. Mae'r cadarnhaol yn anhraethol fwy gwir na hynyna oll. Does dim cystadleuaeth rhwng melltith Duw a bendith Duw. Mae'r mellt yn diffodd yn y Gwaed. Does dim drwg sy'n absoliwt eithaf. Fe ddywedwn i ymhellach nad yw'r *cysyniad* o absoliwt ei hun ddim yn ddigon absoliwt. Duw personol yw (nid Egwyddor yn unig), a'i holl weithredoedd yn ddaionus ac yn hardd. Nid absoliwt a safle yn unig yw. Nid delfryd yw ychwaith. Dyna pam y mae'n gam ymlaen i symud ymhellach oddi wrth ddadleuon neu egwyddor neu safbwyntiau fel yr Ymwybod o Dduw, a'r Gydwybod, a all, o ymdroi gyda hwy, ein dwyn i bob math o werthoedd, o safonau a pherthynas amheus weithiau. Mae'r Greadigaeth wedyn, a sylweddoli Crëwr ac Achos, yn codi'n uwch ac yn fwy gwrthrychol-oddrychol a chynhwysfawr ddynol ddwyfol na'r ddwy ystyriaeth gyntaf. Ond pan sylweddolwn fod ymwneud â Chrëwr gweithredol – Person wyneb yn wyneb – yn fwy nag ymwneud â Chreadigaeth, a bod y cynnyrch yn llai na'r Cynhyrchwr, a bod Ymwybod o Dduw a'r Gydwybod ddynol yn aros yn eiddo dynol ac yn ffaeledig, yna bydd rhaid inni fynd heibio hyd yn oed i'r Greadigaeth. Amgylchfyd yw, a chyddestun cynefin personol. Rhown bopeth yn ei bersbectif; ond nid heb daro cis arno ar y ffordd. Wedi'r cwbl, ein ffordd reidiol yw tuag at yr Un godidog a chariadus sy'n hanfod ail-greu. Try'r Gydwybod yn argyhoeddiad o Bechod, sy'n goleuo'r ffordd tua'r Achubwr.

CREADIGAETH

Symudwn yn awr at y Drydedd Dystiolaeth. Math o ddiriaethu corfforol yw'r Rhyfeddod a brofwn yng gŵydd y Greadigaeth. Cymorth gweld yw i'r ymateb personol mewn 'Synnwyr o Dduw' a 'Chydwybod Foesol'. Ategiad yw Mawrhydi'r ffenomen dra chynhwysol hon. Y mae wrth gwrs yn llawn o Dduw. A haedda gael ei chydabod oblegid ei haruthred, a hithau'n llewyrchu gorchest gallu goruwchnaturiol. Ond peth mor Gyffredin yw, nid Gras Arbennig. Petholrwydd yw ei natur. Mae mawr angen camu ymlaen o'r fan yna heb oedi wrth geisio perthynas fwy personol ysbrydol. Talwn barch dwfn wrth gwrs i odidowgrwydd Duw'r Creawdwr. Ond er gwaethaf gorchest dyn yntau yn darganfod llawer am ein daear, gwyddom yn nyfnder ein bod yn wyneb ei ffiniau amseryddol a gofodol fod yna ddechrau cudd cyn y dechrau. Gall dyn ddweud llawer am y Greadigaeth ar ôl ei chreu, ond yn y bôn yr hyn sy'n treiddio drwyddi mewn mawrhydi yw'r Crëwr. Dechreuwr hollalluog a diamser yw gwir ddechreuwr pob peth. At y Greadigaeth y rhed y Seciwlar yn ei ddihangfa. Fel y cawn weld drachefn, nid yw'r Greadigaeth yn ddigon o dystiolaeth i ddyn-addolwr. Dylai wybod am y Crëwr cyn iddo ddechrau gwybod am y prif 'bethau'. Diolch am y Syndod a'r Mawrhydi, wrth gwrs. Ond y cwestiwn a fydd yn codi gyda'r Dystiolaeth hon eto yw – a oes Tystiolaeth *resymol* am Dduw amgen na'r Greadigaeth, tystiolaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau creu ac felly sy'n ymwared â phob rhwystr rhag closio at Dduw? Mae'n siŵr bod eisiau dod o hyd i ateb sy'n gwneud mwy na *disgrifio ffenomen faterol*. Mae eisiau gwybod y 'pam', ac am yr holl sut.

Haedda rhywbeth mor aruthr â'r Greadigaeth i'n myfyrdod oedi o fewn cyd-destun materol daionus. Tystiolaeth yw hon am y Creawdwr ei hun gyda'r Ymwybod a'r Gydwybod: ymdroesai ein meddyliau'n hunain gydag Achoswr fel man cychwyn. Yr ydym yn awr yng nghwmni Creawdwr a'r defnydd y gwnaeth dyn o'r cysyniad hwnnw. Yn awr, llefara'r ddaear syrthiedig am y dyn a'i gwenwynodd hi. Gwrandawn ar y cwbl. O'r tair tystiolaeth gyntaf i fodolaeth Duw, y mae'r Greadigaeth yn unigryw. Saif ochr yn ochr â'r Beibl, y naill a'r llall yn weithiau artistig creadigol uniongyrchol gan Dduw. Adlewyrchant yr Artist Mawr. A thrwy'r naill a'r llall ac un arall cawn dystiolaeth o'i gymeriad, ei feddwl, a'i gariad. Ei argraff gadarnhaol Ef sydd ar y Greadigaeth.

Ond y mae yna wahaniaeth dirfawr yn ansawdd a chyflwr ysbrydol pob un o'r tair tystiolaeth gyntaf a'r pedair arall sy'n eu dilyn. Ffaeledig a syrthiedig bellach yw'r Greadigaeth, cynnyrch unplyg Gras Cyffredin: anffaeledig yw'r Beibl er bod yr awduron a fu'n gyfrwng i'r Awdur mawr yn ffaeledig ddigon. Gwyrth fu'r Greadigaeth, a gwyrth arall os gwahanol yw'r Beibl; ond cyfrwng a fwriadwyd gan Ras Arbennig ar ôl ymddangosiad Pechod yw'r Beibl yn awr, er iddo gael ei gynnig yn agored i'r byd yn gyffredinol. Digonolrwydd yw'r Beibl i bob dyn, effeithiolrwydd i'r Etholedig. Ac un o baradocsau mawr Cyfundrefn y Tystiolaethau yw bod y Greadigaeth Gyffredinol a luniodd yr Ysbryd Glân drwy gyfrwng awduron ffaeledig yn dal bellach yn ffaeledig, ac yn cael ei phoblogi

gan gredinwyr ac anghredinwyr.

Nid oes yr un darlennydd yn dod at y Beibl nad yw eisoes wedi'i amgylchu gan y Greadigaeth. Yn y gyfrol *The Limits of Science*, 1987, soniodd y gwyddonydd a'r enillydd Nobel, Syr Peter Medawer, am 'gwestiynau na fedrai gwyddoniaeth eu hateb, ac na ellid dychmygu unrhyw gynnydd posibl mewn gwyddoniaeth a roddai'r medr byth i'w hateb hwy.' Hynny yw, nis atebir hwy o'r tu mewn i gyfyngiadau Gwyddoniaeth, ac nid oes debyg mwyach y'u hatebir hwy o fewn cyfyngiadau gofod. Ac eto, 'nid oes modd i'w difrio fel petaent yn gwestiynau ffug neu ddiystyr.' Cwestiynau dilys ydynt, megis beth yw pwrpas bywyd? Mor hyfryd yw clywed y fath ddoethineb mewn gostyngeddwydd gan wyddonydd.

Eto, trwy gymorth y Beibl, geill Cristion bach tlawd a di-ddysg ateb rhai o'r cwestiynau dyrys ac ofnadwy hyn oherwydd grym yr Ysbryd Glân.

Yn nechrau 'Genesis' yn yr Hen Destament, fe atebir llawer o'r cwestiynau sylfaenol mewn modd goruwchnaturiol. Dibynnir yno ar ragdybiaethau sydd eisoes gan Gristion ailanedig (megis gan seciwlaryn) wrth siarad, rhesymu, a deall. Rhoddir i Gristion ateb 'pam'. *Beth yw'r Achos cyntaf i bob effaith? Pam y mae trefn – yn wir, cyfundrefnau – ym mhob man? O ble y daeth bodolaeth, bywyd, ymwybod? Beth yw'r diben i'r cwbl?* Datguddiwyd atebion ers talwm i'r sawl a fedrai wrando a chlywed y pethau hyn yn rhoddedig. Ac atebion anffaeledig ydynt sy'n dal dŵr.

Os na all gwyddonydd naturiolaid brofi natur 'dechreuad' fel y cyfryw yn foddhaol, ni all esbonio gyda phrawf natur *dechrau bodolaeth* dim oll; *na bywyd, na geni, na chenhedlu, na rheswm*. Os yw esboniad y Cristion yn rhesymegol am bosibilrwydd perffaith bodolaeth drwy ddimensiwn Goruwchnaturiol Duw, – ac na all neb oll brofi'i fod yn anghywir, – yna, nes gwyddom yn well, dylid derbyn yr esboniad hwnnw, a gweithio ar y sail yna.

O bob peth sy'n ymddangosiadol anesboniadwy ei dechreuad, da yr atgoffir ni gan y gwyddonydd, naturiolaid ei ddogma, am '*ddeddf*', sef *raison d'être* gwyddoniaeth. *O ble y daeth honno?* Y wedd fwyaf difyr i mi ar y greadigaeth hon ers tro byd bellach yw presenoldeb *Cyfundrefn o gyfundrefnau*. Ni ellid ymchwilio yn unman – gan gynnwys y Meddwl – heb ddod o hyd i 'gyfundrefnau'. Rheidrwydd meddyliol yw. Defnyddia'r seciwlaryn y rhain bellach yn eu gwyddoniaeth. Disgrifiant eu rhyfeddod a'u datblygiadau o fewn cyfyngiadau llym. Ond ni chafwyd gan seciwlaryn esboniad boddhaol terfynol am eu tarddiad na'u deinameg, na'r strwythur na'r Absoliwt. Ymhonnant; yna, ymguddiant o fewn eu mesuriadau cyfyng. Ond dan eu trwynau, datguddir yn y Beibl yn ei ddyfnder yr ateb goruwchnaturiol i'r ymholi mewn termau sefydlog.

Un o'r pethau rhyfeddaf a ddywed y Greadigaeth wrthym am Dduw yw: **Duw trefn yw; Duw deddfau; Dechreuwr yw cyn y dechrau.** Ar ôl y ddwy dystiolaeth gyntaf – Ymwybod a Chydwbybod, sy'n gymharol syml ochr yn ochr â'r Greadigaeth – fe gawn filiynau o ddeddfau o

fathau gwahanol. Ffrwyth creu dwyfol. Gallwn eu sylweddoli o un i un heb orffen byth.

O ran Methodoleg wrth ystyried natur a pherthynas yr Awdur â'r awduron yn y Beibl, a'r Awdur â'r darlennydd, yr hyn a fu yn gyson yng nghefn fy meddwl (fel beirniad) yn y gyfrol hon oedd 'Theori Ymateb Darlennydd' fel y'i gelwid gan Ôl-fodernwyr. Ac un llyfr penodol wrth gwrs a fu gennyf wrth geisio dadansoddi perthynas yr Awdur/darlennydd yn enghreifftiol glòs. Y Beibl ei hun oedd hwnnw: ychydig a gyfeiriais at lyfrau eraill. 'Un llyfr,' medd rhai. 'Un llyfrgell,' medd eraill. 'Yr ateb i bopeth o bwys,' meddwn innau.

Beth yw arwyddocâd 'Ymateb' y darlennydd i hwn o'i gymharu â'r ymateb i lyfrau eraill? Beth a gawn wrth geisio datod y geiriau a welwn yn hwn?

Wrth drafod un llyfr, neu un gerdd neu stori fer, yn y byd seciwlar a chrefyddol, fe fydd gan feirniad aeddfed yng nghefn ei feddwl bob amser brofiad o ymchwil dros gyfnod o flynyddoedd â llyfrau lawer eraill. Bydd y rheini'n ddyn-ganolog efallai, yn 'naturiol' eu hapêl a'u cynnwys yn aml, yn gymysgedd. Hynny yw, er fy mod yn dod at feirniadaeth gyda rhagdybiau Cristnogol digymrodedd, ni allaf rywsut er fy ngwaethaf lai na synied ynof i fy hun fel y mae'r rhagdybiau a'r fethodoleg ddadansoddol werthusol gyffredin hon a fabwysiadaf yn berthnasol i lenyddiaeth o bob math. Hyn hefyd yw ein hamgylchfyd bellach. Methodoleg Feiblaidd yw, er fy mod i'n ei defnyddio fel pechadur.

Hynny yw, dyma fi wrthi'n llawen iawn yn ymdrin â'r Beibl, ail lyfr y Creawdwr, ac ni allaf lai na synied i ba raddau y mae'r casgliadau hyn a wna'f yn gorgyffwrdd yn amodol â phwyso a mesur a darllen llyfrau 'anghrefyddol' a garaf. Pa mor berthnasol ydynt o ran natur, felly, yn eu seciwlariaeth greadigol gadarnhaol (gras cyffredinol) i bob darllen? Llyfrau ydynt oll. Ond doniwyd eu hawduron yn wahanol o fewn cyd-destun y greadigaeth.

Sylwaf drwy Ras Cyffredin fy mod, wrth ystyried swyddogaeth yr Ysbryd Glân fel Awdur, hefyd wedi meddwl amdano fel 'tyst' perffaith o rywbeth drwy'i waith. Dyma'r math o Awdur yw. Dyma'r Person glân y mae'r Drindod yn tystiolaethu drwyddo. Ac y mae Hwnnw hefyd yn tystiolaethu drwy'r Beibl a'r Eglwys a ffyrdd credig eraill. Mae ansawdd y dystiolaeth honno yn unigryw. Mae hyn yn rhoi'r Beibl mewn categori gwahanol a neilltuedig o ran swyddogaeth.

Felly y bydd hi bob amser i'r Cristion, – ymdry gyda Gras Arbennig yn bennaf. **Ni chyferfydd dyn â'r Creawdwr nes iddo feddu ar Ras Arbennig.** Gwyddys bod Gras Cyffredin gan bawb hefyd. Ond onid yw'r Ysbryd Glân yn tystiolaethu'n fwy cyffredinol am rywbeth cwbl wahanol trwy'r efengyl, ac yn tystiolaethu i'r holl fyd? Gall unrhyw un 'ddwyn tystiolaeth' yn burion i bobl yn gyffredinol yn rhad – y pregethwr yn ei bulpud, y cenhadwr yn ei ysbyty, – hyd yn oed yr anghredadun sy'n aros wedyn yn anghredadun; ie, gallant fod yn dystion am Dduw, heb i'r anghredadun 'gredu' yr un mymryn o'u tystiolaeth, hynny yw heb Ras Arbennig. Ewyllys yr Ysbryd

Glân yn unig sy'n cymhwysu'r dystiolaeth arbennig a daionus berffaith yn fyw i'r galon wag. Ond yn ei dro, mi fydd anghredadun cyfyngedig wrthi'n tystiolaethu am ambell beth gan dybied bod ganddo 'benarglwyddiaeth' ar seciwlariaeth, heb wybod dim am hanfod pethau. Eto, mae llenyddiaeth seciwlar o bob math ffrwythlon yn fudd i Gristion anghyfyngedig, nid yn unig eiddo'r Beibl, yr Eglwys, y Mab a'r Ysbryd Glân; **mae popeth yn eiddo i Gristion.** I'r anghredadun nid yw'r pedwar yna ond megis pob dim arall yn y bôn. Ffenomenau dynol ydynt. I'r Cristion, ar y llaw arall, try'r cwbl yn faeth dethol gwahanol i'w ysbryd, oherwydd bod yr Ysbryd Glân yn ei adeiladu'n drugarog. I'r Cristion yn unig y tystia'r Creawdwr am gariad ei Gread.

Ceir tair tystiolaeth gyffredinol bellach i Dduw nad ydynt yn dystiolaeth uniongyrchol grefyddol na Christnogol, er bod popeth yn eiddo i Dduw. Gwelsom eisoes dystiolaeth y gellid sôn amdani'n 'seciwlar', fel petai ar gyfer yr anghredadun a'r credadun fel ei gilydd, – a'r tair yn gwbl berthnasol i lenyddiaeth ac i feirniaid llenyddol: sef y Gydwybod, y Greadigaeth, a'r Ymwybod â Duw. Dan fendith Duw, dan Ras Arbennig, ymegyr y tair tystiolaeth hynny hefyd yn weledigaeth weddnewidiol. Gellir eu troi'n Gristnogol. Gall Gras Arbennig fendithio Gras Cyffredin.

Sylwer ar berthnasoldeb y Greadigaeth yn benodol yn awr. Tueddodd pennaf sylw beirniaid Llenyddol yng Nghymru i fynd yn ddisgrifiol, ysywaeth, heb ymgyrraedd at fod hyd yn oed yn 'esbonwyr' mewn llenyddiaeth. Nid aethpwyd ar ôl gwreiddiau a gwerthoedd onid yn anaml. Troes llawer o feirniaid yn ddiweddar i fod yn Haneswyr ac i osgoi dadansoddiant 'llenyddol' a gwerthuso testunau. Mae'r Greadigaeth yn ras cadarnhaol i bawb, yn ei hamrywioldeb, yn y doniau creadigol bywydol, yn ddiwahân i bob creadur. Ac fe all anghredadun ddathlu gystal bob dim â'r credadun gynifer o bleserau, heblaw'r ffaith – er bod y cynnig yno mor amlwg o'i flaen – ei fod yn amddifad, anwybodus, ddisylweddoliad o'r dimensiwn goruchaf. Tuedda anghredadun i fod yn llai effro i'r trydan goruwchnaturiol sy'n gwefreiddio drwy'r Greadigaeth, ond credaf y gall dorri'r hen lithrad anddadsoddol ôl-fodern yn syml drwy fyfyrion'n fwy deallus am fodolaeth gwreiddiau crefyddol gwareiddiad. Y Greadigaeth, felly, yw'r amgylchfyd a'r rhagdybiaeth i bawb yn ddiwahân, drwy Ras Cyffredin. Nid oes dewis. Hyn sy'n amodi ac yn cyflyru pob llenor. A hyn sy'n pefrio drwy'r Beibl, yn gyd-destun angenrheidiol. Ymddengys – ac y mae – yn allanol. **Ond ni ellir gwaeth dealltwriaeth o'r Greadigaeth nag ymgyfyngu i'r allanol. Dechreuir gwyddoniaeth gyda sylweddoli'r anweledig egwyddorion.** Eto, heb wybod am yr Anghreedig neu'r Cyn-greedig, y gwirioneddau anweledig, erys y Greadigaeth ar lefel dechnegol sensoredig. Drwy wefr y Creawdwr, mae'r Cread yn fyw. **Mae yna wedd gyfansawdd uwch i'r Greadigaeth na'r amlwg.** Er mwyn amgyffred y peth hanfodol, mae'n rhaid dechrau amgyffred yr Uwch a'r berthynas rhwng popeth: y cynllun. Cyn hynny, gellid symud ar lefel peirianwaith pragmatig a defnyddioldeb. Ond er mwyn symud i Wyddoniaeth aeddfed a datblygedig sy'n rhagdybiedig gyfunol – hyd yn oed ar y lefel

symlaf – mae gwybod am y Crëwr gynlluniwr yn y creedig yn ofynnol a'r Achos o flaen yr Effaith. Gellid dethol rhai gweddau ar y Greadigaeth yn aruchel a bostfawr hyddysg, ond o'r braidd fod rhywun yn adnabod y Greadigaeth dragwyddol heb Grëwr. **Gwybod peth o'r cynllun yw, heb adnabod y Cynlluniwr. Gall y Greadigaeth ein harwain at Greawdwr wedyn, heb ein harwain at Waredwr.**

Tan ychydig o amser yn ôl, yr oedd gwyddonydd mwyaf adnabyddus Prydain yn sôn ei fod ef yn ceisio ac yn sicr ei fod yn mynd i gael yr hyn a alwai ef – 'Yr Esboniad am Bopeth'. Bellach, y mae wedi rhoi'r gorau i'w gais, ac yn awgrymu nad yw'n credu y byddir byth yn gallu dod o hyd i'r fath beth drwy wyddoniaeth. Mae ynghau i Achos ac Effaith. Ond dychmygwch yn awr wyddonydd lleiaf Prydain – plentyn – yn mynd i geisio gwneud yr union beth yna yn ei le. Bydd wrth gwrs yn gweithio mewn cywair arall. Nid yw'n mynd i ddefnyddio termau technegol rhyw wyddoniaeth gyntefig o'r unfed ganrif ar hugain. Ond teg yw defnyddio dull darluniadol, os yw am ddweud y gwir cyfatebol. Esboniad digon credadwy gaiff yn Hanes y Beibl. Eto, esboniad perffaith ydyw mewn gwirionedd, mewn ffordd helpfawr dreuliadwy o fewn cyfyngiadau meddwl dynolryw. Un sy'n ateb yr holl ofnyon. Mae'n dod o hyd i esboniad cyflawn mewn un llyfr ar ei lefel, megis yr oedolyn ffyddlon mwyaf soffistigedig ar ei lefel yntau, ond heb y rhagdybiau negyddol di-sail. Yr un ateb sydd ar gyfer pob oedran. Ateb goruwchnaturiol yw. A does neb erioed wedi cynnig gwell esboniad nac wedi'i wrthbrofi. A derbyn bod yr holl rinweddau yna yn perthyn i'r Esboniad, y mae'n syndod i'r plentyn nad yw pawb yn derbyn y peth felly yn syth ac yn ddidrafferth. Ond er gwaethaf perffeithrwydd yr Esboniad, mae yna rwystr aruthrol, ysfa rymus yn wir, rhag i blant (a phobl eraill) dderbyn yr esboniad yn eu calonnau. Collwyd yr allwedd adeg y Cwyp. Cofier: gan mai Esboniad am Bopeth o bwys yw'r Beibl, y mae hefyd yn gallu esbonio pam y mae rhai pobl yn mynnu peidio â'i dderbyn, a rhai pobl yn llwyddo i'w wneud. Mae angen chwilio'r *rhwystr*.

Y rheswm yw bod yr ateb hwn bellach yn naturiol ac yn oruwchnaturiol, yn rhanedig, a dyna'n union y rhwystr, ac ni ellir ond ceisio ei sylweddoli â rhodd plentyn; wedi meddwl yn ddyfnach elfennaidd ymhellach. Nid oes a wnelo â gwyddoniaeth. Dowch inni holi'r cwestiynau anodd nawr, y cwestiynau sy'n peri tipyn o dramgwydd fel arfer i ni'r bobl uchelgeisiol sy'n honni ein bod ni'n gallu esbonio popeth. *Cwestiynau fel – nid 'o ble daeth y greadigaeth oll?' ond 'o ble y daeth y ffenomen o "fodolaeth" ei hunan?' 'O ble y daeth y deddfau a'r drefn i gyd?' Ac 'ysgogiad bywyd?' Ac 'amser a gofod cyn y Glec Fawr?'*

Heb eu geirio'n union fel yna, efallai, rhaid i'r plentyn ddechrau cael ei ateb rywsut i'r rhain gydag ymweliad a help gan y Goruwchnaturiol. Cafodd gyd-destun rhyfeddol. Y mae'r Cristion yn dechrau gyda rhagdyb ysgubol sy'n hysbys ddigon i wyddonwyr, fod yna ddimensiwn (neu ddimensiynau eraill) heblaw'r amlwg presennol mewn gofod ac amser. Gall fod perthynas rhwng y

rhain a throstynt. Yn wir, cred y Cristion nad oes dim llawenydd dwfn na bywyd y tu hwnt i'r byd hwn heb y berthynas honno. Wedyn y mae deall yn goleuo oherwydd bod *calon wedi'i goleuo*. Wedyn y mae yna bethau y tu hwnt i'r deall.

Dyma wybodaeth sylfaenol blentynnaidd gan lyfr cyntaf Duw, llyfr y mae'n rhaid deall ei iaith cyn ei ddeall yn ostyngedig ryfeddus, sef y Greadigaeth. Nid y Greadigaeth ei hun, a'i hanawsterau gwyddonol, yw'r tramgwydd, ond problem arbennig y dimensiwn syrthiedig. Eithr, drwy drugaredd, derbynia cwestiynau'r llyfr cyntaf, y Greadigaeth, wybodaeth lawnach gan yr ail lyfr a'i atebion mawr, sef y Beibl. Ac y mae i'r Greadigaeth ei dimensiwn da.

* * *

O'r ddau esboniad pwysicaf ynghylch dechreuad y byd a'r bydysawd, – y dynol a'r dwyfol – y mae'n bwysig sylwi bod *Creadigaeth* yng ngoleuni Duwdod Goruwchnaturiol yn digwydd bod yn esboniad 'perffaith' i ateb amheuan. Hynny yw, y mae'n gallu rhoi cyfrif am bopeth. Does dim bwlch yn yr esboniad. Does dim angen 'efallai' nac 'os'. Mae'r esboniad o Greu yn gynhwysfawr ac yn ddi-fai, ac eithrio, wrth gwrs, pan fydd y rhagdyb gan ddarllenwydd sy'n wyrdröedig.

Pan drown at y gwahanol esboniadau dyn-sylfaenol naturiol, nid ydynt yn honni eu bod yn ddatguddiadau anffaeledig. Ac y mae ansicrwydd gonest y gwahanol gynigion a'r posibiladau bylchog yn llethol ddiderfyn. Newidiant er hynny yn hyderus o flwyddyn i flwyddyn, ac y maent yn cyson brofi bod gwahanol hen weddau yn anghywir. Yn y bôn, y mae ynddynt rwystr cynhenid.

Nid yw hynny'n atal yr un mymryn ar hygoledd ffyddlon a dogmatig yr ymlynwyr dyn-ganolog naturiol. A hynny am un rheswm yn unig. Y mae'r rhagdybiaeth sylfaenol a chyflyrol dramgwyddus yn ddyn-ganolog naturiol: fel pe bai dyn yn fôs o ran rhaid. Yn y rhagdybiau parod ar y naill ochr a'r llall y ceir eu cryfder neu'u gwendid. Y maent wedi'u cyfyngu ganddynt eu hunain i ateb y goruwchnaturiol drwy ragdyb naturiol. Ond mae angen dadl holl ramadeg y Greadigaeth.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd Richard Dawkins ei gyfrol boblogaidd *The God Delusion*, fe gyhoeddwyd gan ddau wyddonydd amgenach na Dawkins (ond yn llai newyddiadurol) – sef Owen Gingerich, seryddwr nodedig Prifysgol Havard, a Francis Collins, cyfarwyddwr Prosiect Genom America, – gyfrol yn dwyn y teitl *The Language of God*. Dadleuent na cheid yr un esboniad mwy boddhaol na bod Duw ei hun yn egluro sut yr oedd pethau'n bod. Mae'n wir, ym mryd rhai, mai dadl negyddol oedd hon – y ffaith fod 'Duw' yn esboniad cwbl berffaith am bopeth, ac nad oedd gwyddoniaeth yn ddigonol (ym mhob twll a chornel, yn dragwyddol) i sefyll y tu allan i'r broblem a'i hateb. Ond yr oedd Duw yn ateb popeth o'r tu mewn ac o'r tu allan yn gadarnhaol.

Y mae'r fath ddadl ymhell o argyhoeddi anghredadun. Ond y mae'n glanio ar ganol diffinio gwir natur y broblem. Mae'n ymddangos yn ateb annheg, eithr rhaid cydnabod ei fod yn ateb synnwyr-cyffredin ac anochel. Rhodd o ateb yw. Un arall sydd â'r adnoddau amlddisgyblaethol i

ymgodymu â dadleuon Dawkins yw'r Athro John Lennox. Lle ceir ymosodiadau ar y Ffydd Gristnogol, codwyd amddiffynwyr iddi hefyd – a chlywir eu lleisiau hwythau yn dawel ym mannau ymryson dysg. Hyd yn oed, os gall Creadigaeth ein harwain at Greawdwr, nid yw'n arwain at Waredwr. Sôn yr wyf hyd yn hyn am ddatguddiad cyffredinol darllenadwy i ddynolryw, sôn am 'Esboniad', am y Cread. Dyma fath o wybodaeth 'gyn-Gristnogol' gyn-bechadur, o leiaf y math o ddatguddiad a oedd ar gael cyn y disgwyliad am yr Ymgrawdoliad, cyn i'r Mab gael ei anfon o blith y Drindod ar lun dyn; y Mab tragwyddol gyda ni. Ond rhaid oedd i'r amgylchfyd creedig fod yn eu lle ac allan o'u lle, cyn bod mynd ymhellach, a dyfodiad y Mab yn effeithiol.

Yr wyf am aros gydag un pwynt pellach ond cysylltiedig, gyda'r cnewyllyn hwn o bwyntiau'r datguddiad cyffredinol a 'chyntefig', drwy sôn yn gynnil am ansawdd y Greadigaeth yng ngoleuni hyn. Dyma waith Creawdwr unigryw. A chredaf fod Ei argraff ddeallol Ef arni. Mae ôl Ei gymeriad, Ei feddwl, a'i allu cadarnhaol ym mhob man i'w gweld. Drwy ryfeddod y Greadigaeth, gall dyn ymwybod beth â natur y Duw trosgynnol. Carwn gyfeirio at un enghraifft benodol yn unig, neu o leiaf at un egwyddor arall. Sef yr hyn a ddisgrifir bellach fel '*Cymhlethrwydd Cyddigwyddiad*'. Cyfeirio a wna hyn at organau biolegol na ellir lleihau eu cymhlethdod, yn yr ystyr nad ydynt yn gweithio os oes un rhan ar goll tan y diwedd, megis trap llygoden. Mae yna gymhlethdodau lawer fel yna mewn Natur. Ceir strwythurau mor gymhleth na ellir cynhyrchu'r fath gyfundrefn fesul cam ymlaen llaw yn olynol, gan na byddai cyfundrefn gyflawn yn ffwythiannus ragweladwy heb gael un tybiedig sydd ar goll ac anweladwy yn niwedd y gadwyn. Nid oes pwrpas nac ystyr i gynhwysion cydlynol elfennaidd adeileddol strwythur y 'llygad' yn rhagweladwy esblygol i weld, ar wahân i'w gilydd, er enghraifft nes bod pob rhan yn gweithio'r un pryd. Mae sefydlu cyfundrefn atgynhyrchu rhywiol yn y lle cyntaf i gyd yr un pryd yr un mor heriol. Fel y cyfaddefodd y materolwr Monod, nid oes lle mewn materoliaeth i bwrpas. Cyn-llun yw pwrpas.

Sonia'r llyfr arall sut bynnag, yr ail, yr ysgrythurau, am esboniad i'r llyfr cyntaf, y Greadigaeth, sy'n datguddio ac yn llefaru eisoes ill dau i ddyn am harddwch a mawrhydi Duw goruwchnaturiol. A dichon eu bod hwy'n gwneud hynny mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r Greadigaeth i'r Salmydd yn taro'r synhwyras a'r dychymyg i ddatguddio prydferthwch Duw. Ymatebwn yn ddigon amrwd efallai i fawdra'r wybren, a'r mynyddoedd, a'r moroedd. Dyma ddelweddu sy'n ein syfrdanu. Canfyddwn amrywiaeth y tyfiant a'r blodeuad ar lannau afonydd troellog diddorol. Clywn y tawelwch ofnadwy a thynerwch addfwyn y caeau llydain ffrwythlon. Dyma ni'n crwydro o fan i fan, bob un yn wahanol, bob un yn gyfoethog i'r llygaid ac i'r clustiau. Ac os oedwn, ac os arafwn i fwynhau hyn, gallwn gael ein meddiannu gan ryfeddod y cyfan, gan yr egni lluniaidd, y meddalwch synhwyras, a'r caledrwydd callestraidd miniog, i'r fath raddau fel y gallwn sefyll yn syn a delwi'n bôl gerbron y ffurfafen syfrdan. A gŵyr y Cristion beth sydd yno.

Os arhoswn yn rhy hir, gallwn gael ein dychrynu gan eithafwydd y prydfferthwch hwn. A chawn y rheswm pam. *'Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi ei ddwylo ef. Dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth. Nid oes iaith nac ymadrodd, lle ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt. Eu llinyn a aeth drwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithafoedd byd: i'r haul gosododd efe babell iddynt.'*

Ond yn ail, bron yn fwy na'r mawrdra, dyma gywreinrwydd y bychan. Ac yn y cywreinrwydd manwl hwnnw, dechreuwn o bosibl ymateb i'r ffurfiau a'r patrymau mân cudd ynghyd â'r mawr. Yn hytrach na chyffwrdd â'r synhwyrau, bellach clywn y deallusrwydd ar waith bron o'r golwg, oherwydd canfod yr hyn sy'n cynnal ac yn cydlynu cytundebau cudd natur. Mae yna reoleidd-dra yn ogystal â gwahaniaethau. Y tu ôl i'r hyn sy'n amlwg ac yn weledig, fe adeiledir y cwbl gan ddeddfau o'r golwg. Nid blerwch ar chwâl yw DNA a'i holl amrywiaeth byrlymus, beth bynnag am y problemau. Ymddangosiadol yw hynny i'r deall syml. Treiddir y cwbl hwn ym mhob man bob amser gan drefn luniaidd gadarn. Mae yna apêl i'r meddwl yn ogystal ag i'r teimlad.

Mae'r Greadigaeth felly'n datgan rhyfeddod ei brawddeg i synwyrusrwydd esthetig y darllenydd ac i'r deall. Ym mhobman y mae yna apêl bersonol amlochrog yn nhrefn ei gramadeg.

Ac ar hyd y canrifoedd creulon a chrand, y mae pobl wedi cael eu dal, ac wedi sefyll yn stond gerbron y golud naturiol hwn. Maen nhw wedi cael eu cyfareddu i'r fath raddau nes eu bod yn synhwyro bod yna bresenoldeb pwerus yn y fan yma. Nid arwynebol nac allanol yn unig yw hyn i gyd. Nid yn y golwg y mae'r Greadigaeth hon. Gorfodir dynion drwy'r oesoedd i ymatal ac i blygu, i addoli ac i sylweddoli ysbryd ac ystyr ar waith. Rhywbeth y tu hwnt i'r arwyneb ac uwchlaw pethau anodd sydd yna. Gwyddant fod argraff Duw ar bopeth.

Mae'n ddiddorol i mi fel y mae'r ail lyfr, y Beibl, yn nodi bod y Greadigaeth yn 'datgan' gogoniant Iôr, fel pe bai'n ymddiddan. Mae'r Beibl yn ateb pob ymholiad o bwys amdani, yn berffaith. Hynny yw, y mae'r allanolion gweledig yn llais i'r anweledig. Ond y Greadigaeth yn dweud rhywbeth! Pwy neu beth 'wnaeth hyn? Pam? Sut? Os defnyddiwn ein clustiau wrth wrando ar yr adar, a'n ffroenau wrth gerdded heibio i lwyni'r bore a thros borfa wlyb, a'n llygaid wrth syllu i berfeddion y sêr, fe ganfyddem mai arwyddion yw'r rhain oll o ffynhonnell fawr. Dyma lawysgrifen Duw: a'i lofnod yn wir. Dyma'i iaith safonol a'i dafodiaith. Nid yn y Beibl yn unig y mae'n llefaru. Dywed amdano'i hun yn yr haul a'r blodau, yn y creigiau a'r pryfed oll.

Does dim syndod bod yr Arglwydd Iesu Grist wedi defnyddio damhegion am bobl a phethau mân allanol i sôn am yr Ysbryd sy'n gweithio'n fewnol ac yn allanol. Defnyddiai fanion y Greadigaeth. Ac ar ei ôl Ef, pobl fach a diarffordd fel Hugh Jones Maesglasau a Mari Jones Llanymawddwy. Does dim rhaid inni fynd yn bell i glywed y Duw hwn yn sibrd: mae'n bloeddio arnom drwy'r ffurfafen am Ei ddwyfoldeb a'i sancteiddrwydd. Cysgod yw'r Greadigaeth o'r Crëwr

ei hun. Y Greadigaeth fechan, ymddangosiadol ddiderfyn, hon sy'n llefaru am fawredd yr Un a'i lluniodd. Syfrdandod lliwiau a'r seiniau, y blodau a'r arogleuon, meddalwch gwymon yn ein dwylo a briwsionrwydd pridd, y rhifau, a'r symudiadau, y tebygrwydd a'r annhebygrwydd, yr holl bethau sy'n ein gwneud yn bobl gyflawn oherwydd mai cynghanedd meddwl anferth y Crëwr a'u gweithiodd oll. Casglasom adnabyddiaeth o'r bywyd hyfryd ond dirgel hwn o brofi hyn oll. Dyma lawenydd na allwn esbonio byth 'pam' yn hollol heb droi at sylweddoliad o'r hyn a gymhellir gan gariad Duw i gartrefu dyn.

Mae'r Greadigaeth (er gwaetha'r Cwmp) yn dal yn rhyfedd o hardd am ei bod yn ufuddhau i ddeddfau esthetig Duw (y cynllun ymlaen llaw) i esgor ar ddyn. Gall y dyn seciwlar ddarganfod ac ymhyfrydu yn neddfau natur. Dyma waith gwyddonydd doeth. A bu presenoldeb trefn o'r fath yn ddigon o brawf o Dduw, hyd yn oed heb ddarllen y datguddiad esboniol Beiblaidd. Dyma'r anweledig yn llywodraethu'r gweledig. Cafodd esblygwyr cyfyngedig gryn drafferth i esbonio bodolaeth trefn o unrhyw fath allan o anhrefn dybiedig, a'r DNA a'r tyllau du a'u tarddiad adeileddol. Gan fod rhesymolwr ym mhob man arall yn rhagdybied achos i bob effaith, yr oedd bodolaeth deddfau yn orfodol o gwbl yn peri peth anhawster i'r rhagosodwyr negyddol. O ble y daethent? Pam? A sut?

'Dim problem!' medd ambell un. 'Siawns.'

Mawr yw defnyddioldeb clec. Cuddia lawer o ryfeddodau. Byddara synnwyr. Lle yw i wthio pob problem yn ôl iddo. Ond pwy neu beth a wnaeth y fath ddihangfa hwylus? O blanedau eraill, debyg? Yr oedd y dehongliad Cristnogol rywsut yn ddigonol yn y fan yna hefyd, er mawr ofid i anghredinwyr a hiraethai am ymgyfyngu i ofynion meidrol. Yn y 'chwalfa' ceid trefn.

Bid siŵr, nid negyddu ymlafnwyr naturiolaid yn y Greadigaeth yw'r ffordd arferol i Gristnogion ei dilyn ar y siwrnai tuag at y Crëwr. Er mor rhyfeddol o ddigonol oedd myfyrdod am y Greadigaeth i arwain yr analluocaf a'r galluocaf at Dduw, nid dyna'r llwyfan cyffredin iddo gyrraedd Duw. Mae Duw yn defnyddio ffordd lawer mwy personol gan amlaf i'n cyrraedd ni. Yr Un sy'n rhoi sy'n dweud. Daw Ef ei hun yn gyntaf atom, yn adnabyddiaeth. Wedyn, y darganfyddwn mai Hwn, yr Un agos, oedd yr Un a wnaeth hyn oll. Ac mae'n llefaru.

* * *

Gan awdur arall y clywais y disgrifiad y cyfeiriais ato uchod o Greadigaeth fel 'y llyfr cyntaf' a ysgrifennodd Duw. Drwy'r llyfr daearol cyntaf hwnnw y daethom yn alluog i ddarllen yr ail lyfr, sef y Beibl. Mae'r gymhariaeth yn un helpfawr, gredaf i.

Yn *Gwaith William Williams Pantycelyn* I, 75 ceir pennill adnabyddus:

*Rhyw lyfr yw'r greadigaeth, aneirif faint ei ddail,
Yn dodi 'maes ogoniant diderfyn Adda'r Ail;*

*Ei holl briodoliaethau a welir yn ei waith,
A'i ddyfais anchwiliadwy o dragwyddoldeb maith.*

Dyma lyfr cyntaf Duw, a'i dyst gweledig cyntaf. Nid 'stori' yw, ddim yn unig o leiaf. Mae'n debycach i *Wyddoniadur* neu'n hytrach i Wikipedia neu Google i gyd – heb y bylchau a'r gwallau gwybodaeth. Mae'r Beibl ar y llaw arall yn meddu ar themâu cymharol syml. Dyma'r themâu canolog beunyddiol sy'n arwyddocaol i berthynas Duw a dyn. Llythyr Duw at ddyn yw, yn siarad yn bennaf am Gariad Duw at ddyn, er bod hynny'n cael ei wneud yn baradoesaidd drwy ddweud y gwir am ei beryglon ef. Dyma'r ddau ddull a ddyfeisiodd Duw i lefaru wrth galon.

Llyfr gwybodaeth braidd yn ddigariad bellach yw'r Greadigaeth, efallai. Ond dywed am yr holl ddeunyddiau a gweithredoedd a fu, sydd, ac a fydd ar gael.

Beth, felly, yw'r berthynas rhwng Llyfr y Greadigaeth a Llyfr y Beibl? Mae'r Creu (os caf ei ddweud) yn debyg i 'Dafod rhyw Lenor'. Hynny yw, y sylfeini a ddisgrifir i'r adeilad. Dyma yn gyntaf y Cynnwys mewn potensial, y mecanwaith rhagflaenol i'r Greadigaeth. Y llyfr Hanes wedyn yw'r Beibl. Drama yw'r Beibl hefyd, yma ac acw; yn Job er enghraifft. Casgliad o wybodaeth drefnus am y Greadigaeth yw hefyd. Weithiau, mae'n ddadansoddiad sy'n debycach i Ramadeg + Geiriadur i'r Greadigaeth. Arolwg ystwyth a chymhleth o Lyfr y Greadigaeth: y mynegai cryno yw o hanfodion ei hystyr neu'i phlot, yn uno, yn cydlynu, ac yn dilyn pwrpas y cwbl. Edrychwn o'r tu ôl i'r allanolion ar y mewnlion.

Wrth gyferbynnu'r ddau 'lyfr' hyn, priodol yw camu ymlaen am un tro ymhellach, tan grybwyll y feirws ar y Cyfrifiadur sy'n medru ymyrryd a chwalu ambell rediad da. Mae hyn wedi digwydd yn y Greadigaeth yn ogystal ag ym meddwl a deall y darlennydd, dyn. Ond gwaith penodol *ar ôl* y Cwmp, dan oruchwyliaeth ac 'awduraeth' ofalus yr Ysbryd Glân oedd ac yw'r Beibl; ac o ganlyniad, mae yna warant lwyr o ddibyniaeth ynddo; gan mai ateb penodol i'r Cwmp yw.

Wrth ymdroi gyda llenyddiaeth, nid amhosibl yw sylwi mai iaith yw'r gwnïad iddi hithau. 'Gwyddor Iaith' yw'r gyntaf o'r gwyddorau, yn yr is-ymwybod. Dyma'r dadansoddiad o'r gallu sylfaenol i wneud dealltwriaeth o fywyd. Dyma'r dadansoddiad cyferbyniol a wna'r baban cyn sylweddoli ei fod yn ceisio dadansoddi. Fe'i fframiwyd gan ddeddfau'r Greadigaeth.

Fe'i disgrifir, os deallir ef, mewn Mawl. Nid ysgrifennu llawlyfr gwyddonol dros dro i ysgolion yw strwythur iaith. Gorfoledd moliannus yw i bobl sy'n adnabod y Crëwr.

Yn y dechreuad (Gen. 1:2; Salm 104:30) yr oedd ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. A dyma Dduw yn dweud goleuni ac yn gwahanu hwnnw a'r tywyllwch, gan enwi'r naill a'r llall yn ddydd ac yn nos, bob un â'i hunaniaeth (neu ei wahuniaeth) ei hun. Yna, gwahanodd ddyfroedd a dyfroedd, a'r ffurfafen a'r dyfroedd, yna'r tir sych, a'r holl dyfiant amrywiol ar y ddaear. Gwaith dadansoddol a chyfansoddol oedd, wedi'i ddisgrifio'n gynnil. Cyd-adeiladwaith.

Yna, dechreuai dyn (ar ddelw Duw) mewn ysbrydoliaeth neu wedi'i ysgogi, anadlu'n debyg i'r Ysbryd Glân, wedi derbyn ei chwyth: megis pysgod, adar, anifeiliaid; a'r neges. A daeth hyn oll yn ddeall ac yn iaith i ddyn. Dargenfydd ef, mewn ymwybod, y gwahaniaeth rhwng profiad o wrthrych a phrofiad o wrthrych arall. Dyma reidrwydd er mwyn byw. Sylwir ar unedau yn y dadansoddiad meddyliol o'r byd. Eisoed yn y byd mae'r gwahaniaethau yn bod. Mae un profiad yn un yng nghanol amryw. A dyma ddyn yn defnyddio'r anadl yn awr gyda threfniant y deall i lefaru'r cyfansawdd. Fel y sylwir ar wahaniaeth, felly y sylwir ar debygrwydd. Dargenfydd strwythur Mawl. Dyma gyfuniad mawr sylfaenol deall byd a bywyd:

(a) y gallu i ganfod gwahaniaethau yn y tryblith.

(b) y gallu i ganfod tebygrwydd.

Gyda'i gilydd, (a) a (b), dyma'r gallu i ddisbarthu pethau gyda'i gilydd mewn gofod ac amser (Gen. 2:19-20) ar gyfer cyfansoddi. Mae hyn yn bosibl oherwydd bod y Greadigaeth yn amryw mewn un, a'r Crëwr ei hun yn Dri yn Un. Yn y Crëwr mae yna ysfa hanfodol am drefn (mewn uned, a maes o law mewn cyfundrefnau), am mai'r Gair yw hynny, ac mae yna ddeinameg feddyliol tuag at bwrpas. Os mai deall yw cam cyntaf mawr darganfod neu adeiladu iaith, defnyddio sŵn amrywiol â'r organau llafar yw'r ail. Sylwir eto ar wahaniaeth ac ar debygrwydd. Y cam mawr nesaf fydd dosbarthu'r seiniau cynrychioliadol, rheoleiddio, ailadrodd. Dyna wahanu ac uno drachefn, nid ym myd deall, ond ym myd cyntefig creu sŵn neu sain (anifeiliaid). Ond canfod oedd y cam nesaf, clymu sŵn â pheth, ag ystyr. Canfod y gall uned o sŵn glymu wrth wrthrych drwy'i wneud yn gynrychiolydd i beth, i ystyr, drwy ailadrodd. Cafwyd cynrychiolydd mewn gair, a thystiolaethu. A'r cwbl yn gadarnhaol. Y cadarnhaol yw calon Mawl.

Dyma symud tuag at gyfathrebu; at amgylchfyd, at gyd-ddyn, teulu, cymdeithas, ac at drosglwyddo neu bontio dros y cenedlaethau. Oes, mae yna ddatblygiad cyfeiriedig. Erbyn hyn, yn y gwahanu sŵn, mae'n ei ddiffinio drwy wahanu'n rheolaidd a'i gysylltu â gwrthrychau drwy sŵn i fod yn symbolwaith. Dyna iaith fyw. Sylwer mor angenrheidiol yw sefydlogi cwlwm fel cariadon. Drwy'r ffordd yna, y mae dyn (yr uned hon ar gyfer llywodraethu byw) yn gweld ei bod ynghlwm wrth absoliwt a didolrwydd a sefydlogrwydd unplyg. Dyma lefel ddadansoddol a deallol mewn iaith. Dyma lefel foesol mewn iaith ar gyfer ufudd-dod gwerthoedd. Dyma gyfeiriad i gynhyrchu gair: cwlwm yw mewn corff ac anadl ymhlith personau a gafwyd i bwrpas. Ac y mae yna reidrwydd gorfodol ymarferol i eiriau, yn sylfaenol, ddweud ac ymarfer â'r gwir, ynteu fe fetha iaith.

Felly, wedi derbyn chwyth cynnar gan yr Ysbryd, a theithio drwy'r deall i gynrychioli ystyr mewn sŵn, dyma gyrraedd iaith aeddfed a llawn, gan ddeall pobl eraill yn wrthrychol o'r tu allan, sef y cyflwyno o'r newydd pob ystyr yn hanes Duw a dyn. Ond dyma hefyd chwyth yn awr yn cael ei ddyrchafu o'r chwyth cyffredin i'r chwyth arbennig. Y Beibl a mwy: (Ioan 20:22, *'Ac wedi dweud*

hyn, anadlodd arnynt a dweud “Derbyniwch yr Ysbryd Glân”; Datguddiad 22:17: *'Y mae'r Ysbryd a'r briodferch yn dweud “Tyrd”*.' A dyna berthynas â'r Crëwr, y berthynas uwch pob perthynas.

Mae iaith a llenyddiaeth a'r Beibl yn goleuo math o drefn ddynol nas profir yn llawn gan wyddoniaeth faterol heb ychwanegu ati'r sylweddoliad o ogoniant y Greadigaeth. Doniau ydynt mewn estheteg sy'n gyfartal eu harwyddocâd â moeseg. Mae hyd yn oed dadansoddiad o'r celfyddydau yn dadlennu trefnusrwydd a gollir oni chydabyddant fod ganddynt hwythau eu cynllun. Dyma ymateb deallol creedig iaith yn ymateb i gelfyddyd y Greadigaeth.

Wrth geisio trafod y greadigaeth *ex nihilo*, ystyriaf fod yr ymgais fetaffisegol '*wyddonol*' hyd yn hyn wedi osgoi ffactorau'n ormodol. Buwyd yn rhy lithrig, yn anonest o lithrig. Wyneb yn wyneb â'r esboniad Cristnogol, mae'n bur anorffen. Yn wir, nid yw'n dilyn yr hyn a ystyriwn bellach yn 'fethod gwyddonol' ei hun. Hynny yw, nid oes arbrofi gan fodoli y gellir ei ailadrodd. Mae'r esboniad Cristnogol uwchben gwyddoniaeth yn cynnig 'achos cyntaf' digonol, er hynny, megis y bydd Beirniadaeth Lenyddol yn trafod Awdur. Nid yw'r esboniad gwyddonol yn cynnig dim ond 'achos blaenorol' prenaidd heb fynd yn ôl ond hyd at ryw fan arbennig, nes methu â chynnig 'achos blaenorol' ynghynt. Yn wahanol i fethod arferol a meidrol gwyddoniaeth, ni ellir ailarchwilio arbrawf sefyllfa gyffelyb, na chyffredinoli ar sail mwy nag un cylchdro, er mynd i'r pen draw. Rhaid hefyd ganiatáu bod yr holl olyniaeth o achos-ac-ffaith ynddi ei hun heb achos materol. Hynny yw, rhaid i rai gwyddonwyr gwympto ar y dibyn lle nad oes achos naturiol blaenorol. Cyfleus iawn yw eithrio'r hyn sy'n rheidiol pan nad yw'n ffitio'r method. **Mae'r esboniad Cristnogol ei hun, ar y llaw arall, yn cydnabod rheswm a phwrpas pob cam sy'n trafod perthynas ystyrion greadigol o fewn gofod ac amser, a Pherson arweiniol. Seiliodd Duw Hanes o fewn amodau ystyrion.** Ond deil fod gofod ac amser yn derfynedig; ac y bu iddynt hwy, fel pob dim arall, ddod i fodolaeth o fewn tragwyddoldeb gyda'r Greadigaeth Drindodol. Maentumia Cristnogaeth fod yna ddimensiwn goruwchnaturiol o raid, sydd uwchlaw a'r tu hwnt i amser a lle. **Ac y mae'r esboniad llythrennol-droadol hwn am Greu gan Dduw goruwchnaturiol yn gyfangwbl ddigonol gan ddatrys pob problem yn 'rhesymol'.**

Pan wrthodir yr esboniad Cristnogol (neu ddatguddiad llenyddol y Beibl), onis gwrthodir ar sail rhagdybiaeth negyddol is-resymol? Sefydlir gan y negyddwyr fframwaith gwrthodol marwol, felly, na ellir ar egwyddor ei brofi. Ar yr ochr arall, cred y Cristion fod dynoliaeth oll ar led wedi'i donio gan gynneddf y gellir ac yn fynych y gwneir ei bywydu. Gellir bywhau'r adnabyddiaeth o'r Duw hwn ym mhrofiad miliynau o bobl. **Duw personol yw; bod tragwyddol sy'n gweithredu ac yn cyfathrebu drwy Ymwybod o Dduw, drwy'r Gydwybod, a'r Greadigaeth – wedyn drwy Air Duw ei hun, wedyn mewn Ymweliad gan Dduw.** Mae yna bosibilrwydd felly i ddyn meidrol, drwy rodd gynneddfol gan Dduw, ddod yn 'fyw' iddo'i hun a phrofi dimensiwn heblaw'r hyn sydd yn

y golwg ac yn gyfyngedig. Does dim posibilrwydd i ddyn, ar y llaw arall, wrthbrofi'r fath ddimensiwn. Darparwyd gwybodaeth lythrennol-droadol iddo ddeall yn gadarnhaol. Ac un peth arall: cafwyd rhannu llenyddiaeth gyda diwinyddiaeth Tafod/Cymhelliad/Mynegiant; Awdur/Testun/Darllenydd, sef Duw/dyn yn bwyslais yn y dimensiwn personol. Cyfuniad oedd a gynlluniwyd.

*

*

*

Ymhlith y pethau a grewyd, nas esbonnir i'r seciwlar – ond a ragdybir – gan wyddonwyr, y mae trefn a chynllun yr holl greadigaeth: y llyfrgell gyfan. Hyn yn wir yw un o bum ffordd Tomos Acwin o brofi bodolaeth Duw. Nid prawf digonol yw (yn y dull dogmatig materol), oherwydd rhaid cael yr Ysbryd Glân i'w egluro yn ddi-rwystr. Sut y gallai'r fath sefyllfa â hon ddigwydd, mor bersonol, ar hap a damwain, heb esboniad? Erys heb esboniad i rai oherwydd rhwystr rhagdyb. *Ond mae'n groes i hap a damwain yn ei hanfod.* Ymddengys fod y deddfau daearol (disgyrchiant ac yn y blaen) ar waith o'r dechrau cyntaf. Ni ellid eu hosgoi. Wrth geisio damcaniaethu ynghylch esblygiad gwryfol trawsfathol ac yn y blaen, ychydig y bydd 'gwyddonwyr' yn gallu ei ddweud am fodolaeth a chychwyniad cyfundrefn y rhain, heblaw eu rhagdybied. Does dim esboniad drwy ddimensiwn naturiol cyfyngedig. Yn awr, *pace* Acwin, nid wyf i'n cyfrif bod hyn oll yn 'profi' bodolaeth Duw o raid. Mae anallu yn dal yn rhwystr i'r meddwl. Ni wna ond awgrymu'n eglur fod Cristnogaeth yn cynnig esboniad hollol ddigonol, a 'gwyddoniaeth' fetaffisegol heb gynnig yr un ateb hunanddigonol o gwbl. Mae'r Greadigaeth yno nid i ddadlau dros fodolaeth Duw, eithr i'w ddatgan a'i adnabod ychydig, ac i gydweithio â dyn a'i glod. Perthyn y math o brawf a gais y seciwlar, i amser a lle, i ddimensiwn y mae eisiau ei olrhain o'r tu allan iddo o fewn amodau 'caeth'.

Diau fod a wnelo'r drefn a deddfau â Chrëwr personol tragwyddol sydd wedi ewyllysio ac sy'n cynnal y deddfau hynny ohono'i hun. Ond yn negyddol, cred Cristnogion mai byd yw, a threfn yw, sy'n arddangos canlyniadau Cwyp treiddiol. Ond Cwyp yw o fewn fframwaith o drefn a gadwyd oherwydd parhad presenoldeb yr Ysbryd Glân yn llywodraethol goruwch pob cwyp. Fe'n rheolir gan Ragluniaeth. Ac y mae'n ffaith fod dyn bob amser hefyd yn ymwybod â phwrpas wrth gyflawni ei fân weithredoedd ffaeledig beunyddiol sydd a wnelo â threfn ragdybiedig ynghylch amcan a phwrpas ymhell uwch ei ben. **Hyd yn oed pan na cheir nod uwch na'r awydd i oroesi, nod yw er ei waethaf.** Pan wnawn ein dewisiadau, fe'u gwneir o fewn fframwaith o ddeddf y tu hwnt i'n penderfyniad ni, mewn byd o bechod.

Bid siŵr, fel y dywedais o'r cychwyn, ni byddwn yn ceisio cymryd Natur i brofi Duw. Dyna'r drefn wrthwyneb. Duw sy'n profi'n anffaeledig. Myn dyn, yn naturiol, beidio â chredu. Ac os nad yw'n debyg fod dadl o'r math hwn yn argyhoeddi dyn naturiol ynghylch gwirionedd neu bosibilrwydd Cristnogol, ac os nad yw'n fwy na chydabyddiaeth bod y math hwnnw o esboniad yn

well nag esbonwyr sy'n mynnu aros o fewn dimensiwn naturiol, yna rhaid edrych tua rhywle arall i brofi Duw. Dyna fel arfer sy'n digwydd. Nid dyn drwy'i fedr syrthiedig eithriadol o annigonol a'i ewylllys lygredig a'i reswm cyfyngedig sy'n cyrraedd yr ateb anffaeledig hwnnw. Fe'i rhoddir iddo. Mae'r drydedd dystiolaeth hon o fodolaeth Duw, er hynny, sef y datganiad drwy'r Greadigaeth, fel y ddwy arall a grybwyllwyd – yr Ymwybod cynhenid cyffredinol a'r Gydwybod gynhenid sylfaenol – yn Ras Cyffredin. Sut felly y ceir tystiolaeth arbennig o berthynas ddwyfol mewn byd naturiol lygredig? Ceisier rhodd yr Ysbryd Glân yw'r ateb. Ceir y rhodd, yn ôl y datguddiad Cristnogol, mewn person, a pherthynas â pherson sy'n ymwneud â dynoliaeth yn uniongyrchol, yn gyflawn-bersonol, ac yn chwyldroadol. Y Duw-ddyn, Iesu Grist, a gyflwynir gan yr Ysbryd Glân yw hwnnw. Hwn eto sy'n gweddnewid ein gwybodaeth o'r Greadigaeth yn y Beibl. A dyna Ras Arbennig.

Ymddengys i mi y gellid cyfleu hefyd (drwy'r datguddiad deddfol a roddodd ef) rai o briodoleddau cymeriad y Duw hwnnw – megis penarglwyddiaeth (er y byddai llawer o ddirgelwch ynglŷn â hynny oherwydd diriaeth ddirgel y Cwmp), ei undod, a'i natur ysbrydol ac anweledig, ei gyfiawnder hyd yn oed. Ond y mae hynny ymhell iawn o gyfleu'r Duw Cristnogol a'r math o berthynas sy rhyngddo a dyn; ac y mae ymhellach byth oddi wrth *gredu*, sef ymostwng mewn ffydd.

Y gwir yw mai casgliadau 'naturiol' yw'r rhain oll fel arfer ynghylch y Cread. Tarddant oll o hyd o'r datguddiad a elwir yn Ras Cyffredin. Ac er mor werthfawr a phwysig yw hynny, y mae Gras Arbennig Achubol a datguddiad goruwchnaturiol uniongyrchol yn meddu ar ddimensiwn amgenach a chyflawnach o ddigon. Nid gwyddonol yw gwadu hyn cyn camu tuag ato.

Mae'n cynnwys, oherwydd deffroad yr ystyr, yr argyhoeddiad o bechod, peth y gellir ymresymu er mwyn esbonio materion arferol ynglŷn â'i berthynas â'r Gydwybod. Ond nis canfyddir yn ddigonol i'w ddehongli mewn dull i'r ysgrythurau, sef yn weithred ac yn brofiad o bellhau rhag perthynas gariadus â Duw. Ni chyferfydd neb â'r Duw byw, personol-dragwyddol hwnnw, sy'n Dri Pherson yn Un, drwy foddion arferol a naturiol wrth reswm. Rhaid i'r 'anghyffredin' ddigwydd iddo neu iddi; hyd yn oed ar y blaen i ddeffro i ryfeddod godidowgrwydd y Greadigaeth. Rhaid derbyn maddeuant. Nac ofner.

Nid Duw 'tebygol' yn unig yw Duw i'r credadun. Mae'n sylfaen i bob deall a meddwl. Pe na bai Ef yn bodoli, ni fodolai dim arall a heriai'r meddwl. Ei wirionedd rheidiol Ef sy'n caniatáu pob rheswm ac ystyr. Mae'n amhosibl iddo beidio â bod, nac i'w drefn beidio â bod. Oherwydd Ei fodolaeth ef y mae achos ac effaith, gwerth a phwrpas yn ystyrion. Ni ellir meddwl amdanynt yn foddhaol ond o fewn fframwaith yr Absoliwt cariadus. Dim ond drwy'i gadarnhad Ef y mae modd synied am bob negydd. Ni cheir gwerth ond o fewn cyd-destun trefn, ac y mae pwrpas yn dod yn eglur mewn amser drwy'r unrhyw drefn honno. Ynddo Ef, felly, a'r tu allan i feddwl dyn, y ceir y cyfeirbwynt eithaf. 'Rhagluniaeth' yw'r enw amdano.

Ac eto, nid oes dim deallol anghredadwy ynghylch derbyn bod yna ddimensiwn llythrennol oruwchnaturiol i fywyd. Yn wir, ymddengys, fel yr haerwyd ynghynt, fod ymateb i Dduw o'r fath yn 'naturiol'. Yn ôl y datguddiad Cristnogol, y mae'r Duw hwnnw'n bersonol dros-gynnol, yn cyfathrebu mewn gosodiadau, ac yn ymwneud â dyn yn hanesyddol. Ond ni chaiff dyn hynny heb fod rhywbeth wedi digwydd iddo. Ei wireddu'i hun a wna Duw, nid yn y Greadigaeth yn unig, ond *drwy'r* Greadigaeth a dulliau mwy penodol. Gwiw cofio, fel y ceisiais ei ddadlau (yn groes i'r Panentheist), yn *Y Cynllun sy'n Canu*, mai *dilyn* y Crëwr y mae'r Greadigaeth. Ei ddathlu Ef y mae hi a'i threfn (neu gyfundrefn). Edrych drwy'r drefn honno a wnawn ar y Trefnwyr, ond nid i fawrygu'r drefn yn unig, eithr drwy'r drefn wedi cysgod neu adlewyrchiad bychan o'i Ogoniant Ef. Mewn marwnad i Williams Pantycelyn, fe ganodd 'hen flaenor o'r Betws' (Sir Gaerfyrddin) oruwch y Creu:

'Nid am System Isaac Newton,

Pliny hen a Ptolemy,

Y llefara wrth y bobol,

Ond am system Calfari.'

Creadigaeth gan Gyfundrefn y Drindod fu, – o drefnu gwahanol: tuag at un llythrennol gweledig. Gwiw i blentyn ddysgu am y fath gyfanrwydd.

Ymddengys lle'r Mab yn y Greadigaeth honno yn uwch-resymol. A pham lai?

'Drwyddo Ef y gwnaethpwyd pob peth ar a wnaethpwyd.'

Mae Ioan 1 yn cyflwyno adlais y Testament Newydd i ddisgrifiad Genesis 1. Trawsblanedig a gweddnewidiedig yw dechrau'r Efengyl o Genesis ymlaen. Yn ôl y dystiolaeth neu'r datguddiad yn yr Efengyl, yr oedd lle'r Mab yn y Greadigaeth yn ganolog. Dyma'r disgrifiad o'r swyddogaeth honno yng ngeiriau'r Epistol at yr Hebreaid (1:2): *'Hwn yw'r un a benododd Duw yn etifedd pob peth, a'r un y gwnaeth y bydysawd drwyddo.'* Ac eto, Paul at Colosiaid: (1:16): *'Hwn yw delw'r anweledig, cyntafanedig yr holl greadigaeth; oherwydd ynddo ef y crewyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear; pethau gweledig a phethau anweledig, gorseddau, arglwyddiaethau, tywysogaethau ac awdurdodau. Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef cyn bod pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. Ef hefyd yw pen y corff, sef yr eglwys.'* Hynny yw, y Mab tragwyddol, yr Un o'r Drindod yn weledig ac yn anweledig, yn ben ar Gorff, yn Ymgnawdoliad o ran hanfod: dyma'r datguddiad. Dylai Gwyddonydd allu sylweddoli ei fod yn chwilio mwyach nid am y Greadigaeth eithr am y Crëwr yn gyntaf. Ac arweinir er ei syndod at fwy na Chrëwr.

Dylid nodi bod, wrth gwrs, swyddogaeth arbennig i'r Tad a'r Ysbryd Glân hefyd yn y Greadigaeth, fel y soniodd Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd. Ond rywfodd, yr hyn sy'n rhyfedd ac annisgwyl i'r dyn cyfoes yw'r rhan a gymerodd y Mab (o Nasareth) yn y gwaith. A rhyfeddod yw i ni, sy'n ymddiddori yn Niwinyddiaeth Cenedlaetholdeb, neu Ddiwinyddiaeth

Gwleidyddiaeth a Diwinyddiaeth Feiblaidd Popeth: pwysig yw sylwi ar awgrym yn y *Colosiaid* fan yma, sy'n sôn am arglwyddiaethu a thywysogaethu fel rhan barhaol o'r Greadigaeth honno; ac am adeiladu pobloedd. Rhaid bod yn ymwybodol o bresenoldeb parhad yn y gweithgareddau ymarferol yn Hanes y Greadigaeth heddiw. Dyma wedd bersonol arall sy'n uchafbwynt i'r Greadigaeth mewn gwirionedd, ac i'w gweld yn Israel yr Hen Destament a'r Testament Newydd wrth adeiladu'r genedl honno.

* * *

Wrth sôn am 'Y Synnwyr o Dduw', 'Y Gydwybod', a'r 'Greadigaeth', buwyd yn ymdrin â'r hyn a ystyrid yn Ddiwinyddiaeth Naturiol o'i chyferbynnu â Diwinyddiaeth Ddatguddiedig. I mi, y mae pob Diwinyddiaeth ddoeth yn oruwchnaturiol drwyddi, a phob Diwinyddiaeth ddoeth yn ddatguddiedig. Ond does dim dwywaith nad yw'r Ysbryd Glân yn defnyddio Natur ei hun i bwyntio at Grist yn y Greadigaeth, nes yr ymdeimlwn â'r Cariad o fewn y Drindod; yr Undeb goruwchbresennol. Dyma ddirgelwch sy'n gam nesaf yn y 'Dystiolaeth'. Arweinia popeth at Grist.

Ond ni byddai'n gwbl briodol inni ddefnyddio termau fel Gras Cyffredin a Gras Arbennig yn rhy wahaniaethus, er y byddai'n weddus sylwi fod yna wahaniaeth. Mae pob Gras Cyffredinol datguddiedig a chlr – sy'n gyrru pechadur ar ei liniau, ac sy'n ei argyhoeddi o'i fawr angen, ac yn deffro'i ysbryd i weiddi am drugaredd ac am Wirionedd eithaf, er iddo ymddangos yn 'naturiol' ac ar gael yn 'gyffredinol', – mewn gwirionedd yn Ras Arbennig ar waith. Canys y mae pawb sy'n curo o ddifri yn cael drws agored, a phawb sy'n dod yn waglaw at Grist, drwy Ras, beth bynnag a'i gyrrodd drwy rym yr Ysbryd, yn sicr o'i gael. Pan ofyn Cristion o ddifri am faddeuant, fe'i caiff.

Yn yr esboniad Beiblaidd, y mae yna gyfeiriad deinamig – o'r Creu drwy'r Cwmp i'r Ymgawdoliad: mae yna gyfeiriad a phwrpas cymdeithasol (nid gofodol yn unig) i fodolaeth. Ac yn y drefn honno a'r cyd-destun hwnnw y mae lle ac anocheledd y Duw-ddyn yn ddealladwy. Dyma'r berthynas hanfodol rhwng Duw a dyn ac uchafbwynt y Creu, ac uchafbwynt y ddealltwriaeth ddynol.

Dywed y Beibl am y Crist mai trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth.

Sylwer: yn yr adran hon, hyd at y fan yma, nad yr Ymgawdoliad, nad dyfodiad Iesu Grist fu'r *dystiolaeth* benodol a fu mewn golwg. Y Greadigaeth ei hun fu'r tyst hwnnw. Ymdrinnir â thystiolaeth yr Ymgawdoliad ei hun yn yr adrannau o hyn ymlaen. Mae'n rhaid mynd ymhellach na'r Greadigaeth a Duw fel Crëwr i gael bywyd mwyach ac efengyl. Ond yn y grefydd Gristnogol, yn hanesyddol ac yn y traddodiad clasurol, dwyfoldeb Crist yw'r arbenigrwydd unigryw: y Goruwchnaturiol o fewn y Naturiol. Nid Crëwr yn unig ydoedd, ond Gwarddwr. O fewn cyd-destun y Drindod y'i gwelwn ef yn Greawdwr pridd a deunydd. A diddorol i ni'r Cymry yw'r pwyslais a roddai'r ffermwr Pantycelyn yntau ar Grist Creawdwr Natur. Mae'n briodol cofio'r swyddogaeth hon

a'r nerth hwn wrth ymdroi ychydig gyda Chreadigaeth. Dibynna'r wybodaeth ar yr Ysgrhythurau datguddiol allanol, goruwchnaturiol, gan nad oes datguddiad arall mor effeithiol i fod dynol.

Ymhlith y tystiolaethau diriaethol, yr 'un' bersonol fwyaf grymus fu Genedigaeth, Dysgeidiaeth, Gweithredoedd, Marwolaeth, Atgyfodiad, a Barn yr Arglwydd Iesu. Yng nghyflawnder Ei hanes ef y dadlennir i ni unigrywiaeth faterol Cristnogaeth ysbrydol. A lle y bo cyfaddawdu â seciwlarwyr yn y cyfnod diweddar ar berson Crist, yno y ceir y brad mwyaf a wynebodd Cymru erioed. Mae'r profiad o realiti Crist, y cyfarfyddiad ag ef, yn ganolog i'n ffydd. Drwy fyfyrdod arno ar ein gliniau a chymdeithasu ag Ef â'n serchiadau, felly yr eir yn ôl at wreiddiau'n hunaniaeth ddyfnaf.

Syniaf, wrth fyfyrion am Ymwybod o Dduw, Cydwybod, a Rhyfeddod y Greadigaeth yng nghyd-destun Crefydd Gymharol y gallai'r Gras Cyffredin, a brofir ar led, ein harwain ambell dro tua myfyrdodau digon datblygedig a phrofiadau twf a rhyfeddod. Camgymeriad yw i Gristnogion fychanu pwerau Gras Cyffredin yn hollol ddigydyndeimlad a diddiolch. Ledled y byd fe geir rhywrai, hawdd eu deall, drwy wall yn addoli Natur, fel y darllenwn wrth astudio crefyddau'r Dwyrain, ac nid y rheini'n unig. Mewn cyfrolau megis Nissinen, *Prophets and Prophecy*, 116-117 (Esarhaddon), Younger, *Ancient Conquest Accounts*, 202 (Aššurbanipal), a *Royal Inscriptions of Mesopotamia, Early Periods* (University of Toronto), darllenwn am y duwiau yn rhieni i'r brenin, ac iddo gael ei blannu yn y groth gan dduw, ac yn cael ei genhedlu gan y duwiau. Hynny yw, oherwydd math o Ymwybod cymysglyd sy'n cynnwys neu'n hepgor pethau cadarnhaol, ni ellir llai na disgwyl dadleniadau o anghenion a phatrymau cynaeafu lle y bo Gras Cyffredin (hyd yn oed dan drais) ar waith. Dadleniadau syrthiedig, ond dadleniadau yr un fath yn eu hamherffeithrwydd.

Ond er mwyn gwybod craidd y Cread, rhaid sefyll y tu allan iddo, yn ddigon pell, ac o ddefnyddio trosol hir y Gwirionedd y gellir wedyn symud y byd.

Yn ôl y datguddiad Beiblaidd, crewyd popeth mewn perthynas, yn negyddol neu'n gadarnhaol. Yn wreiddiol yr oedd y cwbl yn dda – yn berffaith. Ceid Cynllun/Rhagluniaeth yn ymsymud drwy'r bydysawd yn gydlynol annatod, gyda phob rhan yn effeithio ar ei gilydd. Craidd y Cwmp fu torri'r berthynas honno. Dinistriwyd a fforffedwyd diogelwch y ddibyniaeth neu'r gyd-ddibyniaeth. Yn yr Ymgawdoliad a'r Farwolaeth Iawnol y cafwyd uchafbwynt a chyflawnder adferol y Pwrpas dwyfol ar gyfer perthynas. A dim ond yn y berthynas bersonol honno y prawf dyn eto y Tragwyddol, hynny yw drwy'r Ysbryd Glân: yn y Greadigaeth, heb fod drwy gyfrwng y Greadigaeth. Ac felly y mae'r gwir Dduw yn tystio am Dduw.

Er mwyn deall rhywbeth am y Greadigaeth drwy ddimensiwn llawnach, rhaid inni symud ymlaen mwyach, i geisio'r Un sy'n dal i ofalu am y Greadigaeth honno. Ond teg cydnabod, er nad yw'r Cread yn llefaru am y Gwardwr (eithr mewn ystyr amserol), un peth pwysig a ddyry'r Cread,

fel y cawn weld ymhellach ymlaen, yw llawnach adnoddau a rheswm i ogoneddu'r Penarglwydd. Sylwer yn y gerdd a luniodd Pantycelyn i adrodd am y ffordd y mae'r Tad yn rhoi'r Greadigaeth yn brosiect i'r Mab, mai 'Teyrnas Crist', nid 'Creadigaeth' yw'r term a ddefnyddir.

BEIBL

Dosbarth o Dystiolaethau naturiol i Dduw'r Crewdwr yw'r tair y buwyd yn ymdrin â hwy hyd yn hyn. Safent rywfodd ar wahân i bob un o'r pedair sy'n weddill. A'u **hannigonolrwydd** sy'n eu didoli hwy fel yna. Nid gyda'r tair hynny y mae iachawdwriaeth na'r berthynas lawn rhwng dyn a Duw. Hyd yn hyn, buwyd yn defnyddio 'Trioliaeth o brofiad am Dduw' fel ffordd i ddod o hyd i'r efengyl. Ni chafwyd ateb digonol i angen iachawdwriaeth.

Ai ateb llawn a digonol o'r diwedd yw'r Beibl yn awr?

Nage.

Ond cywir dweud mai **digon yw'r Beibl ynghyd â'r Ysbryd Glân**. O hyn ymlaen, er ein bod yn parhau o hyd i drafod y Tystiolaethau am Dduw, bydd ansawdd yr hyn a drafodir yn gwbl wahanol. A'i gyflawnder. Ni byddwn mwyach yn trafod y Cyflwyniad Dechreuol personol brofiadol. O hyn ymlaen mae'r Tystiolaethau'n oruwchnaturiol mewn ffordd sy'n troi'n dystion sydd hefyd yn dyfnhau ein gwybodaeth a'n hadnabyddiaeth wrthrychol o Dduw. Mae'n troi hefyd yn fwy uniongyrchol at yr Ymchwilydd ei hun yn bersonol. Wedi dod yn Gristion dilys, ni bydd neb yn bodloni ar gipolwg yn unig. **Byddwn wrthi'n chwilio am lwybr pellach sy'n mynd yr holl ffordd.**

Yn awr, ar y pedwerydd cam angenrheidiol, yn y bedwaredd dystiolaeth, rhaid cael yr ateb yn llawn. Iesu Grist yw'r ateb. Duw ei hun, yn Greawdwr ac yn Waredwr, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r Eglwys, Hwnnw yw'r Dystiolaeth drwy waith yr Ysbryd Glân yn y galon. **A dyna ni yn y Beibl yn ymagor i'r Gwirionedd crwn a'r Dystiolaeth fanwl. O'r diwedd, dechreuwn wynebu'r Gair a agorwyd gan y Nefoedd i groesawu'r amddifedyn i freichiau Gwaredwr.** Dyma ateb Goruwchnaturiol yn tystio mewn iaith sy'n manylu am achub.

Dyma ateb digonol. Tyst cyflawn yw'r Beibl ar gyfer yr hyn sy'n ddigon i bechadur: gair Duw. Wrth arolygu'r tair tystiolaeth hyd yn hyn, gellid sôn amdanynt fel tystiolaethau naturiol. Mae'r tair ohonynt er hynny, wrth gwrs, yn ffaeledig. Syrthiedig ydynt. Ac eto, y maent yn dal yn dystion i Dduw; ac fe'u defnyddir gan yr Ysbryd Glân i arwain y meddwl ymostyngol. *Gras Cyffredin* o ran tarddiant ydynt, er mai goruwchnaturiol ydynt hefyd pan ddefnyddia'r Ysbryd hwy: yr Ymwybod dynol o Dduw, y Gydwybod am Dduw a dyn, a'r Greadigaeth a brofwn. **Ond y mae'n bosibl, heb ddim cymorth gan Ras Arbennig, i'r dyn naturiol gydnabod bodolaeth Duw drwyddynt.**

Pan ddown at y Beibl, sut bynnag, cred y Cristion fod a wnelo ef â'r Goruwchnaturiol ar hyd y gyfrol. Dyma rodd 'nid-naturiol' o lyfr gan Dduw sy'n wahanol iawn ei arwyddocâd a'i dystiolaeth ym mryd y Cristion i fryd yr anghredadun. I'r Cristion, moddion neu sianel Gras Arbennig a gwardedigol yw'r Beibl. Gair Duw mewn geiriau yw. Ac fe'i defnyddir yn fynych gan yr Ysbryd Glân

i fod yn foddion achubiaeth anffaeledig. Tyst yw i'r Gwaredwr-Dduw.

I'r anghredadun, amlygrwydd y 'goruwchnaturiol' yn ymwybodol ynddo yw'r tramgwydd pennaf. Ac ym mryd hwnnw neu honno, bydd y byd yn wynebu pedair tystiolaeth sydd ar ôl yn farolwg i a all ymddangos yn ffug neu'n annealladwy neu'n amherthnasol yn ôl y rhagdyb: sef y Beibl, y Mab, yr Ysbryd Glân, a'r Eglwys. I'r credadun, ar y llaw arall, y pedwar hynny yw'r ffenomenau pwysicaf mewn bywyd beunyddiol. Mae a wnelont â dimensiwn arall lle y mae gwyrthiau'n bosibl.

I gredadun, gwyrth yw'r Beibl oll, ac anffaeledig. Felly, mae gennym honiad a haedda'i brofi.

A'r holl Feibl sydd dan sylw. Yn ôl Friedrich Baumgärtel, (*Verheissung Zur Frage des evangelischen Verständnisses des Alten Testaments*, Gütersloh, 1952) tyst yw'r Hen Destament eisoes i addewid sylfaenol Duw i'r sawl a edwyn. Oherwydd bod Cristnogion heddiw wedi credu realiti Duw drwy Grist, bellach, profant fod yr Hen Destament hefyd yn cael ei fywchau iddynt a *dod yn dyst cynnar* i effeithiolrwydd Iesu Grist. Maent yn dystion arloesol i wirionedd y ffydd Gristnogol oll. Dyna sut y mae David L. Baker yn crynhoi safbwynt Baumgärtel: 'he understands the old Testament as a witness to the promise in Christ. This is possible in two ways. On the one hand, the Old Testament witnesses to God's realization of his basic promise through Christ. On the other, Christians affirm that Christ has realized the basic promise of the Old Testament.'

Un o'r gweithiau pennaf, wrth drafod y Beibl fel tyst, yw astudiaeth Wilhelm Vischer yn 1934, *The witness of the Old Testament to Christ I: The Pentateuch*; ac ym 1942, *Das Christuszeugnis des Alten Testaments 2.1: Die Früheren Propheten*. Yma mae'n disgrifio'r berthynas rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd fel 'datguddiad cynyddol'. Mae'r Hen Destament yn diffinio'r gair 'Crist', ac mae'r Testament Newydd yn darparu'r enw 'Iesu', ac felly'n uniaethu Iesu fel y Crist. Dyma Feseia'r Beibl i'r byd. Yn ôl Vischer (1934), 'The Old Testament tells us *what* the Christ is; the New, *who* He is.'

Sôn yr ŷm yn y fan hon am ysgolheictod Cristnogol sy'n cymryd bod y Beibl yn ei gyflwyno'i hun inni drwy hunanwireddu fel ffenomen oruwchnaturiol. Nid yw'r ysgolheigion hyn yn mynd ati i amau nac i archwilio'r rhagdyb yma, sy'n ymddangos o safbwynt naturiol. Wedi gwaith Duw yn eu deall, i bob pwrpas y mae eu profiad o'r tair tystiolaeth gyntaf wedi'u meddiannu eisoes yn seicolegol. Mae hyn ynddo'i hun yn sefyllfa 'anghyffredin' (o'i gyferbynnu â Gras Cyffredin).

Yr unig wahaniaeth a all fod rhyngddynt ac ysgolheigion seciwlar yw bod yma ddimensiwn uwch-seciwlar, a bod y gynneddf gan ddyn sef y *sensus divinitatis*, wedi'i bywchau yn effeithiol: galluogwyd y Cristnogion drwy'r Ysbryd Glân i ymateb i'r dimensiwn hwnnw. Gellid, wrth gwrs,

wastraffu llawer o anadl werthfawr wrth ebychu am yr esboniad hwn. Ond dyna'r sefyllfa. Ac felly y bu hi ers Adda. Mae hynny'n ymddangos yn annheg.

Ond yn fwy na hynny. Lle y bu anawsterau academiaidd, fe'u derbynid hwy hefyd, yn ambell ddryswch i'w datrys o fewn amgylchiadau anffaeledig sefydlog.

Dechreu'r Fethodoleg Feiblaidd mewn cynllun deuol a ragwelir yn Genesis 1 – 3 gyda rhagosodiad Goruwchnaturiol. Cynyddu mewn dealltwriaeth ynghylch ansawdd y goruwchnaturiol a wna'r darllenydd cadarnhaol. Ond fel arall, y tu allan i fewnfyd y Goruwchnaturiol, ceir i'r anghredadun wyrthiau allanol sy'n cydlynu'r Hen Destament a'r Testament Newydd. Tystia'r Beibl (a'i dystion – yr Eglwys) i fywyd goruwchnaturiol ac i bosibilrwydd o ddeall goruwchnaturiol.

Mae hyn yn dramgwydd i'r dyn naturiol am nad yw'n cyd-fynd â lled ei amgyffrediad ef. Ni ellir, meddir, gymodi Gwyrthiau â'r ddealltwriaeth fodern o Wyddoniaeth a Hanes. Ond sut nad yw gwyrthiau yn cydymffurfio â'r ddealltwriaeth fodern o Wyddoniaeth a Hanes? Byddai'n rhaid gallu profi'n gyfan gwbl sicr nad yw Duw ddim yn bod; ac argyhoeddiad goddrychol fyddai'r fath safbwynt am na fedr yr anghredadun ddeall cyraeddiadau hanesyddol ffydd.

A ellir yn gyntaf weld un ochr yn fwy 'tebygol' na'r llall? Ochr y Seciwlaryn neu ochr y Cristion? Yn ôl yr athronydd John Macquerrie, rhaid yw i'r gwyddonydd dderbyn yn ddogma mai achos naturiol sy'n cyfrif am bob ffenomen yn y byd: nid oes dewis. Yn ôl y method gwyddonol, dyna'r rhagdyb orfodol. 'Rhaid dechrau gyda'r diwedd. Nid yw'n bosibl cael achos goruwchnaturiol i ddim. Felly, does dim goruwchnaturiol, Q.E.D.' Ond mae yna ormod o ragdybiaeth hunanegusodol y tu ôl i'r fath osodiad i dderbyn bod rhesymeg yn gyfrifol am yr holl gasgliad hwnnw. Mae'n dechrau yn y diwedd. Pam *rhaid* gwrthod y posibilrwydd goruwchnaturiol? Cerdded mewn cylch y mae dadl fel yna. **Adlewyrcha fwy nag anwybodaeth: adlewyrcha ragfarn ddall.**

Dechrau â'i law yn llaw yr Ysbryd Glân, a'i ragdyb, a wna'r ysgolhaig Goruwchnaturiol.

Gwedir y goruwchnaturiol hwnnw yn ôl greddf a dallineb y naturiolwr. Er na ellir yn fy marn i hawlio drwy ddadleuon gwyddonol *naturiol* fod yna oruwchnaturiol a gwyrthiol ar gael, fe ellir o leiaf synied yn rhesymol fod yna fwy o debygrwydd ysgolheigaidd o'u plaid nag sydd yn eu herbyn. Yn gyntaf, yn athronyddol.

Hoff gan y gwrth-oruwchnaturiolwr honni bod y bydysawd hwn wedi dechrau bymtheg biliwn o flynyddoedd (a chaniatáu ychydig o fisoedd yma ac acw) yn ôl, gyda chlec fawr, ac nad oedd dim cyn hynny. Ond yn ôl amodau dogma naturiolaid teg hwnnw, dim sy'n dod o ddim. Mae Natur felly yn ei chreu ei hun. Neidir dros y disgwyliad naturiol fod yna rywbeth cyn y glec fawr. Dyna ffydd o fath. Ffydd heb reswm, ffydd o ddymuniad, ffydd oherwydd awydd cynhenid, ffydd oherwydd gwasgfa ffasiynol. Ffydd groes i Natur. Anodd dod o hyd i ffeithiau dros y fath ffydd.

Dyma Alvin Plantinga yn ymateb: '*Dichon fod Macquerrie yn golygu fod ymarfer â*

gwyddoniaeth yn awgrymu gwrthod (er enghraifft) y cysyniad o Dduw yn codi rhywun o'r meirw ... Mae'r ddadl hon ... yn debyg i'r meddwyn sy'n chwilio am allweddi coll ei gar gan anwybyddu pobman ond dan olau'r stryd ar y tir acw gan ei bod yn oleuach yno. Mewn gwirionedd, mae'r ddadl yn fwy eithafol na hyn. Myn, gan fod yr allweddi yn rhy anodd i ddod o hyd iddynt yn y tywyllwch, yna rhaid eu bod o dan y golau.'

Heblaw ateb y cwestiwn pwysig pam y mae rhywbeth, rhyw fater, yn bod o gwbl, drwy ryw ochrgamu seciwlar y mae'r goruwchnaturiol yn ddigonol hollol i esbonio pam y mae yna ddeddfau yn y greadigaeth. Unwaith eto, y mae'r naturiolwr greddfoll yn rhagdybied eu bod wedi'u gwneud eu hunain (drwy fod yn hunangyfrifol) heb unrhyw gynsail. Go brin mai Esblygiad a'u gwnânt.

Un o uchafbwyntiau theori Esblygiad (gor-symleiddiol) yw bod ffurfiau byw cymhleth wedi esblygu allan o ffurfiau symlach drwy broses o ddeddfol naturiol. Cydnabyddaf fod yna fath o awgrymiadau arwynebol o hynny'n digwydd yn fynych, o fewn yr un rhywogaeth, er bod llawer o sail ym myd ieithyddiaeth o broses wrthwyneb. Mae hyd yn oed yr Eglwys Gatholig wedi gwneud datganiadau swyddogol nad oes dim mewn Esblygiad sy'n tanseilio'r ffydd Gristnogol. Un o'r pethau a ddengys Esblygiad yw bod yna ddeddfau a rheoleidd-dra a threfn ar gael, fel ym mhobman arall, a bod un cyfansoddiad yn datblygu'n ddadansoddiad arall. Yn ôl y Naturiolwr dogmatig mae'r rhain hefyd wedi dod o Nunlle. Ym maes Gwyddoniaeth y mae egwyddor achos-ac-effaith a bodolaeth deddfau er enghraifft wedi colli'r ddadl gyda Goruwch-natur, o leiaf, o ran tebygrwydd 'cadarn'. Ond ychydig o sylw a roddant hwy ac a gânt hwy cyn y glec fawr. Y chwalfa honno oedd yr Achosydd – i fod. Ond y mae yna diwnio'n fanwl rhwng elfennau ym myd Natur.

Wrth geisio dygymod â gwrthod Cristnogaeth, gyda'i holl hanes ac athrawiaethau, mae'n ddiddorol sylwi fel yr ymostyngodd gwyddonwyr yn eu dadleuon i un cylch o ystyriaeth. Mae gwyddonwyr yn aruthr o frwd ynghylch aros dadleuol yn y cyfnod hwnnw gyda'r Greadigaeth a'r Esblygiad, yn llythrennol neu'n droadol, heb sylwi bod yna ambell beth arall yn y Beibl heblaw'r bennod gyntaf o Genesis. Gwiw i wyddonydd tramgwyddedig ddechrau mewn man arall. Mae cyfannydd y Beibl yn cyflwyno Duw sy'n Grëwr o Waredwr, sy'n amlwg yn canoli ar berson a dysg Iesu Grist. Yn nwylo Athroniaeth, gellir cerdded peth o'r ffordd tuag at gredu bod Duw, er nad yw bob amser yn ymwybodol o gyfyngder pwysigrwydd y fath gred.

*

*

*

Yr ail faes Beiblaidd y ceisiwyd ei falu a'i annheilyngu oedd Hanes. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, chwyswyd yn helaeth i geisio tanseilio geirwiredd y Beibl ar seiliau hanesyddol, a buwyd yn hela gwallau yn bur wyllt o ddilyffethair. At ei gilydd, i'r anghredadun, tâl Hanes dryslyd o'r fath beth yn well na dadleuon Athronyddol. Maes yw Hanes a oedd yn ymddangosiadol lai theoretig ac yn fwy diriaethol nag esblygiad a bodolaeth deddfau. Eto, po fwyaf y chwilid, mwyaf y

cadarnheid tystiolaeth Hanes. Os ymholid o ddifrif ynghylch y Goruwchnaturiol Cristnogol, fe ellid cael o hyd lygad-dystion dynol a gynhaliai brofion Hanes.

Ysgrifennwyd tystiolaeth yr Efengylau canonaidd o fewn deugain i drigain mlynedd ar ôl marwolaeth Iesu. Ysgrifennodd Paul ei lythyrau ryw bymtheg i bum mlynedd ar hugain ar ôl marwolaeth Iesu, ac ynddynt cyfeirir at fywyd Iesu yn unol â'r efengylau – ei wyrthiau, ei hawliau am ei berson, ei groeshoeliad, a'i atgyfodiad. Hynny yw, bu cannoedd o dystion yn bresennol yn safle'r digwyddiadau hyn, ac yr oedd llawer ar dir y byw pan gofnodid yr Hanes. Mae awdur Efengyl Luc yn dweud, ei fod yn ysgrifennu ar sail adroddiad tystion a oedd yn dal yn fyw (Luc 1:1-4). Cofiw'n benodol fod yna ddeuddeg disgybl a fu'n dystion hyfforddedig i wyrthiau bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad, cyn i holl weinidogaeth Iesu gael ei gorffen. Llyfr diddorol ac ysgafn (sydd ar gael ar y We, am ddim, yn ei gyfanrwydd) yw: Korky Davey, *Jesus – Faith and Fact : A book about the origins of the gospels, the earliest documents of the Christian faith*, 2005. Llyfr yw sy'n dangos yn effeithiol ac yn ddiddorol ddarllenadwy mor agos at y digwyddiadau hanesyddol yn y T.N. oedd y tystion a'r ffynonellau cynharaf. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, yr oedd positifiaeth resymegol yn dal ymhlith rhyddfrydwyr yn amlwg boblogaidd. Yr oedd yn rhaid i'r rhain drechu eu rhagdybiau. Erbyn hyn, sut bynnag, y mae'r farn ryddfrydol Ôl-fodernaidd wedi symud yn gryfach tuag at Afreswm a gwrthod Naturiolaeth gonfensiynol. Derbyniwyd yn fwyfwy, gan yr awyrgylch cyhoeddus a'r amgylchfyd poblogaidd, relativrwydd a diffyg gwerthoedd absoliwt; ac aethom ymhellach o lawer na gwrthwynebu positifiaeth resymegol. A rhaid inni ailystyried yr holl ddarlun yng ngoleuni'r feirniadaeth ddiddiben ddiweddarach, lle y mae gwirionedd yn cael ei ystyried yn amhosibl. Yn wir, y mae'n rhyfedd (o fewn amgylchfyd o bositifiaeth) fel y mae Beirniadaeth Lenyddol Ôl-fodernaidd wedi tyfu mewn pwysigrwydd a dylanwad yn y byd deallol oherwydd iddi gyflwyno esboniad argyhoeddiadol mwy ffasiynol o'n cymdeithas ddiddiben a'n meddwl cyfoes.

Ond aeth y 'gêm' yn ddeuol. Ar ôl derbyn y rhesymegol gan Ras Cyffredinol, a gwrthod y rhagdybiau afresymol o wrthod y goruwchnaturiol, derbynid rhai o feirniadaethau Ôl-fodernaeth ar hunanfodlonrwydd Rhesymu. Mynnid mynd y tu hwnt i bosibilrwydd naturiol oruwchnaturiol. Mae'r dystiolaeth oll yn amrywiol o gartrefol ac yn fân, ond y rhagdybiau'n brasgamu o'u cwmpas. Ffaith ddiddorol ond nodweddiadol a nodir gan Farc: fod y dyn a helpodd Iesu i gario'i groes 'yn dad i Alecsander a Rufus' (Marc 15:21). Oni bai fod yr awdur yn disgwyl i'r darllenwyr adnabod yr enwau hyn, ni byddai wedi trafferthu i nodi'r peth, fel pe bai'n awgrymu 'gofynnwch iddyn nhw'. Gyda'r dystiolaeth wyrthiol, rhyfedd mor normal yw'r tystiolaethwyr.

Sonia Paul, yr ysgolhaig, am ymddangosiadau Iesu ar ôl atgyfodi (1 Cor. 15:3-6), '*i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau* (h.y. Yr Hen Destament); *ac iddo ymddangos i*

Ceffas, ac yna i'r Deuddeg. Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o'i ddilynwyr ar unwaith – ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er bod rhai wedi huno.' Meddai Paul wrth Agrippa (Act. 26:26), *'Nid mewn rhyw gornel y gwnaed hyn.'*

Cyfyd Richard Bauckam un ddadl sydd a wnelo â gwadiad Pedr o Iesu, hyd yn oed hyd at felltithio'i feistr (Marc 16:17). Pam y byddai'r eglwys ar y pryd yn rhoi'r fath amlygrwydd a phwyslais ar un o fethiannau mwyaf un a oedd yn bennaf arweinydd iddi?

Mewn gwirionedd, nid y math o arddull na'r math o fanylder realistig sydd i'w cael yn yr efengylau ag a gysylltir â cherddi, rhamantau, llenyddiaeth weledigaethol, chwedloniaeth, na myth. Yn ôl C.S. Lewis a fu'n astudio'r fath bethau ar hyd ei oes: *'Of this (gospel) text there are only two possible views. Either this is reportage ... or else, some unknown (ancient) writer... without known predecessors or successors, suddenly anticipated the whole technique of modern novelistic, realistic narrative...'* Rhydd ef enghraifft yn Marc 4:38 pan sonnir am y wyrth o ostegu storm: *'Yr oedd ef yn starn y cwch yn cysgu ar glustog.'* Yn Ioan 21:8, *'nid oeddent ymhell o'r lan, dim ond rhyw gan medr.'* Ac wedyn, yn adnod 11, tynnodd Simon y rhwyd i'r lan yn llawn o bysgod braf, *'cant pum deg a thri ohonynt.'* Yn Ioan 8:6, 8 dyma'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn dod â gwraig ato wedi'i dal mewn godineb. Sonir am Iesu'n ysgrifennu ar y llawr heb ddweud pam na beth oedd y cynnwys. Dyma fath o ysgrifennu 'ffuglennol' nas ceid yn y ganrif gyntaf ond yn llythrennol. Ond cedwid y manylion hyn yng nghof tyst dilys.

Mae'r 'Beirniad Beiblaidd' traddodiadol danseiliol yn cael cryn anhawster i'w holi'i hun. Cyn gynted ag yr awgrymir gwall rywle, y mae'r awch i walluso'r Ysgrythur yn dringo i'r fath raddau nes bod diffyg ymholi trwyadl yn lleihau'r min beirniadol yn ddirfawr. Y mae'r Athro James Dunn o Brifysgol Durham yn enwi dau wall tybiedig. Yn gyntaf, y mae'n enwi gweithred Iesu o lanhau'r Deml. Yn Ioan 2:13-17 enwir y glanhad ar *ddechrau* cenhadaeth Crist. Ond yn yr efengylau synoptig fe'i henwir ar *ddiwedd* ei weinidogaeth (Math. 21:12-17; Marc 11:15-17; Luc 19:45-46). Tybia Dunn yn wawdus (sonia am *'fundamentalist mindset'*) y buasai dehongliad traddodiadol a gwallus yn sôn am ddau lanhad fel pe bai'n un ac wedi'u lleoli'n anghywir. A pham lai na dau lanhad? Yr oedd rhan gyntaf ei weinidogaeth yn ddigon gwahanol o ran natur a phwrpas i'r ail ran: y rhan gyntaf yn cyferbynnu'r croeso a gafodd y tu allan i Jerwsalem, yn lleol yng Ngallilea; a'r ail, y diffyg croeso yn y testun, am lanhau hollol wahanol (a ddylai fod ledled Israel), yn ei ddyfodiad i Jerwsalem lle y mae'r glanhau ynghlwm wrth y golchi yn y gwaed a'r atgyfodiad. Yn y testun ei hun y ceir y dehongli gwahanol hwnnw; ond yn y testun y dylid dechrau, nid gyda rhagdybiau ansicr parod.

Ac yn ail, sonia am wadiad Pedr dair gwaith. Ceir pedwar adroddiad – digwydd ym mhob efengyl (Math. 26:59-75; Marc 14:66-72; Luc 22:56-62; Ioan 18:15-18, 25-27). Yn fy myw, o

ddarllen y gwahanol gyflwyniadau, ni allaf gydnabod yr un gwrthddweud yno, ond gan y dehonglydd modern ei hun na all adnabod gwahaniaeth pwyslais dilys a theg pan wêl hynny.

Heblaw gwall-geisio hanesyddol, byddai'r academyddion seciwlar yn ymhel â ffasiynau athronyddol a chrefydd gymharol. Mae'r Athro Dunn yn codi holl gwestiwn 'Sicrwydd', ac yn rhannu'r cwestiwn hwn rhwng y teimlad goddrychol awdurdodol '*gwyddonol*' o Sicrwydd ar y naill law, sydd yn sylfaenol er ymarferoldeb byw (ond sydd hefyd ynghlwm wrth y '*ffwndamentalaid-ddall-wyddonol*' a'r 'creulon' a'r 'amlffydd'). Ac ar yr ochr hon, er ei waethaf, y mae'n ei gael ei hun yn gysurus seciwlar 'ddiduedd', gyda'r sicrwydd digwestiwn sy'n meddiannu hynny. O'r tu diwinyddol, sut bynnag, gellir cydnabod hefyd fod yna Sicrwydd gwrthrychol y tystir iddo, os yn anodd i rywrai dogmatig naturiol. Mae ef yn ei gael ei hun gyda'r math hwn o fodoli ac o wybod; eithr yng nghanol hyn, y mae ef yn defnyddio Amheuaeth fel offeryn ymarferol rhy ddogmatig, ac at ei gilydd yn credu mai dyna declyn defnyddiol os acrobatig sy'n diogelu cred sy'n ddiderfyn o gyfyngedig. Mae'n rhy ragdybiol. Aeth hynny'n llai na dyfais ymchwil. Ac nid ystyriodd Ras.

Amlffydd yw'r trydydd gwrthfaes i Gristnogaeth. Methiant fu dadleuon yr heresiwyr cynnar a ffenomen Crefydd Gymharol, er eu bod wedi tueddu i fod yn fwy deallol a llenyddol 'ddiddorol' weithiau nag adrannau rhestrol ac achyddol o'r Beibl. Bernir yn ôl tybiau dyn-ganolog. Efengyl Thomas yw'r fwyaf adnabyddus o'r dogfennau Gnostig; ond nis ysgrifennwyd tan dros gan mlynedd ar ôl y cyfnod pryd yr oedd yr efengylau Canonaidd eisoes yn cael eu defnyddio. Tywyllwch yw neges Thomas, ac y mae i'w gywair a'i darddiad ddimensiwn gwahanol i'r Canon. Yn ystod yr ail ganrif ar ôl Crist, llewyrchai helaethrwydd o heresiâu lliwgar yn y Dwyrain Canol a gymysgai rai credoau Cristnogol ag athrawiaeth baganaidd, gyda mân osodiadau lu o'r mwyaf grotésg, nid yn annhebyg i'r mân sectau (a'r mawr) a ddigwyddai yn UDA yn ystod yr ugeinfed ganrif. Diau fod rhaid disgwyl yr ysfa am yr esoterig a'r di-sail. Cafwyd helaethrwydd o gredoau ac o ddiffyg credoau honedig. Nid dieithrwch fu gyda dynolryw fel y mae. Yr hyn sy'n anfeidrol syn yw mor ddygn fu ffyddlondeb iachaol uniongrededd a chysondeb ffydd drwy gydol y cyfnod hwnnw.

Dau o gynhyrchion mawr canolog yr Ysbryd Glân fu'r Beibl a'r Eglwys. Dau a oedd yn gyd-ddyledus iddo am eu cynllunwaith a'u hysgogiad, y cyntaf yn anffaeledig a'r ail yn ffaeledig. Ym mhrofiad miliynau o bobl heddiw yn y gwareiddiadau adnewyddol a chynyddol yn y Dwyrain Pell ac yn Ne America, y mae i'r gyfrol hon bellach statws awdurdodol crwn newydd. Nid llyfr arall ymhlith eraill (gwell efallai) yw'r llyfr hwn, digon tebyg i rai eraill. Nid 'dyna'r cwbl' yw, hyd yn oed i'r rhai sy'n negyddol yn eu hagwedd ato yn ôl yn Ewrob, sef i'r dogmatig a gais honni mai 'dyna'r cwbl' ydyw. I'r rheini tramgwydd parchus yw hefyd, o leiaf. Erys y gelynyon efallai i arddel yr awydd i'w gam-drin a'i newid. Ond ni all yr ymgyrch hwnnw sefydlu gwyrriad llwyddiannus gerbron yr holl awdurdodau academaidd yn y maes.

I rywrai eraill, mater o fywyd a marwolaeth yw. Tramgwydd godidog.

Felly, wrth roi sylw araf a manwl i'r math o dystiolaeth a geir yn y Beibl, yr ydym wedi symud at dyst a fwriadwyd i fod yn fwy nag ysgogiad y tair cyntaf y buom yn eu trafod i sylweddoli *Bodolaeth* Duw. Mae a wnelo'r tri thyst nesaf felly gyda'i gilydd – y Beibl, Iesu Grist, a'r Ysbryd Glân – â Thystiolaeth brofiadol a Gweithredwyr anffaeledig *Gwardigaeth*. Dyna'r goleuni gweddnewidiol ar bwrpas y Greadigaeth. Down yn lleng trwyddynt at y Ddaear a'r Nefoedd Newydd. Amlygir gwaith Duw yn ddeinamig yn awr ymhlith credinwyr mawr y llawr, mewn modd na fu mor wir bersonol ynghynt. Daw llu o dystion dilys sy'n adlewyrchu'r Beibl, a'r gofal a ddatguddir am Grëwr a deimla faich dros Ei greadigaeth, ac wedi deall y cymhelliad o Ogoneddu. Yn wahanol iawn i'r Tair Tystiolaeth gyntaf a drafodwyd hyd yn hyn, wrth symud i Grŵp Gras Arbennig yr wyf yn teimlo rheidrwydd i ddechrau crynhoi'r gwrthwynebiad canolog. Y gelynyon sy'n denu sylw pennaf hefyd, i ni yn awr, yw'r gwatwarwyr cyfarwydd, a'u nerth aruthr. A'r rhagdybiaeth atebol a fydd gennyf yn waelodol yw bod Duw yn medru cyfathrebu â hwy: Duw sy'n siarad yw. Dewisa ei wneud weithiau'n effeithiol. 'Ffwndamentalydd!' geilw'r gwawdwyr ar bawb difrif. Ond beth mwyach yw'r fath greadur (a'r dom wawdus) onid sgrechair gan y meddwl newyddiadurol i sôn am rywun sy'n cymryd ei Feibl yn ôl y posibiladau uchaf? Oherwydd y cymhellion sgreceiriol, ni ddefnyddir y term 'ffwndamentalaidd' gan neb meddylgar mwyach am unrhyw grefydd. Ac mae yna ddisgrifiadau manylach ac amgenach i'w cael am efengyleiddwyr.

Cofiaf geisio diffinio'r term hwnnw gydag ychydig o ofal tybiedig un tro (mor bell yn ôl â 1971): *Sioc o'r Gofod*, gan ei gyferbynnu â'r safbwynt Diwygiedig ar y pryd: dyma oedd y canlyniad anfoddfaol:

Ffwndamentalaidd	Diwygiedig
Tuedd i wrthwynebu ymchwil ieithyddol ar y Beibl (er pleidio ymchwil lawysgrifol).	Parodrwydd i ymagor i bob ymchwil, ond yn barotach na'r Rhyddfrydwyr sy'n eu harchwilio i fod yn amheus ynghylch rhagdybiau dyn-ganolog a chyfyngedig naturiolaid.
Llythrenolaidd; gan ymwrthod â'r troadol cyn belled ag sy'n bosibl.	Parodrwydd i ystyried delweddaeth, ffigurau ymadrodd a natur drosiadol y cyflwyniad 'gweledigaethol'.
Neilltuedig ac arallfydol wrth fyfyrion am berthynas yr ysgrythurau a'r gymdeithas a'n bywyd materol (er nad yn gyfan gwbl).	Meddant ar olwg am Benarglwydd Duw sy'n cynnwys perthynas rhwng Cristnogaeth a phob dim yn y Greadigaeth. Mae hyn yn

Diwinyddol Arminaidd (o ran tuedd | berthnasol i Sancteiddhad a Gras Cyffredin.
gyffredin). | Diwinyddol Galfinaidd ydynt (o ran tuedd
| gyffredin).

Dyna gasgliad cynnar a chynnig ar gyflwyno diffiniol cyferbyniol. Mae llawer yn y byd crefyddol wedi newid oddi ar hynny, a'r angen i fod yn fwy penodol fanwl yn fwy addas. Efallai mai'r berthynas rhwng y llythrennol a'r trosiadol sydd wedi dod yn fwyfwy taer. Efallai fod angen claddu'r sgrechair newyddiadurol 'ffwndamentalaid' yn gyfan gwbl. Ceisiwn bellach ddangos amhosibilrwydd cyson y llythrennol, er ei holl hollbresenoldeb, ac eto y rheidrwydd delfrydol i'r iaith weithio'n realaidd. Ceisiwn ddangos hefyd fod y trosiadol yn gorfod dibynnu ar y llythrennol, a'i fod yn ceisio arwain weithiau at fynegiant sy'n gywirach na'r llythrennol. Ceisiwn ailddiffinio.

Yn y pen draw, y cwestiynau a oedd yn codi i'r dyn cyffredin, na ddymunai ymdrybaeddu yn y cymhlethodau hyn oedd – Ai cymhelliad annheilwng neu ragdyb di-sail sy'n ysgogi'r naill ochr a'r llall? A yw'r rhai sy'n ceisio coleddu'r trosiadol ar dro yn ddiweddar yn ceisio bod yn anonest? A ddihangant rhag cymryd gosodiadau'n llythrennol a'u gwyrddroi am resymau gwan wrth-oruwchnaturiol? Hynny yw, ai ceisio anghrediniaeth y maent drwy ddrws y cefn a chwarae chwiw academaidd? Oes; mae yna farddoniaeth yn y Beibl o'r gair cyntaf hyd yr olaf, hyd yn oed yn y weledigaeth y tu ôl i'r Hanes – ond hawlir mai geiriau goruwchnaturiol Duw sydd yma hefyd i'w derbyn â'r galon, a'u ceisio yn eu llawnder. Sylwais fod amryw ysgolheigion Diwygiedig hefyd wedi deall dull Duw o lefaru'n drosiadol-lythrennol. Credwn dystion yr Eglwys yn syml am eu bod yn dweud y gwir. **Cafwyd canrif a hanner o Ryddfrydiaeth erydol: ymddiriedwyd pulpudau a Cholegau iddi. Ac erbyn hyn, y mae pawb gonest yn wylidwrus iawn o driciau anonest y cyfryw hil. Twyllwyd cynulleidfaoedd drwy lastwreiddio popeth a brofai'n annerbyniol i'r meddwl dyn-ganolog naturiolaid. Ceisiwyd boddi Cristnogaeth mewn cyfleustra amlffydd. Ni chymerwyd y 'goruwchnaturiol o ddifri'. Chwynnwyd yr anghyfleus, a gwyrddrowyd pob dim yn oddrychol. A chan bwylllog, ddi'r anwir yn amlycach, a'r ateb iddo'n soffistigedig-gliriach, gyda dulliau amgenach gan Gristnogion uniongred.** Cafwyd dulliau arddulliol o ddeall heb aberthu credu. Drwy'r trosiadol y ceisid y llythrennol, a thrwy'r ddameg a'r analog a'r cysgod y ceisid y gwir, ac y dymunid eu derbyn ac ufuddhau'n orfoleddus iddynt, heb chwarae. Hynny yw, ceisiwyd derbyn Duw mwyfwy ar Ei air o ddifri, heb ofni sylweddoli deallusrwydd y Gair hwnnw. Gwelwyd bod yna'r fath beth â'r trosiadol a'r llythrennol drwy gydol y Beibl. Dyma sefyllfa sy'n galw am beidio â'i osgoi, ond am ddeallusrwydd a gofal wrth ei thrafod sy'n cwmpasu'r holl bersonoliaeth.

Gwyddom am yr hen gŵyn, 'O na bai Duw yn siarad â mi yn hyglyw bersonol, fe gredwn i wedyn.'

Fe gred yr Eglwys Gristnogol yn efengylaidd uniongedd mai'r Ysbryd Glân, gan ddefnyddio dynion unigol – proffwydi etholedig, apostolion, a rhai agos at apostolion – a ysgogodd ac a sicrhodd ddilysrwydd yr Ysgrythurau. Siaradodd Duw. Dyma oedd awdurdod sefydlog ac unol yr Eglwys. Os oedd Duw yn bodoli, nid afresymol oedd synied y buasai'n cyfathrebu. Pan geisiwyd tanseilio'r ffydd, yn bennaf o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, dyna'r dull y ceisiwyd ei danseilio'n bennaf. Gelwid twyll tanseiliol yn 'ddehongli'. Ac wrth gwrs, ymddengys 'dehongli' yn rhesymol anochel. Ond o ran 'dehongli', ffaith oedd bod un darn o'r Ysgrythur yn dehongli rhan arall o ran *Methodoleg Feiblaidd*. Dyma her o'r galon sut bynnag.

Dyrchafwyd ysywaeth ysgolheictod dyn-ganolog, wrth gwrs, gan rywrai 'uwchlaw Ysgrythur'; ac ambell gyfundrefn o du'r byd o flaen cyfundrefnau Beiblaidd. Diau mai daionus yw ysgolheictod yn wraidd sylfaenol. Mawr yw angen astudio cefndir, cynnwys, ac arwyddocâd cyd-destunol yr ysgrifeniadau hyn. Ac os rhagdybia'r pwylllog fod yr ysgrifeniadau'n unigryw, yn rhoddedig ac yn oruwchnaturiol, yna mae ganddo gychwynfan ddeallol. Ac y mae angen mynd rhagddi gyda mwy o ofal ac adnoddau, a rhagdyb effeithiol wahanol i gynhyrchion llenyddol arferol ddynol. Nid 'ysgolheictod' yw mynd ati i drin pob 'llyfr' yn y byd fel pe bai pobun yn hanfodol naturiol debyg i'w gilydd, a'r Beibl megis *Un Nos Ola Leuad*. Mae'r Beibl yn hawlio mwy, ac yn haeddu mwy, oherwydd nodweddion ei unigrywiaeth.

Ym myd Cristnogion uniongedd, fel y gwelsom, Duw-ddyn yw Iesu Grist; bod tragwyddol-bersonol. Ac nid oes dim dwywaith na roddodd yr Arglwydd, yn ei draethiadau, barch awdurdod anffaeledig ymddiriedus i'r Hen Destament. Y mae'r Testament Newydd yn tystio i'w awdurdod ei hun, fel y tystiodd Iesu yntau. Y mae'r naill a'r llall yn esbonio'i gilydd oherwydd mai Duw hunanwireddol a hunanddatguddiol yw'r Duw Cristnogol wrth raid, yn union fel y'i disgrifir ef drwy gydol y Beibl. Dylem ddisgwyl criteria mwy gofalus nag y mae seciwlarïaeth yn medru'u mentro.

Mae'r Beibl, er ei fod uwch hynny, yn ymdebygu i lyfrau eraill mewn o leiaf un priodoledd. Nid yn rhwydd y newidir rhagdybiau neb wrth ddod ato, yn arbennig ynglŷn â'r goruwchnaturiol deallol. Tyfasom oll mewn amgylchfyd materol cryf. Ymsefydlwyd mewn tawelwch anghrediniol. Cawsom oll ein magu mewn cyd-destun dwfn o ymwybod naturiol; ac ar y cyfryngau, ledled y gymdeithas o safbwynt ein syniadau parod ynghylch y byd materol fel y'i derbyniwyd mewn llyfrau arferol. Adeiladwyd o'n cwmpas bellach awyrgylch o feddwl rhesymolaidd neu ramantaidd go galed a go ddiwyro. A hyn a â gyda ni bob amser i bob man.

Tipyn o chwyldro deallol fu i leiafrif ddod i ganfod mai ffenomen unigryw yw'r Beibl. Tipyn yn ecsentrig yw ystyried bod hwn yn eithriad o gyfrol. Gwgir yn frysio ar y person sy'n cyfrif bod ansawdd y llyfr hwn yn rhagori ar bob llyfr arall efallai. Mae'r fath farn yn ymddangos yn gwbl annheg. Chwarae gêm yr ydys: er bod llawer yn gysurus gyda ffuglen wyddonol beniwaered fel

petai, y mae synied o ddifri fod a wnelo Duw dilys rywffodd â chyfansoddiad allnaturiol, fel yn y gyfrol hon, yn ymddangos yn osodiad hen a chyntefig. Am ein bod oll yn cario efallai gefndir dwysfawr o addysg ddyn-ganolog, sy'n dod at y safbwynt arallfydol hwnnw drwy ddadl ymddangosiadol academiaidd, 'dyw perswâd ynghylch y gred uniongred am y Beibl, a goleddai deallusyn fel Iesu Grist ei hun, Pawl, Ioan a'r apostolion eraill, wedyn, a rhai all-Feiblaidd fel Tertwlian, Irenaews, Clement ac Origen, Awstin ac Ambros wrth gwrs, Jerôm ac Anselm, Tomos Acwin a Duns Scotws, ddim yn tycio mewn byd 'newydd', meddir. Wedyn, pan ddown at y tadau Protestannaidd, wrth gwrs, sylweddolir bod y dystiolaeth ysgrythurol a'r awdurdod a rydd y Beibl yn dod yn fwy canolog i afael yr 'athrawiaeth' – Lwther a Chalfin a Chyffes Westminster a Chyffesion mawr yr enwadau. Felly ymlaen hyd at ysgolheigion efenglyddiaeth ac eraill yn yr unfed ganrif ar hugain. Adeiladwyd rhwng y rhelyw a hwy gaer reit gadarn. Newidiwyd gwareiddiad cyfan cyfnod-hir. Cawsom ddechreuadau Beirniadaeth Feiblaidd fodern gan bobl fel Thomas Hobbes a Rhesymoliaeth ddiwythol gan Benedict Spinoza. Felly y cyraeddasom Empeiriaeth sgeptigaidd gan David Hume ac Agnosticiaeth resymoliaeth gan Kant. A chyda'r ddau yna y cawsom ninnau aros fwy neu lai'n gysurus tan heddiw. Buwyd yn ymhel â Dirfodaeth (ynghyd â smotiau Cristnogol gwerthfawr) gyda Kierkegaard, mae'n wir; ond ni lwyddodd honno ond ymhlith deallusion rhamantaidd go esoterig. A dyma ni gartref.

Felly, ymhell cyn ein geni, yr oedd yna fframwaith eithaf syml a haearnaidd o ragdybiau sgitsoffrenig yn y diwedd yn barod i danseilio difrifoldeb unplyg y Geiriau; ac roedd y disgwyliadau i'n rhagdybiau a'n hymchwil i gyd-wrthod y cwbl yn reit rigolog. Mae gennym ninnau sy'n gredinwyr Cristnogol gyd-destun o gredu gwyrthiol. Y Beibl yw'r dystiolaeth ddeunyddiol amlycaf i Gristion profiadol gael sianel i gyflwyno'r goruwchnaturiol i ysgolheigion ac i bobl gyffredin. Mae gennym brofiad. Eithr llethol ymosodol yw nwyd y cyd-destun seciwlar. Materoliaeth a ylch feddwl y gymdeithas. Nid yw rhywun seciwlar yn debyg o goelio gallu'r Beibl i wneud hyn heb yn gyntaf newid y Beibl, neu i'r Beibl newid ei gymdeithas ef yn ddiriaethol. 'Awdur goruwchnaturiol' yw dechrau'r esboniad ar hwn. Heb argyhoeddiad rhagosodiadol o ddilysrwydd y goruwchnaturiol, nid yw'n debyg y gellir dechrau canfod y dull cychwynnol amlycaf o ddarganfod dim tystiolaeth oruwchnaturiol. Mae'n gylch abred, ond yn brawf tyngedfennol. Mae'r amgylchiadau deallol yn atalfa lwyr i ddeall y math o ddeall sy'n ofynnol. Yng nghanol persbectif tragwyddol, mae'r moroedd o feidroldeb yn teimlo gormod o her. Nid yn y meddwl fel y cyfryw: yn ysbrydol y'u bernir hwy. Rhaid iddynt gael eu gyrru i gornel. Ac yn y fan honno y cama'r Ysbryd Glân i'r fei. Canys rhagluniodd Duw i'r Deunydd a Bregethir gael ei Fendithio.

*

*

*

Cyfyng-gyngor yw'r Beibl i'r sawl sy'n dal i feddwl yn nhermau gofod ac amser dogmatig.

Ac eto, rhaid cydnabod bod rhywun yn dod yn Gristion ymhell cyn meddwl am 'ddiwallusrwydd goruwchnaturiol yr Ysgrythur'. Yr Ysgrythur fu'r cyfrwng i Gristnogaeth; ac eto, yr Ysbryd Glân a agorodd yr Ysgrythurau fel sianel fyw. Unigolyn yw pob cyffeswr mewn cyd-destun paradocsaidd. Gwn am yr hyn a digwyddodd i un darlennydd rywdro gynt, yn ddigwyddiad preifat goruwchnaturiol. A'r Ysgrythur a ddefnyddiwyd yn fodd iddo droi o gysuron materoliaeth, rhesymoliaeth ac empeiriaeth orfodol. Ar y pryd, nid ymwarded â'r rheini a ddisgwyliasai. Nid ymdroi ag unrhyw ddadl ynghylch anffaeledigrwydd y Beibl a wnâi. Yr oedd hynny, drwy drugaredd, yn ddigon pell o'i ystyriaethau. Gwneud Cristion 'wnaeth y Gair drosto'i hun, heb ddadlau: gweithredu heb ganiatâd academaidd confensiynol, mewn argyfwng. Agorwyd dimensiwn.

Cyn i'r anghredadun hwnnw gredu mai'r Ysbryd Glân oedd Awdur sylfaenol y Beibl, bu'n rhaid iddo gyfarfod â'r Awdur hwnnw ei hun. Cyn iddo amgyffred natur yr hyn a lefarai, rhaid oedd adnabod y llefarydd. Rhaid hefyd oedd archwilio manylion yr hyn a lefarai. Roedd un hen sant yn bur agos i'w le pan honnodd fod credu yn rhagflaenu deall. Cyflwyno'r ffydd sy'n rhagflaenu credu.

Gall yr ymchwiliwr sylwi mai rhagdybiau diymchwil yn syml oedd y rhwystr. Hwyl gynt hefyd oedd y croesawyr. Cyn astudio unrhyw lyfrau, felly, a ymwnâi â diwallusrwydd yr Ysgrythurau, ac a atebai'r gwrthwynebiadau cyffredin, bydd syniadaeth am 'ddyn' wedi newid yn gwbl sylfaenol i gynnwys rhagdybiau annaturiol. Bydd wedi hen ddechrau archwilio'i agweddau gelyniaethus dwfn a chudd tuag at holl strwythur yr efengyl. Pwysig wedyn iddo oedd canfod pam yr oedd wedi codi'r fath ragfuriau ynghynt yn erbyn y posibilrwydd o anffaeledigrwydd goruwchnaturiol. Pa seiliau a oedd i'r rheini?

Fe edrychasai i lawr ei drwyn fel petai o'i sedd farnwr 'uwchben' Gair Duw. Caewyd y meddwl. Hynny yw, gwnaeth safle goruwch chwyldro a balchder iddo'i hun. Ond yr un pryd, yr oedd Gair Duw yn sefyll uwch ei ben yntau. Yn sydyn ar ganol ei ymchwil yr oedd yn ymwneud â chyfrol y gallai ddweud amdani: *'Diosg dy esgidiau oddi am dy draed; oherwydd y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd ddaear sanctaidd'* (Ecsodus 3:5). Bydd yr Ysbryd Glân wedi dechrau gwneud y Gair yn awdurdod. Yn awr, y drefn oedd: Datguddiad -> Ysgolheictod.

Cyn cyrraedd y fan yna, bu'r meddwl ynghlo. Sut y bu ar y pryd mor eithafol o gaeedig? Pam yr oedd y 'naturiol' wedi'i osod ei hun yn farnwr gwerthusol ar yr Ysgrythur mor hyderus, yn hytrach na derbyn y posibilrwydd lleiaf fod yr Ysgrythur ei hun yn cyflwyno'i barn werthusol ei hun arno ef? Crebachwyd yr ysbryd o safbwynt hyd yn oed rhesymolrwydd. Yr oedd yn syml amlwg fod a wnelai mewn Cristnogaeth â chrefydd oruwchnaturiol ond nid arallfydol. Pam yr oedd Ysbryd yr Oen wedi mynnu, ymlaen llaw, fod ei holl ragdybiau'n wrth-oruwchnaturiol, a hynny'n anystwyth ddigifnewid anhunanfeirniadol? Yr oedd y gwrandawr seciwlar eisoes wedi penderfynu, cyn archwilio'r dystiolaeth yr un mymryn gyda deall agored, nad llyfr dwyfol mo'r Beibl. Allai hwnnw

na dim arall ddim bod felly. Yr oedd eisoes wedi troi rhesymolrwydd yn rhesymoliaeth gladdu-pen. Ni chât ei fyfyrrio o fewn fframwaith o ragdybiau ysbrydol iach. Dim ond llyfr oedd, wedi'r cwbl.

Nid 'dim-ond' dim byd oedd y Beibl. Pam yr aethpwyd mor ddiymadferth gerbron y prawf hwn felly? Mae'r ateb i'r cwestiwn syml hwnnw hefyd yn ddigon syml.

Adda ac Efa yw tad a mam Beirniadaeth Feiblaidd. Hwyl a sefydlodd y rhagdybiau. Adda ac Efa oedd biau'r syniad y dylid diwygio'r testun (Genesis 3:6-13). Neu o bosibl y dylai'r Awdur fod yn fwy 'cyson' â rhai rhagdybiau. A phe baent hwy a'u syniadau moesol datblygedig wedi llunio'r geiriad, yna ni ddylid bod wedi'i dweud hi yn union fel yna.

Adeiladwyd wedyn, sut bynnag, ar ragdybiau arloesol. Heriwyd symleiddiad Positifwyr Eden. Cadwyd yr un ysbryd â hwy, a'r un nod yn falch, sef gwella ar y gwreiddiol neu'i ddehongli'n fwy naturiol. Cywiro'r amwysedd. Ymddangosai'n bur amlwg, pan awgrymai'r awdur na ddylid bwyta o ffrwyth y pren yna, mai'r hyn a olygai oedd – 'pe byddid wedi adfer y testun llawn o lawysgrif J' – mai bwyta ffrwyth y pren yna oedd i fod. Rhyddid oedd nod amlwg yr awdur i Adda. Mae rhyddid yn gyson â'n syniad ni o Dduw, yn ôl yr Athro Jean-Jacques Rousseau o Brifysgol Rhufain. Yn wir, pe bai Duw ei hun yn yr unlle ag Adda, buasai yntau wedi gwneud yr un fath, sef twtio a glanhau a chysoni, gan ddileu'r negyddiaeth amhriodol. A dyna ddechrau arni. O'r fan yna ymlaen, bant â hi.

* * *

Amlyga Iesu Grist yntau ei 'ragdybiau', y rhagosodiadau a'n rhyddhâi. Dyma'r dystiolaeth drwy'r Ysgrythurau amdanom ni ein hunain ac amdano Ef yn Ioan 5:39-47; a'r fethodoleg ddeall – *'Chwiliwch yr ysgrythurau: canys ynddynt hwy yr ydych chiwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol: a hwynt-hwy yw'r rhai sydd yn tystiolaethu amdanaf i ... Na thybiwch y cyhuddaf i chiwi wrth y Tad: y mae a'ch cyhudda chiwi, sef Moses, yn yr hwn yr ydych yn gobeithio. Canys pe credasech chiwi i Moses, chiwi a gredasoch i minnau: oblegid amdanaf fi yr ysgrifennodd efe. Ond os chiwi ni chredwch i'w ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau i?' (cf. Luc 24:25-47).*

Ym mryd y Duw ymgawdoledig, yr oedd yr Hen Destament felly yn awdurdodol ac yn ysbrydoledig yn ei 'gyntefigrwydd hunan-wrthddywedol' bondigrybwyll. Mae'n amlwg bod Iesu'n credu mai Duw yn y bôn oedd Awdur y Beibl oll, hynny yw bod yr Ysbryd Glân ei hun yn cyfarwyddo ac yn anadlu ysbrydoliaeth awdurdodol drwy'r awduron unigol a oedd yn gyfrifol iddo.

Dyma Ioan 10:35: *'Yr Ysgrythur ni ellir ei thorri.'*

A Mathew 5:18: *'Canys yn wir meddaf i chiwi, Hyd onid êl y nef a'r ddaear heibio, nid â un iod nac un tipyn o'r gyfraith heibio hyd oni chwblhaer oll.'* Yr oedd yn llyfr chwyldroadol o wahanol.

A Luc 16:17: *A haws yw i nef a daear fynd heibio, nag i un tipyn o'r gyfraith ballu.'*

Hunanwireddu yw priod ffordd angenrheidiol Duw o weithio. O ble y daeth yr un a allai sefyll uwchben ac ar wahân a thystio'n wrthrychol am yr Un a greodd bob dim cyn i'r creadur fod? Mae'n nodedig bod y geiriau 'Ysgrythur' a 'Duw' yn gyd-gyfnewidiol sawl tro. Hynny yw, gall y naill a'r llall ('Ysgrythur'/'Duw') gael eu defnyddio gan Iesu ac awduron eraill yn lle'i gilydd. Mae hyn yn awgrymu, os caf siarad yn drosiadol, fod cyfathreb yr Ysgrythur yn 'corffori' Duw; yn sicr yn Ei gynrychioli. Nid oes uwch awdurdod yn bosibl na'r Tad, na'r Ail Berson o'r Drindod ynghyd â'r Trydydd Person o'r Drindod, i'r ffaith mai Gair Duw ei hun yw hwn. Amhosibl o ran hanfod yw gallu o neb meidrol wireddu na gwrth-wireddu ei ddimensiwn dwyfol, goruwchnaturiol. Gall dystio iddo, o ran profiad: ni fedr ymhonni'n ddibynnol ei hun yn ei erbyn. Ond y goruwchnaturiol anochel ei hun piau tystiolaethu i'r cywirdeb anffaeledig. Dyma athrawiaeth a gafwyd o'r dechrau. Ac ni ellid arall amgen. Wrth gwrs, fe geisir ei thanseilio; gwingir, ymdrybaeddir, cystwyir wrth natur, er mwyn peidio â chredu. Ond ceir o hyd, drwy drugaredd, ysgolheigion trylwyr sy'n cynnal y ddadl amgen gyda rhagdybiau mwy chwiliedig, deallusrwydd, a gwybodaeth hyd ein cyfnod ni.

A dônt yn gadarn i'r un casgliad â Paul yn ei ail lythyr at Dimotheus 3:16-17: *'Yr holl ysgrythur sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth... i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder:*

'Fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.'

Chwilid yn ddygn wyllt am wallau, ac fe'i cnocid i lawr fesul un, gan ddangos eu methiant yn eu tro. Aeth hyn yn ddiwydiant a dalai ar un adeg. Caed cwsmeriaid parod. Rhoid cynnig ar y dull hwn a'r dull arall o 'ddechongli' neu wrth-ddechongli. Pob gwrthwynebiad posibl. Ceisid *gwrthddywediad* â namau hanesyddol honedig. Ac wele'r cwbl hwn yn ymlusgo allan o'r frwydr yn fanwl ac yn amyneddgar ond yn ddigymrodedd; a'r diffygio yn diflannu dan draed cadarn araf ysgolheictod a rhagosodiadau grymus gwell ymlaen i'r canrifoedd wedi'u canoli yn Nuw.

Ystyrid, fel y gwelsom eisoes, duedd adnabyddus a seciwlar yn drechaf mewn Colegau Diwinyddol – sef yr un i danseilio orau y gellid gywirdeb hanesyddiaeth y Beibl, neu i droadu neu fytholegu'r hanesion allan o'r Goruwchnaturiol ac i ffwrdd o'r Goruwchnaturiol. Yr oedd yr arfer wedi gwanhau rhai myfyrwyr gwan-eu-ffydd i'r weinidogaeth. Ond bellach, wrth sylwi ar ragdybiau'r ysgolheigion a'r lle y maent yn aros, tybir mwyfwy mai Diwinyddiaeth-na-ddiwinyddiaeth oedd hi. Ffydd egwan oedd hi a amodai'r ymgais i chwilio am wallau ac i fytholegu ar seiliau naturiolaid. Ac wedyn, myfyrwyr gwan wedi dychwelyd i'w capeli oedd eu disgynyddion i ddysgu bod yn wan fel hwy. Hyd yn oed, wrth i archaeoleg, astudiaethau ieithyddol, a hanesyddiaeth gadarnhau'r testunau Beiblaidd, o gam i gam, nid oedd hynny'n mennu dim oll bellach ar deneurwydd grym y rhagdybiau sefydledig. Y rhagdybiau gwrthgrediniol a gwrth-oruwchnaturiol a oedd yn ben wedi'r cwbl mwyach, nid yr ystyriaethau academaidd priodol. Wedyn, tyfodd hyn oll toc. Fwyfwy ceisiodd ymchwil ailsefydlu neu gadarnhau'r safbwynt

traddodiadol clasurol, ond yn rhy hwyr i'r Sefydliad.

Bellach, y mae'r holl golegau anghydfurfiol sefydliadol yng Nghymru, fwy neu lai, wedi'u cau, ar wahân i'r Coleg Efengylaidd tra llewyrchus. Cafwyd dulliau mwy preifat o gynnal y drefn gan selogion a chan Gristnogion glew yn yr enwadau. Prinhaodd yr ysgolheictod adweithiol 'rhyddfrydol'. Hanes Crefydd a Chrefydd Gymharol yw'r prif gryfderau dihangol mwyach o'r tu hwnnw mewn sefydliadau Prifysgol sy'n dal i ymdrin â'r maes. Ond y mae mawr angen bellach am olrhain hanes y dirywiad, wynebu'r chwalfa yn blwmp ac yn blaen, er eu mwyn hwy. Rhaid dadansoddi'n ddewr onest y parodrwydd ysgolheigaidd dwfn i gyfaddawdu ac i ymgaledu mewn rhagdybiau dyneiddiol. Gwelid yn eglur wedyn fel yr oedd y cynseiliau dyn-ganolog gwachul, a'r fethodoleg wanllyd, eisoes wedi cyflyru canlyniadau'r Sefydliad Naturiolaid ymlaen llaw.

Sylfaenol bwysig yw sylwi yn y maes hwn, yn anad yr un maes academiaidd, fod yna yriant tra rhagdybiol caeedig ynghylch un 'angen' a oedd ar gerdded o hyd – sef yr hiraeth cymysgld am anghywirdeb hudol. Gellid cywiro ffeithiau o'r traddodiad dyn-ganolog. Ond ni ellir ar chwarae bach ddiwygio'r dymuniad gwyllt ymlaen llaw i ddod o hyd i wall oherwydd rhagdybiau caeedig. Mae hyn yn endemig; ac nid bychan yw'r bychander hwn. Wedi'r cwbl y mae gwall yn 'naturiol'.

* * *

Gyda'r deffroad i ddifrifoli ynghylch dealltwriaeth gyfrifol mewn astudiaethau Beiblaidd, bydd angen ailddechrau fel petai gan sylwi ar union fannau lle yr aethpwyd ar gyfeiliorn ac y gwahanwyd yn gyntaf. Bydd angen bod yn ddiwyd mewn ysgolheictod i ddadansoddi'r gwendidau, ond bob amser drwy chwilio am yr ateb adferol. Credaf fod hyn oll yn gorfod wynebu amgylchfyd amlochrog newydd a meddwl yn ôl cynllunio a chydweithredu mewn llawer maes. Hynny yw, y mae ailystyried cyflwyno'r Beibl yn gofyn ailfeddwl ymarferol am wasanaethu byd ôl-fodernaidd go dreiddgar mewn cynifer o weddau, oherwydd y mae angen ar yr Eglwys Gristnogol ymddiwygio'n weddaidd rhag llaw o ran arddull ac adnoddau. Bydd angen, yn ddiau, i'r to newydd fod yn fwy disgybledig rydd efallai mewn addoliad, bydd yn rhaid meithrin ieuencid yn fwy ystwyth eu harweiniad a'u helpu i ddysgu oddi wrth brofiad a llwyddiannau'r eglwys filwriaethus fyd-eang, a bydd angen i'r rhai hynaf sylwi ar berthnasoldeb yr Eglwys ym meysydd Gras Cyffredin – cynorthwyo elusennau seciwlar yn wirfoddol, a gweld perthnasoldeb diwylliant. Bydd yna anghysuro i geidwadwyr. Does dim gwybod pa allanolion y bydd yr Ysbryd Glân yn eu siglo.

Tuedda Cristnogion ailanedig *en bloc*, sut bynnag, i dybied yn llawen mai sianel i Ras Arbennig yw'r Beibl, a hynny i ryw raddau yw. Canola, nid ar y Greadigaeth, er pwysiced y Greadigaeth, eithr ar y Waredigaeth ar y Groes. Nid Gras Cyffredin yw prif gyfrwng yr Ysgrythur, fe wyddant; a'r drws i'r Greadigaeth ei hun yw'r Waredigaeth. Ond syniaf y bydd myfyrdod ar Ras Cyffredin hefyd yn ailbwysleisio gweddau dieithr yn anghenion dynolryw fyd-eang. Ni

ddarganfyddir natur lawn Naturiolaeth ond drwy Oruwchnaturiolaeth, a holl ddirgelwch Gras tragwyddol Duw. Gwelir ystyr gyfoethog Gras Cyffredin drwy Ras Arbennig. Ni ddylid petruso rhag mawrygu perthynas y ddau fath o ras. Dyma hen gneuen galed i'w chracio, ond un bwysig.

Cyfrifwn er hynny mai Gras Cyffredin yw pob bendith wrth gwrs sydd ar gael ar gyfer Cristnogion ac Anghredinwyr yn ddi-wahân ac yn ddihaeddiant. Felly, y mae bywyd ac iechyd ei hun, doniau meddwl a chorff, y ddaear a phopeth ynddi ac arni, y rhoddion i gyd oddi wrth Dduw. Ond hyn sy'n syfrdanol, – y mae'r Beibl ei hun, fel pregethu, a'r efengyl am farwolaeth iawnol yr Arglwydd Iesu Grist oll yn cael eu gwasgar a'u cyflwyno yn ddiwahân. Ni hepgorir dim. Hynny yw, cyfeirir at Ras Arbennig yn gyffredinol gan Ras Cyffredin sydd yno ar gyfer pawb. Mor fawr, felly, mor ddaionus a chariadus yw Gras Cyffredin ysgolheictod i'r rhai a wŷr symlder tröedigaeth. Mor fendithiol. Mor rasol. Wrth gwrs, Gras Arbennig yw coron yr efengyl. Ond ni ddylem fychanu godidowgrwydd rhyfeddol Gras Cyffredin, yn arbennig – mewn diwinyddiaeth dyweder – ym meysydd iaith ac archaeoleg, deallusrwydd a rhesymu, rhyfeddu a phregethu – a'r holl roddion sydd ar bob gwedd ar y Creu. Ac fe'u ceir eto, mewn modd annirnadwy ym mhegwn y Farn.

At ei gilydd, dathlu'r Greadigaeth a wna Gras Cyffredin. A phriodol cofio y gall anghredinwyr weithiau gyflawni i ryw raddau wasanaethau gwiw yn y Greadigaeth yn well nag y gall Cristnogion ei wneud. Er nad yw Gras Cyffredin yn ddigonol i dderbyn Teyrnas Nef, eto y mae'r dyn annuwiol creedig wedi cyfrannu at ffrwythlondeb y ddaear. Nid yw wedi derbyn llawnder yr Ysbryd. Mewn ffordd, mae'n cyflawni hunanladdiad drwy ddyn-ganolrwydd. Bu yn agos at Dduw, ac eto'n bell, oherwydd iddo droi Gras (sef Gras Cyffredin) mewn cyd-destun syrthiedig i ddewis colli Gras Arbennig mewn ysgolheictod nas deallir yn briodol ond drwy ailenedigaeth. Ond gall pob ymchwil finiogi deall. Eithr offeryn gorau ymchwil Feiblaidd yw cwmni Duw.

Un maes mewn Gras Cyffredin ysgolheigaidd a all gyweirio a chywiro'r safbwynt gwrth-oruwchnaturiol yw'r Gydwybod. Gall y Gydwybod herio'r ysgolhaig Beiblaidd o ba gefndir bynnag i ystyried y Goruwchnaturiol o ddifrif, ym meysydd Gras Cyffredin ac i beidio â chau'r drws; ac i fod yn onest ynghylch posibiliadau ym mhob cyfeiriad. Ffactor cynnar sy'n bresennol ac ar waith yn hanes y Beibl, fel y mae'r Greadigaeth hithau'n bresennol ac yn rhagdybio ac yn amodi pob llenyddiaeth, yw'r Gydwybod Foesol. O'r dechrau cyntaf, doniwyd pob dyn, boed yn Gristion neu beidio, â Chydwybod. Nid oes llyfr a ysgrifennir lle nad yw hynny'n gysail o bwys. Mae'n rhoi gwerthoedd, fel yr holl gelfyddydau a gwyddorau. Mae'r ymwybod o berygl – o farwolaeth, o ddrwg ac o dda, – oll yn cael eu hamodi gan yr ymwybod hwn. Mae'n rhoi pwrpas i weithred. Felly, i ddarllen y Beibl, dyma'r sticil y mae'n rhaid ei dringo. Mae'n monopoleiddio sylw'r rhyddfrydwyr yn fawr. Mae Cydwybod yr awduron, a oedd yn llawer mwy effro i'r Awdur na'u darllenwyr diweddarach, yn effro i gyfrifoldeb a her aruthrol. Mewn amgylchfyd o Foesoldeb

seciwlwr Gras Cyffredin, ni all Cristnogion uniongred fod yn llai nag effro i'r hunanfeirniadaeth a'r gonestrwydd yna. Agored yw'r Beibl i bawb.

Rhaid i bob aelod gyfrannu'i dystiolaeth a'i wasanaeth yn ôl ei ddoniau a'i ddiddordebau a'i amser a'i allu ei hun. Gall y rhain fod yn gyfyng iawn. Gwn amdanaf fy hun, mai o'r tu mewn i'r teulu ac i'm gwaith beunyddiol y byddaf yn teimlo'n fwyaf cartrefol. Yng nghwmni llenyddiaeth Gymraeg y caf innau lawn gyfle i feddwl am ein dimensiwn ysbrydol. Dyna feysydd i'r Beibl.

Maes arall a oleuir gan y Beibl yw maes llenyddiaeth yn gyffredinol. Goleuir y gwahaniaeth anodd rhwng gwerthfawrogi llenyddiaeth Gras Cyffredin/Gras Arbennig a llenyddiaeth Gras Cyffredin. Yn fynych bydd beirniaid seciwlwr yn cael cryn anhawster i ddiffinio gwerthuso fel ffactor beirniadol y gellir ei gyflwyno gan y meddwl seciwlwr heb ddatrys y rhagfarnau naturiol yn erbyn y profiad goruwchnaturiol.

Mae llenyddiaeth yn fyd sy'n awgrymus iawn mewn beirniadaeth a gais gatholigrwydd.

Un enghraifft ddiddorol o'r Ysbryd Glân ar waith mewn credinwyr ac anghredinwyr Cymraeg ac anghredinwyr fel ei gilydd yw'r cysyniad o 'Awen'. Fe weithia mewn Gras Cyffredin, ac mae'n hen gred draddodiadol ymhlith y Beirdd Cymraeg, er y dyddiau paganaidd yn ddiau. Yn ystod hanes y traddodiad Cymraeg fe goleddwyd y gred fod yna bresenoldeb Ysbryd anfaterol yn y sawl sy'n barddoni, boed yn y maes 'seciwlwr' neu grefyddol. Gellir diffinio'r 'Awen' fel hyn: cynnwrf difrif yw sy'n cymell dychymyg, deallusrwydd, a theimlad unigolyn i lunio'r gwaith rhyfedd o lenyddia. Testun gwawd yw yn fynych i rai sydd heb farddoni (chwarae teg iddynt); ac y mae beirdd difrif yn swil ynghylch sôn am y peth, yn enwedig yn y cyfnod ôl-ramantaidd. Mae'n cynnwys cynhyrriad cychwynnol, ond y mae hefyd yn bugeilio'r iaith o fewn Gras Cyffredin, hyd yn oed i ddarllenwyr seciwlwr, hyd yn oed y llu nad ydynt yn credu ei bod yn bodoli. Yr Awen, gallaf ddychmygu, sy'n canfod mewn modd mwy cain a lluniaidd na'r canfodiad cyffredin. Mae rhywfaint ohoni gan bawb. Tybir ei bod yn dod o'r tu allan ac yn priodoli'r delweddiad a'r miwsig i ryw symudiad gwrthrychol o'r tu allan i ni. Gelwir arni fel pe bai'n berson, gan y beirdd wrth geisio cymorth; a chan wyddonwyr a gweithwyr cyffredin hefyd. Hon a fyn y Gwir ar lefel Gras Cyffredin.

Ni wn a ddylid personoli'r swyddogaeth hon fel y gwnâi'r beirdd yn yr Oesoedd Canol, a allai ei thrin fel pe bai'n fod. O'm rhan i, tueddaf i'w hystyried fel swyddogaeth (yr Ysbryd Glân yn gweithio drwy Ras Cyffredin) a fawrygir yn gywir mor aml. Yn sicr, fe fu'n ddylanwad dwys ar lawer o'n beirdd ar hyd y canrifoedd, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Gweithia'r darllenydd Beiblaidd gofalus o fewn cyd-destun barddoniaeth y Beibl, nid yn unig i ddeall y Beibl yn well, ond i ddeall barddoniaeth yn gyffredinol yn well. Mae'r sefyllfa Feiblaidd yn debyg, ond ymhell o fod yn union-debyg, i'r Hen Gyfamod a ddisgrifir yn yr efengylau

synoptig. Fe'i profir yn achos anghyffredin Sachareias (Luc 1:15) yntau'n cael ei lenwi i ddatgan proffwydoliaethau. Dyma'r ffordd y byddai'r Ysbryd yn eninio rhywrai i wasanaethu fel proffwydi, offeiriaid, a brenhinoedd. Buont yn paratoi neges ar gyfer bedydd Iesu ar ddechrau ei weinidogaeth: fod Teyrnas Dduw wedi cyrraedd.

Nid yw'r dyn naturiol yn ceisio Duw yn naturiol. Diolch a wnâi'r beirdd i'r Ysbryd am weithio ynddynt o gwbl. Eto, tybient fod rhywbeth wedi cyffwrdd â hwy'n unigol, a bod y peth hwnnw o'r tu allan. Pan drô'i'n ddiriaethol wir fel y gwnâi yn y Beibl, yna canfyddwn sut yr ymsefydlodd y ffydd ddi-wall. Yn yr un modd, yn y bôn, nid dyn sy'n ceisio Duw yn y farddoniaeth heb fod Duw yn gyntaf wedi'i geisio Ef. Awydd y beirdd oedd dweud y gwir a moli Duw a'i gread, a gwyddent fod hynny'n annaturiol. Mae'r Ysbryd Glân wedi ysgrifennu Beibl sydd i raddau helaeth yn farddonol. Ac os bydd darlennydd yn agor ei galon i fwynhau'r farddoniaeth hon, fe ddaw i amgyffred rhyfeddod y Beibl yn barotach, oherwydd (er mai symleiddiol yw'r syniad o'r hardd ac estheteg yn gyffredinol i lawer) ysbrydol yw ac mae'n mynd yn llawer pellach na chydbwysedd corfforol.

Mae'n debyg bod y beirdd yng Nghymru gynt, yn ôl eu swydd, ie, y beirdd proffesiynol cyffredin, yn synied am ennill eu tâl drwy fath o ymadroddi cadarnhaol. Roeddent wedi gweithio'n galed. Ond nid oedd hynny'n ddigon. Rhannwyd ynddynt awch am ragor na hynny. Chwenychent Ras tragwyddol a Mawl. Chwenychent adeiladwaith o Fawl cynhaliol a chadarnhaol i'r gymdeithas. Chwenychent ddelfryd o gondemnio'r drwg. Ymhlith y doniau moesol a dderbyniai Cristnogion cynnar yn Jerwsalem ac Effesus, fe gaed doniau llefaru arbennig a deall tafodau estron: sylwn y fath le a roddwyd i dafod gan yr Ysbryd Glân. Sefydlwyd yr Awen dda hithau yng Nghymru yn erbyn yr Awen ddrwg. Ac un o ddoniau'r Greadigaeth oedd gwneud pawb yn harddwch-awyddus.

Ymestyn y mae Gras Cyffredin mewn hiraeth am fod yn Ras Arbennig hefyd.

A'r un modd gyda'r Beibl, gwasgerir y Gair anffaeledig a'r geiriau ymhlith yr Efrau. A gellir mynd ymhellach, diolch i Ras Cyffredin, gall anghredinwyr hwythau ymhyfrydu yn y geiriau hynny ymhellach byth. Gall moesau ac ymarweddiad daionus anghredinwyr ffynnu o dan fendith Gras Cyffredin geiriau'r Beibl ar lefel naturiol. Gellir esbonio sut y mae hyn yn bod drwy'r union Ras Cyffredin a oleuir gan y Ysgrythur. Ond am gredinwyr, bywhau a wna'r Gair oherwydd Gras Arbennig. Cydiodd y Cyffredin yn yr Arbennig, a thyfodd y Beibl felly yn y tân; ac felly y'i profir heddiw.

MAB

Credaf mai'r ddwy wyrth fwyaf yn hanes y byd – gan gynnwys gwyrth anferth y Greadigaeth ei hun, a'r Beibl, a'r Atgyfodiad, – oedd yr Ymgawdoliad a'r Farwolaeth Iawnol. Golygodd y ddwy wyrth hyn ymostyngiad annirnadwy gan Dduw, a dioddefaint ganddo mewn sarhad ymarferol nad oes gennym amgyffred amdano, a gloes negyddol iddo mor eithafol bersonol, yn ddrylliad o fath i Un o'r Drindod na all dynolryw wrth gwrs byth ei ddeall. Ac eto, dathlu mewn llawenydd a wnawn o hyd wrth goffâu'r Ymgawdoliad. Cawn bob math o rialtwch, oherwydd ein bod – yn ôl ein harfer – yn dal ein golwg ar y lles i ddyn a'r anrhydedd i ddyn wrth dderbyn rhywbeth mor brydferth â baban perffaith i'r byd, drwy'r Ymwacâd a brofodd Duw yn y Gair. Ond yr oedd yr ail wyrth yn coffâu yn fwy uniongyrchol ryddhad mewn bywyd newydd tragwyddol a marwolaeth marwolaeth. Ni chafwyd mwy o anrhydedd na'r llawenydd rhyfedd oherwydd y fuddugoliaeth dros Satan a'r bedd. I hyn yr ymgawdolodd.

Daeth y Mab i'r byd i wneud dau brif beth. Yn gyntaf, yr oedd yn gynrychiolydd ar ran y Duwdod. Ac felly daeth i ddatguddio ewyllys Duw, a pherson Duw – ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, ei gariad. **Hynny yw, fe ddaeth y Mab i'r byd i gynrychioli ac i ogoneddu'r Tad.**

Ac yn ail, daeth i'r byd oherwydd Ei dosturi at ddyn, er mwyn glanhau'r lle. Oherwydd Ei gariad dwfn at ddyn, daeth i aduno dyn â Duw, a rhoi i ddyn iachâd. Daeth felly yn dyst i faddeuant Duw: yr unig Un o'r Drindod a anfonwyd, allan o dragwyddoldeb, i mewn i faw o fyd, ac i laca amser a lle. Y Mab oedd yr unig Un o'r Tri a brofodd farwolaeth. Ac yn wir, fe'i 'hanfonwyd' yn unswydd i brofi'r bedd. Fe'i hanfonwyd hefyd i fod yn werinwr o dyst. Cymerodd arno'i hun dlodi gwas, i'w roi ei hun dros eraill, yn blentyn di-nod, yn berson perffaith, ac yn Iawn dros ein pechodau. Yn hyn eto, gogoneddu'r Tad yr oedd.

Ef yw arwr y Beibl, y prif wrthrych. Ei stori ef, ar yr olwg gywir, yw'r Beibl i gyd. Ond nid oes sôn amdano Ef, air am air, fel Awdur y Beibl, er mai Ef yw'r testun. Mae'r holl dystion yr ydym yn sôn amdanynt yn y gyfrol, gan gynnwys yn bennaf y Beibl a'r Ysbryd Glân, yn tystiolaethu amdano Ef. Ond yr oedd ef ei hun yn credu mai tystiolaethu oedd un o'r pennaf o'i ddyletswyddau yntau hefyd. A byddwn yn ceisio chwilio ym mha ffordd yr oedd Iesu ei hun yn dyst ffyddlon.

Mae'r gyfrol bresennol yn rhoi pwyslais canolog ar Ysbryd Glân Duw. Hwnnw, fe gredwn, yw Awdur a Dehonglydd perffaith y Beibl. A chredir ymhellach mai nodwedd bennaf yr Ysbryd yn ystod prosiect y Greadigaeth barhaol yw 'Tystiolaethu'. Yn yr Adran seithblyg hon yn awr, fe geisir dadlau fod yna saith brif dystiolaeth am Dduw a chan Dduw heddiw. Er mai'r Beibl byw ei hun yw'r llawnaf a'r manylaf o'r saith hyn i ni, fe gyfrifid bod yna dair tystiolaeth arall eisoes yn ei

ragflaenu'n gronolegol yn y datguddiad i ddyn. Yr oedd y rheini yn barod ar gael ar y ddaear yn gynhenid cyn bod dyn wedi cael y Beibl.

Yn yr ymdriniaeth â'r Greadigaeth, soniwyd eisoes am bresenoldeb ac arwyddocâd yr Ysbryd Glân yn Genesis 1. Pan drown, sut bynnag, at yr adroddiad o'r Creu yn y Testament Newydd, cofiwn am eiriau cyferbyniol pwysig Ioan 1: *'Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef, hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef... A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, gogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.'*

Mae'n amlwg heb ddyfynnu rhagor fod gan yr Arglwydd Iesu Grist ran flaenllaw yn y Creu, fel ail Berson y Drindod ei fod wedi dod i'r byd i ddatguddio Duw ac i dystio amdano.

Yn wir, mae llawer yn dal i ddisgwyl amdano cyn ei ddod am y tro cyntaf, neu am y tro olaf, ac nid yn unig yn llwythau'r Hen Israel. Clywsom efallai o bryd i'w gilydd anghredadun Ewropeaidd cyfoes yn ebychu: 'Pe bai'r goruwchnaturiol yn ymestyn i mewn i'n byd ni, ac yn ein helpu ni i gredu ynddo fel yna, fe ddeuem i ben wedyn â derbyn eich ffeithiau hanesyddol chi. O na bai Duw yn dod i'r golwg, ac yn ymddangos mewn amser a lle: fe gredem chwap.'

'Meddai'r angel wrthi, "Paid ag ofni, Mair...Bydd hwn yn fawr, a Mab y Goruchaf y gelwir ef: rhydd yr Arglwydd Dduw iddo orsedd Dafydd ei dad, ac fe deyrnasa ar dŷ Jacob am byth, ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd". (Luc 1:30,32.)

Yn rhannol yn unig y cawn heddiw 'weld' Duw tra bôm ar y ddaear, a hynny drwy gymorth yr Ysbryd Glân. Ond edrychwn drwy wydrau tywyll ar Dduw. Pan welwn Ef yn fuan, wyneb yn wyneb, wedi inni farw, yr hyn a gawn fydd Duw yn tystiolaethu amdano'i hun yn gyflawn uniongyrchol. Ond y mae'n wiw cofio i'r Mab eisoes gyd-dystiolaethu gyda'r Ysbryd amdano'i hun tra oedd yma am gyfnod ar ddelw dyn ar y ddaear. Dyma'n sicr y dystiolaeth lawnaf sydd gennym ohono: *'Myfi a'r Tad, un ydym'* (Ioan 10:30). Ioan biau amllder y gyffes o ddwyfoldeb Iesu. Go brin bod mwy o sail yn unman na'r frawddeg honno fod Iesu yn cyfeirio ato'i hun fel Duw (cf. 10:38; 14:9-11). *'Yn awr, O Dad, gogonedda di fyfi ger dy fron dy hun, â'r gogoniant oedd i mi ger dy fron cyn bod y byd'* (Ioan 17:5). Dyma dystiolaeth glir Crist amdano'i hun. Ond sylwari pobl eraill ar yr un safle. *'Atebodd yr Iddewon ef, [i Beilat] "Y mae gennym ni Gyfraith, ac yn ôl y Gyfraith honno fe ddylai farw, oherwydd fe'i gwnaeth ei hun yn Fab Duw."* (Ioan 19:7).

Felly tra oedd ar y ddaear, yn Ei eiriau ac yn Ei weithredoedd, pryd bynnag y'i clywyd Ef yn siarad, clywed Duw a wnaethpwyd. Pan weithredai Ef, canfod tosturi a thrugaredd, cariad a glendid Duw a wneid: *'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni (ac ni a welsom ei*

ogoniant ef, gogoniant megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad) yn llawn gras a gwirionedd' (Ioan 1:14). *'Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd ym mynwes y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, yn tystiolaethu amdanaf i ... ped adnabuasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i hefyd'* (Ioan 8:18-19).

Un o'r gweddau mwyaf cyrhaeddgar ar y dystiolaeth gan Grist amdano'i hun yw'r gyfres 'Myfi yw...': sef bara'r bywyd, goleuni'r byd, y bugail da, yr atgyfodiad a'r bywyd, drws y defaid, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, a'r winwydden (Ioan 6:35; 8:12; 10:9; 10:11; 11: 25-26; 14:6; 15:5).

Ond hyd yn oed pan na siaradai amdano'i hun fel yna, yr oedd yn tystiolaethu amdano'i hun o raid. Yr oedd ei eiriau am bethau eraill a'i weithredoedd arferol ym mhobman yn datguddio'i natur Ef, a natur y Duwdod oll, a'i Deyrnas. 'Arwyddion' oedd y gwyrthiau, tystion glân amdano Ef.

Yng nghyfres ryfeddol 'Myfi yw', yr un sydd yn crynhoi orau, i'm bryd i, y rheswm dros yr ymgawdoliad a'r croeshoeliad yw *'Myfi yw'r Atgyfodiad a'r bywyd: yr hwn sydd yn credu ynof fi* (hynny yw – y 'myfi' llawnaf yw), er iddo farw, *a fydd byw.*' Yr oedd yno ddwy natur, y Duw-ddyn yn gyd-bresennol, mewn un person, bob amser. Hynny yw, y pryd hynny yn yr argyfwng hwnnw yn hanes y byd fel yn y diwedd, caed y gyd-wead o'r ddwy nodwedd hyn, hanfod Duw byth; ac yna'r dyn ohono yn cynnig i ni y bywyd na wyddom ond ychydig amdano ar y ddaear hon, ac oherwydd ei 'farw' caiff Ei bobl Fywyd y nef, go iawn rhad, bywyd ar ei orau, heb bresenoldeb pechod, heb wae na dioddefaint na marwolaeth eto. Yr oedd rhaid iddo gyfeirio ato'i hun, oherwydd hynny oedd y neges. Drwy hunan-gyffes, drwy naratif a gwrthdaro dramatig, drwy sylwadaeth gan eraill, a thrwy ddeinameg perswâd yr Ysbryd Glân y cyflwynwyd y Person dynol holl-athrylithgar hwn i undod y Beibl.

Nid oes neb uwch y darllenir amdano yn y Beibl.

Y mae pob darllen yn y bôn yn bod nid er mwyn darllen llenyddol, ond er mwyn yr hyn y darllenir amdano. Nid Beibl-addoliad yw'r ffydd Gristnogol fel y mynnai'r rhamantwyr. Bydd y darlennydd normal a llwyddiannus yn cael ei golli yn y llyfr o bosibl, ond y mae'r llyfr ei hun yn diflannu yn y darlleniad hefyd. Hyn yw gwrando.

Un o'r prif ddadleuon sydd gennyf yn y gyfrol bresennol yw bod y Cristion wrth ddarllen y Beibl yn dod yn fwyfwy ymwybodol o undod yr Hen Destament â'r Testament Newydd yn y Mab. Yr Un sy'n gyfrifol am sicrwydd ac adeiladwaith a grym y fath Undod yn brofedig yw'r Awdur, yr Ysbryd Glân. Ac Un ffactor, y pennaf yn ddiau o fewn themateg yr Undod hwnnw a gyflwyna'r Ysbryd, yw deuoliaeth y Beibl yn Undod y Mab. Ef sy'n gwisgo'r gŵn diwniâd yn y cyswllt rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, rhwng y Corff a'r Ysbryd, rhwng y Nef a'r Ddaear, rhwng Duw a dyn. Mae Ef yn tystiolaethu mor gryf amdano'i hun oherwydd bod Ffydd dyn mor hanfodol.

Un o brif swyddogaethau'r Ysbryd Glân, fel y gwelsom, yw tystiolaethu. Ac y mae'n

tystiolaethu ar gyfer pawb i fodolaeth Duw yn gyntaf – drwy'r synnwyr o Dduw (*sensus divinitatis*), drwy'r gydwybod, a thrwy'r Greadigaeth. Ond yn arwyddocaol i'n dyfodol, y mae'n tystiolaethu'n wybodlon ac yn effeithlon drwy'r Ysgrhythrau a thrwy'r Eglwys – i berthynas ddwyfol Mab mewn cymuned nefol a daearol (sef i bobl Dduw, y rhai sydd wedi'u haileni a'u cyfiawnhau fel y'u disgrifir hwy yn y Beibl). Dyna'r llyfr union eto; ond fe all yr Ysbryd hwn ar dro dystiolaethu'n uniongyrchol ei hun (megis yn y Greadigaeth) ar wahân i'r Ysgrhythur ac i'r Eglwys; ond peth eithriadol yw hynny.

Cofiw'n bob amser mai gwrthod yw tuedd hanfodol y darllenydd naturiol a'i gymdeithas. Ond cofiw'n hefyd am helaethrwydd sylwedd y Beibl fel offeryn grymus i'r Ysbryd Glân; y Beibl ar ei hyd sy'n undod yng Nghrist ac yn datguddio fel y gall drechu'r cyndynrwydd caletaf.

Mae yna gynllun neu strwythur i'r Arfaeth. Ac nid yw'n annhebyg i strwythur gosodiad am Fywyd. Canola ar Berson. Y Mab felly biau'r 'Enw' yn y 'Frawddeg' hon o ddatganiad o Air. Ef yw prif gymeriad y Ddau Destament yn ôl y dehongliad Cristnogol, ac yn ôl ewyllys yr Ysbryd Glân. Ef yw'r Crëwr a'r Iachawdwr. Ef yw'r Meseia, yr Un y disgwyli'd amdano, safon y Gyfraith, nod pob proffwydoliaeth. Yn y fan yna y mae'r gosodiad am y Gwirionedd yn dechrau.

Ond y mae yna 'Ferf' yn y dystiolaeth hefyd. Megis *Y Traethiad* i'r *Goddrych*. Mae yna brif ddigwyddiad sy'n unol ganolog ac yn weithredol gyfunol yn yr Enw mewn amser a lle, a'r tu allan i amser a lle, yn y cynllun sydd i'r gyfrol sanctaidd. A'r prif wrthrych eto yw'r un sy'n ffurfio'r prif ddigwyddiad hwnnw. Y Gweithredu berfol yn y Gosodiad. Bod yw sy'n gwneud.

Duw gosodiadau yw, nid Duw cwestiynau'n unig na Duw damcaniaethau na Duw Ôl-foderniaethau amhenderfynedig. Hynny yw, nid yw'n ein gadael ni'n amddifad mewn cwestiynau diateb.

Ni all neb arall ond y Tad a'r Ysbryd Glân (cyfredol â'r Mab) gyflwyno prif themâu cadarnhaol a negyddol y Beibl ar ei hyd yn y fath fodd yn anffaeledig i bobl. Heblaw'r uniongyrchedd anffaeledig hwn er hynny, a heblaw'r Ymgawdoliad gwrthrychol a hwnnw'n siarad â ni, ceir arwyddocâd arall sy'n peri bod Person Crist a ddatguddir gan yr Ysbryd Glân, yn dystiolaeth amgen, o'i gymharu â'r tri math o dystiolaeth a gafwyd wrth grybwyll 'Synnwyr o Dduw, Cydwybod, a'r Greadigaeth'. Mae'r math o dystiolaeth am Dduw a roddir gan y Mab yn fwy personol ac yn fwy uniongred o lawer na'r dystiolaeth ddigon argyhoeddiadol ar lefel Natur. Dyna unigrywiaeth achubol tystiolaeth Ail Berson y Drindod. Ymgawdolodd Duw a chanddo bwrpas dwyfol yn benodol uwchlaw pob pwrpas arall. Mae'n wir iddo, wrth ymgawdoli, ddatguddio Duw ei hun yn fwy personol nag o'r blaen. Datgelodd felly ei natur bersonol-dragwyddol, a'i ddaioni a'i gariad perffaith, mewn modd llawnach nag a fu erioed. Ond nid i hynny y daeth, nid i fod yn dystiolaeth yn unig, er i hynny ddigwydd. Daeth Ef yn benodol hardd i achub pechaduriaid yn wrthrychol, i dalu lawn drostynt, i newid pobl am byth, i ddeffro ysbrydoedd. Dyfeisiodd ffordd

ddiriaethol i gadw'r rhai a'i gwrthododd, drwy iddo'n Dduw difrycheulyd sefyll yn eu lle, i'w cynrychioli hwy, i gymryd arno'i hun eu beiau a'u cost. Hynny yw, daeth yn Iachawdwr perffaith. Tystiolaeth weithredol fu. A'r goleuni llawn oedd Ef, ac yw.

Yr oedd, ac y mae, yn anffaeledig. Y Person mwyaf mawr yw yn cyflawni ei weithred mewn amser. Dyma'r strwythur i'r Gair. Yn llenyddiaeth y Beibl, hwn yw'r uchafbwynt a'r trobwynt. A'r canol. A dyma sy'n rhoi pwysigrwydd i'w dystiolaeth arbennig Ef mewn Iachawdwriaeth. Nid oes Enw arall dan y nef drwy'r hwn y gellir bod yn gadwedig. Dyma ffordd Duw o roi cadwedigaeth i ddyn colledig. Dyma'r unig dâl dros ddyn sy'n ddigonol. Gallai pregethwyr rhyddfrydol Cymru gynt chwarae o gwmpas, osgoi dweud y gwir, ffidlan y llyfrau, oherwydd embaras synied am y Mab yn Oruwchnaturiol. Ond yn y diwedd, dyma her Cristnogaeth hanesyddol, glasurol, ysgrythurol, uniongred fyw: glynu wrth Berson a'i Weithred sy'n ynganu Cristnogaeth y Beibl. Dyma Gristnogaeth ddiidoli onest – eciwmeniaeth yr oesoedd ar eu hyd. Ffordd unigryw yw a ddywedwyd gan Gyngor Tri yn Un ar gyfer pob oes. Y gwaed a redodd ar y Groes. A'r Ysbryd Glân ei hun a ddywedodd hyn yn ei Air mewn dimensiwn sy'n rhy ddieithr i iaith y llawr.

Dyma'r Efengyl seml hefyd. Dyma pam y mae'n hanfodol inni anfon cenhadon dros y môr o hyd. A diolchir yno am wendid cenhadaeth y rhyddfrydwyr. Yn y Mab anghymharol hwn sy'n marw (ac yn atgyfodi) y mae cyflawnder anffaeledig y newyddion da. Yr iachawdwriaeth ynghyd â'r ymgnawdoliad yw tystiolaeth osodiadol yr Arglwydd Iesu Grist i Dduw'r Tad ac i feddwl y Drindod. Tystiolaeth yw hon am Dduw yn 'bodoli' mae'n wir, ond am Dduw sydd hefyd 'ar waith'. Cynrychioli perthynas gwaith Duw y mae'r Ail Berson, ac nid yn unig Ei fodolaeth.

Dyma Ras arbennig, Gras Achubol anfonedig, yn neges i Gristnogion ailanedig, ac i bawb a'i cais o ddifri. Ac ni sonia'r Beibl am *unrhyw* fath o Gristnogion eraill. Uniondeb oedd y rheidrwydd.

Hunanwireddu o raid yw prif dystiolaeth Duw. Felly yn nhystiolaeth Crist. Tipyn o din-droi mewnlol fu gwaith y rhai a geisiai seilio'u 'prawf' o *fodolaeth* (o *unrhyw fath*) ar y synhwyrâu, neu ar reswm. Ni bu Ffiseg Bodolaeth fawr o dro cyn ymwarded â'r culni yna. A'r un modd, bu llawer o'r profion eglwysig am Dduw gynt mor annigonol â'r profion o fodolaeth pethau. Darganfod a wnawn ni, y datguddiad ysbrydol. Mae'r weledigaeth o'n blaen yn hunanwireddol, yno, heb hel prawf arall. Ac felly yno, mae Duw yn bywhau'r ysbryd a'i gwêl drwy lygaid ysbrydol.

Ni bydd y Beibl yn dod gerbron er mwyn gwneud Undod o gasgliadau ar sail rheswm a synhwyrâu'n bennaf, er bod y naill a'r llall o'r cyneddfau hynny ar waith yn hapus ddiwyd. Ond datguddio Duw a wneir yn blwmp real: mae'n llefaru. Ac os yw'r Ysbryd yn caniatáu, fe'i clywn. Mae'n ymestyn hyd ein serchiadau. Ac os caniatâ'r Ysbryd hynny ymhellach, fe'n deffroir ganddynt.

Gwelsom fel yr hoffa rhywrai honni, pe baen nhw'n gweld Duw, pe bai E'n ymddangos yn blaen am eiliad ger eu bron yn y cnawd, yna fe greden nhw. Pe bai e'n ffitio'u hamodau nhw, ni châi

neb drafferth i lyncu unrhyw beth, gellir tybied.

Wel! Mi wnaeth. Ac nis gwnaethant.

Ioan 14:9, *'Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad.'* Ioan 10:30, *'fel y gwybyddwch ac y credoch fod y Tad yn of fi, a minnau ynddo yntau.'*

Dyma damaid o'r llythyr at yr Hebreaid (1:3): *'yr hwn ac efe yn ddisgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd.'*

Ac Ioan 1:1,14: *'Yn y dechreuad yr oedd y Gair; a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair... A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr Unigedig oddi wraig y Tad) yn llawn gras a gwirionedd.'*

1 Tim. 3:16: *'ac yn ddi-ddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angylion, a bregethwyd i'r Cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymerwyd i fyny mewn gogoniant.'*

Phil. 2:6-9: *'Yr hwn ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais bod yn ogyfuwch â Duw, eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion, a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau y groes. Oherwydd paham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw.'*

Rhuf. 9:5: *'Eiddo y rhai yw y tadau; ac o'r rhai yr hanoedd Crist yn ôl y cnawd, yr hwn sydd uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd.'*

Col. 2:9: *'Oherwydd ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorfforol.'*

Heb. 1:8: *'Ond am y Mab: Y mae dy orsedd di, O Dduw, yn dragwyddol.'*

Ioan 20:28 (cyffes Thomas): *'Fy Arglwydd a'm Duw.'*

Dyna a ddysg yr Iesu inni drwy'r Ysbryd Glân. Dyna hunanwireddu corfforol, gweledig, ysbrydol, anweledig; yn Fab, o ran gwedd a swyddogaeth sy'n wahanol i'r Tad a'r Ysbryd Glân, ac eto'n gwbl Un. A thrwy'r Ysbryd Glân y caiff rhai wrando a chlywed y geiriau hyn oll yn eu calonnau. Cafwyd gan amryw sectau o bryd i'w gilydd, a rhai unigolion anffodus o hyd, gryn anhawster i amgyffred hyn ac awydd grymus i beidio â'i amgyffred ef yn fwy na dyn arferol. Defnyddient eu 'rheswm' i wrthddweud yr athrawiaeth. Cystwyent yr Ysgrythurau yn ddyfal, gwingent, hiraethent am ddihangfa. Ond rhythai'r honiad hwn arnynt yn drugarog syml.

Dyma hunan dystiolaeth go arbennig a her i chwilio o ddifri. Hunan-dystiolaeth gan yr unig awdurdod hollol wir am y Gwir. Tybiaf, yn gam neu'n gymwys, fod y tair dystiolaeth gyntaf i Dduw, a drafodwyd, yn dod o hyd o fyd Natur: Ymwybod (sef y Synnwyr o Dduw), y Gydwybod, a'r Greadigaeth fel petaent yn agored i Ras Cyffredin. Ond, bu i'r ffaith o Dduw droi'n gred, i'r llygad

droi'n galon, a symudasom bellach yn y Mab i faes Gras Arbennig hefyd. Mae'n amlwg na ellir ymateb i Dduwdod Iesu Grist yn ystyrion heb bresenoldeb Gras achubol. Cafodd Ef ei anfon i fod yn dystiolaeth uniongyrchol berffaith i Dduw. Gwyddom bellach amdano drwy Air ysgrifenedig. Yn awr, wele'r Dyn. Daeth Duw ei hun, a llefaru wrth ein calonnau.

Bellach, yn y Mab y mae a wnelom â ffenomen mewn ffurf arall: Gras Arbennig, Achubol, Didoleiddiol, Personol. Dyma'n anad dim yr hyn sy'n gwneud Cristnogaeth yn Gristnogaeth. Pan ddechreuwyd chwarae gyda'r gred hon yng Nghymru, dechreuodd y Colegau Diwinyddol sefydliadol wegian tuag at Seciwlariaeth. Cynhyrchwyd pregethwyr llwyd heb fod o ddfiri calon a heb gredu'n angerddol ufudd; a chynulleidfaoedd llipa arferiadol o'r herwydd na chodent feibion i'r weinidogaeth i fynd i'r Colegau gwan hynny.

Ond gall Duw ar ddelw dyn ddod yn syndod hyd yn oed i'r cyfryw. Mae yna wedd ar gymeriad Duw sy'n symudiad cyson allan o dragwyddoldeb i amser, o'r anweledig i'r gweledig. Ac o safbwynt Gras Cyffredin, cyffelyb yw hyd yn oed y ffordd y mae'r gwyddonydd yn sylwi ar y modd y mae'r deddfau anweledig a'r ffurfiau egwyddorol fel petaent yn ymsymud fel yna. A'r celfyddydwr sy'n cael gweledigaeth o fywyd yn treiddio oddi wrth y weledigaeth honno tuag at ddelweddaeth wrthrychol. Ond nid digonol yw nes y ceisir ac y profir maddeuant.

Defnyddir delweddau daearol am Frenin Tragwyddoldeb, y naturiol am y Goruwchnaturiol. Ac yn gywir felly caed rheidrwydd o Dduw ymgnawdoledig. Ef, nid siarad amdano Ef yn unig. Yn anochel felly. Haniaethau yw delwau llafar heb y Gwrthrych a gynrychiolant. Pan drafodwn Dri Pherson y Drindod Sanctaidd, y Mab yw'r Gwrthrych diriaethol sy'n sylwedd i'r cysgodion i gyd. Caed dysgeidiaeth yn yr Hen Destament, mewn cysgodau a phroffwydoliaethau o lawer math. Ond dymunai'r arweinwyr doethaf groesawu Meseia mewn ffurf gorfforol. Bydd Beirniaid Llennyddol yn mynych gynghori llenorion i fod yn ddiriaethol ac i wrthrychu'u pynciau o ran techneg wrth lenyddu. Yr oedd yna sail nid annhebyg ym mhatrwm y Cread, ond wrth gwrs mewn dull llawer mwy dwys. Diriaethu a wnaeth y Drindod hefyd mewn Mab ac mewn Eglwys.

Rhaid, wrth gwrs, fod y Greadigaeth ei hun hefyd, yn ei chywreindeb anfesurrol a manylder ei threfn yn rhyfeddod mewn rhagluniaeth o'r radd flaenaf yn y lle cyntaf. Ni allai ond Crëwr hollalluog dragwyddol fod wedi llunio'r fath wyrth. Roedd yr Atgyfodiad corfforol wedyn, a threchu gelyn mor nerthol ag angau, yn rhyfeddod goraruthr arall. Ond ymgnawdolodd y Duwdod rhwng y ddau ddigwyddiad yna, ynghyd â'r Croeshoeliad, yn Dduw perffaith goruwchnaturiol wedi cymryd arno'i hun ein pechod, yr Hollalluog wedi dod megis yn analluog, yr Anfeidrol llwyr yn dod yn feidrol a lleol mewn amser a lle oherwydd ei gariad, i roi'i fywyd, dyna rhyfeddod aruthr sy'n trechu'n hamgyffred bach.

Priodol cofio ei fod eisoes yn anfeidrol-bersonol erioed, ac nad oes a wnelom â'r amheronol

o gwbl. Mewn gwirionedd, o fewn amgyffrediad y deïstiaid 'datblygedig' sy'n addoli'r amheronol, bu'r Ymgnewdoliad yn ymddangos yn ormod i'w amgyffred, ac yn gwbl dramgwyddus anghydryw. Eithr estyniad yn ei natur Ef yw bod yr anfeidrol-beronol yn ymddangos ger ein bron yn Dduw-ddyn, mewn corff. Dywed hyn lawer wrthym am Fodolaeth i gyd. Estyniad hefyd ydoedd o'i waith creadigol, pryd yr argraffodd Duw ei gymeriad ar yr hyn a oedd ynghynt yn anweledig; yn fynegiant gweledig o'i ddwyfoldeb Ef mewn gofod ac amser. Dyma'r cyflawnder o fewn preseb ac ar groes, wedi dod i lawr yn dystiolaeth. Ond am y tloidi hwnnw, yr ymostwng gan Greawdwr y byd, yr ymwacáu, y plygu, dod yn was, o dragwyddoldeb i stabl, gwaedu, trengi, dyma yn ddiâu ryfeddod Cariad hardd na allwn o'i herwydd ond Ei addoli o'r galon a'i garu'n angerddol byth. Yma canfyddwn y Gwirionedd ei hun, bob rhan ohono, mewn Person cyflawn. Yr oedd Ann wedi'i brofi i'r dim pan ganodd:

*Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
Rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,
Gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth,
A Rheolwr popeth sydd,
Yn y preseb mewn cadachau,
A heb le i roi'i ben i lawr,
Eto disglair lu'r gogoniant
Yn ei addoli'n Arglwydd mawr.*

Dewisodd Duw ddiriaethu'r dystiolaeth fawr hon drwy Feibl syml a chymhleth am fod y Greadigaeth a Rhagluniaeth yn syml ac yn gymhleth. Hawdd ei anghredu. Ond, ar y llaw arall, nid anodd ei gredu yr un pryd. Er mwyn mynd drwy'r porth hwnnw, rhaid defnyddio allwedd Ffydd fechan. Math o ildio ddarllen, ufudd ddarllen, ond deallus ddarllen hefyd (yn cydio) yw'r allwedd yma. Duw yn dod ar ddelw dyn, a dyn a wnaethpwyd ar ddelw Duw, dyn a gollwyd, yn cael ei adfer gan Dduw a gollwyd gan gynifer o'i greedigion. Yna, mae'n Ffydd fawr.

Yr oedd hyd yn oed ei elynion wedi sylweddoli'r union beth oedd tystiolaeth yr Iesu amdano'i hun: '*Parodd hyn i'r Iddewon geisio'n fwy byth ei ladd ef, oherwydd nid yn unig yr oedd yn torri'r Saboth, ond yr oedd hefyd yn galw Duw yn dad iddo ef ei hun, ac yn ei wneud ei hun felly yn gydradd â Duw.*' (Ioan 5:18)

A thystiolaethu a wnâi Luc yntau am y '*weinidogaeth a gefais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu i Efengyl gras Duw*' (Act. 20:24).

Tystiai Paul yn anad neb wrth gwrs i'r Philipiaid, (Phil. 2:6-9), '*Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio.*' a.y.b.. Dyma ef yn groyw yn ei lythyr cyntaf at Timotheus: '*mawr yw dirgelwch ein crefydd: Ei amlygu ef mewn cnawd, ei gyfiawnhau yn yr*

ysbryd, ei weld gan angylion, ei bregethu i'r Cenhedloedd, ei gredu drwy'r byd, ei ddyrchafu mewn gogoniant' (1 Tim. 3:16).

Mae'r Epistol at yr Hebraid, 1:2-5,8, yn gosod Iesu Grist, ein Duw, yn y cyd-destun o addoliad priodol, *'yn etifedd pob peth, a'r un y gwnaeth y bydysawd drwyddo. Ef yw disgleirdeb gogoniant Duw, ac y mae stamp ei sylwedd ef arno; ac y mae'n cynnal pob peth â'i air nerthol. Ar ôl iddo gyflawni puredigaeth pechodau, eisteddodd ar ddeheulaw'r Mawrhydi yn yr uchelder... Oherwydd wrth bwy o'r angylion y dywedodd Duw erioed:*

"Fy Mab wyt ti...

Y mae dy orsedd di, O Dduw, yn dragwyddol."'

Tystiolaethu a wnâi'r Mab i bresenoldeb y Duwdod ymhlith dynion colledig.

Hunanwireddu Gair Duw yw rheidrwydd braint anochel Duw mewn tystiolaeth o'r fath, ac roedd yn her ofnadwy i'r dynoli cyfyngedig llwyr a gyflwynwyd gan weinidogion y dirywiad.

Diddorol yw'r ffordd y mae Ioan yn egluro perthynas fewnol gydlynol y Drindod. Mewn gwirionedd, y mae ef yn defnyddio egwyddor y buwyd yn ymdrin â hi droeon wrth astudio egwyddorion celfyddyd, sef gwahuniaeth (gwahaniaethu + uno). Dyma egwyddor sy'n treiddio drwy adeiladwaith deall y byd, drwy gelfyddyd benbaladr, a thrwy wyddoniaeth a bywyd fel ei gilydd, sef yr Amryw yn yr Un. Sonia Ioan 1:1-5 am yr uniaeth i ddechrau. Ac yna, noda fod y Mab yn wahanol i'r Tad: Ioan 1:6-13. Ac eto, Un ydynt, Ioan 1:14. Dyma ddirgelwch newydd i'r Iddewon duwiol amddifad. Dirgelwch Cristnogol unplyg, a dderbyniasom drwy'r Iddewon, yw sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth o'r Duwdod ei hun. A chyflwynir inni hefyd ddelwedd y Fabolaeth, gyda'r ddwy natur mewn un Person: Duw yn Un, Duw yn Dri Pherson (neu dair gwedd). Y Goruwchnaturiol yn y naturiol. Y gwahaniaeth ond yr undod.

Drwy'r Mab hwn yn anad unlle y mae'n hawdd bellach gweld Duw'r Tad ei hun. Gellir dibynnu ar *Enw'r* bod yna yn Oruwch Naturiol. Derbynnir cymorth yr Ysbryd.

O! Enw annwyl iawn,

Anwylaf un yn bod;

Ni chlywodd engyl nef

Gyffelyb iddo 'rioed;

Rhof arno 'mhwys, doed dydd, doed nos,

Fe'm deil i'r lan dan bob rhyw groes.

Ni allwn ddisgwyl *gwerthfawrogi* cân o'r fath yn iawn heb *ddeall* cryn dipyn ohoni. Yn y pennill hwn, dirgelwch llwyr ar yr olwg gyntaf i lygad estron yw'r ystyr. Wedi cael gwybod mai canu mawl Cristnogol yw, gellir casglu mai enw Iesu yn ôl pob tebyg yw'r 'Enw' yn y fan hon. Ond i anghredadun o hyd, y mae priodoli'r fath rym cynhwysol a chlymiadau i unrhyw un yn dal yn

ddirgelwch llwyr. Os trown at Gristion wedi cael esboniad Duw, gall hwnnw ddweud wrthym ei fod yn gwybod yn llawn mai enw *ystyrol* Mab Duw, yr enw goruwch pob enw yw hwn. Sylweddola o ran datguddiad fod y goruwchnaturiol hwnnw wedi dod i'r byd yn Waredwr yn unswydd oherwydd ein caru ni, oherwydd ein bod yn marw o lygredd, oherwydd ein bod yn gynhenid yn ddieithriaid 'coll' i Dduw a heb berthyn i'w deulu tragwyddol. Dyn perffaith oedd Iesu, am mai Duw wedi ymgawdoli oedd ac yw. Ni ddywedodd ond y gwirionedd erioed. Yr oedd yn bersonoliaeth hardd a gostyngedig, ac eto'n medru gwneud popeth ond pechu. Chwenychai ein hadnabod bob un yn fyw ac yn agos. A dymunai roi popeth inni. A nyni eto ar wahân i'w Dduwdod Ef.

Mae'n bosibl Ei adnabod Ef yn bersonol drwy waith bywhaol yr Ysbryd Glân. Gwedd arall ar oleuni Duw yw Ei Ysbryd. Ac un swyddogaeth sydd gan Hwnnw yw cyflwyno Iesu Grist i ni, yn real ac yn fyw. Mae hyn yn deffro'r ysbryd brawdol dynol sydd ynom. Mae'n creu rhyfeddod a chariad aruthr at enw Iesu yn ein calonau. Ond y mae hefyd yn creu person newydd ynom. Iesu yn awr yw'r Duw ynom: Ef yw'r un sy'n ein sancteiddio, ac yn gweddnewid ein perthynas gariadus â bywyd a'r byd. Mae byw mwyach yng nghwmni hwn yn wefreiddiol, gan ein bod yn dibynnu mwyach yn llwyr arno Ef i ddiffinio ystyr popeth i ni, ystyr bwrpasol popeth a fu erioed, popeth sy'n digwydd, nawr ac am byth. Ef yw'r Duw sy'n ein cysuro ym mhob gofid.

Mae'n amlwg fod angen egluro'n fwy penodol beth yw'r newid hwn sy'n digwydd i greadur mewn angen. Heb ddirnad hynny'n well, deil y gair 'Cristnogol' yn dywyll.

Os yw'r berthynas hon rhyngom a'r Enw a'r Person hwnnw mwyach yn gwbl newydd, gellir canfod yn awr beth oedd ar goll a pham nad oeddem o ran deallusrwydd yn medru meddwl a themlo fel hyn. Yr ydym – yn syml – yn bobl newydd. O ran galluoedd meidrol i drafod ar lefel naturiol bethau sydd o'n cwmpas, nid ydym wedi newid yn y golwg, o bosibl, namyn o ran persbectif a dimensiwn: ond ychwanegwyd ysbryd byw. Golchwyd ni. Ond os cawsom o ran persbectif tragwyddol ein newid, yna y mae gafael anferthedd y profiad Cristnogol yn newid o raid ein dealltwriaeth a'n mwynhad o fywyd yn awr, yn ddwfn iawn. Mae gennym brofiad a gwybodaeth sylfaenol arall sy'n agor drws gweithredu i ni, yn y corff. O'r fath Enw, y fath Waredwr!

O bryd i'w gilydd, bûm yn ceisio trafod patrymau cyfundrefnus wrth gorffori bod a bywyd. Bu gennyf ysfa i geisio sylweddoli'r pwynt eithaf a oedd yn llywodraethu mesur amser a gofod. Ymgais y bennod hon yn awr oedd hawlio mawredd y Mab tragwyddol wrth bennu ystyr popeth – y Gair. Y Mab hwn a gorfforwyd fel y dangosid i ni ym mychander ein galluoedd yr Absoliwt a gafwyd mewn cynifer o ffyrdd mewn un person, ac fel y dynolwyd cariad Duw i bawb ei ganfod a'i adnabod.

YR YSBRYD GLÂN

A'I BLANT

CYFRWNG A SWYDDOGAETH TYSTIOLAETHU

Galatiaid 5:22: Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, adfwynder, hunanddisgyblaeth.

YR YSBRYD GLÂN

Gweithred anghydryw, mae'n ymddangos, yw llunio un bennod fel hyn am yr Ysbryd Glân ynghylch tystio (wrth drafod saith tyst cyfochrog i Dduw), a hynny yn Rhan III y gyfrol hon; oherwydd pennod arall yw, o fewn cyfrol gyfan am yr Ysbryd. Cafodd yr Ysbryd sylw eisoes yn y Rhagymadrodd, yn Rhan I, megis yn Rhan II. *Awdur y Beibl* yw teitl y gyfrol; ac Ef oedd y cynullydd-awdur i Gynnwys y Beibl, ac eithrio Llyfr y Datguddiad. Felly, pam yn y byd yr ydys yn ei osod ef eto, ochr yn ochr ag eraill yn y fan hon – gan fod eisoes gymaint sôn amdano – ac yntau eisoes yma mewn safle mor llywodraethol yn y Drindod, fel Un o Dri?

Pam? Am ein bod yn y fan hon yn canolbwyntio ar wedd y Tystiolaethu oll gyda'i gilydd.

Yn y Rhagymadrodd i'r gyfrol hon buwyd yn canoli'n sylw ar berthynas awdurol rhwng yr Ysbryd a'r Beibl. Erbyn yr adran hon canolwn ein sylw ar y ffaith mai un o'r saith oedd Ef yn y swydd dystiolaethol i Dduw. Edrychwn arno fel cyd-dyst o fewn cyd-destun y rhai 'arbennig' a oedd yn Dystiolaethwyr i'r Gwirionedd Cristnogol.

Mae ganddo, felly, lywodraeth dros y gyfrol hon benbwygilydd. Cydlynol yw. Daethom yn gyfarwydd â dolennu unol cyffelyb wrth ddilyn cydlyniad yr Awduraeth gynhwysfawr hon.

Yn ail, er mai gwaith y gyfrol oedd Ei drafod Ef yn grwn gysylltiol yn ôl ei anian gynhwysfawr yn undod, yr oedd ganddo swyddogaethau penodol o bwys fel Person o fewn y Drindod a oedd yn effeithio ar berthynas y tystiolaethau amryfal oll. Yr oedd ei briodoleddau hynny yn egluro ei natur yn fwy unigolyddol, ac eto'n bwrw golwg ar Ei gymeriad amlochrog fel Awdur.

Yn drydydd, y mae'r astudiaeth gydlynol hon yn ceisio pwysleisio cysylltiad dwy arwedd uwch-neilltuol ymhlith amllder yr arweddau ar yr Ysbryd. Wrth unigolyddu panorama o saith dystiolaeth, y mae yna ddwy dystiolaeth benodol sydd fel pe baent yn mynd â bryd yr Ysbryd yn benodol: sef y *Beibl* (ei waith llenyddol) a sefydlu a bywhau'r *Eglwys* (ei waith gweinyddol a'i gynulleidfa o ddarllenwyr). Priodol i'r Ysbryd yw tanlinellu y wedd o gyd-dystiolaethu rhyngddynt.

Ac yn bedwerydd, gellid honni mai tyst yw a enwir, yn anad neb, i'r Mab; i'r Arglwydd Iesu Grist a'i ddwyfol glwyf. Hwnnw fu ac yw'r swyddogaeth benodol fwyaf a arddelai'r Ysbryd o fewn hanes y byd. Dyma sefydlu felly ym meddwl y Cristion gwllwm penodol agos yn yr Undod eto, closiach nag a brofwyd mewn dim erioed.

Ymhlith y priodoleddau cyfun oll, cofiwn hefyd am hanes lletaf yr Ysbryd Glân yng nghyswllt y Greadigaeth, gan ddechrau gyda Chreu'r bydysawd a Dyn. Yn Hanes y Byd, llefarai'r Ysbryd Glân yn gyntaf drwy'i lais creadigol, ac yn ail fel hanesydd neu arolygydd adroddiadol am yr hyn a ddywedodd. Felly y gwnâi drwy'r Barnwyr 6:34; a'r Brenhinoedd fel Saul (1 Sam. 11:6; 16: 14); heblaw'r effaith ryfeddol a gafodd wedyn ar y proffwydi drwy gydol yr Hen Destament. Yr

oedd wedi bod gyda Moses: Num. 11:16-17;11:24-30; Sechareia 4:6. Yn y Testament Newydd, yn gyntaf gyda chenhedliad yr Arglwydd Iesu Grist, cynyddodd grym amlygiad yr Ysbryd Glân. Ac yna, gellid enwi nifer o ganolbwyntiau tra arwyddocaol:

Gwaith beunyddiol ac arferol yr Ysbryd yw tystiolaethu yn nhröedigaethau unigolion: Gen. 32:26; Ioan 3:1-8; 6:46; 16:7-11; Esec. 36:25-26; Act. 16:31; 1 Ioan 3:9; 4:7; 5:1. Ac erys y dröedigaeth yn dyst cyson wedyn ym mywyd y rhai a ailanwyd: 1 Ioan 5:19, 'Y mae gan y sawl sy'n credu ym Mab Duw y dystiolaeth ynddo'i hun.' 1 Ioan 5:6, 'Yr Ysbryd yw'r tyst, am mai'r Ysbryd yw'r gwirionedd. Oherwydd y mae tri yn tystiolaethu'; Rhuf. 8:16, 'Y mae'r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw.'

Y Pentecost. Dyma ganolbwynt gwaith yr Ysbryd Glân yn y Beibl, ac uchafbwynt cyfraniad yr Ysbryd Glân i'r Eglwys Gristnogol. Yn ei gyfrol *The Holy Spirit*, 2011, fe geir grŵp o dair pennod gan Geoff Thomas wedi eu cyfuno â'i gilydd sydd wedi'u cyflwyno'n benodol i drafod y Pentecost – 'Preparing for Pentecost', 'What Happened at Pentecost', 'The Preaching of Pentecost' – Act 2:1-4; 16-17; 21-41; Ioan 20:18-23; Luc 24:49; medd Ioan 16:13, 'Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd.' Yr oedd yna elfen o lacharu yn y tystio.

Doniau'r Ysbryd. Dyma'r pregethu yng Nghorinth am ddoniau'r Ysbryd. Dyma ymdriniaeth bwysig ar lefaru â thafodau, ac â'r ddawn ryfeddaf, Cariad. Yma y ceir y drafodaeth bwysicaf yn y Beibl am ddawn Cariad Cristnogol. 1 Cor. 12-14; Esea 28:11-12; Act.19:1-7, 10, 20; Act. 8 a 13; 1 Thes.1:5. Dyma etifeddiaeth gysylltiedig â'r Pentecost.

Yn sgil pob un o'r canolbwyntiau arwyddocaol hyn sy'n cael sylw penodol ac arbennig, ni ellir llai nag ychwanegu'r *Diwygiadau neu Adfywiadau* mewn Hanes: Titus: 5-6; 2 Cron. 34:14-21; 34:33; Rhuf. 5:5. Gwyddom am ysgogiadau o'r Hen Destament hyd wedi'r Testament Newydd. Yn Hanes Cymru: yn y 5ed-7fed Ganrif (Dewi); Y Diwygiad Protestannaidd; y Piwritaniaid; Y Diwygiad Methodistaidd. Mae'n nodedig gyda'r rhain oll ac eraill fod yna symudiad adfywiol parhaol yn y deall yn ogystal ag yn y serchiadau. Dyna gylch o swyddogaethau cyfun sy'n lledu'r darlun o'i gymeriad a'i dystiolaeth.

Yn y term 'Ysbryd Glân', a ddefnyddir i ddisgrifio trydydd person y Drindod yn y Testament Newydd, gellir teg gasglu mai trosiad yw eu tarddiad weithiau. Yn yr Hen Destament, o'r 378 o

droeon lle y defnyddir 'ysbryd' (rûah), nid ein '*hysbryd*' ni (ein hysbryd megis rhan o'n cyfansoddiad personol) yw bob tro. 'Gwynt' neu 'anadl' yw ei ystyr wreiddiol, ac erys y ddelwedd honno. Dyna'r ystyr lythrennol felly. Eto, eisoes y mae'r estyniad i olygu 'ysbryd' yn digwydd tua 60% o'r amser. Mae'n golygu 'anadl Duw' yn Exodus 15:8. Ond yn Genesis 7:22 mae'n cyfeirio at 'ysbryd bywyd' (cf. Pregethwr 3:19, 21). Felly, y mae'r ddolen gydiol droadol rhwng gwynt, anadl, ac ysbryd dyn neu Dduw yn treiddio'n gynnar. Gall fod cysylltiad rhyngddynt ac enaid (hanfod bywyd, ffynhonnell egni.) Fel y gwynt, dirgel yw'r ffordd y bydd yn symud eto, ac yr ym yn gweddio y daw heibio i Gymru'n fuan er gwaethaf pob sarhad. Teg disgrifio'r Ysbryd Glân fel ysbrydoliaeth unol y Beibl, lle y ceir yr un ddeuoliaeth, mewn meddwl a theimlad.

* * *

Pan ymholwn yn benodol beth oedd natur y dystiolaeth a geid gan yr Ysbryd Glân, mae'n debyg mai'r *profiad allanol a geid ac a welid* yn y Diwygiadau oedd, a hwnnw'n fath o *barhad o'r Pentecost*. Dyna yw'r hyn a ddô'n gyntaf i feddwl Cristnogion, sef tystio cyhoeddus. Yn y ddau brofiad hynny y gwelid grym a swyddogaeth fwyaf amlwg presenoldeb yr Ysbryd, er bod Jonathan Edwards yn cymeradwyo Ffrwythau'r Ysbryd fel prif brawf dilysrwydd y diwygiad Cristnogol. Ac mewn oes newyddiadurol, dichon fod mawr angen ail-archwilio'r allanolion carismatig rhag ofn mai effeithiau seicolegol sydd yna'n unig.

Hynny yw, pan ddown wyneb yn wyneb â phwnc yr Ysbryd yn cynhyrfu teimladau, ambell dro, dylem brofi drosom ein hun ddilysrwydd y duedd hon. Dichon fod llawer o'r allanolion a arddangosir ynghylch presenoldeb Duw a charu'r Mab yn ffug. Hynny yw, gellid gweiddi, a chwifio breichiau, a syrthio i'r llawr, a chanu'n ddi-baid fel petai o fwriad. Drachefn, ysywaeth, y mae Cristnogion, yn anterth eu hymddygiad Carismatig mwyaf byrlymus, yn ymdebygu'n allanol i grefyddwyr go chwithig eu haddoliad hysbysebwl ar y teledu. Efallai fy mod yn anghywir, ond ni chredaf fod 'perfformiad' Carismatig allanol o gyflwr seicolegol o syfrdandod, ofn, a thaerineb yn rhywbeth y dylid ei gymeradwyo. Ni ddylid ei wawdio chwaith. Mae gan Gristnogaeth ei seicoleg; mae gan ymddygiad o sioc hefyd ei seicoleg, beth bynnag y bo'r achos. Ond nid un o brofion Cariad at Grist yw'r ymddygiad hwnnw; ac nid prawf o Ddiwygiad chwaith.

Credaf mai buddiol wrth godi'r cwestiwn hwn fyddai ymdroi ennyd gydag un o ddiwygwyr mawr yr oesoedd, a chydag un a fu'n gyfrwng adfywiad, ac a fu'n myfyrio'n ddwys am y ffenomen, ac a ysgrifennodd yn arloesol am ansawdd priodoleddol Diwygiad. Un ydoedd a fwynhâi Ddiwygiad ei hun, ac a'i cyfrifai'n ffordd odidog o glodfori yn ein plith.

Wele Jonathan Edwards! Ef yn anad neb, fel y dywedodd Martyn Lloyd-Jones, oedd 'diwinydd yr adfywiad.' Hynny yw, ef yn anad neb a feddyliodd yn gadarnhaol ac yn wylriadwrus feirniadol yr un pryd am ffenomen Diwygiad. Yr oedd ef ei hun yn ddiwygiwr mawr ac yn llefaru

am y ffenomen o'r tu mewn megis, ond yn ei waith o ddadansoddi natur Diwygiad yr oedd yn unigryw yn ei oes.

Dechreuodd yn gynnar, yn ddeuddeg oed. Mae gennym lythyr yn ei law ei hun at ei chwaer hynaf Mary a ddisgrifiai adfywiad yn nhref ei gartref East Windsor, Connecticut. Digwyddodd sylwadaeth Jonathan Edwards o dan bregethu Timothy Edwards (1665-1758). Ond astudiodd yn fanwl iawn yr hyn a ddigwyddodd yn sgil ei bregethu ei hun wedyn yn ystod gaeaf 1734-1735 yn ei eglwys yn Northampton, Massachusetts. Fe'i cyhoeddwyd mewn cyfrol: *A Faithful Narrative of the Surprising Work of God in the Conversion of Many Hundred Souls in Northampton...1737.*

Yr hyn a wnaeth yr argraff fwyaf arno oedd yr effaith a gafwyd ar y seciwlariaid mwyaf gelyniaethus: *'The noise amongst the dry bones waxed louder and louder; all other talk but about spiritual and eternal things was soon thrown by; all the conversation, in all companies and upon all occasions, was upon these things only, unless so much as was necessary for people carrying on their ordinary secular business.'*

Hynny yw, ceryddwyd y problemwaith negyddol, heb fychanu'r gwrthwynebiadau arferol i fywyd ysbrydol fel pe na chyfrifent ddim: *'The temptation now seemed to lie on that hand, to neglect worldly affairs too much, and to spend too much time in the immediate exercise of religion.'*

I Jonathan Edwards, dyma oedd y rhyfeddod amlwg, diflaniad yr hunan-dwyll gan *'those who had been most disposed to think, and speak slightly of vital and experimental religion.'* Yn lle gwrthwynebiad, presenoldeb Duw: *'it never was so full of love, nor of joy, and yet so full of distress, as it was then... God's day was a delight, and his tabernacles were amiable.'*

Ac eto, yr oedd y canlyniadau, ar y pryd, yn fwyaf eithafol weithiau, bron yn wallgof, yn ddychrynus i'r rhai a oedd yn bresennol; ac ni bu neb erioed mor amheus ymchwiliol rhag i'r cnawd ymyrryd, ac i'r anhrefn gamwarwain ag y bu Jonathan Edwards. Eto, megis amddiffyniad Daniel Rowland, ar ran Methodistiaid gorfoleddus ei ddydd, ni allai gytuno â'r 'cysgwyr'.

Yr oedd Jonathan Edwards, yn ifanc, yn fachgen anghyffredin o alluog. Meddai ei gofiannydd, Ola Elizabeth Winslow, amdano: 'Jonathan Edwards stands forth today as one of the great original minds of America, a man with few peers in his own day or later.' Pan oedd ef yn un ar ddeg, ysgrifennodd astudiaeth hynod o aeddfed, 'Of Jesus', gwaith chwithig o wreiddiol, (gw. 'Jonathan Edwards as a Scientist,' C.H. Faust, *American Literature*, 1930). Yn dair ar ddeg, lluniodd bedair erthygl, y ddwy gyntaf ar Opteg, sef 'Of the Rainbow' a 'Colours', ac yna o dan ddylanwad athroniaeth ideolegol, 'The Soul', ac yn fwyaf aeddfed o'r pedair 'Of Being'. Ceir hefyd gasgliad o nodiadau a luniodd ar gyfer 'The Treatise on the Mind', sef portreadau ar gyfer traethawd nas ysgrifennwyd yn derfynol neu o leiaf nas cadwyd. Yn y rhain, megis yn 'On the Prejudices of the Imagination', gwelwn addewid un a fyddai'n ddeallol addas i gael ei wahodd maes o law ym Medi

29, 1757 i fod yn Llywydd Coleg New Jersey (Princeton yn awr).

Tyfodd yn ystod oes fer i ysgifennu llu o gyfrolau mawr a bach, a golygwyd a chyhoeddwyd dwy ar hugain ohonynt gan Yale erbyn diwedd 2003. Dyma rai o'r rhai enwocaf: *1736 A Faithful Narrative of the Surprising Work of God*; *1738 Justification by Faith Alone*; *1739 Personal Narrative*; *1742 Distinguishing Marks of a Work of the Spirit of God*; *1742 Some Thoughts on the Revival of Religion in New England*; *1746 Treatise Concerning Religious Affections*; *1748 An Humble Inquiry into the Rules of the Word of God*.

Ysgrifennai, fel Pantycelyn a John Newton, mewn cyfnod o drawsnewid rhwng cyfnod y Piwritaniaid ar y naill law a Rhesymoliaeth yr Ymoleuo ar y llall. A phriodol cofio hyn o amgylchfyd deallol yn ogystal â chaledrwydd cyntefig y cyfnewidiadau cymdeithasol. Yr Ymerodraeth Brydeinig, rhyfeloedd yr Indiaid, a Chaethwasiaeth oedd y norm yn y gwareiddiad Saesneg ar y pryd. Gwybu ef arwder yr oes. Meddai George M. Marsden yn ei gofiant iddo: 'Edwards is sometimes criticized for having too dim a view of human nature, but it may be helpful to be reminded that his grandmother was an incorrigible profligate, his great-aunt committed infanticide and his great-uncle was an axe-murderer.' Ac wrth gwrs, roedd sgeptigiaeth anochel yn teyrnasu'n rhemp ymhlith y pregethwyr rhyddfrydol. Hyn, dybiaf i, a ganiataodd iddo bregethu'r enwocaf o'i bregethau, 'Sinners in the Hand of an Angry God' yn 1741. Hyn a ddefnyddid (yn offer) gan ei elynion pennaf, megis Robert Lowell, i gartwneiddio dychryn lliwgar y demonwyr ymhlith pregethwyr efengylaidd. Nid wyf yn credu y byddai Edwards yn achwyn yn ormodol am y gorbwyslais ar uffern. Meddai Isaac Watts yn ei gopi ei hun o'r bregeth: ei '*A most Terrible Sermon, which should have had a word of Gospell at ye end of it, tho I think tis all true*.' Wrth fynd â'r bregeth ar daith, cafwyd yr ychwanegiad cariadus hwnnw gan Edwards weithiau, er nad bob amser. Hawdd y gellid cytuno â Watts. Ond dyna'r math o ddofi hefyd a wnâi'r poblogeiddwyr rhyddfrydol, er swcwr a siwgrw i'r union bobl a ddylai ei chlywed.

Gan mai dyna'r cartŵn a wthiai propagandwyr bondigrybwyll y 'pawb yn y nefoedd', gweddus efallai fyddai dyfynnu'r darn canlynol sy'n adlewyrchu eu gwendidau os nad eu rhagfarnau: '*The god that holds you over the pit of hell, much as one holds a spider, or some loathsome insect over the fire, abhors you, and is dreadfully provoked: his wrath towards you burns like fire* [cf. delwedd Rhuf. 1:18, Y mae digofaint Duw yn cael ei ddatguddio o'r nef yn erbyn holl annuwioldeb ac anghyfiawnder pobl.]; *he looks upon you as worthy of nothing else, but to be cast into the fire; he is of purer eyes than to bear to have you in his sight, you are ten thousand times more abominable in his eyes, than the most hateful venomous serpent is in ours. You have offended him infinitely more than ever a stubborn rebel did his prince; and yet it is nothing but his hand that holds you from falling into the fire every moment. It is to be ascribed to nothing else* [h.y. heblaw

gras cyffredin ataliol], *that you did not go to hell last night; that you was suffered to awake again in this world, after you closed your eyes to sleep. And there is no other reason to be given, why you have not dropped into hell since you arose in the morning, but that God's hand has held you up.'*

Gyda'r gytgan yna o 'fire', a'r rhythmau ailadroddol, a'r ddelwedd o'r hongian gan bryf copyn, a'r uniongyrchedd dramatig, gellir gwerthfawrogi hefyd y rhinweddau llenyddol sydd yma, er nad oedd ei alluoedd areithyddol wrth draddodi mor fedrus â'i ddefnydd ar bapur, mwy na'i fedr bugeiliol mor dreiddgar â'i gyfathrebu cryf.

Nid oedd y Cymry cyfoes iddo yn anwybodus ynghylch yr hyn a ddigwyddai yn America. Prynodd Howel Harris (1714-1773) gopi o'r *Narrative* yn Chwefror 1738. Ac ar ôl ei ddarllen, gweddïodd: 'O go on with thy work there [h.y. Yn New England] ac yma.' Y tebycaf o'n Cymry i Jonathan Edwards o ran gallu meddyliol a dychymyg oedd Williams Pantycelyn. Mewn llythyr at Howel Harris yn Llundain ar Ragfyr 7, 1745, meddai Williams, 'Lately, I have read Dr. [Jonathan] Edwards thoughts of the Work of God in New England, the book I have seen to that purpose. It gave me [much] light in some things.' Cyfieithodd Williams yn 1766 bamffled o New England gan gyd-Galfinydd a chyd-emynydd Buell. (Gw. hefyd: 'Diwygiad 1762 a William Williams o Bantycelyn' I a II, R. Geraint Gruffydd, CCHMC, 54, iii, (Hydref 1760), 68-75, a 55, i, (Mawrth 1970) 4-13; a sylwadau niferus gan Eifion Evans yn ei gyfrol *Bread of Heaven*, 2010).

Ymhlith yr amryfal weddau ar Ddiwygiad a astudiwyd gan Jonathan Edwards, yr oedd un gwbl nodedig a rhyfedd, sef yr enghraifft bersonol (*case-study*) a wnaeth ef o un wraig neilltuol, sef ei wraig ei hun, Sarah Edwards. Cymhares deilwng oedd hi, a buont yn gariadon mawr i'w gilydd. Ym marn heddiw, fe fernid eu serch braidd yn ffurfiol mewn dyddiau bellach pryd nad yw parch a chariad Cristnogol yn gyffredin ar bob stepen drws. Ni allasai er hynny fod yn gwbl bellennig gan iddynt gael dwsin o blant, un bob yn ail flwyddyn. Pan oedd Jonathan yn ugain oed (1723), a hithau'n dair ar ddeg, ysgrifennodd amdani: '*She loved to walk alone in the country and think of God. She knew that this Creator God loved her personally, and she feared more than anything else to offend him. She loved to sing to God, and was always full of joy – sometimes unspeakable joy.'* Ar Orffennaf 28, 1727, a hithau'n ddwy ar bymtheg ac yntau'n bump ar hugain, priodasant.

Drwy flynyddoedd o Ddiwygiad taer buont gyda'i gilydd. Cafwyd gelyniaeth ddwys hefyd o'u cwmpas gan Ryddfrydwyr ac Arminiaid. Eithr ni bu ond yn gyfle i'r Jonathan tra hunanfeirniadol hwn i bwysu a mesur ffasiynau meddwl yr amseroedd. Meddai'r hanesydd eglwysig Americanaidd, John Hannah: '*Though Edwards presented argument after argument to sustain his points [yn ei bregethau], he did not believe that rational explanations or carefully crafted sermons possess the power in themselves to convince anyone... Reason can demonstrate that something is true, but only the Spirit of God can create an affectionate desire or delight in it.'* Â'i ddeall anferth,

sylweddolai Edwards nad chwaraebeth i'w reswm oedd adnabod Crist, ac y cynhwysai serchiadau, ewylllys, a gwirionedd dwfn hefyd.

Roedd hyn yn gefndir priodol ar gyfer y gwaith yr ymgwymerodd ag ef o ddadansoddi profiad ei wraig. Does dim dwywaith: eithafwraig oedd hi. Ond un o'r meini prawf pennaf a fabwysiadai Edwards: rhaid oedd dwyn ffrwythau o ddaioni er clod i Dduw. Gofynnid byth wedyn am fywyd o ymroddiad aberthol. A hyn a gyflwynodd hi i'w cartref ysbrydol-gyfoethog.

* * *

Pan ofynnodd cyfaill i mi un tro yn ddiweddar beth oedd gennyf ar y gweill, atebais mai llyfr oedd am yr Ysbryd Glân. Nid oedd y cyfaill yn efengyleiddiwr diwygiedig, ac atebodd ef: 'A! cyfrol arall am Adfywiad debyg – lot o fiwsig aflafar, siglo dwylo yn yr awyr, tipyn o ddawnsio, llefaru â thafodau ...'. dyna un ddelwedd boblogaidd, mae'n wir. Hynny yw, cafodd y cyfaill ei addysgu gan y teledu ac allanolion; ac y mae materion o'r fath yn deledu-gyfeillgar. Eto, mae yna draddodiad adfywiol bywiog o'r fath, wrth gwrs, gellid meddwl, am gymeriad yr Ysbryd Glân sy'n mynd yn ôl i'r Eglwys Gynnar. Ac y mae'n arddel ei batrwm yn y Pentecost.

Nid dyna'r unig ddelwedd sydd, er hynny. Ceir olyniaeth ddigon ystyriol a thawel i ddechreuadau'r Pentecost, a hyd yn oed i lefaru â thafodau. Ceir ymarfer o doniau dieithr sy'n ddigon agos at lawnder yr efengyl Gristnogol; ac o'r herwydd y mae cysylltiadau'r Ysbryd Glân â'r gwaith o dystiolaethu yn gyfoethocach o dipyn na thipyn o dân gwyllt dros dro ar gyfer newyddiadurwyr. Eto, rywfodd, saif 'doniau ysbrydol' cyhoeddus ar briffordd y thema y ceisir ei dilyn wrth drafod tystiolaethu Awdur y Beibl.

Yn y Beibl am y tro cyntaf, yn yr Actau, y cyflwynir llefaru â thafodau i ni. Ac fe'u cyflwynir yn arwyddocaol yng nghyd-destun y ddawn uchaf oll a grybwyllir yn y Beibl – sef Cariad. Fe'i disgrifir yn fwyaf penodol yn llythyr Paul at Gristnogion yng Nghorinth. Yno rhybuddir am y *camarfer* allanol o dafodau, a thynnir sylw y Cristnogion newydd at gynnwys yr Efengyl, nid at berfformiad a sŵn, ond at feddwl ac ymarfer caredigrwydd, at adeiladaeth bersonol a dyfnhau deallol.

Pennod 12-13 yn y llythyr cyntaf at y Corinthiaid yw, wrth gwrs, y darn clasurol am dafodau. Er nad yw Paul yn bychanu'r ddawn o dafodau, y mae ef yn annog ei ffrindiau i fod yn ofalus wrth ganolbwyntio ar ffenomenau o'r fath. Yn ymddangosiad Actau 2 y clywyd am y tro

cyntaf am 'dafodau' gyda gwynt nerthol a fflamau'n disgyn ar y credinwyr. Rhoddwyd dawn yn wyrthiol i gredinwyr o Galilea i lefaru mewn ieithoedd nad oeddent yn eu gwybod o'r blaen – ieithoedd dilys o wahanol rannau o'r Dwyrain Canol. Defnyddient yr ieithoedd hyn fel dathliad o'r ymlediad ar y pryd o'r efengyl ledled Cenhedloedd a restrir yn Act. 2:8-11. Dyma'r prif ddigwyddiad a datblygiad hanesyddol efallai y pryd hynny, ac yr oedd yna ystyr i'r wyrth, fel yr oedd ystyr i bob gwyrth – mor arwyddocaol. Rhoi diolch a wnâi'r ieithoedd drwy gân ac ymddiddan, mewn gweddïau am fawrion weithredoedd Duw yn yr efengyl. Yn Act. 2:11 darllenwn: *'yr ydym yn eu chlywed hwy yn llefaru yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw.'* Nid anhrefn oedd: (1 Cor. 14:30) *'Dylid gwneud popeth yn weddus ac mewn trefn.'*

Wrth sôn am yr Ysbryd Glân yn gweithredu fel hyn, gallwn gofio am waith yr Ysbryd yng nghalon pob crediniwr unplyg, yn ogystal ag yn ffurfiad yr Eglwys ryngwladol, ac yng nghalonnau a meddyliau awduron y Beibl. Ac yn y fan hon, fe geir yr amllder ieithyddol symbolaidd ar y groesffordd rhwng y lleol ieithyddol yn Israel I i'r amllder ieithyddol yn Israel II ledled y byd.

Ni ellir llai na synied mai prif swyddogaeth yr Ysbryd Glân mwyach yw *cyfathrebu'n ymarferol* ym mhob dim. Myn 1 Ioan 5:6 mai *'Yr Ysbryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu.'* A thrachefn dyma awdur yr *Epistol at yr Hebraid* 10:15, *'Ac y mae'r Ysbryd Glân hefyd yn tystiolaethu i ni.'* Mae'n gwneud hyn wrth gwrs drwy ymyrryd â hanes meddyliau, gan ymyrryd â'r dyn unigol ac â'r traddodiad cymdeithasol beth bynnag y bo'r swyddogaeth a'r agwedd at fywyd. Dilyna'r gair drwy'r Beibl i'r glust ac yna i galon y gwrandawr: siwrnai lon.

Ond y mae Ei ymyrraeth Ef yn wahanol i ymyrraeth y Mab. Daeth y Mab yn agos yn gorfforol at bawb mewn angen. Ymgawdolodd. Yn weledig bu'n gweithredu ac yn llefaru. Bu wedyn farw dan drais. Atgyfododd yn gorfforol. Cynigiodd ei fywyd yn iawn dros bob pechod a wnaethom. Os ydym yn myfyrio am y Drindod, yr ydym yn meddwl am wahaniaeth ac unigolyddiaeth a swyddogaeth y personau yn ogystal ag am yr Undod triol. Dyma batrwm digon gwahanol (i sylwi arno) yn swyddogaeth y Mab i'r gorchwyl a gyflawnodd yr Ysbryd Glân gan na ddaeth hwnnw erioed mewn corff, onid ar waith mewn ffordd hollol wahanol drwy unigolion yn yr Eglwys pan fo'r rheini'n cael eu llenwi ganddo.

Ac eto, y mae yna debygrwydd wrth gwrs. Yr un yw'r nod o fewn themâu'r Beibl. Gweini ac ymostwng y mae'r Mab i'r Tad. Gweini a chyfeirio at y Mab a wna'r Ysbryd. Dau berson yn y Drindod ydynt, a'r ddau yn union gyd-debyg mewn gwyleidd-dra, ac yn yr ymostwng i garu megis

y Tad.

Bu'r ddau yn cyd-dystiolaethu: dau garwr yn cyflwyno'r efengyl ac yn argyhoeddi dynion drwy gydweithredu â'i gilydd. Undod â Christ yw hanfod ein hiachawdwriaeth; a'r un sy'n cyflawni'r asio hwn inni'n arweiniol yw'r Ysbryd Glân. Mae'r ddau yn gyfryngwyr, mewn gwirionedd, rhwng dyn a Duw'r Tad. *'Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond drwof fi,'* meddai'r Mab (Ioan 14:6). Ond pwy sydd yn ein galw at Dduw, ac yn peri inni roi'n diolch a'n gwrogaeth i'r Tad? Ai'r pregethwr (yr eglwys) a glywn ar y Sul? Ie, efallai. Eithr digwydd oherwydd neb llai na'r Ysbryd Glân: *'A'm hymadrodd a'm pregeth i, ni bu mewn geiriau denu o ddoethineb dynol, ond yn eglurhad yr Ysbryd a nerth: fel na byddai eich ffydd mewn doethineb dynion, ond mewn nerth Duw'* (1 Cor. 2:4-5).

Mae'r Tywysydd hwn yn tystiolaethu hyd at graidd ein bodolaeth gyflawn drwy eneuau meidrolion. Felly y gwnâi yn y Beibl hefyd. A gwna mewn ffyrdd gwahanol yn unol â doniau a chymeriadau ac anghenion y tystion. Does dim angen gwneud arddangosfa i ymostwng o flaen Duw, mae'n amlwg. Does dim angen ymdrechu'n gyhoeddus. Newid tawel ymostwng yw'r priod lwybr naturiol a goruwchnaturiol i rai, gan gydnabod y gwirionedd plaen amdanom ni ein hun. Ond y mae rhai llwybrau sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf. Ymostwng yw ein gweld ein hunain fel yr ym, a rhedeg oddi wrth ein hunan nerth ein sodlau. Ond yr Ysbryd Glân yw: go brin y gwelwn ein hannheilyngdod heb Ei oleuni Ef. Cyflwr yw a brofir wrth gael cipolwg ar Grist. Wedi canfod ein gwendid a'n ffolineb a'n hunanoldeb a'n balchder gwag, yn union fel yr ym yn Ei ymyl ef, hefyd canfyddir peth o'r glendid ynddo Ef a fwriadwyd ar ein cyfer. Eto, wedi cael cipolwg ar gariad Duw ar y groes, a sylweddoli'r hyn a wnawn beunydd yn Ei erbyn, mae yna orfodaeth unigolyddol. Y mae'n gwbl amlwg ein bod yn ddihaeddiant ynom ein hunain. Ni all y sawl a gafodd ryw olwg, unrhyw wir olwg, ar ddaioni anfeidrol Duw, a gwybod am y rhinweddau a fwriadwyd ar gyfer y dyn naturiol (y tlotyn), lai na sylweddoli nad gogwydd rhinweddol, yw'r cyflwr israddol. Ond ffaith odidog yw, ac fe'i gweithredir gan yr Ysbryd.

Eto, er mor rhwydd yw, yr oedd cyrraedd trothwy cyn-ymostwng hefyd yn anhraethol anodd. Codwn bob math o esgusodion ac o rwystrau rhag cyrraedd y man hwnnw – profi hunanhyder, balchder, hunan-gyfiawnder, camddeall. Weithiau, onid oes angen gweddïo i ninnau hefyd gael mwy a llawnach golwg daearol ar ogoniant Crist er mwyn ymostwng ymhellach? Mae yna ymostwng cnawdol, ac ymostwng goruwchnaturiol. Mor rhyfedd fu ymostyngiad Brenin y brenhinoedd i ddysgu i'r darllenydd ddarllen y Beibl o'r galon.

Math o estyniad o'i ymostyngiad Ef yw pob ymostwng o weld drwy arweiniad yr Ysbryd. *'Y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni'* (Rhuf. 5:5). Dyma'r cyd-destun i gredinwyr sy'n darllen y Beibl. Mae'r Ysbryd yn cydweithredu â'n hysbryd i ddysgu i ni ddarllen. Ac eto, wedi ymostwng, mor barod fu'r Brenin i'n codi. Ar ôl Ei ddiodeffaint ef, mor haelfrydig gyflym fu Ei barodrwydd i ryddhau'r diodeffaint o'n hysbryd rhwymedig ni. Ei Ysbryd Ef sy'n cyffwrdd â'n hysbryd. Felly, heblaw darparu'r Deunydd i'w ddarllen, bydd yr Ysbryd yn darparu'r dull cywir o ddarllen.

Ffydd yw'r awydd i geisio meddwl bob amser yn unol â meddwl Duw. Gwyddom fod ffydd yn medru bod yn wan, a'n crediniaeth yn wannach. Ond y mae'r awydd i fod yn ffyddlon, yr awch am ufudd-dod meddwl, boed yn deimlad neu'n weithred, yn gallu aros – diolch iddo Ef – yn angerddol. Nid ni oedd cynhyrhydd ein Ffydd. Dyma'r Ffydd a wewyd drwy holl sillafau'r Gyfrol Sanctaidd a roddwyd gan Awdur Ffydd yn y credadun.

Gwyddom y gall fod yna fwrw gan amheuaeth ynom o hyd ac o hyd, yn fwrw ar ein ffyddlondeb ein hun, eithr heb fwrw byth ar Ei ffyddlondeb Ef. Ac nid heb obaith felly. Gwyddom nad o'r pwll y daeth y dymuniad hwn am sancteiddrwydd. Nid yr anifail sy'n gweiddi, oherwydd gweiddi yr ym am Dduw – peth nas gwnaeth yr un anifail erioed.

Pan deimlwn gywilydd ynghylch ein ffydd, ac y mae'n iawn inni brofi awydd i dyfu, rhaid inni hefyd gofio bod yna, drwy drugaredd, ddarpariaeth ddiarbed am gael Ei adnabod yn well a'i wasanaethu'n fwy dyfal.

Ac mae'n iawn inni brofi diolch tanbaid hefyd. Dyna ein dibyniaeth ar Lyfr gan yr Awdur hwn. Ffydd yw'r hiraeth wedyn am fwy o dduwioldeb, oherwydd hiraeth Duw yntau amdanom ni. Nid naturiol yw hyn, nid hunanysgogol, nid damweiniol yn sicr – yr Awdur ei hun a wnaeth hyn.

Parhawn i'n beirniadu ein hunain i wrthwynebu'r diffygion a'r cwympiadau dirifedi; ond ynghanol ein cawdel i gyd – heb ddiolch i ni – ceir syched am Iesu Grist. Mae yna sylweddoliad amrwd nad oes dim gobaith ond ynddo Ef. Yr Ysbryd Glân a wnaeth hyn. Cyd-hiraeth yw.

Ni waeddodd neb yn ofer. Onid yw'r waedd ddifrif ei hun i'w phrofi mewn sawl ffordd? Clywch ansawdd y waedd hon. *'A'r Arglwydd a drodd ac a edrychodd ar Bedr.'* Diolch iddo am

droi. Diolch am y llygaid tawel a ostyngodd lygaid Pedr fel y câi yntau weld. Diolch iddo Ef am blannu cywilydd yn y galon. Drwy'r llygaid yna y mae'r Cristion tlawd yn teimlo'n noeth. Y mae yn ei weld ei hun fel y mae. Ac os ydym wedi pellhau mewn unrhyw fodd, ni allwn ffoi rhag tystiolaeth Ei Ysbryd.

Gall ambell un addef diolch am rodd fawr yr Ysbryd Glân o gywilydd. Drwyddi y ceisir Maddeuant. Gall *Ymateb y Darllenydd* fod yn annisgwyl y pryd hynny. Gwahanol yw'r 'Reader Response' hwn i'r hyn a ddychmygodd Ôl-foderniaeth erioed y dylai fod. Cloffa'r edifeirwch i erfyn o'i flaen: Deuaf yn ôl at Dy orsedd, a chyflwynaf yn ôl i ti y cyfoeth a ldrateais oddi wrth fy Nhad fy hun.

Yn y ddeuliaeth sy'n cynnal moesoldeb ac yn y strwythur i hwnnw, y mae Duw yn meddu'n syml ar y da ac yn gwrthod y drwg. Rhaid i'r anghenus droi oddi wrth y darllenydd hunan-ganolog at y darllenydd Duw-ganolog.

Bywyd yw Duw: marwolaeth yw dyn.

Tröedigaeth yw chwyldroi y farwolaeth yn fywyd drwy dystiolaeth a thrwy gymorth gwylaidd yr Ysbryd Glân. Felly y daw'r gwahaniad yn undod.

* * *

Cais dyn weithiau yw meistroli hyn oblegid ei falchder mwyaf, sef ei ddeall, un arall o'r doniau (megis rheswm, cof, a dychymyg). Cais drwy hunan-ddeall oresgyn ei natur ei hun.

Bydd y gwir ddarlleniad o'r Beibl yn cychwyn yn y lle y mae'r Ysbryd wedi'i ddewis. Heb ymsefydlu ym meddwl Duw fel y'i rhoddodd Ef i ni, ni allwn nac amgyffred na deall y drwg. Hynny yw, y mae'n rhaid inni gychwyn yn yr Ysbryd a brawf Ef yn arweiniad inni. Ef yn unig sy'n meddwl ynom mewn gweddi a roddir.

Gall y deall dynol fod yn was yn hyn o gofleidiad, drwy iddo Ef ein rhoi yn Ei feddwl ei hun, Ei feddwl Ef ynom a'i eiriau Ef ynom, sef yr Ysbryd, dyna'r unig ffordd a feddwn i breswyllo fwyfwy yn naioni dwyfol Iesu Grist.

Y Mab yw'r Un a ddatguddid gan yr Ysbryd, y darllenwn amdano yn gorfforol bellach, ym

Methlehem, a wisgodd ein cnawd; ac ar Galfaria ein hanghyfiawnder. Ym Methlehem y daeth Ef yn ddyn bach; ar Galfaria aeth yn bechod. Cafwyd Ef ar y groes yn fryntni, fel y caem ninnau ein haileni i'w burdeb. Yn atgyfodiad Crist y ceir ein hatgyfodiad ni. Cafodd 'Gwyp' ar y Groes am iddo gymryd arno'i hun ein camweddau ni. Ac anfonodd Ysbryd wedyn i'w ddangos Ef yn fuddugoliaethus.

Plygu i Ysbryd Duw yw'r peth mwyaf nerthol y gallwn ei wneud byth. Gallwn glywed ei lais mewn geiriau: hyn fydd ein camp ddarllengar odidocaf. Bod yn wan yw bod yn ddyn effro. Bod yn bechadur yw bod yn barod. Plygu yn ein gwendid ac ym mhellter ein pechod yw ein gorchest eithaf i'r Un sy'n caru pechaduriaid. A da gwybod na allwn wneud dim o hynny heb i'r cyfan ddod o Ras. Yr Ysbryd ei hun a'i gwna ynom.

Drwyddo Ef yr amgyffredwn y gwirionedd bach unigol, a'r pryd hynny y cawn afael ar Wirionedd ei hun. Sylweddoli bychander yng ngwyddfod y Mawredd, a'n hannheilyngdod o flaen y Pur a'r Dihallog bach, dyna ein hawydd elfennol.

Sut, felly, y mae'r Ysbryd yn ysgrifennu crediniaeth yn y galon?

Heb inc y Gwaed, nid ysgrifennir *credu* ar unrhyw galon. Nid yw'n fater o bwysu a mesur yn gnawdol, a phenderfynu ar ôl 'gwneud' hynny. Gellir arolygu'r sefyllfa yn fanwl wrth gwrs – yr athrawiaethau, y digwyddiadau, y personau. Gellir chwilio'n feddyliol. Gellir casglu, o ystyried yn eithriadol ofalus, ei fod wedi'r cyfan yn wir. Ond nid felly y credir gyda'r darllen mawr hwn, gan amlaf. Nid felly yr ymrwma neb yn y wybodaeth am y drwg, am Uffern, yn yr Atgyfodiad corfforol, yn yr Iachawdwriaeth oruwchnaturiol, yn yr Ail-ddyfodiad. Rhodd rad ac arbennig yr Ysbryd yw derbyn hynny i gyd, bob tamaid, bob iot: a chyda 'gweithred' y Beibl yn hyn o beth, fe fydd bywyd yn ymestyn ohono'i hun. Ysgrifenna'r Ysbryd y Beibl tan gymhwyso'r Beibl i'r anghenus gyda chariad ymhob dafn.

Golyga hynny ddwylo gwag gan y Darllenydd. Gras sy'n rhoi dwylo gwag. Pan fydd yr Ysbryd yn bywhau'r Beibl inni, mae'r Ysbryd ei hun yn siarad â ni. Bywyd a dderbynnir gan yr Ysbryd; a rhodd y medr gostyngedig yw i 'ddarllen y Beibl' drwy'r galon.

Dyma deyrnas rydd ac uwchnaturiol yr Ysbryd.

Aileni o'r Ysbryd yw hyn oll ynom. Ar y pryd, y mae'r deall mewn dyn yn dod yn fyw drachefn.

Bid siŵr, mae yna elfen baradocsaidd o dderbyn, *yn syml* megis plentyn, heb fod yn simplistig, ond yn meistroli llythrennau. Gweithred megis gweithred plentyn yw cyflwyno calon yn union ac yn ostyngedig, yn ôl i Dduw, heb fod yn naïf. Dyma hefyd yw aeddfedrwydd darllen y Cristion. Mae yna ddarllen, ac mae yna ddarllen drwy'r Ysbryd Glân, ond y mae Duw yn darllen drwom. '*Y mae pawb sy'n cael eu harwain gan Ysbryd Duw yn blant Duw*' (Rhuf. 8:14).

Mwy eithafol na'r gymhariaeth â phlant yw'r gymhariaeth Feiblaidd adnabyddus arall: sef yr un am greadur sydd heb ei eni'n ysbrydol o gwbl eto. Mae yna fath beth â disgwyl yn hiraethus. Yn wir, gellid holi ai cymhariaeth fel y cyfryw yw geni, ynteu onid peth sy'n realaidd wir ym myd yr ysbryd? O leiaf, fe geir llawer sy'n gwybod ystyr y goruwchnaturiol yn burion oherwydd diuno'r ysbryd yn ddisymwth wrth ddirnad troadau. Fe'n genir ni i fywyd na wŷr y byd amdano.

Mae yna chwyldro glân, drwy aeddfedrwydd Gwirionedd. Tyfir mewn darlleniad ufudd, yn llythrennol neu'n ffigurol. Nid mewn geiriau y corfforir y gwirionedd absoliwt bellach yn hanfodol, ond mewn person. Dihetir y llythrennau'n gorfforol. Ond nid profiad yw y tu allan i fframwaith gwirionedd ac ystyr. Profir undeb diriaethol â Duw trugarog a adweinir yn elfennol y tu mewn. Nid undod yw drwy lyncu neu doddi neu ymgolli, ond undeb o fath na chyll hunaniaeth gariadus cyfarfod effro.

Fe'i gwneir drwy iachawdwriaeth sy'n adfer natur ddynol a aeth yn ddiffygiol golledig, a thrwy atgyfodiad sy'n du chwith i farwolaeth normal dawel y meddwl a'r corff. Tansailir pob tansailiad gelyniaethus felly gan ddiwydrwydd egniol yr Ysbryd ynom.

Tystiolaetha'r Ysbryd Glân fod yna ffordd i gyrraedd Duw, nid yn y 'darllen', ond yn yr hyn a ddarllenir. Ac fe'i derbynnir drwy Ymateb Darllenydd dilys. Dyna Ymateb Darllenydd sydd o dan addysg llythrennau'r Ysbryd. Hyn sy'n esbonio pam y bu'n rhaid i'r Beibl fod yn bont mor gaeth i'w chroesi mor rhydd.

Felly y mae i lenyddiaeth y Beibl yntau egwyddor o fynegiant ysbrydoledig sy'n gwbl wahanol ei naws i'r egwyddor o fynegiant gan lenyddiaeth seciwlar. Yr her yw inni adnabod ei unigrywiaeth oruwchnaturiol. Mae gan y Beibl egwyddor o *ffydd* y gellir ei chanfod yn sydyn neu'n araf sy'n rhoi iddo faes meddyliol a ganola ar diriogaeth ysbrydol wreiddiol. Mae'n canoli ar fframwaith syniadol sy'n rheoli'r math o ddeunydd sydd a wnelo'n uniongyrchol â'r berthynas â Duw. Yr Ysbryd pwerus hwn a wna hyn.

A'r hyn sy'n gwahaniaethu yn y Beibl i bopeth seciwlar yw gwaith effeithiol parhaol yr Ysbryd Glân eto yng nghalon y credadun. Hwn sy'n deffro'r ysbryd dynol, ac yn cyweirio dros gyfnod o amser y niwed a wnaed gan bechod. Hynny yw, trydydd person y Drindod yn unig yn y pen draw a gaiff ddatguddio'r wybodaeth hon yn iawn am Dduw Trindodaidd yn unswydd i ddyn naturiol.

Mae'r Beibl, fel llyfr ysbrydol awdurdodol, yn gychwynnol yn llyfr marw i Ddarllenydd ar y lefel seciwlar. Mae yna ddarnau llenyddol byw ynddo. Ond fel neges fywhaol oddi wrth Dduw, nid yw'n byw ar y dechrau fel y'i bwriadwyd yn naturiol orfoleddus yn ei gyfansawdd; nid yw techneg neu gynneddf rheswm yn medru ymestyn y tu hwnt i ofod ac amser; ond ceir cynneddf gan ddyn – yn ei ysbryd 'marw' neu 'gysglyd' – lle y gall yr Ysbryd Glân dynnu arno ef. Cynneddf yw sy'n o debyg i'r *sensus divinitatis*. Cynneddf yw sy'n aros, ac yn disgwyl am yr un a addawyd, ac yn cyffwrdd.

Cyfnewidir y rhagdybiau afresymol sydd wedi bod yn rhwystr hyd yn hyn. Mae yna ymyrraeth â sylfaen meddwl a byw ac ymagor oherwydd gweld rhywbeth yn nannedd pob rhwystr. Ac y mae'r gwelediad neu'r sylweddoliad yn torri'n agored 'ffydd' a'r ddealltwriaeth o'r Beibl. Goleuir gan yr Ysbryd Glân, a chaniateir i'r rheswm dynol weithredu'n fwy deallol ac yn fwy gostyngedig. Agorir y ffordd i wirioneddau ysbrydol a glowyd ynghynt. Nid oes maes a waherddir i'r gweithrediad hwn. Nid oes dim rhwystr mwyach rhag gorymdaith y Gwirionedd a'i werthoedd.

Beth felly yw'r gwahaniaeth rhwng Beibl yr Ysbryd a'r llenyddiaeth seciwlar gan fod y ddau'n agored felly i Ras Cyffredin?

Nid y testun yn unig yw'r gwahaniaeth gan fod a wnelo llenyddiaeth 'seciwlar' ei hun â phob pwnc dan yr haul, megis gan y Beibl yn y bôn. Presenoldeb perswadiol a bywhaol yr Ysbryd Glân yw'r allwedd i'r dirnad. Mae'n oruwchnaturiol am fod Duw goruwchnaturiol wedi'i gyflwyno.

Gwaith deallol ac ysbrydol yw'r Beibl sy'n rhagosodiad personol i filiynau o rai newynog. Mae gan bawb ragdybiau sy'n caniatáu rhyw fath o gred ar gyfer byw, gwybod, a deall unrhyw beth cyffredin wrth geisio'r gwir; ond yr Ysbryd Glân ei hun sy'n caniatáu gwybod am y 'Duw nas adweinigir', y Duw sy'n llywodraethu ar bob dim, ac yn newid popeth. Yr Ysbryd Glân yn anad neb a all argyhoeddi a hyd yn oed esbonio ansawdd dirgelwch y fath ffenomen, a'u digoni.

* * *

Ymdeimlwn yn yr Ysgrythurau fod yna gydweithrediad unol trefnol rhwng aelodau'r Drindod. Maent yn hollol Un, ac eto'n meddu ar swyddogaethau amrywiol. Fe gynhelir bedydd fel arfer yn enw Tri sydd ag un enw: '*gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.*'

(Math. 28:19). Maent yn cyd-fendithio: '*Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gyda chwi oll*' (2 Cor. 13:13). Pe gofynnid sut y mae'r gydberthynas hon yn bennaf ar waith, byddai'n rhaid nodi'r *cyd-dystiolaethu* arbennig rhyngddynt: '*Oherwydd y mae tri sy'n tystiolaethu, yr Ysbryd, y dŵr; a'r gwaed.*' [Cyfieith. W.M. 'y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân'. Defnyddid y term 'dŵr', oherwydd bod bedydd dŵr yr Iachawdwr yn arwydd o dröedigaeth, mae'n debyg. 'Iesu'r Bedyddiwr' oedd ef.] *ac y mae'r tri yn gytûn. Os ydym yn derbyn tystiolaeth pobl feidrol, y mae tystiolaeth Duw yn fwy. A hon yw tystiolaeth Duw: ei fod wedi tystio am ei Fab. Y mae gan y sawl sy'n credu ym Mab Duw y dystiolaeth ynddo'i hun*' (1 Ioan 5:7-10); '*Pan ddaw'r Eiriolwr a anfonaf fi atoch oddi wrth y Tad, sef Ysbryd y Gwirionedd, sy'n dod oddi wrth y Tad, bydd ef yn tystiolaethu amdanaf fi. Ac yr ydych chi hefyd yn tystiolaethu, am eich bod gyda mi o'r dechrau*' (Ioan 15:26-27). '*Bedyddiwyd Iesu, ac yna, pan gododd allan o'r dŵr; dyma'r nefoedd yn agor iddo, a gwelodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen ac yn dod arno. A dyma lais o'r nefoedd yn dweud, "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu."*' (Math. 3:16-17). Yn sicr, yr Arglwydd sydd yn un Duw; ond gall sôn amdano'i hun yn y lluosog; ac y mae'r undod/lluosog hwnnw yn ymestyn allan i'w ragluniaeth ddaearol yn dystiolaeth berffaith. (Gen. 1:26; 3:22; 11:7).

Person yw'r Ysbryd Glân fel pob aelod arall o'r berthynas hon yn y Drindod. Down i grediniaeth yn ysbrydol drwy ddarllen y Gair dan fendith y trydydd. Credwn – drwy weddi a myfyrdod, a thrwy waith personol yr Ysbryd – fod modd inni glosio at bob un, at y Tad, ac at y Mab. Crefydd bersonol dragwyddol yw Cristnogaeth. Yn ganolog, mae a wnelo hi â pherthynas, a hyfforddir perthynas ysbrydol gan yr Ysbryd Glân yn anad neb. Colli perthynas a wnaethpwyd yn Eden: adfer perthynas a wnaethpwyd ar Galfaria. Cariad tadolaeth a gofal Duw at bechadur, dyna a ysgogodd yr Ymgawdoliad a'r Marw Iawnol ar y pren. A chariad ar ein rhan drwy'r Ysbryd arbenigol tuag at Dduw sydd mor *drugarog* (hynny yw, mor gariadus at *dru* neu *druan*), dyna yw calon ein gweithgareddau ysbrydol ni.

Er bod pob aelod o'r Drindod yn agosáu atom felly oherwydd y gwaed a roddwyd drosom, gwelwn wedi'r cwbl mai person gwefreiddiol llachar yr Arglwydd Iesu fu'r un egluraf ei natur o fewn ymateb personol yr emynwyr ar hyd y canrifoedd. Am ei fod mor debyg i ni yn Ei ddynoliaeth, haws yw i ni gyda hwy Ei adnabod a'i goleddu yn y galon. Drwyddo Ef yr awn at y Tad. Felly, yn ein defosiynau, drwy hoelio'n llygaid arno Ef, drwy ddilyn Ei hynt ar y ddaear, drwy syllu ar y Groes a gwrando ar ei eiriau, mae Ef o hyd yn tystiolaethu mewn modd arbennig dros y Duwdod. Ond drwy gymorth gostyngedig yr Ysbryd Glân y gwyddom hyn oll: Ef yn gudd sy'n eu hamlygu oll i'r galon.

Eto, fel y mae'n rhaid i'r aderyn wrth wybren gyfan i hedfan, felly y'n gosodwyd ni yn anadl yr Iesu i fwynhau Duw. Fel nad yw'r pysgodyn yn gartrefol ond mewn dŵr, felly y'n newidiwyd ni fel na allwn anadlu ond mewn tragwyddoldeb ysbrydol. A'r Ail Berson godidog hwn yw'r Un penodol y mae'r Trydydd yn Ei ddyrchafu i gredadun anadlu drwyddo.

YR EGLWYS

Ym mryd rhai pobl, pan fyddir yn sôn am yr Eglwys, yr hyn sy'n dod i'r meddwl yw adeilad, ac efallai'r bobl sy'n ymgynnull ynddi. Ac wrth gwrs, pryd bynnag y mae pobl yn ymgynnull i gyd-addoli ac i gyd-wasanaethu, y mae'r angen am drefnu yn sicr o ddod i'r golwg. Y mae a wnelo â pherthynas dyn a chyd-ddyn ac â chyd-reolaeth (a rheolau). Ac yn y drefniadaeth ffurfiol honno y tueddwn weithiau i synied am gorff eglwys yn weithredol. Ond cymdeithas yw Eglwys.

Mae'r Ysbryd Glân, yn ei waith llenyddol o lunio a chyflwyno'r Beibl inni, yn darparu cyfarwyddyd ynddo ynghylch diffinio eglwys, ac yn dewis rhoi cryn sylw hefyd i'r drefn a'r wedd Foesol ar yr Efengyl ac ar gyfarwyddo dyn yn ei ymddygiad cymdeithasol. Dyma eto yn benodol un o'i swyddogaethau mwyaf diwygiol, er mai ychydig a fyddai'n meddwl yn syth am y 'Ddeddf' wrth fyfyrion am yr Ysbryd. Yr eglwys gyntaf yw'r eglwys anweledig ymhob rhan o'r byd a'r nef.

Rhodddwyd gorchymyn clir i'r Eglwyswr. Lluniodd yr Arglwydd Iesu grynoded o'r Gyfraith fel hyn: *'Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl. Hwn yw'r cyntaf a'r gorchymyn mawr. A'r ail sydd gyffelyb iddo: câr dy gymydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn, y mae'r holl gyfraith a'r proffwydi'n sefyll.'* Dyma ffordd gadarnhaol i'r ddwy ran gymdeithasol (Duw a chymydog) sydd i'r deg gorchymyn. Dyna hefyd gyfarwyddyd i'r Eglwys. Hyn sy'n diffinio'i gwaith. A thrwy'r disgrifiad o'i bywyd y deallwn natur Eglwys.

Yn y fan arbennig hon y mae gofyn inni ystyried yr ail orchymyn o ddfrif: y dystiolaeth gyda phobl. Dywed yr Arglwydd fod yr ail yn gyffelyb i'r gyntaf. Ac mae'n wir, pe cedwid y gyntaf yn iawn, fe gynhwysai'r ail. Mynnodd yr Arglwydd dynnu sylw at gyd-arwyddocâd y ddwy ran. Ac y mae'n amlwg, yn ôl y deg gorchymyn – megis y'u dehonglir hwy yn yr holl Bregeth ar y Mynydd – nad oes a wnelo Ysbryd Cristnogaeth ag ymgyfyngu i faterion yr ysbryd, gan anwybyddu anghenion y corff. Mae'r Ysbryd Glân yn dra ymarferol yn y byd corfforol. Person cyfan yw'n cymydog ni: nid ysbrydol yn unig. Ni chilia'r Cristion i'r cyflwr mewnol gan adael yr allanol i rywrai eraill. Mae'n gwbl eglur yn ôl 'Dameg y Samariad Trugarog' pwy yw'n cymydog a bod gan y sawl y closiwn ato anghenion corfforol. Nid oes yr un esgus i Eglwys dros ymgyfyngu i alwadau mewnol yn unig, i iachawdwriaeth ysbrydol, ac i dröedigaeth, os yw corff y cymydog yn anghenus. Tystiolaeth wael fyddai hynny o'r bywyd Cristnogol ac o genadwri drugarog ac Ymgnawdoliad yr Arglwydd Iesu. Diau mai er gogoniant i Dduw y gwneir popeth gan Gristion; ond fe bortha'i gydddyn oherwydd ei fod yn ei garu hefyd, ac yn ei garu o'r galon fel person. Un o brif ddiddordebau'r Ysbryd Glân yn ein bywydau yw'r dimensiwn corfforol ymarferol hwn – ynghyd â'r ysbrydol; y berthynas rhwng dyn a dyn. Plant yr Ysbryd Glân yw'r Eglwys, yn gyrrff ac yn ysbrydoedd.

Beth yw agwedd ysbrydol y sawl a drodd at Grist ac a'i carodd? Mae'n derbyn Cymdeithas â

Duw yn gyntaf. Ac yn sgil hynny mae'n derbyn Cymdeithas â Chyd-ddyn. Ond sut?

Crynoir yr ateb yn Effesiaid 5:21, '*Gan ymddarostwng i'ch gilydd yn ofn Duw*'; a thrachefn yn 1 Pedr 5:5, '*Byddwch bawb yn ddarostyngedig i'ch gilydd*'. Dyma'r allwedd a chrynodeb o galon y berthynas. Mae gan y drafodaeth yn Effesiaid, yn arbennig, arwyddocâd cyfoethog estynedig yn deuluol ac yn wleidyddol gymdeithasol. Mae a wnelo hyn, i'r unigolyn ac i'r eglwys, ond hefyd â pherthynas ffeminyddiaeth a democratiaeth fel ei gilydd. Dyma hefyd estyniad ac eglurhad i'n perthynas garwriaethol: i'r berthynas mewn perthynas. Caru yw sy'n ewyllysio bob amser wasanaethu a pharchu'n ymarferol yng ngoleuni Duw. Ymostwng ysbrydol yw un o'r arweddau creiddiol yn y ffenomen o berthynas rhwng parau: ymostwng bawb i'w gilydd heb drais a chyda pharch. Mae'n bwysig bod pob eglwyswr yn meddwl am hyn yn gyson feunyddiol; ac yn y byd modern, byddir yn gorfod ystyried hefyd nid yn unig sut y gall gyflawni hyn yn bersonol ac yn breifat, mewn byd o gystadleuaeth a thrais a threchu, ond hefyd sut y gellir trefnu a chydweithredu ag eraill i wneud y gwaith yn fwy effeithiol drwy gymdeithas yr eglwys. Dyma ran o 'gynnwys' addoli, ac o ansawdd y berthynas.

Ar un adeg yn ddiweddar ciliodd Cristnogion uniongred, a ganlynai ffydd Feiblaidd yr oesoedd, rhag cael eu llyncu gan faterion 'cymdeithasol'. Ymroddent i addoli. Mewn rhai sectorau meddyliol oherwydd y pwyslais dyneiddiol materol lethol gan yr hyn a elwid yn 'efengyl gymdeithasol', teimlent nad oedd honno yn 'efengyl ddibynnol (i'r gymdeithas)' o gwbl. Yr oedd mewn gwirionedd yn hen 'efengyl amddifad.' Yn gydwobodol, dacw rai a oedd yn Gristnogion 'uniongred' yn 'ddiwinyddol' yn awr, yn teimlo'r angen eithafol i ganoli sylw ar yr hyn a gyfrifent yn galon yr efengyl: sef yr ysbrydol, gan adael i'r wedd bersonol neilltuedig goleddu 'efengyl *anghymdeithasol*' heb Benarglwyddiaeth Duw ar 'bopeth'. Eithr cambwyslais oedd hyn eto a ddô'n adwaith o sylwi'n ormodol ar yr hyn a wneid gan grefyddwyr arwynebol.

Gwiw yw cofio bod yr Ysbryd Glân yn Benarglwydd ar bob rhan o fywyd, a'i fod am inni garu personau cyfan heb sibrydiad o sarhau. Cymdeithasol yw'r Ysbryd wrth natur. Ond yr Ysbryd Glân hwn sy'n sancteiddio y Cristion ym mhopeth. **Yn wir, fe â'r Arglwydd Iesu mor bell â dweud – pa beth bynnag a wnawn er lles unrhyw un o'i greaduriaid lleiaf Ef, fe'i gwnawn iddo Ef.** Lle bynnag y ceir Cristnogion ceir Eglwys. Sancteiddhad yw canoli Cristnogaeth yn ymarferol ar Grist: hyd yn oed yn ein gwaith a'n hamddena bob dydd, Crist ynom ni yw'r man cychwyn ymarferol. A pheth felly yw'r Eglwys, – creadigaeth bennaf yr Ysbryd Glân ar y ddaear yn ymneilltuo, ac yn y cynulliad, ac yn y gymdeithas y tu allan – wedi'i sefydlu er gwasanaeth ac er clod i Grist. Cymuned yw o dröedigion.

Er yn gynnar iawn, fe fu'r Eglwys, sef pobl yr Ysbryd, yn tystiolaethu am y Crist gostyngedig hwn heb fod yn wasaidd. Caent ffydd o'i adnabod Ef, o glywed ei eiriau, a gweld ei

wyrthiau trugarog. Efô oedd y Crist y buont yn disgwyl amdano cyn ei ddod, nid yn ôl rheolau eithr yn ôl deddf yr Ysbryd. Efô yn awr wedi'i ddyfod oedd yr Un a adnabuont hwy, ond na ellid tystiolaeth amdano heb yr Ysbryd. Sef y Crist gweithredol – yn dweud ac yn gwneud, y Meseia nas adnabuwyd, ond wedi dod bellach i lawr i ganol y byd, drwy Eglwys.

Dyma'r Meseia a ganfuwyd gan Ioan Fedyddiwr drwy'r Ysbryd ac yr aeth at y bobl i'w gyhoeddi: *'Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd!...Yr wyf wedi gweld ac wedi dwyn tystiolaeth mai Mab Duw yw hwn'* (Ioan 1:29,34.). Nid oedd Andreas yn hir cyn sylweddoli a thystio i'w frawd, *'Yr ydym wedi darganfod y Meseia'* (Ioan 1:41); a'i ddilyn yn fuan gan Philip a Nathanael (Ioan 1:45), *'Yr ydym wedi darganfod y gŵr yr ysgrifennodd Moses yn y Gyfraith amdano, a'r proffwydi hefyd.'* Dyma ledu ystyr grŵp. Dyma ddechrau'r Eglwys Gristnogol yn benodol. Y wraig gyntaf i dystio am hyn oedd yr un yn Samaria, *'onid hwn yw'r Crist?'* (Ioan 4:29), ac fe'i dilynwyd gan Samariaid eraill. Ac yna yn llawnder ei orfoledd, Pedr, *'Yr ydym wedi dod i gredu, a gwybod mai ti yw Sanct Duw'* (Ioan 6:69). Yr ydym yn sôn am symudiad enfawr yn hanes meddwl y byd; a datguddiad mewn ardal fach ddiarffordd, o'i chyferbynnu â lle megis Rhufain. Angorir pob gwir wasanaeth cyflawn i gyd-ddyn mewn perthynas â Christ yn y geiriau hynny. Dyma'n tystiolaeth i hadau'r Eglwys. Hwyl yw'r surdoes. Y Meseianiaid dilys yn ymgasglu i'r byd.

Dyma felly Grist a oedd yn fwy o lawer na chymwynaswr dyngarol. Arweinydd Eglwys oedd. Ac Ef a enwai ac a esboniai gymeriad newydd yr holl aelodaeth.

Dichon mai Efengyl Ioan yw'r un sy'n treiddio fwyaf o bob un i'r dyfnderoedd wrth dystiolaethu mor groyw am berson a natur ddwyfol yr Iesu. Ioan hefyd biau'r Efengyl sy'n rhoi'r pwyslais pennaf o bob disgybl ar yr Ysbryd. Yn ei adnabyddiaeth feunyddiol, go brin fod neb a fu'n nes at yr Ysbryd na'r disgybl annwyl Ioan. A thystiolaeth i hynny oedd yr efengyl a roddodd ar femrwn: *'y mae'r rhain wedi eu cofnodi er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw ef'* (Ioan 20: 31). Pobl yr holl fywyd hwn oedd yr Eglwys. Hwyl fyddai'n ei gyflwyno ar y ddaear, ac ar ôl iddo 'ymadael'.

Felly, pe gofynnid ar y pryd beth yn benodol ymhlith athrawiaethau'r Gair yr oedd ac y mae'r Eglwys yn fuan iawn yn tystio yn *bennaf amdano*, diau fod yr ateb yn syml. Beth yw'r athrawiaethau mwyaf diffiniol i Grist? Yr Ymgawdoliad, y Farwolaeth Iawnol, a'r hyn a oedd yn amlycaf ar y pryd, sef yr Atgyfodiad. Ond dyrchefid y Gyfraith hefyd. Roedd tystio i hynny yn ddiffiniol i Daith Apostol. Dyna'r siars a roddwyd i'r gwagedd o dystion hwythau (Math. 28:7,19-20): *'Ewch ar frys i ddweud wrth ei ddisgyblion, "Y mae wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw...Ewch, gan hynny, a gnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser".'*

Hynny yw, gwnewch gyd-Gristnogion. Dyna'r siars i'r Eglwys. Tystiwch.

Mae Paul yn manylu ar y dystiolaeth: (1 Cor. 15:3-8): *'Oherwydd, yn y lle cyntaf, traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau: iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr Ysgrythurau: ac iddo ymddangos i Ceffas, ac yna i'r Deuddeg. Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o'i ddilynwyr ar unwaith – ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er bod rhai wedi huno. Yna, ymddangosodd i Iago, yna i'r holl apostolion. Yn ddiwethaf oll, fe ymddangosodd i minnau hefyd, fel i ryw erthyl o apostol.'*

Dyna siars fythol i'r Eglwys. Roedd y term 'tyst' ei hun yn allweddol: (Luc 24:48): *'Chwi yw'r tystion i'r pethau hyn.'* (Act.1:8) *'Fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear'* (Act. 2:32). *'Yr Iesu hwn a gyfododd Duw, rhywbeth yr ydym ni oll yn dystion ohono'* (cf. Act. 10:40-41; 13:30-31; Rhuf. 10:9; 1. Cor. 15:14).

Y dystiolaethwyr eu hunain oedd aelodau'r Eglwys drwy'r Ysbryd i bob pwrpas o'r dechrau. Gellid helaethu ar y ffaith hon fel gwedd sylfaenol ar fodolaeth yr Eglwys Fore. A bellach, hyd yn oed heddiw, mewn ffordd arall, y mae'r rhai y bywhawyd eu hysbrydoedd yn dal yn dystion newydd i'r Iesu byw hwn. Ni all yr Iesu atgyfodedig fod yn ffaith effeithiol real yng nghalon y credadun heb i'r Ysbryd ei symud. Rhan bwysig o swyddogaeth pob Cristion yw tystio i hyn yn ei fywyd a'i waith. Dathlu'r atgyfodiad hwnnw a wnawn bob wythnos wrth gydnabod y Sul. Atgyfodiad o'r marw yw cnewyllyn pob athrawiaeth. Yr atgyfodiad sy'n bywhau sêl Iachawdwriaeth. Hyn sy'n cyfrif am yr 'Eglwys'. Drwy'r dystiolaeth hon y mae bywyd ymarferol hefyd yn cael ei weddnewid o'r brig i'r bôn. Drwy angori yn y gwirionedd hwn, y disgyn sawr Crist ar fywyd y Cristion tlawd.

Er mwyn dystiolaethu amdano, felly, rhaid yn gyntaf fod yn *dyst*, sef meddu ar dystiolaeth fyw yn y galon. Ceir 70 miliwn yn Tsheina y funud yma. Ond dichon yn hanes yr Eglwys, mai coron y tystion hyn oedd y merthyron. A choron y merthyron oedd yr Ysbryd. Hwyl a gyflwynodd y dystiolaeth bersonol fwyaf grymus, mae'n siŵr. Ac mae'n nodedig mai'r un gair, sy'n golygu 'merthyr' mewn tri lle yn yr Actau a'r Datguddiad, sy'n golygu 'tyst' ym Mathew (dau le), Marc, a Luc; chwe gwaith yn yr Actau, yn Corinthiaid, Thesalonïaïd 1, Timotheus 1; heblaw manau eraill. Pregethu drwy weithred ddigyfaddawd o'r galon a wnâi'r 'merthyr'. Ac felly, heblaw *bod* yn dyst, y mae tyst wedyn yn corffori dystiolaeth mewn gweithred o garu hyd yr eithaf. Brodyr i ni yw'r rhain.

1 Ioan 5:1, *'Pob un sy'n credu mai Iesu yw'r Crist, y mae wedi ei eni o Dduw; ac y mae pawb sy'n caru tad yn caru ei blentyn hefyd.'* 9-10, *A hon yw dystiolaeth Duw: ei fod wedi tystio am ei Fab. Y mae gan y sawl sy'n credu ym Mab Duw y dystiolaeth ynddo'i hun. Y mae'r sawl nad yw'n credu Duw yn ei wneud ef yn gelwyddog, am nad yw wedi credu'r dystiolaeth y mae Duw wedi ei rhoi.'* Y rhain yw'r Eglwys.

Os yw dod yn aelod o'r Eglwys yn golygu bod rhywbeth wedi digwydd ym mywyd pechadur, dichon nad anghywir fyddai synied bod hwnnw yn dod felly yn dyst fel arfer. Mae tystiolaethu yn un o briodolddau Cristion aeddfed. Person yw Cristion y tystiolaethwyd iddo; a hwnnw mwyach a gafodd yn ei dro y wybodaeth a'i gwna yntau'n dyst ei hun hyd yr eithaf.

A dyma ni yn wynebu drachefn y diffiniad o Gristion ac o Eglwys. Neu mewn geiriau eraill, dyma'r ystyr i aelodaeth o gorff Crist. Sut y deuir yn Gristion? Ai drwy ryw seremoni? Ai drwy ymrwymo i ryw gytundeb neu greddo'n gyhoeddus? Ai drwy weithred gan swyddog a benodwyd i gyflawni'r weithred hon? Prin bod neb yn Gristion cyflawn heb dystio, drwy ffrwythau'r Ysbryd.

Wynebair yn y fan hon broblem trefn ac undod a chyd-ddealltwriaeth eglwysig. Sut adnabyddwn ein gilydd? Onid drwy ddweud (cyffesu) rhywbeth? Sut daethom yn aelod o'r eglwys?

A! dyma her arall. Gobaith rhywrai yw gweld aelodaeth a 'chyfamodaeth' (cytundeb ysgrifenedig neu lafar i gyffes) yn un. Gobaith naturiol yw hyn, cyfleustra trefnol hefyd, efallai gobaith a all fod yn beryglus neu'n gamarweiniol o ymhongar, ond gobaith digon 'priodol' yr un pryd. Ond gwylir rhag i waith a gair dyn ymhonni'n ormodol. Troer yn ôl at yr ysgrythur am ein seiliau i hyn oll, ac fel y bydd yr arbenigrwydd a rydd eglwysi efengylaidd ar 'ddod yn wir aelod' (term cysgredig), yn y ffordd a ddatgano Duw, felly yr amlygir o'r newydd y diffiniad ysbrydol, fel y dylid. Hyn yw 'gwneud aelod' – **gweithred gan Dduw**, wedyn gan ddyn. Corff Crist yw'r Eglwys.

Eto, yn yr un modd, braf yw bod cynulladau o'r un ffydd yn helpu'i gilydd ym mhob man, bod yn gyd-eglwysi efallai'n cydweithredu (cyfamodi) a hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, i gasglu gyda'i gilydd dros y genhadaeth, i gyhoeddi cylchgrawn neu lyfrau, i drefnu cynadleddau a gwersylloedd, i gymdeithasu, i weini. Pethau ymarferol iawn a hyfryd a phleserus hefyd. A chyd-addoli mewn cynulliad. Dyna hefyd waith yr Ysbryd ymhlith y bobl, i uno'n wirfoddol 'rydd'.

*

*

*

Tystiolaeth y Gair sy'n diffinio bod y fath beth â Christnogion yn bodoli gyda'i gilydd am reswm digon cyfriniol. *'Aelodau ydym o'i gorff ef,'* (Effesiaid 5:6); a'r Ysbryd fel y gwelsom sy'n troi rhywun yn aelod, y corff yn gweithio. Ni ellir dweud dim pwysicach amdanom. Ac ni ddeuwn yn aelodau o'r eglwys leol mewn ffordd wahanol i aelodaeth o'r eglwys anweledig a thragwyddol. Byddai'n anghywir hollol ein twyllo'n hun fod corff Crist yn y lle-a'r-lle yn gosod amodau swyddogol, sydd yn wahanol i Air Duw yn gyffredinol ymhobman arall. Ac nid yw'n ei wneud.

Sôn yr ym, hyd yn oed mewn Eglwys a gafodd ei llunio o ddefnyddiau personol dilys, am Drefn y Cadw unigol yn dod i aeddfedrwydd ysbrydol bob tro rhwng dyn a Duw. Cymdeithas yw o gyd-gredinwyr. A'r tu ôl iddynt, cafwyd argyhoeddiad mawr ac ymrwymiad.

Pan fyddaf yn myfyrio am Swyddogaeth Gyffredinol yr Ysbryd Glân, bydd fy meddwl meidrol yn troi at nifer o bynciau thematig pwysleisiol: y Greadigaeth, awduraeth y Beibl, ysbrydoli

Tröedigaeth waredigol bersonol, Sancteiddhad personol a chymdeithasol, Adeiladu-cenedl, (Israel yr Iddewon ac Israel y Cristnogion), y Gorchymyn Diwylliannol; ac yna, Diwygiad adfywiol a'r Eglwys yn gynulledig, wrth gwrs. Peth cymdeithasol yw diwygiad, a phersonol hefyd – lle mae'r hyn sy'n digwydd i'r unigolyn, mewn tröedigaeth, yn digwydd ar raddfa fawr. Daeth y diwygiadau dilys yn fath o obaith i eglwysi.

Sylweddolaf fod yna fwy o bwyslais yn y Beibl ar y wedd diwylliannol ar y bywyd Cristnogol ac ar Ras Cyffredin nag a geir gan rai Cristnogion Cymraeg. Ac eto, fe geir presenoldeb *Cymreig* yn y deyrnged i berthynas Diwygiad a Chymdeithas mewn dau feddylfryd. Dylanwad R. Tudur Jones (a ysgrifennodd gyfrol fach nodedig o amlochrog ar *Yr Ysbryd Glân*) a arweiniai un am gyfnod yng Nghymru. Priodol yw sylwi ar osgo bwylllog a gwerthfawrogol R. Tudur Jones wrth sôn am symudiadau'r Ysbryd Glân yn y byd cyfoes. Mae'n osgoi bod yn rhy ddogmatig am bethau na allwn eu deall yn llawn. I'r carfan hwn, Adfywiad diwygiol 'ddylai fod ar y blaen, ond heb anghofio *Sancteiddhad catholig* megis mawrygu'r tlodion a'r anghenus. Ond yr oedd yna osgo arall hefyd. Golygai'r pwyslais ar Gymdeithas fod Cenhadu hefyd yn flaenoriaeth. Mi gredaf mai dylanwad yr Hen Brinceton (drwy gyfrwng Seminari Westminster, yn arbennig Cornelius Van Til) a oedd yn gyfrifol am y pwyslais hollfyd-gynhwysol hwn.

Diau, yn y cyfnod diweddar, i'm bryd i, fod yr ymwybod o waith a golwg ar yr Ysbryd Glân wedi cael ei ddylanwadu hefyd yng Nghymru gan frwdfrydedd a dylanwad aruthrol Martyn Lloyd-Jones. Hynny hefyd sydd wedi dylanwadu ar weledigaeth y Mudiad Efengylaidd. Yr oedd Dr Lloyd-Jones, yn ogystal â bod yn bregethwr disglair, hefyd yn awdur, yn ddarlithydd, ac yn feddyliwr craff iawn; yr oedd yn ogystal yn arweinydd dihafal. A mynnai roi ei bwyslais ar yr angen am Ddeffroad, a gweddi am Ddeffroad, heb osgoi her yr ymennydd. Cynghorai ef y gweinidogion a'i hedmygai i astudio hanes a natur yr adfywio diwygiol yn y gorffennol ledled y byd, ond yn arbennig ym Mhrydain. Plannai hiraeth penodol ynddynt. Tarddai hyn ganddo i raddau o arweiniad dau gyfeiriad go amlwg: y Pentecost (Act. 2) ei hun, a'r pwyslais hanesyddol Cymreig a gafwyd gan y Diwygiad Mawr yn y Ddeunawfed Ganrif. Yn hanesyddol ac yn anochel, un o brif weithiau'r Ysbryd Glân erioed, yn ddi-os, fu adeiladu maint, siâp, a natur oedfaon yr Eglwys. A dewisodd yr Ysbryd wneud hynny drwy Adfywiadau, boed yn ddistaw neu'n gyffrous. Yn ei gyfrol ei hun, *The Holy Spirit*, 2011, cafwyd golwg ar y briffordd adfywiol Gymreig gan fy nghefnder Geoff Thomas, yntau hefyd yn ymwybodol o'r golwg byd-eang. Fel ei fentor, Dr Lloyd-Jones, pwysleisiai addaster Diwygiad diwinyddol, cymdeithasol, a phersonol serchiadol. Y thema Feiblaidd waredigol, a oedd ar y blaen drwyddi draw (er gwaethaf pennod sy'n trafod 'Y Byd' yn gadarn).

Mewn man arall, clywais Geoff Thomas yn dadlau mai'r unig ddiwygiad adfywiol unigol ar raddfa boblog a gafwyd yng Nghymru'r ugeinfed ganrif, ac a oedd yn gwisgo'r cyfuniad o feddwl a

phrofi gyda dyfnder arhosol ar draws sbectrwm eang o'r gymdeithas leol, oedd yr un a ddechreuodd yn Sandfields, Aberafan.

Byddwn i'n tueddu i ychwanegu un symudiad ychwanegol a ymgysylltai â hyn. A hynny oedd deffroad llai ond deublyg a gafwyd wrth sefydlu'r Mudiad Efengylaidd, ar y naill law yng Nghymoedd Gwendraeth ac Aman, ac ar y llall ymhlith grŵp o fyfyrwyr ym Mangor. Ynghyd.

Nid dyma'r lle i amlinellu hanes cymhleth efenglyddiaeth yng Nghymru ddiweddar. Ond rhan ddiddorol o'r symudiad hwn oedd pwyslais cyson Dr Lloyd-Jones ar fyfyrion am hanes efenglyddiaeth yng Nghymru a lleoedd eraill fel ysbrydoliaeth, megis y bu yn y Beibl, ac fel pwynt myfyrdod ysbrydol. A thanlinellai ef ddeffroadau diwygiol fel canolbwyntiau addysgol. Math o ddiwygiad fu sefydlu'r Eglwys Gristnogol ei hun yn hanes Ewrob. Mewn diwygiad personol cymdeithasol y ceid cynhwysion tarddiol a datblygedig yr Eglwys erioed. Yn Sandfields, nid gormod yw dweud inni brofi'n ddiweddar feicrocosm o broses eang.

Ym mryd gwrthwynebwyr anochel Dr Lloyd-Jones, mae hanes ei fywyd yn dechrau iddynt hwy pan oedd yn 67 oed ym 1966. Dyma'r pryd y cafwyd Cynulliad enwog gan y gyngres Efengylaidd. Yno apeliodd Dr Lloyd-Jones at yr efengyleiddwyr i glosio at ei gilydd ac i uno rywfodd, beth bynnag oedd eu henwad, o dan ddysgeidiaeth yr Efengyl. Nid sefydlu enwad newydd, sylwer. Ond ymateb yr oedd i angen credinwyr cryf i sefyll yn driw mewn cyfnod gwir gymysgld yn grefyddol. Erbyn 1966 yr oedd symudiad amlffydd a relatifrydd, cyfaddawd a sgeptigrwydd Ôl-foderniaeth ail hanner y ganrif yn cyfarfod ag eciwmeniaeth weinyddol hanner cyntaf y ganrif. Gwelai Lloyd-Jones nad sefydlu enwad newydd oedd yr angen taer a chywir mwyach, eithr sefydlu **undod crediniol goruwch enwadaeth**. Caed llawer o bregethu ganddo ar yr Undod dwfn a oedd yn bosibl ac yn angenrheidiol. Bu'n emosiynol deyrngar i Gymru gydol ei oes. Ar ôl ymaelodi yng Nghyfundeb y Methodistiaid yn Chwefror 1914, arhosai'n aelod yn Charing Cross Road nes ei ordeinio yn yr enwad yn 28 oed. Mae'n wir iddo symud i Gapel Westminster yn 39 oed, ond nid capel mewn enwad oedd hwnnw. Arhosodd felly yn ei hen enwad. Ac yn 78 oed, pan dderbyniodd ef gyfarchion gan Gymdeithasfa De Cymru ar hanner canfed pen-blwydd ei weinidogaeth, ymatebodd ef gyda 'gwerthfawrogiad dwfn', tan gyfeirio at yr enwad a'r 'connection of which I pride myself in being a member'. Ni wadodd ei wreiddiau.

Y gŵr a ddylanwadodd fwyaf ar Martyn Lloyd-Jones (heblaw ei deulu) cyn iddo droi at Feddyginiaeth, oedd yr athro mwyaf athrylithgar yng Nghymru mewn unrhyw bwnc, sef S.M. Powell. Dichon mai ef yn Ysgol Tregaron, ym marn ambell un, oedd yr athro o Gymro mwyaf blaenllaw mewn Cymraeg, Saesneg, a Hanes ledled Cymru ar y pryd. Hwn a gyflwynodd Howel Harris a Williams Pantycelyn i'r Martyn ifanc. Tipyn o fraint gellid meddwl. Diau iddo glywed gan yr un athro am Daniel Rowland, pregethwr mwyaf Cymru ers oes Dewi Sant, a fu'n byw yn yr un

pentref â'r bachgen Martyn yn yr ugeinfed ganrif. Un o'i gyfeillion yn Nhregaron oedd E.T. Rees, yr un a ddywedodd wrth Dr Martyn Lloyd-Jones ei fod yn un o'i dröedigion cyntaf. Meddai wrth Lloyd-Jones, 'All I can say is that you have become to me, a brother... Is it not really wonderful? Especially when we realise that it is because we both love Him and found ourselves together at His feet.' Bu Tregaron yn ffactor eithriadol ym magwraeth y pregethwr mawr. Bu'n ysbrydiaeth ddiriaethol. Ond nid ffenomen yw Eglwys sy'n gyfyngedig i un lle. Yr hyn a sylweddola dau Gristion wrth gydnabod cariad at ei gilydd yn y ffydd yw eu bod bellach yn yr un teulu o ailanedigion. Undod yw rhwng pobl ffaeledig, sydd oherwydd yr Eglwys anweledig yn eiddo i'r Ysbryd, yn gallu dweud pethau anffaeledig ambell waith. Hynyna, ochr yn ochr â'r gweledig amherffaith, yw'r Eglwys Lân Gatholig.

DIFFINIO EGLWYS GYFFREDIN

Pwy neu beth felly yw'r 'Eglwys' Gristnogol Efengylaidd hon a ddylai dystiolaethu am Dduw yng Nghymru heddiw? Pwy yw'r aelodau? Duw a wŷr. Hwylw yw gwrandawyr a darllenwyr llais yr Ysbryd Glân yn yr amgylchfyd sydd ohoni. Hwylw biau tystiolaeth i'r oes hon. Pawb a ailanwyd felly: llythyrau Crist mewn amser.

Cysgodion o'r Hen Destament ydynt, y Deddfwyr a'r Proffwydi a'r Ysgrifenyddion lawer efallai, hyd at Ioan Bedyddiwr. Wedyn y disgyblion a'r apostolion yng nghyfnod y Testament Newydd i lawr dros y blynyddoedd ac i mewn i gannoedd o wledydd hyd at y saint symlaf, yn wŷr ac yn wragedd, dysgedig a gwreng ein dyddiau ni yng Nghymru. Tystion ydynt oll i Dduw'r Tad, i Dduw'r Mab, ac i Dduw'r Ysbryd Glân. Dyna'r Eglwys, eciwmenwyr mewn Hanes â brodyr neu chwiorydd drwy'r oesoedd.

Y gwir 'saint' yn yr ystyr Feiblaidd – o ba enwad bynnag – yw'r wir Eglwys. Gwelwn berygl ei diffinio fel arall drwy sôn am 'aelodaeth swyddogol' mewn Eglwys Gristnogol, 'drwy Fedydd', 'drwy ddweud rhyw eiriau', 'drwy siglo llaw' neu 'ddilyn cwrs paratoad.' Ofergoeledd i gyd. Archwiliwn y ffordd y disgrifia'r Beibl ei hun – 'aelodau o Gorff Crist'; a dichon y cawn ein synnu a'n goleuo. Cristion yw pob un a ailanwyd drwy genhedlu gan yr Ysbryd Glân. 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist.' Hwylw yw'r Eglwys Anweledig a Gweledig lle bynnag y bônt yn byw: neb arall. Ac ar yr eiliad a ddewisir gan Dduw, mae ef yn eu geni hwylw'n 'aelodau'. Duw a wŷr.

Mae R. Tudur Jones yn ei gyfrol fach, *Yr Ysbryd Glân*, un o brif glasuron defosiynol Cymraeg yr ugeinfed ganrif, yn nodi fel rhan o'i ddiffiniad o Eglwys: '*Presenoldeb grasol Iesu Grist yw unig amod anhepgor bod yn eglwys.*' Ac ystyr hynny yw bod yr Iesu byw ar waith yng nghalonau'i bobl. Dim arall. '*Yn y Testament Newydd pwysleisir bod yr holl gredinwyr yn cyfrannu o'r Ysbryd (1 Cor. 12:13).*' Ac am yr Eglwys, medd Tudur Jones, '*ei gwaith yw tystio i weinidogaeth*

achubol Iesu Grist. 'Beth ynteu yw lle'r Eglwys a'i gweinidogaeth?' gofyn Tudur Jones drachefn, ac etyb: 'Cyhoeddi (1 Cor. 2:4), *coffáu* (1 Cor. 11;26), *traddodi* (1 Cor. 15:3) a *thystio* (1 Cor. 1:6) yw ei braint hi.' A rhan bwysig o dystio yw trwy ffrwythau'r Ysbryd. Yr Ysbryd sy'n adnabod y plant.

Roedd y tair 'tystiolaeth' gyntaf a grybwyllwyd gennyf uchod yn adran bresennol y llyfr hwn yn syrthiedig ac yn ffaeledig. Profent ynddynt hwy eu hunain, y Synnwyr o Dduw, y Gydwybod, a'r Greadigaeth; ond nid hwy oedd nodweddion gwahaniaethol a hanfodol yr Eglwys er eu bod ynddi. Pethau naturiol gan ddyn oeddynt ill tair, a ffenomenau syrthiedig. Ond pan ddeuai'r plant dan awdurdod Gras Arbennig Crist, deuent yn Eglwys iddo.

Mae'r tair tystiolaeth nesaf ar eu hôl o ran y sylwedd – y Beibl, y Mab, a'r Ysbryd Glân – beth bynnag am fethiant dyn mewn dehongli – yn aros yn berffaith ac yn anffaeledig ynddynt eu hunain. O'u herwydd hwy y cawn y wir Eglwys sydd ynddi ei hun yn ei gwedd ddynol ymarferol yn ffaeledig, yn ceisio cyflwyno'r Gair anffaeledig yn ôl arweiniad yr Ysbryd, i Dduw gael ei anrhydeddu gan ddynion. Maent am fod yn fach fel y gall y Gair a'r Ysbryd fod yn fawr. Methu a wnânt, bid siŵr. Ac eto, cyn belled ag y gallant wneud yr hyn a fwriadant, dyma yn ddiâu a wnânt pan fônt yn ufudd ac yn unplyg ac yn **tystiolaethu yn ôl swydd yr Ysbryd i ras, gan golli'r hunan; hi yw'r briodferch ddifrycheulyd ei hun o ran potensial.** Hwy yw cludwyr y trysor.

Beth yw prif bwrpas yr Eglwys, te? Yr un yw hyn ag a gaed gan yr Ysgrythur ei hun, yr un ydyw â phrif bwrpas y Cristion unigol: **sef gogoneddu Duw a'i fwynhau Ef: dyrchafu'i enw Ef – Ei berson, Ei waith, Ei Air; a'i foli Ef o'r galon, gan ewyllysio, Ei wasanaethu Ef ym mhob peth, ufuddhau iddo a'i gydnabod Ef yn Benarglwydd pawb a phopeth. Hynny'n syml: Duw yn y canol.** Tystiolaethu'n weithredol iddo Ef wedyn, fel y cais y Beibl. Aelodau o gorff Crist yw pawb a all wneud hynny o'r galon. Mae'r 'Eglwys' yn preswyllo'n anweledig yn y cymdeithasau hyn.

Wedyn yn unig y trown at y cyfryngau a'r dulliau a'r amcanion tarddiadol mewn dynoliaeth, ac at borthi anghenion Ei bobl yn yr Eglwys ar gyfer *gogoneddu*. **Gogoneddu Duw** yw prif glymiad yr Eglwys: *Duw*, wedyn dyn. Byddaf rywsut yn anesmwyth, o ychydig bach, wrth glywed **iachawdwriaeth dyn** yn cael ei rhoi'n flaenaf, er bod tystiolaethu i hynny yn rhan hanfodol ac aruthrol bwysig o'r gwaith o ogoneddu Duw. Byddaf yn anniddig hefyd wrth glywed mai **pregethu a dysgu** yw prif ddiben yr Eglwys, er mai amlwg yw bod a wnelo hynny hefyd yn sylfaenol uniongyrchol â'r dasg o'i foliannu Ef a'i wasanaeth a'r ewyllys. Rhaid, yn flaenaf ac yn olaf, **Ei ogoneddu Ef â'r deall ac â'r serchiadau a'r ewyllys.** Ef yn y canol, – mewn elusen efallai.

Hynny yw, syniaf fod yna berygl wrth golli'r unplygrwydd canolbwyntiol sy'n angenrheidiol wrth gadw enw *Duw* bob amser ym mlaen y meddwl ac yn goron ar bopeth. Nid tystiolaethu i iachawdwriaeth 'dyn', yn fwy nag i sancteiddhad dyn, yr ydys yn flaenaf yn yr Eglwys. **Cynulliad o bobl yw'r Eglwys â'u bryd yn gyntaf ar dystiolaethu i fawredd a chariad a hollalluowgrwydd**

a thrugaredd a chyfiawnder ac anfeidredd rhinweddol a sancteiddrwydd rhyfeddol y Crëwr a'r Gwaredwr a'r Penarglwydd – y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.

Gwneir hynny yn bendant drwy gyhoeddi'r Gair. Ac estyniad o hynny yw'r ddau ordinhad – bedydd a chymun sanctaidd. Dyma gyfryngau gras, modd ordeiniedig gan Dduw i'w ras Ef gydnabod achub a chadarnhau, cyflwyno ac adeiladu iachawdwriaeth a sancteiddhad. Ordeiniwyd hwy yn unswydd **er mwyn iddo Ef gael ei ogoneddu**. Tarddiadol i hynny yw'r lles i ddyn. Ond wedyn, *gogoniant Duw* yn unig yw holl les dyn. Estyniad yw o'r ordinhadau. Estyniad o bregethu'r Gair. Estyniad o wasanaeth i gyd-ddyn. Tystiolaethant drwyddynt mewn gweithredoedd allanol amdano *Ef*.

Mae Gair Duw yn ganol i fyfyrddod a deall ac ysbrydiaeth yr Eglwys. Cludydd y Gair yw'r Eglwys. Ac fe'i gwna yn ôl yr hyn a gydnabyddir gan feirniaid fel Ymateb darllenyydd. Ac nid oes uwch galwad neu swydd na'r gwaith o dystiolaethu, yn wir na phregethu'r Gair hwnnw, fel y dywedodd 2 Pedr 1:21, '*Ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed trwy ewyllys ddynol: pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân.*' Drwyddynt y'i gogoneddir.

Wrth ddiffinio 'Eglwys', dichon fod y syniad o bennu'i hystyr yn beth sy'n cael ei osgoi gan rai capelwyr cyfoes. I mi, y mae trafod y fath ddiffiniad yn fuddiol ymarferol ac fe erys yn offeryn hunan-helffawr i'r sawl a feddylia amdano, oherwydd yr her sy'n gofyn eglurdeb. Pan soniwn am 'aelod o gorff Crist', ceir trafodaethau croes sy'n amrywio yn ôl materion go sylfaenol. Gan bwy y mae'r hawl i ddyfanu'n derfynol fater felly? Gwamalir yn gyffredin yn ôl yr 'adeilad' neu'r 'bobl'. Gyda'r 'bobl' disgwyliwn i gynnwys meddyliol ac athrawiaethol y term fod yn arwyddocaol. Bydd y math o brofiad teimladol a gawsant hefyd yn cyfrif yn allweddol. Ond yn achos yr Eglwys Anglicanaidd, sefydliad gwleidyddol yw ers Harri'r VIII, meddir. Dyma Eglwys a chanddi draddodiad nobl. Mae llawer o Gristnogion gloyw a chywir ynddi wedi gwneud cyfraniadau anferth i'r byd Cristnogol oll, rhai wedi cael eu harteithio am eu credoau Beiblaidd, a llawer yn bregethwyr uniongred glân. Ond y mae'r ffordd y gwneir 'aelodau' o gorff Crist yn yr Eglwys honno, ac o ddisodli Crist fel *Pen*, a'r unig Ben sy'n gwneud Cristnogion, yn niwlio'r dŵr ganddynt, mae arnaf ofn, ac yn chwithig drist. Hynny, ynghyd â'r canhwyllau, a'r bedydd Esgob, a'r pererindota, a'r gweddïo ar ran y meirwon ac i'r meirwon, a'r gwisgoedd, *a'r penaethod gan y frenhines sy'n mynd gyda'r swydd*: dyma ddieithrio'n wir, gan draddodiad.

Mae myfyrio am ystyr 'Cristion' neu ystyr 'aelod' yn gosod problem ddefnyddiol ddechreuol ar gyfer y dasg o'i ddiffinio yn yr amgylchfyd cyfoes. Myfyrdod yw sy'n mynd gyda'r penderfyniad i ddiffinio 'offeiriad'. Mae hefyd yn berthnasol, oherwydd trafodaeth gyfoes y byd oll am statws y fenyw yn y newyddion. Rhoddir ymddygiad yr Eglwys ynghylch hyn heddiw yn flaenaf o bopeth ym mryd rhai o'r tu allan ac o'r tu mewn. Dyma bwnc sydd ar hyn o bryd yn anghytwys o

ymrafaelus, ac yn cael ei amlygu drwy ffasiwn colli statws neu ennill. Tipyn o berygl yn fy marn i, yw i neb dynol sefyll fel barnwr a phennu pwy sydd 'i mewn' a phwy sydd 'ma's' o ran aelodaeth ar hyn o bryd. Ym mryd y Beibl, ni pherthyn y dasg o bennu aelodaeth neu esgobaeth i'r un swyddog nac i'r un pechadur meidrol. Gallwn 'ymateb' i bobl wrth gwrs, yn oddrychol drwy hawlio'u haelodaeth; a pheth anochel efallai yw pwyso a mesur ffrindiau yn ein meddyliau. Ond mae tybied ein bod ni o bawb yn gallu mynd ymhellach yn ddiffiniol derfynol ynghylch aelodaeth neu esgobaeth yn ormod o uchelgais.

Sut yr adnabyddwn Gristnogion wrth gyfarfod â hwy, yn arbennig os ydym am fod yn gatholig haelfrydig yn ein hagwedd? Yr ydym oll yn ddiffygiol. Iawn yr ydym yn gydwybodol ymatalgar rhag byth fod yn farnwriaethol. 'Wrth eu ffrwythau' – dyna'r ffordd y'u hadweinir; ond gan Un yn unig y gwyddys union werth hynny. Ochr yn ochr â'r athrawiaethol a'r profiad a'r parch at Air Duw, ynghyd â'r hiraeth am ufudd-dod i Dduw, mae yna rywbeth sy'n llawer mwy hydeiml o ansoddol: aileni. Er mor wylidwrs amheus – ac yn briodol felly – yr aethpwyd i ddirnad 'ysbrydoledd' a'r 'ymdeimlad o awyrgylch' a'r 'naws' a'r 'parch at y sanctaidd' gan rai o draddodiadwyr y ffydd, rhaid i mi gyfaddef imi adnabod llawer o bobl y mae duwioldeb yn llewyrchu ynddynt yn syml. 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fydd.' Hynny yw, aelod fyddi o gorff Crist, wedi'i impio mewn ffydd i wasanaethu. Mae llawer yn gallu mwynhau hynny.

Sut y gallwn fod yn sicr? Gall yr Ysbryd Glân gyd-dystiolaethu â'ch ysbryd chwi. Ond yr unig ateb priodol a gawn i ynghylch adnabyddiaeth statws Cristnogol rhywun arall fyddai ei fod yn ymddwyn mewn adnabyddiaeth megis pe bai pawb yn blant potensial i Dduw, ac mewn angen. Y Cristion yw'r un sy'n gwybod pa fath o angen sydd arno ac yn cyffesu bod ei bechodau wedi'u maddau. Pwy arall ond Duw sy'n gwybod yn ddi-ffael gyflwr calon dyn fel yna?

Os felly, sut y gall eglwys unigol ymdopi o ran trefniant ffurfiol ac ymarferol?

Buwyd yn sôn am yr Eglwys fel pobl a adweinir gan Dduw, ac nid fel adeilad yn unig (sef y Llan). Gellir synied amdani fel plant ysbrydol arbennig yr Ysbryd Glân. Adeiladwaith o *bobl* yw'r Eglwys: tystiolaethwyr sy'n ymostwng i Dduw ac i'w gilydd, adeilad o unigolion hardd eu credo ynghyd; yn y canol y mae'r Oen, y maen congl a wrthodwyd gan yr adeiladwyr esgeulus.

Gelwir y cynllun pensaernïol i'r Artistwaith hwn yn Drefn Eglwysig. Casglwyd nodiadau'r cynllun yn yr Epistolau gan mwyaf, er bod llawer o sylwadau ar y trefniant drwy gydol yr ysgrythurau, yma ac acw. Ond yr wyf am sôn am y ddwy wedd ar yr adeilad. Yn gyntaf, ar y brics – sef y bobl a'r dystiolaeth weddus y gelwir hwy i ddangos harddwch eu hadeiladwaith mewn ffrwythau. Ac yn ail, y sment sy'n ffaith o drefn, priodoliaeth y drefn, a'r ysbrydoliaeth sydd y tu ôl i'r drefn. Pwysa'r aelodau felly ar y brics crediniol; a'r *drefn* yw meddwl Crist.

Codir pob math o esgusodion coelgrefyddol dros 'wella' ar ddull Duw o wneud aelodau. Yn

yr amser gynt yr oedd 'traddodiad' yn gyfiawnhad i sicrhau trefn addas; yn wir, i 'wella' rhywun yn ysbrydol. Yn ein dyddiau ni, pledia rhai nad yw aelodaeth seml yn ôl trefn Duw ddim yn ddigon 'trefnus' effeithiol swyddogol i'n gofynion. Dyma, heb drefn ychwanegol, lwybr unigolyddol tuag at ddirywiad, meddant. Disgwylir moment pryd y deuir yn Gristion. Ond Duw yn unig a wŷr hynny. Rhaid ymwrthod â phob temtasiwn ofergoelus o fath arall i ychwanegu at ei drefn a'i arfogaeth Ef o ran hanfod, er bod twtio felly'n ymddangos ar yr wyneb fel pe bai'n golygu atgyfnerthiad neu atodiad o'n hynni ni ar yr wyneb. Rhy barod fu dynion ym mhob oes i honni bod eu syniadau hwy am y drefn Gristnogol yn rhagori ar syniadau Duw. Nac ofner cred yr anweledig.

Hanfodol yw gwneud ystyr aelodaeth yn Eglwys Dduw yn grisial glir a sicrhau ei bod yn unol â Gair Duw. Nid aelodaeth 'fel y mae'n arfer gennym' sydd dan ystyriaeth; ac nid dod yn aelod a wneir megis ymaelodi â chlwb golff. Nid digwyddiad allanol yw. Y mae gweithred yr Ysbryd Glân – ei brif waith daearol – yn fater rhy greiddiol yn yr eglwys i'w thrin yn null dyn. Mae'n bwysig hefyd yn rheolaidd *ddatgan* ac *esbonio* i'w phobl sut y deuir yn aelod o gorff Crist, yr impio, y peth goruwchnaturiol ac unigolyddol ac eithriadol bwysig hwn, boed yn y lle-a'r-lle, neu yn y man neu'r manau a fynnoch. A'r un ffordd sydd ym mhob man beth bynnag a ddywedo dynion. Ni ddylid twyllo neb drwy awgrymu mai un ffordd sydd yn y Beibl a ffordd arall gyda ni, megis 'rhoi enw ar y llyfrau'. Aelodaeth yw, neu a ddylai fod, yn un o'r gwahaniaethau pennaf rhwng eglwys efengylaidd a chapel rhyddfrydol a drefnodd ei aelodaeth ei hun. Duw sy'n trefnu aelodaeth Cristnogion yn gyfan-gwbl. Dylid pwysleisio ac egluro hyn i bawb sydd 'am fod yn aelod'. Ni ddylid esgeuluso hyn chwaith, nac ymddwyn fel pe na bai cwestiwn aelodaeth, ei natur a'i diffiniad, ddim yn eithriadol o bwysig.

Does dim o'i le o safbwynt hwylustod trefniadaeth, mewn sefyllfa leol neu ar raddfa letach rhwng eglwysi – hyd yn oed yn fyd-eang – inni ddewis cyfamodi â'n gilydd i bwrpas neilltuol. O'r dechrau cyntaf ymffurfiodd Cristnogion yn gymdeithasau bychain trefnus o fynychwyr a brofodd ffydd a chymdeithas yng Nghrist. Ond nid 'aelodau' o raid oedd pawb a gyffesai ac a helpai eraill. Nid oes dim o'i le na dim anysgrhythurol yn y dymuniad i 'drefnu' yn lleol a chydweithredu â'r pell. Yn wir, fel arall: mae'n amlwg fod yr Ysgrythur yn rhoi cryn dipyn o gyfarwyddyd ar y ffordd i drefnu gwaith cynulliad. A'r Ysgrythur ei hun sy'n chwilio'r bobl hyn gan ddweud wrthynt drwy'r Ysbryd Glân mai plant y Gair ydynt. Da i gymdeithas hunan-holi ynghylch ystyr bod yn Gristion.

Gellid, felly, (os gwelir bod angen) gyfamodi mewn difrifoldeb â'n gilydd, a chan ofyn bendith Duw i gydweithio i dystiolaethu drosto Ef yn y lle-a'r-lle. Gall fod yn ddefnyddiol. Ond peth arall yw hyn; nid aelodaeth. Dyma weithred o eiddo dyn (gyda chymorth Duw); ac nid oes dim anysgrhythurol nac annymunol ynglŷn ag ef, er nad yw'n anhepgor. Ymarferoldeb yw.

Y mae a fynno hyn hefyd, mae'n debyg, â'r rhai sy'n ymlynu wrth un cynulliad yn rheolaidd

ac yn unig, neu â'r rheini'n bennaf. Gallant gytuno er enghraifft yn ffurfiol i gynnal achos os dymunir gwasanaethu fel-a'r-fel a thystio mor ffyddlon ag y gallant mewn ardal. Ond dibynna 'cyfamodi' o'r fath yn y pen draw ar wirfodd a chydwybod y cyfamodwr unigol, nid ar farnedigaeth dyn. Nid fel yna y mae Aelodaeth yn cael ei diffinio yn y Beibl, nac yn gweithio.

Gall fod cryn wahaniaeth rhwng aelodau o gorff Crist a'r cyfamodwr unigol, er na raid i hynny fod. Dylid gwneud hyn yn eglur serch hynny. Amwysedd sefydliadol ar hyn sy'n gwanychu'r eglwys. Gall aelod ymatal rhag bod yn gyfamodwr. A gall rhywun ddod yn gyfamodwr heb fod yn wir aelod o gorff Crist yr un pryd, er nad yw hyn yn ddymunol. Nid enw arall ar aelod yw 'cyfamodwr': term trefniadol yn bennaf yw 'cyfamodwr', term eilradd yn yr achos hwn.

Yn y pen draw rhwng y cyfamodwr unigol (neu unrhyw un arall) a Duw yn unig y setlir yr aelodaeth. Duw yn unig a wŷr. Anghywir yn sicr fyddai awgrymu bod yna gyfryngwr dynol, megis henuriad neu 'offeiriad', sy'n gallu barnu a yw rhywun eisoes yn aelod neu beidio o gorff Crist ac felly y caiff fod yna gyfryngwr. Ni pherthyn y farn hon – yn y pen draw – i'r un dyn ffaeledig. Dyna eto arbenigrwydd yr eglwysi efengylaidd, gellid gobeithio. Mae pob gwir grediniwr ynddynt, yn wryw neu'n fenyw, yn offeiriad er yn ffaeledig. Hwy yw'r saint: gwneuthuriad Duw.

Mater trefniadol perthnasol a gafodd gryn sylw yn ystod yr ugeinfed ganrif oedd Undeb gweinyddol enwadol. Ar ryw olwg yr oedd gwendid credo, a chwalfa athrawiaethol, nid yn unig wedi gwacáu'r capeli, eithr hefyd ers tro wedi'u gwneud yn debycach nag erioed i'w gilydd mewn diffyg argyhoeddiad. Yr hyn oedd Moderniaeth i'r Efengyl Gymdeithasol, hynny oedd Ôl-foderniaeth wedyn i Eciwmeniaeth relatifaidd ddiweddar. Amlffydd denau ac amwys. Offeryn oedd i drefnu uno cymdeithasau ffurfiol ariannol a threfniadol, heb hidio'n ormodol am undeb Gwirionedd. Yn fynych, bychenid Person Crist a'r Iawn er mwyn cyfleustra. Dyma o leiaf un wedd: 'Gorau po *leiaf*' meddai rhai enwadau 'o ymdrin a geid â natur a chynnwys y ffydd o safbwynt y Beibl. Byddai hynny'n gwahanu pobl, – yn arbennig yn gwahanu credu difrif oddi wrth gredu ysgafn, neu bobl grefyddol oddi wrth bobl seciwlar.' Dyma bwysigrwydd y Beibl mewn aelodaeth.

'Derbyn lluosedd, amlhau posibiliadau cyd-fodoli mewn dewis di-ben-draw a phenagored o grefyddau er mwyn cyfaddawdu â chyd-bosibilrwydd pob math o argyhoeddiadau o dan yr un faner. Heddwch! Dyna “ddymunol”!' Hynny yw, 'ceisid dileu anhawster credu ystyrllon drwy ymagor i bosibilrwydd didwyll a dilys pob ystyr.' Dyna'r maglau o ddadleuon a dorrodd ar draws llwybr Theomemphus.

Nid ennill lluoedd niferus chwaith beth bynnag yw'r argyhoeddiad a'r ymrwymiad credo yw nod yr Eglwys, taw sut y'i gwnawn, a beth bynnag yw'r cynnwys: dyna hen broblem a'n cynhyrfa hyd heddiw. Bu 'Undod y corff' fel sgrechair o fewn yr enwadau dirywiol, tan osgoi Undod yr ysbryd a'r argyhoeddiad cryf a ffyddlon a ofynnai Crist. Gall mai pobl dda, credinwyr o bosibl, sydd

yno'n awyddu am undod swyddogol a strwythurol allanol mewn amgylchiadau anodd. Yn *Theomemphus*, ac mewn emynau eraill gan Bantycelyn drwy gymorth yr Ysbryd, ceisid undod o fath llawer dwysach. Yr her oedd ceisio mwyfwy o'r undod a geid yn y Beibl ei hun. Mae undod yn eithriadol o bwysig. Nid cyfrwng dadlau a dod o hyd i luosedd a chyfaddawd o 'ddechongliadau' oedd y Beibl, ond cyfrwng Undod meddwl mewn cariad ac ysgogiad i ymostwng ac addoli'n eglur ac yn benodol rymus, a gwasanaethu'n gilydd ac eraill. Tebyg iawn yw'r Beibl a'r Eglwys. Pobl ffaeledig a wnaeth y naill a'r llall mewn ufudd-dod i'r Ysbryd. Ond costrelau oeddent i drysorau mawr. Pan oedd yr Ysbryd ar waith yn y naill a'r llall, rhoddid iddynt y fraint a'r anrhydedd o fod yn sianelau achlysurol Beiblaidd i'r Ysbryd Glân. Po fwyaf y ceisid yr Undod gwrthrychol hwn a ragdybid eisoes yng Ngair Duw, mwyaf y syfrdenid Theomemphus gan fodolaeth y fath beth â chredu. Hyn oedd cais Williams yn ymarferol wrth ymdrin â'i wahanrwydd oddi wrth Howel Harris a Peter Williams. Nid oes wrth gwrs ond disgwyl cael anawsterau wrth gymhwyso dynion 'sicer' i'r cyfrwng o 'galonnau tlawd' a luniwyd gan Undod y Beibl. Mae rhai o'n pobl orau ni yn gyfeiliornus, ond os yw'r Ysbryd wedi'u geni i Dduw, y pryd hynny diogel ydynt.

CENHADU

Am gyfnod yn ystod yr ugeinfed ganrif aeth crefydd ryddfrydol y gwledydd Cristnogol yn hwyrfrydig braidd i genhadu dros neges y Beibl, mewn gwledydd lle yr oedd ffydd arall yn ffynnu mwyach. Crebachwyd gwth yr Eglwys. Yn rhyfedd iawn, buwyd yn swiliach nag o'r blaen mewn cylchoedd 'efengylaidd' i 'broselytio'. O leiaf, ni cheid yr un ysfa ag ynghynt ynghylch cyhoeddi ar ben stryd ac o ddrws i ddrws efengyl blaen Iesu Grist. Yr oedd rhai rhesymau digon teg a thechnegol ddiwylliannol am yr ymatal hwn yn natblygiad strwythurol y gymdeithas. Ond nid oedd yn unol ag ysbryd y Testament Newydd. Nid peth mawr nawr oedd yr Efengyl yn sgwrs y gymuned. Heddiw, daeth cyfrifiaduron ag amrywiaeth y cyfleoedd i ymledu'n arbrol, a gellid disgwyl cyfeiriadau newydd i wasgar y newyddion da a'r ddysgeidiaeth, o bosibl, oherwydd adeiladwaith dinesig. Fe'i gwneir o hyd, ond yn gynnil, a hynny ym maes uniongrededd diwygiedig, gan mwyaf, cyn belled ag y gwelaf i.

Ar ddiwedd Efengyl Luc, ceir datganiad clo go ryfedd i'r bennod olaf oherwydd datblygiad yn yr athrawiaeth genhadu. Mae'n un o'r darnau mwyaf arwyddocaol yn hanes yr Eglwys Gristnogol. Dynoda drobwynt rhwng cenhadu Iesu Grist ymhlith yr Iddewon, a chenhadu'r Eglwys Fore ymhlith y cenedloedd. Dynoda fath o ddechreuad hanesyddol i rai pethau. Atrefnu daearyddol oedd mewn byd newydd. Fe'i gelwir yn '**Orchymyn Cenhadol**'. Luc sydd yn awr yn wynebu'r Actau. O hyn ymlaen, gyda'r Pentecost yn enwedig, try'r grŵp ofnus o ddisgyblion a gasglai o gylch yr Iesu Croeshoeliedig i fynegi hyder newydd y Crist Atgyfodedig. O fod yn enciliol, bellach ac yn bennaf o dan arweiniad Paul, ond gyda Phedr hefyd ac Ioan a Marc ac eraill, daethant yn 'fyddin' ymosodol ddewr. Trodd gelyn pennaf y Cristnogion, sef Saul, yn groes i'w ewyllys, o fod yn arweinydd negyddol blaenaf ymhlith yr erlidwyr, i arwain fel Paul y mudiad newydd a erlidiasai.

Gwedd dra phwysig ar yr Eglwys yw 'Proseltytio'. Gair bach cymysglyd ei effaith yw'r term. Awgryma droi rhywun o un grefydd i grefydd arall. A dyna ydoedd. Mae'n hanner ffordd rhwng propagandeiddio a chenhadu. I mi, y mae'r gair 'cenhadu' yn gyfan gwbl gadarnhaol. Gwn nad yw hynny'n dderbyniol gan elynion Cristnogaeth. Synient am yr hen imperialwyr gynt yn masnachu ac yn darostwng y brodorion gan ddefnyddio alcohol a pheth addysg grefyddol. Ym mryd materolwyr gelyniaethus, cenhadu (meddant) oedd y dull ar gyfer dofi brwydrau'r brodorion dros eu hawliau a'u rhyddid. Y gwir, sut bynnag, yw bod cyfran uchel iawn o'r cenhadon yn ostyngedig ac yn aberthol hyd farwolaeth, yn angerddol yn eu cariad at Iesu Grist, ac wedi gwasanaethu pobl dlawd a phrin eu hadnoddau corfforol a meddyliol gan feithrin ieuencid drwy addysg i ddiwyllio'r tir. Pobl oeddent a gymerai'r **Comisiwn Cenhadol** a grybwyllwyd gynnu o ddifri. Gorchymyn rhyfeddol a roddodd yr Arglwydd atgyfodedig, a'r geiriau olaf a gofnodir o'i eiddo oedd: *'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd*

Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.' Dyna i chwi siars... ac addewid. Ni allai dim fod yn fwy cadarnhaol. Parhaodd 'cenhadu' o'r cyfnod hwnnw hyd heddiw. A gellid cysylltu hwnnw ag anturiaeth gyffrous, aberth, a haelfrydedd mawr. Gellid cymharu'r gwth cenhadol nodedig yn y canolfannau dysg heddiw a drafodir gan Lindsay Brown, *Shining Like Stars*, IVP, 2007.

Ym maes llenyddiaeth, un o'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio un math braidd yn wrthnysig o lenyddiaeth yw 'Propaganda'. Does neb yn hoffi 'propagandydd'. Disgrifir yn y gair fodd o ysgrifennu sy'n meddu ar fath o agenda. Fe'i cysylltir â gwleidyddiaeth fel arfer. Ac i'm cenhedlaeth i, fe ddaeth i'r golwg gyda'r Blaid Natsïaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu Goebbels yn Weinidog Propaganda dros Hitler. Oherwydd hynny, y mae'r holl 'olchi meddwl' a chreulondeb y gwersylloedd carchar a'r awyrgylch o rym simplistig gorfodol a gysylltir â'r cyfnod hwnnw wedi ymlynu wrth y term hwn. Priodol cofio am hyn yn y cyd-destun crefyddol cyfoes.

Nid gwleidyddiaeth gonfensiynol yn unig oedd biau'r gwaith o 'bropaganda'. Cafwyd peth ymgais i ledi neges drwy berswâd trwm a milwriaethus ym maes ambell grefydd. Cafwyd dalennau buddiol a llyfrynnau a phapurau yn unswydd wedi'u bwriadu i berswadio tröedigion. Bellach, tyfodd y We yn gyfrwng pwerus i berswâd o bob math, nes dychryn gwir ymchwilwyr am gydbwysedd. Weithiau, ceid rhuo. Ac ymhlith darllenwyr a ymhoffai ym mhleserau esthetig a synhwyrus gelfydd llenyddiaeth, nid dymunol oedd y math hwn o gyhoeddi. Dyma rai o'r bygythion cyfoes i ostyngeddwydd, amynedd, a pharch. Mae 'hunan-feirniadaeth' hefyd wedi mynd yn seithug. I mi, y mae'r gair 'propagandeiddio' yn meddu ar naws sy'n gwbl negyddol. Fel arfer, mwyach, fe'i cysylltir â gwleidyddion diddychymyg. Treisio meddyliau a wna. A byddai rhai sy'n defnyddio'r gair hwnnw am grefydd, yn synied am grefydd fel proses orthrymol yn cael ei gwthio ar boblogaeth, yn ddidrafodaeth, â chyfrwng caled didrugaredd boliticaidd. Hyn, i mi, yw'r defnydd o iaith a ledir yn beiriannol oer ymhlith y rhai a ddymuna ein 'meddiannu'.

Rhwng y ddau begwn, geiriol-a-phropagandeiddiol, ond ychydig mwy ar yr ochr negyddol nag ar y gadarnhaol, y ceir 'proselytio'. Yn arbennig o safbwynt crefyddol, fe'i cysylltir ag ymdrech benderfynol i ennill pobl 'o anfodd'. Nid llenyddiaeth ddifyr a diddanus yw llenyddiaeth broselytaidd fel arfer: gwthiwr cul yw i geisio meddiannu safbwyntiau pobl. Ceisio troi credo rhywun i ryw sianel eithaf cyfyng. Ond ni all dyn 'wneud' dyn arall yn Gristion fel yna. Hynny yw, nid yw'n ymarferol Gristnogol. Mae'r neges Gristnogol yn wirfoddol dan ddylanwad yr Ysbryd Glân, hyd yn oed o'n hanfodd.

A dyma ni'n mynd yn ôl i'r hen gwestiwn o ddod yn Gristion. Ar lefel propaganda mwy academiaidd, tuedda'r rhai heddiw ym Mhrydain sy'n condemnio 'proselytio' Cristnogol i arddel safbwynt y relatif a'r diduedd, amlffydd heb ddim ffydd. Dyma'r lle y ceir dogma'r seciwlar

dadleuol, a gelyn pob credu didwyll ac ufudd. Yn nhraddodiad yr hen Ramantiaeth naturiol, y mae 'proselytio'n' ymddangos yn faen tramgwydd y mae'n rhaid ei anwybyddu, yn wir ei feirniadu'n ffyrnig... Yn ei hymyl, cydnabyddwn mai gwirfoddol yw cydnabod y Gair a'r ddyletswydd gyfrifol a'r weithred anodd o ledu'r Gwir.

Problem thematig mewn Deunydd a Chymhelliad yw Proselytio. Ond mae themateg wallus – neu fygu min y gwirionedd – yn llawer mwy o beryg na phroselytio. Yn ein dyddiau ni y mae Seciwlariaeth ddogmatig mor gaethiwus ag Islamaeth.

Tua'r un cyfnod â Goebbels, ymhlith beirniaid llenyddol yn Ewrob, clywyd un sgrechair go ryfedd: 'Mae pob celfyddyd yn bropaganda.' Fe'i clywyd ar un adeg ymhlith beirniaid llenyddol yng Nghymru yn ddigon digywilydd. Dynodai gyfnod newydd wedi adar a blodau'r Rhamantwyr. Codai cenhedlaeth newydd o lenorion a allai arddel yn eofn y sylweddoliad o ragdybiau cyfoes, a bod pob llenyddiaeth mewn ffordd yn ceisio cynrychioli safbwynt. Nid oedd llawer o gefnogaeth am gyfnod i ysgrifenu 'llynyddiaeth er mwyn llenyddiaeth.' Rywsut, roedd min newydd yn bosibl. Gellid bod yn wydn ac wynebu themâu cymdeithasol a gwleidyddol yn chwaethus. Yn wir, sylweddolid bod pob llenyddiaeth rywsut yn pleidio ffordd o fyw a gwerthoedd. Mae syniadau hyd yn oed y beirniaid 'diduedd' bellach yn gallu dylanwadu ar lenyddiaeth.

Cam bach sydd o Dystiolaethu i Broselytio. Ac mewn beirniadaeth gyfoes, fe geir dwy wedd amlwg ar Broselytio, sef y Wedd Gadarnhaol a'r Wedd Negyddol. Fel yr awgrymais, gair y gwgir arno erbyn hyn gan feirniaid rhamantaidd yw Proselytio. Nid oes dim mor ofnadwy, yng ngheg darllynydd deallus, â nofelau moeswersol, barnwriaethol, hunan-gyfiawn. Rhwng y tridegau a'r pumdegau, sut bynnag, pryd yr oedd gan rai beirniaid rywbeth i'w ddweud am fywyd, daeth proselytio yn bwnc amlwg mewn beirniadaeth: megis J. Gwyn Griffiths mewn cenedlaetholdeb, Gwenallt mewn crefydd, ac Alun Llywelyn-Williams ym maes dinasydddeg a diwydiannaeth. Dyna wasgu egwyddor proselytio i'r radd fwyaf parchus. Ac yn y fan yna, erys yr egwyddor honno yn bwnc derbyniol i ddadlau ynglŷn ag ef o hyd i feirniaid. Onid yw'n bosibl peidio â dangos ochr? Ond a yw'n ddymunol?

Gellid sôn efallai am Broselytio Cadarnhaol fel pwnc thematig godidog yn y gymdeithas; ac fel yr awgrymid yn graff iawn, gall fod y fath beth â llenyddiaeth sy'n bropaganda 'da'. I rywrai y mae blodau a choed ac adar braidd yn ddibropaganda, o'u cymharu â'r hyn yr arbenigai Goebbels ynddo'n broffesiynol; ond byddai rhamantydd go iawn yn synied yn wyrdd fod byd Natur ei hun yn filwr ym myddin diwylliant. Gellid cydnabod bod y fath beth â chenadwri ddaionus. Lle y bo clod, y mae 'pleidio' yn digwydd yn anochel, ac yn gallu effeithio ar werth llenyddiaeth. Dadl oedd hon yn erbyn yr hyn a alwai rhai beirniaid optimistaidd yn 'llynyddiaeth bur'. Tybid bod yna hollt mewn llenyddiaeth, rhwng llenyddiaeth ddifyrrus, llenyddiaeth 'er ei mwyn ei hun', sef llenyddiaeth

'greadigol' a dybid yn 'ddiduedd' ar y naill law, a phropaganda ar y llall.

Ar ryw olwg yn y cyfnod diweddar, pryd y dechreuidd 'gwobrwyo' gan yr awdurdodau yn ôl llythrennau, cododd y rhaniad hwn ei ben aml-wyneb eto ym maes cystadlu am Lyfr y Flwyddyn. Roedd pawb yn gytûn ar un adeg ar rannu 'prydyddiaeth' a 'rhyddiaith storïol' ar gyfer gwobrwyo. Ond fe geid cornel arall sef 'rhyddiaith anstorïol' y gellid cael cryn anhawster wrth ei diffinio, a rhyw deimlad nad oedd llythrennau wybodol neu egwyddorus – ac yn sicr, pregethau – ddim yn hawdd i'w croesawu'n barod bob amser pe caniateid y fath beth i gystadlu. Roedd ambell llythrennau yn fwy 'llythrennau' na'i gilydd.

Pan fo cyfrol yn unigryw fel y mae'r Beibl yn gwbl unigryw, sut bynnag, sut y gellid ei gymharu â llyfrau eraill? Os ceisir meddwl amdano fel llyfr ymhlith llyfrau, yn debyg i lyfrau seciwlar, – y mae ganddo dudalennau – o'i 'gymharu' felly, cyfyd egwyddorion heblaw rhai deallol i'w feirniadu. Cyfyd cwestiwn o gyd-brofi ysbrydol, o fywyd goruwchnaturiol, ac o fod wedi'i fendithio â Gras Arbennig. Mae'n ddigon anodd dygymod weithiau â'r broblem fach o 'gytuno' neu beidio; a thbydd ynghylch y broblem honno gyda llyfrau eraill y gellid peryglu barn esthetig deg. Mae yna'r fath beth â rhagoriaethau Gras Cyffredin – megis dychymyg, medrusrwydd ieithyddol, sbonc gwreiddioldeb, gweledigaeth, trefn ysgrifennu coeth a meistraidd. Yn fyr, gwerthuso. Tyfwn oll yn llythrennau o fewn cyd-destun cymdeithas lle y ceid darllen sy'n gwerthuso bywyd yn gyffredinol. Digon o goflaid i feirniad neu ddarllynydd ymaflyd â gwerthfawrogi llyfrau naturiol. Ond gwaith hollol unigryw yw ymateb i lyfr sydd eisoes ei hun yn unigryw, yn arbennig os arferwn ddarllen a ninnau'n ymwybodol hefyd o gymhelliad llenorion. O fewn cyd-destun 'llythrennau', y mae'r Beibl yn gofyn sylw newydd. Ond y mae hyn yn fwy na llythrennau. Beth 'wnewch chwi ynghylch beirniadaeth llythrennau gytbwys i lyfr 'ysbrydol' unigryw o fath hwn? A oes dim o fath hwn?

Yng ngwead y berthynas a welsom yn cael ei hegluro o wedd i wedd rhwng Gras Arbennig yr Ysbryd Glân a Gras Cyffredin, dyma sefyllfa arall yn cael ei lle heddiw. Ac o grybwyll gynau y duedd anochel mewn bywyd i werthuso, mae hyn yn awgrymu ymhellach fater sy'n gyfoes o berthnasol. Yn y blynyddoedd diwethaf, cododd problem newydd – o safbwynt proselytio – sef y dylanwad a geir ym modolaeth llythrennau gyfoes sy'n cyfleu unrhyw fath o synnwyr a barn gref o gwbl, a hynny oherwydd bri Ôl-foderniaeth negyddol. Hynny yw, daeth gormes ffasiwn nihilistiaeth, a safbwynt athronyddol o fath arbennig i feddiannu'r arddull gyfoes. Aeth yn ffasiwn. Gwelwn berthnasoldeb hyn yn wyneb y drafodaeth arbennig o gyplysu Gras Cyffredin a Gras Arbennig. Felly y mae proselytio bob amser yn thematig. Ac y mae hyn yn codi problem, er nad yw'n un ddifrifol, ynghylch cyferbynnu Deunydd â Chymhelliad fel ffactorau yng nghyfundrefn ddeinamig driphlyg y weithred llythrennau. Ond yr un pryd, rhaid cofio bod a wnelom yr un pryd â

chydlyniad organig. Absenoldeb y gwirionedd oedd neges fawr Ôl-foderniaeth.

Gellid sôn am dri cham yn natblygiad chwaeth ym maes beirniadaeth lenyddol y can mlynedd diwethaf. Cafodd ein diwylliant gryn ddatblygiad o'i herwydd, a diwinyddiaeth hefyd. Cawsom gyfnod parhaol Rhamantiaeth gyda Rhyddid a Hunan-ganolrwydd. Yna, cawsom Foderniaeth gyda phwyslais ar Reswm a Beirniadaeth Negyddol. Ac yna, yn drydydd, gellid gwahaniaethu a hunaniaethu a diffinio symudiad newydd – oddi wrth Reswm tuag at Afreswm, ac oddi wrth Feirniadaeth Negyddol ymhellach tuag at Sgeptigrwydd llac a Relatifrwydd. Coronwyd Hurtrwydd a Swrealiaeth â Gwallgofrwydd mewn Celfyddyd. Ceisiwyd tanseilio Traddodiad a Chydlyniad. Mae Proselytio ffasiwn newydd gwacter yn effeithio ar y syniad o werth llenyddol. Ond ni bu eto ddigon o fyfyrddod ynghylch Rhagdybiau mewn beirniadaeth, mae arnaf ofn.

O blith y celfyddydau, ym maes Arlunio y gwelid y gormes beirniadol trechaf yn ystod y can mlynedd diwethaf. I mi, bu'n ddadleniad ysgytwol o'r mwyaf ar ôl darllen, gyfnod llencyndod, waith y Rhamantwyr pert. Dibynnid ar ddamweinioldeb; alltudiwyd crefftwaith celfyddyd; cynhyrchwyd artistwaith gan beiriannau weithiau. O'u cyferbynnu â beirniaid llenyddol, ymhlith beirniaid arlunio tra dylanwadol, ac arweiniol yn wir, cafwyd yn y diwedd gyfundrefn gaeedig aruthr newydd ym maes Gwerthusiad. A materolwyd, economeiddiwyd gwerthoedd.

Dyfynnaf yr un symlaf, am ei fod yn eglur brin ond yn eithafol gyffredin. Weithiau, achwynir yn gymharol am Lenyddiaeth neu Fiwsig sydd, meddir, fel dwy gelfyddyd fawr wedi colli canonau 'gwerth'. Ceir, bid siŵr, yn y manau hyddysg suddo mynych erbyn hyn, am fod darllen y clasuron a gloywi safonau ymhlith campweithiau ysblennydd ynghyd â myfyrddod ysbrydol dwys wedi mynd yn anathema yn eu plith. Ond hyd yn hyn, arhosodd digon o fedr deallol i ymwrthod â *juggernaut* gwacter. Fe ddyfynnaf allan o adolygiad Waldemar Januszczak yn y *Sunday Times*, Chwefror, 2013: 'Marcel Duchamp was the most important artist of the modern era. That much is clear. He was more important than Picasso, Matisse and even Warhol. They merely changed the direction of art, Duchamp changed its state. Art was one thing before him, and another thing after him. What is not clear is why he did it.' Hunanladdiad oedd neges anllenyddol Ôl-foderniaeth.

Mae'r ateb yn groyw o syml. Yr oedd meddylfryd beirniadaeth gelfyddydol yn gydwedd barod amdano. Sefydlwyd '*Sefydliad*' o *Chwalfa* gan bropaganda ffasiwn a masnach. Chwalwyd adeiladwaith safonau a feithrinwyd gan ganrifoedd o 'wareiddiad'. Crewyd gwagle mewn diwylliant. Gelwid yr hyn a gyflwynai Duchamp, megis yn ei gampwaith Yr Wrinfâ fechan (a brynodd ar y ffordd i arddangosfa gelfyddyd), yn gelfyddyd gysyniadol (*conceptual art*). Tybiaf mai'r hyn a ysgogodd y fath deitl oedd nid bod y gelfyddyd honno'n cynnwys unrhyw fath o 'syniadaeth' feistrolgar neu beidio, ond *bod y weithred o alw rhywbeth yn gelfyddyd yn ei wneud yn gelfyddyd*. Nid y gwaith celf, ond y diffiniad cysyniadol sydd gan artist i alw beth a fyn yn gelfyddyd.

hynny sy'n ei wneud yn gelf. Pam lai? Pwy sydd i ddweud yn amgen? Pa hawl sydd gan neb i newid rhyddid diffiniol yr artist? Ble mae safonau? A chan bwy, a sut? Yr ymholi cysyniadol hwn sy'n gwneud y gwaith yn gampwaith ysywaeth; gorau po leiaf syniadol. Gorseddwyd dogma ffasiwn.

Sôn y buom, yn y cyd-destun hwn, yn gyferbyniol â'r drafoedaeth hon am Gymhelliad Awdur y Beibl. A thrafod yr ym hefyd y lle sydd i'r Ysbryd Glân yn y gwaith o gyflwyno Iesu Grist yn yr Oes unigryw sydd ohoni. Buwyd yn ceisio myfyrio ar hyn o fewn cyd-destun y rhagdybiau a fu gan feirniaid llenyddol yn y cyfnod diweddar ynghylch Cymhelliad llenyddiaeth yn gyffredinol, yn arbennig yn y cyfnod rhwng 1970 a 2010. Datblygwyd erbyn hynny 'theoriau' ychydig yn ddieithr yn nhraddodiad clasurol llenyddiaeth. Bûm innau, ers tro, yn bur wrthwynebus i'r tueddiadau hyn, mewn manau megis *Beirniadaeth Gyfansawdd*, a cheisiais esbonio pam. Ond yr un pryd, fel nad aur popeth melyn, nid glo pob egni modern nac ôl-fodern; a theg bob amser chwilio am unrhyw rinweddoldeb a all aros.

Oherwydd y twf mewn cyfathrebu o lawer math, ffurfiwyd barn gyhoeddus sylfaenol unffurf o chwâl yng Nghymru am arwyddocâd a gwerth crefydd. Ac oherwydd israddoldeb seicolegol ac arall, mewn cyfrifiad diweddar o rai 'heb grefydd' yn y wlad, y mae'r cyfanswm yng Nghymru yn nodedig uwch o 'anghrefyddwyr' na phob un o'r naw rhanbarth a gyfrifwyd yn Lloegr. Gwlad yw Cymru, bellach, a graciwyd yn gyrhaeddbell gan adfeiliaeth fewnol. Mae hi rywsut yn fwy agored anfeirniadol isradd i bropaganda'r anwar na manau dros y ffin. *Canfuwyd* llenyddiaeth, yr holl gelfyddydau, a bywyd ei hun mewn fframwaith gwerthusol a rhagdybiol chwithig ffasiynol.

CONCWEST NEWYDDIADUROL

Yr Eglwys a'r Gwragedd

Cymerwn un pwnc 'poblogaidd' i arddangos mor gymhleth a chymysglyd yw'r modd presennol o orseddu ffasiwn meddyliol. Mater 'seciwlar' yw yr ymddengys fod gan grefydd neu o leiaf gan rai crefyddwyr rywbeth i'w ddweud wrtho. Codaf bwnc llosg ffeminyddiaeth yn enghraifft. Gellid meddwl y buasai pleidio neu hawlio statws cydradd i ferched yn bur amlwg, bron yn ddiymennydd o amlwg yn y byd Gorllewinol, beth bynnag am ymyrraeth gyfoes Islamwyr. O leiaf, mae'r egwyddor 'gyfartal' yn ystrydebol braf, er bod yr ymarfer yn bur anghysurus i rywrai. Nid yw'n bwnc dadleuol o gwbl ymhlith democratwyr difrif arferol. Dyma bwnc ystrydebol ymhlith y defaid. Greddf yw bron. Ac o'r herwydd, tueddir ymhlith llaweroedd i'w gymryd yn ganiataol, a heb y rhithyn lleiaf o gymhlethdod. Yn sicr, ni chwilir yn odid unman am ffresni gweledigaeth, am ddadansoddiad pwerus ysbrydol, nac am egwyddorion dwys deffrous. Mae gwreiddiau cydraddoldeb gwragedd wedi cael sylw a'u meithrin mewn rhyw ffordd ers amser Efa, nid yn unig gan gwlt y forwyn Mair, a sifalri'r rhamantau yn yr oesoedd canol a Gwenhwyfar. Symudwyd yn

egllur i gyfeiriad llawer mwy cyrhaeddgar yn y ddealltwriaeth o weinidogaeth Iesu Grist a'i fawrogiad ef o statws y wraig. Ond collwyd y gogwydd hwnnw ysywaeth hyd yn oed mewn trafodaethau eglwysig, lle y dilynir barnau blinedig ar y naill ochr a'r llall gan wrywod a'u ffyrdd seciwlar neu draddodiadol o fyfyrto.

Ymhlith y materion eglwysig sydd wedi adlewyrchu dylanwad trwm y cyfathrebau cyhoeddus cyfoes (a strwythur rhai eglwysi yn ddiweddar), dyma un pwnc sy'n adlewyrchu tueddiadau ymarferol y farn boblogaidd. Pan ddarllenwn y papurau newydd, neu y gwyliwn y teledu, ar yr adeg pryd y byddant yn cyfeirio at grefydd o gwbl – dyweder adeg ethol pab neu godi archesgob newydd i Gaer-gaint – gellid bod yn sicr am un peth: na bydd fawr o sibrydiad am Iesu Grist. Ni fentrir trafod pam y daeth i'r byd. Ni welir ei newydd-deb yn berthnasol o fewn cyd-destun urddas merched. Ni sylweddolir chwyldroadrwydd gostyngeddwrwydd. Nid oes ystyriaeth am natur Ei Berson oherwydd ymryson clebr am 'y Wraig'. Nid oes ystyriaeth pam y mae'r Eglwys Gristnogol yn bod o gwbl ar gyfer yr argyfwng sydd bob amser ohoni. Nid newyddion da yw crefydd uniongred, o leiaf yn ôl y treuliedigion. Holir am farn Pab neu Archesgob Anglicanaidd ynghylch hoywon neu am ddisgyblaeth eglwysig. I rywrai, dyma'r 'unig broblem' ymhlith y prif bynciau 'priodol' a gyfyd, gellid bod yn weddol sicr y bydd perthynas yr Eglwys â Gwragedd yn flaenllaw. Dyma, fel petai, ym mryd rhywrai, genhadaeth gyfoes y Byd i'r Eglwysi. Yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, daeth y berthynas rhwng Eglwys Rhufain a'r Eglwys Anglicanaidd a Gwragedd yn bwnc newyddiadurol anffodus i'r amgylchfyd y tu allan, uwch popeth yn y farn newyddiadurol. O'r tu mewn i'r enwadau hyn, efallai yn sgil y farn gyhoeddus, bu hefyd yn bwnc llosg i'r swyddogion a'r preiddiau, megis 'hoywon a gwragedd'. Dyma ddau bwnc aruthr sy'n bwysig i'r gymdeithas, wrth gwrs, ond yn dipyn llai pwysig na Newyn Byd-eang, Rhyfeloedd Diderfyn, ac Achub Miliynau o Eneidiau Sychedig. I mi, sut bynnag, yng nghanol cymdeithas eithafol o anghenus, ymddengys nad yw'r ddadl hon yn ceisio cwmpasu onid siwrnai a siawns brif anogaeth yr apostolion, sef i fynd allan i'r byd i ddwyn pobl at Iesu Grist. Dyma'r math o bwnc, sut bynnag, ym mryd y brid newyddiadurol, sydd o fewn rhyw fath o amgyffrediad i seciwlarwyr. Dyma hefyd sy'n codi wrth or-ffwdanu am swyddogion eglwysig. Mae wedi pasio'r Efengyl fel prif bwnc 'eglwysi'. O ganlyniad i'r crwydrad hwn, **nid ystyrir craidd y ddysgeidiaeth Feiblaidd am berthynas â Duw a chyd-ddyn chwaith.** Eto, pwnc ymarferol tra phwysig yw'r egwyddor atebol ynghylch perthynas gŵr a gwraig, plentyn a rhieini, gwlad a dinasyddion, sy'n hollol allweddol ac yn darddiad i gymaint. Yn wir, mae'r egwyddor honno – gostyngeddwrwydd – ar ganol gonest y ffydd Gristnogol ac yn treiddio drwy'r holl drefn ddynol. Rhuthra'r oes a fu o'n blaen heibio, bid siŵr, gan lafoerio yn ei grym ynghylch pwy sy'n cael '**bod yn ben**'. Nid ystyrir ysywaeth beth oedd ystyr Gristnogol ben-i-waered 'bod yn ben'; ac o'r herwydd y mae Ysbryd adnewyddol Crist yn cael

ei golli'n llwyr. Ond o fewn y Wasg gyhoeddus, y Naturiol yn unig sy'n bod. Collwyd y Cyfan.

O'r blaen, wrth drafod yr 'Eglwys', dyfynnais adnodau adnabyddus o egwyddorol: (Effesiaid 5 a I Pedr, 5) 'Gan ymddarostwng i'ch gilydd yn ofn Duw', a thrachefn 'Byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd'. Dyma'r uchelgais ysbrydol a'r nod chwyldroadol aruchel ym mywyd y Cristion. Pe bai Cristnogion wedi dyfynnu'r rhain yn hiraethus amlach a'u hesbonio a'u chwenychu i'w bywyd, yng nghwrs y ddadl am hawliau merched, byddai wedi bod yn gyfle gwych i anrhydeddu'r hen efengyl newydd hon. Ond dichon na fuasai'n rhyw ddealladwy iawn. Yn y cyfamser, bu rhagfarnau cibddall traddodiadol o hunan-ddyrchafol gan wrywod yn yr Eglwys yn llusgo tipyn o orbwyslais anghytwys drwy'r llaid. Cyd-ddarostwng gan bawb yw'r nod Gristnogol. Dyna graidd ystyr 'bod yn ben'. Bod yn barod yng nghyflwr gŵr, yn null Crist, i roi'i fywyd dros y wraig yw priod wasanaeth y Cristion o ŵr. Ac y mae disgwyl i ymddarostyngiad dwys y gŵr fod yn llawer mwy trwyadl nag ymddarostyngiad y wraig. Gan y wraig, digon o ymddarostyngiad cyfarwyddedig yw 'caru'. I'r gŵr, gofynnir am ymostyngiad hyd at farwolaeth. Dyna'i genadwri ganolog yn y mater hwn.

Dysgu ymostwng ar hyd ei oes yw prif nod pob Cristion, bob amser. Torri'r nod yma fu achos y Cwmp. Hyn sy'n ganolog i'n perthynas ni a Duw. Dysgu maddau a dysgu derbyn maddeuant, dyna'r fath hyfrydwch o fywyd sydd i'r sawl sy'n plygu. Efengyl hardd yw i bob efengyleiddiwr. Nid bob amser er hynny y llwyddwyd i'w hanrhydeddu. A'r fath atyniad a gynigia i ni, yn hytrach na chwifio goruchafiaeth wrywaidd wirion a chodi gwrychyn gwagedd (sydd wedi cael hen ddigon o sarhad dros y canrifoedd), gydag annhegwch hollol ddefodol ffaidd. Sôn yr wyf yn awr, nid am unrhyw reol benodol, fel pren. Y pwynt cyfoes allweddol dan sylw, gredaf i, yw perthynas bersonol, parch, ac ysfâ am ymostyngiad cyffredinol y naill ryw i'r llall o fewn cyddestun perthynas pobl o flaen Duw. Dyma ddelfryd hyfryd Cristion. Nid mater i ffeminyddion yn unig yw. Dyma'r telesgôp i weld cyd-ddynion drwyddo, a'r man cychwyn i bechod.

Mae'r Eglwys Anglicanaidd o'r herwydd wedi camu i bicil o'r rhyfeddaf, a bu ei thystiolaeth ddiwinyddol yn hyn o fater yn bur anffodus. Mae ganddi ben, sef benyw, y frenhines ei hun, sy'n swyddogol *yn ben ar yr Eglwys*. Hi sy'n pennu esgobion, ond ni allai byth fod yn 'esgob' ei hun. Mae'r Beibl ar y llaw arall yn sôn bod **pob Cristion i fod yn broffwyd, yn offeiriad, ac yn frenin**; ond – er bod pob crediniwr gwrywaidd yn gallu cael ei neilltuo i fod yn 'offeiriad' Anglicanaidd (hyd yn oed merched, o fewn ffiniau) – dim ond gwrywod sy'n cael bod yn uwch-offeiriad, os dyna yw ystyr 'esgobion'. Neilltuir 'offeiriad' gan y swyddogion ar hyn o bryd; ac eto, yn ôl Protestaniaeth dylai pob Cristion fod yn yr 'offeiriadaeth', ac yn 'sant' os derbynnir yr ystyr Feiblaidd i saint. Mae angen gostyngu swyddogion i fod yn gaethweision.

Sut y digwyddodd y gwahaniaethu statws gwrywaidd o gwbl yn ymarferol yn y lle cyntaf

cyn amser Crist? Sut y tyfodd hyn o sefyllfa yn hanesyddol? Ai ar Adda y bu'r bai drwy gael ei greu yn 'gyntaf'? Ai cwmp Efa yn blaenori Adda? Ai'r ffaith o Ymgnawdoliad y Crist yn wryw sy'n cyfrif am safle'r gwryw dynwaredol yn y weinidogaeth? Neu'r statws yn y 'sacramentau' a weinyddwyd yn gyntaf gan wrywod ac y gwahoddwyd yr un pryd fenywod sanctaidd i'w derbyn, ac i'w gweini, er mwyn cyd-weithio bawb â'i gilydd? Ai dyma'r rhesymau am y rheoliadau a bennwyd?

Mae'n ymddangos yn ddigon diniwed mai oherwydd cryfder o fath arbennig yng nghorff y gwryw traddodiadol, neu oherwydd yr arferiad ar ôl esgor ar blant sugno ac o aros gartref, y cafwyd y 'flaenoriaeth' i 'weithio' mewn cymdeithas gynt. Mae'n amlwg fod y wraig gynt wedi bod yn aros gartref yn sefydliadol i blanta'n flynyddol, i deulua, ac i weithio'n agos i'r tŷ. Y gwryw oedd yn hela, pysgota, trin y tir, ac yn darparu cynhaliadau a tho a theulu, o leiaf mewn rhai gweddau. Ai rhaniad gweithgareddau teuluol oedd hyn oll? Ynteu gorchymyn crefyddol? Beth bynnag, cafwyd concred.

Yn hanesyddol, heddiw, mae datblygu rhagluniaethol wedi golygu, drwy ffrwytho a gweithio'n helaethach, a datblygiadau yn economeg y Greadigaeth, fod amgylchiadau wedi ymagor i rannu dyletswyddau fel y rhain, ac wedi rhyddhau llawer o bosibiliadau yn ôl datblygiadau mewn diwylliant, masnach, a diddanwch nas cafwyd tan yn ddiweddar.

Ond ymddengys fod chwyldro pwysig i bawb wedi digwydd hefyd adeg ysgytwad Pentecost, **gyda mwy o gyfartalwch rhwng pobl – mewn iaith, statws, oedran, a rhyw; a bod trobwynt wedi digwydd y caem ar ei ôl ddatblygiadau o lawer dyfnder. Codwyd pobl i anrhydedd newydd.** Nid oes gwahaniaeth bellach rhwng Iddew a Chenedlddym. Agorwyd y fflodiartau i'r holl fyd ar ôl y fframwaith cymdeithasol yn nechrau'r ganrif gyntaf o Oed Crist. **Cafwyd Creadigaeth Newydd yn ystyr yr Eglwys yn ddaearyddol. Nid oes gwryw na benyw. Na chaeth na rhydd.** Yn araf caem weld canlyniadau'r Pentecost ar y Greadigaeth. 'Bydd merched yn proffwydo'. Agorwyd calonau'n gyfartal i bawb sy'n credu. Ail grëir pob credadun ar ddelw Crist. Ni ddyfernir marciau ysbrydol ychwanegol os ydych yn gwisgo trowsus. Cafwyd chwyldro cyhoeddus cyfoes, ym meddwl rhai efengyleiddwyr a phob enaid sy'n eiddo i Grist nid yn unig yn gyfartal yng Nghrist, ond yn etifeddu'r un Mabwysiad: perffeithrwydd. Mae'n bryd ailfeddwl yn y cyd-destun gwefreiddiol o Atgyfodiad. Ymgaledwyd gan rywrai ysywaeth tua gŵr-flaenoriaeth mewn rhai amgylchiadau, yn gwbl anesgusodol. **Ac mae angen ystyried sut y dylid gweithredu 'cyfraith' yn amgylchiadau seciwlaeriaeth, nid yn unig mewn Cyfartalaeth (*Egalitariaeth Gristnogol*) ond mewn Cyflenwadaeth (*Complementarianism*) ac Ansawddaeth (*Qualitativism*), ac yn fwyfwy mewn Parch cariadus.** Ym mrwdaniaeth y ddadl gyfoes, diau fod gan Gristnogion yn eu gweledigaeth dra chyfoethog ac amlochrog ynghylch hyfrydwch *ymostyngiad i bawb*, ac o Gyfartalaeth o fewn Cyflenwadaeth, genadwri wreiddiol a phwysig i barch sy'n meddwl o'r newydd. Yn natblygiad statws cynyddol y Fenyw drwy'r weledigaeth Gristnogol yn y gorffennol, dichon fod

gan yr Eglwys reitiach cyfraniad cynyddol Ansawddaeth (mewn ffordd newydd) yn ein cyfnod ni.

CYFANRWYDD MEWN CENHADU

Yn y gwaith o Genhadu, cyfyd cwestiwn lletach. I ba raddau y mae angen *cymhwyso* cenadwri Gristnogol i fywyd arferol diwylliant gwlad arall lle y cenhadir? Beth yw swyddogaeth yr Ysbryd Glân ym mywyd y Cristion yn ei dasgau bob dydd? Dyma gwestiwn tragwyddol a fwriadwyd i bob amser ac i bob lle. Yr un yw amddifadrwydd dyn bob man. Mae'n amlwg bod angen cyfieithu'r peth i wledydd yn ôl amryfal ddiwylliannau. Ond a ellid dadlau bod y genhadaeth ymostyngol ei hun yn amrywio? A ydyw'n amrywio'n arwynebol yn ôl amryfal ieithoedd. A yw'n gorfod amrywio? Tybed ai diogel ac atgas yw amrywio yn ôl diddordebau swydd a chynulleidfa o wahanol addysg?

Dymunwn ymadael am foment â phwnc penodol Ffeminyddiaeth o fewn cenadwri gymdeithasol Cristnogaeth, er y caiff honno godi'i phen eto. A charwn fwrw golwg ar draws egwyddor fwy cynhwysfawr y berthynas sefydlog rhwng Penarglwyddiaeth Duw ac agweddaeth Feiblaidd y gymdeithas oll at ei dyletswyddau beunyddiol? Mae ei hymarfer wedi'r cwbl ar hyn o bryd yn newid bob dydd ym mhob rhyw a dosbarth a rheng. Byddwn innau'n hawlio mai plant ydym oll yn y maes hwn. Yn wir, bydd rhai o'r dysgedicaf yn hawlio'u bod hwythau yn yr union le â'r lleiaf a'r mwyaf dysgedig. A gallwn gydnabod yn burion fod hanfod yr efengyl yn eithriadol o syml. Mae credu a derbyn a phlygu yn rhan o broses priodol y rhyng-dosbarth-cymdeithasol i'r symlaf ohonom. Ym maes bywyd a gwaith Gras Cyffredin, nid oes lle i Gristnogion weithio ond o blaid 'cyfartalrwydd' mewn amrywiaeth wrth gwrs. **Yn y bôn, nid oes lle i wahaniaethau amherthnasol yn nerbyniad pechaduriaid.**

Ond cymerwn bwnc problemus sy'n sylfaenol bwysig i bawb yn y gymdeithas, er nad yw'n 'ffasiynol'. Ymwna ag anymarferoldeb gwahanol ddoniau. A yw hyn yn gwadu lle *dysg* mewn myfyrdod Cristnogol? A ellir mynd i eithafion yn y gwrthwynebiad i ddysg? Y mae perygl i ddysg bob amser ymfalchïo, mae'n wir; y mae perygl iddi gamarwain ynglŷn â natur y Cristion, ac esgeuluso **digonolrwydd y neges ddwyfol seml ar gyfer pob lefel o ddeall a phob maes mewn ysgolheictod. Mae Penarglwyddiaeth Duw yn y Greadigaeth ar y llaw arall yn golygu bod ei Neges yn cynnwys pob gwyddor a chelfyddyd a masnach, pob rhyw a lliw a dosbarth a safon.**

Cafwyd obsciwriaeth academaidd yn falchder ar dro. A thaenwyd cysgod o israddoldeb o'r herwydd ar draws efengyl seml. Nid yw hyn yn adlewyrchu holl-bresenoldeb Duw ym mhob cymhlethdod o'r Cread. Nid yw'n cydnabod y math o gyfanrwydd potensial a brofir yn y Beibl, nac wrth gwrs y math o efrydu dwys a geid o fewn yr Eglwys gan feddyliau grymus ar hyd y canrifoedd. Camddeallid ystyr 'Yr Efengyl Seml.'

Wrth fwrw golwg ar draws Hanes yr Eglwys, gwelir mai'r hyn a ddigwyddodd fu **ymestyn yn iach i gynnwys yn gatholig gyfunrwydd sy'n cwmpasu'r eul a'r llydan, y trwm a'r ysgafn, yr elfennaidd a'r cymhleth.** Dichon y gellir enghreifftio mewn Hanes drwy gyfeirio'n fanylach at un gwas syml a fu'n nodweddiadol o'r cwmpasiad a geisiwyd yng Nghymru. R. Tudur Jones drachefn yw'r ffigwr a ddewisaf er mwyn darlunio'r sefyllfa. Gwelir bellach, wrth ddisgrifio gwaith llenyddol R. Tudur Jones, fod eisiau rhoi sylw i o leiaf ddwy agwedd o ran ansawdd. Ar y naill law, cawn y wedd ysgolheigaidd, a gellir enwi dwy gyfrol *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (1982/ 1982) fel coron arni. Dyna'r astudiaeth braffaf a gyhoeddwyd erioed yn y Gymraeg ar hanes syniadaeth Gristnogol unrhyw *gyfnod* yng Nghymru. Heblaw ymgydnabyddiaeth drwyadl â'r maes, y mae'r cwbl wedi'i gyflwyno mewn arddull fywiog, ac yn wir angerddol yn fynych. Hanes ymrwymedig yng nghyflwr y Gymru gyfoes yw, a hanes perthnasol meddylgar odiaeth. Mae gan yr awdur weledigaeth amlochrog ond treiddgar ar ei destun, a dyma'r uchafbwynt mawrhydig i gyfres o weithiau academaidd disglair mewn gyrfa rymus: nodedig yw am ei fframwaith deallol serchiadol.

Ar y llaw arall, cawn ganddo y wedd boblogaidd; a gellir enwi eto *Yr Ysbryd Glân* (1972) o waith yr un awdur fel cynrychiolydd cryno a champus o'i fath: 'gwneuthum fy ngorau glas i ymgroesi rhag bod yn gymhleth.' Yr hyn sy'n nodweddu'r gyfrol hon yn arbennig, o'i chymharu â chyfrolau eraill yn y maes, yw llydanrwydd amryddawn a rhychwant diddordeb y disgrifiad o waith yr Ysbryd. Gyda'r gyfrol hon, cawn hefyd astudiaeth ar faes sy'n gwbl berthnasol i destun Awdur y Beibl. Mae amrywio doniau'n fater i'w drafod gan Gristnogion i geisio sefydlu egwyddorion wrth weinyddu manylion. Neu a oes esgus dros gau llygaid? Yn y traddodiad Diwygiedig byd-eang ceir dwy duedd ddeallol neu ddau bwyslais cyferbyniol. A gellid eu diffinio yn yr olwg a geir ar weithgaredd yr Ysbryd Glân. I rywrai, y mae Cyfiawnhad a Thröedigaeth yn llyncu'r holl waith a gysylltir â'r Ysbryd. Ond i eraill, a Thudur Jones yn bennaf lladmerydd i'r genadwri yng Nghymru, y mae a wnelo'r Ysbryd Glân â holl fywyd dyn o bob gallu. **Mae angen parhaol am Sancteiddhad yn arbennig.** Fe'i ceir nid yn unig yng *nghychwyn* y bywyd Cristnogol, ond ym mhob sffêr yn ein meddwl a'n teimlad ar eu haeddfetaf. Yn gyntaf, wrth gwrs, y mae'r Ysbryd yn cyfeirio'n golygwedd at '*Iesu Grist*'. Dyma enw gwaharddedig gan haneswyr a beirniaid llenyddol seciwlar fel arfer, fel y gwelsom, gan gynnwys eu hastudiaeth o iaith a llenyddiaeth. Eto, **Ef yw gwreiddyn ein bywyd.** Arweinia'r Ysbryd ni, yng Nghrist, i bob man. Mae'n atgenhedlu, yn uno, yn galw, yn dwysbigo ac yn goleuo. **Mae'n dwyn ffrwythau'r Ysbryd.** Ond clywn un nodyn dieithr eithr amheuthun. A hyn sy'n cysylltu Tudur ag Amsterdam a Princeton (Seminari Westminster) yn hytrach nag â Westminster yn Llundain er mai Martyn Lloyd-Jones oedd y cennad a ddefnyddiwyd gan yr Ysbryd Glân i gynhyrfu enaid Tudur am y tro cyntaf. Dywed hyn rywbeth hefyd am ehangder maes y Beibl ym mhob rhan o fywyd.

Ym mhennod 42 yn ei gyfrol ar *Yr Ysbryd Glân*, symudir i gyfeiriad a esgeuluswyd weithiau gan briffordd yr eglwysi diwygiedig yn Lloegr (ac yn y Gymru Saesneg). Ymddengys o'r herwydd ychydig yn ddieithr i rai o feirniaid Calfiniaeth. Yn sydyn, i bob golwg, fel petai i'r sawl nad yw'n gyfarwydd â beirniaid arferol Calfiniaeth ym Mhrydain, ac i'r sawl nad yw'n gyfarwydd â llawnder Sancteiddhad a Phenarglwyddiaeth, ar ddechrau pennod 42, dyma'r awdur yn dyfynnu Ecsodus 31:3-4. Yno dywedir am Besalel: '*Ac a'i llenwais ef ag Ysbryd Duw, mewn doethineb, ac mewn deall... i ddychmygu cywreinrwydd, i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn pres.*' **Galwai'r Ysbryd Glân yn y fan yna ar weithwyr llaw, ac ar artistiaid o lawer math, gan enwi rhai elfennau cynrychioliadol.**

Beth y gall fod yn sôn amdano? Cyfeiria at amgylchiadau diwylliannol lle y mae'n amlwg fod yr Ysbryd yn arwain dyn, 'fel amaethwr, artist, gweinyddwr cyfraith, gwleidydd, crefftwr a meddyliwr.' Hynny yw, y mae'r Ysbryd yn peri canfod holl fywyd ymarferol pobl yng ngoleuni'r Beibl: y gweithiwr yn y maes a'r ysgolhaig yn y llyfrgell a'r labordy. **Mawl i Dduw yw'r cwbl drwy arweiniad.** Dyma'r ffordd y gweddnewidir cyflawnder bywyd gan efengyl sy'n mynnu anrhydeddu **Penarglwyddiaeth Duw.** Ond medd Tudur Jones: '*O'r cychwyn yn stori'r Creu yn Genesis hyd y portread o'r Jerwsalem nefol yn y Datguddiad pwysleisir mai diben bywyd dyn gerbron Duw yw creu diwylliant. Ni cheir yn y Beibl osod ufudd-dod i Dduw mewn cyferbyniad â diwylliant dyn.*'

Dyma olwg arwyddocaol ar waith yr Ysbryd Glân, a'r math o ysgrifennu gan Gristion, a'r math o ymateb darllenydd a ddisgwylir gan feirniad o Gristion. Disgwylir bod yn effro i bopeth yng ngŵydd yr Ysbryd. Dyma'r math o gwllwm neu bartneriaeth a geir o fewn yr uned driol ymarferol – *awdur/crefftwaith/darllenydd*. Mae R.Tudur Jones, megis Paul, yn galw am gaethiwo '*pob meddwl i ufudd-dod Crist*'. (2 Cor. 2:5). Mae hyn yn cynnwys y meddwl yn y gegin. Dyma'r ffordd i feddwl am fywyd o doriad y wawr hyd fachlud yr haul: *proffwyd/offeiriad/brenin*.

Bellach, gwelwn sut yr oedd ei gyfrol eisoes wedi'n paratoi ni ar gyfer y weledigaeth hon drwy gyflwyno ymdriniaeth â meithriniaid *moesol* yr Ysbryd yn yr Ysgrythur. Ni ddilyn dull deddfoldeb ynysedig. Rhan yw o waith beunyddiol sancteiddhad. Mae gweithgareddau sanctaidd dyn yn lluosog ym mhob maes – moeseg, aestheteg, gwleidyddiaeth – dan ddylanwad y rhyddid duwiol hwn. Ac yn ei benodau cyn yr un hon ar Ddiwylliant, sef y penodau sy'n sôn am lewyrch ffrwythau'r Ysbryd yn eu holl gyflawnder, canfyddwn y berthynas rhwng bywyd ymarferol bob dydd yn y gymdeithas a'r argraff a fyn Duw ar ei creadur o fewn y Greadigaeth. Myn yr Ysbryd feddiannu pob twll a chornel o'n bodolaeth, fel y bo bywyd oll yn addoliad.

Dyma Dduw yng nghanol ein gwaith pob dydd. Nid yw darllen y Beibl mewn cornel mwyach yn gorffen wrth ddrws y tŷ. Mae'n dadlau â ni fel cydymaith ar y stryd y tu allan. Nid yw

Eglwys o bobl yn peidio â bod wrth fynd allan drwy ddrws y capel. Teg yw casglu os yw Cristion yn gyson, y bydd eraill yn sylwi rywsut fod yna wahaniaeth pwyslais yn niben ei waith ef i'r hyn sy'n seciwlar. Os bydd yn gweithio gyda dynion eraill, yna dylai'r parch sydd ganddo tuag at greaduriaid Duw, sef y rhai a luniwyd ar ei ddelw, hefyd gyfateb i ddyhead ei galon i anrhydeddu'r Arglwydd ym mhopeth. Mae'r eglwys yn y fan yma. Os bydd yn gweithio ar ei liwt ei hun, nid yw ar ei ben ei hun. Mae ei waith, a'i fywyd teuluol ynghlwm wrth ei bwrpas o hyd i glodfori'i Greawdwr a'i Iachawdwr. Hynny yw, yn ffaeledig ac yn syrthiedig, yn gyffredin ei ddoniau o bosibl, yn ddirmygedig o bosibl, *bydd y Cristion yn tystiolaethu ym mhob gronyn o'i fywyd*. Nid ei 'faint bydol' sydd o bwys, ond trwyadled y gras ynddo. O fewn yr uned driol ymarferol – awdur/crefftwaith/ darlennydd, dan arweiniad yr Arch-dystiolaethwr, sef yr Ysbryd Glân, gall pob gwedd ar bob dydd a phob man fod yn dystiolaeth fuddugoliaethus i Frenhiniaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Dyna Ddeunydd ei Gymhelliad. Dyna'i barch at werthoedd. Dyna'i ufudd-dod i wasanaeth.

Mae ymateb-darlennydd y Cristion o feirniad, felly, yn y cyd-destun hwn yn ei ryddhau i fod yn undod corff ac ysbryd. A ellir gadael i ragfarnau gwrth-broselytig yr Ôl-fodernydd wrthwynebu celfyddyd lenyddol neu'r gelfyddyd ddomestig yn syml oherwydd meddylfryd gwrth-Gristnogol yr Oes?

Cawn aros, sut bynnag, gydag un erthygl ychydig yn ddiarffordd a luniodd R. Tudur Jones ar Abraham Kuyper. Cefndir y cyfeiriad hwn yw'r hyn a ddywedodd un sylwedydd Cymreig poblogaidd am Kuyper un tro: 'mae [Kuyper] wedi methu ag ennill cymeradwyaeth fawr neb yn y byd Protestannaidd heblaw am rywrai tua Grand Rapids ym Michigan, y cylch bychan sy'n gysylltiedig ag athrofa Westminster yn Philadelphia, a selogion cylchgrawn *Banner of Truth*.' Ond meddai P.S. Heslam o Gaergrawnt am ddylanwad Kuyper ym Mhrydain, 'This is reflected in the work of British theologians influenced by the Kuyperian tradition, including N.T. Wright, Oliver O'Donovan, Alister McGrath, Graham Cray, Jeremy Beglie, Elaine Storkey and Lesslie Newbigin.' Sôn yr wyf am ei ddylanwad, *nid* am ei ddynewaredwyr nac am boblogrwydd cymeradwyaeth. Hyd yn oed yn Princeton lle y bu Llywydd Coleg James McCosh yn ddisgybl brwd i Kuyper megis rhai eraill o gewri Princeton – fel Benjamin B. Warfield a'i gyd-weithiwr enwog A.A. Hodge, – gellid sylwi mai yno hefyd yr addysgwyd Cornelius Van Til. Yno y bu J. Gresham Machen yn ei dro tan y chwyldro ym 1929. Y tu allan i Grand Rapids a Philadelphia, a enwyd uchod gan y sylwedydd Cymreig, gellid nodi ysgolheigion mawr eraill o UDA a fu'n eithriadol ddylanwadol ac a gafodd fudd gan y traddodiad Kuyperaidd, megis efallai'r mwyaf nodedig o'n hathronwyr Calфинаidd cyfoes (Alvin Plantinga) ynghyd â Nicolas Wolterstoff a William P. Alston o'r un genhedlaeth. Nid mewn cornel y mae Kuyper yn byw heddiw.

Yn ei wlad ei hun, yr Iseldiroedd, er na fu'n boblogaidd yn ddiweddar nac yn eciwmenaidd

dderbyniol (weithiau am resymau digon da), bu Kuyper yn fawr odiaeth ei ddylanwad ym Mhrifysgol Rydd Amsterdam. Yno roedd pobl megis Athro'r Gyfraith Herman Dooyeweerd a'r Athro Celfyddyd Hans Rookmaaker, heblaw D.H.Th. Vollenhoven, a J.M. Spier, Gerrit C. Berkouwer, H. Bavinck, V. Hepp, a D.P.D. Fabius. Dyma ef felly ar ei diriogaeth gartref, yn ei gynefin felly. Ond y tu allan i'r Brifysgol Rydd, gellid nodi pobl eraill, fel Herman Ridderbos a'r Athro J.P.A. Mekkes o Brifysgol Leiden. Ymhelaethais ychydig ar hyn gan mor berthnasol yw Kuyper i Ddiwinyddiaeth wrth ystyried syniadaeth sgeptig a relatifaidd a gwrth-efengylaidd yr Oes Ôl-fodernaidd a Seciwlaraidd hon. Dyma arweiniad amserol gan Kuyper i'n hastudiaeth o'r Ysbryd Glân yng Nghymru.

Tuedd wanllyd, er hynny, yw mesur sffêr-sofraniaeth a gras cyffredin yn ôl fel y mae'n 'ennill cymeradwyaeth fawr' i Kuyper. Fe rybuddiwyd pob Cristion ynghylch bod yn gymeradwy yn y fath fodd gan yr Arglwydd. A da gennyf ddweud i Kuyper, fel rhai o'i ddisgyblion hefyd, dderbyn cyfran go helaeth o feirniadaeth hallt, weithiau'n haeddiannol.

Yr wyf wedi rhoi cymaint o sylw i Kuyper am fy mod yn ei ystyried ef yn anad neb ymhlith y Protestaniaid diweddar, er gwaethaf ei wendidau Fictoriaidd, fel gwleidydd a arweiniodd sylw diwinyddion i ganfod gogoniant Duw ar waith drwy Ras Cyffredin. Bu hyn ym mhob gwedd Feiblaidd ar fyd a bywyd. Yr wyf ymhell o gymeradwyo *rhai* o egwyddorion cymdeithasol un ysgol o feddylwyr ynghylch cyswllt rhwng yr Eglwys a Diwylliant Gwleidyddol. Ond yn ei gweledigaeth ar gyswllt gras a chymdeithas, bu'n ysbrydiaeth. Bu astudiaethau Westminster Seminary (a disgynyddion Kuyper) o bwys mawr i R. Tudur Jones yng Nghymru. Diolch am ddylanwad hwnnw wrth weld dirywio mewnol yr efengyl gymdeithasol gadarnhaol. Ceir wrth gwrs o hyd duedd i ymwahanu o fewn rhengoedd y ffydd. Yn wir, y mae'n Gristnogol o addas i fod yn negyddol weithiau. Ac yntau'n brofiadol o'r ffydd ddiwygiedig, gwybu Tudur am wendid y math o efengylu ffundamentalaid diddysgeidiaeth ac adweithiol wleidyddol a geid ymhlith nifer o sectau a chyltau yn yr Unol Daleithiau. Roedd y rhain yn gwbl annigonol eu hateb i'r plant newynog a'r teios taeg o'n hamgylch. Roedd eu hymgyfyngu achlysurol i iachawdwriaeth bersonol hunanol yn gallu bod yn warth. Yn 1946 cyhoeddwyd symposiwm gan Westminster, ac yno ymdriniasid mewn un ysgrif ag un o'r sectau mwyaf mewnblyg, *Modern Dispensationalism*, a geisiai (er ei ragoriaethau) anwybyddu anghenion cymdeithasol. Anwybyddid y tlodion a'r amddifaid er mwyn canoli ar burdeb yr unigolyn. Eithr canfu R. Tudur Jones nid yn unig fod hyn yn groes i orchmynion trugarog Crist. Yr oedd yn niweidiol i sancteiddhad iach yr unigolyn ei hun ac yn sarhad ar benarglwyddiaeth Duw. Esgeulusai felly yr athrawiaeth Gristnogol dosturiol gytbwys ynghylch anrhydedd y corff. Heb syrthio'n ôl i'r hen 'efengyl gymdeithasol' ddyneiddiol dreuliedig, mynnai R. Tudur Jones ganfod cymdeithas yn berthnasol o fewn Penarglwyddiaeth Duw, Sancteiddhad, a Gras Cyffredin

Beiblaidd. Catholigrwydd Cymreig oedd hyn, o'i gyferbynnu â Chatholigiaeth. Does dim syndod fod beirdd Cymru yn y gorffennol wedi tadogi gwaith yr awen ar yr Ysbryd Glân. Ac nid beirdd yn unig, ond cerddorion hefyd, a meddygon, ac addysgwyr yn gyffredinol. Gweld *Gras* yr oeddent hwy, a'i gydnabod yn 'Gyffredinol' yn achos diwylliannol, ie ymhlith Efengyleiddwyr.

Gellid synied mai amhriodol fuasai crybwyll y gair 'Cyfriniaeth' mewn cyd-destun sy'n cyfeirio – hyd yn oed yn gryno – at athrawiaeth gymdeithasol Abraham Kuyper. Nid oedd 'Cyfriniaeth' yn amlwg ymhlith ei ddisgyblion fel Hermann Dooyeweerd a'i Sofraniaeth y Sfferau, neu gyfrol arloesol Henry R. Van Til, *The Calvinistic Concept of Culture*. Gwgwyd ar deimladaeth ddigynnwys gan Gristnogion diwygiedig yn fynych. Ond yn ei weledigaeth benarglwyddiaethol amlwedd a chyfansawdd o waith yr Ysbryd Glân, bu myfyrdod R. Tudur Jones ynghylch lle'r gair 'Cyfriniaeth' yn ein cyfeirio at lawnder y profiad Cristnogol. Profwn beth o'r myfyrdod hwnnw yn ei ddarlith feirniadol graff ar astudiaeth Saunders Lewis o Williams Pantycelyn. Yno, rhoddir cryn le i feddwl am yr Undod a addewir i'r Cristion yng Nghrist. Ni raid ofni'r Undod godidog hwnnw.

Buom eisoes yn sôn am *Undod* Cosmig Crist, yn y Creu ac yn y Cymod. Yn awr, soniwn am hyn ym mhob dosbarth cymdeithasol, rhywiol a deallol. Uno Personol rhwng dyn a Duw yw'r pwnc hwn. *Dyma thema greiddiol o fewn undod y Beibl*. Dyma'r pwyslais gan y Cyfrinwyr yn fynych, fod bywyd y Cristion yn cyrraedd ei uchafbwynt wrth brofi **undeb personol â Christ**, fel arfer drwy gyfrwng y Gair dealladwy. Yr ym ni'n dod i brofi ein bod ni yng Nghrist, a Christ ynom ni. Dyna ddeinameg yn y broses o uno'r Beibl sydd eisoes yn brif thema bersonol i bob pechadur yn nigwyddiadau 'storiol' y gyfrol honno, ac i *Ymateb y darllenydd* yntau.

Yn wir, mae llawer o gyfrinwyr ystyriol yn ceisio disgrifio trywydd y 'ffordd gyfriniol' hon, sut y bydd y Cristion yn ei ddisgyblu ei hun drwy ddilyn rhai dolennau priodol fel cadwyn aur. Fe'i gwna wrth aeddfedu a dyfnhau yn yr adnabyddiaeth o Grist. Dyma ganolbwyntio arno, ymostwng iddo, ymgolli ynddo, ymhyfrydu ynddo, syllu arno. Mae Crist yn treiddio i holl fodolaeth y Cristion, sydd yntau'n 'treiddio i'r adnabyddiaeth' fel y dywedai merch y fferm Ann Griffiths.

Rhyw fath o lwybr sancteiddhad yw Cyfriniaeth i bob Cristion. Fel arfer, fe ddisgrifir y profiad hwn yn ôl tri cham. Mae'r enwau ar y gweithredoedd allweddol yn amrywio. Ond gan amlaf, maen nhw'n golygu'n gyntaf ryw fath o *negyddu*. Mae'r Cristion yn ymwared â phob rhwystr, mae'n ymdrechu i dagu pob llygredd, mae'n edifarhau'n llwyr, yn ceisio purdeb. Mae'n ymostwng yn llwyr. Dyma ymdrech 'nos yr enaid' go iawn yn ôl ambell un. Yn ail, mae yna *oleuo* yn digwydd. Mae'r sylw'n cael ei ganolbwyntio'n benodol ac yn bendant ar lendid yr Arglwydd. Mae'n myfyrio ar ei ddaioni ef a'i harddwch. Mae'n ymdeimlo â'i ryfeddod lachar yn yr Hanes amdano. Mae'n cael ei ddyrchafu. Ac yn olaf, daw yr *uno*. Mae'r Arglwydd yn treiddio mewn gweddi i bob rhan o

fodolaeth y Cristion. Mae'n ei feddiannu, yn ei amgylchu, yn ei gofleidio, ac mae'r Cristion yn cael mwynhau llawnder Duw, nofio ynddo fel y dywedai Ann Griffiths. Dyma'r *unio mystica*. Dyma lwybr yn y darllen Beiblaidd sy'n adlewyrchu'r deunydd a ddarllenir: Taith y Pererin.

Yn ei gyfrol eithriadol bwysig *Williams Pantycelyn*, mae Saunders Lewis yn cymhwyso'r camre hyn i'r emynydd Cymraeg, ac yn rhannu ei waith yn dair rhan ddatblygol o'r herwydd. Ond mae ef yn gosod 'Nos yr Enaid' yn yr ail gyfnod fel rhan o frwydr ffordd y goleuni.

Dychwelwn felly at R. Tudur Jones drachefn. Mae ganddo feirniadaethau adnabyddus ar ddadansoddiad Saunders Lewis. Ac yr wyf am dynnu sylw at rai ohonynt.

Yn gyntaf, mae Tudur yn gosod yr *uno*, yng ngwaith Pantycelyn (ac yn achos y Piwritaniaid), *ar ddechrau'r bywyd Cristnogol, nid ar y diwedd*. Mae'n sôn (fel y'u cafwyd, ar ôl cyfnod cyfrol Saunders Lewis hyd heddiw, lawer o astudiaethau ysgolheigaidd ar waith y Piwritaniaid) am eu hysbrydoledd a'u seicoleg. Yn wir, mae Saunders Lewis yn gweld *cyfriniaeth y Piwritaniaid* yn un o'r agweddau sy'n gwahanu'u cyfraniad nhw oddi wrth y math o Brotestaniaeth gyfriniol a geid ar y cyfandir. Er nad yw Tudur Jones yn crybwyll hynny, yr wyf yn credu y dylid nodi bod yna ddau uno. Ceir uno gwrthrychol a goddrychol. Digwydd undeb rhwng Cristion a Christ yn wrthrychol pan fydd Cristion yn cael ei gyfiawnhau. Fe all y Cristion y pryd hynny brofi hyn yn oddrychol hefyd. Ond gyda'r credu cynnar hwnnw a chyda lleiafswm o brofiad o Grist weithiau, digon yw Cyfiawnhad. Nid trwy brofiad ymwybodol ac nid drwy ddysg, na rhyw, na safle, y daw neb yn Gristion, ond drwy gredu. Wedyn, drwy sancteiddhad y daw'r Cristion fwyfwy i sylweddoli'r undeb agos annatod sydd rhyngddo a'r Arglwydd Iesu. Mae'r Undod sy rhyngom ni a'r person Absoliwt yn sylfaen hyd yn oed i'r undodau lleiaf mewn celfyddyd a gweithgareddau eraill mewn bywyd bob dydd. Ymwneud y mae â phrofiad cyffredinol gan gredinwyr dwys. Ac ymwna yn sicr â'r Ysbryd Glân, a Sancteiddhad.

Mae perygl i hyn oll, efallai, ymddangos yn rhy academiaidd. Ond myn cyfrinwyr Cristnogol ddadlau bod y bywyd cyfriniol yng Nghrist yn rhywbeth sydd ar gyfer pob Cristion. Ymagor yw gwir nod pob caffael ffydd o'r fath. A oes rhaid wrth ddysg? Fel arall, rhaid bod megis plentyn. Rhaid bwrw heibio bob cymhlethdod, pob trymder, pob rhwystr meddyliol, ac estyn dwylo gweigion tuag at Dad a Brawd. Cysgod yn hynny o beth yw i brofiad bardd. Ymddiriedaeth plentyn, llygaid agored a syth y plentyn, dyna gymwysterau campus. Ac yno, mae'r Ysbryd Glân yn 'rhoi'.

Y rhybudd mawr y mae'n rhaid ei grybwyll ynglŷn â chyfriniaeth, neu 'ysbrydoledd', neu'r 'carismatig', os ydym yn symud drwy'r ysgrythurau, yw yr angen i fod yn ystyrllon ufudd i'r Gwrthrychol. Duw yw Duw, unigryw, tragwyddol hollalluog. Mae yna ganllaw diogel i bob goddrychedd yn y Beibl. Fe all y Diafol ar y llaw arall bob amser ac ym mhob man fod ar waith. Mae ef wrth ei fodd ym myd y dychymyg, ym myd profiadau teimladol sydd heb eu profi, gyda

ffansion, a breuddwydion, a chyda'r dyn-ganolog (*Egomania*). A yw'r goddrychol efallai yn tueddu i ddyrchafu'r 'fi', y gair bach atgas hwnnw y swiliai Pantycelyn yn ei gylch? Fe allai, yn wir, orbwysleisio un wedd ar Gristnogaeth ar draul un arall. Ond i efengyleiddwyr yn draddodiadol, y wedd bersonol yw honno. Yn awr, y mae'r personol yn hanfodol bwysig. Bu'n ffasiynol ar un adeg i fychanu hyn hefyd, ac i ymwrthod â'r Duw personol. Ac fe rydd Awdur y Beibl bwyslais dilys ar y Duw sydd y tu mewn i ni yn ogystal ag ar y Duw sydd y tu allan inni. Mae yna gynnwys ac ystyr hanesyddol allanol i'r testun sy'n allweddol i'r ddealltwriaeth o'r Gristnogaeth fwyaf goddrychol.

Eto, mae Awdur y Beibl yn mynnu rhoi sylw yn gyntaf oll i'r meddwl a'r deall, yn *wrthrychol*, i'r Duw sydd yno, ie gan y sylmaf, ac i'r holl Eglwys, nid mewn unrhyw fodd academiaidd o anghenraid. Ond mae yna sylwedd seiliol lleiaf a chanolog sy'n eglur i'r meddwl, sy'n dweud y Gwir. Mae yna mewn Hanes ddigwyddiadau ystyrllon i'r Eglwys a wnaeth Duw. Mae eisiau deall bod Duw'n caru pechaduriaid. Mae'n croesawu dyn coll yn ôl i'r gymdeithas dragwyddol. Mae Duw yn ewyllysio i ddyn droi oddi wrth anufudd-dod i ufudd-dod. Ac y mae hyn oll yn rhan o'r berthynas serchiadol. Mae'r meddwl a'r serchiadau a'r ewyllys i gyd yn un. Ac mae Duw *wedi* gwneud ac *yn* gwneud pethau nes yr hiraethwn amdano o'r herwydd.

Mae hyn yn fwy ac yn well hefyd na'r sylweddoliad ymwybodol ohono yn unig, er cystal hynny. Mae'n mynd i'r isymwybod iach.

Gadewch i mi esbonio ychydig. Mae Pantycelyn, dyweder, newydd ddod i mewn i'r ystafell hon gyda'r hwyr. Awn ati i sgysio ag ef. Yr ym ni'n edrych ar ein gilydd. Mae ef yn edrych o'i gwmpas gan led-syllu ar y dodrefn. Yna'n sydyn, diffydd y golau. Doeddech chi ddim tan hynny wedi sylwi ei fod ynghyn. Edrych a wnaech drwyddo ar bethau eraill. 'Felly gyda'r Cristion,' medd Pantycelyn yn sydyn. 'Daw'r Arglwydd yn gymaint rhan o'n bywyd nes ein bod yn llawn o'i oleuni, ynghyn bob amser, yn ein lleferydd, yn ein meddwl, yn ein gwaith. Nid ei gymryd yn ganiataol a wnawn, er hynny, ond bodoli o fewn ei berson yn gyfarwydd ddiolchgar bob amser. Yr ydym yn un â'n gilydd. Crist sydd yn ein deffro yn y bore, Crist yn ein noswylio; Crist yn ein teimlad ac yn ein deall. Nid ewyllysiwn ddim ond cydymffurfio â'r Arglwydd, yn weision ffyddlon mewn cariad. Dyna, gredaf i, yw'r undod llawn.' Yna, cyn diflannu, mae Pantycelyn yn cloi'r drws gydag adnod am Grist: *'Oherwydd os daethom ni yn un ag ef trwy farwolaeth ar lun ei farwolaeth ef, fe'n ceir hefyd yn un ag ef trwy atgyfodiad ar lun ei atgyfodiad ef.'*

Ond yn ail, mae Tudur Jones yn olrhain o'r newydd gamre sydd ynghlwm wrth 'drefn yr achub'. Mae ef yn dangos fel y mae Cyffes Westminster, a Phiwritaniaid mawr fel Goodwin a Gibbes, (yn Feiblaidd ar sail Rhufeiniaid 8:30) yn disgrifio'r **camau Cristnogol – gan ddechrau yn yr Arfaeth, wedyn yr Alwad Effeithiol, y Cyfiawnhau a'r Uno pennaf a phroffadwy, wedyn Sancteiddio a dyfnhau, ac yna Gogoneddu. Dyma gynllun melys bywyd y Cristion: y gadwyn**

aur.

Wrth gwrs, rŷm ni, sydd yn y traddodiad efengylaidd, yn disgwyl cael dod wyneb yn wyneb â'r Arglwydd fel hyn. Eto, rhyfeddwn fod edifarhau a chael cipolwg yn awr ar hyfrydwch Iesu Grist yma yn brofadwy i lawer (boed yn sydyn neu'n ddatblygol). Dylai'r profiad hwnnw ddyfnhau dros y blynyddoedd. Ond un peth arall, pwysig iawn, a geir yn y traddodiad efengylaidd yw'r pwyslais nad 'profiad' sy'n ein hachub ni. *Gwrthrychol* yn gyntaf yw'r achub, gwaith Duw. Undod yw Cyfiawnhau yn Nuw. *Efô* sy'n gwneud, yn ôl ei addewid. Mae yna gynnwys a phrofiad i'r cwbl. Mae yna ufudd-dod braf ystyrion yn y bywyd hwn. Eto, mae yna wefr yn yr Uno rhyngddo a'i bobl. O ganlyniad i'r uno fe geir hefyd holl fwynhad goddrychol y briodas. Eto, onid pwysicach na'r goddrych a'n mwynhad ni yw'r Gwrthrych? Plygu i'r Gwrthrych a wnawn, a chydymffurfio â'r Gwrthrych, gogoneddu hwnnw, dyna'r mwynhad goddrychol a gwrthrychol. Drwy edrych allan at brofiadau o'r Arglwydd Iesu Grist y byddwn ni'n sicrhau y cawn ni edrych i mewn i ni'n hun yn gywirach. Cychwyn o'r uno gwrthrychol a wna'r Cristion, yn wan, yn oddrychol efallai, at y cryf oddrychol.

Ond sut? Yr wyf wedi gosod pwyslais cychwynnol ar y wedd wrthrychol i'r Undod. Oherwydd, wedyn, ar ôl derbyn gras, mae angen ystyried ymhellach hefyd y wedd oddrychol a'r sylweddoliad mewnol. Dyna'r lle y ceir darllen y Gair o lwyrfryd calon, myfyrio, gweddïo, a gweithredu ymarferol. Sef yn y canlyniad anochel i gredu syml.

Dyw'r Uno personol syml â Christ ddim yn sefyll bid siŵr ar wahân i'r Uno Cosmig arall y buom eisoes yn ei ystyried ar waith yn yr Eglwys. Yr un Cariad yn union sydd. I Dduw y mae'r cymod personol yn ganolog i'r cymodi cyffredinol â'r holl greadigaeth syrthiedig. Ac i ni'n bersonol hefyd, y mae'n briodol inni fyfyrion am fawrhydi ac anferthedd rhyfeddol y gwaith eang a chyffredinol hwnnw yn y pen draw wrth i Grist gwmpasu'r bydysawd oll â'i allu a'i gardod. Dyma fesur cariad Duw.

Ond wrth gwrs, er mai'r Duw goruwchnaturiol a thragwyddol yw'r un sydd ar waith, y mae'n ei amlygu'i hun, yn gymwysedig, wrth ymwneud â'r tlawd ei ysbryd. Ein caru ni'n unigol dlawd y mae ef, bob un yn ôl ei anghenion. Ac nid yw hi'n amhriodol i weld hyn, y berthynas brydferth hon, fel rhan o'i gynllun mawr. Rywsut rwy'n gweld y cynllun hwnnw eto yn debyg ddigon i farddoniaeth. A gaf wneud cymhariaeth? Fe all barddoniaeth feddu ar ffurf, yn wir, rhaid iddi feddu ar ffurf, er bod y ffurf honno'n gyffredinol, ar un wedd. Mae'n brydferth, ond yn drefnus. Gall fod yn annibynnol ar y gerdd unigol. Ni ddaw honno i fod nes bod y deunydd yn ei le. Mae'r Undod sy rhyngom ni a'r Absoliwt yn sylfaen hyd yn oed i'r undodau lleiaf mewn celfyddyd ac mewn gwyddoniaeth. Ymwneir â phrofiad cyffredinol y macrocosm yn y meicrocosm. Mae Undod ymhobman yn un o egwyddorion mawr credu a meddwl a threfn ddelfrydol mewn celfyddyd. Y

mae hefyd a wnelo â'r galon unigol dlawd. Dyna'r cyswllt mewn gwirionedd rhwng dwy arwrgerdd aruthr Williams Pantycelyn. Yn y profiad hwn yr ym yn ôl felly yn sefyll yn wylaidd gydag uchafbwynt Diwinyddiaeth Cymru.

*

*

*

Soniais wrth gyflwyno 'saith dystiolaeth' i'r Efengyl Gristnogol fod y grŵp cyntaf o dri yn clymu wrth ei gilydd, ac y gallent gael eu derbyn gyda'i gilydd gan Ddeist. I'r sawl sy'n chwilio am yr ymgais 'naturiol' i brofi bodolaeth Crëwr gyda rhyw fath o barodrwydd i fod yn 'deg', dichon y gellid ychwanegu tystiolaeth dogfen y Beibl a bodolaeth yr Eglwys fel atodiadau arwyddocaol i grynswth y 'prawf' triol cyntaf, yn ogystal â'r dadleuon ynghylch rhagdyb neu ragosodiad, ynghyd â dadansoddiad llym o dneurwydd truenus y gwrthwynebiad. Yn wir, fel y gellid ei ddisgwyl, fe geir nifer o ddiwinyddion sy'n dilyn y llwybr hwnnw. Disgrifir eu safbwynt fel un 'cumulative' neu 'incremental'. Hynny yw, os nad yw un dull o ddod o hyd i gasgliad yn ddigonol, mae'r achos yn cryfhau wrth gael nifer gyda'i gilydd, heb fod yr un ar ei ben yn ddigon atebol. Maent yn fath o Ras Cyffredin grymus pentyrrol. Ni ddywedaf fod 'rhaid' iddynt fod yno. Dywedaf eu bod hwy yno eisoes.

Ym 1973 cyhoeddodd Basil Mitchell un o'i ddwy gyfrol bwysicaf ar athroniaeth crefydd. Yn *The Justification of Religious Belief*, gwrthododd unrhyw ddadleuon ffurfiol diddwythol neu anwythol i bleidio bodolaeth Duw; a chyflwynodd yr hyn a alwai yn 'cumulative case'. Pleidiai nifer o ystyriaethau a oedd gyda'i gilydd yn pwysu o blaid credu. Eto, nid aeth mor bell â'u cymryd gyda'i gilydd i sicrhau tebygolrwydd, yn gryfach na phosibilrwydd: nid fel y dywedodd R.W. Parry, 'Ar ddeddf tebygolrwydd y seiliaf fy siawns.' Pan ddilynwyd ef yn y gadair yn Rhydychen gan Richard Swinburne, meiddiai hwnnw yn ei gyfrol *The existence of God*, 1979 ddefnyddio theori debygolrwydd, llyfr a ddisodlodd waith Mitchell yn y maes mewn gwirionedd. Mewn ysgrifeniadau diweddarach, diwygiodd Mitchell ei ddadleuon er mwyn osgoi trychineb Ôl-foderniaeth. Rhyw fath o ryddfrydwr diwinyddol, cymharol hunanfeirniadol agored a cheidwadol ydoedd. Ond yr oedd parodi a luniwyd gan un Cymro yn gwneud sylw a brofodd yn feirniadaeth farwol ar Mitchell a Swinburne, ac wedi tynnu sylw at y wir broblem. Awgrymai Dewi Z. Phillips fod eu gwaith yn gorfodi ail ystyried sicrwydd Salm 139: 'Os dringaf i'r Nefoedd yr wyt ti'n debygol o fod yno: os cyweiriaf wely yn Uffern a chysidro'r achos yn ei grynswth, yr wyt yno.' (*Faith after Foundationalism*, 1988).

Nid fel 'profion', sut bynnag, yr wyf innau wedi trafod y crynswth hwn yn y gyfrol hon. Nid dyna'r llwybr – heb groesi'r bont dröedigol a 'gynghorir' – tua'r Efengyl. Fy mwriad yn yr adran hon oedd amlinellu'r gwaith o dystiolaethu a geid eisoes gan yr Ysbryd Glân. Dyma gymeriad ei wasanaethu a phatrwm cydlynol ei arweiniad. A gwelir mor aruthr yw. Yn y diwedd, ni fwriadwyd

hyn o gwbl fel cynnig cenhadol neu dystiolaeth bersonol sut i ddod yn Gristnogion heb blygu i Grist a'r Ysbryd Glân. I'r sawl sy'n gwir geisio Duw, ni ellid ond cynghori clywed 'pregethu'r Gair yn grediniol Feiblaidd o'r galon.' Dyna un dull ffrwythlon a arfaethwyd. Yn y gyfrol hon, ni cheisiwyd ond, wrth wneud arolwg cryno o lyfr y Beibl, sylwi ar un drefn neu batrwm y gwnaethpwyd y cyflwyniad ysbrydol ganddo.

Yr Eglwys yw'r Gymdeithas i ogoneddu Duw ac i genhadu dynion drwy'r Beibl. Ond y mae hefyd yn lle sydd, pan fydd yna ffyddlon i'r Gair, yn noddfa i bechaduriaid. Ac mewn noddfa, tyf cymdeithas a phrofir sicrwydd, a dysgwn i'n gilydd garu, drwy ostyngyddrwydd a chysondeb yr Ysbryd.

CYMHELLIAD B

GOGONEDDU

GOGONEDDU

Gogoneddu yw bod pob peth, yn naturiol ac yn oruwchnaturiol, yn ymuno bob amser yn nyrchafiad clod i Dduw. Nid dymuniad yw hyn yn unig. Ond ffaith. Mae'n digwydd eisoes. Ychydig iawn – fel Pascal efallai – sy'n sylweddoli, ar y ddaear hon, anferthedd hyn. Ond y mae pob Cristion yn gallu profi ychydig ohono. Ymuna pob gewyn ac organ, pob aelod o'r corff a phob meddwl a theimlad, mewn undod â'r hyn sydd ar waith drwy'r Greadigaeth a thu hwnt. Ni all iaith ei ddisgrifio, ac eto y mae iaith a diffyg iaith yn ymuno. Ni all y deall ei gwmpasu, ac eto y mae ar y deall hefyd eisiau amgylchu'r cyfan.

Os cywir yw dweud mai Tystiolaethu yw swyddogaeth arbennig yr Ysbryd Glân, Gogoneddu yw ei swyddogaeth gyffredinol. Hynny yw, dyna'r hyn a wna'r Ysbryd ym mhob peth. Ni pherthyn y gwaith hwn yn unig o fewn amser a lle ac yn ôl Rhagluniaeth. Dyma'r swyddogaeth y mae'n ei chyfrannu gyda phob dim arall, yn greedig ac yn anghreedig am byth. Fel pob dim arall, Gogoneddu yw nod yr Ysbryd.

A cheisir yn yr adran hon ddisgrifio'n fwy penodol beth yw ystyr hynny.

Y mae 'Gogoneddu' yn ormod o air i'w ddiffinio gan ei fod yn cynnwys pob gair arall. Ond da yw i Gristion feddwl yn ofalus amdano. O'r tystiolaethu a fu'n briodoledd i'r Ysbryd Glân yn y Beibl, 'gogoneddu' oedd y Cymhelliad canolog i'r Drindod gyflawn. Rhan yn unig o'r Gogoneddu hwnnw oedd tystiolaethu. Yr ydym ni sy'n Gristnogion yn darllen y gair 'Gogoniant' yn bur fynych. Yr ydym yn ei ddefnyddio i foli. Ac y mae gennym ryw ychydig o syniad pa fath o beth yw. Does dim eisiau inni gywilyddio am na allwn ei ddeall ond i raddau bach. Mae hynny'n wir am gynifer o eiriau a chysyniadau a ddefnyddia'r Beibl. Pwy a edwyn yn gyfan Gariad Duw?

Gwyddom yn ogystal mai gogoneddu Duw yw prif ddiben bywyd. Dyma brif gymhelliad y Cristion yn ei oes. Ac ni byddai'r un Cristion yn cyfeiliorni pe dywedai mai gogoneddu Duw yw prif nod y Beibl hefyd. Gogoneddu Duw yw pwrpas yr holl Greadigaeth a phrif gynnwys tragwyddoldeb.

Ac wrth dynnu tua therfyn yr ymdriniaeth hon â llyfr mawr y Beibl, hoffwn gydnabod bod pob dim sy'n bod, yn anymwybodol neu ymwybodol, yn gogoneddu Duw. Mae hyn eisoes yn hysbys am y mynyddoedd a'r moroedd er enghraifft. Yr hyn sy'n rhyfedd yw lle bynnag y byddom yn mynd, yno mae yna ogoneddu eisoes, ym mhob tamaid o bopeth. Dyna pam yr wyf yn hawlio bod ystyr y gair mor eithriadol.

Ond mae yna un nodwedd ynglŷn â Gogoniant Duw sydd mor ddychrynlyd o chwithig. Byddaf yn teimlo enbydrwydd o gywilydd bob tro y meddyliaf amdani, yn gymysg â llawenydd. A hynny yw'r ffaith ryfeddol fod y Duw hwn, y Drindod hon, yn gogoneddu Ei ffyddloniaid Ef. All ein meddyliau ddim cwmpasu y mymryn lleiaf o'r ffaith honno.

Beth felly ydyw?

Yn y gyfrol hon, bûm yn defnyddio'r ansoddair 'cadarnhaol' yn bur fynych am waith Duw a'r Cristion. A byddaf yn tybied mai casglu cymeradwyaeth 'gadarnhaol' am ben 'cadarnhaol' yw gogoneddu. Mae'n fater perthnasol parhaol cwbl gynhwysfawr. Ni pherthyn i ffasiwn dros dro. Ac o'r herwydd, y syndod yw y gellid sôn amdano'n baradocsaid fel mater ymarferol. Ond y mae mor enfawr. O fewn cyd-destun cyfoesedd, a'i chwiwiau meddyliol a theimlad gwibiog, y mae Gogoniant Duw yn crynhoi holl ystyr barhaol y Greadigaeth. Mae'n rhoi pwrpas glân i bob dim. Rhaid oedd cael gair ar gyfer hynny. Yr union wedd gadarnhaol hon yw'r hyn a gafodd ei diffrïo a'i bychanu gan ffasiynau negyddol y can mlynedd diwethaf. Ac felly, pan soniwn yn gyfoes am y cadarnhau sy'n arwain i uchafbwynt mewn Gogoniant, sôn yr ym am fframwaith meddwl angenrheidiol gyfoes. Dyma'r ffordd feunyddiol o fawrygu a dyrchafu enw a phwrpas Duw yn ein calonnau mewn dyddiau blin. Mae'n ystyriaeth amserol hyd yn oed i'r llenor heddiw.

Mae llawer o efrydwyr llên yn ymddiddori yn ymwybodol ym 'methiant' y mudiad Ôl-fodernaidd mewn Beirniadaeth Lenyddol yn chwarter cyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Cafodd hynny effaith ar hynt a helynt diwylliant yn gyffredinol am dro. Ond 'methodd' yn ddeallol oherwydd gormes rhagdybiau dogmatig cwbl ddisylwedd ynghylch *un gogwydd athronyddol yn natblygiad llenyddiaeth, sef y chwalfa o 'wahaniaethau' mewn undod*. Pethau mor werthfawr yw gwahaniaethau i'r deall. Ond pan gyfyd unbenaethdod ac unllygeidrwydd drwy'u bodolaeth ddogmatig, a phan gleddir cydlyniad cyfredol, yna wynebwn ddiffyg synnwyr ieithyddol. Wynebwn ddiffyg pwrpas a gwacter creadigol. O'r herwydd, mae yna orfodaeth waelodol yn yr ysbryd Cristnogol i wahaniaethau, yn y deall, gydweithredu ag undod yn erbyn y gwahanu unochrog.

Amryw mewn Un yw'r egwyddor gadarn i'r gair ac i iaith a llên a drosglwyddwyd gan y Tri-yn-Un; a hynny, sy'n llewyrchu ar strwythur Gogoniant. Egwyddor gariadus ac ystyrion i fywyd yw. O'r herwydd, tybiaf fod angen myfyrio'n ddwys o'r newydd am sylfeini ffurfiol a deunyddiol llenyddiaeth a bywyd ei hun, sef offer gogoneddu. Yn hynny o dasg, – chwilio am yr Amryw mewn Undod – yr her fwyaf i'r efrydydd symlaf a mwyaf cymhleth ohonom yw dewis un llyfr, sef y Beibl, am ei fod yn fwy cynhwysfawr na'r un arall. O safbwynt arddull a thymor a themâu bywyd, ni ellid cael dim mwy amrywiol yn ei undod na'r llyfr hwn. Mae'n eang; ac mae'n gul. Mae'n ymestyn o orfoledd mawl hyd iselder mwyaf difrif anobaith a chabledd, o'r goruwchnaturiol i'r naturiol, o'r gorau i'r gwaethaf. Mi dybiwn, yn gam neu'n gymwys, pan geid pob un o'r gweddau hyn rywfodd yn cymeradwyo'r crynswth o'n bywyd, y pryd hynny y cawn gipolwg ar amllder Gogoniant. Crynswth absoliwt yw, rhyfedd ac ofnadwy, sy'n bresennol ym mhopeth.

Ond dewisais yn y gyfrol hon ddilyn i raddau un theori weithredol ddisgrifiol hollol Feiblaidd, sy'n ddisgrifiad o fethod Iesu Grist yn ei berthynas â phobl. Daeth hon yn bur anochel

wrth drafod cwlwm darllen o fewn cyfnod Ôl-foderniaeth, sef 'Theori Ymateb-Darllenydd'. Mewn egwyddor seml, **rhoddir sylw i'r cylch crwn sy'n cysylltu Llefarydd wrth Wrandawydd drwy Destun**. Mae'r *triawd* yn gyd-berthnasol wyneb yn wyneb â'r Beibl. Eto'n sicr, roedd eisiau troi'r theori hon yng nghymdeithas llawer o'i chwirydd theoretig, wyneb i waered. Corfforais innau ynnddi'r egwyddor *uno* o fewn egwyddor *gwahanu*, a hynny nid yn un yn unig o fewn deall ac ysgrifennu yn unig, ond o fewn cymdeithas hefyd. Eithr yr ail, gwahanu, a fynasai ynghynt fonopoli gan Ôl-fodernwyr confensiynol cynnar. Sbwylwyd strwythur theoretig dilys oherwydd diffyg hunan-feirniadaeth. Felly y ceir cyswllt rhwng yr Ysbryd Glân, y Beibl, a Dynoliaeth.

Heb godi'r Darllenydd (yn y diwedd) ei hun i fod yn awdurdod yng nghanol y Fethodoleg hon, fe ddechreuais innau gyda'r Awdur, yn amodwr neu'n arweinydd, yn y triawd gweithredol Awdur/Testun/Darllenydd. Cymdeithas gron mewn perthynas olynol oedd beirniadaeth lenyddol Gristnogol o'r fath. Yn ogystal â hynny yr oedd cryn gydymdeimlad gennyf â'r awydd i sylwi ar lenyddiaeth o fewn y fframwaith deuol a ofynnid gan gyfrifoldeb Ymateb-Darllenydd i wrthrych. Un o'r cymhellion y tu ôl i Theori Ymateb-Darllenydd yw bod y beirniad o ddarllenydd, – sef y disgybl – gan efrydu'r cynhyrchion drwy symud o'r canlyniad i'r achos, ac o'r achos i'r canlyniad, yn gallu chwilio ac adeiladu darlun neu ddisgrifiad o feddwl yr Awdur. O leiaf, nid yw'n gwadu nac yn difrio'r posibilrwydd hwnnw fod yr Awdur yn bod yn ei destun. Cyferfydd y ddau ben yn y Testun. Mewn Theori Ymateb-Darllenydd (Ddiwygiedig), felly fe fyn y fethodoleg, sydd ar gerdded (eisoës yn y teitl) i'r ddau gyfeiriad arall ymwybod â pherthynas organaidd gydlynol yn y triawd. Yn yr achos hwn, yr Ysbryd Glân sy'n trefnu hynny fel y'i mynegai'i hun yn y Beibl, ac olrheinir y symudiad amrywiol hwn yn benderfynol i lawr tuag at y Darllenydd a'i ymateb amlweddog cyfrifol ef. Dibynnwn, wrth gwrs, yn hyn o beth, ar y cyfarwyddyd a ddywedai tystiolaeth fewnol y *Beibl* ei hun ynghylch Awduraeth, bob tro o dan egwyddorion y Beibl. A gwelwn yn burion y byddai'n rhaid cadw'r berthynas rhwng awduron ac Awdur mewn golwg, yn ogystal ag Awdur a Darllenydd. *Ymateb cyflawn y Darllenydd o Gristion yn y diwedd yw gogoneddu.* Yn union ar ôl Pum Llyfr Moses lle y canolir ar y Ddeddf, dyma Dduw yn Josua 1:7-8 yn cyfarch yr Eglwys (Israel) ar y pryd, ac yn gosod gerbron yr hyn a fwriedid yn ddiau i'r holl ddaear: *'Yn unig bydd yn gryf a dewr iawn, a gofala weithredu yn ôl yr holl gyfraith a orchynnodd fy ngwas Moses iti. Paid â gwyro oddi wrthi i'r dde na'r chwith, er mwyn iti ffynnu ple bynnag yr ei. Nid yw'r llyfr cyfraith hwn i adael dy enau; yr wyt i fyfyrio ynddo ddydd a nos, er mwyn iti ofalu gwneud y cyfan sy'n ysgrifenedig ynddo.'* Cyfansawdd oedd. Fframwaith awdurdodol oedd i gychwyn taith y ddaear. Er mai'r Ddeddf fyddai'r thema gyson a lywiai Israel yr Hen Destament, a Gras fyddai'r thema gyson drwy Israel y Testament Newydd, yr oedd Gras eisoës yn bresennol yn yr Hen, a Deddf yn aros yn wythien aur drwy gydol y Newydd. Y mae Deddf ei hun yn rasmusol. Ufuddhawn dan argyhoeddiad

i'w phrydferthwch. Mae'r berthynas felly rhwng yr Hen Destament a'r Newydd yn undod cyfriniol rhyfeddol sy'n teithio tua nod.

Ond yr wyf am barhau'r gymhariaeth a wneuthum eisoes pan gyfeiriais at berthynas yr Awdur a'r awduron. Dyma'r *Tafod* tân anweledig mewn diwygiad bach, dyweder, gyda dau unigolyn, Awdur a Darllenydd, a *Mynegiant* deunydd tangnefeddus gweledig, yn ymaros gyda'r dadansoddiad yn nhermau iaith gorfoledd. Wrth geisio olrhain y Weithred hierarchaidd ddeunyddiol yn y *Cynllun sy'n Canu*, 2010, awgrymais fod yna fframwaith ieithyddol dwfn a gyflyrai'r gwaith o lenyddu. A deddfwriaeth reidiol ac anochel oedd iddo, sef y term technegol Tafod. Cychwynnai hwnnw yn yr Absoliwt. Ei gynllun dwfn Ef ydoedd. Rhagosodir Absoliwt. Symudai ymlaen yn y meddwl drwy drefn Ffurf a Deunydd nes cyrraedd Metanaratif a Thema, ac yna'r Mynegiant o bob math. Âi o'r Cynllun i'r Mynegiant. Ond yr oedd bob amser y tu ôl i Fetanaratif a Thema adeiladwaith cyflyrol ysbrydol. Roedd gan Fetanaratif a Thema eu strwythur disgybledig a'u caniatâi ac a'u cymathai â'i gilydd. Mae modd dilyn pob un o'r arweddau hyn drwy astudiaethau diderfyn. Y cymhlethdod a gyfeiriai'r daith ac a roddai'r egni.

Awgrymaf ddau derm ychwanegol a newydd felly wrth droi'n ôl at y berthynas rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, yn wir at yr undod cwbl angenrheidiol a chyfoethog tu hwnt rhyngddynt. Gwelaf, eisoes yn yr Hen, yn y **Deunydd**, *Gyn-fetanaratif* a *Chyn-Themateg* sy'n amodi'r Hanes a'i ddiwedd. Duw biau'r ddwy ffordd o fyw ac o gymdeithasu hyn. Mae yna fwy o lawer nag olyniaeth ddatblygol a chronolegol yn y Ddau Destament. Mae yna botensial tragwyddol yn disgwyl. Mae yna undod ewyllys yn y **Cymhelliad** neu'r patrwm deunyddiol ysgogol, yn disgwyl aeddfedrwydd, sy'n amodi'r Metanaratif, cywair syniadol ein cyfnod. Ac mae yna undod dwfn hefyd yng **Nghynllun** y storïaeth a'i chynnwys.

Gwewyd yr Hen Destament yn ôl bwriad ac ystyr mewn nifer helaeth o ffyrdd drwy gydol y Testament Newydd. Yn wir, nid yw'r term 'Hen Destament' yn digwydd yn y Beibl. Ni buasai Pedr wedi deall y term. Yn y cyfnod hwnnw paratöid themâu'r Newydd ymlaen llaw. Sylfaenid felly mewn Hen Destament (sy'n amlwg anorffen) y 'Gorffennwyd' a geir wedyn gan y Testament Newydd. Y dyfnder unol hwnnw sy'n esgor ar y Gogoneddu. Y 'Gorffennwyd' hwn sy'n addurno'r holl siwrnai benbwygilydd i'r Cristion ffyddlon o Ddarllenydd, o ogoniant i ogoniant. Dyma'r gwahaniaeth rhwng llenyddiaeth Oruwchnaturiol a llenyddiaeth Naturiol. Pwysleisiais o'r blaen nad yw Cristion, wrth gwrs, oherwydd Gras Cyffredin, yn 'well' llenor oherwydd ei greddo, na'i fod chwaith (druan, ac yntau'n llai na'r angylion) yn medru ysgrifennu llenyddiaeth Oruwchnaturiol. Ond y mae cylch ei ddealltwriaeth o fywyd yn fwy sylfaenol gynhwysfawr na'r anghredadun mewn dau ddimensiwn. Gall fod llawer adeilad ar hyd y ffordd drwy Natur syrthiedig i'r Ddinas hon. Ceir llawer o olygfeydd amrywiol hyd yr ymylon. Ond un bwlech sydd o'n blaenau ni. A thrwy'r bwlech

cariadus hwnnw yr arweinia'r ffordd. Duw a balmantodd y ffordd honno, yn rhad ac am ddim. Cyn ein geni, fe'i trefnodd. Nid tarmac sy'n ei gorchuddio, eithr gwaed. Ffordd ydyw sy'n berson. 'Myfi yw'r ffordd.' Rholiwyd y Garreg yn ôl wrth y Dollborth arni. Symudwyd y rhwystr ysgeler inni symud ar hyd y ffordd, y rhwystr ysgeler rhag inni ganfod Duw wyneb yn wyneb yn ei Ogoniant, rhag inni gyrraedd y diwedd. Yr un yw'r cerbyd gogoneddus arni beth bynnag yw'r gweddau a welwn ni arni: cynnig edifeirwch, gras, ymostyngiad, trugaredd – pa enw dethol bynnag a ddirnadwn ar y pryd yn y Beibl. Yr un enw yw pob enw, – enw gogoneddus Iesu Grist ei hun. Fe freintwyd y Greadigaeth â phresenoldeb Duw-ddyn cynhwysfawr. Drwy waith Ei Ysbryd Ef y caniatéir bywhau'r ysbryd unigol. Oherwydd taliad y doll ar y Pren, y mae'r ffordd hon yn glir i'r nefoedd wen. Teithier hyd-ddi felly mewn llawenydd tua'r Gogoniant. Dyma fraint yr Eglwys. Dyma ben draw'r Beibl, a gwaith Iesu Grist. Mae'n llawnach o ystyr na dim arall a gynhyrchwyd yn y byd. Fe'n gwahoddwyd ni i fod yn bobl y Ffordd.

Mae'r Cristion cyfoes yn deffro yn barod iddi ben bore. Ni ellir traethu syndod y cyfarfod beunyddiol hwn. Pa beth newydd sydd o'th flaen? Rwy't yn awyddus heddiw i gadw cyswllt agos â Duw. Yr wyt am iddo lenwi dy feddwl a gweithio yn dy holl bersonoliaeth drwy'r dydd. Yr wyt am iddo eplesu yn dy ysbryd mewn modd personol. Beth gei di ei wneud yn awr? Beth yw gwrthrych dy gynhemlu heddiw? Gwyddost am weddi, wrth gwrs. Ond bellach, beth yw cynnwys canolog dy weddi? Sut y cei gymdeithas â'r Duw hwn? A'i fwynhau? Sut y cei ymwybod â'i bresenoldeb? Gogoneddu yw'r ateb. Adnabod Duw yn holl feinwe'r enaid yw dy angen beunyddiol. Mae a wnelo'r ateb i'r cwestiynau hyn â'th holl berson. Gwylier rhag ymgyfyngu i un wedd yn unig. Wrth drafod y 'profion' o fodolaeth Duw, er enghraifft, mewn deddfau naturiol, (er nad dyna'r llwybr oll i'w ddilyn i grediniaeth), fe gyffyrddir yn ysgafn â rhai eraill o briodoleddau Duw. Sylwa'r meddwl arno fel Creawdwr creadigaeth hardd ac fel Deddfroddwr cyfiawn a daionus. Ond fe all ymaros a chynhemlu'r agweddau hynny mewn egwyddorion dueddu i gadw myfyrdod y crediniwr mewn cywair haniaethol neu synhwyrus. Bod personol-anfeidrol cynhwysfawr, nid haniaeth nac athroniaeth yn unig, yw'r Duw hwn a ddatguddiwyd inni gan yr efengyl Gristnogol. Ac fe'i datguddir ymhellach ac yn effeithiol, nid drwy ymresymu a dadlau o fewn amser-a-gofod, eithr drwy'r ffordd ymarferol a gweithgareddol a arddengys Ysbryd sy'n dy gwmpasu mewn Person.

Tystiolaetha'r Ysbryd yn sicr am yr Arglwydd Iesu Grist yn y Beibl. Wele Ef yn y canol.

Duw yw Ef sy'n ymwneud â phob unigolyn yn ôl ei angen. Pan atgyfodir yr ysbryd dynol marw, dyma'r Bod personol yn cyfeirio'n benodol ato. Gellir mwynhau'i Greadigaeth yn yr Eglwys, ond gellir mwynhau'r Crëwr yno yn well o lawer. Gellir darllen Ei eiriau, ond drwyddynt gall darllenydd ddeall y Gair hefyd. Ac yna mewn gweddi, drwy ymwybod â'i Berson byw atgyfodedig Ef, gellir cyrraedd Un sy'n cynnig Ei gymdeithas i ti ac i mi. Drwy ufudd-dod ymarferol iddo,

drwy'i wasanaethu yn Ei gariad at ein cyd-bechaduriaid, yng ngŵydd yr anghenus a'r amddifad, megis yn wyneb y claf ac yn nagrau'r sawl a fradychwyd ac a dlodwyd, cais Ef ei hun di. Arhoser drwy'r Ysbryd Glân ynddo. Efô a oleua ac a arweinia i bob gras. Sylwer ar yr hyn a enwai'r Ysgrythur fel y materion canolog. Mor ofalus yw ei rhybuddion ynghylch ffugio Gogoneddu.

Ymhlith y materion a gysylltir â'r Ysbryd, weithiau (ysywaeth) fe sonnir yn ormodol (yn gadarnhaol ac yn negyddol) am 'lefaru â thafodau' o wahanol fathau a chwilio am brofiadau dieithr y dyddiau hyn. Gall y ffenomen hon ddigwydd ar achlysuron eithriadol. Ceir rhywrai weithiau sy'n cyfarfod yn benodol i 'siarad â thafodau'. Clywir am dwyllo yn y cyfeiriad hwn. Clywir am hyfforddi pobl sut mae'i gwneud hi. Yn sicr, gorbwysleisir y ffenomen gan lawer. Ymddengys i mi fod Paul yn ymwybodol iawn o'r peryglon hyn. Nid yw'n mynd mor bell â chynghori, 'Os gellwch *beidio* â llefaru â thafodau, *peidiwch*', – yn debyg i'r fel y cynghorodd Martyn Lloyd-Jones rywun (pan holwyd ef untro) ynghylch pregethu. Ond mae yna bethau gwell i'w gwneud a'u ceisio, megis caru gydag amynedd a chymwynas, yn anhunanol, yn 'proffwydo' (hynny yw, drwy ledur llawenydd yn y Gair). Dywed Paul: (1 Cor.14): 'Y mae'r sawl sy'n llefaru â thafodau yn ei adeiladu ei hun, ond y mae'r sawl sy'n proffwydo yn adeiladu'r eglwys...Wrth lefaru â thafodau, os na thraethwch air y gellir ei ddeall, pa fodd y gall neb wybod beth a ddywedir? Malu awyr y byddwch... Mi weddiâf â'm hysbryd, ond mi weddiâf â'm deall hefyd.' At ei gilydd, tybied yr wyf fod Paul yn ystyried bod 'llefaru â thafodau' pan fo'n weithred breifat yn briodol. 'Diolch i Dduw, yr wyf fi'n llefaru â thafodau yn fwy na chwi i gyd. Ond yn yr eglwys, y mae'n well gennyf lefaru pum gair â'm deall, er mwyn hyfforddi eraill, na deng mil o eiriau â thafodau.'

Mae'r pwyslais mawr yn y Beibl a'r Ysbryd Glân ar *ddeall*. Ond deall y Gogoniant a chwenychwn sy'n cael ei eneinio yn y galon gan yr Ysbryd; dyna yw'r deall uchaf. Dyna'r pryd y down yn wir fyw yn ein haddoliad a'n meddwl. Dyma'r pryd y bu'r Ysbryd Glân yn disgwyl amdanom i ddangos gogoniant Duw i ni, yn yr 'Ymateb-Darllenydd', gan ddarllen hyd at ddawnsio weithiau. Ni sieryd Duw â Christion heb Ymateb.

Gogoneddu yw'r Ymateb hwn.

Cyn i'r Ysbryd fywiocáu, ni allesid gwerthfawrogi ei fodolaeth. Rhywbeth i'w anghofio oedd, efallai, mewn crefydd ac ymrwymiad mor llawn o Hanes, Dysgeidiaeth, Ymarfer a Phrofiad. Gallai er hynny anesmwytho arnom ar dro. I'r dyn naturiol gellir ei wrthod am ei fod yn ei dywyllu ar y pryd, o bosibl. Cornel fechan dywyll oedd iddo yn ei gyfansoddiad. Ond hyd yn oed yn nhywyllwch pechod, gall goleuni ystyrllon dreiddio'n wrthrychol oddi wrth yr Ysbryd ei hun o'r tu allan a throi'n berthnasol y tu mewn. Cyn hynny yr oedd ar wahân ac yn farwaidd. Ond wedi ei oleuo yn y tywyll leoedd, gwelir mai potensial oedd yno drwy'r amser. Fel hedyn mân mewn diffeithwch a orweddaï dan y tywod am flynyddoedd nes i'r glaw ddod ac yn sydyn y blodeuai ac y

llewyrchai'n las, felly y mae'r 'peth' cudd hwn. Llefara'r Tafod ysbrydol mewn deall oddi wrtho ef. Defnyddia Ef hyd yn oed tywyllwch dyn. Ac o'r diwedd bydd y disgwyl wedi dod i ben, i ateb yr addewid drwy Ogoneddu'n ddidwyll.

Anodd gorbwysleisio pwysigrwydd allweddol yr Ysbryd Glân mewn gogoneddu. Mae'n naturiol amhosibl i neb gredu mai Gair Duw yw'r Beibl, ac felly'n hawlio awdurdod llwyr, heb waith yr Ysbryd Glân yn yr enaid tlawd. Does dim modd chwaith sylweddoli mai'r Arglwydd Iesu Grist yw Mab Duw, nac mai Ef o'r herwydd yw'r Iachawdwr, heb i'r Ysbryd Glân ddangos i bechadur mai pechadur yw. Gwir bod y Greadigaeth oll yn tystiolaethu i beth o ogoniant Duw yn ddigon i blygu'r anghenus balch. Ond heb i'r Ysbryd Glân gyffwrdd â'r galon ni byddai'r Greadigaeth honno – fel yr Ysgrythurau, ac fel yr Arglwydd Iesu ei hun – yn datgan yn groyw ei phwrpas a'i daioni a'i chreadigrwydd. Coron pob llenyddiaeth yw'r Beibl: fe'i cynigir i bawb a'i myn.

Gwelsom uchod ein hymgais i esbonio proses darllen Cristnogol fel union ddarllen 'llythrennol' (gyda phosibilrwydd o sianelu troadol) hyd at gyrraedd y galon. Dwi'n credu, o'r saith dystiolaeth o Dduw a enwid yn y drafodaeth hon – Synnwyr o Dduw, Cydwybod, Creadigaeth, Beibl, Mab, Ysbryd Glân, Eglwys – mai'r un y cyfarfyddir ag ef yn ddigwestiwn fel arfer ac a dderbynir yn ddi-fai gan ddyn yn wyneb ffaeledigrwydd ei feddwl ei hun, ac a dderbynir yn ddi-oed yn 'brawf' sicr, fyddai gwaith yr Ysbryd Glân. Ni byddai'r un o'r lleill ysywaeth yn dystiolaeth gyraeddadwy *hebdo* Ef, nac yn cael nyth yn y ddealltwriaeth heb ei warant Ef. Gydag Ef, y mae pob un gyda'i gilydd yn brawf digonol o fyw. Tystio a wnânt oll, yn wrthrychol am Dduw. Ond dônt yn oddrychol effeithiol dan sêl *ac* yn ogystal yn wrthrychol drwy'r Ysbryd Glân. Dyma'i alwad arbenigol. Diolcher am yr Ysbryd gogoneddus hwnnw a'i drefn.

Gwirionedd ei dystiolaeth ddi-doli sy'n diffinio'r gymuned hefyd, yr Eglwys anweledig sydd yng nghalon Crist. Ac fel y mae Duw yn undod (Monistiaeth), felly y mae'r Eglwys yn undod. Gwir bod yna dair gwedd bersonol i'r undod hwnnw yn y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân; ond y mae'r sylweddoliad o undod yn rhagflaenu'r wybodaeth am Drindod. Nid pwysicach yw, ond blaenora yn ffurf ysbrydol Duw. Ac wrth gwrs, y mae hynafiaeth dragwyddol y naill briodoledd a'r llall, megis Un ac Amryw, yn anfesurrol ddi-dor.

Yn y Beibl, ceir pob peth y mae ei wir angen ar ddyn o safbwynt deall y Gogoniant. Ceir y cyngor yno ynglŷn â pherthynas dyn mewn priodas a cherbron awdurdodau seciwlar; pwrpas a gwerthoedd y Greadigaeth i gyd; mwynhad o'r gwyddorau a'r celfyddydau; anrhydedd y corff a'r enaid; sancteiddio gwaith beunyddiol; ac egwyddor ddifrif a sylfaenol heddwch. Mae'n esbonio hefyd hanfod ein bodolaeth oll a'r modd i fyw a marw. Nid oes ymgais i dwyllo ynghylch niwtraliaeth a difaterwch. Tyfodd ysgrifeniadau'r Beibl yn unplyg o gam i gam dan arweiniad yr

Ysbryd Glân o'r dechrau hyd y diwedd. Ni thyfasant bob amser yn amseryddol gronolegol, ond yn ffurfiol addas; heb unrhyw ymgais i fod yn academiaidd, er bod yna ddyfnderoedd mawr. Hanes a Mawl ydyw gan awdur Bywyd yn siarad yn uniongyrchol â chalon dyn.

Ceir, ar ffurf rhyddiaith gan mwyaf, awduron dynol o wahanol gyfnodau wedi'r Creu – ynghyd ag awduraeth yr Ysbryd Glân – yn estyn eu gweledigaeth o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb i ogoneddu. Yr oedd yr Ysbryd Glân hwn (trydydd person y Drindod) wrth raid, yn amgyffred ystyr a chydlyniad pob peth. Gwyddai feddyliau pawb, gweithredoed a geiriau pawb, y cudd a'r amlwg, y gorffenedig a chyflawn. Aeth drwy Anffaeledigrwydd Duw i arwain ffaeledigrwydd dyn. Dyna sy'n nodweddu perthynas yr awduron a'r Awdur hefyd. Daeth yr Awdur o'r Gogoniant i dystiolaethu mai Duw yn unig a fedr ddweud yn ddigonol am Dduw.

Llenyddiaeth Wir yw'r Beibl gan yr Un sy'n Wirionedd ynddo ef ei hun. Llenyddiaeth Ddoethineb yw gan y doethaf oll. Gallu a nod yr Ysgrythur oedd datguddio a chlodfori. Fe'i gwnâi drwy enau Proffwydi ac Offeiriaid. Weithiau gweithredai mewn barddoniaeth, a gynhwysai (1) Trosiad, Alegori; (2) Trefn, ffurf ddeuol a thriol; a (3) Llenddulliau: Mawl, megis Doethineb (Cyfraith), Hanes (Stori), a Phroffwydoliaeth, gydag ymwybod hydeiml o wedduster Ffurf i Ddeunydd. (Amodwyd hyn yn gynharach drwy egluro nad creu llenyddiaeth oedd nod cyntaf yr ysgrifenyddwr gan amlaf). Ffrwydrad o lyfr llawn yw, a'r cwbl wedi'i gyfeirio o ran Cymhelliad at ogoneddu'r Arglwydd Iesu Grist.

Beth a wnaem heb yr Ysbryd Glân mewn sefyllfa fel hyn? Ni byddem yn adnabod Duw yn ein calonnau. Ni charem Ef. Ni byddai gennym yr un syniad faint y mae Duw'n galaru oherwydd arswyd ein hanghrediniaeth, ac i ba eithafion o aberth yr âi iddynt er mwyn ein cyrraedd drwy roi'i Fab i farwolaeth. Ni chredem fod yr un angen ysbrydol yn ein difetha, ac ni allem edifarhau, na'n taflu'n hun ar drugaredd Duw. Ni byddai 'Gair Duw' (1 Thes. 2:13; 1 Pedr 1:22-25) ond megis llyfr arall. Ffuglen fyddai; cyfansoddiad arall. Ni siaradai â'n heneidiau ni, na chyffwrdd â'n serchiadau gyda nerth. Ac ni chroesawem ef. Meddylier mor amddifad fyddem.

Yn yr Adran o'r 'Gyfundrefn o Gyfundrefnau' (*Institutio* Llyfr 1, Pennod 7) gan J. Calvin, sef yr adran lle y mae'r awdur yn herio Eglwys Rhufain wrth iddi honni bod angen dehonglydd gan yr Eglwys yn Awdurdodol i gredadun benderfynu ystyr yr Ysgrythur, dengys Calfin mai'r Ysbryd Glân sy'n peri inni gredu beth sy'n wir. Mae'r Ysbryd yn rhoi tystiolaeth fewnol gytûn yn uniongyrchol ac yn bersonol i bob credadun unigol. Felly y câi pob credadun fod yn Broffwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenin. Yr Ysbryd sy'n perswadio'r colledig fod ganddo neu ganddi Waredwr. Ac mae'r Ysbryd Glân hwnnw'n hunanwireddol heb ddibynnu ar ddim arall yn y fan lle y mae'r cyfarfod rhwng dyn a Duw.

Er mor llydan ei awdurdod, nid yw ysbryd dyn yn lleihau pwysigrwydd y corff mewn

Cristnogaeth. Rhydd Paul bwyslais ar y corff, 'templ Duw' (1 Cor. 3:16), gan ddysgu rheidrwydd i anrhydeddu Duw â'r corff (1 Cor. 6:20) wrth ymwneud dyweder â bwyd a rhyw. Bydd gennym 'gorff ysbrydol,' pan godwn (1 Cor. 15:44), ond bydd yna atgyfodiad i'r *holl* berson – drwy drugaredd – er bod yna weddnewidiad.

Ysbryd yw'r Un sy'n arwain ysbryd i'r gwirionedd: Ioan 14:17, 21; 15:26; 16:13, 14; ac yn seilio dealltwriaeth Rhuf. 12:11; Eff. 5:20; Col. 1:12; 2:6; 3:15-17; yn aileni: 2 Cor. 5:17; Gal. 6:15; yn datguddio'r cyfan: Gal. 1:12,16; Math. 11:25; 16:17; 2 Cor. 4:6. Ef sy'n dangos y Mab.

Buwyd yn ceisio darganfod yn y gyfrol hon, felly, sut y mae Duw yn ei ddatguddio'i hun yn bersonol yn Ei Fab ac yn Ei Ysbryd Glân, fel y gallwn ni yn y diwedd sylweddoli llawnder annisgwyl y Gogoniant. Ond ychydig o gyfeirio uniongyrchol a gafwyd at 'Dduw'r Tad' fel tystiolaethwr yn y Testament Newydd er bod hynny hefyd yn digwydd: *'Ti yw fannwyl Fab: ynot ti y'm bodlonwyd.'* Eto, Duw yw sy'n llefain yn awdurdodol yn Ei Air: *'fel hyn y dywedodd yr Arglwydd...'* Nid Duw distaw fu nac yw Duw'r Tad. Un o ffasiynau'r ugeinfed ganrif fu ceisio'i wneud yn Dduw mud. Tawelwch oedd hyn oherwydd byddardod adeg ein geni. A hoff esgus oedd i'r bobl a geisiai'i ystyried yn absennol, neu'n ddisylwedd, yn ddiawdurdod, yn amwys, ac mor ansicr byth ag y gellid. Ceid gan rywrai fyfyrion tawel (gordawel), ysbrydoledd o bob math, pobl yr awyrgylch, heb angori'n holl-gynhwysfawr yn nysgeidiaeth Duw'r Tad ei hun. Roedd hi fel pe bai Duw'r Tad yn ei gyfyngu'i hun i'r goddrychol. Ond drwy'r gweledig a'r clywedig benodol hefyd, y mae'r anweledig yn dod atom.

'Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw' (Ioan 1:1-2).

Dyma'r Tad yn *llefaru*. Gair y Tad oedd y Mab ei hun. Mae'n dweud pethau.

'Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau trwy'r proffwydi, yn y dyddiau hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab...' (Heb 1:1).

*

*

*

Ceisiais ddadlau yn y bennod hon fod a wnelo Gogoneddu â phob dim yn y Duwdod ac yn y Creu: bob smic. Ni adewir llonydd i ddim. Swyddogaeth y pethau symlaf a'r pethau mwyaf dirmygedig, llestri pob dydd, offer pob munud, y gwrthrychau lleiaf defnyddiol, mae iddynt oll le yn y gwaith uchelbwyntiol o Ogoneddu. Yn y Beibl, y mae Duw'n ein harwain o gam i gam i ogoneddu.

Pan fentrwn sôn ymhlith cwmni soffistigedig am berthynas yr Ysbryd Glân yn llenyddiaeth gyffredin yr hen gywyddau Cymraeg dyweder, un term y gellir mentro'i ynganu o hyd, er gyda llai o hyder nag a fu, yw 'ysbrydoliaeth'. Gellid esgusodi rhywun crefyddol am gysylltu'r Ysbryd ag ysbrydoliaeth, bid siŵr. Ond a oes a wnelo'r Ysbryd Glân ag ysbrydoliaeth o fath drwy Ras

Cyffredin mewn llên seciwlwr hefyd? Neu a yw'n ffenomen hollol wahanol a'r defnydd yn llac? Beth yw ysbrydoliaeth y seciwlwr, ym mryd y Cristion? Un peth y mae'r dyn modern, hyd yn oed y rhamantwr paganaidd, yn ei ddisgwyl mewn cerdd sy'n meddu ar arddeliad yw'r peth hynafol hwn. Ond beth sydd ar waith pan fydd llenyddiaeth seciwlwr yn cael ei hysbrydoli o'i chymharu â llenyddiaeth Gristnogol? O ble y mae hynny'n dod? Beth yw ei hadeiladwaith a'i chynnwys? I ble y mae'n mynd? Ai math annigonol o ysbrydoliaeth uwchnaturiol yw?

Dichon na bydd yn syn gan Gristnogion dderbyn fy nhybiaeth mai gwedd ar Ras Cyffredin yw ysbrydoliaeth hyd yn oed mewn llên seciwlwr. Fel y mae moesau da o fewn cyrraedd Gras Cyffredin yr anghredadun, gyda dyfnder a didwylledd, felly y mae ysbrydoliaeth esthetig yn medru'i gynnau hefyd. Ofnir y gair Gras pan sonia rhai Cristnogion am y Greadigaeth. Syniaf, sut bynnag, a derbyn difrod y Cwyp, fod yr hen gred sefydledig ymhlith y Cymry a fyfyriai am ysbrydoliaeth gyffredin barddoniaeth, sy'n ei thadogi yn unig ar yr Ysbryd Glân, yn debyg o ymestyn i bopeth da mewn llenyddiaeth ond maswedd pechod y Diafol. Roedd yna hen argyhoeddiad fod y peth rhyfedd hwn a ddigwyddai i'r bardd rywfodd yn y bôn yn oruwchnaturiol. Credaf fod hyn yn gamarweiniol, ond yn codi cwestiynau. Nac ofner Gras Cyffredin, ond bydder yn ofalus.

Fel popeth, rhodd oruwchnaturiol yw Gras Cyffredin. Mi gredaf mai camgymeriad yw esgeuluso'r ddealltwriaeth haelfrydig o Ras Cyffredin a Thrugaredd Duw a'i Benarglwyddiaeth hyd yn oed yn ei drugaredd at y Greadigaeth syrthiedig. Nid yw'r Beibl yn trafod theori barddoniaeth seciwlwr, mae'n wir, na llawer o wyddorau eraill, er ei fod yn berthnasol i bopeth. Ond felly y llefara'r Greadigaeth hithau, ac y'i datguddir. Nac ofner, ond bydder o hyd yn ofalus. Syrthiedig ydym, a heb ein perffeithio eto.

Pa fath o beth yw ysbrydoliaeth gyffredinol? Ai cyfuniad yw mewn Gras Cyffredin i ddod at ei gilydd yn isymwybodol i fawrygu Duw? Fel y mynyddoedd. Ymddengys i mi fod yna gydlynid neu gyd-drawiad o sawl elfen ynddi mewn modd esthetig. Cyd-drawiad yw. Mae llenyddiaeth dda yn wir yn fywyd; a golyga hynny uniongyrchedd 'awen' heb fod yn ddynwardol, eithr yn unol â gwir weledigaeth am fywyd. Golyga hefyd ysywaeth bresenoldeb llygredd. Ceir undod a manylder, hyd yn oed patrymwaith yn y rhediad geiriol, a chroywder syml yn naws y geiriau. Ac y mae'r amrywiaeth yn cyffwrdd o'r newydd – er y Cwyp – â thema sy'n werth-chweil a Metanaratif Cristnogaeth gyfoes. Sef cadarnhau. Ond ni wna Gras Cyffredin Gristioneiddio neb.

Ni raid i lenyddiaeth Gristnogol ragori'n esthetig ar raen a gloywder y llenyddiaeth anghrediniol, os cymerwn Ras Cyffredin o ddifrif fel dawn haelfrydig gariadus. Yn y Beibl a'i blant (llyfrau a ysbrydolir gan y Beibl), cawn beth arall, sef Gras Arbennig awdurdodol ynghyd â Gras Cyffredin. Mae Gras Arbennig yn estyn y golwg ar Fetanaratif bywyd ac yn rhoi cyd-destun a'i

ddawn fendithiol i'r parch at werthoedd, hyd yn oed at rai esthetig. Wrth gwrs, gyda'r llenor o Gristion, megis y llenor sy'n anghredadun weithiau, ceir ymwybod o lygredd. Ond gyda'r Cristion mae yna fantais thematig ar gael wrth sylweddoli natur dri-dimensiwn gostyngeddwrdd ac aberth, cariad heb gyfrif cost, a budreddi balchder.

Gall fod yna ddyfnder o fath arbennig gan lenyddiaeth y Cristion. Rhaid bod yn wylidwrus wrth werthuso o fewn cyd-destun metanaratif Gras Arbennig ynghyd â gwerthuso o fewn doniau esthetig Gras Cyffredin. Mewn llenyddiaeth yng Nghrist, mae yna gyd-destun o arddeliad a gwerth y gellid ac y dylid ei estyn yn gymharol i bob cyflead o'r bywyd ysbrydol, gan gynnwys maes Diwygiadau er enghraifft. Sylwer fel y newidia Cristnogion cyffredin o fewn diwygiadau dilys. Ysywaeth, ceir gormod o ymgais ymhlith rhai crefyddwyr i gynhyrchu adfywiadau 'Efengylaidd' fel y mae'n rhaid bod yn llym o hunanfeirniadol ynghylch eu cyffroadau. Dianrhydeddir diwygiadau, yn arbennig ar y cyfryngau, gan ymddygiad ffug, allanolion 'gwneud', a mwynhad cnawdol. Ceir sioe. Sonnir am y neges heb ei grym. A thybïa'r Cristion ofnus mai cadw draw sydd ddoethaf rhag y ffug hwn. Gwyddai Pantycelyn, fel Thomas Charles a John Elias, yn burion, beth oedd y frwydr hon rhwng ysbryd y gwirionedd yn erbyn y poblogaidd gnawdol. Mae'r poblogaidd bob amser gyda ni. Rhinwedd amheus yw bob amser. Ond gwyddai'r Beibl am lwydd yr ysbrydoliaeth ddilys, nes bod y gwirionedd yn gwefreiddio bywyd, nid â theimladrwydd ond ag ystyr barhaol. A gwyddai Cristnogion hunan-feirniadol drwy'r oesoedd am wylidwriaeth fel y tri Chymro a enwyd yma i gynrychioli'r fuddugoliaeth ddilys. Gwylier, ond na wylidwriaeth mewn ysbryd cyndyn o negyddol: gwylier y perygl achlysurol o ddrwgdybio mynegiant o lawenydd a all fod yn ddidwyll. A gwylier rhag rhoi'r argraff fod peidio â rhoi mynegiant i'r teimladau yn rhywbeth i'w ganmol.

Ceir cryn lawer arall yn allanol sy'n gyffredin i Gristion ac i anghredadun. Ond y mae adnabod y dilys anghyffredin yn ddyletswydd feunyddiol i Gristion. Bwm yn sôn am yr angen i ddehongli'r Beibl yn ysbrydol ffyddlon – hynny yw, darllen y Beibl yn onest a chan ymestyn tuag at yr ufudd-dod meddwl llawnaf. Dyna adael i'r Beibl ei ddehongli'i hun, heb geisio'i chwynnu er mwyn bodloni'n cyfyngdra sentimentau a'n cyfyngdra rhagdybiau ni. Cofiwn Bwy sy'n siarad drwyddo.

Ar ryw olwg, pan fydd yr Eglwys (yn ystyr 'y tröedigion') yn darllen y Beibl yn wylaidd a hyd yr eithaf, y mae'r Ysbryd Glân yn dwyn adfywiad dirgel o ryw fath, yn dawel neu beidio. Gall fod yn oleud lleoledig ond triw mewn cwmni bychan. Mae'n tanio'r Eglwys mewn cyfwng â gras a grym y Cariad dwyfol. Mae'r bobl y pryd hynny yn derbyn y gwirioneddau heb chwarae â hwy na'u cystwyo. Y maent yn edrych yn syth yn eu hwyneb, ac yn plygu, er eu bod bob amser yn syrthiedig. Ni raid bod yna gythrwbl.

Hynny yw, yr hyn sydd dan sylw yw bod yn wylidwrus ofnus ynghylch dilysrwydd

'diwygiadau' a chymysgedd priodoledau, yn arbennig lle y bo'r cyfryngau poblogaidd ar waith. Cyn 1859, pryd y cafwyd y Diwygiad Calfinaidd olaf ledled Cymru ar raddfa adfywiol, ceid rhai ffactorau newydd a fuasai'n cymysgu'r norm unionged oherwydd dylanwad Finney a Humphrey Jones. Pam y digwyddai'r fath wanhau? Oherwydd mai hoff gan y Diafol ymyrryd yn y lleoedd gorau. Ac eto, y norm unionged yn yr eglwysi Cristnogol ffyddlonaf oedd dyfnhau dysgeidiaeth a gweddi ddwys ynghyd ag ymarfer â thrugaredd tuag at eraill. Nid oedd a fynnent â gwasgu seicolegol, nac ymarfer â 'syrthio' neu 'broffwydo'n oddrychol' ganlyniadau rhyfeddodau. Ni roddid apêl fformiwlëig o ran tacteg i 'wrandawyr' ddod ymlaen i'r Sêd Edifeiriol. Ac ar y pryd o'r herwydd, ceid mannau unionged lle y ceid yr Ysbryd Glân yn ffynhonnell unigryw i Ras. Ac yno yn nydd etholedig Duw, yn ei ddiwyg Ef, fe ddisgynnai ysbryd gweddi, dwysâi a gostyngai calonnau, sychedid am yr ysgrythurau, ffrwydrai fel y gwneid ym Mhentecost. Neu megis y gwnâi yn Actau 16:31, digwyddai efallai'n eithriadol o dawel weithiau. Mae hwnnw hefyd yn Ogoniant, a'r un mor onest.

Ond gwaetha'r modd, gwelwyd eisoes ym 1859 gymysgu o'r grymsterau hyn â dyfeisiau newydd. A datblygid ymhellach felly tan 1904.

Amhosibl mesur maint nac arwyddocâd yr ymweliadau hyn gan yr Ysbryd Glân. Tardd pob diwygiad gwirioneddol yng Ngair Duw. Pan fo'r encilio lleiaf oddi wrth y safon yna yn digwydd, y pryd hynny, y mae'r Ysbryd ei hun yn cael ei glwyfo, ac y mae'r diwygiad yn cael ei beryglu. Digwyddai'n amlwg iawn yn y cyfnodau pryd y'i cyfodai dyn ei hun i fod yn Dduw uwchlaw'r Beibl heb chwilio am y gwallau sydd yn ei galon ei hun.

Diolch am ffyddlondeb y Beibl a rydd gyngor iawn ymhob cyfwng, sy'n bywhau'r meirwon, ac yn ysgogi ffurf a deunydd delfrydau a phrofiadau.

Gymaint o wareiddiad a gollwyd i rai yma ac acw pan gollwyd y Beibl fel grym graslon diflewyn-ar-dafod yng Nghymru. Oherwydd gwacter ystyr ac anghrediniaeth, collwyd mewn llawer man olion y mawredd ysbrydol a geid gan Eseia 6 a 9 a 40, gyda'r weledigaeth anfarwol yno o Feseia. Ac yna collwyd yr orymdaith o Eseia 52 hyd 55. Ac wedyn, penodau mawrion Paul yn Rhufeiniaid, Effesiaid a Galatiaid a'r mynyddoedd o ryfeddodau sydd o Genesis 1, ymlaen, gyda'r damhegion a'r pregethau gan yr Arglwydd Iesu yn Luc a'r weledigaeth anferthol o'i gariad a'i aberth iawnol ar y Groes yn Ioan a'r efengylau eraill. Ni chollwyd yn unman gyffelyb fawredd llenyddol ag a wnaethpwyd pan drodd yr eglwysi eu cefnau ar harddwch ysblennydd y Beibl. Fe amddifadwyd plant ein bröydd o'r aruthredd hwn yn ein hetifeddiaeth oherwydd sentimentaliaeth ac ymwrthod â disgyblaeth ddeallol, oherwydd ffug wrthryfel arwynebol, a gwacter cnawd ac enaid y sêd fawr a'r pulpudau. Gwae ni Sodom! Gwae ni, gwae Aberystwyth. Nid 'ble mae'r Amen?' yw'r cwestiwn mwyach. Ond 'ble aeth y Gogoniant?'